Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# BIL IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL (CYMRU)

## Memorandwm Esboniadol

yn ymgorffori'r
Asesiad Effaith Rheoleiddiol a'r
Nodiadau Esboniadol

**Ionawr 2025**

# Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru)

## Memorandwm Esboniadol ar gyfer Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru)

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Grŵp Iechyd, Gofal Cymdeithasol a’r Blynyddoedd Cynnar Llywodraeth Cymru ac fe’i gosodir gerbron Senedd Cymru.

Lluniwyd a gosodwyd ef yn wreiddiol yn unol â Rheol Sefydlog 26.6 ym mis Mai 2024, a gosodir Memorandwm diwygiedig yn awr yn unol â Rheol Sefydlog 26.28.

## Datganiad yr Aelod

Yn fy marn i, byddai darpariaethau Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru) a gyflwynwyd gennyf i ar 20 Mai 2024 o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru.

**Dawn Bowden AS**

Y Gweinidog Gofal Cymdeithasol
Yr Aelod o'r Senedd sy'n gyfrifol am y Bil

21 Ionawr 2025

# Cynnwys


| **Rhan 1 – MEMORANDWM ESBONIADOL** | | Tudalen |
|---|---|---|
| | | |
| 1. Disgrifiad | | 3 |
| 2. Cymhwysedd Deddfwriaethol | | 4 |
| 3. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael | | 5 |
| 4. Ymgynghori | | 31 |
| 5. Y pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth | | 34 |
| | | |
| | | |
| **RHAN 2 – ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL** | | |
| | | |
| 6. Crynodeb o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol | | 49 |
| 7. Opsiynau, costau a manteision | | 56 |
| 8. Asesiad o'r Gystadleuaeth | | 161 |
| 9. Asesiadau Effaith | | 164 |
| 10. Adolygu ar ôl Gweithredu | | 179 |
| 11. Asesiad Fforddiadwyedd | | 182 |
| | | |
| **ATODIAD 1 – Nodiadau Esboniadol** | | 188 |
| **ATODIAD 2 – Mynegai Rheolau Sefydlog** | | 207 |
| **ATODIAD 3 – Atodlen o Ddiwygiadau** | | 211 |
| **ATODIAD 4 – Dileu elw – costau Opsiwn 2 (Senarios A, B ac C) pan gant eu cymhwyso trwy'r cynnig gwreiddiol o gyfnod gweithredu 3 blynedd** | | 329 |

# RHAN 1 – MEMORANDWM ESBONIADOL

## 1. Disgrifiad

1.1. Mae Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru) yn cynnwys darpariaethau i wneud y canlynol:

(i) dileu elw preifat o ofal plant sy'n derbyn gofal;
(ii) galluogi cyflwyno Taliadau Uniongyrchol ar gyfer Gofal Iechyd Parhaus y GIG; a
(iii) gwneud diwygiadau i sicrhau bod Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn gallu cael eu gweithredu'n llawn ac yn effeithiol.

## 2. Cymhwysedd Deddfwriaethol

2.1. Mae gan Senedd Cymru (“y Senedd”) y cymhwysedd deddfwriaethol i wneud y darpariaethau ym Mil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru) (“y Bil”) yn unol â Rhan 4 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (“Deddf 2006”) fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cymru 2017.[1]

---

[1] DS Mae paragraff 4 o Atodlen 1 yn gwneud diwygiad canlyniadol i adran 6 o Ddeddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006 a'i effaith yw addasu swyddogaethau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (“DBS”). Mae'r DBS yn “awdurdod a gedwir yn ôl” yn nhermau Atodlen 7B i Ddeddf 2006 ac mae'r ddarpariaeth sy'n addasu swyddogaeth y DBS o fewn cymhwysedd os yw'n destun cydsyniad un o Weinidogion y Goron. Cafwyd cydsyniad Gweinidog y Goron ar 11 Hydref 2024.

# 3. Diben y ddeddfwriaeth a’r effaith y bwriedir iddi ei chael

3.1. Gan adeiladu ar y weledigaeth a nodwyd ym Mhapur Gwyn 2011 ar Wasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy, mae cyfraith gofal cymdeithasol yng Nghymru wedi cael ei diwygio a'i chydgrynhoi drwy Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (“Deddf 2014”) a Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 (“Deddf 2016”).

3.2. Sefydlodd Deddf 2014 fframwaith newydd ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol yng Nghymru. Mae'n darparu'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer gwella llesiant pobl sydd angen gofal a chymorth, ar gyfer gofalwyr sydd angen gofal a chymorth ac ar gyfer trawsnewid gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru.

3.3. Mae Deddf 2016 yn darparu fframwaith statudol ar gyfer rheoleiddio ac arolygu gwasanaethau gofal cymdeithasol a fframwaith ar gyfer rheoleiddio’r gweithlu gofal cymdeithasol yng Nghymru.

3.4. Drwy'r Rhaglen Lywodraethu wedi'i Diweddaru, mae Gweinidogion Cymru yn ceisio gwella gofal cymdeithasol, a'r rhyngwyneb iechyd a gofal cymdeithasol, yng Nghymru ymhellach.

**<u>Dileu elw o ofal plant sy'n derbyn gofal</u>**

**<u>Y cyd-destun</u>**

3.5. Mae "plant sy'n derbyn gofal" yn cael llety gan awdurdod lleol, naill ai oherwydd nad oes gan unrhyw un gyfrifoldeb rhiant drostynt, neu oherwydd bod eu rhiant neu ofalwr wedi'i atal rhag gofalu amdanynt neu ei fod yn methu â gofalu amdanynt, neu fel arall yn unol â "gorchymyn gofal" a wneir o dan adran 31 o Ddeddf Plant 1989 (“Deddf 1989”), neu "orchymyn interim" a wneir o dan adran 38 o Ddeddf 1989. Os nad yw lleoli plentyn gyda'i riant/rhieni yn gyson â llesiant y plentyn, neu nad yw'n rhesymol ymarferol, mae'r plentyn yn cael ei leoli gyda rhiant maeth (gan gynnwys trefniadau gofal gan berthnasau) neu mewn cartref plant.

3.6. Pan fo plentyn yn destun gorchymyn gofal a wneir gan lys mewn achosion cyfraith gyhoeddus, mae adran 33(3)(a) o Ddeddf 1989 yn darparu bod gan yr awdurdod lleol sydd wedi'i ddynodi yn y gorchymyn gyfrifoldeb rhiant dros y plentyn sy'n derbyn gofal, tra bo gorchymyn gofal mewn grym. Diffinnir cyfrifoldeb rhiant yn adran 3(1) o Ddeddf 1989 fel “all the rights, duties, powers, responsibilities and authority which by law a parent of a child has in relation to the child and his property”.

3.7. Mewn rhai achosion gallai fod angen i'r awdurdod lleol ddarparu llety i blentyn gan nad oes gan unrhyw un gyfrifoldeb rhiant drosto, neu mewn

achosion lle maent ar goll neu wedi'u gadael, neu mewn amgylchiadau sy'n eu hatal rhag cael gofal a llety gan riant neu gan berson sydd â chyfrifoldeb rhiant.

3.8. Mae gan yr awdurdod lleol ddyletswydd o dan adran 76 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ("Deddf 2014") i ddarparu llety i blentyn o'r fath. Gellir sicrhau llety drwy leoliad gyda rhiant maeth, mewn lleoliad preswyl, megis cartref i blant neu drwy leoliad gyda pherthynas. Mae plentyn sy'n cael ei letya gan awdurdod lleol o dan adran 76 yn "blentyn sy'n derbyn gofal", ond nid yw'r awdurdod lleol yn caffael cyfrifoldeb rhiant dros y plentyn.

3.9. Mae adran 75[2] o Ddeddf 2014 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i sicrhau digon o lety, i'r graddau y mae'n rhesymol ymarferol, i ddiwallu anghenion eu poblogaeth plant sy'n derbyn gofal. Nodir yr amgylchiadau lle y mae gan awdurdod lleol ddyletswydd i ddarparu llety i blant o'r fath yn adran 76[3]. Mae adran 81[4] yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i sicrhau bod lleoliadau'n cael eu gwneud yn eu hardal eu hunain, oni bai nad yw'n rhesymol ymarferol gwneud hynny. Mae Rhan 6 o'r Cod Ymarfer ar Blant sy'n Derbyn Gofal a Phlant sy'n Cael eu Lletya[5] yn nodi bod yn rhaid i awdurdodau lleol ystyried manteision cael sawl darparwr, gan gynnig amrywiaeth o lety i ddiwallu anghenion gwahanol.

3.10. Mae'r awdurdodau lleol yn darparu lleoliadau amrywiol i letya plant sy'n derbyn gofal:

- gyda pherthynas ("lleoliad gyda pherthynas"),
- gyda rhieni maeth,
- mewn cartref gofal i blant,
- mewn lleoliadau preswyl eraill megis llety â chymorth, ysgol neu, mewn nifer bach o achosion, uned ddiogel, neu
- gyda darpar fabwysiadwr (o dan amgylchiadau penodol).

3.11. Ar hyn o bryd, mae lleoliadau'n cael eu darparu gan awdurdodau lleol drwy eu gwasanaethau mewnol neu drwy drefniant (wedi'i gomisiynu) gyda darparwyr annibynnol yn y sector preifat a'r trydydd sector.

3.12. Yng Nghymru, mae'n ofynnol i bob darparwr gwasanaeth cartref gofal i blant neu wasanaeth maethu, yn unol â Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016, gofrestru â Gweinidogion Cymru (yn ymarferol, Arolygiaeth Gofal Cymru) a rhaid iddynt oll gyflawni'r safonau gofynnol wrth ddarparu gofal a chymorth,[6] [7] fel bod llesiant a diogelwch plant yn cael eu hyrwyddo a'u cynnal. Nid yw'n ofynnol i'r awdurdodau lleol

---

[2]https://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2014/4/section/75/welsh
[3]https://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2014/4/section/76/welsh

[4] https://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2014/4/section/81/welsh
[5] https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-05/cod-ymarfer-rhan-6-plant-yn-derbyn-gofal-a-phlant-syn-cael-eu-lletya.pdf
[6]Canllawiau statudol ar gyfer darparwyr cartrefi gofal a gwasanaethau cymorth cartref
[7]Canllawiau statudol ar gyfer gwasanaethau maethu rheoleiddiedig

gofrestru'n ddarparwyr gwasanaethau maethu gan ei fod yn rhan gynhenid o arfer eu swyddogaethau statudol.

3.13. Mae data a gyhoeddir ar StatsCymru yn dangos, er bod nifer y plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru wedi tyfu dros y degawd diwethaf, bod y nifer hwn wedi aros yn gymharol sefydlog yn y blynyddoedd diwethaf. Ar 31 Mawrth 2023[8] roedd cyfanswm o 7,080 o blant yn derbyn gofal yng Nghymru. Y gyfradd oedd 116.3 am bob 10,000 o'r boblogaeth o dan 18 oed, o'i gymharu â 91 am bob 10,000 yn 2013.

3.14. Mae'r twf hanesyddol yn nifer y plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru wedi arwain at duedd hirdymor o gynyddu'r defnydd o ofal, ynghyd ag anghenion mwy cymhleth, ac mae wedi cyflwyno heriau sylweddol i awdurdodau lleol ac wedi cael effaith ar blant a phobl ifanc eu hunain.

3.15. Mae paru anghenion plant â lleoliadau priodol ar draws yr ystod o opsiynau megis maethu a chartrefi gofal, yn dod yn fwy anodd. Weithiau mae'n anodd i awdurdodau lleol ddod o hyd i leoliadau addas mewn lleoedd addas sy'n diwallu anghenion unigolion. Gall hyn effeithio'n negyddol ar y dewis o leoliad a pha mor barhaol a sefydlog ydyw ac, yn y pen draw, ar ganlyniadau plant a phobl ifanc. Mae wedi arwain at gynnydd yn y defnydd o ddarparwyr sector preifat i ateb y galw am leoliadau.

3.16. **Cystadleuaeth**: gan fod y galw yn fwy na'r cyflenwad, mae'r farchnad ar gyfer lleoliadau mewn cartrefi gofal plant, yn enwedig, yn ffafriol i werthwyr ac mae hyn yn effeithio ar y prisiau a godir ar awdurdodau lleol. Mae'n arbennig o anodd dod o hyd i leoliadau a chael dewis o leoliadau sydd wir yn diwallu anghenion plant 11 oed a throsodd sydd ag anghenion cymhleth. Mae adroddiad o 2021 gan yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd (CMA)[9] sy'n edrych ar y sefyllfa ledled Cymru, Lloegr a'r Alban yn trafod costau lleoliadau a lefelau elw a sut y gellir cynyddu'r rhain lle y mae angen lleoliadau yn aml o dan bwysau amser sylweddol. Mae adroddiad y CMA yn dangos bod lefel yr elw sy'n cael ei dynnu allan o'r gwasanaethau hyn mewn rhai ardaloedd yn fwy nag 20% ar gyfer gofal preswyl plant ac yn agos at yr un lefel ym maes maethu annibynnol. Arian sy'n cael ei dynnu allan o wasanaethau plant yw hwn a allai gael ei ailgyfeirio i wella gwasanaethau, capasiti a chanlyniadau. Ceir rhagor o fanylion am ganfyddiadau adroddiad y CMA ym Mhennod 7.

3.17. Tynnodd adolygiad annibynnol o ofal cymdeithasol plant yn Lloegr[10] sylw hefyd at bryderon am lefelau elw ac argymhellodd y dylai Llywodraeth y DU godi treth ffawdelw ar y 15 sefydliad mwyaf o ran darparwyr cartrefi plant preswyl preifat a maethu annibynnol.

---

[8] Plant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth fesul 10,000 o'r boblogaeth o dan 18 oed yn ôl awdurdod lleol a blwyddyn

[9] Adroddiad terfynol astudiaeth marchnad ar ofal cymdeithasol plant - GOV.UK (www.gov.uk)

[10] Ar gael yn: Home - The Independent Review of Children's Social Care (childrenssocialcare.independent-review.uk)

3.18. Mae Gweinidogion Cymru yn cytuno â barn y CMA nad yw'r farchnad gofal cymdeithasol plant yn gweithio'n dda. Mae Gweinidogion Cymru o'r farn bod y cymhelliant elw yn un o'r rhesymau allweddol pam nad yw'r farchnad yn gweithredu'n iawn a bod effaith hynny ar y farchnad yn golygu nad yw'n addas ar gyfer sicrhau gofal sy'n diwallu anghenion plant a phobl ifanc agored i niwed.

3.19. **Argaeledd**: ledled Cymru nid oes cyflenwad digonol o leoliadau preswyl a lleoliadau gofal maeth i ddiwallu anghenion eang ein poblogaeth plant sy'n derbyn gofal. Yn adroddiad y CMA, disgrifiwyd y farchnad fel un ddiffygiol, gymhleth a thameidiog iawn sy'n golygu bod awdurdodau lleol unigol mewn sefyllfa wannach ac yn ei chael yn anodd cynllunio ar gyfer eu gofal maeth a phreswyl eu hunain a'i ddarparu. Yn aml, byddant yn cymryd pa bynnag leoliad sydd ar gael, hyd yn oed os nad yw hynny'n gwbl briodol ar gyfer anghenion y plentyn.

3.20. Er ein bod yn cydnabod bod lleoliadau i ffwrdd o gymunedau cartref yn angenrheidiol weithiau er lles y plentyn, mae angen ystyried yn ofalus fanteision ac effaith bosibl defnyddio lleoliadau o'r fath yn ehangach. Lle bynnag y bo modd, mae Llywodraeth Cymru am weld lleoliadau'n cael eu darparu ar gyfer plant a phobl ifanc a fydd yn cadw eu cysylltiadau â'u cymdogaethau a'u cymunedau lleol ac yn caniatáu cymaint o gysondeb yn eu bywydau â phosibl.

3.21. Oherwydd prinder lleoliadau addas mewn cartrefi gofal, gall awdurdodau lleol ddefnyddio darparwyr sydd wedi'u cofrestru ond nad ydynt yn ddarparwyr ar y fframwaith Cymru gyfan.[11] Mae cymhelliant i ddarparwyr er elw sefydlu cartrefi gofal lle mae'r gorbenion yn rhad, yn hytrach nag yn y lleoliadau lle mae'r angen mwyaf. Bu cynnydd hefyd yn nifer y lleoliadau sy'n cael eu gwneud mewn lleoliadau heb eu cofrestru,[12] yn sgil y diffyg digonolrwydd yn yr ystad ddiogel ac mewn gwasanaethau sy'n cefnogi plant sydd â'r lefel uchaf o anghenion cymhleth, a'r rheini'n aml yn anghenion lluosog. Mae hyn yn destun pryder i'r awdurdodau lleol mewn perthynas ag ansawdd a phris, ac yn effeithio'n negyddol ar blant a phobl ifanc.

3.22. **Symud lleoliad**: mae sefydlogrwydd lleoliad i blant a phobl ifanc yn hanfodol, gan helpu i sicrhau'r amgylchedd a'r cyfle gorau posibl iddynt adfer, datblygu, ffynnu a gwneud cynnydd. Mae angen datblygu ac ehangu'r dewis sydd ar gael o leoliadau o ansawdd uchel sy'n diwallu

[11] Mae'r gwaith o gomisiynu lleoliadau gofal maeth a gofal preswyl plant yn digwydd drwy Gonsortiwm Comisiynu Cymru ar gyfer Plant. Mae pob un o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru yn aelodau o'r consortiwm hwn ac maent wedi ymrwymo i ddod o hyd i leoliadau drwy Fframwaith Maethu Cymru Gyfan a Fframwaith Preswyl Cymru Gyfan.

[12] Mae Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 yn nodi'r ystod o wasanaethau y mae'r Ddeddf yn ceisio eu rheoleiddio. Mae'r rhain yn cynnwys lleoliadau lle y mae pobl ifanc sy'n derbyn gofal gan yr awdurdod lleol yn cael eu lleoli megis gwasanaeth cartref gofal; gwasanaeth mabwysiadu; gwasanaeth maethu. Mae'n ofynnol o dan y Ddeddf i'r lleoliadau hyn gael eu cofrestru ag AGC fel y gellir eu monitro a'u harchwilio. Mae'n drosedd cynnal gwasanaeth rheoleiddiedig heb gofrestru'r gwasanaeth hwnnw ag AGC a bodloni'r meini prawf a nodir ar gyfer cofrestru.

anghenion eang a chymhleth plant orau i helpu i sicrhau bod pob plentyn yn cael y lleoliad cywir ar ddechrau ei daith. Ar 31 Mawrth 2023 roedd 669 o'r plant a oedd yn derbyn gofal wedi cael tri lleoliad neu fwy yn ystod y flwyddyn, sef cynnydd o 52 o blant (8%) o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

3.23. Roedd dau o bob tri (66%) o'r plant a oedd yn derbyn gofal ar 31 Mawrth 2023 yn byw mewn lleoliadau o fewn yr awdurdod lleol lle'r oeddent yn byw pan wnaethant ddechrau derbyn gofal. Serch hynny, roedd 27% o blant yn byw mewn lleoliadau y tu allan i'w hawdurdod lleol eu hunain ond yng Nghymru, ac roedd 7% pellach wedi'u lleoli y tu allan i Gymru.

**Y Cefndir i Ddarpariaethau'r Bil**

3.24. Mae Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru yn cynnwys nifer o ymrwymiadau allweddol sy'n ymwneud â gweledigaeth newydd ar gyfer Gofal Cymdeithasol Plant:

- Rydym am weld llai o blant a phobl ifanc yn ymuno â'r system ofal, drwy ddarparu'r cymorth cywir ar yr adeg gywir i deuluoedd sy'n wynebu cyfnodau anodd.
- O ran y plant sydd mewn gofal, rydym am iddynt aros yn agos i'w cartref er mwyn iddynt allu parhau i fod yn rhan o'u cymuned. Mae hyn yn golygu rhoi’r math iawn o ofal ar waith ar gyfer pob plentyn: diwygio a chydgysylltu gwasanaethau ar gyfer plant sy’n derbyn gofal a’r rhai sy’n gadael gofal, darparu cymorth arbenigol ychwanegol i blant ag anghenion cymhleth a darparu cymorth gwell i’r rhai sy’n gofalu am blant. Rydym am i'r gwasanaethau hyn fod yn lleol, cael eu cynllunio'n lleol a bod yn atebol yn lleol.
- Rydym am i bobl ifanc sy'n gadael gofal deimlo eu bod yn cael cymorth i ddechrau byw'n annibynnol pan fyddant yn barod ac i gynllunio ar gyfer eu dyfodol.

3.25. Mae'r Rhaglen Lywodraethu yn cynnwys 8 ymrwymiad, sydd, gyda'i gilydd, yn darparu'r fframwaith ar gyfer ein gweledigaeth i drawsnewid Gwasanaethau Plant yn sylfaenol. Bydd cyflawni'r ymrwymiadau hyn yn ysgogi newid ar draws y system gyfan yng Nghymru gan gyd-fynd â'n Cynllun Plant a Phobl Ifanc. Bydd yr ymrwymiadau hyn a'r Cynllun yn cael eu cyflawni yn ystod tymor cyfan y Senedd hon.

**Ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu ar gyfer Gwasanaethau Plant:**

1. Ystyried cyfleoedd radical i ddiwygio’r gwasanaethau presennol ar gyfer plant sy’n derbyn gofal ac yn gadael gofal.
2. Dileu elw preifat o ofal plant sy’n derbyn gofal yn ystod tymor nesaf y Senedd.
3. Ariannu gwasanaethau preswyl rhanbarthol i blant ag anghenion cymhleth, gan sicrhau bod eu hanghenion yn cael eu diwallu mor agos at eu cartrefi â phosibl ac yng Nghymru lle bynnag y bo hynny’n ymarferol.
4. Cryfhau cyrff cyhoeddus yn eu rôl fel 'rhiant corfforaethol’.
5. Atal teuluoedd rhag chwalu drwy ariannu gwasanaethau eirioli i rieni y mae eu plant mewn perygl o ddod yn rhan o'r system ofal.

6. Darparu cymorth arbenigol ychwanegol i blant ag anghenion cymhleth a allai fod ar gyrion y system ofal.
7. Parhau i gefnogi a chynnal hawliau plant a phobl ifanc ar eu pennau eu hunain sy’n ceisio lloches.
8. Cefnogi ein cynllun Maethu Cymru cenedlaethol.

3.26. Mae'r ymrwymiad i **'roi fframwaith ar waith i ddileu elw o ofal plant sy'n derbyn gofal'** yn rhan glir o'n gweledigaeth ehangach ar gyfer newid ar draws y system gyfan. Y nod yw sicrhau nad yw arian cyhoeddus sy'n cael ei fuddsoddi mewn gofal i blant sy'n derbyn gofal – gan ddechrau â gwasanaethau cartrefi gofal i blant a gwasanaethau maethu – yn creu elw i unigolion neu endidau corfforaethol, ond yn hytrach yn cael ei wario ar wasanaethau plant, er mwyn darparu gwell profiadau a chanlyniadau i bobl ifanc; helpu i ddatblygu a gwella gwasanaethau; a meithrin ymhellach ddatblygiad proffesiynol y rhai sy'n darparu gofal.

3.27. Mae adborth gan blant a phobl ifanc yn awgrymu bod ganddynt deimladau cryf am gael gofal gan sefydliadau preifat sy’n gwneud elw o’u profiad o fod mewn gofal. Mae Comisiynydd Plant Cymru a Voices from Care hefyd wedi ymgyrchu ar y mater. Roedd yn argymhelliad gan y Comisiynydd blaenorol yn ei hadroddiadau blynyddol a chafodd y mater ei gynnwys gan Voices from Care yn ymrwymiad yn ei faniffesto ar gyfer etholiad y Senedd.

3.28. Nid yw Llywodraeth Cymru yn credu y dylid cael marchnad ar gyfer gofal i blant, nac y dylid gwneud elw o ofalu am blant sy’n wynebu heriau penodol yn eu bywydau ac mae’n cyflwyno'r ddeddfwriaeth hon i roi terfyn ar hyn. Mae hyn yn golygu y bydd y gofal preswyl, llety diogel a gofal maeth i blant sy’n derbyn gofal yng Nghymru yn y dyfodol yn cael ei ddarparu gan sefydliadau'r sector cyhoeddus, sefydliadau elusennol neu sefydliadau nid-er-elw.

3.29. Nid cael gwared ar ddarparwyr er elw a chyflwyno trefn arall debyg yn ei lle yw ein nod. Yn hytrach, rydym am ailgydbwyso siâp a graddfa'r ddarpariaeth, gan gynnwys modelau gofal, cymorth cofleidiol a modelau perchnogaeth, fel rhan o'n gweledigaeth ehangach ar gyfer gwasanaethau plant i sicrhau eu bod yn seiliedig ar anghenion, yn integredig, yn lleol ac yn fforddiadwy.

3.30. Rydym wedi dyrannu £68m yn ychwanegol dros dair blynedd (2022-2025) i helpu awdurdodau lleol i feithrin capasiti mewnol ar gyfer darpariaeth gofal preswyl a maethu nid-er-elw.

3.31. Mae dileu elw o ofal yn ymwneud â darpariaeth sy'n seiliedig ar werthoedd ac anghenion; mae'n ymwneud â newid yn sylfaenol sut y mae gwasanaethau'n cael eu darparu i blant a'u teuluoedd fel rhan o rwydwaith o wasanaethau lleol yn y gymuned sy'n diogelu ac yn hyrwyddo lles y person ifanc.

## Cynigion allweddol yn y ddeddfwriaeth

3.32. Bydd y darpariaethau dileu elw o fewn y Bil yn cyfyngu ar wneud elw wrth ddarparu gwasanaethau cartrefi gofal a ddarperir yn gyfan gwbl neu'n bennaf i blant, gwasanaethau llety diogel, a gwasanaethau maethu (y cyfeirir atynt fel ‘gwasanaethau plant o dan gyfyngiad') drwy ddiwygio Rhan 1 o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 a Rhan 6 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

### Diwygiadau i Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016

3.33. Bydd y diwygiadau i Ddeddf 2016 yn gosod gofyniad ar ddarparwr gwasanaeth plant o dan gyfyngiad (ac eithrio awdurdod lleol) sydd wedi'i gofrestru (ag Arolygiaeth Gofal Cymru) ar ôl i'r darpariaethau ddod i rym i fod yn “endid nid-er-elw”. Bydd endid nid-er-elw yn cael ei ddiffinio fel:

(a) cwmni elusennol cyfyngedig drwy warant heb gyfalaf cyfrannau,

(b) sefydliad elusennol corfforedig,

(c) cymdeithas gofrestredig elusennol, neu

(d) cwmni buddiant cymunedol cyfyngedig drwy warant heb gyfalaf cyfrannau.

3.34. Mae'r modelau hyn i gyd yn bodloni'r egwyddor na ddylid talu difidendau i gyfranddalwyr neu aelodau ac y dylid ailfuddsoddi'r gwargedion masnachu yn y gwasanaeth (gan gynnwys adeiladu cronfeydd priodol wrth gefn a gwariant cyfalaf). Bydd hefyd yn ofynnol i endid nid-er-elw feddu ar amcanion neu ddibenion sy'n ymwneud yn bennaf â lles plant neu unrhyw fudd cyhoeddus arall a benderfynir gan Weinidogion Cymru.

3.35. I sicrhau nad yw'r polisi yn cael ei danseilio gan arferion sy'n groes i'w ysbryd a'i fwriad, gan ladd diben y newidiadau deddfwriaethol, bydd y Bil hefyd yn darparu y gall taliadau afresymol neu amhriodol a wneir gan endid nid-er-elw gael eu cymryd i ystyriaeth gan Weinidogion Cymru wrth benderfynu a yw darparwr yn berson addas a phriodol i gael ei gofrestru.

3.36. I leihau’r tarfu ar fywydau plant mewn lleoliadau gofal preswyl a maeth presennol, bydd trefniadau trosiannol yn caniatáu i ddarparwr er elw cofrestredig sydd wedi’i gofrestru ar gyfer gwasanaeth plant o dan gyfyngiad pan ddaw’r gofynion “nid-er-elw” newydd i rym (darparwr etifeddol) barhau i weithredu, yn ddarostyngedig i amodau a osodir drwy reoliadau. Bydd rheoliadau o’r fath yn cynnwys:

- cyfyngu ar yr amgylchiadau pan gaiff y darparwyr hyn dderbyn lleoliadau gan awdurdodau lleol yn Lloegr;
- atal darparwyr sy'n ddarostyngedig i'r darpariaethau trosiannol rhag darparu lle i unrhyw blentyn newydd ar ôl dyddiad penodol, neu ei

gwneud yn ofynnol mai dim ond gwasanaethau arbenigol penodol y gellir eu darparu.

3.37. Bydd gan Weinidogion Cymru bŵer, a arferir drwy reoliadau, i ddod â trefniadau trosiannol i ben ar adeg briodol.

Diwygiadau i Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

3.38. Bydd y Bil yn diwygio'r ddyletswydd bresennol yn adran 75 ar awdurdod lleol i gymryd camau i sicrhau y gall ddarparu llety yn ei ardal, er mwyn ei gwneud yn ofynnol iddo sicrhau digon o lety a ddarperir gan endidau nid-er-elw, gan yr awdurdod lleol ei hun, neu gan awdurdod lleol arall, naill ai o fewn ei ardal neu'n agos ato.

3.39. I gydategu'r dyletswyddau newydd, bydd yn ofynnol hefyd i'r awdurdodau lleol baratoi cynllun digonolrwydd blynyddol yn nodi (ymhlith materion eraill) sut y byddant yn cymryd camau tuag at leihau ac yn y pen draw ddileu dibyniaeth ar ddarparwyr er elw, lle bo modd. Bydd y cynllun hwn yn ddarostyngedig i gymeradwyaeth Gweinidogion Cymru a rhaid iddo gael ei gyhoeddi. Yn ogystal, mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol y mae cynllun digonolrwydd blynyddol wedi ei wneud ar ei chyfer, rhaid i adroddiad blynyddol a lunnir gan awdurdod lleol o dan adran 114A o Ddeddf 2014 nodi:

- sut y mae'r camau a gymerwyd gan yr awdurdod lleol yn y flwyddyn ariannol honno wedi cynyddu (neu y disgwylir iddynt gynyddu) nifer y lletyau mewnol ac nid-er-elw;
- nifer y ceisiadau a wnaeth yr awdurdod lleol yn y flwyddyn ariannol honno am gymeradwyaeth i leoli plant mewn lleoliad atodol;
- y rhesymau dros unrhyw wahaniaeth rhwng nifer y ceisiadau a ddarparwyd a nifer y ceisiadau yr oedd yr awdurdod lleol wedi amcangyfrif yn ei gynllun digonolrwydd y byddai'n eu gwneud yn ystod y flwyddyn.

3.40. Mae'r ddyletswydd yn Neddf 2014 i awdurdod lleol leoli plentyn sy'n derbyn gofal na all fyw gyda'r naill riant neu'r llall neu gyda'r ddau riant, mewn cartref i blant neu gyda rhieni maeth hefyd yn cael ei diwygio, fel bod rhaid i'r awdurdod lleol, pan fydd yr amgylchiadau hyn yn codi, osod y plentyn mewn llety a ddarperir gan endid nid-er-elw oni bai bod hynny'n anghyson â llesiant plentyn.

3.41. Os bydd awdurdod lleol o'r farn na fyddai unrhyw un o'r lleoliadau nid-er-elw sydd ar gael yn gyson â llesiant y plentyn, bydd yn gallu rhoi'r plentyn mewn lleoliad “atodol” (er elw). Er hynny, bydd y Bil yn ei gwneud yn ofynnol i leoliad atodol gael ei gymeradwyo gan Weinidogion Cymru.

Amserlenni a Chyfnod Trosiannol

3.42. Mae gwaith wedi'i wneud, ac mae'n parhau i ddigwydd, i:

- helpu'r awdurdodau lleol i fodelu a rhag-weld yn well ofynion ar gyfer lleoliadau yn y dyfodol, yn ogystal â lleihau nifer y plant mewn gofal;
- cefnogi sefydliadau nid-er-elw presennol sydd am ehangu eu darpariaeth;
- annog creu darpariaeth nid-er-elw newydd;
- cefnogi darparwyr preifat sydd am ailsefydlu eu busnes fel endid nid-er-elw.

3.43. Y bwriad ar hyn o bryd yw dod â darpariaethau perthnasol y Bil i rym drwy is-ddeddfwriaeth ar yr adeg briodol er mwyn cyflawni'r canlynol:

- o 1 Ebrill 2026 – ni fydd unrhyw ddarparwyr er elw newydd o wasanaethau plant o dan gyfyngiad (cartrefi gofal, gwasanaethau maeth a llety diogel) yn gallu cofrestru yng Nghymru;
- o 1 Ebrill 2027 – ni fydd modd i ddarparwyr presennol er elw cartref gofal plant, gwasanaeth llety diogel neu wasanaeth maethu ychwanegu unrhyw welyau neu ofalwyr maeth ychwanegol;
- Heb fod yn hwyrach nag 1 Ebrill 2030 – ni fydd modd i awdurdodau lleoli yn Lloegr leoli plant o'r newydd mewn cartrefi gofal plant er-elw, gyda darparwyr gwasanaethau maeth nac mewn llety diogel ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol a bennir mewn rheoliadau. Ni fydd unrhyw leoliadau newydd yn cael eu gwneud gan awdurdodau lleoli yng Nghymru oni bai y ceir cymeradwyaeth Weinidogol drwy'r broses lleoliadau atodol a nodir yn y Bil.

## Cyflwyno Taliadau Uniongyrchol ar gyfer Gofal Iechyd Parhaus

3.44. Mae'r Rhaglen Lywodraethu yn nodi ymrwymiad i 'Wella'r rhyngwyneb rhwng gofal iechyd parhaus a Thaliadau Uniongyrchol'.

3.45. Darperir Gofal Iechyd Parhaus (GIP) pan fydd gan unigolyn angen iechyd sylfaenol sy'n drech na'i anghenion am ofal a chymorth arall, ac mae'n cael ei ailasesu'n rheolaidd. Mae'r GIG yn talu am anghenion iechyd a gofal yn gyfan gwbl yn unol â dyletswyddau o dan Ddeddf y GIG (Cymru) 2006 ("Deddf 2006"), heb godi unrhyw dâl ar y person sy'n cael y gofal. Mae hynny oherwydd ei bod yn rhaid i ofal iechyd gael ei ddarparu am ddim yn y man darparu, yn ddarostyngedig i eithriadau cyfyngedig. Nid yw taliadau uniongyrchol yn bosibl o dan Ddeddf 2006 ar hyn o bryd.

3.46. Ar gyfer gofal cymdeithasol, mae deddfwriaeth sy'n galluogi awdurdod lleol i wneud taliadau uniongyrchol eisoes ar waith. Mae taliadau uniongyrchol o fewn gofal cymdeithasol yn daliadau a wneir gan awdurdodau lleol yn unol â dyletswyddau yn Rhan 4 o Ddeddf 2014, sy'n cael eu talu i unigolion, neu, mewn achosion priodol, eu cynrychiolydd, i'w galluogi i sicrhau gwasanaethau i ddiwallu eu hanghenion cymwys am ofal a chymorth, neu anghenion cymorth yn achos gofalwr. Mae taliadau uniongyrchol yn caniatáu i bobl arfer

llais a rheolaeth; hynny yw, penderfynu sut, pryd a chan bwy y mae eu hanghenion am ofal a chymorth yn cael eu diwallu.

3.47. Mae tystiolaeth bod rhai pobl sydd â chyflyrau iechyd cymhleth yn gwrthod asesiadau GIP. Gall hyn fod am nifer o resymau, ond dyma rai o'r rhesymau sy'n codi'n aml:

- nid yw pobl eisiau colli'r llais a'r rheolaeth sydd ganddynt drwy daliadau uniongyrchol awdurdodau lleol a chael y teimlad pellach o golli annibyniaeth;
- pryder y gallai'r cymhwysedd ar gyfer cael GIP amrywio, a allai darfu ar eu pecyn gofal sefydlog.
- pryder y gallai fod rhaid iddynt roi'r gorau i gael gwasanaeth gan un neu ragor o Gynorthwywyr Personol dibynadwy a chyfarwydd oherwydd bod GIP sydd wedi'i gomisiynu yn draddodiadol yn cynnig llai o hyblygrwydd a dewis o ran y darparwr gofal.

3.48. Bydd rhai pobl felly yn parhau i gyfrannu at eu costau gofal cymdeithasol, a bydd yr awdurdod lleol hefyd yn cyfrannu, yn dibynnu ar yr asesiad ariannol, lle y byddai hyn fel arall yn cael ei ariannu'n llawn gan y GIG o dan GIP.

3.49. Os asesir bod unigolyn yn gymwys i gael GIP ond ei fod yn gwrthod pecyn GIP, ni fydd yn golygu yn awtomatig y gellir cynnal y status quo a bod yr awdurdod lleol yn cadw'r cyfrifoldeb dros ddiwallu ei anghenion gofal a chymorth. Nid yw awdurdod lleol o dan ddyletswydd i ddiwallu anghenion gofal a chymorth y gellir eu darparu drwy ddulliau eraill (sef yn yr achos hwn gan y GIG drwy becyn gofal i ddiwallu angen am ofal iechyd sylfaenol drwy hawl i GIP). At hynny, mae adran 47 o Ddeddf 2014 yn nodi'r cyfyngiadau ar bŵer awdurdod lleol i ddarparu gwasanaethau y mae'n ofynnol eu darparu o dan ddeddfiad iechyd, megis Deddf 2006.

3.50. Dros nifer o flynyddoedd, mae rhanddeiliaid wedi codi'r materion sy'n ymwneud â'r rhyngwyneb hwn a gwanhau llais a rheolaeth pobl wrth drosglwyddo o ofal a ddarperir gan awdurdod lleol (gyda thaliadau uniongyrchol), i GIP (lle y collir yr opsiwn hwnnw).

3.51. Yn Lloegr, mae taliadau uniongyrchol wedi cael eu caniatáu o dan GIP, drwy Gyllidebau Iechyd Personol, ers 2014. Gellir defnyddio Cyllidebau Iechyd Personol i ddiwallu anghenion person fel y'u nodir yn ei gynllun gofal ac maent ar gael ar gyfer GIP oedolion a phlant. Mae'r ddarpariaeth Cyllideb Iechyd Personol hefyd yn cynnwys meysydd eraill gan gynnwys ôl-ofal adran 117 yn achos iechyd meddwl a chadeiriau olwyn.

3.52. Mae tri math o Gyllideb Iechyd Personol yn Lloegr: cyllideb dybiannol lle y mae'r arian yn cael ei ddal gan y GIG; cyllideb trydydd parti; a thaliadau uniongyrchol. Mae'r ddau fath cyntaf eisoes yn cael eu caniatáu yng Nghymru o dan y ddeddfwriaeth bresennol (yr ail opsiwn ar ffurf Ymddiriedolaeth Defnyddiwr Annibynnol), ond nid yw'r trydydd math – taliadau uniongyrchol – yn bosibl yng Nghymru eto. Mae nifer o fathau o wasanaeth y gallai fod eu hangen ar unigolyn o dan Ddeddf 2006 nad yw taliadau uniongyrchol ar gael

ar eu cyfer i berson sydd â hawl i GIP o dan drefniadau a wneir yn Lloegr, gan gynnwys gwasanaethau meddygol sylfaenol a chyffredinol, cyffuriau, meddyginiaethau, cyfarpar, taliadau deintyddol, llawfeddygaeth wedi'i chynllunio, brechu, Gwiriadau Iechyd y GIG, a gwasanaethau alcohol, tybaco a gamblo.

Newid arfaethedig i'r ddeddfwriaeth

3.53. Er mwyn mynd i'r afael â'r materion, bwriedir diwygio Deddf 2006 i ganiatáu i Weinidogion Cymru wneud taliadau uniongyrchol i gleifion unigol. Bydd hyn yn eu galluogi i sicrhau gwasanaethau i ddiwallu eu hanghenion asesedig ar gyfer gofal iechyd yn lle derbyn gwasanaethau a ddarperir neu a gomisiynir gan y GIG yng Nghymru.

3.54. Bwriad y polisi yw defnyddio'r pŵer hwn i alluogi taliadau uniongyrchol i gael eu gwneud i bobl sydd wedi cael eu hasesu fel rhai y mae ganddynt angen iechyd sylfaenol ac sydd â'r hawl felly i gael GIP.

3.55. Mae'r galw am newid polisi yn y maes hwn wedi bod yn cynyddu er mwyn mynd i'r afael â phryderon am annhegwch a diffyg llais a rheolaeth a wynebir gan bobl anabl a phobl ddifrifol wael. Ar hyn o bryd mae Byrddau Iechyd Lleol yn comisiynu cyfran sylweddol o'r rhan fwyaf o becynnau GIP gan ddarparwyr cartrefi gofal ac asiantaethau gofal cartref y sector preifat, a all, yn eu tro, brynu neu gomisiynu gofal iechyd megis nyrsio. Byddai cyflwyno taliadau uniongyrchol, felly, yn gwella llais a rheolaeth i unigolion drwy ganiatáu mwy o ddewis iddynt o ran sut, a chan bwy, y darperir eu gofal. Ar hyn o bryd nid oes gan unigolion lawer o reolaeth dros y ffordd y mae eu gofal yn cael ei ddarparu o dan GIP.

Egwyddorion polisi

3.56. Yr amcanion yw sicrhau tegwch a chydraddoldeb i bobl anabl a phobl ddifrifol wael, gan sicrhau nad ydynt yn colli llais a rheolaeth dros eu gofal, wrth gael GIP. I ddechrau, byddai darparu taliadau uniongyrchol o fewn GIP yn canolbwyntio ar oedolion sy'n cael GIP yn eu cartrefi eu hunain yn unig, gan fod adborth gan randdeiliaid yn dangos mai dyma ble mae’r galw mwyaf am fwy o lais a rheolaeth ar hyn o bryd.

3.57. Dylai hyn fod yn gydnaws ag egwyddorion llais a rheolaeth, gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, cydraddoldeb a'r Model Cymdeithasol o Anabledd. Dylai'r dull hefyd gefnogi'r egwyddor o weithio mewn partneriaeth ac integreiddio, gan ganiatáu gwell rhyngwyneb rhwng darparu taliadau uniongyrchol yr awdurdodau lleol a thaliadau uniongyrchol a wneir gan y GIG yng Nghymru.

3.58. Rydym hefyd yn dilyn yr egwyddor o gydgynhyrchu wrth weithio gyda rhanddeiliaid, gan gynnwys pobl anabl a phobl â phrofiad bywyd, i fireinio sut y dylid rhoi'r cynigion ar waith.

Yr effaith a fwriedir

3.59. Bwriedir i'r newidiadau arfaethedig sicrhau bod gan unigolion lais a rheolaeth gref dros eu gofal, p'un a yw'r cyfrifoldeb dros ddarparu'r gofal hwnnw yn nwylo awdurdod lleol neu fwrdd iechyd lleol. Gallai'r newidiadau olygu bod mwy o unigolion yn cytuno i gael asesiadau GIP, heb ofni colli hawl i gael taliadau uniongyrchol, ac felly sicrhau bod eu hanghenion iechyd cymhleth yn cael eu rheoli'n well o ganlyniad i gael eu pecyn llawn o ofal iechyd a gofal wedi'i ariannu gan y GIG.

3.60. Canfu'r gwerthusiad o gynllun peilot tair blynedd Cyllidebau Iechyd Personol yn Lloegr[13] fod defnydd o Gyllidebau Iechyd Personol yn gysylltiedig â gwelliant sylweddol o ran ansawdd bywyd a llesiant seicolegol. Ceir tystiolaeth hefyd sy'n dangos bod gwell canlyniadau iechyd yn cael eu cyflawni pan fydd gan rywun fwy o lais dros ei ofal ei hun. Mae taliadau uniongyrchol yn helpu i ddarparu gofal yng nghartref y person ei hun ac mae astudiaethau yn Lloegr wedi dangos y gall hyn sicrhau gwell gwerth i'r pwrs cyhoeddus.

<u>Amserlenni</u>

3.61. Y bwriad yw i'r darpariaethau sy'n ymwneud â'r elfen hon gael eu rhoi ar waith yng ngwanwyn 2026.

**<u>Diwygiadau i Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016</u>**

3.62. Bydd y Bil yn gwneud nifer o ddiwygiadau i'r drefn reoleiddio ar gyfer gwasanaethau gofal cymdeithasol a'r gweithlu gofal cymdeithasol, er mwyn helpu'r fframwaith rheoleiddio i weithredu'n fwy effeithiol.

3.63. Cyflwynodd Deddf 2016 drefn cofrestru a rheoleiddio newydd ar gyfer darparwyr gwasanaethau gofal a chymorth (‘gwasanaethau rheoleiddiedig’) yng Nghymru. Diwygiodd hefyd y system ar gyfer cofrestru a rheoleiddio’r gweithlu gofal cymdeithasol.

3.64. Gweithredwyd Deddf 2016 mewn tri cham. Fel rhan o hyn, datblygodd Llywodraeth Cymru gyfres sylweddol o reoliadau a chanllawiau statudol. Roedd hefyd yn cynnwys codau ymarfer, rheolau a gweithdrefnau a roddwyd ar waith o dan y Ddeddf gan y rheoleiddiwr gwasanaethau a rheoleiddiwr y gweithlu.

- O fis Ebrill 2017: Ymgymerodd Gofal Cymdeithasol Cymru (GCC) â swyddogaethau Cyngor Gofal Cymru, gyda swyddogaethau wedi'u cryfhau, i ddod yn gofrestrydd ac yn rheoleiddiwr gweithwyr gofal cymdeithasol.
- O fis Ebrill 2018: Dechreuodd gwasanaethau cartrefi gofal, gwasanaethau llety diogel, gwasanaethau canolfannau preswyl i

[13] Forder_et_al_2012_PHBE_final_report_nov_2012.pdf (kcl.ac.uk)

deuluoedd, a gwasanaethau cymorth cartref ailgofrestru ag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC), yn ddarostyngedig i ofynion, safonau a sancsiynau newydd ar gyfer darparwyr gwasanaethau a'u hunigolion cyfrifol.

- O fis Ebrill 2019: Roedd yn ofynnol i wasanaethau mabwysiadu, gwasanaethau maethu, gwasanaethau lleoli oedolion a gwasanaethau eiriolaeth rheoleiddiedig ailgofrestru/gofrestru ag AGC, yn ddarostyngedig i ofynion, safonau a sancsiynau newydd ar gyfer darparwyr gwasanaethau a'u hunigolion cyfrifol.

3.65. Mae Deddf 2016 bellach wedi bod ar waith ers sawl blwyddyn, ac rydym yn dechrau gweld manteision systemau mwy hyblyg sy'n blaenoriaethu gwelliant parhaus dros safonau gofynnol; sy'n rhoi mwy o bwyslais ar ganlyniadau i bobl sydd angen gofal a chymorth; ac sy'n cyfrannu at broffesiynoli ein gweithlu gofal cymdeithasol hanfodol.

3.66. Yn y Bil hwn, cynigir sawl diwygiad i Ddeddf 2016, a nodwyd ar y cyd â'r rheoleiddiwr gwasanaethau a rheoleiddiwr y gweithlu, a fydd naill ai:

- yn cyflawni'r bwriad polisi gwreiddiol yn well;
- yn datrys anghysonderau o fewn systemau sydd wedi dod i'r amlwg yn ymarferol; a/neu
- yn cynorthwyo AGC a GCC yn eu prosesau a'u gweithgareddau rheoleiddio (mae hyn yn cynnwys pŵer i wneud rheoliadau a fydd yn caniatáu i Weinidogion Cymru nodi y dylid trin gweithwyr gofal plant (gan gynnwys gweithwyr chwarae) fel gweithwyr gofal cymdeithasol.

<u>Trefn reoleiddio ar gyfer gwasanaethau rheoleiddiedig, darparwyr gwasanaethau ac unigolion cyfrifol dynodedig</u>

3.67. Bydd y Bil yn gwneud nifer o newidiadau i Ran 1 o Ddeddf 2016, sy'n rhoi manylion y drefn reoleiddio ar gyfer gwasanaethau rheoleiddiedig, darparwyr gwasanaethau, ac unigolion cyfrifol dynodedig. Nod y diwygiadau arfaethedig yw mynd i'r afael â materion penodol o fewn Deddf 2016 i gryfhau ymarferoldeb y fframwaith rheoleiddio ac i helpu AGC i gyflawni ei chyfrifoldebau rheoleiddio. Mae AGC yn gangen weithredol ar wahân yn Llywodraeth Cymru, sy'n gyfrifol am gofrestru, arolygu a gweithredu i wella ansawdd a diogelwch gwasanaethau gofal rheoleiddiedig yng Nghymru. Pan fo'r ddeddfwriaeth yn gosod gofynion ar Weinidogion Cymru, yn ymarferol AGC sy'n cyflawni'r rhain.

3.68. Mae'r diwygiadau hyn yn ymdrin â nifer o feysydd:

- Dyletswydd i gyflwyno a chyhoeddi datganiadau blynyddol
- Cais i ganslo cofrestriad darparwr gwasanaeth: yr wybodaeth sydd i'w darparu
- Canslo ac amrywio cofrestriad darparwr gwasanaeth heb gais
- Gwybodaeth, arolygiadau ac ymchwiliadau
- Y diffiniad o 'wasanaeth cartref gofal'

<u>Dyletswydd i gyflwyno a chyhoeddi datganiad blynyddol</u>

3.69. Mae adran 10 o Ddeddf 2016 yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr gwasanaethau gyflwyno datganiad blynyddol i Weinidogion Cymru (AGC) ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol y mae'r darparwr wedi'i gofrestru. Rhaid i'r datganiad blynyddol gynnwys gwybodaeth allweddol am weithrediad y gwasanaeth, yn ogystal â datganiad cydymffurfio. Diben y datganiad blynyddol yw darparu gwybodaeth dryloyw a chymaradwy i'r cyhoedd am wasanaethau rheoleiddiedig yng Nghymru.

3.70. Nodir manylion yr wybodaeth sydd i'w chynnwys mewn datganiad blynyddol ar wyneb Deddf 2016 a Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Datganiadau Blynyddol) (Cymru) 2017 fel y'u diwygiwyd. Mae'r gofynion yn cynnwys gwybodaeth am y ddarpariaeth gwasanaethau, yr unigolyn cyfrifol, gwybodaeth am staffio (megis nifer y staff, trosiant a hyfforddiant) a gwybodaeth am gyfleusterau o fewn gwasanaethau sy'n darparu llety.

3.71. Mae adran 10 (5) o Ddeddf 2016 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru (AGC) gyhoeddi datganiadau blynyddol. Mae'r gofyniad hwn yn arwain, yn anfwriadol, at greu atebolrwydd posibl ar gyfer Gweinidogion Cymru o ran diogelu data a difenwi ar gyfer unrhyw beth sydd wedi'i gynnwys yn y datganiadau. Er nad yw Deddf 2016 na'r Rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr gwasanaethau gyflwyno gwybodaeth bersonol am unigolion sy'n defnyddio eu gwasanaeth, mae'r opsiwn testun rhydd yn y ffurflen ar-lein yn golygu y gallai darparwyr gynnwys, yn anfwriadol, wybodaeth bersonol neu wybodaeth arall nad yw'n briodol i'w chyhoeddi o bosibl.

3.72. Oherwydd bod y gofyniad i gyhoeddi datganiadau blynyddol yn cael ei roi ar Weinidogion Cymru (AGC), maent yn atebol ar hyn o bryd am gynnwys y datganiadau blynyddol. Er hynny, y bwriad bob amser yw i ddarparwyr gwasanaethau gadw cyfrifoldeb dros yr wybodaeth hon. Fel y nodwyd yn y Memorandwm Esboniadol ar gyfer y Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (tudalen 21, paragraff 3.51), "*Byddai'n rhaid i'r adroddiadau gael eu llofnodi a'u cyflwyno gan y darparwr gwasanaeth cofrestredig, a fyddai'n atebol yn gyffredinol am gynnwys yr adroddiad hwn.*"

3.73. Am y rheswm hwn, bydd y Bil yn diwygio Deddf 2016 i osod y gofyniad i gyhoeddi datganiadau blynyddol ar y darparwr gwasanaeth, sy'n berchen ar yr wybodaeth, ar ei wefan ei hun. Bydd y Bil yn cynnwys pŵer i wneud rheoliadau i ragnodi'r terfyn amser ar gyfer cyhoeddi'r datganiad blynyddol gan y darparwr gwasanaeth. Bydd y Bil hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r darparwr gwasanaeth sicrhau bod copi o'r datganiad blynyddol cyhoeddedig ar gael ar gais.

3.74. Mae'n drosedd o dan adran 48 o Ddeddf 2016 i ddarparwr gwasanaeth fethu â chyflwyno datganiad blynyddol i Weinidogion Cymru (AGC). Bydd y Bil yn creu trosedd gyfatebol ar gyfer methu â chyhoeddi datganiad. Dirwy fyddai'r gosb am euogfarn.

**Cais i ganslo cofrestriad darparwr gwasanaeth: yr wybodaeth sydd i'w darparu**

3.75. Mae adran 14 o Ddeddf 2016 yn caniatáu i ddarparwr gwasanaeth wneud cais i ganslo ei gofrestriad. Bydd y Bil yn cynnwys pŵer i wneud rheoliadau i ganiatáu i Weinidogion Cymru ei gwneud yn ofynnol bod cais i ganslo cofrestriad fel darparwr gwasanaeth yn cynnwys gwybodaeth ragnodedig ac yn cael ei wneud ar ffurf ragnodedig.

3.76. Bydd hyn yn darparu pŵer sy'n cyfateb i'r un yn adran 11 sy'n ymwneud â cheisiadau i amrywio cofrestriad darparwr gwasanaeth,[14] a bydd yn rhoi'r pŵer i AGC ofyn i ddarparwyr gwasanaethau sut y maent yn bwriadu cydymffurfio â rheoliadau a wneir o dan adran 27[15] o'r Ddeddf nes y bydd y gwasanaeth yn peidio â chael ei ddarparu.

**Canslo ac amrywio cofrestriad darparwr gwasanaeth heb gais: y gweithdrefnau hysbysu**

3.77. Mae Deddf 2016 yn rhoi pwerau i AGC i gefnogi ei phroses wella a gorfodi. Mae adran 13 yn cynnwys y pŵer i amrywio cofrestriad darparwr gwasanaeth heb i gais gae ei wneud ac mae adran 15 yn cynnwys y pŵer i ganslo cofrestriad darparwr gwasanaeth heb i gais gael ei wneud, am y rhesymau a restrir yn yr adran honno.

Amrywio heb gais

3.78. Mae adran 13 o Ddeddf 2016 yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru i amrywio cofrestriad darparwr gwasanaeth heb gael cais gan y darparwr gwasanaeth. Mae'r gallu i amrywio cofrestriad yn caniatáu i Weinidogion Cymru ganslo gwasanaeth penodol ond gan alluogi'r darparwr i barhau i ddarparu gwasanaethau eraill, neu i ganslo lleoliad y darperir gwasanaeth ynddo, ohono neu mewn perthynas ag ef a chadw cofrestriad mannau eraill.

3.79. Bydd y Bil yn newid y weithdrefn sydd i'w dilyn wrth amrywio cofrestriad darparwr gwasanaeth, yn dibynnu ar y rhesymau dros amrywio. Bydd y Bil yn darparu bod rhaid cadw at y weithdrefn ar gyfer hysbysiad o gynnig (gweler adran 18 ac adran 19 o Ddeddf 2016), yn hytrach na'r weithdrefn ar gyfer

[14]Er gwybodaeth, y Rheoliadau a wnaed o dan adran 11 yw Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Cofrestru) (Cymru) 2017, fel y'u diwygiwyd. Mae Rheoliad 9(1)(c ) yn nodi "rhaid i gais i amrywio cofrestriad gynnwys … datganiad ynghylch sut y mae'r darparwr gwasanaeth yn bwriadu parhau i gydymffurfio â'r rheoliadau a wneir o dan adran 27 hyd nes y bydd y gwasanaeth yn peidio â chael ei ddarparu."

[15] Y Rheoliadau a wnaed o dan adran 27 yw Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwr Gwasanaeth ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017, fel y'u diwygiwyd.

hysbysiad gwella, lle caiff cofrestriad ei ganslo ar unrhyw un o'r seiliau canlynol pan nad oes modd gwneud unrhyw welliannau:

i. nid yw'r darparwr gwasanaeth bellach yn darparu'r gwasanaeth hwnnw,

ii. nid yw'r darparwr gwasanaeth bellach yn darparu gwasanaeth rheoleiddiedig yn y man hwnnw, ohono neu mewn perthynas ag ef.

3.80. Bydd y Bil hefyd yn cyflwyno sail newydd ar gyfer amrywio cofrestriad darparwr gwasanaeth plant o dan gyfyngiad ar y sail nad yw'r darparwr bellach yn endid nid-er-elw. Bydd amrywio i ddileu gwasanaeth ar y sail honno yn dilyn y weithdrefn hysbysiad o gynnig.

3.81. Mae'r Bil hefyd yn diwygio adran 13 o'r Ddeddf i roi'r pŵer i Weinidogion Cymru amrywio cofrestriad darparwr gwasanaeth drwy ddileu lle os yw'n fodlon bod yr unigolyn cyfrifol sydd wedi ei ddynodi mewn cysylltiad â'r man hwnnw, neu unrhyw berson arall, wedi ei gollfarnu o drosedd berthnasol, neu wedi cael rhybuddiad mewn cysylltiad â throsedd berthnasol, mewn cysylltiad â gwasanaeth rheoleiddiedig a ddarperir gan y darparwr gwasanaeth yn y man hwnnw, ohono neu mewn perthynas ag ef. Bydd y weithdrefn hysbysiad gwella yn gymwys pan fo amrywiad ar y sail hon.

3.82. Mae hysbysiad gwella yn hysbysiad o fwriad i ganslo ac yn rhoi cyfle i'r darparwr unioni'r sefyllfa. Rhaid i hysbysiad gwella bennu terfyn amser ar gyfer cymryd y camau gweithredu y mae Gweinidogion Cymru yn eu hystyried yn angenrheidiol i osgoi canslo'r cofrestriad. Y rhesymeg ar gyfer y newid yw nad yw rhoi hysbysiad gwella yn briodol o dan yr amgylchiadau a restrir uchod gan na ellir gwneud unrhyw welliant i atal cofrestriad rhag cael ei ganslo.

3.83. Mae hysbysiad o gynnig yn hysbysiad sy'n hysbysu'r darparwr o'r penderfyniad y mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu ei wneud ac yn rhoi'r cyfle i'r darparwr gwasanaeth gyflwyno sylwadau ysgrifenedig o fewn cyfnod penodol o amser, y mae'n rhaid iddo fod yn o leiaf 28 diwrnod.

<u>Canslo heb gais</u>

3.84. Mae adran 15 o Ddeddf 2016 yn nodi pwerau Gweinidogion Cymru i ganslo cofrestriad darparwr gwasanaeth yn llwyr.

3.85. Bydd y Bil yn newid y weithdrefn hysbysu sydd i'w dilyn wrth ganslo cofrestriad darparwr gwasanaeth, yn dibynnu ar y rhesymau dros ganslo. Mae'r Bil yn darparu bod rhaid dilyn y weithdrefn hysbysiad o gynnig (gweler adran 18 ac adran 19 o Ddeddf 2016), yn hytrach na'r weithdrefn hysbysiad gwella, lle caiff cofrestriad ei ganslo ar unrhyw un o'r seiliau canlynol lle nad oes modd gwneud unrhyw welliant:

i. Mae'r darparwr gwasanaeth wedi ei gollfarnu o drosedd berthnasol, neu wedi cael rhybuddiad mewn cysylltiad â throsedd berthnasol mewn cysylltiad â gwasanaeth rheoleiddiedig y mae'n ei ddarparu.

ii. Nid yw Gweinidogion Cymru wedi'u bodloni bellach fod y darparwr gwasanaeth yn berson addas a phriodol i fod yn ddarparwr gwasanaeth.

iii. Nid yw'r darparwr gwasanaeth bellach yn darparu unrhyw wasanaethau rheoleiddiedig

3.86. Bydd y Bil hefyd yn cyflwyno sail newydd ar gyfer canslo cofrestriad darparwr gwasanaeth plant o dan gyfyngiad ar y sail nad yw'r darparwr bellach yn endid nid-er-elw. Bydd canslo i ddileu gwasanaeth ar y sail honno yn dilyn y weithdrefn hysbysiad o gynnig.

3.87. Mae paragraff 3.82 uchod yn disgrifio’r hysbysiadau gwella ac mae paragraff 3.83 uchod yn disgrifio'r hysbysiadau o gynnig

**Gwybodaeth, arolygiadau ac ymchwiliadau**

3.88. Gwneir diwygiad i Bennod 3 o Ddeddf 2016 i wneud darpariaeth bellach mewn perthynas â phwerau Gweinidogion Cymru i gynnal arolygiadau ac i fynnu bod gwybodaeth yn cael ei darparu, gan gynnwys mewn perthynas ag ymchwilio i droseddau.

Pŵer i’w gwneud yn ofynnol i wybodaeth gael ei darparu

3.89. Mae adran 32 o Ddeddf 2016 yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru ei gwneud yn ofynnol i wybodaeth gael ei darparu mewn perthynas ag arfer eu swyddogaethau o dan Benodau 2 a 3 o Ran 1 o'r Ddeddf. Mae'r diwygiad yn ei gwneud yn glir bod y pŵer i’w gwneud yn ofynnol i wybodaeth gael ei darparu yn gymwys os oes sail resymol dros amau bod darparwr gwasanaeth yn (neu wedi bod yn) darparu gwasanaeth rheoleiddiedig mewn lleoliad nad yw'r person hwnnw wedi'i gofrestru mewn perthynas ag ef. Bydd y diwygiad hwn yn cefnogi Gweinidogion Cymru i gyflawni eu swyddogaethau o dan adran 5 o'r Ddeddf sy’n ei gwneud yn drosedd i berson ddarparu gwasanaeth rheoleiddiedig heb gael ei gofrestru yn unol ag adran 7.

3.90. Cafodd y pŵer i’w gwneud yn ofynnol i wybodaeth gael ei darparu gan y rhai sy'n darparu gwasanaeth rheoleiddiedig heb gofrestru ei nodi'n glir o dan y ddeddfwriaeth flaenorol, sef Deddf Safonau Gofal 2000. Mae adran 31(1) o'r Ddeddf Safonau Gofal yn nodi:

*The registration authority may at any time require a person who carries on or manages an establishment or agency to provide it with any information relating to the establishment or agency which the registration authority considers it necessary or expedient to have for the purposes of its functions under this Part.*

3.91. O dan y Ddeddf Safonau Gofal, mae'r defnydd o'r geiriau “establishment or agency” (sefydliad neu asiantaeth) yn ymwneud â'r gwasanaeth yn fwy cyffredinol a'r gweithgareddau sy'n cael eu cyflawni gan y

gwasanaeth, yn hytrach na'i statws fel gwasanaeth wedi'i gofrestru â'r arolygiaeth.

3.92. Mae'r diwygiad, gan gynnwys mewnosod adran 32A newydd, yn gwneud darpariaeth i gynnal braint unigolyn yn erbyn hunanargyhuddiad pan ddarperir gwybodaeth mewn ymateb i hysbysiad a roddir o dan adran 32 (1B) newydd.

Arolygiadau ac ymchwiliadau

3.93. Mae adran 33(1) o Ddeddf 2016 yn diffinio'r term 'arolygiad' at ddiben Rhan 1. Mae'n darparu bod arolygiad yn cynnwys dau beth: asesiad o ansawdd y gofal yn ogystal ag asesiad o drefniadaeth a chydgysylltiad y gwasanaeth rheoleiddiedig.

3.94. Mae'r Bil yn estyn y diffiniad o arolygiad i gynnwys asesiad o 'reolaeth' y gwasanaeth a reoleiddir. Mae ychwanegu'r term "rheolaeth" ochr yn ochr â "trefniadaeth a chydgysylltiad" yn disgrifio'n fwy cywir weithgarwch darparwr gwasanaeth sydd y tu ôl i ddarpariaeth uniongyrchol y gofal a'r cymorth ac yn ganolbwynt arolygiad.

3.95. Diwygir adran 33 hefyd, i gynnwys diffiniad o'r term 'ymchwiliad' at ddiben Rhan 1. 'Ymchwiliad' yw ymchwiliad i weld a yw person yn darparu (neu wedi darparu) gwasanaeth rheoleiddiedig mewn man nad yw (neu nad oedd) y person hwnnw wedi ei gofrestru mewn cysylltiad ag ef o dan adran 7 o Ddeddf 2016.

<u>Pŵer i fynd i mewn at ddibenion ymchwiliad</u>

3.96. Mae adran 34 o Ddeddf 2016 yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru fynd i mewn i fangre at ddibenion cynnal arolygiad. Mae'r Bil yn egluro pŵer mynediad Gweinidogion Cymru, gan ddarparu pŵer mynediad yn benodol at ddiben 'ymchwiliad' i weld a yw person yn darparu (neu wedi darparu) gwasanaeth rheoleiddiedig mewn man nad yw (neu nad oedd) y person hwnnw wedi'i gofrestru mewn cysylltiad ag ef o dan adran 7 o Ddeddf 2016.

3.97. Diben y diwygiad hwn yw ei gwneud yn glir bod gan Weinidogion Cymru bŵer mynediad, at ddiben cyflawni eu hymchwiliad a'i swyddogaethau gorfodi mewn perthynas ag adran 5 o'r Ddeddf, sy'n ei gwneud yn drosedd i berson ddarparu gwasanaeth rheoleiddiedig heb fod wedi cofrestru.

3.98. Mae adran 35 o Ddeddf 2016 yn nodi pwerau'r arolygydd i gyf-weld â phersonau a chynnal archwiliad ohonynt. Mae Adran 35(1) yn darparu pŵer i'r arolygydd i'w gwneud yn ofynnol i unrhyw berson gael ei gyf-weld yn breifat at ddibenion yr arolwg.

3.99. Gwneir diwygiad i adran 35(1) i ddatgan yn benodol bod y pŵer i gyf-weld yn gymwys at ddiben cynnal ymchwiliad.

3.100. Mae'r Bil yn gwneud darpariaeth na chaiff arolygydd gyf-weld â pherson at ddiben holi a yw wedi cyflawni trosedd oni bai bod y person yn cael gwybod am ddiben y cyfweliad ac yn cael cyfle i gael cynrychiolaeth gyfreithiol.

Llunio a chyhoeddi adroddiadau arolygiadau

3.101. Mae adran 36 (1) o Ddeddf 2016 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru lunio adroddiad arolygiad cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl i arolygiad gael ei gynnal ac anfon copi o'r adroddiad at y darparwr gwasanaeth.

3.102. Mae adran 36(2) o Ddeddf 2016 yn pennu'r hyn y mae'n rhaid ei gynnwys mewn adroddiad arolygiad. Mae'r Bil yn diwygio'r adran hon i roi'r disgresiwn i Weinidogion Cymru fynd i'r afael â'r materion a bennir i'r graddau sy'n gymesur yn eu barn hwy, o ystyried diben yr arolygiad. Mae'r diwygiad hwn yn adlewyrchu'r ffaith na fydd bob amser yn angenrheidiol nac yn briodol cwblhau adroddiad arolygiad llawn.

3.103. Mae adran 36(3) o Ddeddf 2016 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi pob adroddiad arolygiad. Mae'r Bil yn mewnosod is-adran (3A) newydd sy'n darparu nad yw'r ddyletswydd i gyhoeddi yn gymwys pan ystyrir bod hynny'n amhriodol gan roi sylw i fuddiannau gorau person y mae ei ofal a'i gymorth yn cael ei asesu yn yr adroddiad. Bwriad y diwygiad hwn yw diogelu preifatrwydd pobl sy'n defnyddio gwasanaethau rheoleiddiedig, er enghraifft lle gallai cyhoeddi adroddiad arolygiad cartref gofal bach, lleol, arwain at adnabod unigolion.

Diffiniad o 'wasanaeth cartref gofal'

3.104. Mae Atodlen 1 i Ddeddf 2016 yn nodi'r diffiniadau o wasanaethau rheoleiddiedig. Bydd y Bil yn diwygio Atodlen 1 i'w gwneud yn glir bod darparu llety a gofal i blentyn gan awdurdod lleol yn gyfystyr â gwasanaeth cartref gofal.

3.105. Yn dilyn deddfu Deddf 2016, ym mis Ebrill 2017 ymgymerodd Gofal Cymdeithasol Cymru (GCC) â swyddogaethau Cyngor Gofal Cymru, gyda swyddogaethau wedi'u cryfhau, a daeth yn gofrestrydd ac yn rheoleiddiwr gweithwyr gofal cymdeithasol. Mae'r Bil yn gwneud rhai diwygiadau i Ddeddf 2016 mewn perthynas â swyddogaethau GCC.

**Ystyr gweithiwr gofal cymdeithasol: gweithwyr gofal plant**

3.106. Bydd y Bil yn diwygio adran 79 o Ddeddf 2016, er mwyn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru, drwy reoliadau, estyn y diffiniad o weithwyr gofal cymdeithasol at ddibenion y Ddeddf i gynnwys gweithwyr gofal plant (gan gynnwys gweithwyr chwarae). At ddibenion y diwygiad hwn, mae gweithwyr gofal plant yn unigolion sy'n cael eu cyflogi gan, neu sy'n gweithio (gan gynnwys gweithwyr asiantaeth) i, berson sydd wedi'i gofrestru o dan Ran 2 o

Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 fel darparwr gofal dydd, i ddarparu gofal a goruchwyliaeth i blant.

3.107. Diben y diwygiad hwn yw galluogi i reoliadau gael eu gwneud sy'n pennu bod gweithwyr gofal plant i gael eu trin fel gweithwyr gofal cymdeithasol. Bydd hyn yn galluogi GCC i gyflawni swyddogaethau i gefnogi'r gweithlu gofal plant (gan gynnwys gweithwyr chwarae) a darparu sail ffurfiol ar gyfer unrhyw gymorth y mae GCC yn ei ddarparu i'r gweithlu hwnnw ar hyn o bryd, a ffurfioli unrhyw swyddogaethau y mae'n eu cyflawni ar hyn o bryd.

**Achosion addasrwydd i ymarfer: pwerau i estyn gorchmynion interim**

3.108. Yng ngoleuni'r profiad o weithredu o dan Ddeddf 2016, bydd y Bil yn diwygio'r pwerau sydd gan GCC i adolygu ac estyn gorchmynion interim.

3.109. Fel rhan o'i waith, gall GCC gynnal ymchwiliadau addasrwydd i ymarfer pan wneir honiadau yn erbyn gweithwyr gofal cymdeithasol cofrestredig. O dan adran 144 o Ddeddf 2016, caniateir i GCC osod gorchymyn interim ar berson cofrestredig, sy'n gosod cyfyngiadau dros dro ar ei allu i ymarfer, tra bo ymchwiliadau addasrwydd i ymarfer yn cael eu cynnal i honiadau a wnaed yn erbyn y person.

3.110. Gellir rhoi gorchmynion interim ar waith am hyd at 18 mis ar y mwyaf ac mae gosod gorchymyn yn ddarostyngedig i broses adolygu fanwl. Dylid gosod gorchmynion interim am y cyfnod byrraf gwarantedig, o dan yr amgylchiadau penodol. Er hynny, pan fo ymchwiliadau yn cymryd yn hirach na'r disgwyl neu pan fo angen cynnal ymchwiliadau pellach, efallai y bydd angen estyn hyd y gorchymyn.

3.111. Ar hyn o bryd, ni ellir estyn gorchymyn interim ond drwy wneud cais i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf o dan adran 148 o Ddeddf 2016. Mae gan y broses hon oblygiadau o ran costau ac amser a goblygiadau gweinyddol ar gyfer GCC a'r Tribiwnlys Haen Gyntaf.

3.112. Bydd y diwygiad yn rhoi i banel gorchmynion interim, neu banel addasrwydd i ymarfer y cyflwynir trafodion y gorchymyn interim ger eu bron, y pŵer i estyn gorchymyn interim am hyd at 18 mis ar y mwyaf (o'r dyddiad y gwneir y gorchymyn interim gyntaf), heb fod angen cais i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf. Yn achos unrhyw estyniad y tu hwnt i 18 mis bydd angen cais i'r tribiwnlys o hyd.

3.113. Bydd y diwygiad yn rhoi'r pŵer i GCC gymryd camau cymesur, gan estyn gorchmynion interim pan fo'n angenrheidiol ac yn briodol ac osgoi unrhyw geisiadau diangen i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf. Bydd yn hwyluso proses symlach, heb leihau hawl person i ofyn am adolygiad o orchmynion interim (o dan adran 146) neu i apelio yn erbyn gorchmynion interim (o dan adran 145).

Cyfeiriadau at Senedd Cymru

3.114. Mae'r Bil hefyd yn gwneud rhai mân ddiwygiadau i nifer o gyfeiriadau yn Neddf 2016 at 'Gynulliad Cenedlaethol Cymru'. Diwygir y rhain i ddarllen 'Senedd Cymru', gan adlewyrchu Deddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020.

**Diwygiadau i Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014**

3.115. Mae'r Bil yn cynnig cyfle hefyd i wella effeithiolrwydd Deddf 2014 er mwyn sicrhau bod arferion presennol yn cyd-fynd â'r ddeddfwriaeth. Bydd y Bil yn gwneud nifer o ddiwygiadau i Ddeddf 2014, yn benodol:

- Diwygio adran 47 o Ddeddf 2014 er mwyn sicrhau bod ffiniau iechyd a gofal cymdeithasol yn cael eu cynnal;
- Ailgyflunio'r darpariaethau yn Rhan 4 o Ddeddf 2014 sy'n galluogi awdurdodau lleol i wneud taliadau uniongyrchol er mwyn galluogi darpariaeth i daliad uniongyrchol gael ei wneud i drydydd parti a enwebwyd gan unigolyn sydd â hawl i gael taliad o'r fath mewn achosion lle mae gan y person unigol alluedd meddyliol i wneud y penderfyniad hwnnw;
- Diwygio adrannau 76 ac 81 i egluro cyfeiriadau at "orchmynion trefniadau plentyn";
- Diwygio testun Cymraeg adran 124(9) i ychwanegu cyfeiriad at amgylchiadau lle y mae awdurdod lleol yn lleoli plentyn mewn llety diogel yn yr Alban yn unol ag adran 25 o Ddeddf Plant 1989 at yr achosion pan ddatgymhwysir y ddarpariaeth yn adran 124. Bydd hyn yn adfer cyfwerthedd testunau Cymraeg a Saesneg y ddarpariaeth honno.

Diwygio adran 47 er mwyn ymgorffori'r prawf llawn a ddefnyddir i bennu terfyn pwerau awdurdod lleol i ddarparu gwasanaethau gofal iechyd

3.116. Caiff adran 47 o Ddeddf 2014 ei diwygio gan y Bil i fynd i'r afael â chanlyniad anfwriadol sy'n deillio o ddrafftio Deddf 2014, er mwyn ymgorffori'r prawf llawn sy'n pennu terfyn pwerau awdurdod lleol i ddarparu "gwasanaethau iechyd".

3.117. Mae adran 47 yn sefydlu terfyn gwasanaethau iechyd y gellid disgwyl yn gyfreithlon i awdurdod lleol ei ddarparu i ddiwallu anghenion gofal iechyd. Mae is-adrannau (1) a (2) yn cynnwys yr eithriadau ar gyfer darparu gwasanaethau iechyd gan awdurdodau lleol.

3.118. Mae'r prawf "maint ac ansawdd", a ddatblygwyd gan y Llys Apêl o ganlyniad i'r achos *Coughlan* (*R. v. North and East Devon Health Authority, ex parte Coughlan* [1999 EWCA civ 1871], ac y cyfeirir ato weithiau fel *"prawf Coughlan"*, yn pennu terfyn pwerau awdurdod lleol i ddarparu gwasanaethau gofal iechyd. Bwriedid i'r darpariaethau yn adran 47 o Ddeddf 2014 ddilyn argymhellion Comisiwn y Gyfraith,[16] gan gynnwys y dylai *prawf Coughlan* gael

[16] https://lawcom.gov.uk/document/adult-social-care-report/

ei godeiddio mewn statud. Er hynny, roedd Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) fel y'i cyflwynwyd yn cynnwys yr elfen gyntaf yn unig o "*brawf Coughlan*", sydd bellach wedi'i nodi yn yr adran 47 gyfredol o'r Ddeddf. Mae hyn yn wahanol i'w adran gyfatebol yn Neddf Gofal 2014 sy'n gymwys yn Lloegr, ac sy'n cynnwys y ddwy elfen o brawf Coughlan (gweler adran 22). Ychwanegwyd yr ail elfen at yr hyn sydd bellach yn adran 22 o Ddeddf Gofal 2014 yn dilyn diwygiad yn deillio o adroddiad gan Gyd-bwyllgor Seneddol yn ystod craffu, a dynnodd sylw at risgiau i'r ffin rhwng iechyd a gofal cymdeithasol pe bai'r ail elfen yn cael ei hepgor.

3.119. Nid ydym yn ymwybodol o unrhyw faterion sy'n deillio o'r hepgoriad hwn wrth gymhwyso adran 47 yn ymarferol ers i'r Ddeddf gael ei chychwyn. Er hynny, mae '*Gofal Iechyd Parhaus y GIG - y Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Gweithredu yng Nghymru*'[17] gan Lywodraeth Cymru yn cyfeirio at achos *Coughlan* yng nghyd-destun adlewyrchu deddfwriaeth berthnasol Cymru ond mae'n cyfeirio hefyd at y ddarpariaeth bresennol yn adran 47 o Ddeddf 2014 (sy'n cynnwys rhan yn unig o'r prawf hwnnw).

3.120. Er ein bod o'r farn nad yw'r hepgoriad wedi cael unrhyw effaith ar ddarparu gwasanaethau ar gyfer cymorth cartref, byddai cynnwys ail elfen y prawf yn sicrhau nad oedd unrhyw newid canfyddedig yn nherfynau pŵer awdurdod lleol a'r ffin rhwng iechyd a gofal cymdeithasol.

<u>Gwneud darpariaeth i wneud taliad uniongyrchol i drydydd parti h.y., unigolyn enwebedig neu sefydliad</u>

3.121. O dan Ddeddf 2014, adran 50, ni chaiff awdurdod lleol wneud taliad uniongyrchol ond naill ai i:

- oedolyn sydd â galluedd meddyliol sydd ag anghenion gofal a chymorth; neu
- "person addas" os nad oes gan yr oedolyn alluedd meddyliol.

3.122. Nid yw adran 50 yn galluogi oedolyn sydd â galluedd meddyliol i enwebu person i gael a rheoli ei daliad uniongyrchol.

3.123. Mae darpariaethau cyfatebol yn adran 51 sy'n ymwneud â thaliadau uniongyrchol i blant, ac yn adran 52 sy'n ymwneud â thaliadau uniongyrchol i ofalwyr. Ni all derbynwyr taliadau uniongyrchol o dan yr adrannau hyn enwebu person i gael a rheoli eu taliad uniongyrchol ar eu rhan.

3.124. Nid yw Deddf 2014 yn gwneud darpariaethau ar hyn o bryd i awdurdod lleol wneud y taliad uniongyrchol i berson enwebedig i reoli'r taliad uniongyrchol ar ran y derbynnydd taliadau uniongyrchol.

3.125. Bydd y Bil yn diwygio adran 53 o Ddeddf 2014 ac yn disodli'r adrannau 50-52 presennol ac Atodlen A1 ag adrannau newydd 49A – 52, a 53A ac Atodlen A1 newydd, i gynnwys:

[17] <u>Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Gofal Iechyd Parhaus y GIG | LLYW.CYMRU</u>

(a) Pŵer i awdurdodau lleol wneud taliadau uniongyrchol i “berson” (unigolyn neu sefydliad) pan fydd wedi cael ei enwebu gan yr unigolyn sydd â hawl i gael y taliad uniongyrchol oherwydd ei fod wedi cael ei asesu fel rhywun sydd ag anghenion cymwys am ofal a chymorth o dan Ddeddf 2014 ac sydd â galluedd meddyliol i gydsynio bod y taliad yn cael ei wneud (neu, yn achos unigolyn o dan 16 oed, yn cael ei ystyried gan awdurdod lleol yn rhywun sydd â dealltwriaeth ddigonol i wneud penderfyniad gwybodus ynghylch cydsynio bod taliadau uniongyrchol yn cael eu gwneud);
(b) Mae Atodlen A1 yn cymhwyso'r ddarpariaeth a wneir yn Rhan 4 o Ddeddf 2014 i alluogi awdurdod lleol i gyflawni ei ddyletswydd i ddarparu gwasanaethau ôl-ofal o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 drwy wneud taliadau uniongyrchol yn lle darparu neu sicrhau gwasanaethau i ddiwallu anghenion o'r fath.

3.126. Mae'r Cod Ymarfer[18] Rhan 4 presennol (a wneir o dan Ran 8 o Ddeddf 2014 ac sy'n berthnasol i wneud taliadau uniongyrchol gan awdurdodau lleol), yn disgrifio, mewn termau ehangach, y disgwyliadau sydd ar awdurdodau lleol i sicrhau'r canlyniadau polisi a fwriedir a'r model cymdeithasol o anabledd. Mae'r Cod yn adlewyrchu'r bwriad polisi pan ddatblygwyd Deddf 2014 er na chafodd hyn ei adlewyrchu'n llawn yng ngeiriad Deddf 2014. Mae'r Cod Ymarfer yn nodi:

- y gellir darparu taliadau uniongyrchol ar gyfer unrhyw angen ar gyfer gofal a chymorth a nodwyd y mae'r awdurdod yn gyfrifol am ei ddiwallu (paragraff 133);
- rhaid i daliadau uniongyrchol fod ar gael ym mhob achos lle y maent yn galluogi canlyniadau personol i gael eu cyflawni (paragraff 131);
- ni ddylid gwrthod taliad uniongyrchol i unigolion dim ond oherwydd na allant reoli'r taliad, neu os ydynt yn bryderus am reoli taliad. Rhaid i awdurdod lleol, mewn partneriaeth â'r unigolyn, ymchwilio i'r holl opsiynau ar gyfer helpu'r unigolyn i reoli taliad uniongyrchol. Lle y nodir meysydd sy'n peri anhawster, rhaid i'r awdurdodau lleol sicrhau bod y lefel gywir o gymorth ar gael i oresgyn rhwystrau o'r fath (paragraff 132).

3.127. Mae'r opsiwn arall, sef diwygio’r Cod i gyd-fynd â'r darpariaethau mwy cyfyngedig sydd yn Neddf 2014 ar hyn o bryd, wedi cael ei ystyried. Er hynny, byddai'r opsiwn hwn yn arwain at fframwaith mwy cyfyngedig a gallai atal rhai pobl rhag dewis taliadau uniongyrchol i gael mynediad at wasanaethau i ddiwallu eu hanghenion gofal a chymorth.

3.128. Mae'r trefniadau cyfochrog o fewn Deddf Gofal 2014 sy'n gymwys i oedolion yn Lloegr (yn enwedig adran 31(2)) yn cynnwys darpariaeth ychwanegol i awdurdodau lleol wneud taliadau uniongyrchol i “berson enwebedig” p'un a oes gan y person sydd â hawl i gael y taliadau alluedd meddyliol ai peidio.

---

[18] Diwallu anghenion gofal a chymorth pobl: cod ymarfer | LLYW. CYMRU

3.129. Bydd y diwygiadau arfaethedig i Ddeddf 2014 yn caniatáu i'r awdurdodau lleol wneud taliadau uniongyrchol i berson (naill ai unigolyn enwebedig neu sefydliad) lle mae gan yr unigolyn alluedd i gydsynio i wneud taliad uniongyrchol (neu, yn achos unigolyn o dan 16 oed, yn cael ei ystyried gan awdurdod lleol yn rhywun sydd â dealltwriaeth ddigonol i wneud penderfyniad gwybodus ynghylch cydsynio i wneud taliadau uniongyrchol), a thrwy hynny sicrhau hawliau cyfwerth i'r rhai sydd gan oedolyn sy'n cael taliad uniongyrchol ar hyn o bryd nad oes ganddo alluedd lle gall "person addas" gael a rheoli'r taliad ar ei ran.

3.130. Mae'r diwygiadau'n cael eu hadlewyrchu yn Atodlen A1 sy'n galluogi taliadau uniongyrchol i gael eu gwneud i bersonau sydd â hawl i gael gwasanaethau ôl-ofal gan awdurdod lleol yn unol â hawliau o dan adran 117 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983.

Arferion presennol

3.131. Mae ymgysylltu anffurfiol â'r awdurdodau lleol yn dangos bod arferion presennol yn adlewyrchu'n well y bwriad polisi a'r Cod Ymarfer, h.y. i alluogi unigolyn i ddewis taliad uniongyrchol drwy ei rymuso i enwebu person i reoli'r taliad hwnnw ar ei ran.

3.132. Ni fu modd darganfod faint o achosion sy'n bodoli lle y mae'r awdurdod lleol yn gwneud y taliad uniongyrchol i berson neu sefydliad a enwebwyd gan yr unigolyn ag anghenion gofal a chymorth yn hytrach nag i'r unigolyn ei hun. Ni fu modd ychwaith darganfod nifer yr achosion lle mae'r person ag anghenion gofal a chymorth wedi dewis cyllideb a reolir lle mae'r awdurdod lleol naill ai'n trosglwyddo'r taliad uniongyrchol i sefydliad trydydd parti neu'n cadw'r taliad uniongyrchol ei hun ac yn rheoli'r gyllideb ar ran yr unigolyn yn fewnol. Er hynny, yn ôl yr arwyddion gan awdurdodau lleol mae nifer sylweddol o'r trefniadau hyn ar waith pan fo gan dderbynnydd taliad uniongyrchol alluedd i gydsynio i wneud taliad uniongyrchol.

3.133. Mae'r camau galluogi a chefnogol hyn i ddefnyddio neu ddarparu cymorth i'r unigolyn yn gyfan gwbl gyson â'r Cod Ymarfer Rhan 4 sy'n llywodraethu'r ddarpariaeth a'r defnydd o daliadau uniongyrchol. Mae paragraff 145 yn datgan:

*Rhaid i awdurdod lleol ddatblygu gwasanaethau cymorth lleol ar gyfer derbynwyr taliadau uniongyrchol sy'n gallu darparu'r help a'r cymorth sydd eu hangen ar dderbynnydd, neu ei gynrychiolydd, i dderbyn a rheoli taliad uniongyrchol. Rhaid i wasanaethau cymorth allu bodloni gofynion cymorth derbynnydd i'w alluogi i gyflawni ei ganlyniadau personol. Rhaid i awdurdodau lleol archwilio, mewn partneriaeth â derbynwyr, y gwahanol fodelau a'r ffyrdd y gall cymorth gael ei ddarparu i sicrhau bod y trefniadau sydd ganddynt ar waith yn effeithiol, yn gallu ymateb i ofynion derbynwyr ac yn canolbwyntio ar y person.*

3.134. Nid yw Deddf 2014, fel y mae wedi'i drafftio ar hyn o bryd, yn cyd-fynd yn ddigonol â bwriad y polisi a'r Cod drwy ei gwneud yn ofynnol i'r unigolyn

gael y taliad uniongyrchol gan yr awdurdod lleol ac yna trosglwyddo'r swm cyfatebol i'w berson enwebedig.

Diwygio adrannau 76 ac 81 i egluro cyfeiriadau at “orchmynion trefniadau plentyn”

3.135. Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi, oherwydd newidiadau i Ddeddf 2014 a wnaed gan Reoliadau Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (Diwygiadau Canlyniadol) 2017, fod cwmpas y cyfeiriadau yn adrannau 76 ac 81 o'r Ddeddf, a oedd gynt yn gyfeiriadau at ‘orchmynion preswylio’, wedi'i ehangu'n anfwriadol. Mae adran 76 yn nodi rhwymedigaethau awdurdod lleol i ddarparu llety i blant nad ydynt yn derbyn gofal gan berson sydd â chyfrifoldeb rhiant am ryw reswm, tra bo adran 81 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol sy'n gofalu am blentyn wneud trefniadau ar gyfer ei lety mewn lleoliad sy'n gyson â'i lesiant.

3.136. Mae gorchmynion preswylio bellach wedi cael eu disodli gan ‘orchmynion trefniadau plentyn’. Er hynny, mae gorchmynion trefniadau plentyn yn ymdrin ag ystod ehangach o faterion, gan gynnwys trefniadau cyswllt ar gyfer plant. Felly, mae angen i'r cyfeiriadau at ‘orchmynion trefniadau plentyn’ yn adrannau 76 ac 81 ei gwneud yn glir na ddylai'r rhain ymdrin ond â'r gorchmynion hynny sy'n pennu'r person y dylai'r plentyn fyw gydag ef, er mwyn cadw'r bwriad polisi gwreiddiol.

3.137. Bydd y Bil yn diwygio'r cyfeiriadau at ‘orchmynion trefniadau plentyn’ yn adrannau 76 ac 81 o Ddeddf 2014, a fewnosodwyd gan Reoliadau 2017, i egluro nad yw cyfeiriad at orchmynion trefniadau plentyn ond yn ymwneud â'r gorchmynion hynny sy'n pennu person y dylai'r plentyn fyw gydag ef.

Diwygio testun Cymraeg adran 124(9) i sicrhau cyfwerthedd ystyr rhwng testun Cymraeg a Saesneg Deddf 2014

3.138. Mae adran 124 o Ddeddf 2014 yn gwneud darpariaeth ynghylch gwneud trefniadau i gynorthwyo plant i fyw y tu allan i Loegr.

3.139. Mae is-adran (9) o adran 124 o Ddeddf 2014 yn datgymhwyso'r ddarpariaeth a wneir gan yr adran mewn amgylchiadau penodedig:

(a) lle bo awdurdod lleol yn lleoli plentyn mewn llety diogel yn yr Alban o dan adran 25 o Ddeddf Plant 1989;

(b) lle bo awdurdod lleol yn lleoli plentyn i'w fabwysiadu gyda darpar fabwysiadwyr.

3.140. Pan gafodd Deddf 2014 ei deddfu, roedd is-adran (9) o adran 124 yn cyfeirio'n unig at yr amgylchiadau sydd bellach ym mharagraff (b). Bryd hynny roedd y testunau Cymraeg a Saesneg yn gyfwerth â’i gilydd.

3.141. Er hynny, diwygiwyd y ddarpariaeth gan Ddeddf Plant a Gwaith Cymdeithasol 2017 (ym mharagraff 13 o Atodlen 1). Diwygiodd y Ddeddf hon

y testun Saesneg i adran 124(9) o Ddeddf 2014 ond ni wnaeth y diwygiad cyfatebol i'r testun Cymraeg.

3.142. Mae'r diwygiad arfaethedig i destun Cymraeg adran 124(9) yn mewnosod paragraff (a) sy'n ychwanegu achosion lle y mae awdurdod lleol yn lleoli plentyn mewn llety diogel yn yr Alban yn unol ag adran 25 o Ddeddf Plant 1989 o dan yr amgylchiadau pan ddatgymhwysir y ddarpariaeth o dan adran 124.

# 4. Ymgynghori

4.1. Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ffurfiol ar gynigion deddfwriaethol sylfaenol yn y prif feysydd a restrir isod, dros ddeuddeg wythnos, rhwng 17 Awst a 7 Tachwedd 2022. Roedd y ddogfen ymgynghori yn nodi'r cyd-destun a'r rhesymeg dros bob newid arfaethedig; yn esbonio pam yr oedd Llywodraeth Cymru o'r farn bod angen cyflwyno neu ddiwygio'r gyfraith yn y meysydd hyn, a beth y bwriadwyd i hyn ei gyflawni; cyn gofyn am farn am y cynigion a'u heffeithiau tebygol. Daeth 200 o ymatebion i law a dadansoddwyd yr ymatebion i'r ymgynghoriad. Ymhlith yr ymatebwyr yr oedd aelodau o'r cyhoedd, cwmnïau, cyrff cyhoeddus a sefydliadau'r trydydd sector sy'n ymwneud â darparu gofal, grwpiau cynrychioliadol, Comisiynwyr statudol ac eraill. Mae'r holl ymatebion a ddaeth i law wedi cael eu cyhoeddi, gan hepgor manylion lle bo'n briodol. Mae'r ymgynghoriad gwreiddiol, y crynodeb o'r ymatebion, a'r ymatebion llawn, i gyd ar gael drwy'r ddolen ganlynol: Newidiadau arfaethedig i ddeddfwriaeth ar ofal cymdeithasol a gofal iechyd parhaus | LLYW. CYMRU

4.2. Roedd yr ymgynghoriad yn ymdrin â’r prif feysydd a ganlyn:

- Dileu elw o ofal plant sy'n derbyn gofal;
- Cyflwyno taliadau uniongyrchol ar gyfer Gofal Iechyd Parhaus;
- Estyn y gofyniad o ran hysbysu am blant ac oedolion sy’n wynebu risg;
- Diwygio rheoleiddio darparwyr gwasanaethau, unigolion cyfrifol a'r gweithlu gofal cymdeithasol. Mae hyn yn cynnwys estyn y diffiniad o weithiwr gofal cymdeithasol i gynnwys gweithwyr gofal plant a chwarae.

4.3. O ran dileu elw o ofal plant sy'n derbyn gofal, dangosodd yr ymgynghoriad bod cefnogaeth gref gan ystod o gyrff yn y sector cyhoeddus a'r trydydd sector i egwyddor ein cynnig canolog i gofrestru darparwyr nid-er-elw yn unig yng Nghymru. Roedd gwrthwynebiad gan rai sefydliadau ac unigolion yn y sector preifat a'r trydydd sector.

4.4. Roedd yr ymatebion i'r ymgynghoriad gan ystod eang o unigolion a sefydliadau yn tynnu sylw at yr heriau sydd ynghlwm wrth weithredu’r cynigion, yn enwedig y risg na fydd cyflenwad digonol o leoliadau wrth inni feithrin cadernid. Mae'r ystyriaethau hyn wedi llywio datblygiad y ddeddfwriaeth.

4.5. O ran y cynigion ynghylch GIP a thaliadau uniongyrchol, roedd cryn gefnogaeth i'r egwyddor o roi mwy o lais a rheolaeth i'r rhai sy'n cael GIP yng Nghymru, a chefnogaeth i ddefnyddio taliadau uniongyrchol i wneud hyn. Mynegwyd rhai pryderon, a hynny’n bennaf ynghylch sut y byddai taliadau uniongyrchol yn cael eu gweithredu o fewn GIP. Yn dilyn yr ymgynghoriad, cynhaliwyd gwaith ymgysylltu â phartneriaid cyflenwi a rhanddeiliaid ynglŷn â’r gweithredu, a bydd hyn yn parhau.

4.6. Roedd yr ymgynghoriad yn cynnwys cwestiynau archwiliadol ynghylch y dyletswyddau sefydliadol presennol – o dan Ddeddf Gwasanaethau

Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, ar 'bartneriaid perthnasol' awdurdodau lleol – i hysbysu am blant ac oedolion sy’n wynebu risg o gael eu cam-drin, eu hesgeuluso a mathau eraill o niwed. Gofynnwyd y cwestiynau hyn oherwydd y rhagwelid ei bod yn debygol y byddai’r Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol (IICSA) yn argymell y dylid ei gwneud yn orfodol hysbysu am gam-drin plant yn rhywiol. Nid oedd IICSA (adeg cyhoeddi'r ymgynghoriad) wedi cyhoeddi ei adroddiad terfynol a manylion ei gynigion.

4.7. Ar sail yr adborth i'r ymgynghoriad, a'r cynigion terfynol hynny gan IICSA, penderfynodd y Gweinidogion, yn hytrach nag ystyried gwneud newidiadau i ddeddfwriaeth sylfaenol ar y pryd, ganolbwyntio ar ddiwygio’r drefn hysbysu gorfodol drwy gryfhau a gwella cydymffurfedd â’r elfennau diogelu yn y fframweithiau rheoleiddio presennol ym meysydd gofal plant, addysg, iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru. Law yn llaw â hynny, ystyrir safbwyntiau ynghylch sicrhau bod gan eraill sy'n darparu gwasanaethau neu sy’n cynnig gweithgareddau i blant ac oedolion a allai fod yn cael eu cam-drin, neu sy’n wynebu risg o gael eu cam-drin, drefniadau diogelu cymesur ac effeithiol ar waith.

4.8. Mae'r dull hwn o fynd ati yn adlewyrchu’r galwadau a gafwyd yn ystod yr ymgynghoriad am ymgysylltu ac ystyried pellach cyn cyflwyno unrhyw ddyletswyddau newydd.

4.9. Roedd cryn gefnogaeth ar y cyfan i’r diwygiadau arfaethedig eraill i Ddeddf 2016. Cododd yr ymatebwyr nifer o gwestiynau perthnasol yn eu hymatebion. Roedd y rheoliadau a'r canllawiau presennol eisoes yn mynd i’r afael â rhai o’r cwestiynau hyn, ond cafodd rhai o’r cwestiynau eraill eu hystyried ymhellach wrth i'r ddeddfwriaeth gael ei datblygu.

4.10. Ni chafwyd ymgynghoriad ffurfiol ar Fil drafft. Bernid ei bod yn fwy priodol ymgynghori ar gynigion polisi wrth iddynt gael eu datblygu er mwyn sicrhau y gellid ystyried ymatebion i'r ymgynghoriad wrth ddatblygu'r Bil ei hun. Mae'r cynigion sydd wedi'u cynnwys yn y Bil yn cyd-fynd â'r bwriadau polisi a nodir yn yr ymgynghoriad, ond maent wedi ystyried pwyntiau a godwyd mewn ymatebion i'r ymgynghoriad. Bu ymgysylltiad parhaus penodol a rhagweithiol â rhanddeiliaid perthnasol wrth ddatblygu'r Bil.

Diwygiadau nad ymgynghorwyd yn eu cylch

4.11. Nid ymgynghorwyd ar unrhyw un o'r diwygiadau amrywiol i Ddeddf 2014 – h.y. y diwygiadau sy'n:

- Diwygio adran 47 o Ddeddf 2014 er mwyn sicrhau bod ffiniau iechyd a gofal cymdeithasol yn cael eu cynnal;
- Ailgyflunio'r darpariaethau yn Rhan 4 o Ddeddf 2014 sy'n galluogi awdurdodau lleol i wneud taliadau uniongyrchol er mwyn galluogi darpariaeth i daliad uniongyrchol gael ei wneud i drydydd parti a enwebwyd gan unigolyn sydd â hawl i gael taliad o'r fath mewn achosion lle mae gan y person unigol alluedd meddyliol i wneud y penderfyniad hwnnw;

- Diwygio adrannau 76 ac 81 i egluro cyfeiriadau at “orchmynion trefniadau plentyn”;
- Diwygio testun Cymraeg adran 124(9) i adfer cyfwerthedd testunau Cymraeg a Saesneg y ddarpariaeth honno.

4.12. Mae'r diwygiadau hyn yn ceisio sicrhau bod bwriadau polisi presennol Deddf 2014 yn cael eu cyflawni ac felly nid ydynt yn cynnig ymagwedd bolisi newydd.

# 5. Y pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth

5.1. Mae'r Bil yn cynnwys darpariaethau i wneud is-ddeddfwriaeth a dyroddi penderfyniadau. Mae Tabl 5.1 (is-ddeddfwriaeth) a Thabl 5.2 (cyfarwyddydau) yn nodi'r canlynol mewn perthynas â'r rhain:

(i) y person neu'r corff y rhoddir y pŵer iddo;

(ii) ar ba ffurf y mae'r pŵer i gael ei arfer;

(iii) priodoldeb y pŵer dirprwyedig;

(iv) y weithdrefn a gymhwysir; hynny yw, "cadarnhaol drafft", "negyddol", neu "dim gweithdrefn", ynghyd â rhesymau pam y bernir ei bod yn briodol.

5.2. Bydd Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar gynnwys yr is-ddeddfwriaeth os bernir ei bod yn briodol gwneud hynny. Penderfynir beth fydd union natur yr ymgynghori ar ôl i'r cynigion gael eu ffurfioli.

**Tabl 5.1: Crynodeb o’r pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth yn narpariaethau Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru)**

| Adran | I bwy y rhoddir y pŵer | Ffurf | Priodoldeb y pŵer dirprwyedig | Gweithdrefn | Rheswm dros y weithdrefn |
|---|---|---|---|---|---|
| 3(2)<br>(*adran newydd arfaethedig 6(1A) yn Neddf 2016*) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Bydd y pŵer yn caniatáu i Weinidogion Cymru ragnodi'r wybodaeth sy'n ofynnol mewn cais i gofrestru i fod yn ddarparwr gwasanaeth plant o dan gyfyngiad, er mwyn iddynt fod wedi’u bodloni bod y person sy'n gwneud cais i fod yn ddarparwr yn bodloni'r gofynion angenrheidiol (o dan adran 6A(1)). | Negyddol | Mae'r pŵer yn ymwneud â thasg o natur weinyddol, ac mae hefyd yn adlewyrchu'r dull a gymerwyd eisoes yn adran 6(1)(d) o Ddeddf 2016 (sy'n ymwneud â cheisiadau i gofrestru fel darparwr gwasanaeth). |
| 3(3)<br>(*adran newydd arfaethedig 6A(3)(b) yn Neddf 2016*) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Bydd y pŵer yn caniatáu i Weinidogion Cymru ragnodi'r hyn sy'n "fudd cyhoeddus" derbyniol y mae rhaid i amcanion neu ddibenion person sy'n cynnig darparu gwasanaethau plant o dan gyfyngiad | Cadarnhaol drafft | Byddai'r pŵer yn ehangu'r rhestr o fuddion cyhoeddus y tu hwnt i "les plant" yn unig a bennir yn adran newydd arfaethedig 6A(3)(a), ac felly ni fyddai darparwyr o dan anfantais. Fodd bynnag, oherwydd bod y rhestr o fuddion cyhoeddus yn bwysig i benderfynu a yw amcanion |

| Adran | I bwy y rhoddir y pŵer | Ffurf | Priodoldeb y pŵer dirprwyedig | Gweithdrefn | Rheswm dros y weithdrefn |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | ymwneud yn anad dim ag ef, gan ddiogelu'r darpariaethau yn y dyfodol yn erbyn y posibilrwydd y bydd buddion cyhoeddus newydd yn cael eu nodi. | | neu ddibenion y sefydliad yn bodloni un o’r amodau perthnasol i benderfynu a yw’r sefydliad yn endid “nid-er-elw" y gellir ei gofrestru mewn perthynas â gwasanaeth plant o dan gyfyngiad, bydd y weithdrefn gadarnhaol ddrafft yn cynorthwyo’r gwaith o graffu ar unrhyw newidiadau i’r rhestr hon o fuddion cyhoeddus |
| 4(3)<br>*(paragraff newydd arfaethedig 1(1)(b), yn Atodlen 1A i Ddeddf 2016)* | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Bydd y pŵer yn caniatáu i Weinidogion Cymru bennu diwedd y cyfnod trosiannol ar gyfer gwasanaethau plant o dan gyfyngiad, gan gynnwys y gallu i bennu diwrnodau gwahanol mewn perthynas â mathau gwahanol o wasanaeth a disgrifiadau o | Cadarnhaol ddrafft | Prif ddiben y cyfnod trosiannol yw osgoi amharu ar leoliadau i blant a darparwyr gwasanaethau. Bydd y weithdrefn gadarnhaol ddrafft yn cefnogi'r gwaith o graffu ar y dyddiad(au) arfaethedig ar gyfer diwedd y cyfnod trosiannol. |

| **Adran** | **I bwy y rhoddir y pŵer** | **Ffurf** | **Priodoldeb y pŵer dirprwyedig** | **Gweithdrefn** | **Rheswm dros y weithdrefn** |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | ddarparwr gwasanaeth. | | |
| 4(3) *(paragraff newydd arfaethedig 3(1), yn Atodlen newydd 1A i Ddeddf 2016)* | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Bydd y pŵer yn caniatáu i Weinidogion Cymru osod amodau ar ddarparwyr presennol gwasanaethau plant o dan gyfyngiad. | Cadarnhaol ddrafft | Bydd y weithdrefn gadarnhaol ddrafft yn cefnogi'r gwaith o graffu ar yr amodau arfaethedig. |
| 4(3) *(paragraff newydd arfaethedig 4(3), yn Atodlen 1A i Ddeddf 2016)* | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Bydd y pŵer yn caniatáu i Weinidogion Cymru bennu'r wybodaeth a gynhwysir mewn cais, a ffurf y cais hwnnw, gan ddarparwr gwasanaethau o dan gyfyngiad ar gyfer amrywio cofrestriad y darparwr hwnnw. | Negyddol | Mae'r pŵer yn ymwneud â thasg o natur weinyddol ac mae'r weithdrefn yn adlewyrchu hynny mewn perthynas â cheisiadau i amrywio o dan adran 11(3)(a)(iii) a (3)(b) o'r Ddeddf. |
| 7(a) *(paragraff arfaethedig (viiia) a fewnosodir yn is-adran 10(2)(a) o Ddeddf 2016)* | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Bydd y pŵer yn caniatáu i Weinidogion Cymru ragnodi'r wybodaeth am dystiolaeth sy'n berthnasol i'r prawf person addas a | Cadarnhaol ddrafft ar y defnydd cyntaf, ac yna negyddol (gweler adran 10 o Ddeddf 2016, ac adran 7(c)(ii) o'r Bil) | Mae'r pŵer yn ymwneud â thasg o natur weinyddol ac mae'r weithdrefn yn adlewyrchu hynny mewn perthynas â datganiadau blynyddol o dan adran 10(2)(a)(ix) o Ddeddf 2016. |

| **Adran** | **I bwy y rhoddir y pŵer** | **Ffurf** | **Priodoldeb y pŵer dirprwyedig** | **Gweithdrefn** | **Rheswm dros y weithdrefn** |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | phriodol y mae rhaid ei chynnwys yn y datganiad blynyddol. | | Fel yn achos pwerau presennol o dan adran 10, byddai'n briodol dilyn y weithdrefn gadarnhaol ddrafft pan arferir y pŵer hwn gyntaf. |
| 7(b)<br>*(adran newydd arfaethedig 2A a fewnosodir ar ôl is-adran (2) yn adran 10 o Ddeddf 2016)* | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Bydd y pŵer yn caniatáu i Weinidogion Cymru ragnodi'r wybodaeth sydd i'w chynnwys mewn datganiad blynyddol er mwyn bodloni Gweinidogion Cymru bod y darparwr yn bodloni gofynion adran 6A(1) (sy'n ymwneud â gofynion er mwyn cofrestru fel darparwr gwasanaeth plant o dan gyfyngiad). | Cadarnhaol ddrafft ar y defnydd cyntaf, ac yna negyddol (gweler adran 10 o Ddeddf 2016, ac adran 7(c)(iv) o'r Bil) | Mae'r pŵer yn ymwneud â thasg o natur weinyddol ac mae'r weithdrefn yn adlewyrchu hynny mewn perthynas â datganiadau blynyddol o dan adran 10(2)(a)(ix) o Ddeddf 2016.<br><br>Fel yn achos pwerau presennol o dan adran 10, byddai'n briodol dilyn y weithdrefn gadarnhaol ddrafft pan arferir y pŵer hwn gyntaf. |
| 8(2)<br>*(is-adran newydd arfaethedig (4) a fewnosodir ar ôl is-adran (3) yn* | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Bydd y pŵer yn caniatáu i Weinidogion Cymru ragnodi'r wybodaeth sydd i'w chynnwys mewn cais i amrywio cofrestriad | Negyddol | Mae'r pŵer yn ymwneud â thasg o natur weinyddol ac mae'r weithdrefn yn adlewyrchu hynny mewn perthynas â chais i amrywio cofrestriad fel darparwr |

| **Adran** | **I bwy y rhoddir y pŵer** | **Ffurf** | **Priodoldeb y pŵer dirprwyedig** | **Gweithdrefn** | **Rheswm dros y weithdrefn** |
|---|---|---|---|---|---|
| *adran 11 o Ddeddf 2016)* | | | darparwr i allu darparu gwasanaeth plant o dan gyfyngiad, er mwyn bodloni Gweinidogion Cymru bod y darparwr yn bodloni gofynion adran 6A(1) (sy'n ymwneud â gofynion er mwyn cofrestru fel darparwr gwasanaeth plant o dan gyfyngiad). | | gwasanaeth o dan adran 11(3)(a)(iii) o'r Ddeddf. |
| 11 *(is-adran (2)(a) o adran newydd 75A sydd i'w mewnosod yn Neddf 2014)* | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Bydd y pŵer yn caniatáu i Weinidogion Cymru ragnodi'r math o gynlluniau digonolrwydd awdurdodau lleol. | Negyddol | Mae'r pŵer yn ymwneud â thasg o natur weinyddol. |
| 11 *(is-adran (3)(d)(iii) o adran newydd 75A sydd i'w mewnosod yn Neddf 2014)* | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Bydd y pŵer yn caniatáu i Weinidogion Cymru ragnodi'r wybodaeth sydd i'w chynnwys yng nghynlluniau digonolrwydd awdurdodau lleol, am ddarparwyr er elw sy'n | Negyddol | Mae'r pŵer yn ymwneud â thasg o natur weinyddol. |

| Adran | I bwy y rhoddir y pŵer | Ffurf | Priodoldeb y pŵer dirprwyedig | Gweithdrefn | Rheswm dros y weithdrefn |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | darparu llety yng Nghymru ac sy'n debygol o gael eu henwi mewn ceisiadau i gymeradwyo lleoliadau atodol. | | |
| 11<br>*(is-adran (3)(d)(iv) o adran newydd 75A sydd i'w mewnosod yn Neddf 2014)* | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Bydd y pŵer yn caniatáu i Weinidogion Cymru ragnodi'r wybodaeth sydd i'w chynnwys yng nghynlluniau digonolrwydd awdurdod lleol, am ddarparwyr preifat sy'n darparu llety yn Lloegr, ac sy'n debygol o gael eu henwi mewn ceisiadau i gymeradwyo lleoliadau atodol. | Negyddol | Mae'r pŵer yn ymwneud â thasg o natur weinyddol. |
| 11<br>*(is-adran (3)(f) o adran newydd 75A sydd i'w mewnosod yn Neddf 2014)* | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Bydd y pŵer yn caniatáu i Weinidogion Cymru ragnodi'r wybodaeth arall sydd i'w chynnwys yng nghynlluniau | Negyddol | Mae'r pŵer yn ymwneud â thasg o natur weinyddol. |

| **Adran** | **I bwy y rhoddir y pŵer** | **Ffurf** | **Priodoldeb y pŵer dirprwyedig** | **Gweithdrefn** | **Rheswm dros y weithdrefn** |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | digonolrwydd awdurdodau lleol. | | |
| 13(3)<br>*(is-adran (3)(e) o adran newydd 81B sydd i'w mewnosod yn Neddf 2014)* | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Bydd y pŵer yn caniatáu i Weinidogion Cymru ragnodi gwybodaeth arall sydd i'w chynnwys mewn cais gan awdurdod lleol am leoliad atodol. | Negyddol | Mae'r pŵer yn ymwneud â thasg o natur weinyddol. |
| 14(2)(c)<br>*(yn mewnosod is-adran newydd (4A) yn adran 10 o Ddeddf 2016)* | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Bydd y pŵer yn caniatáu i Weinidogion Cymru bennu terfyn amser y mae rhaid i ddarparwr gwasanaeth gyhoeddi datganiad blynyddol oddi mewn iddo. | Negyddol | Ar hyn o bryd, cyflwynir y datganiad blynyddol i Weinidogion Cymru gan y darparwr gwasanaeth cofrestredig o fewn terfyn amser penodedig ac fe'i cyhoeddir ar-lein gan Weinidogion Cymru. Bydd y rheoliadau a wneir yn unol â'r ddarpariaeth hon yn pennu'r terfyn amser y mae'r darparwr gwasanaeth i gyhoeddi'r datganiad blynyddol ar-lein oddi mewn iddo. |
| 15(2)<br>*(yn mewnosod is-adran newydd* | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Bydd y pŵer yn caniatáu i Weinidogion Cymru ei gwneud yn | Negyddol | Bydd y rheoliadau a wneir yn unol â'r ddarpariaeth hon yn ei gwneud yn ofynnol |

| Adran | I bwy y rhoddir y pŵer | Ffurf | Priodoldeb y pŵer dirprwyedig | Gweithdrefn | Rheswm dros y weithdrefn |
|---|---|---|---|---|---|
| *(1A) yn adran 14 o Ddeddf 2016)* | | | ofynnol bod cais i ganslo cofrestriad fel darparwr gwasanaeth yn cynnwys gwybodaeth ragnodedig ac yn cael ei wneud ar ffurf ragnodedig. | | cyflwyno gwybodaeth annadleuol, ond pwysig, mewn fformat gofynnol. Mae pwerau cyfatebol i wneud rheoliadau yn adran 11(3) o Ddeddf 2016 sy'n ymdrin â chais i amrywio cofrestriad fel darparwr gwasanaeth. |
| 18(2)(a)(ii) *(yn mewnosod is-adran newydd 3(m) yn adran 79 o Ddeddf 2016)* | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Bydd y pŵer yn caniatáu i Weinidogion Cymru ddarparu bod gweithwyr gofal plant (personau a gyflogir / sy'n gweithio i ddarparu gofal a goruchwyliaeth i blant gan berson sydd wedi’i gofrestru o dan Ran 2 o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010) i gael eu trin fel gweithwyr gofal cymdeithasol. | Negyddol | Bydd y rheoliadau a wneir o dan y darpariaethau hyn yn galluogi Gofal Cymdeithasol Cymru i ymgymryd â swyddogaethau i gefnogi'r gweithlu gofal plant ac i ffurfioli unrhyw swyddogaethau y maent eisoes yn ymgymryd â nhw. |
| 20(2)(a) *(yn mewnosod adran newydd* | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Mae'r pŵer hwn yn disodli'r pwerau presennol yn adrannau 50-52 o | Negyddol | Byddai'r rheoliadau hyn yn nodi materion technegol sy'n ymwneud â gweithredu'r taliadau uniongyrchol hyn ac |

| Adran | I bwy y rhoddir y pŵer | Ffurf | Priodoldeb y pŵer dirprwyedig | Gweithdrefn | Rheswm dros y weithdrefn |
|---|---|---|---|---|---|
| *49A yn Neddf 2014)* | | | Ddeddf 2014 i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i'w gwneud yn ofynnol neu ganiatáu i awdurdodau lleol wneud taliadau uniongyrchol tuag at ddiwallu anghenion oedolion, plant neu ofalwyr. | | felly byddai'r weithdrefn negyddol yn fwy priodol. Mae hyn hefyd yn adlewyrchu'r weithdrefn bresennol ar gyfer y pwerau cyfatebol sydd yn Neddf 2014 ar hyn o bryd. |
| 20(2)(c) a (d) *(yn mewnosod adran 53A ac Atodlen A1 yn Neddf 2014)* | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Mae'r pŵer i wneud rheoliadau yn Atodlen A1 newydd i'w mewnosod yn Neddf 2014 yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau i'w gwneud yn ofynnol neu ganiatáu i awdurdodau lleol wneud taliadau uniongyrchol mewn cysylltiad â pherson y mae adran 117 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 (ôl-ofal) yn | Negyddol | Byddai'r rheoliadau hyn yn nodi materion technegol sy'n ymwneud â gweithredu'r taliadau uniongyrchol hyn ac felly byddai'r weithdrefn negyddol yn fwy priodol. Mae hyn hefyd yn adlewyrchu'r weithdrefn bresennol ar gyfer y pwerau cyfatebol sydd yn Neddf 2014 ar hyn o bryd. |

| Adran | I bwy y rhoddir y pŵer | Ffurf | Priodoldeb y pŵer dirprwyedig | Gweithdrefn | Rheswm dros y weithdrefn |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | gymwys iddo, yn lle darparu neu drefnu i ddarparu gwasanaethau ôl-ofal ar gyfer y person. Mae hyn yn disodli'r pwerau cyfatebol yn Atodlen A1 presennol o Ddeddf 2014 ac adrannau 50, 51 a 53 o Ddeddf 2014. | | |
| 24(2)<br>*(yn mewnosod adran 10B(5) yn Neddf 2006)* | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Bydd y pŵer hwn i wneud rheoliadau yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud darpariaeth a fydd yn ei gwneud yn ofynnol i Fyrddau Iechyd Lleol (BILlau) wneud taliadau uniongyrchol, gyda chydsyniad claf, i'r claf hwnnw (neu berson a enwebwyd ganddynt) yn lle cyflawni'r ddyletswydd sydd arnynt i ddarparu gwasanaethau ôl-ofal | Cadarnhaol ddrafft ar y defnydd cyntaf, ac yna negyddol (gweler adran 203 o Ddeddf 2006, ac adran 27(3) o'r Bil) | Byddai'n briodol dilyn y weithdrefn gadarnhaol ddrafft pan arferir y pŵer hwn gyntaf, gan y byddai hyn yn cyflwyno gofyniad ar y BILlau i wneud taliadau uniongyrchol yn lle darparu'r gwasanaethau hyn, neu'n eu galluogi i wneud hynny, er mwyn cyflawni eu dyletswydd i ddarparu gwasanaeth ôl-ofal o dan Ddeddf 1983.<br><br>Felly, mae lefel uwch o graffu yn briodol pan arferir y pŵer gyntaf, a fyddai'n galluogi |

| Adran | I bwy y rhoddir y pŵer | Ffurf | Priodoldeb y pŵer dirprwyedig | Gweithdrefn | Rheswm dros y weithdrefn |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | o dan adran 117 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 (p.20) (Deddf 1983).<br><br>Rhoddir y dyletswyddau o dan adran 117 yn uniongyrchol ar BILlau (yn wahanol i lawer o'r swyddogaethau iechyd a arferir gan y BILlau ar ran Gweinidogion Cymru sy'n cael eu harfer yn unol â Rheoliadau'r Byrddau Iechyd Lleol (Swyddogaethau a Gyfarwyddir) (Cymru) 2009).<br><br>Byddai'r pŵer hwn yn gwneud yn siŵr y gall Gweinidogion Cymru sicrhau cysondeb rhwng personau sydd | | BILlau i gyflawni eu dyletswyddau o dan Ddeddf 1983 mewn ffordd newydd, nag a fyddai'n briodol pan arferir y pŵer unrhyw dro wedyn. Y rheswm am hyn yw na fyddai'r troeon hynny'n golygu bod angen ystyried yr egwyddor o alluogi BILl i gyflawni ei ddyletswydd i ddarparu gofal mewn ffordd wahanol.<br><br>Byddai'r rheoliadau hyn hefyd yn nodi materion technegol sy'n ymwneud â gweithredu'r taliadau uniongyrchol hyn ac felly byddai'r weithdrefn negyddol yn fwy priodol ar gyfer rheoliadau dilynol. |

| **Adran** | **I bwy y rhoddir y pŵer** | **Ffurf** | **Priodoldeb y pŵer dirprwyedig** | **Gweithdrefn** | **Rheswm dros y weithdrefn** |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | â hawl i wasanaethau ôl-ofal o dan Ddeddf 1983 a'r rhai sy'n derbyn gwasanaethau o dan Ddeddf 2006. | | |
| 24(2)<br>*(yn mewnosod adran 10C yn Neddf 2006)* | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Dyma bŵer i nodi'r manylion ynghylch sut y byddai angen gweithredu taliadau uniongyrchol a wneir yn lle darparu gwasanaethau'r GIG. | Cadarnhaol drafft | Byddai'r rheoliadau hyn yn nodi materion technegol sy'n ymwneud â gweithredu'r taliadau uniongyrchol hyn. Fodd bynna, oherwydd diddordeb y Senedd yng ngweithrediad y taliadau uniongyrchol a wneir yn lle darparu gwasanaethau'r GIG, bydd y weithdrefn gadarnhaol ddrafft yn cynorthwyo'r gwaith o graffu ar unrhyw reoliadau a wneir o dan y pŵer hwn. |
| 28 | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Dyma bŵer i ganiatáu i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth sy'n ddeilliadol neu'n atodol i unrhyw ddarpariaeth yn y Ddeddf hon neu sy'n ganlyniadol ar unrhyw ddarpariaeth yn y | Negyddol os yw'n diwygio neu'n diddymu is-ddeddfwriaeth.<br><br>Cadarnhaol ddrafft os yw'n diwygio neu'n diddymu | Bydd y diwygiadau canlyniadol hyn o natur dechnegol a gweithdrefnol, felly byddai'r weithdrefn negyddol fel arfer yn briodol.<br><br>Fodd bynnag, pan fyddai rheoliadau'n diwygio, yn diddymu neu fel arall yn |

| Adran | I bwy y rhoddir y pŵer | Ffurf | Priodoldeb y pŵer dirprwyedig | Gweithdrefn | Rheswm dros y weithdrefn |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | Ddeddf hon, a gwneud darpariaeth drosiannol neu ddarpariaeth arbed mewn cysylltiad ag unrhyw ddarpariaeth yn y Ddeddf hon. | deddfwriaeth sylfaenol. | addasu darpariaeth mewn deddfwriaeth sylfaenol, byddai'r weithdrefn gadarnhaol ddrafft yn briodol ac yn gymwys. |

**Tabl 5.2: Crynodeb o'r pwerau i wneud cyfarwyddydau yn narpariaethau Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru)**

| Adran | I bwy y rhoddir y pŵer | Ffurf | Priodoldeb y pŵer dirprwyedig | Gweithdrefn | Rheswm dros y weithdrefn |
|---|---|---|---|---|---|
| 13(3)<br>*(yn mewnosod adran newydd 81B(5)(c) yn Neddf 2014)* | Gweinidogion Cymru | Cyfarwyddydau | Os nad yw Gweinidogion Cymru wedi’u bodloni bod cais awdurdod lleol i leoli plentyn sy'n derbyn gofal gyda darparwr er elw neu breifat yn bodloni'r gofynion a nodir yn adran 81B(3) a (4), rhaid iddynt nodi'r rhesymau dros hynny a chyfarwyddo'r awdurdod lleol i ailystyried.<br><br>Bwriad hyn yw atgyfnerthu'r angen i awdurdodau lleol ystyried yn ofalus a yw unrhyw leoliad gyda darparwr er elw neu breifat yn briodol. | Dim | Dyma weithred weinyddol mewn perthynas â phenderfyniad penodol awdurdod lleol ynghylch lleoliad atodol plentyn sy'n derbyn gofal. |

Noder: at ddiben helpu pobl i ddeall Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru) yn unig y mae'r ddogfen hon wedi'i llunio. Ni ddylid dibynnu arni at unrhyw ddiben arall.

# RHAN 2 – ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL

## 6. Crynodeb o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol

6.1. Mae Asesiad Effaith Rheoleiddiol (RIA) wedi'i gwblhau ar gyfer y Bil ac mae'n dilyn isod.

6.2. Nid oes darpariaethau penodol yn y Bil sy'n codi gwariant ar Gronfa Gyfunol Cymru.

6.3. Mae'r tabl a ganlyn yn cyflwyno crynodeb o'r costau a'r manteision ar gyfer y Bil yn gyfan. Cynlluniwyd y tabl i gyflwyno'r wybodaeth sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 26.6 (viii) a (ix).

<table>
<tr><th colspan="3">Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru)</th></tr>
<tr><td colspan="3">Yr opsiwn a ffefrir: Deddfu mewn perthynas â dileu elw o fathau penodol o ofal cymdeithasol plant, taliadau uniongyrchol gofal iechyd parhaus (GIP), a diwygiadau i Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 er mwyn sicrhau bod y rhain yn gweithio fel y bwriadwyd.</td></tr>
<tr><td>Cyfnod: Cyflwyno</td><td>Cyfnod gwerthuso:<br>2025-26 – 2034-35</td><td>Blwyddyn sail brisiau:<br>2022-23</td></tr>
<tr><td>Cyfanswm y Gost<br>Cyfanswm: £369.3m - £372.9m<br>Gwerth presennol:<br>£305.7m - £307.8m</td><td>Cyfanswm y Manteision:<br>Cyfanswm: £239.7m - £311.8m<br>Gwerth presennol:<br>£183.2m - £238.2m</td><td>Gwerth Presennol Net (NPV):<br>£-69.6m - £-122.5m</td></tr>
</table>

### Cost gweinyddu

| **Costau:** |
|---|
| I Lywodraeth Cymru, bydd cost o tua £4.5m yn gysylltiedig â gweithredu'r darpariaethau yn y Bil. I awdurdodau lleol, rhwng £211.4m a £277.6m yw'r gost a amcangyfrifir sy'n gysylltiedig â rhoi'r polisi ar waith i ddileu elw o ofal plant sy'n derbyn gofal. Mae hyn yn cynnwys costau refeniw (cychwyn gwasanaethau preswyl |

| | | | |
|---|---|---|---|
| a maethu, costau cyfreithiol, costau comisiynu) a chostau cyfalaf.[19] O'r costau hyn i awdurdodau lleol, rhwng £107.1m a £142.8m yw'r gost gyfalaf i brynu ac adnewyddu eiddo er mwyn disodli capasiti na fydd ar gael mwyach pan fydd darparwyr er elw yn gadael y farchnad yng Nghymru. Disgwylir i'r gost hon i awdurdodau lleol gael ei gwrthbwyso, o leiaf yn rhannol, gan ostyngiad mewn costau alldro (mae'r rhain wedi'u cynnwys isod fel mantais).<br>I fyrddau iechyd lleol, mae cost rhwng £20.5m a £24.2m sy'n gysylltiedig â thaliadau uniongyrchol GIP. Disgwylir i weddill y costau gweinyddol fod yn gostau i AGC (£5.9m). | | | |
| **Trosiannol: £175.5m- £232.9m** | **Rheolaidd: £66.8m - £79.3m** | **Cyfanswm: £242.3m - £312.2m** | **Gwerth Presennol: £216.2m – £278.7m** |
| **Arbedion costau:**<br>Ceir arbediad costau gweinyddol gwerth £83,000 (dros ddeng mlynedd) sy'n cronni i AGC yn sgil peidio â gorfod gwirio datganiadau blynyddol darparwyr gwasanaethau mwyach. Ceir arbediad costau gweinyddol pellach i Gofal Cymdeithasol Cymru yn sgil peidio â gorfod gwneud cais i Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EF mwyach i estyn gorchmynion atal dros dro. Amcangyfrifir bod yr arbediad costau hwn yn gyfanswm o £2.2m dros y cyfnod gwerthuso. | | | |
| **Trosiannol: £0** | **Rheolaidd: £2.3m** | **Cyfanswm: £2.3m** | **Gwerth Presennol: £1.8m** |
| **Cost gweinyddu net: £240.0m - £309.9m** | | | |

## Costau cydymffurfio

[19] Mae'r amrediadau ar gyfer y costau a'r arbedion costau mewn perthynas â dileu elw wedi'u cyfrifo gan ddefnyddio gwahanol dybiaethau (senarios) ar gyfer y gyfran o'r darparwyr sector preifat presennol a fydd yn dewis aros yn y farchnad. Cyflwynir y rhain fel senarios A, B ac C yn yr RIA. Mae gwybodaeth am y farchnad a thrafodaethau â rhanddeiliaid wedi ein harwain i gredu mai canlyniad rywle rhwng Senario B a Senario C sydd fwyaf tebygol ac felly mae'r ffigurau yn nhablau cryno yr RIA yn seiliedig ar yr amrediad o gostau ac arbedion costau a gyfrifwyd o dan y ddwy senario hyn. Ar gyfer costau gweinyddol y sector cyhoeddus, mae'r costau hyn yn is yn Senario B lle bydd rhai darparwyr preifat yn trosi i fodel nid-er-elw, ac yn uwch yn Scenario C lle bydd pob darparwr preifat yn gadael y farchnad.).

| | | | |
|---|---|---|---|
| Bydd mân gostau cydymffurfio rhwng £145,000 a £247,000 yn cael eu hysgwyddo gan y darparwyr gwasanaethau hynny sydd angen creu gwefan i gyhoeddi eu datganiad blynyddol. | | | |
| **Trosiannol: £0.1m - £0.2m** | **Rheolaidd: £0** | **Cyfanswm: £0.1m - £0.2m** | **Gwerth Presennol: £0.1m - £0.2m** |

## Costau eraill

| | | | |
|---|---|---|---|
| Bydd dileu elw o ofal plant sy'n derbyn gofal yn arwain at gost i'r busnesau hynny sydd, ar hyn o bryd, yn gwneud elw o'r gweithgarwch hwn. Dros y cyfnod gwerthuso deng mlynedd, amcangyfrifir y bydd cost yr elw hwn a gollir rhwng £62.8m a £129.1m Mae'r ffigurau hyn yn debygol o oramcangyfrif effaith ddomestig y newid polisi gan y gwyddwn fod rhai o'r busnesau sy'n gweithredu yng Nghymru yn fusnesau â pherchnogaeth dramor. (Fel y nodir ym Mhennod 7 yr RIA, mae costau darparwyr preifat ar eu huchaf o dan Senario B ac ar eu hisaf o dan Senario C.) | | | |
| **Trosiannol: £0** | **Rheolaidd: £62.8m – £129.1m** | **Cyfanswm: £62.8m - £129.1m** | **Gwerth Presennol: £30.7m - £91.2m** |

Er mwyn nodi mor glir â phosibl sut y mae’r amcangyfrif cyffredinol o amrediad costau’r Bil, fel y’i darparwyd yn y crynodeb o’r RIA, yn ymwneud â'r ffigurau a roddir yn naratif y crynodeb, rydym wedi darparu tabl arall isod. Mae'r costau yn y golofn sy'n cynrychioli'r isafswm cyffredinol wedi’u cymryd o amcangyfrifon costau Senario B ar gyfer y cynigion ar ddileu elw, yr amcangyfrifon costau isaf ar gyfer y taliadau uniongyrchol mewn gofal iechyd parhaus ac ar gyfer costau cydymffurfio, ac amcangyfrifon cost eraill ar gyfer darpariaethau eraill y Bil (lle nad oes amrediad o amcangyfrifon wedi’i ddarparu). Mae'r costau yn y golofn sy'n cynrychioli'r uchafswm cyffredinol wedi’u cymryd o amcangyfrifon costau Senario C ar gyfer y cynigion ar ddileu elw, yr amcangyfrifon cost uchaf ar gyfer y taliadau uniongyrchol mewn gofal iechyd parhaus ac ar gyfer costau cydymffurfio, ac amcangyfrifon cost eraill ar gyfer darpariaethau eraill y Bil. (Mae’n bosib na fydd rhai ffigurau cost yn cyfateb yn union i gostau'r cydrannau, oherwydd talgrynnu.)

| | Costau (o dan y senario sy'n arwain at y lleiafswm cyffredinol) mewn £M, i'r £0.1M agosaf | Costau (o dan y senario sy'n arwain at yr uchafswm cyffredinol) mewn £M, i'r £0.1M agosaf |
|---|---|---|
| Costau gweinyddol i Lywodraeth Cymru | 4.5 | 4.5 |
| Costau gweinyddol i awdurdodau lleol | 211.4 | 277.6 |
| Costau gweinyddol i fyrddau iechyd | 20.5 | 24.2 |
| Costau gweinyddol i AGC | 5.9 | 5.9 |
| Arbedion costau gweinyddol | -2.3 | -2.3 |
| **Costau gweinyddol net** | **240.0** | **309.9** |
| **Costau cydymffurfio** | **0.1** | **0.2** |
| **Costau eraill** (i ddarparwyr preifat) | **129.1** | **62.8** |
| **Cyfanswm y costau** | **369.3*** | **372.9** |

** Nid yw'r ffigur ar gyfer cyfanswm y costau amcangyfrifedig yn cyfateb yn union i gostau'r cydrannau yn y golofn hon, oherwydd talgrynnu.*

## Costau ac anfanteision heb eu meintioli

I ddarparwyr gwasanaethau a fydd yn gadael y farchnad, bydd cost yn ymwneud â llunio datganiad a fydd yn egluro sut y byddant yn cydymffurfio â safonau ansawdd hyd nes y bydd y gwasanaeth yn dod i ben. Er bod cost uned ar gyfer llunio datganiad o'r fath wedi'i chyflwyno, nid yw wedi bod yn bosibl crynhoi'r gost hon gan nad yw'n hysbys faint o ddarparwyr a fydd yn gadael y farchnad yn ystod y cyfnod gwerthuso.

Noder: at ddiben helpu pobl i ddeall Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru) yn unig y mae'r ddogfen hon wedi'i llunio. Ni ddylid dibynnu arni at unrhyw ddiben arall.

## Manteision

| | |
|---|---|
| At ddibenion llunio'r tabl crynodeb hwn, mae'r gwerth gweddilliol ar ddiwedd cyfnod gwerthuso cartrefi gofal preswyl plant wedi'i gategoreiddio fel mantais. Amcangyfrifir bod y gwerth hwn rhwng £72.3m a £96.4m. Disgwylir i awdurdodau lleol elwa ar gostau alldro is ar gyfer gofal plant, gan arbed rhwng £139.9m a £192.9m. Pan fydd unigolion yn newid o daliadau gofal cymdeithasol i daliadau uniongyrchol GIP, bydd hyn yn arwain at fantais i awdurdodau lleol ac i unigolion. Amcangyfrifir y bydd y fantais hon yn £13.7m dros y cyfnod gwerthuso (yr amcangyfrifir bod rhwng £10.9m a £13.7m ohono yn fantais i awdurdodau lleol, gydag unrhyw swm gweddilliol yn cronni i unigolion). Mae gweddill y manteision yn cronni i fyrddau iechyd lleol wrth i arbedion ddechrau cael eu gwireddu tuag at ddiwedd y cyfnod gwerthuso yn sgil y ffaith bod costau taliadau uniongyrchol GIP yn is na gofal iechyd parhaus a gomisiynir yn draddodiadol. | |
| **Cyfanswm: £239.7m - £311.8m** | **Gwerth Presennol: £183.2m - £238.2m** |

Noder: at ddiben helpu pobl i ddeall Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru) yn unig y mae'r ddogfen hon wedi'i llunio. Ni ddylid dibynnu arni at unrhyw ddiben arall.

## Tystiolaeth, rhagdybiaethau ac ansicrwydd allweddol

Comisiynwyd Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (ADSS Cymru) i ddarparu amcangyfrifon o gostau ar gyfer adran yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol ynghylch dileu elw o ofal plant sy'n derbyn gofal. Cafodd y gwaith hwn ei lywio gan swyddogion Llywodraeth Cymru, rhanddeiliaid yn y sector cyhoeddus ac ymchwil flaenorol, gan gynnwys ymchwil a gynhaliwyd gan yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd. Yn ogystal â'r fersiwn gychwynnol a gyhoeddwyd o Asesiad Effaith Rheoleiddiol Llywodraeth Cymru, cyhoeddodd ADSS Cymru ei ddogfen gysylltiedig 'Cyfraniad i'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol'. Cafwyd rhagor o fanylion ynghylch y fethodoleg a ddefnyddiwyd ar gyfer yr amcangyfrifon costau, y mae elfennau allweddol ohonynt yn cael eu hailadrodd yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn er cyd-destun.

Mae'r rhagdybiaethau manwl sy'n ymwneud â sut y cyfrifwyd y costau ar gyfer y ddau opsiwn a restrir wedi'u hamlinellu yn yr adran 'Opsiynau, costau a manteision' ym Mhennod 7 yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol.

Yn y dadansoddiad a geir yn adran yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar ddileu elw o ofal plant sy'n derbyn gofal, mae'r prif faes ansicrwydd o ran costau yn ymwneud â chyfran y darparwyr gofal preswyl plant er elw a fydd yn gadael y farchnad yng Nghymru wedi'r broses dileu elw. Mae'r rhesymau dros hyn fel a ganlyn:

- Bydd nifer y darparwyr er elw sy'n trosi yn effeithio'n sylweddol ar gyfanswm y costau trosiannol, gan gynnwys costau datgomisiynu a chostau trosi;

- Mae nifer y cartrefi preswyl newydd sydd eu hangen a'r buddsoddiad cyfalaf sydd ynghlwm wrth hynny yn uniongyrchol gysylltiedig â'r cyfraddau trosi, sy'n effeithio ar y baich ariannol cyffredinol.

Dyma oedd y sail i gynnwys tair sefyllfa wahanol sy'n adlewyrchu'r ansicrwydd hwn – Senario A, Senario B a Senario C. Roedd y rhain yn seiliedig ar naill ai 50%, 75% neu 100% o ddarparwyr er elw yn dewis gadael y farchnad yn y drefn honno. Fel yr eglurwyd ym Mhennod 7, rydym yn amcangyfrif mai'r costau a gyflwynir yn senarios B ac C sydd fwyaf tebygol. O ganlyniad, mae'r ystod o gostau a gyflwynir yn nhablau crynodeb Pennod 6 yn seiliedig ar Senarios B ac C.

Mae materion eraill o ansicrwydd sylweddol yn yr adran hon o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn cynnwys y canlynol:

- Costau trosiannol, sy'n seiliedig ar amcangyfrifon sy'n gofyn am gynnal profion straen, er enghraifft, premiwm o 20% ar gyfer datgomisiynu a 2% ar gyfer costau trosi;

- Mae costau cyfalaf ar gyfer datblygu cartrefi preswyl plant, a amcangyfrifwyd yn £700,000 fesul cartref, yn amrywio o fewn ystod o £500,000 i £800,000, sy'n dangos y sensitifrwydd o ran y buddsoddiad cyfan i newidiadau mewn costau;

- Mae costau cychwynnol, gan gynnwys prosesau recriwtio staff a gweithrediadau heb gapasiti digonol, yn ddibynnol ar nifer y darparwyr a fydd yn trosi a hyd y cyfnod trosiannol;

- Nid yw costau gweithredol yn rhagdybio unrhyw wahaniaeth rhwng modelau er elw a modelau nid-er-elw;

- Rhagdybir bod costau parhaus ar gyfer gwasanaethau presennol yn sefydlog, tra bod disgwyl i wasanaethau newydd awdurdodau lleol leihau costau 10% yn sgil y diffyg angen am greu elw ar gyfalaf;

- Mae amcangyfrifon o ran gwerth asedau gweddilliol yn ddibynnol ar y defnydd o asedau ac amodau'r farchnad yn y dyfodol, gan ychwanegu elfen arall o gymhlethdod.

Wedi'r Datganiad Ysgrifenedig ar 27 Tachwedd 2024 a oedd, yn rhannol, yn amlinellu'r addasiadau a oedd gan y Gweinidogion mewn golwg ar gyfer amserlen y trefniadau trosiannol, cafodd gwaith modelu wedi'i ddiweddaru ei gynnwys yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol.

Nod y gwaith modelu wedi'i ddiweddaru hwn oedd adlewyrchu bod y flwyddyn wedi newid o 2027 i 2030 ar gyfer y pwynt hwyraf pan na fyddai unrhyw leoliadau newydd, gan awdurdodau lleoli yn Lloegr, o blant mewn cartrefi gofal i blant, darparwyr gwasanaethau maethu a llety diogel er elw presennol yn cael eu caniatáu, ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol a bennir mewn rheoliadau. Ni fyddai ychwaith unrhyw leoliadau newydd, gan awdurdodau lleoli yng Nghymru, o blant gyda darparwyr er elw yn cael eu caniatáu oni bai bod cymeradwyaeth Weinidogol drwy'r broses lleoliadau atodol a amlinellir yn y Bil.

Mae'r dadansoddiad o ran taliadau uniongyrchol GIP wedi'i lywio gan brofiadau yn dilyn rhoi cynllun tebyg ar waith yn Lloegr a thrafodaethau â rhanddeiliaid allweddol yno. Mae'r prif faes ansicrwydd mewn perthynas â'r rhan hon o'r dadansoddiad yn ymwneud â nifer y bobl a fydd yn dewis cael taliadau uniongyrchol GIP, maint a natur y pecynnau a fydd yn cael eu cynnig, a'r arbedion a allai ddeillio o daliadau uniongyrchol o gymharu â gofal iechyd parhaus a gomisiynir yn draddodiadol.

Lle bo angen, darparwyd amrediad yn y dadansoddiad i ddangos yr ansicrwydd.

# 7. Opsiynau, Costau a Manteision

**Dileu elw preifat o ofal plant sy'n derbyn gofal**

## Sylfaen Dystiolaeth

7.1. Ceir sylfaen dystiolaeth gyfyngedig ond cynyddol am ddarpariaeth er elw ar gyfer plant sy'n derbyn gofal. Mae'n cefnogi'r farn nad yw'r trefniadau presennol yng Nghymru (ac mewn rhannau eraill o'r DU) yn gweithio. Nid ydynt yn addas i greu system o ddarpariaeth gofal a chymorth sy'n diwallu anghenion ei phoblogaeth ac sy'n adlewyrchu'r galw cynyddol am ofal a chymorth a chost gynyddol gofal a chymorth.

7.2. Mae astudiaethau wedi'u cynnal gan gynnwys y rheini o *Social Care Market Study*[20] y CMA 2022, *Profit making and Risk in Independent Children's Social Care Placement Providers*[21] y Gymdeithas Llywodraeth Leol (drwy Revolution Consulting), adroddiadau *State of the Sector* gan y Gymdeithas Cartrefi Gofal[22] ac astudiaethau hydredol ac adolygiadau tystiolaeth gan academyddion fel Anders Malthe Bach-Mortensen[23]. Er nad yw'r rhan fwyaf o'r rhain yn canolbwyntio ar Gymru yn unig, oherwydd y nodweddion cyffredin rhwng amodau'r farchnad ac amodau eraill yng Nghymru a Lloegr, maen nhw wedi'u defnyddio wrth lunio'r trosolwg a gyflwynir isod.

7.3. Mae cyd-destun cyffredinol y ddarpariaeth er elw yng Nghymru a Lloegr yn dangos bod gan sefydliadau sy'n fwy o faint gyfran sylweddol o'r farchnad. Mae dadansoddiad y Gymdeithas Llywodraeth Leol/Revolution 2022/23[24] o ddata o Loegr ar gyfer 19 o'r 20 prif ddarparwr gofal ar gyfer plant sy'n derbyn gofal yn dangos eu bod wedi cronni £1.63 biliwn mewn ffioedd, cynnydd o 6.5% dros y flwyddyn flaenorol a £310m (19%) mewn elw. Nododd yr astudiaeth hefyd fod gan **hanner y prif ddarparwyr hyn** ryw fath o **berchnogaeth ecwiti preifat neu berchnogaeth cronfa cyfoeth sofran**.


*Data ar Blant sy'n Derbyn Gofal*

7.4. Yn gyffredinol, mae nifer y plant mewn gofal yng Nghymru wedi tyfu dros y degawd diwethaf yn bennaf ond gyda rhai amrywiadau (Ffigur 1). Mae'r

20 Adroddiad terfynol - GOV.UK (www.gov.uk)
21 Profit Making and Risk in Independent Children's Social Care Placement Providers terfynol 2023 (revolution-consulting.org)
22 CHA Gwanwyn 2023 terfynol (revolution-consulting.org)
23 Outsourcing and children's social care: A longitudinal analysis of inspection outcomes among English children's homes and local authorities - ScienceDirect
24 Profit Making and Risk in Independent Children's Social Care Placement Providers terfynol 2023 (revolution-consulting.org)

data diweddaraf gan Stats Cymru[25] yn dangos bod 7,210 o blant wedi derbyn gofal yng Nghymru yn 2022/23, cynnydd o 155 (2%) ers y flwyddyn flaenorol. Mae hyn yn cyfateb i gyfradd o 116.3 am bob 10,000 o’r boblogaeth o dan 18 oed, o’i gymharu â chyfradd o 114.4 yn 2021-22 a chyfradd sylweddol uwch nag yn Lloegr. Dywedodd Llywodraeth y DU fod 83,840 o blant mewn gofal (tua 71 am bob 10,000 o’r boblogaeth) yn 2022/23[26], 2% yn fwy ers y flwyddyn flaenorol.

**Ffigur 1: Plant sy’n derbyn gofal ar 31 Mawrth 2003 i 2023 (Ffynhonnell: Stats Cymru)**




7.5. Roedd 69% o blant sy’n derbyn gofal mewn lleoliadau gofal maeth ar 31 Mawrth 2023. Mae’r gyfran hon yn debyg ers 2020 ac yn gwymp graddol ers uchafbwynt o 79% yn 2011. Roedd un o bob tri (34%) o blant a oedd mewn gofal maeth mewn lleoliadau gyda pherthynas neu ffrind ar 31 Mawrth 2023. Mae’r gyfran hon wedi cynyddu bob blwyddyn ers 2015, pan oedd yn 20%.

7.6. Cafodd 14% o’r holl blant sy’n derbyn gofal eu lleoli gyda’u rhieni eu hunain neu eraill sydd â chyfrifoldeb rhiant; plant oedd y rhain sy’n destun gorchmynion gofal yn bennaf. Mae’r gyfran hon wedi lleihau ychydig o’i gymharu â’r blynyddoedd diwethaf, wedi iddi fod oddeutu 16% ers 2019. Roedd 10% o’r plant sy’n derbyn gofal mewn unedau diogel, cartrefi plant neu hosteli; cynnydd o 8% yn y flwyddyn flaenorol. Mae’r mathau eraill o leoliadau sy’n weddill wedi aros yn weddol debyg, gan gyfrif am gyfanswm o tua 7% o leoliadau.

7.7. Pan fo gwybodaeth wedi’i darparu, roedd dau o bob tri (66%) o blant a oedd yn derbyn gofal ar 31 Mawrth 2023 mewn lleoliadau yn yr awdurdod lleol yr oedden nhw’n byw ynddo pan wnaethon nhw ddechrau derbyn gofal am y tro cyntaf. Roedd 27% o’r plant mewn lleoliadau y tu allan i awdurdod lleol eu cartref ond o fewn Cymru, a chafodd 7% arall eu lleoli y

[25] Plant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth fesul 10,000 o'r boblogaeth dan 18 oed yn ôl awdurdod lleol a blwyddyn (llyw.cymru)
[26] Children looked after in England including adoptions, Reporting year 2023 – Explore education statistics – GOV.UK (explore-education-statistics.service.gov.uk)

tu allan i Gymru. Mae'r cyfrannau hyn wedi aros yn weddol gyson dros y blynyddoedd diwethaf.

*Nifer y Gwasanaethau a Lleoedd*

7.8. Dangosodd data, y gwnaed cais penodol amdano gan AGC ym mis Medi 2023, fod 295 o wasanaethau cartrefi gofal ar gyfer plant sy'n derbyn gofal. Roedd 245 o wasanaethau yn rhai er elw, roedd 38 o wasanaethau naill ai'n rhai ALl neu nid-er-elw. Yn ôl AGC, mae'r cynnydd yn y galw am ofal preswyl wedi mwy na dyblu ers 2012. Roedd 45 o wasanaethau maethu, ac roedd 19 o'r rhain yn wasanaethau preifat, 4 gwasanaeth yn rhai nid-er-elw, a 22 yn cael eu rhedeg gan yr awdurdod lleol.[27]

**<u>Tabl 7.1 Dadansoddiad o Wasanaethau Cartrefi Gofal a Maethu yng Nghymru</u>**

| Math o wasanaeth | Nifer y gwasanaethau |
|---|---|
| **Gwasanaeth Cartref Gofal** | **295** |
| Awdurdod Lleol | 49 |
| Nid-er-elw | 1 |
| Preifat | 245 |
| **Gwasanaeth Maethu** | **23** |
| Nid-er-elw | 4 |
| Preifat | 19 |
| **Gwasanaeth Maethu ALl** | **22** |
| Awdurdod Lleol | 22 |
| **Cyfanswm** | **340** |

7.9. Mae'r data hwn yn cyfateb i 83% o wasanaethau cartrefi gofal ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n cael eu rhedeg gan y sector preifat.

*Y farchnad bresennol a digonolrwydd*

7.10. Lansiodd y CMA[28] ei astudiaeth marchnad i'r cyflenwad o ofal cymdeithasol i blant yng Nghymru, Lloegr a'r Alban mewn ymateb i bryderon a godwyd ynghylch anawsterau wrth ddod o hyd i leoliadau priodol a'r prisiau a delir. Mae'r ddau ffactor hyn yn rhoi straen sylweddol ar gyllidebau awdurdodau lleol ac yn cyfyngu ar eu gallu i ariannu gweithgareddau pwysig eraill mewn gwasanaethau plant ac mewn meysydd eraill.

27

28 [Adroddiad terfynol astudiaeth marchnad ar ofal cymdeithasol plant - GOV.UK (www.gov.uk)]

7.11. Yn adroddiad y CMA, disgrifiwyd y farchnad fel un ddiffygiol, gymhleth a thameidiog iawn sy'n golygu bod awdurdodau lleol unigol mewn sefyllfa wannach ac yn ei chael yn anodd cynllunio ar gyfer eu gofal maeth a phreswyl eu hunain a'i ddarparu. Yn ei grynodeb o'r sefyllfa yng Nghymru[29], nododd "yn aml, rhaid i awdurdodau lleol gymryd pa bynnag leoliad sydd ar gael, hyd yn oed os nad yw hynny'n gwbl briodol i anghenion y plentyn. Mae hyn yn gwanhau'r gallu i siapio'r farchnad er mwyn diwallu eu hanghenion yn gywir".[30] Canfu hefyd nad yw'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol yng Nghymru yn ceisio mynd ati'n rhagweithiol i siapio'r farchnad drwy annog darparwyr i fuddsoddi mewn darpariaeth newydd. Mae'r galw am rai mathau o ddarpariaeth arbenigol yn "rhy isel i gyfiawnhau contractio gwasanaeth cyfan i fodloni'r anghenion hynny."[31]

7.12. Canfu'r CMA hefyd fod proffidioldeb cartrefi plant yng Nghymru yn uwch na'r cyfartaledd ar draws y tair gwlad. Roedd hyn yn cyfateb i ddarparwyr gofal mewn cartrefi plant yn gweld elw cyson o dros 22% a phrisiau ar gyfartaledd yn gyfanswm o £3,830 yr wythnos rhwng 2010-16. Roedd prisiau maethu ar gyfartaledd yn £820 yr wythnos, gyda rhai ffiniau elw'n 19.4% ar gyfartaledd. Mae hwn yn arian sy'n cael ei dynnu o wasanaethau plant y gellid ei ailgyfeirio i wella gwasanaethau, capasiti a chanlyniadau.

7.13. Canfu'r adroddiad broblemau sylweddol o ran sut mae'r farchnad lleoliadau'n gweithio yng Nghymru a Lloegr oherwydd:

- Mae diffyg lleoliadau o'r math iawn, yn y mannau iawn, yn golygu nad yw plant yn cael mynediad cyson at ofal a llety sy'n diwallu eu hanghenion neu eu bod yn cael eu lleoli ymhell o'u cymunedau sefydledig.
- Mae'r darparwyr lleoliadau preifat mwyaf yn gwneud elw sylweddol uwch, ac yn codi prisiau sylweddol uwch, na'r hyn a fyddai'n ddisgwyliedig pe bai'r farchnad yn gweithredu'n effeithiol.

7.14. Dywedodd y CMA pe byddai'r farchnad yn gweithio'n dda, y byddai darparwyr proffidiol yn buddsoddi ac yn ehangu yn y farchnad ac y byddai darparwyr newydd yn ymuno â'r farchnad. Byddai hyn yn gostwng prisiau gyda mwy o ddewis o leoliadau. Byddai'n rhaid i ddarparwyr llai effeithlon ddod yn fwy effeithlon neu adael y farchnad, a byddai elw'r darparwyr mwyaf yn cael ei leihau. Mae elw uchel y darparwyr mwyaf yn dangos felly nad yw cystadleuaeth yn gweithio cystal ag y dylai fod.

7.15. Canfu'r CMA hefyd fod gan rai o'r darparwyr hynny lefelau amlwg iawn o ddyled, gan greu risg o fethiant afreolus a allai fygwth ymhellach leoliadau'r rheini mewn gofal. Nododd Narey ac Owers[32] fod buddsoddiad ecwiti preifat wedi creu sefyllfa o brynu a gwerthu asiantaethau maethu annibynnol yn gyflym gyda buddsoddwyr yn cymryd elw uchel ac yn gadael y darparwyr gyda dyled sydd, wedyn, yn achosi iddyn nhw godi eu

29 Crynodeb Cymru (publishing.service.gov.uk)
30 ibid para 42
31 ibid para 43
32 Foster Care in England: Review (publishing.service.gov.uk)

prisiau. Mae'r lefel hon o ddyledusrwydd hefyd yn achosi pryder ynghylch gwytnwch, ac mae'n debygol o gynyddu'r risg o gwmnïau'n gadael y farchnad mewn ffordd afreolus.

7.16. Mewn arolygon o aelodau'r Gymdeithas Cartrefi Plant gan Revolution Consulting[33] ac, ar wahân, yn ei adroddiad a gomisiynwyd gan y Gymdeithas Llywodraeth Leol[34] (t.10), dangoswyd bod lefelau elw a adroddwyd gan ddarparwyr llai ar lefelau sylweddol is (% absoliwt a ffin elw) na rhai'r darparwyr mwy, hynny yw, y tu allan i'r chwech mwyaf. Mae amrywiaeth o resymau dros y lefelau elw is gan gynnwys cyfnodau wedi'u cynllunio o fuddsoddi mewn twf gwasanaethau, ond hefyd mae rhai darparwyr yn cyfeirio at effaith pwysau sy'n dod i'r amlwg o ran costau staffio ac effeithiau chwyddiant.

7.17. Canfu dadansoddiad yn 2022 gan What Works for Social Care o'r holl strategaethau diweddaraf ar ddigonolrwydd gofal cymdeithasol i blant yn Lloegr fod arferion comisiynu a chaffael yn amrywio'n fawr ar draws awdurdodau lleol Lloegr.[35] Canfu'r dadansoddiad, ymysg pethau eraill, nad oes gan y rhan fwyaf o awdurdodau y capasiti mewnol ar hyn o bryd i ateb y galw gan blant sydd ag angen gofal na'r gallu i rag-weld anghenion yn y dyfodol, ac mae hyn yn cyfyngu'n ddifrifol ar eu gallu i ymgysylltu'n ystyrlon â darparwyr a'u comisiynu. Roedd y CMA yn cytuno â hyn, gan alw'r farchnad yn 'ddiffygiol'. Nododd gyfres o ddiffygion yn y farchnad, y nodwyd bod y rhan fwyaf ohonynt yn cael eu sbarduno gan anallu awdurdodau lleol i oruchwylio ac ymgysylltu'n effeithiol â'r farchnad oherwydd bod cyflenwad annigonol o leoliadau priodol.

7.18. Canfu adroddiad gan ADSS Cymru[36] ar ailgydbwyso gofal cymdeithasol i blant yn 2020 fod goruchafiaeth darparwyr yn golygu, hyd yn oed pan fydd gan awdurdod lleol afael ar fusnes, gyda monitro cadarn a darparwyr yn cael eu herio ynghylch ansawdd y gofal, ynghylch arian yn cael ei hawlio am weithgareddau nad ydynt yn cael eu cynnal, ac ynghylch canlyniadau, y mae risg y bydd lleoliad yn dod i ben. Efallai y bydd plentyn mewn gofal yn cael ei wthio "yn nes at y drws" gan y darparwr. Mae darparwyr yn gwybod bod y galw'n golygu y gallant bob amser lenwi lle, gan werthu i awdurdodau lleol eraill yng Nghymru a Lloegr, yn aml am bris uwch.

7.19. Gall darparwyr preifat hefyd ddewis gweithio ar draws ffiniau a sefydlu cartrefi yn ddirybudd. Dywed yr adroddiad fod hyn wedi'i weld mewn rhannau o Gymru lle mae prisiau eiddo'n llai na de-ddwyrain Lloegr, er enghraifft. Mae darparwyr newydd yn cael eu sefydlu mewn rhannau o Gymru ac yn llenwi llefydd gyda phlant o'r tu allan i Gymru. Disgrifiwyd

[33] CHA Gwanwyn 2023 terfynol (revolution-consulting.org)
[34] Profit Making and Risk in Independent Children's Social Care Placement Providers terfynol 2023 (revolution-consulting.org)
[35] Are Local Authorities Achieving Effective Market Stewardship For Children's Social Care Services? (whatworks-csc.org.uk) t.3
[36] Ailgydbwyso Gofal Cymdeithasol: Adroddiad ar Wasanaethau Plant (adss.cymru) t.37 yr adroddiad

hyn yn yr adroddiad gan un ymatebydd fel cartrefi preifat "dros dro" nad ydynt yn ychwanegu gwerth at y marchnadoedd gofal lleol.

7.20. Yn ei hadroddiad *Pass the Parcel*[37] yn 2019, nododd Comisiynydd Plant Lloegr hefyd fod llawer o blant yn mynd i fyw mewn cartrefi plant sy'n cael eu rhedeg gan gwmnïau preifat, sy'n aml yn gweithredu mewn rhannau rhatach a llai 'dymunol' o'r wlad. Mae ei hadroddiad yn cynnwys tystiolaeth ansoddol berthnasol gan blant sydd â phrofiad o ofal am y ffordd y mae darpariaeth y tu allan i'r sir yn effeithio ar eu bywydau. Dywedodd y plant hynny eu bod yn teimlo'n ynysig a'u bod yn methu â gweld eu hanwyliaid, gan fod y pellteroedd teithio hir yn rhwystr i aelodau o'r teulu a fyddai fel arall yn dymuno ymweld.

7.21. Yn adroddiad Comisiynydd Plant Lloegr yn 2020[38] ar ddarpariaeth breifat ym maes gofal cymdeithasol plant, nodwyd y gall yr ansicrwydd a ddaw yn sgil caffael ac ailstrwythuro darpariaeth cartrefi plant sydd yn y farchnad achosi ansefydlogrwydd mewn ymarfer gyda chleientiaid, gyda throsiant staff uwch a newid hierarchaethau mewn cwmnïau mwy sy'n golygu bod pobl ifanc yn colli parhad yn y berthynas â staff a rheolwyr.

*Cost*

7.22. Canfu astudiaeth y CMA nad yw'r gost i awdurdodau lleol wrth ddarparu eu lleoliadau cartref eu hunain i blant yn is na chost caffael lleoliadau gan ddarparwyr preifat, er gwaethaf lefelau amlwg o elw. Canfu mai'r prif ffactor sy'n sbarduno'r gwahaniaethau mewn costau rhwng cartrefi plant awdurdodau lleol a chartrefi plant y sector preifat oedd cymhareb staff a chostau uwch yn narpariaeth awdurdodau lleol.

7.23. Mae gwasanaethau gofal preswyl yn llafurddwys ac mae'r sylfaen costau ar gyfer hyn yn cael ei phennu'n bennaf gan delerau ac amodau cyflogaeth nifer mawr o weithwyr ar gyflogau isel. Mae tâl gweithwyr ar gyflogau is yn tueddu i fod yn uwch yn y sector cyhoeddus ac maen nhw'n cael eu pennu fel arfer gan raddfeydd cyflog safonol sy'n adlewyrchu rolau, cyfrifoldebau a statws swyddi. Mae gweithwyr y sector cyhoeddus fel arfer yn cael manteision mwy cynhwysfawr, gan gynnwys cynlluniau pensiwn llawer drutach.

7.24. Gall cwmnïau er elw gynnig contractau cyflogaeth mwy amrywiol, megis contractau rhan-amser, contractau dros dro a chontractau dim oriau. Mae'r hyblygrwydd hwn yn caniatáu i'r cyflogwyr hyn addasu eu gweithlu'n gyflym ar sail y galw, gan leihau costau llafur o bosibl a chynyddu effeithlonrwydd gweithredol. Mae hyn yn bwysig mewn sector lle gall yr oriau sydd eu hangen gan wasanaeth unigol amrywio'n annisgwyl yn dibynnu ar lefelau defnydd. Er hynny, fel y nodir yn nes

[37] cco-pass-the-parcel-children-posted-around-the-care-system.pdf (childrenscommissioner.gov.uk)
[38] Private provision in children's social care | Comisiynydd Plant Lloegr (childrenscommissioner.gov.uk)

ymlaen yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn, gall yr hyblygrwydd hwnnw gyflwyno heriau penodol i delerau ac amodau gweithlu darparwr, mewn cyferbyniad â'r rheini yn y sector cyhoeddus.

7.25. Hefyd, canfu'r CMA "dystiolaeth ddangosol" y gallai awdurdodau lleol ddarparu rhai lleoliadau maethu yn rhatach na thrwy eu prynu gan asiantaethau maethu annibynnol. Fodd bynnag, er mai awdurdodau lleol sy'n dal i gyflenwi'r nifer mwyaf o leoliadau gofal maeth, maen nhw'n cystadlu yn erbyn asiantaethau gofal maeth er elw ac nid-er-elw i ddenu gofalwyr maeth newydd a rhai presennol. Mae asiantaethau gofal maeth er elw ac nid-er-elw yn yr achos hwn yn fwy hyblyg hefyd o ran y ffioedd a'r lwfansau maen nhw'n gallu eu rhoi i ofalwyr maeth. Mae hyn yn bwysig mewn ardaloedd lle mae'r cyflenwad o ofal maeth yn aml yn fwy na'r galw.

7.26. Mae Bach-Mortensen et al[39] (2023) yn honni bod gwaith sy'n bodoli ar hyn o bryd yn dangos yn gyffredinol nad yw rhoi gwasanaethau cyhoeddus ar gontract allanol er elw fel arfer yn golygu costau llai a gwell ansawdd gwasanaethau (Petersen et al. 2018), ac nad yw gofal cymdeithasol i blant yn eithriad.

*Ansawdd*

7.27. Ceir darlun cymysg o ran ansawdd y gofal a gynigir gan fodelau busnes er elw ac nid-er-elw. Yn sgil tystiolaeth o arolygiadau, daeth y CMA i'r casgliad nad oes gwahaniaethau gwirioneddol, ar y cyfan, yn ansawdd y gofal preswyl a gynigir gan awdurdodau lleol neu ddarparwyr preifat yng Nghymru. Fodd bynnag, byddai dadansoddiad hydredol o ganlyniadau arolygiadau mewn cartrefi plant yn Lloegr yn awgrymu fel arall.[40] Canfu fod cysylltiad negyddol rhwng cartrefi plant er elw a chanfyddiadau arolygiadau a'u bod o ansawdd is na modelau nid-er-elw, a bod y cartrefi hynny'n torri mwy o ofynion ac yn cael mwy o argymhellion ar gyfer gweithredu.

7.28. Fodd bynnag, dylid nodi bod y rhan fwyaf o feysydd arolygu Ofsted mewn awdurdodau lleol yn Lloegr yn ymwneud ag ystod eang o wasanaethau (er enghraifft, gwasanaethau amddiffyn plant, atgyfeirio ac asesu, a Chymorth Cynnar anstatudol), tra bo arolygu gwasanaethau er elw yn benodol i blant mewn lleoliadau gofal. Y dadansoddiad hydredol oedd y cyntaf o'i fath i fesur effaith rhoi gwasanaethau gofal cymdeithasol preswyl i blant ar gontract allanol yn Lloegr. Serch hynny, mae ei ganfyddiadau'n cyd-fynd â'r ymchwil bresennol ar y sector gofal preswyl i oedolion, sy'n tueddu i nodi canlyniadau gwaeth ar gyfer darparwyr er elw.

[39] For-profit outsourcing and its effects on placement stability and locality for children in care in England, 2011–2022: A longitudinal ecological analysis - ScienceDirect

[40] Outsourcing and children's social care: A longitudinal analysis of inspection outcomes among English children's homes and local authorities - ScienceDirect

7.29. Dylid nodi hefyd nad yw'r data presennol gan Arolygiaeth Gofal Cymru yn cefnogi'r canfyddiad hwn ar hyn o bryd gan nad yw'n dangos unrhyw wahaniaeth sylweddol rhwng ansawdd darpariaeth gwasanaethau gofal maeth a phreswyl awdurdodau lleol ac er elw. Gellir egluro hyn yn rhannol gan y dull gwahanol o arolygu yng Nghymru ac absenoldeb sgoriau ansawdd. Fodd bynnag, nid yw adborth a ddarparwyd gan aelodau Consortiwm Comisiynu Cymru ar gyfer Plant (4C) a gwaith monitro yn cefnogi'r farn ychwaith, gan ddangos, yn gyffredinol, fod y gwasanaethau y mae ei aelodau'n eu darparu wedi arwain at ganlyniadau da ac wedi diwallu anghenion y plentyn "*y rhan fwyaf o'r amser neu drwy'r amser".*

*Sefydlogrwydd Lleoliadau*

7.30. Mae sefydlogrwydd lleoliadau i blant a phobl ifanc yn hanfodol, ac mae'n helpu i sicrhau'r amgylchedd gorau posibl lle mae ganddyn nhw'r cyfle gorau i wella, datblygu, ffynnu a gwneud cynnydd. Mae datblygu ac ehangu'r dewis o opsiynau lleoli o ansawdd uchel, sy'n diwallu anghenion amrywiol a chymhleth plant orau, yn helpu i sicrhau bod y lleoliad cywir ar gyfer pob plentyn yn cael ei wneud ar ddechrau eu taith.

7.31. Ceir corff o dystiolaeth sy'n dangos bod pellter a sefydlogrwydd lleoliadau wedi parhau i ddirywio dros y degawd diwethaf. Y rheswm dros hyn yw problemau parhaus gyda chyflenwad a mynediad.[41] Mae dadansoddiad o astudiaethau sy'n seiliedig ar dystiolaeth (Bach-Mortensen et al. 2022; CMA 2022; MacAlister 2022), yn awgrymu bod amodau'r farchnad yn effeithio'n sylweddol ar y broses o leoli sefydliadau er elw, gan lesteirio darpariaeth leol.[42]

*Lleoliadau y tu allan i'r ardal*

7.32. Lle bynnag y bo modd, mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i weld lleoliadau'n cael eu darparu i blant a phobl ifanc a fydd yn cadw'r cysylltiad sydd ganddyn nhw â'u cymdogaethau a'u cymunedau lleol ac yn caniatáu cymaint o gysondeb â phosibl yn eu bywydau. Mae lleoliadau oddi wrth gymunedau cartref weithiau'n angenrheidiol er lles pennaf y plentyn, ond dylid ystyried yn ofalus fanteision ac effaith bosibl defnyddio lleoliadau o'r fath yn ehangach.

7.33. Canfu dadansoddiad hydredol o roi gwaith ar gontract allanol, ardal leol a sefydlogrwydd lleoliadau, a nodweddion plant mewn gofal yn Lloegr rhwng 2011 a 2022 fod rhoi gwaith ar gontract allanol er elw yn gysylltiedig â mwy o leoliadau i ffwrdd o gartref y plentyn ac â lleoliadau mwy ansefydlog, tymor byr, hynny yw, llai na dwy flynedd.[43] Mae

41 Bach-Mortensen, A.M., Goodair, B. a Barlow, J., (2023). For-profit outsourcing and its effects on placement stability and locality for children in care in England, 2011–2022: A longitudinal ecological analysis. *Child Abuse & Neglect,* 144, 106245.

42 ibid.

sefydlogrwydd a phellter lleoliadau wedi dirywio dros y degawd diwethaf, yn enwedig, wrth i'r broblem o ran cyflenwad a mynediad ddod yn fwy amlwg.

7.34. Mae'r dadansoddiad yn awgrymu bod llai o blant yn mwynhau gofal sefydlog tymor hir (byw yn yr un lle am o leiaf 2.5 mlynedd) gan ddarparwyr er elw. Mae'r dadansoddiad hydredol yn dangos bod hyn yn duedd sy'n parhau, gyda'r nifer hwnnw wedi crebachu 3 phwynt canran ers 2018. Mae cynnydd o 1% o waith ar gontractau allanol er elw yn gysylltiedig â chynnydd cyfartalog o 0.10 y cant yn fwy o blant yn byw yn yr un lleoliadau am <2 flynedd. Mae'n nodi mai'r awdurdodau lleol sy'n dibynnu ar drefnu drwy gontract allanol sydd â'r cyfraddau uchaf o darfu ar unigolion o ran lleoliad sefydlog o ddwy flynedd neu fwy, a nifer uwch o leoliadau y tu allan i'r ardal. Nid yw darpariaeth er elw felly wedi creu ymdeimlad o berthyn a sicrwydd ynghylch trefniadau gofal a chymorth.

7.35. Yn ei hadroddiad *Pass the Parcel*[44] dywedodd Comisiynydd Plant Lloegr iddi ymweld â chartrefi plant ledled Lloegr, gan nodi bod darpariaeth y tu allan i'r ardal weithiau'n cael ei threfnu'n fwriadol er mwyn amddiffyn plant er enghraifft, cadw plant yn ddiogel rhag camfanteisio troseddol ar blant. Ond, mae hyn hefyd yn digwydd yn aml oherwydd nad oes mannau ar gael yn awdurdod lleol y plentyn ei hun. Daeth y Comisiynydd Plant i'r casgliad bod rhoi gwaith ar gontract allanol er elw yn gysylltiedig â thebygolrwydd uwch o leoliadau ansefydlog a lleoliadau y tu allan i'r ardal.

7.36. Mae'r canlyniadau hyn yn adleisio ymchwil ansoddol flaenorol ar symud gofal y tu allan i'r cartref o'r sector cyhoeddus i'r sector preifat; gwelwyd nad oedd hyn yn gwella parhad na chysondeb mewn gofal i blant[45] [46]. Fel y nodir ym mharagraff 7.20 uchod, dywedodd y Comisiynydd Plant fod darparwyr preifat yn aml yn buddsoddi mewn clystyrau o gartrefi mewn ardaloedd penodol oherwydd ei bod yn fuddiol yn ariannol i wneud hynny, ond bod hyn yn cael effaith ganlyniadol *o* greu 'pocedi' gyda niferoedd uchel o blant sy'n derbyn gofal sy'n achosi straen ar wasanaethau lleol fel gwasanaethau iechyd meddwl.

7.37. Er na wnaeth adroddiad y CMA ganfod y byddai darpariaeth breswyl o reidrwydd yn rhatach yn fewnol na chaffael gan ddarparwyr preifat, mae ymchwil ehangach yn yr arolwg hydredol[47] yn awgrymu y gallai lleoliadau y tu allan i'r ardal gynyddu costau o ran teithio i weithwyr cymdeithasol, a allai hefyd gael effaith negyddol ar allu gweithwyr cymdeithasol i fonitro cynnydd a llesiant plant. Yn yr un modd, mae uwch reolwyr yn treulio llawer o oriau gwaith yn ceisio caffael darpariaeth breswyl sy'n brin.

[44] cco-pass-the-parcel-children-posted-around-the-care-system.pdf (childrenscommissioner.gov.uk)

[45] Turning away from the public sector in children's out-of-home care: An English experiment - ScienceDirect

[46] https://doi.org/10.1093/bjsw/bcs101 tudalennau 367-383

[47] For-profit outsourcing and its effects on placement stability and locality for children in care in England, 2011–2022: A longitudinal ecological analysis - ScienceDirect

*Gweithlu*

7.38. Mae ymchwil yn awgrymu bod gweithlu'r sector gofal preswyl i blant drwyddo draw, yn gyffredinol, wedi ymrwymo i weithio gyda phlant a phobl ifanc. Fodd bynnag, mae recriwtio a chadw staff yn hynod o anodd ym maes gofal cymdeithasol i blant ac oedolion ledled y DU, ond mae'n tueddu i fod yn fwy anodd yn y sector preifat. Yn ôl Cyfrifiad Gweithlu Adran Addysg y DU yn 2013 (Cyfrifiad o'r gweithlu cartrefi plant) yn Lloegr, roedd yr amodau cyflogaeth cyfartalog, o ran cyflog ac oriau gwaith, yn waeth ymysg darparwyr er elw nag mewn gwasanaethau sy'n cael eu rhedeg gan ALl[48].

7.39. Yn 2019, canfu adolygiad thematig gan Arolygiaeth Gofal Cymru[49] nad oes gan staff yn y sector preswyl i blant y cymwysterau gofynnol yn aml i weithio yn y sector hwnnw. Roedd y rheini a oedd yn gweithio yn y sector preifat yn llawer llai tebygol o fod â'r cymwysterau gofynnol na'r rheini mewn awdurdodau lleol neu yn y trydydd sector. Er enghraifft, 40% o staff benywaidd a 48% o staff gwrywaidd yn y sector preifat oedd â'r cymwysterau gofynnol. Roedd y ffigurau yn y sector gwirfoddol yn 63% a 71% ac yn y sector awdurdod lleol yn 80% a 70% yn y drefn honno.

7.40. Cyhoeddodd Gofal Cymdeithasol Cymru ei nawfed adroddiad ar reolwyr a gweithwyr gofal plant preswyl yn 2017.[50] Edrychodd yr adroddiad yn fanwl ar reolwyr a gweithwyr gofal plant preswyl. Nododd bryderon ynghylch gostyngiadau yn nifer y gweithwyr gofal plant preswyl sy'n meddu ar y cymwysterau gofynnol ers 2014. Priodolwyd y gostyngiad yn nifer y staff cymwysedig i drosiant uchel o weithwyr; awgrymodd y dystiolaeth fod nifer yr unigolion sy'n cofrestru ar ôl cwblhau'r fframwaith sefydlu yn cynyddu, ond bod llawer ohonynt wedyn yn dod oddi ar y Gofrestr cyn cwblhau'r cymhwyster gofynnol. Roedd cyfran y gweithwyr a oedd wedi gadael swyddi o fewn dwy flynedd wedi codi o 33.7 y cant yn 2014 i 41.6 y cant ym mlwyddyn yr arolwg. Roedd bron i chwarter y gweithwyr a adawodd y Gofrestr wedi cofrestru ers llai na blwyddyn, sy'n awgrymu nad yw llawer o weithwyr newydd yn aros yn eu swydd yn hir.

7.41. Yn eu hadolygiad ar gyfer Adran Addysg Llywodraeth y DU, dywedodd Narey ac Owers (2018)[51] hefyd fod natur gofal maeth sy'n seiliedig ar alw a phrinder gofalwyr yn y system yn golygu bod asiantaethau maethu annibynnol yn aml yn cystadlu â'i gilydd ac ag awdurdodau lleol i recriwtio staff a bod hyn yn gallu pennu'r prisiau. Yn ogystal â hyn, canfu ymchwil gan Sellick a Connolly[52] fod 46% o ofalwyr maeth Asiantaethau Maethu Annibynnol yn eu sampl heb brofiad blaenorol o faethu.

48 Yr Adran Addysg (publishing.service.gov.uk)
49 Adolygiad cenedlaethol o ofal i blant yng Nghymru | Arolygiaeth Gofal Cymru
50 Gofal Cymdeithasol Cymru. (2017). Rheolwyr a Gweithwyr Gofal Plant Preswyl ar y Gofrestr yng Nghymru. 2017. Caerdydd: Gofal Cymdeithasol Cymru
51 Foster Care in England: Review (publishing.service.gov.uk)
52 Independent fostering agencies uncovered: the findings of a national study - Sellick - 2002 - Child & Family Social Work - Llyfrgell Ar-lein Wiley

## Crynodeb o’r Opsiynau

7.42. Mae dau opsiwn wedi cael eu hystyried i gyflawni’r amcan a nodwyd gan Lywodraeth Cymru i ddileu elw o ofal plant sy’n derbyn gofal.

- **Opsiwn Un** – Busnes Fel Arfer
- **Opsiwn Dau** – Cyflwyno deddfwriaeth i ddileu elw o ofal preswyl a gofal maeth i blant sy’n derbyn gofal.

7.43. Ystyriwyd mesurau eraill megis pennu cyfradd ffioedd uchaf ar gyfer gofal preswyl a maeth i blant, gosod cap ar elw i ddarparwyr, neu gyfyngu ar yr elw neu'r difidend a delir i gyfranddalwyr. Gwrthodwyd y rhain gan nad oeddent yn opsiynau hyfyw, hynny’n rhannol oherwydd eu cymhlethdod gweinyddol a'r ffaith nad oeddent yn arwain at atal gwneud elw gan ddarparwyr yn llwyr. Daethpwyd i'r casgliad ei bod yn afrealistig disgwyl newid llwyddiannus heb ysgogiad allanol drwy ddeddfwriaeth.

7.44. Yn ogystal, roeddem hefyd yn ymwybodol o'r adborth gan bobl ifanc a nodwyd yn flaenorol. Maent wedi dweud eu bod yn teimlo'n ofidus, yn ddig ac wedi'u masnacheiddio pan fo sgyrsiau am gostau lleoliadau yn dod yn ffactor yn eu bywydau, ac maent yn teimlo na ddylai cwmnïau wneud elw o'u hangen am ofal a chymorth. O ystyried na fyddai'r mesurau eraill hyn, boed deddfwriaeth newydd i'w cefnogi ai peidio, yn effeithio'n sylfaenol ar yr elfen/cymhelliad elw ei hun, nac yn hepgor tynnu gwarged gweithredol o'r hafaliad (gan gynnwys gwarged er budd gweithwyr ac aelodau), roedd hyn hefyd yn ffactor allweddol o ran peidio â bwrw ymlaen â hwy.

7.45. Yn unol â'r adborth uchod, nid yw Llywodraeth Cymru yn credu y dylai fod marchnad ar gyfer gofal i blant, nac y dylid gwneud elw o ofalu am blant sy'n wynebu heriau yn eu bywydau ac mae'n bwriadu cyflwyno deddfwriaeth – drwy'r Bil a thrwy is-ddeddfwriaeth – i ddod â hyn i ben.

7.46. Mae'r opsiwn o ddatblygu darpariaeth nid-er-elw leol gyda chyllid Llywodraeth Cymru wedi'i ystyried hefyd ac mae'n cael ei ddatblygu drwy'r cyllid o £68m i awdurdodau lleol i'w cynorthwyo i greu capasiti mewnol ar gyfer darpariaeth gofal preswyl a maeth. Fodd bynnag, ar ei ben ei hun, ni fyddai'r cymorth hwn yn mynd i'r afael â'r materion sylfaenol yn y farchnad a ddisgrifiwyd eisoes, na'r cymhelliad elw/elfen sylfaenol. Felly ystyriwyd bod angen cyflwyno deddfwriaeth ochr yn ochr â chymorth ariannol i ddatblygu darpariaeth gofal preswyl a maeth nid-er-elw.

7.47. Mae’r ymrwymiad i gael gwared â darpariaeth gwasanaethau er elw i blant sy’n derbyn gofal yn allweddol i’r Rhaglen Lywodraethu. Mae’r diffiniad a’r paramedrau clir ynglŷn â’r ymrwymiad hwn felly’n darparu’r sicrwydd angenrheidiol a’r meini prawf y caiff darparwyr weithredu yn unol â nhw.

### Opsiwn Un: Busnes Fel Arfer

7.48. Yn yr opsiwn hwn, bydd y sefyllfa bresennol yn cael ei chynnal lle gallai unrhyw ddarparwr er elw sy’n cynnig gofal preswyl a gofal maeth i blant

barhau i gael ei gofrestru a darparu gwasanaethau i blant sy’n derbyn gofal.

7.49. Bydd awdurdodau lleol yn parhau i ddarparu lleoliadau gofal preswyl a gofal maeth drwy eu gwasanaethau mewnol neu drwy drefniant (wedi’i gomisiynu) gyda darparwyr annibynnol yn y sector preifat a’r trydydd sector, a fyddai’n parhau i fod yn gyfran sylweddol o’r farchnad gofal cymdeithasol i blant.

7.50. Bydd arian cyhoeddus sy’n cael ei wario ar wasanaethau plant yn parhau i gael ei dynnu allan fel elw yn hytrach na chael ei ailgyfeirio i wella gwasanaethau, capasiti a chanlyniadau i blant.

7.51. Byddai’r dull presennol o gefnogi’r gwaith o ddatblygu darpariaeth leol nid-er-elw fel elfen graidd o gynllun cyffredinol Llywodraeth Cymru ar gyfer trawsnewid gwasanaethau cymdeithasol i blant yn parhau, o bosibl gyda chymorth buddsoddiad pellach mewn awdurdodau lleol i sbarduno ehangu darpariaeth o’r fath a ffocws ar weithio gydag awdurdodau lleol i wella eu prosesau cynllunio lleoliadau a lleihau dibyniaeth ar leoliadau gofal preswyl, gan gynnwys mewn darpariaeth er elw.

7.52. Er y bydd hyn yn cefnogi’r newid a ddymunir, ni fydd yn atal y ddarpariaeth er elw rhag mynd ymhellach yn y system nac yn symud awdurdodau lleol o sefyllfa o ddibynnu ar ddarpariaeth er elw o fewn cyfnod rhesymol, ac efallai na fydd hyn yn gwneud hynny o gwbl.

**Opsiwn Dau: Cyflwyno deddfwriaeth i ddileu elw o ofal preswyl a gofal maeth i blant sy’n derbyn gofal.**

7.53. Yn opsiwn dau, bydd Bil yn cael ei gyflwyno i ddiwygio Rhan 1 o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 a Rhan 6 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 i gyfyngu ar wneud elw wrth ddarparu gwasanaethau cartrefi gofal a ddarperir yn gyfan gwbl neu’n bennaf i blant, gwasanaethau llety diogel a gwasanaethau maethu (y cyfeirir atynt fel ‘gwasanaethau plant o dan gyfyngiad’).

7.54. Bydd yr opsiwn hwn yn gosod gofyniad ar ddarparwr gwasanaeth plant o dan gyfyngiad (ac eithrio awdurdod lleol) sydd wedi’i gofrestru (ag Arolygiaeth Gofal Cymru) i fod yn “endid nid-er-elw”. Bydd hefyd yn cyflwyno dyletswydd ddiwygiedig ar awdurdod lleol i gymryd camau i sicrhau bod digon o lety awdurdod lleol a/neu lety nid-er-elw naill ai yn ei ardal neu’n agos ati.

7.55. Bydd yr opsiwn hwn yn sicrhau cyflawni ymrwymiad Llywodraeth Cymru i newid yn sylfaenol y ffordd y mae gwasanaethau’n cael eu darparu i blant a’u teuluoedd.

7.56. Yn dilyn adolygiad o'r dystiolaeth a gafwyd yn ystod y broses graffu, mae'r amserlenni a gyflwynwyd yn yr RIA gwreiddiol wedi'u diwygio. Mae'r

rhagamcanion lle'r oedd costau trosiannol yn cael eu hysgwyddo dros gyfnod o dair blynedd wedi cael eu symud i Atodiad ar wahân (Atodiad 4) i'r ddogfen hon. Mae hyn yn caniatáu mwy o ffocws ar y rhagamcanion lle mae costau trosiannol yn cael eu hysgwyddo dros gyfnod o chwe blynedd – rhacamcanion sydd wedi'u datblygu yn unol â'r amserlen bontio estynedig a gyhoeddwyd gan y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol yn ei Datganiad Ysgrifenedig ar 27 Tachwedd 2024.

7.57. Mae'r amserlenni diwygiedig wedi'u cynllunio i sicrhau cydbwysedd priodol rhwng caniatáu amser cynllunio a gweithredu ychwanegol i awdurdodau lleol a darparwyr, gan barhau i gynnal y bwriad polisi o ddileu elw o ofal plant sy'n derbyn gofal.

**Costau/Arbedion a Manteision/Anfanteision**

7.58. Mae swyddogion wedi gweithio gydag ADSS Cymru i ddarparu asesiad o'r costau a'r arbedion, y manteision a'r anfanteision sy'n gysylltiedig â'n cynigion deddfwriaethol, wedi'u meintioli i'r graddau gorau posibl.

7.59. Roedd tri cham cydgysylltiedig i'r asesiad.

- **(i)** **Cam 1** – **Adolygiad** o wybodaeth sydd wedi'i chyhoeddi.
- **(ii)** **Cam 2** – Datblygu **model rhesymeg** i gyflenwi fframwaith systematig a gweledol i amcangyfrif effaith ariannol y newid polisi (costau/arbedion a manteision/anfanteision)
- **(iii)** **Cam 3** – **Ymgysylltu** â rhanddeiliaid allweddol i helpu i gofnodi costau drwy wneud y canlynol:

  a. darparu data/tystiolaeth bresennol a chanfod bylchau
  b. herio ac egluro rhagdybiaethau
  c. edrych ar ffigurau
  d. nodi rhwystrau posibl
  e. cymryd rhan mewn trafodaethau a phrocio'r meddwl
  f. meithrin dealltwriaeth a hyrwyddo consensws
  g. sefydlu iaith gyffredin gyda phwyntiau cyfeirio cyffredin.

7.60. Cafodd dull ailadroddol a chydweithredol ei ddefnyddio i ddatblygu'r model rhesymeg. Cynhaliwyd trafodaethau adeiladol ynghylch cofnodi costau gyda rhanddeiliaid allweddol (gan gynnwys Llywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Maethu Cymru a'r 4C), ac wedyn bu rhanddeiliaid yn profi'r model am straen ac adolygu'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer y rhagdybiaethau cyn dod i gasgliad am y costau drafft terfynol. Cafodd y rhain wedyn eu hadolygu, eu herio a'u mireinio.

7.61. Mae'r asesiad yn defnyddio ystod o ddata ariannol a mathau eraill o ddata, gan gynnwys:

- Gwybodaeth ariannol gyfanredol sydd ar gael i’r cyhoedd yn ymwneud â gofal cymdeithasol.

- Gwybodaeth ariannol a gynhyrchwyd gan lywodraeth leol, Maethu Cymru a’r 4C.

- Mae ychydig o ddata wedi’i gynnwys, sy’n fasnachol sensitif ac felly nid yw ar gael i’r cyhoedd. Mae hyn yn cael ei ddefnyddio i driongli casgliadau.

7.62. Mae gwaith pobl eraill hefyd wedi cael ei ystyried, gan gynnwys Adroddiad y CMA y cyfeirir ato mewn rhannau eraill o’r Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn.

7.63. Y brif egwyddor arweiniol gyffredinol ar gyfer yr asesiad economaidd yw cymesuredd. Mae wedi ceisio taro cydbwysedd rhwng lefel y manylder, yr ymdrech sydd ei hangen i gasglu data newydd, a’r ystod o ganlyniadau posibl y gellid eu cael (o ystyried y cymhlethdod sy’n rhan gynhenid o system gofal cymdeithasol Cymru a’r ffaith y bydd y gyfran o ddarpariaeth er elw sy’n newid i fodelau busnes nid-er-elw yn effeithio fwyaf ar yr amrywiad yn y costau a gynhyrchir).

7.64. Mae’r costau a nodir isod yn cynnwys beichiau gweinyddol, trosiannol a pharhaus a beichiau cydymffurfio, ar bwy y mae’r costau hynny’n disgyn ac ym mha flynyddoedd ariannol y byddan nhw’n digwydd. Mae’r asesiad yn cynnwys cyfnod o 10 mlynedd, o flwyddyn ariannol 2025-26 i flwyddyn ariannol 2034-35.[53] Mae blwyddyn ariannol 2022-23 wedi cael ei phennu fel y flwyddyn sail brisiau ar gyfer yr holl gostau a manteision yn y dadansoddiad. Nid yw costau yn y blynyddoedd ariannol i ddod yn cael eu haddasu i adlewyrchu chwyddiant prisiau cyffredinol disgwyliedig.

7.65. Oni nodir yn wahanol, mae ffigurau costau wedi cael eu talgrynnu i’r £100,000 agosaf.

7.66. Mae rhywfaint o ansicrwydd ynghylch costau’r elfen hon o’r Bil. Yn benodol, nifer y darparwyr presennol yn y sector er elw a fydd yn sefydlu eu hunain fel un o’r pedwar endid nid-er-elw a nodir yn y Bil (gweler paragraff 3.33). Gallai hyn gael effaith sylweddol ar y costau, yn enwedig y rheini sy’n gysylltiedig â throsi, ac felly mae nifer o senarios gwahanol wedi cael eu modelu.

7.67. Nid yw’r asesiad yn cynnwys costau’r GIG sy’n gysylltiedig â darparu gwasanaethau iechyd ar gyfer gofal preswyl a gofal maeth i blant. Nodir y bydd trosiant gros rhai darparwyr gofal yn cynnwys ffioedd am wasanaethau therapiwtig a/neu nyrsio a fydd yn cael eu talu o gyllidebau’r GIG nad ydynt wedi’u cynnwys yn y data ariannol alldro. Ond, nid yw’n bosibl amcangyfrif hyn o’r data sydd ar gael.

---

[53] Mae rhai tablau yn y Bennod hon hefyd yn cynnwys ffigurau mewn perthynas â 2023-24 a 2024-25 ond nid yw’r blynyddoedd hyn yn ffurfio rhan o’r cyfnod gwerthuso deng mlynedd.

**Rhagdybiaethau penodol i lywio'r penawdau costau ar gyfer pob opsiwn**

**Opsiwn 1**

7.68. Mae'r tabl isod yn rhestru'r rhagdybiaethau a ddefnyddiwyd gan ADSS Cymru i lywio'r costau ar gyfer opsiwn 1.[54]

**Tabl 7.1A**

| **Penawdau'r Costau** | **Sut y cyfrifwyd y costau** |
|---|---|
| **Llywodraeth Cymru** | |
| (1.a) Cyllideb Polisi | Costau (yr adnoddau a ddyrennir ar hyn o bryd ar gyfer polisi gwasanaethau plant, ac eithrio'r broses dileu elw). Cafwyd y data hwn gan Lywodraeth Cymru. |
| **Awdurdodau Lleol** | |
| (1.b) Alldro preswyl | Dyma wariant cenedlaethol awdurdodau lleol ar ofal preswyl i blant. Rydym wedi defnyddio gwariant alldro refeniw Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer gofal preswyl yn ystod 2022/23.[55]<br><br>Mae alldro yn cyfeirio at y swm gwirioneddol o arian y mae awdurdodau lleol yn ei wario ar ofal yn ystod cyfnod ariannol penodol. Mae'n cynrychioli'r gwariant gwirioneddol a ysgwyddir, gan gynnwys yr holl gostau cysylltiedig, ac mae'n fesur o berfformiad ariannol yn erbyn y ffigurau wedi'u cyllidebu neu wedi'u cynllunio. Yn y cyd-destun hwn, mae alldro preswyl yn rhoi darlun clir o'r adnoddau a ddyrennir ac a ddefnyddir gan awdurdodau lleol ar gyfer gwasanaethau gofal preswyl. |
| (1.c) Alldro maethu | Dyma wariant cenedlaethol yr awdurdodau lleol ar ofal maeth. Mae ADSS Cymru wedi defnyddio gwariant alldro refeniw Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer gofal maeth yn ystod 2022/23.<br><br>Mae gwaith pellach wedi'i gynnal i ddadansoddi'r data hwn ymhellach er mwyn eithrio costau sy'n |

[54] Asesiad Effaith Rheoleiddiol i Fil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2024
[55] Dyma'r flwyddyn sail brisiau.

| | |
|---|---|
| | gysylltiedig â gofalwyr maeth *Personau Cysylltiedig* parhaol a dros dro[56]. |
| (1.d) Costau cyfreithiol | Mae'r costau cyfreithiol a ysgwyddir gan awdurdodau lleol sy'n uniongyrchol gysylltiedig â darparu gofal preswyl a gofal maeth i blant wedi'u hamcangyfrif gan ddefnyddio’r data a oedd ar gael ac a ddarparwyd gan awdurdodau lleol.<br><br>Mae cost gyfartalog o £50,000 fesul awdurdod lleol wedi'i defnyddio fel amcangyfrif trefn maint. |
| (1.e) Comisiynu | Mae'r costau cyfreithiol a ysgwyddir gan awdurdodau lleol sy'n uniongyrchol gysylltiedig â chomisiynu gofal cymdeithasol preswyl i blant a gofal maeth wedi'u hamcangyfrif gan ddefnyddio’r data a oedd ar gael ac a ddarparwyd gan awdurdodau lleol wrth ddatblygu'r model rhesymeg.<br><br>Mae cost gyfartalog o £150,000 fesul awdurdod wedi'i defnyddio fel amcangyfrif trefn maint.<br><br>Yn ogystal, mae ADSS Cymru wedi ystyried cyllid ychwanegol gwerth £2 miliwn ar gyfer gweithgarwch gan sefydliadau cenedlaethol, megis Maethu Cymru a Chonsortiwm Comisiynu Cymru ar gyfer Plant (sy'n cefnogi materion comisiynu sy'n ymwneud â gofal preswyl a gofal maeth i blant. Mae tîm y prosiect wedi llunio’r amcangyfrif hwn gan ddefnyddio data a ddarparwyd gan Maethu Cymru ac awdurdodau lleol wrth ddatblygu'r model rhesymeg. |
| (1.f) Arolygiaeth Gofal Cymru | Caiff cyfran o gyllideb Arolygiaeth Gofal Cymru ei gwario i ategu materion rheoleiddiol ac arolygu sy'n ymwneud â gofal preswyl a gofal maeth i blant. Darparwyd y data hwn gan Arolygiaeth Gofal Cymru. |

**<u>Opsiwn 2</u>**

7.69 Yn unol â pharagraff 7.68, mae'r tabl isod hefyd yn rhestru'r rhagdybiaethau a ddefnyddir gan ADSS Cymru, y tro hwn i lywio'r costau ar gyfer y costau trosiannol, sef y costau ychwanegol a'r manteision ariannol yn sgil symud o Opsiwn 1 i Opsiwn 2. Mae'r rhain yn seiliedig ar dabl 2 yn adroddiad ADSS Cymru.

**<u>Tabl 7.1B:</u>**

[56] Plant a phobl ifanc sy'n cael eu lleoli gyda theulu neu ffrindiau sydd wedi'u cymeradwyo gan yr awdurdod lleol fel gofalwyr maeth.

Noder: at ddiben helpu pobl i ddeall Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru) yn unig y mae'r ddogfen hon wedi'i llunio. Ni ddylid dibynnu arni at unrhyw ddiben arall.

| **Penawdau'r Costau** | **Sut y cyfrifwyd y costau** |
|---|---|
| **Llywodraeth Cymru** | |
| (2.a) Cyllideb Polisi | Costau sy'n gysylltiedig â'r polisi dileu elw (ac eithrio'r adnoddau presennol a ddyrennir i bolisi gwasanaethau plant) |
| **Awdurdodau Lleol** | |
| (2.b) Alldro preswyl | Mae'r newid o ddarparu gwasanaethau er elw i wasanaethau nid-er-elw ac awdurdodau lleol yn cynnwys deinameg gymhleth a goblygiadau ariannol sylweddol ar draws sectorau amrywiol. Mae rhai o'r costau alldro hyn yn barhaol tra bod eraill yn rhai dros dro. Mae ADSS Cymru wedi cyfrifo'r costau trosiannol sy'n gysylltiedig â'r alldro preswyl drwy gyfrifo'r gwahaniaeth rhwng y costau alldro preswyl ar gyfer Opsiwn 1 a chost alldro a ragwelir ar gyfer Opsiwn 2 yn ystod y cyfnod trosiannol.<br><br>**Darparwyr er elw sy'n gadael y farchnad.**<br>Efallai y bydd awdurdodau lleol yn wynebu cynnydd mewn ffioedd i wrthbwyso costau a ddaw yn sgil cwmnïau er elw yn gadael y farchnad mewn modd trefnus. Bydd y cwmnïau hyn yn wynebu costau datgomisiynu yn sgil cau gwasanaethau'n gynnar, buddsoddiadau heb eu hadfer, a dibrisiant yng ngwerth asedau. Daw'r costau hyn i'r amlwg oherwydd bod yr amserlenni gweithredu disgwyliedig yn fyrrach, ac yn amlwg ohono'i hun, daw amodau'r farchnad i fod yn anffafriol ar gyfer hyfywedd masnachol yn y tymor hir. Mae ADSS Cymru hefyd wedi nodi pryder am wydnwch ariannol rhai darparwyr cartrefi plant preifat.<br><br>Er mwyn sicrhau mynediad at gyflenwad digonol o leoliadau, bydd angen i awdurdodau lleol godi ffioedd i ddarparwyr er elw er mwyn parhau i ddefnyddio'u gwasanaethau yn ystod unrhyw gyfnod trosiannol. Rydym wedi cymhwyso 20% yn fwy na'r alldro presennol i ystyried costau datgomisiynu rhesymol ar gyfer cyfran yr alldro sy'n cael ei gwario gan awdurdodau lleol ar ddarparwyr er elw. Mae'r premiwm cost yn amcangyfrif trefn maint sydd wedi'i gyfrifo wrth ddatblygu'r model rhesymeg. Caiff hyn ei adolygu'n barhaus.<br><br>Nid yw'r gost hon yn barhaus a dim ond yn ystod y cyfnod trosiannol y mae'n ymddangos. Mae graddfa'r gost hon yn dibynnu ar gyfran y darparwyr sy'n gadael y farchnad. |

| | |
|---|---|
| | **Darparwyr er elw sy'n trosi:** Bydd awdurdodau lleol yn wynebu talu ffioedd uwch i wrthbwyso cwmnïau er elw am y gost o drosi i fodel masnachol nid-er-elw. Bydd darparwyr sy'n dewis modelau nid-er-elw yn wynebu newidiadau cyfreithiol a rheoleiddiol, a chostau trosglwyddo benthyciadau neu gyfamod. Er bod y costau hyn yn wahanol o ran maint o gymharu â chostau datgomisiynu, maent yn sylweddol a chânt eu hystyried drwy ddyrannu 2% ychwanegol yn uwch na'r alldro presennol ar gyfer costau trosi.<br><br>Mae'r premiwm cost yn amcangyfrif trefn maint sydd wedi'i gyfrifo wrth ddatblygu'r model rhesymeg. Bydd angen cynnal prawf straen pellach ynglŷn â hyn.<br><br>**Gwasanaethau presennol awdurdodau lleol**: Mae'r dadansoddiad yn rhagdybio na fydd unrhyw newid yng nghostau'r gwasanaethau a ddarperir gan awdurdodau lleol.<br><br>**Gwasanaethau newydd awdurdodau lleol:** Wrth i awdurdodau lleol sefydlu gwasanaethau newydd, rhagwelir y bydd hyn yn arwain at ostyngiad o 10% yn yr alldro cymharol. Priodolir yr arbediad hwn i gymhwyso costau cyfalaf yn llwyr fel costau trosiannol a'r ffaith nad oes angen creu elw ar gyfalaf, gan wneud y gwasanaethau hyn yn llai costus i'w rhoi ar waith. Ffordd arall o feddwl am hyn yw bod awdurdodau lleol wedi talu am ddatblygu cartrefi plant yn ystod y cyfnod trosiannol, felly nid oes rhaid iddynt ystyried y gost hon (ac eithrio dibrisiant) yn barhaus. Mae'r gostyngiad hwn yn sgil y ffaith nad oes rhaid i awdurdodau lleol dalu ffioedd am gostau cyfalaf oherwydd bod ganddynt bellach fynediad uniongyrchol at y cartrefi plant preswyl sydd newydd eu datblygu.<br><br>Mae'r premiwm cost yn amcangyfrif trefn maint sydd wedi'i gyfrifo wrth ddatblygu'r model rhesymeg. Caiff hyn ei adolygu'n barhaus.<br><br>Gan adlewyrchu canfyddiadau'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd, nid yw ADSS Cymru wedi cynnwys gostyngiad gweithredol mewn costau rhwng modelau er elw a nid-er-elw o ran darparu gwasanaethau preswyl. |

| | |
|---|---|
| | **Gwasanaethau nid-er-elw presennol**: Ni ddisgwylir i'r costau sy'n gysylltiedig â gweithredu gwasanaethau nid-er-elw newid.<br><br>**Gwasanaethau nid-er-elw newydd:** Yn yr un modd â gwasanaethau nid-er-elw presennol, ni ddisgwylir i strwythurau costau newid yn sylweddol yn sgil sefydlu gwasanaethau newydd yn y sector hwn. |
| (2.c) Alldro maethu | O ran gofal maeth, mae'r newid o ddarparu gwasanaethau er elw i wasanaethau nid-er-elw ac awdurdodau lleol yn llai cymhleth.<br><br>Fodd bynnag, mae ADSS Cymru unwaith eto wedi cyfrifo'r costau trosiannol sy'n gysylltiedig â'r alldro maethu dwy gyfrifo'r gwahaniaeth rhwng y costau alldro preswyl ar gyfer Opsiwn 1 a chost alldro a ragwelir ar gyfer Opsiwn 2 yn ystod y cyfnod trosiannol.<br><br>**Darparwyr er elw sy'n gadael y farchnad:** Efallai y bydd awdurdodau lleol yn wynebu ffioedd uwch i wrthbwyso cwmnïau er elw sy'n gadael y farchnad. Bydd y cwmnïau hyn yn wynebu rhai costau datgomisiynu. Er hynny, gan nad oes buddsoddiadau cyfalaf sylweddol o dan sylw, ni fydd costau datgomisiynu sylweddol yn gysylltiedig â dadosod neu waredu asedau cyfalaf.<br><br>Er mwyn sicrhau mynediad at gyflenwad digonol o leoliadau, efallai y bydd angen i awdurdodau lleol gynyddu ffioedd i'r darparwyr er elw hyn er mwyn parhau i ddefnyddio'u gwasanaethau yn ystod unrhyw gyfnod trosiannol. Mae ADSS Cymru wedi cymhwyso 10% yn uwch na'r alldro presennol er mwyn ystyried y costau datgomisiynu. Mae hyn yn llai nag ar gyfer cartrefi preswyl plant gan adlewyrchu'r ffaith bod gan fusnesau gofal maeth lawer llai o gysylltiad cyfalaf.<br><br>Mae'r premiwm cost yn amcangyfrif trefn maint sydd wedi'i gyfrifo wrth ddatblygu'r model rhesymeg. Dylid parhau i adolygu hyn.<br><br>**Darparwyr er elw sy'n trosi:** Bydd darparwyr sy'n dewis modelau nid-er-elw yn wynebu newidiadau cyfreithiol a rheoleiddiol, a chostau trosglwyddo benthyciadau neu gyfamod. Er bod y costau hyn yn wahanol o ran maint o gymharu â chostau datgomisiynu, maent yn sylweddol a chânt eu |

| | |
|---|---|
| | hystyried drwy ddyrannu 2% ychwanegol yn uwch na'r alldro presennol ar gyfer costau trosi. Mae'r costau hyn yn barhaus a byddant yn parhau ar ôl y cyfnod trosiannol.<br><br>Mae'r dadansoddiad yn rhagdybio na fydd unrhyw newid yng nghostau sylfaenol gwasanaethau a ddarperir gan ddarparwyr er elw sy'n trosi. Yn benodol, nid ydym wedi lleihau costau i adlewyrchu'r broses dileu elw.<br><br>**Gwasanaethau presennol awdurdodau lleol:** Mae'r dadansoddiad yn rhagdybio na fydd unrhyw newid yng nghostau'r gwasanaethau a ddarperir gan awdurdodau lleol.<br><br>**Gwasanaethau newydd awdurdodau lleol:** Wrth i awdurdodau lleol sefydlu gwasanaethau newydd, rhagwelir y bydd hyn yn arwain at ostyngiad o 30% yn yr alldro cymharol. Priodolir yr elw hwn i'r arbedion gweithredol sydd wedi'u nodi yn sgil symud o fodel er elw i fodel awdurdod lleol. Er bod darparwyr yn herio hyn, mae'r dystiolaeth weithredol sydd wedi'i darparu gan Maethu Cymru yn dangos bod gwasanaethau maethu awdurdodau lleol yn llawer llai costus nag asiantaethau maethu er elw ac nid-er-elw. I adlewyrchu hyn, mae ADSS Cymru wedi cymhwyso gostyngiad o 30% yn yr alldro cymharol.<br><br>**Gwasanaethau nid-er-elw presennol:** Ni ddisgwylir i'r costau sy'n gysylltiedig â gweithredu gwasanaethau nid-er-elw newid.<br><br>**Gwasanaethau nid-er-elw newydd:** Yn yr un modd â gwasanaethau nid-er-elw presennol, ni ddisgwylir i strwythurau costau newid yn sylweddol yn sgil sefydlu gwasanaethau newydd yn y sector hwn. |
| (2.d) Costau cychwynnol (gofal preswyl i blant) | Bydd awdurdod lleol yn wynebu costau cychwynnol wrth iddo sefydlu gwasanaethau preswyl newydd. Elfen sylweddol o gostau gweithredu unrhyw wasanaeth preswyl plant yw staffio uniongyrchol ac anuniongyrchol. Mae angen tîm cyflawn o staff (gan gynnwys rheolwyr) cyn cofrestru, a bydd yn cymryd amser i bob cartref preswyl gyflawni'r targed o ran defnydd. Yn ystod y cyfnod pan fydd y lefelau defnydd yn gymharol isel, bydd angen talu am y costau hyn. |

| | |
|---|---|
| | Mae ADSS Cymru wedi rhagdybio, yn ystod y cyfnod trosiannol, y bydd gofyn i awdurdodau lleol ddarparu mwy o nosweithiau gwely nag y byddai eu hangen fel arfer er mwyn rheoli llif lleoliadau o'r sector er elw i leoliadau awdurdodau lleol. Rydym wedi amcangyfrif y bydd angen 50% yn fwy o welyau arnynt yn ystod y cyfnod trosiannol, gan adlewyrchu'r ffaith y bydd rhai cartrefi gofal preswyl er elw yn parhau i weithredu ond yn gwneud hynny gyda lleoedd gwag wrth iddynt gael eu datgomisiynu, ac ni fydd busnesau newydd yr awdurdod lleol neu fusnesau nid-er-elw newydd yn gwbl weithredol wrth iddynt sefydlu’r gwasanaethau.<br><br>Bydd cyfanswm nosweithiau gwely'r flwyddyn yn ddibynnol ar nifer y darparwyr er elw sy'n trosi. Bydd nifer nosweithiau gwely'r flwyddyn hefyd yn ddibynnol ar hyd y cyfnod trosiannol. Ni fydd cyfnod trosiannol hirach yn newid cyfanswm y nosweithiau ond bydd yn lleihau'r nifer sy'n angenrheidiol mewn unrhyw flwyddyn.<br><br>Mae ADSS Cymru yn rhagdybio y bydd awdurdodau lleol yn talu costau cychwynnol sefydliadau nid-er-elw. Mae'r ragdybiaeth hon wedi'i gwneud gan nad yw sefydliadau nid-er-elw yn debygol o fynd i mewn i'r farchnad heb gytundeb y caiff costau cychwynnol eu talu drwy drefniadau comisiynu bloc neu drefniadau eraill lle trosglwyddir y risg ariannol o ran cynnal gwasanaeth pan fo’r capasiti’n llai na’r capasiti llawn i’r awdurdod lleol drwy fuddsoddiad cychwynnol ymlaen llaw. |
| (2.e) Costau cyfalaf (gofal preswyl plant) | Y costau cyfalaf yw'r costau sy'n ymwneud â phrynu ac yna datblygu eiddo preswyl addas. Mae ADSS Cymru wedi amcangyfrif mai'r gost gyfartalog ar gyfer datblygu cartref preswyl i blant, gan gynnwys prynu a datblygu, yw £700,000.<br><br>Mae ADSS Cymru wedi gwneud yr amcangyfrif hwn gan ddefnyddio sawl dull ar gyfer cyfrifo costau:<br><br>Cost gyfartalog eiddo 4 ystafell wely yng Nghymru yw tua £360,000.<br><br>Bydd y costau datblygu yn cynnwys addasiadau ffisegol i adeilad er mwyn sicrhau ei fod yn bodloni'r safonau rheoleiddiol a gweithredol ar gyfer cartref |

| | |
|---|---|
| | plant. Bydd hyn yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, ddarparu llety addas i aelodau staff y mae'n ofynnol iddynt fod yn yr adeilad yn ystod y nos, swyddfa a nifer o doiledau ac ystafelloedd ymolchi. Mae hyn yn golygu y bydd angen o leiaf 4 ystafell wely ar gyfer cartref preswyl i blant sydd â 3 gwely. Yn y mwyafrif o achosion pan gaiff eiddo ei brynu, bydd angen cynnal gwaith adnewyddu llawn gan gynnwys gosod Systemau Llethu Tân.<br><br>Mae ADSS Cymru wedi defnyddio lluosydd o 2 i drosi costau cyfalaf prynu eiddo yn gyfanswm cost datblygu eiddo â 3 ystafell wely yn gartref plant ac wedi amcangyfrif bod hyn yn £700,000 er mwyn gallu dangos effaith newidiadau yn glir.<br><br>Mae'r lluosydd hwn yn seiliedig ar wybodaeth a ddarparwyd gan awdurdodau lleol sydd wedi datblygu cartrefi plant, yn ogystal â dadansoddiad o werth y farchnad yn erbyn gwerth rhent disgwyliedig ac yn erbyn cost cartrefi preswyl i blant sydd wedi'u comisiynu.<br><br>Mae ADSS Cymru yn rhagdybio y bydd awdurdodau lleol yn talu costau cyfalaf sefydliadau nid-er-elw sy'n sefydlu gwasanaethau newydd ond ceir gostyngiad yn y costau gweithredol yn unol â hynny. Y ragdybiaeth yw nad yw sefydliadau nid-er-elw yn debygol o ariannu gwariant cyfalaf heb gymorth uniongyrchol neu anuniongyrchol gan awdurdodau lleol.<br><br>Bydd gan y cyfalaf a ddefnyddir werth gweddilliol sylweddol ac mae hyn wedi'i nodi ar gyfer pob senario. |
| 2.f) Costau cyfreithiol (gofal preswyl i blant) | Bydd costau cyfreithiol yn cynnwys cyngor a chymorth i brynu eiddo addas yn ogystal â sicrhau cydymffurfiaeth â rheoliadau a gofynion trwyddedu. Efallai y bydd costau'n gysylltiedig â drafftio contractau a chytundebau gyda darparwyr gwasanaethau a phartneriaid i sicrhau bod rhwymedigaethau cyfreithiol yn cael eu bodloni mewn meysydd megis yswiriant.<br><br>Gan ddefnyddio data a ddarparwyd gan awdurdodau lleol sydd â phrofiad o ddatblygu cartrefi preswyl i blant, rydym yn amcangyfrif, ar |

| | |
|---|---|
| | gyfartaledd, cost gyfreithiol o £20,000 ar gyfer pob cartref a ddatblygir. |
| (2.e) Comisiynu | Mae costau rheoli prosiectau yn cynnwys cyflogau rheolwyr prosiect, staff technegol a staff cymorth, yn ogystal â chostau sy'n gysylltiedig â chynllunio prosiectau, amserlennu a monitro.<br><br>Bydd rheolwyr prosiect profiadol yn goruchwylio gwahanol gamau gweithredu, o'r gwaith cynllunio cychwynnol i brynu adeiladau newydd a'u hadnewyddu i ddechrau gweithredu go iawn. Byddant yn cydgysylltu gweithgarwch, yn rheoli cyllidebau ac yn sicrhau bod prosiectau ar y trywydd iawn i gyflawni eu nodau o fewn amserlenni tynn.<br><br>Gan ddefnyddio data a ddarparwyd gan awdurdodau lleol sydd wedi datblygu cartrefi preswyl i blant, mae ADSS Cymru yn amcangyfrif bod costau rheoli prosiectau, ar gyfartaledd, yn £150,000 ar gyfer pob cartref a ddatblygir. |
| (2.h) Costau cychwynnol (maethu) | Mae dull cenedlaethol eisoes ar waith ar gyfer hyrwyddo maethu yn fewnol drwy'r bartneriaeth rhwng awdurdodau lleol a Maethu Cymru. Bydd angen rhywfaint o adnoddau ychwanegol, gan gynnwys marchnata, hyfforddiant, asesu a chymeradwyo gofalwyr maeth er mwyn datblygu'r gwasanaethau hyn i fodloni'r gofynion newydd o ran capasiti.<br><br>Mae hyn wedi'i gyfrifo drwy gynyddu cyllideb Maethu Cymru a'r costau sy'n wynebu awdurdodau lleol i gyflawni'r rhaglenni presennol o ran goruchwyliaeth a chymorth maethu. |
| (2.i) AGC | Costau ychwanegol sy'n gysylltiedig â helpu darparwyr newydd a darparwyr presennol i drosi. |

7.70 Mae'r tabl isod hefyd yn rhestru'r rhagdybiaethau sydd wedi'u defnyddio gan ADSS Cymru, y tro hwn i lywio'r costau ar gyfer costau ychwanegol parhaus a manteision ariannol Opsiwn 2.

**Tabl 7.1C**

| **Penawdau'r Costau** | **Sut y cyfrifwyd y costau** |
|---|---|
| **Llywodraeth Cymru** | |
| (3.a) Cyllideb polisi | Costau parhaus sy'n gysylltiedig â'r polisi dileu elw (ac eithrio'r adnoddau presennol a ddyrennir i bolisi gwasanaethau plant). Darparwyd y data hwn gan Lywodraeth Cymru. |

| **Awdurdodau Lleol** | |
|---|---|
| (3.b) Alldro preswyl | Bydd yr alldro preswyl wedi newid er mwyn adlewyrchu'r proffiliau cost ar gyfer y carfannau o ddarparwyr newydd. Bydd hyn yn wahanol ar gyfer pob senario. |
| (3.c) Alldro maethu | Bydd yr alldro maethu wedi newid er mwyn adlewyrchu'r proffiliau cost ar gyfer y carfannau o ddarparwyr newydd. Bydd hyn yn wahanol ar gyfer pob senario. |
| (3.d) Costau cyfreithiol | Mae ADSS Cymru yn rhagdybio, unwaith y bydd y broses dileu elw wedi'i chwblhau, y bydd y costau hyn yn dychwelyd i'r hyn a ddisgrifir yn Opsiwn 1. |
| (3.e) Comisiynu | Mae ADSS Cymru yn rhagdybio, unwaith y bydd y broses dileu elw wedi'i chwblhau, y bydd y costau hyn yn dychwelyd i'r hyn a ddisgrifir yn Opsiwn 1. |
| (3.f) Arolygiaeth Gofal Cymru | Mae ADSS Cymru yn rhagdybio, unwaith y bydd y broses dileu elw wedi'i chwblhau, y bydd y costau hyn yn parhau. Darparwyd y data hwn gan Arolygiaeth Gofal Cymru. |

## Opsiwn Un – Busnes Fel Arfer

### Costau

7.71 Dyma'r opsiwn sylfaenol, felly mae'r canlynol yn grynodeb o'r costau sylfaenol ac fe'i cyflwynir fel bod modd gwneud cymhariaeth â'r costau o dan Opsiwn dau.

***Costau i Awdurdodau Lleol***

7.72 Mae'r tablau canlynol[57] yn dangos y gwariant cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau gofal preswyl a maethu dros saith mlynedd. Maen nhw hefyd yn nodi canran cyfradd y newid mewn gwariant o un flwyddyn i'r llall.

**Tabl 7.2 - Gwariant ar Ofal Preswyl i Blant yng Nghymru *(£ miloedd)***

| | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 | | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 | 2022/23 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gofal preswyl | 65,449 | 82,107 | 95,396 | | 108,915 | 116,204 | 128,518 | 198,252 |
| % y cynnydd | | 25% | 16% | | 14% | 7% | 11% | 54% |

57 Daw'r data yn y tablau o https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Local-Government/Finance/Revenue/Social-Services/social-services-socialservicesrevenueexpenditure-by-clientgroup

7.73 Roedd cyfradd gyfartalog y cynnydd o un flwyddyn i'r llall yng nghost gofal preswyl yn 21% dros y cyfnod, o'i gymharu â chynnydd chwyddiant cyfartalog o 4% chwyddiant.

7.74 Mae Tabl 7.2 yn dangos bod gwariant ar wasanaethau preswyl wedi treblu ers 2016/17. Fodd bynnag, dim ond 66% o gynnydd sydd yn y niferoedd mewn lleoliadau preswyl yn ystod y cyfnod hwn, o 355 i 590.

**Tabl 7.3 - Gwariant ar Wasanaethau Maethu yng Nghymru *(£ miloedd)***

| | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 | 2022/23 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Maethu | 116,821 | 120,411 | 126,663 | 133,595 | 137,281 | 136,522 | 143,848 |
| % y cynnydd | | 3% | 5% | 5% | 3% | -1% | 5% |

7.75 Roedd cyfradd gyfartalog y cynnydd o un flwyddyn i'r llall yng nghost gofal maeth yn 4% dros y cyfnod, o'i gymharu â chynnydd chwyddiant cyfartalog o 4%. Gwelwyd cynnodd o 11% yn nifer y plant a roddwyd mewn gofal maeth a dim ond 23% o gynnydd yn y costau.

**Tabl 7.4 - Gwariant ar Ofal Preswyl a Gwasanaethau Maethu yng Nghymru *(£ miloedd)***

| | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 | 2022/23 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm | 182,270 | 202,518 | 222,059 | 242,510 | 253,485 | 265,040 | 342,100 |
| % y cynnydd | | 11% | 10% | 9% | 5% | 5% | 29% |

7.76 Roedd cyfradd gyfartalog y cynnydd o un flwyddyn i'r llall yng nghost gofal preswyl a gofal maeth gyda'i gilydd yn 11% dros y cyfnod, o'i gymharu â chynnydd chwyddiant cyfartalog o 4%.

***Crynodeb o'r Costau yn Opsiwn 1***

7.77 Mae tabl 7.5 yn dangos cost yr opsiwn 'busnes fel arfer'. Nid yw costau chwyddiant na phwysau costau eraill wedi cael eu rhoi. Mae'n rhagdybio dim twf yn nifer y plant sy'n derbyn gofal a dim newid yng nghyfran y ddarpariaeth yn y sectorau preifat, awdurdodau lleol ac nid-er-elw. Y rheswm dros hyn yw ei bod yn anodd amcangyfrif union ffurf a chydbwysedd y ddarpariaeth y gallai fod ei hangen a/neu a fydd yn bodoli mewn termau rhifiadol clir. Mae gormod o newidynnau, gan gynnwys ffactorau cymdeithasol, arweinyddiaeth, diwylliant, a rôl darparwyr presennol yn y farchnad yn y dyfodol i bennu'r amcanestyniadau hyn gyda'r lefel manylder angenrheidiol. Felly, i gael sylfaen gyson a mesuradwy, mae'r rhagdybiaethau'n seiliedig ar ffurf a chydbwysedd presennol y ddarpariaeth.

Noder: at ddiben helpu pobl i ddeall Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru) yn unig y mae’r ddogfen hon wedi’i llunio. Ni ddylid dibynnu arni at unrhyw ddiben arall.

## Tabl 7.5 Crynodeb o’r costau yn Opsiwn 1 *(£ miloedd)*

| | 2023/ 24 | 2024/ 25 | 2025/ 26 | 2026/ 27 | 2027/ 28 | 2028/ 29 | 2029/ 30 | 2030/ 31 | 2031/ 32 | 2032/ 33 | 2033/ 34 | 2034/ 35 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Llywodraeth Cymru** | | | | | | | | | | | | |
| *(1.a)* Cyllideb Polisi | 752 | 752 | 752 | 752 | 752 | 752 | 752 | 752 | 752 | 752 | 752 | 752 |
| **Awdurdodau lleol** | | | | | | | | | | | | |
| (1.b) Alldro preswyl | 198,000 | 198,000 | 198,000 | 198,000 | 198,000 | 198,000 | 198,000 | 198,000 | 198,000 | 198,000 | 198,000 | 198,000 |
| (1.c) Alldro maethu | 144,000 | 144,000 | 144,000 | 144,000 | 144,000 | 144,000 | 144,000 | 144,000 | 144,000 | 144,000 | 144,000 | 144,000 |
| (1.d) Cyfreithiol | 1,100 | 1,100 | 1,100 | 1,100 | 1,100 | 1,100 | 1,100 | 1,100 | 1,100 | 1,100 | 1,100 | 1,100 |
| (1.e) Comisiynu | 5,300 | 5,300 | 5,300 | 5,300 | 5,300 | 5,300 | 5,300 | 5,300 | 5,300 | 5,300 | 5,300 | 5,300 |
| **Rheoleiddwyr** | | | | | | | | | | | | |
| (1.f) AGC | 1,457 | 1,457 | 1,457 | 1,457 | 1,457 | 1,457 | 1,457 | 1,457 | 1,457 | 1,457 | 1,457 | 1,457 |
| **Cyfanswm** | 350,609 | 350,609 | 350,609 | 350,609 | 350,609 | 350,609 | 350,609 | 350,609 | 350,609 | 350,609 | 350,609 | 350,609 |

***Manteision ac Anfanteision Opsiwn 1***

7.78 Mae'n ymddangos mai cyfyngedig yw'r manteision sy'n bodoli yn y system bresennol. Fel y mae cyd-destun yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn yn ei nodi, mae'r corff o dystiolaeth yn dangos nad yw'n gweithio fel y mae angen iddi er mwyn diwallu anghenion plant a phobl ifanc.

7.79 Bydd anghenion plant, a all fod yn rhai tymor byr neu dymor hir, yn amrywio yn ôl eu hamgylchiadau. Gallai caniatáu i ddarpariaeth er elw sy'n cynnig gofal preswyl a gofal maeth i blant barhau i weithredu, gan gynnal y sefyllfa bresennol, o bosibl ddarparu set fwy o opsiynau yn y tymor byr ar gyfer diwallu'r anghenion hynny.

7.80 Byddai cadw'r system bresennol yn rhoi sefydlogrwydd (ond mewn system nad yw'n gweithio'n dda) ac yn osgoi'r risgiau o darfu a mwy o annigonolrwydd a allai ddeillio yn sgil trosglwyddo i ddarpariaeth nid-er-elw.

7.81 Mae rhai darparwyr preifat wedi datblygu sgiliau a rhinweddau arbenigol dros flynyddoedd lawer, a gallai gadael y farchnad arwain at golli cryn dipyn o ofal a chymorth o ansawdd uchel i blant. Gallai'r opsiwn hwn helpu i sicrhau bod y sgiliau hyn yn cael eu cadw a bod cyflenwad digonol o weithwyr gofal profiadol mewn gwasanaethau preswyl a maethu plant.

7.82 Er y gellid dadlau y gallai comisiynu, cynllunio a rhag-weld darpariaeth yn well helpu i wella effeithiolrwydd y ddarpariaeth er elw, mae'r dystiolaeth yn awgrymu mai dim ond pan fydd y gwahanol amodau ar eu gorau y gall y trefniant hwn weithio'n dda, ac yn ogystal rhaid i 'stiwardiaeth yn y farchnad' ddigwydd i greu canlyniadau cadarnhaol. Mae'r amodau hynny'n cynnwys darparwyr newydd yn gallu ymuno â'r farchnad a thyfu, cystadleuaeth weithredol, darparwyr yn gallu gadael y farchnad yn hawdd, pobl yn gallu gwneud dewisiadau ar sail gwybodaeth am eu gofal, a digon o gyllid i gyflawni'r nodau hynny. Mae'r Institute of Government yn nodi mai anaml y caiff amodau o'r fath eu bodloni.[58]

7.83 Ni fydd parhau â'r trefniadau presennol yn lleddfu'r heriau y mae awdurdodau lleol yn eu hwynebu. Mae ein poblogaeth mewn gofal yng Nghymru yn fwy nag mewn mannau eraill yn y DU, a hynny'n anghymesur, ac mae'n wynebu galw cynyddol yn enwedig mewn perthynas ag anghenion cymhleth.

7.84 Mae'r costau sy'n gysylltiedig â'r dull presennol o ddarparu gofal yn cynyddu. Mae awdurdodau lleol yn parhau i wynebu heriau ariannol cynyddol a chyda hynny daw mwy o ddibyniaeth ar ddarpariaeth er elw, gyda'r holl broblemau cysylltiedig o ran ansawdd gofal, sefydlogrwydd, y gweithlu, a sicrhau'r ystod o ddarpariaeth i ddiwallu anghenion plant.

[58] Microsoft Word - PublicServiceMarkets - Terfynol_f2 (instituteforgovernment.org.uk) t 4

7.85 Mae'r darparwyr lleoliadau preifat mwyaf i blant yn gwneud elw sylweddol uwch, ac yn codi mwy na'r hyn a ddisgwylir mewn marchnad sy'n gweithredu'n dda. Mae'r anghysondeb hwn yn dangos aneffeithlonrwydd a'r posibilrwydd o gamfanteisio yn y farchnad.

7.86 Yn ogystal, ni fydd yr opsiwn hwn yn darparu'r hyn y mae plant a phobl ifanc wedi dweud wrthym eu bod yn dymuno ei gael. Mae tystiolaeth (gweler paragraff 3.27) bod ganddynt deimladau cryf yn erbyn cael gofal gan sefydliadau preifat sy'n gwneud elw o'u profiad o fod mewn gofal, a lle y bydd buddiannau masnachol yn effeithio ar sut maen nhw'n cael gofal.

7.87 Byddai cadw at y dull presennol hefyd yn mynd yn groes i raglen ehangach Llywodraeth Cymru o drawsnewid (y cyfeirir ati ym maragraffau 7.51 - 7.52) sydd â'r nod o ddatblygu cynnig cyfannol i blant a phobl ifanc, er mwyn hyrwyddo bywyd sy'n canolbwyntio ar y teulu a'r gymuned, gan olygu y byddai angen i lawer llai ddechrau derbyn gofal yn y lle cyntaf.

## Opsiwn Dau: Cyflwyno deddfwriaeth i ddileu elw o ofal preswyl a gofal maeth i blant sy'n derbyn gofal.

### *Costau ac Arbedion*

7.88 Roedd y dull lefel uchel o asesu'r costau a'r manteision yn seiliedig ar ragdybiaeth bod y canlynol yn aros yn gyson:

- ffurf gyffredinol y ddarpariaeth leoli (er enghraifft, nifer y plant yn y system ofal, cydbwysedd y ddarpariaeth ar draws gofal preswyl a maethu).

7.89 O ran nifer y plant yn y system ofal yn aros yn gyson yn y dyfodol, yn unol â pharagraff 3.13 mae hyn yn seiliedig ar ddata a gyhoeddwyd ar StatsCymru sy'n nodi bod y nifer hwn wedi aros yn gymharol wastad yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae'n anodd modelu niferoedd yn y dyfodol gydag unrhyw sicrwydd o ystyried arwyddocâd dylanwad ffactorau allanol ar niferoedd, megis effaith ddiweddar plant ar eu pen eu hunain sy'n ceisio lloches. O ystyried yr ansicrwydd sylfaenol hwn, rydym felly wedi sefydlu llinell sylfaen gan ddefnyddio nifer y plant sy'n derbyn gofal a gofnodwyd ar gyfer 2022/23 ac wedi gweithredu hyn dros gyfnod o ddeng mlynedd. Mae hwn yn ddull syml sy'n osgoi ychwanegu cymhlethdod ychwanegol i'r modelu.

7.90 O ran y rhagdybiaeth y byddai cydbwysedd y ddarpariaeth ar draws maethu a mabwysiadu hefyd yn aros yn gyson, y rheswm dros hyn yw ei bod yn anodd amcangyfrif union ffurf a chydbwysedd y ddarpariaeth y gallai fod ei hangen a/neu a fydd yn bodoli mewn termau rhifiadol clir. Mae gormod o newidynnau, gan gynnwys ffactorau cymdeithasol,

arweinyddiaeth, diwylliant, a rôl darparwyr er elw presennol yn y farchnad yn y dyfodol i bennu'r amcanestyniadau hyn gyda'r lefel manylder angenrheidiol. Felly, i gael sylfaen gyson a mesuradwy, mae'r rhagdybiaethau'n seiliedig ar ffurf a chydbwysedd presennol y ddarpariaeth. Serch hynny, gweler paragraff 7.119 sy'n manylu ar ddisgwyliadau Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r materion hyn.

7.91 Mae'r asesiad o gostau yn yr opsiwn hwn, fodd bynnag, wedi cael ei ddatblygu gan ddefnyddio senarios gwahanol a allai ddigwydd o dan y newidiadau deddfwriaethol. Mae hyn yn rhoi cyfle i ystyried costau/arbedion a manteision/anfanteision amrywiol yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol.

- **Senario A:** Bydd darparwyr er elw presennol sy'n troi'n fodel busnes nid-er-elw yn darparu 50 y cant o'r capasiti gofal preswyl a gofal maeth sy'n cael ei ddarparu ar sail er elw ar hyn o bryd. Mae hyn yn golygu y bydd angen i 50 y cant o'r capasiti hwn gael ei gynhyrchu gan y sector gwirfoddol a chan awdurdodau lleol yn datblygu gwasanaethau gofal preswyl a maeth newydd.

- **Senario B:** Bydd darparwyr er elw presennol sy'n troi'n fodel busnes nid-er-elw yn darparu 25 y cant o'r capasiti gofal preswyl a gofal maeth sy'n cael ei ddarparu ar sail er elw ar hyn o bryd. Mae hyn yn golygu y bydd angen i 75 y cant o'r capasiti hwn gael ei gynhyrchu gan y sector gwirfoddol a chan awdurdodau lleol yn datblygu gwasanaethau gofal preswyl a maeth newydd.

- **Senario C:** Ni fydd unrhyw ddarpariaeth er elw yn trosi. Bydd darparwyr sy'n troi'n fodel busnes nid-er-elw yn darparu dim capasiti o'r sector preifat. Mae hyn yn golygu y bydd angen i 100 y cant o'r capasiti presennol yn y sector preifat gael ei gynhyrchu gan y sector gwirfoddol a chan awdurdodau lleol yn dod â gwasanaethau newydd.

**Tabl 7.6 - Senarios lle mae darparwyr yn trosi i fod yn rhai nid-er-elw**

| Senario | Darparwyr wedi trosi'n ddarparwyr nid-er-elw | Y gyfran sy'n weddill o'r gwasanaethau newydd neu estynedig sydd eu hangen gan y sector gwirfoddol ac awdurdodau lleol |
|---|---|---|
| A (mwyaf optimistaidd) | 50% | 50% |
| B | 25% | 75% |
| C (lleiaf optimistaidd) | 0% | 100% |

7.92 Mae gwybodaeth gan awdurdodau lleol, Maethu Cymru a'r 4C yn awgrymu ei bod yn bosibl y bydd nifero uwch o asiantaethau gofal maeth er elw a nifer is o ddarparwyr llety a restrir yn y Bil. Fodd bynnag, nid oes modd bod yn fanwl gywir ar hyn o bryd gan ein bod yn ymwybodol bod nifer sylweddol o ddarparwyr yn dal i ystyried y darpariaethau yn y Bil, ac yn benodol hyfywedd y pedwar model nid-er-elw a restrir, cyn gwneud penderfyniadau am eu dyfodol.

7.93 Roedd tystiolaeth a roddwyd gan y Gymdeithas Cartrefi Plant yn ystod y gwaith craffu Cyfnod 1 ar y Bil ym mis Mehefin 2024 yn dangos nad oedd yr un o'i haelodau yn teimlo ar y pryd y gallent ailsefydlu eu busnesau fel rhai nid-er-elw, er bod rhai yn nodi y gallent ystyried gwneud hynny pe bai modelau amgen yn cael eu cynnwys yn y Bil. [59]

7.94 Yn ogystal â phennu amserlenni diwygiedig, cadarnhaodd y Datganiad Ysgrifenedig ar 27 Tachwedd 2024 fwriad Llywodraeth Cymru i beidio ag ychwanegu Ymddiriedolaethau Perchnogaeth gan y Gweithwyr neu gwmnïau cydweithredol, fel y'u diffinnir o dan Ddeddf Cwmnïau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014, at y rhestr o fodelau a ganiateir yn y Bil. Yng ngoleuni hyn a gwybodaeth ehangach sydd wedi llywio'r RIA, rydym yn amcangyfrif bod y costau a gyflwynir o dan senarios B ac C yn fwy tebygol. Felly, mae'r amrediad costau a gyflwynir yn nhabl cryno Pennod 6 yn seiliedig ar Senarios B ac C.

### Math o leoliad

7.95 Mae’r tablau canlynol yn dangos nifer y lleoliadau yng Nghymru ar hyn o bryd ar draws gofal preswyl a gofal maeth a chyfran y lleoliadau yn y sector preifat, y sector gwirfoddol a’r sector awdurdod lleol.

7.96 Mae’r data a gyflwynir yma yn giplun o nifer y lleoliadau mewn amgylch dynamig. Mae’r cipluniau hyn yn frasamcanion defnyddiol a chymharol gywir o niferoedd a chymarebau lleoliadau dros gyfnod rhesymol. Dyma’r llinell sylfaen a ddefnyddir hefyd wrth ystyried nifer y lleoliadau sydd eu hangen ar Gymru ac wrth fodelu’r senarios trosi a ddisgrifir yn ddiweddarach.

7.97 Daw’r data yn y tabl canlynol o ***adroddiad terfynol Astudiaeth y CMA o’r Farchnad Gofal Cymdeithasol i Blant***. Mae’r set ddata hon wedi cael ei chynnwys yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn gan ei bod yn dangos:

- Cyfran gymharol y plant a leolir mewn gofal preswyl a maethu yng Nghymru.

[59] Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol 27/06/2024 - Senedd Cymru

- Y cyfrannau cymharol o blant sy'n derbyn gofal sydd mewn gofal maeth a gofal preswyl yng Nghymru a Lloegr, sy'n dangos y gyfran gymharol isel o blant mewn gofal preswyl yng Nghymru o'i gymharu â Lloegr.

**Tabl 7.7 - Plant mewn gofal mewn lleoliadau maeth a phreswyl yn Lloegr (2021) a Chymru (2021)**

| | Lloegr | | Cymru | |
|---|---|---|---|---|
| Gofal maeth | 57,330 | 71% | 5,075 | 70% |
| Lleoliadau preswyl | 12,790 | 16% | 535 | 7% |
| Lleoliadau eraill[60] | 11,850 | 13% | 1,655 | 23% |
| Cyfanswm | 81,970 | 100% | 7,265 | 100% |

7.98 Daw'r data yn y tabl canlynol o adroddiad terfynol yr Astudiaeth o'r Farchnad Gofal Cymdeithasol i Blant a data a ddarparwyd gan Gonsortiwm Comisiynu Cymru ar gyfer Plant. Mae'r set ddata hon wedi cael ei chynnwys yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn gan ei bod yn dangos pwy sydd yn y sector preswyl yn ôl math o ddarparwr.

**Tabl 7.8 - Plant mewn gofal mewn lleoliadau preswyl yn ôl math o ddarparwr**

| | 2014 | 2021 | 2023 |
|---|---|---|---|
| Y Sector Preifat | 78% | 81% | 87% |
| Y Sector Gwirfoddol | 4% | 6% | 1% |
| Awdurdod Lleol | 18% | 13% | 12% |
| Cyfanswm | 100% | 100% | 100% |

7.99 Daw'r data yn y tabl canlynol o'r Astudiaeth o'r Farchnad Gofal Cymdeithasol i Blant. Mae'r set ddata hon wedi cael ei chynnwys yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn gan ei bod yn dangos pwy sydd yn y sector maethu yn ôl math o ddarparwr.

**Tabl 7.9 - Plant mewn gofal mewn gofal maeth yn ôl math o ddarparwr**

| | 2022 |
|---|---|
| Y Sector Preifat | 35% |
| Y Sector Gwirfoddol | 5% |
| Awdurdod Lleol | 60% |
| Cyfanswm | 100% |

[60] Ar gyfer Lloegr, mae lleoliadau eraill yn cynnwys lleoliadau eraill, lleoliadau eraill yn y gymuned, lleoli plentyn i'w fabwysiadu a lleoli plentyn gyda rhieni neu berson arall â chyfrifoldeb rhiant. Ar gyfer Cymru, mae lleoliadau eraill yn cynnwys lleoli plentyn i'w fabwysiadu, lleoli plentyn gyda'i rieni ei hun neu berson arall â chyfrifoldeb rhiant, byw'n annibynnol ac absennol o leoliad neu leoliad arall.

7.100 Lle mae darpariaeth er elw bresennol yn parhau, y rhagdybiaeth yw ei bod wedi newid i drefniadau masnachol nid-er-elw. Mae'r cyfrannau uwch ar gyfer awdurdodau lleol a darparwyr nid-er-elw yn rhagdybiaethau sy'n seiliedig ar gynyddu eu cyfran bresennol o'r ddarpariaeth.

**Tabl 7.10 - Senarios Trosi sydd wedi'u defnyddio i ddosbarthu lleoliadau gofal preswyl presennol yn ôl math o ddarparwr**

| | Y sefyllfa bresennol | Senario A | Senario B | Senario C |
|---|---|---|---|---|
| Y Sector Preifat | 81.0% | 40.5% | 20.3% | 0% |
| Y Sector Nid-er-elw | 13.0% | 40.7% | 54.6% | 68.4% |
| Awdurdod Lleol | 6.0% | 18.0% | 25.2% | 31.6% |
| | 100.0% | 100.0% | 100.0% | 100.0% |

**Tabl 7.11 - Senarios Trosi sydd wedi'u defnyddio i ddosbarthu lleoliadau maethu presennol yn ôl math o ddarparwr**

| | Y sefyllfa bresennol | Senario A | Senario B | Senario C |
|---|---|---|---|---|
| Y Sector Preifat | 35.0% | 17.5% | 8.8% | 0.0% |
| Y Sector Nid-er-elw | 50.0% | 76.2% | 84.2% | 92.3% |
| Awdurdod Lleol | 5.0% | 6.3% | 7.0% | 7.3% |

**Gwelyau sydd eu hangen i ateb y galw**

7.101 Gan ddefnyddio data cyfanredol cenedlaethol a ddarparwyd gan awdurdodau lleol, ar 31 Mawrth 2023, roedd y sector preifat yn darparu 542 o leoliadau preswyl, tra bod sefydliadau nid-er-elw'n darparu 40 o leoliadau, gyda 110 wedi'u lleoli y tu allan i Gymru. Mae gan y cartref preswyl cyfartalog i blant 3.2 o welyau, gyda 83% o'r capasiti yn cael ei ddefnyddio fel arfer.

7.102 Er mwyn ateb y galw am leoliadau preswyl heb unrhyw newid, hynny yw, Senario C, mae angen cyfanswm o 653 o welyau (yn seiliedig ar lefel defnydd o 83%) ar draws 204 o gartrefi ychwanegol. Fodd bynnag, os bydd 50% o ddarparwyr yn newid, dim ond 102 o gartrefi ychwanegol sydd eu hangen. Dyma un o'r ddau ffactor pwysicaf sy'n sbarduno costau trosiannol i awdurdodau lleol.[61]

[61] Cost prynu ac yna datblygu eiddo preswyl addas yw'r costau cyfalaf. Ar gyfartaledd, mae eiddo 4 llofft yng Nghymru yn costio oddeutu £360,000. Bydd y costau datblygu yn cynnwys addasiadau ffisegol i adeilad i sicrhau ei fod yn bodloni'r safonau rheoleiddio a gweithredol i fod yn gartref plant. Bydd hyn yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, ddarparu llety addas i aelodau o staff y mae'n rhaid iddyn nhw

7.103 Y gost datblygu fesul cartref yw cost prynu a datblygu cartref preswyl i blant i gwrdd â’r safon ofynnol. Defnyddiwyd ffigur o £700,000 fel cost datblygu safonol fesul cartref.

7.104 Fel rhan o’i hadroddiad, mae ADSS Cymru wedi rhagdybio y bydd awdurdodau lleol yn talu costau cychwyn sefydliadau nid-er-elw newydd gan fod y mathau hyn o sefydliadau’n annhebygol o ymuno â’r farchnad heb gytundeb y bydd costau cychwyn cychwynnol yn cael eu gwrthbwyso drwy drefniadau comisiynu neu drefniadau eraill. Caiff y risg ariannol o redeg gwasanaeth ar lefel is na’i gapasiti hyd nes y mae’n ymsefydlu ei throsglwyddo i awdurdod lleol drwy fuddsoddiad ymlaen llaw.

**Tabl 7.12 – Amrywio cost datblygu digon o gartrefi ar gyfer y gwahanol senarios *(£ miloedd)***

| | Senario A | Senario B | Senario C |
|---|---|---|---|
| Cost datblygu | 50% | 75% | 100% |
| £ 500 | £ 51,000 | £76,500 | £ 102,000 |
| £ 600 | £ 61,200 | £91,800 | £ 122,400 |
| £ 700 | £ 71,400 | £ 107,100 | £ 142,800 |
| £ 800 | £ 81,600 | £ 122,400 | £ 163,200 |

***Costau Sector Preifat***

7.105 Dyma’r elw a gollir gan y sector preifat. Mae hyn wedi cael ei gyfrifo drwy edrych ar yr elw a gollir, wrth i ddarparwyr er elw adael y farchnad, ac ychwanegu’r elw cynyddol a geir yn ystod y cyfnod trosiannol wrth i ddarparwyr er elw gynyddu ffioedd.

**Tabl 7.13 – Elw a gollir gan y sector preifat yn y tair senario *(£ miloedd)***

| Senario | 2023/24 | 2024/25 | 2025/26 | 2026/27 | 2027/28 | 2028/29 | 2029/30 | 2030/31 | 2031/32 | 2032/33 | 2033/34 | 2034/35 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| A | 0 | 0 | 3,004 | 16 | -6,549 | -13,932 | -20,224 | -26,516 | -32,809 | -32,809 | -32,809 | -32,809 |
| B | 0 | 0 | 20,910 | 16,428 | 6,580 | -4,494 | -13,932 | -23,370 | -32,809 | -32,809 | -32,809 | -32,809 |
| C | 0 | 0 | 38,816 | 32,840 | 19,710 | 4,944 | -7,640 | -20,224 | -32,809 | -32,809 | -32,809 | -32,809 |

***Costau Llywodraeth Cymru/Arolygiaeth Gofal Cymru***

7.106 Mae costau Llywodraeth Cymru ac Arolygiaeth Gofal Cymru yn cael eu hystyried isod. Bydd nifer o’r rhain yn gostau cyfle a ddaw yn sgil dyrannu staff presennol i’r tasgau hyn.

fod yn yr adeilad yn ystod y nos, gofod ar gyfer swyddfa, a nifer o doiledau ac ystafelloedd ymolchi. Yn y rhan fwyaf o achosion lle mae eiddo preswyl yn cael ei brynu, bydd angen gwaith adnewyddu llawn.

7.107 Bydd costau Llywodraeth Cymru yn cynnwys cymeradwyo cynlluniau digonolrwydd awdurdodau lleol a cheisiadau i Weinidogion Cymru i leoli plant mewn lleoliadau 'ychwanegol' gyda darparwyr er elw presennol. Mae adnoddau ar gyfer tîm bach i wneud y gwaith hwn wedi'u cynnwys. Bydd gwaith ehangach yn cynnwys cyfathrebu, ymgysylltu a chodi ymwybyddiaeth, datblygu canllawiau a deunyddiau hyfforddi, ac adrodd ar y broses o gyflwyno a gweithredu'r opsiwn a gynigir a'i hadolygu (gan gynnwys adolygu ar ôl gweithredu).

7.108 Bydd costau ychwanegol i Arolygiaeth Gofal Cymru fel y rheoleiddiwr, yn gysylltiedig â'r dyletswyddau ychwanegol yn narpariaethau'r Bil mewn perthynas â monitro a gorfodi a gofynion newydd mewn perthynas â chofrestru darparwyr newydd a darparwyr sy'n bodoli eisoes. Mae adnoddau ar gyfer tîm bach wedi'u cynnwys i gydnabod hyn, ynghyd â swm i ddatblygu systemau TG pwrpasol i gefnogi'r newidiadau y bydd y Bil yn eu cyflwyno.

7.109 Cafodd yr ystyriaeth hon o'r costau ar gyfer Llywodraeth Cymru ac Arolygiaeth Gofal Cymru ei hadolygu yn sgil y newid o 2027 i 2030 ar gyfer y pwynt hwyraf ar gyfer peidio â chaniatáu lleoli plant o'r newydd mewn cartrefi gofal plant neu gyda darparwyr gwasanaethau maethu a llety diogel er elw presennol gan awdurdodau lleoli Lloegr, ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol i'w pennu mewn rheoliadau, ac ar gyfer peidio â chaniatáu lleoli plant o'r newydd gyda darparwyr er elw gan awdurdodau lleoli Cymru oni bai bod cymeradwyaeth Weinidogol drwy'r broses lleoliadau atodol a nodir yn y Bil. Yn dilyn yr adolygiad hwn, penderfynwyd y dylai costau Llywodraeth Cymru ac Arolygiaeth Gofal Cymru yn fersiwn gychwynnol yr RIA gael eu cadw, ar y sail y byddai angen gwaith dros y cyfnod hwn o hyd er mwyn cefnogi'r gwaith o gyflawni'r polisi cyn gynted â phosibl.

7.110 Mae costau Llywodraeth Cymru yn cynnwys darpariaeth ar gyfer canllawiau, sesiynau ymwybyddiaeth, teithio gan staff, adolygu ac adrodd a gweithgarwch cyfathrebu – bydd gwariant yn erbyn y meysydd hyn yn parhau, waeth beth yw'r newidiadau yn yr amserlenni. Yn yr un modd bydd costau AGC yn parhau i gael eu talu mewn perthynas â chofrestru, datblygu TG, monitro a gorfodi. Mae rhywfaint o ansicrwydd yn y costau hyn i Lywodraeth Cymru ac AGC, yn enwedig ar gyfer costau Llywodraeth Cymru ar gyfer blynyddoedd ariannol diweddarach. Er y byddem yn disgwyl bod y rhan fwyaf o'r gweithgarwch ymgysylltu (a'r costau cysylltiedig) yn cael eu cwblhau yn ystod y tair blwyddyn ariannol o 25/26 yn dilyn y Cydsyniad Brenhinol disgwyliedig, bydd hyn yn cael ei lywio gan yr adborth a gawn gan randdeiliaid yn ystod y gweithgarwch ymgysylltu hwn. Mae'n bosibl y byddai costau pellach yn ymwneud â gweithgarwch ymgysylltu ar ôl 27/28 pe bai gwerthusiad yn dangos bod angen hynny. Gallai costau AGC newid hefyd, yn dibynnu ar unrhyw faterion ychwanegol sy'n codi yn ystod y gwaith gweithredu manwl sy'n ymwneud â monitro a gorfodi'r gofynion sydd wedi newid.

Noder: at ddiben helpu pobl i ddeall Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru) yn unig y mae'r ddogfen hon wedi'i llunio. Ni ddylid dibynnu arni at unrhyw ddiben arall.

**Tabl 7.14 – Costau ychwanegol Llywodraeth Cymru ac AGC sy'n gysylltiedig â gweithredu Opsiwn 2 *(Nodyn: Ffigurau gwirioneddol, hynny yw nid mewn £miloedd).*** Mae'r costau hyn yn ychwanegol i'r rhai yn Nhabl 7.5

| Blwyddyn | 24/25 | 25/26 | 26/27 | 27/28 | 28/29 | 29/30 | 30/31 | 31/32 | 32/33 | 33/34 | *34/35* | *Total Yr.* |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| ***Llywodraeth Cymru*** | | | | | | | | | | | | |
| *Canllawiau* | *0* | *50,000* | *0* | *0* | *0* | *20,000* | *0* | *0* | *0* | *0* | ***0*** | ***70,000*** |
| *Sesiynau ymwybyddiaeth* | *4,000* | *4,000* | *0* | *0* | *0* | *0* | *0* | *0* | *0* | *0* | ***0*** | ***8,000*** |
| *Teithio gan staff* | *5,000* | *5,000* | *5,000* | *5,000* | *0* | *0* | *0* | *0* | *0* | *0* | ***0*** | ***20,000*** |
| Adolygu ac adrodd | *0* | *25,000* | *25,000* | *25,000* | *0* | *0* | *0* | *0* | *0* | *0* | ***0*** | ***75,000*** |
| Adolygu ar ôl gweithredu (Monitro/Gwerthuso | *0* | *0* | *0* | *25,000* | *25,000* | *0* | *0* | *0* | *0* | *0* | ***0*** | ***50,000*** |
| Cyfathrebu | *13,273* | *13,273* | *13,273* | *13,273* | *0* | *0* | *0* | *0* | *0* | *0* | ***0*** | ***53,091*** |
| Cymeradwyo (LlC) | *0* | *0* | *0* | *136,484* | *136,484* | *136,484* | *136,484* | *136,484* | *136,484* | *136,484* | ***136,484*** | ***1,091,874*** |
| **CYFANSWM LlC i gyd** | 22,273 | 97,273 | 43,273 | 204,757 | 161,484 | 156,484 | 136,484 | 136,484 | 136,484 | 136,484 | **136,484** | **1,367,966** |
| **Cofrestru, Datblygu TG, Monitro a Gorfodi (AGC)** | 0 | 250,613 | 626,534 | 626,534 | 626,534 | 626,534 | 626,534 | 626,534 | 626,534 | 626,534 | **626,534** | **5,889,419** |

**Tabl 7.15 Costau Ychwanegol a Chyfredol sy’n gysylltiedig â gweithredu Opsiwn 2 (Nodyn:** *mewn £miloedd***)**

| Blwyddyn | 23/24 | 24/25 | 25/26 | 26/27 | 27/28 | 28/29 | 29/30 | 30/31 | 31/32 | 32/33 | 33/34 | *34/35* | *Cyfanswm Blynyddoedd* |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | (£000) | (£000) | (£000) | (£000) | (£000) | (£000) | (£000) | (£000) | (£000) | (£000) | (£000) | (£000) | (£000) |
| Llywodraeth Cymru<br>• *costau cyfredol* | 752 | 752 | 752 | 752 | 752 | 752 | 752 | 752 | 752 | 752 | 752 | 752 | 9,024 |
| • *ychwanegol* | 0 | 22 | 97 | 43 | 205 | 161 | 156 | 136 | 136 | 136 | 136 | 136 | 1,346 |
| *Cyfanswm Llywodraeth Cymru* | 752 | 774 | 849 | 795 | 957 | 913 | 908 | 888 | 888 | 888 | 888 | 888 | 10,388 |
| *AGC*<br>• *costau cyfredol* | 1,457 | 1,457 | 1,457 | 1,457 | 1,457 | 1,457 | 1,457 | 1,457 | 1,457 | 1,457 | 1,457 | 1,457 | *17,484* |
| • *costau ychwanegol* | 0 | 0 | 251 | 627 | 627 | 627 | 627 | 627 | 627 | 627 | 627 | *627* | *5,894* |
| Cyfanswm AGC | *1,457* | *1,457* | *1,708* | *2,084* | *2,084* | *2,084* | *2,084* | *2,084* | *2,084* | *2,084* | *2,084* | *2,084* | *23,378* |

***Costau Trosiannol***

**Tabl 7.16 – Costau Trosiannol Opsiwn 2, Senario A *(£ miloedd)***

7.111 Mae'r tabl yn amlinellu’r costau trosiannol sy'n gysylltiedig â Senario A dros ffenestr fuddsoddi chwe blynedd, lle mae 50 y cant o’r darparwyr er elw presennol yn gadael y farchnad a 50 y cant yn trosglwyddo i endid nid-er-elw. O ganlyniad, bydd angen sefydlu gwasanaethau newydd gan y sector nid-er-elw ac awdurdodau lleol i wneud iawn am y capasiti a gollwyd.

Noder: at ddiben helpu pobl i ddeall Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru) yn unig y mae’r ddogfen hon wedi’i llunio. Ni ddylid dibynnu arni at unrhyw ddiben arall.

| | 2023/24 | 2024/25 | 2025/26 | 2026/27 | 2027/28 | 2028/29 | 2029/30 | 2030/31 | 2031/32 | 2032/33 | 2033/34 | 2034/35 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Llywodraeth Cymru** | | | | | | | | | | | | |
| (2.a) Cyllideb polisi | 0 | 22 | 97 | 43 | 205 | 161 | 156 | 136 | 136 | 136 | 136 | 136 |
| **Awdurdodau Lleol** | | | | | | | | | | | | |
| (2.b) Alldro preswyl | 0 | 0 | 13,632 | 9,623 | 5,613 | 1,604 | -2,406 | -6,415 | -6,415 | -6,415 | -6,415 | -6,415 |
| (2.c) Alldro maethu | 0 | 0 | -1,163 | -2,326 | -3,489 | -4,652 | -5,815 | -6,978 | -6,978 | -6,978 | -6,978 | -6,978 |
| *Preswyl newydd* | | | | | | | | | | | | |
| (2.d) Costau cychwyn | 0 | 0 | 5,658 | 5,658 | 5,658 | 5,658 | 5,658 | 5,658 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| (2.e) Costau cyfalaf | 0 | 0 | 11,900 | 11,900 | 11,900 | 11,900 | 11,900 | 11,900 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| (2.f) Costau cyfreithiol | 0 | 0 | 340 | 340 | 340 | 340 | 340 | 340 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| (2.g) Comisiynu | 0 | 0 | 850 | 850 | 850 | 850 | 850 | 850 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| *Maethu newydd* | | | | | | | | | | | | |
| (2.h) Costau cychwyn | 0 | 0 | 375 | 375 | 375 | 375 | 375 | 375 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Rheoleiddwyr** | | | | | | | | | | | | |
| (2.i) AGC | 0 | 0 | 251 | 627 | 627 | 627 | 627 | 627 | 627 | 627 | 627 | 627 |
| **Cyfanswm** | 0 | 22 | 31,940 | 27,089 | 22,079 | 16,862 | 11,685 | 6,492 | -12,631 | -12,631 | -12,631 | -12,631 |

**Tabl 7.17 – Newid mewn alldro Opsiwn 2, Senario A *(£ miloedd)***

7.112 Mae’r tabl hwn yn disgrifio’r amrywiant rhwng Alldro Opsiwn 1 yr awdurdod lleol a’r Alldro Opsiwn 2 disgwyliedig yn ystod (ac yna’n dilyn) y cyfnod trosiannol. Mae’r amrywiant hwn yn ddynamig i ddechrau gan fod cymarebau darparwyr gwasanaeth, a’r costau cysylltiedig, yn newid dros y cyfnod trosiannol.

| | 2023/24 | 2024/25 | 2025/26 | 2026/27 | 2027/28 | 2028/29 | 2029/30 | 2030/31 | 2031/32 | 2032/33 | 2033/34 | 2034/35 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Amrywiant alldro | 0 | 0 | 12,469 | 7,297 | 2,124 | -3,049 | -8,221 | -13,394 | -13,394 | -13,394 | -13,394 | -13,394 |

**Tabl 7.18 - Cymhariaeth rhwng Opsiwn 1 ac Opsiwn 2 (Senario A) *(£ miloedd)***

7.113. Mae'r tabl hwn yn disgrifio'r amrywiant rhwng cyfanswm costau Opsiwn 1 a chost ddisgwyliedig Opsiwn 2, gan gynnwys costau trosiannol. Dyma gost a mantais ariannol ddisgwyliedig y polisi dileu elw yn y senario hon dros ddeng mlynedd.

| | 2023/24 | 2024/25 | 2025/26 | 2026/27 | 2027/28 | 2028/29 | 2029/30 | 2030/31 | 2031/32 | 2032/33 | 2033/34 | 2034/35 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | (£ 000) | (£ 000) | (£ 000) | (£ 000) | (£ 000) | (£ 000) | (£ 000) | (£ 000) | (£ 000) | (£ 000) | (£ 000) | (£ 000) |
| **Opsiwn 1** | | | | | | | | | | | | |
| Cyfanswm y costau | 350,609 | 350,609 | 350,609 | 350,609 | 350,609 | 350,609 | 350,609 | 350,609 | 350,609 | 350,609 | 350,609 | 350,609 |
| **Costau Opsiwn 2** | | | | | | | | | | | | |
| *Trosiannol* | 0 | 22 | 19,471 | 19,793 | 19,955 | 19,911 | 19,906 | 19,886 | 763 | 763 | 763 | 763 |
| *Gweithredu* | 350,609 | 350,609 | 363,078 | 357,906 | 352,733 | 347,560 | 342,388 | 337,215 | 337,215 | 337,215 | 337,215 | 337,215 |
| | | | | | | | | | | | | |
| Gwahaniaeth | 0 | 22 | 31,940 | 27,089 | 22,079 | 16,862 | 11,685 | 6,492 | -12,631 | -12,631 | -12,631 | -12,631 |

Noder: at ddiben helpu pobl i ddeall Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru) yn unig y mae'r ddogfen hon wedi'i llunio. Ni ddylid dibynnu arni at unrhyw ddiben arall.

# Opsiwn 2 Senario B

**<u>Tabl 7.19 - Costau Trosiannol Opsiwn 2 Senario B *(£ miloedd)*</u>**

7.114. Mae'r tabl yn amlinellu'r costau trosiannol dros gyfnod o chwe blynedd sy'n gysylltiedig â Senario B, lle mae 75 y cant o'r darparwyr er elw presennol yn gadael y farchnad a 25 y cant yn trosi i fod yn endid nid-er-elw. O ganlyniad, bydd angen sefydlu gwasanaethau newydd sy'n cael eu creu gan y sector nid-er-elw ac awdurdodau lleol i wneud iawn am y diffyg capasiti.

| | 2023/24 | 2024/25 | 2025/26 | 2026/27 | 2027/28 | 2028/29 | 2029/30 | 2030/31 | 2031/32 | 2032/33 | 2033/34 | 2034/35 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Llywodraeth Cymru** | | | | | | | | | | | | |
| *(2.a) Cyllideb Polisi* | 0 | 22 | 97 | 43 | 205 | 161 | 156 | 136 | 136 | 136 | 136 | 136 |
| **Awdurdodau lleol** | | | | | | | | | | | | |
| (2.b) Alldro preswyl | 0 | 0 | 18,845 | 12,830 | 6,816 | 802 | -5,212 | -11,227 | -11,227 | -11,227 | -11,227 | -11,227 |
| (2.c) Alldro maethu | 0 | 0 | -1,745 | -3,489 | -5,234 | -6,978 | -8,723 | -10,468 | -10,468 | -10,468 | -10,468 | -10,468 |
| *Preswyl newydd* | | | | | | | | | | | | |
| (2.d) Costau cychwyn | 0 | 0 | 8,486 | 8,486 | 8,486 | 8,486 | 8,486 | 8,486 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| (2.e) Costau cyfalaf | 0 | 0 | 17,850 | 17,850 | 17,850 | 17,850 | 17,850 | 17,850 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| (2.f) Costau cyfreithiol | 0 | 0 | 510 | 510 | 510 | 510 | 510 | 510 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| (2.g) Comisiynu | 0 | 0 | 1,275 | 1,275 | 1,275 | 1,275 | 1,275 | 1,275 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| *Maethu newydd* | | | | | | | | | | | | |
| (2.h) Costau cychwyn | 0 | 0 | 563 | 563 | 563 | 563 | 563 | 563 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Rheoleiddwyr** | | | | | | | | | | | | |
| (2.i) AGC | 0 | 0 | 251 | 627 | 627 | 627 | 627 | 627 | 627 | 627 | 627 | 627 |
| **Cyfanswm** | **0** | **22** | **46,132** | **38,695** | **31,098** | **23,295** | **15,531** | **7,753** | **-20,931** | **-20,931** | **-20,931** | **-20,931** |

**Tabl 7.20 - Newid mewn alldro Opsiwn 2, Senario B *(£ miloedd)***

| | 2023/24 | 2024/25 | 2025/26 | 2026/27 | 2027/28 | 2028/29 | 2029/30 | 2030/31 | 2031/32 | 2032/33 | 2033/34 | 2034/35 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | (£ 000) | (£ 000) | (£ 000) | (£ 000) | (£ 000) | (£ 000) | (£ 000) | (£ 000) | (£ 000) | (£ 000) | (£ 000) | (£ 000) |
| Amrywiant alldro | 0 | 0 | 17,100 | 9,341 | 1,582 | -6,177 | -13,935 | -21,694 | -21,694 | -21,694 | -21,694 | -21,694 |

**Tabl 7.21 - Cymhariaeth rhwng Opsiwn 1 ac Opsiwn 2 (Senario B) *(£ miloedd)***

7.115. Mae'r tabl hwn yn disgrifio'r amrywiant rhwng cyfanswm costau Opsiwn 1 a chost ddisgwyliedig Opsiwn 2, senario B, gan gynnwys costau trosiannol. Dyma gost a mantais ariannol ddisgwyliedig y polisi dileu elw yn y senario hon dros ddeng mlynedd.

8.

| | **2023/24** | **2024/25** | **2025/26** | **2026/27** | **2027/28** | **2028/29** | **2029/30** | **2030/31** | **2031/32** | **2032/33** | **2033/34** | **2034/35** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | (£ 000) | (£ 000) | (£ 000) | (£ 000) | (£ 000) | (£ 000) | (£ 000) | (£ 000) | (£ 000) | (£ 000) | (£ 000) | (£ 000) |
| **Opsiwn 1** | 350,609 | 350,609 | 350,609 | 350,609 | 350,609 | 350,609 | 350,609 | 350,609 | 350,609 | 350,609 | 350,609 | 350,609 |
| **Costau Opsiwn 2** | | | | | | | | | | | | |
| *Trosiannol* | 0 | 22 | 29,032 | 29,354 | 29,516 | 29,472 | 29,467 | 29,447 | 763 | 763 | 763 | 763 |
| *Gweithredu* | 350,609 | 350,609 | 367,709 | 359,950 | 352,191 | 344,432 | 336,674 | 328,915 | 328,915 | 328,915 | 328,915 | 328,915 |
| | | | | | | | | | | | | |
| **Gwahaniaeth** | **0** | **22** | **46,132** | **38,695** | **31,098** | **23,295** | **15,531** | **7,753** | **-20,931** | **-20,931** | **-20,931** | **-20,931** |

## Costau Opsiwn 2 Senario C

**<u>Tabl 7.22 - Costau Trosiannol Opsiwn 2 Senario C (*£ miloedd)*</u>**

7.116 Mae’r tabl yn amlinellu’r costau trosiannol dros gyfnod o chwe blynedd sy’n gysylltiedig â Senario C, lle mae’r holl ddarparwyr er elw presennol yn gadael y farchnad. O ganlyniad, bydd angen sefydlu gwasanaethau newydd sy’n cael eu creu gan y sector gwirfoddol ac awdurdodau lleol i wneud iawn am y diffyg capasiti.

| | 2023/24 | 2024/25 | 2025/26 | 2026/27 | 2027/28 | 2028/29 | 2029/30 | 2030/31 | 2031/32 | 2032/33 | 2033/34 | 2034/35 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | (£ 000) | (£ 000) | (£ 000) | (£ 000) | (£ 000) | (£ 000) | (£ 000) | (£ 000) | (£ 000) | (£ 000) | (£ 000) | (£ 000) |
| **<u>Gwariant</u>** | | | | | | | | | | | | |
| **<u>Llywodraeth Cymru</u>** | | | | | | | | | | | | |
| *Y Gyllideb* | 0 | 22 | 97 | 43 | 205 | 161 | 156 | 136 | 136 | 136 | 136 | 136 |
| **Awdurdodau lleol** | | | | | | | | | | | | |
| Alldro preswyl | 0 | 0 | 24,057 | 16,038 | 8,019 | 0 | -8,019 | -16,038 | -16,038 | -16,038 | -16,038 | -16,038 |
| Alldro maethu | 0 | 0 | -2,326 | -4,652 | -6,978 | -9,305 | -11,631 | -13,957 | -13,957 | -13,957 | -13,957 | -13,957 |
| Gwasanaethau preswyl newydd | | | | | | | | | | | | |
| Costau cychwyn | 0 | 0 | 11,315 | 11,315 | 11,315 | 11,315 | 11,315 | 11,315 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Costau cyfalaf | 0 | 0 | 23,800 | 23,800 | 23,800 | 23,800 | 23,800 | 23,800 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Costau cyfreithiol | 0 | 0 | 680 | 680 | 680 | 680 | 680 | 680 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Comisiynu | 0 | 0 | 1,700 | 1,700 | 1,700 | 1,700 | 1,700 | 1,700 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| *Gwasanaethau maethu newydd* | | | | | | | | | | | | |
| Costau cychwyn | 0 | 0 | 750 | 750 | 750 | 750 | 750 | 750 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Rheoleiddwyr** | | | | | | | | | | | | |
| AGC | 0 | 0 | 251 | 627 | 627 | 627 | 627 | 627 | 627 | 627 | 627 | 627 |
| **Cyfanswm** | 0 | 22 | 60,324 | 50,301 | 40,118 | 29,729 | 19,378 | 9,013 | -29,232 | -29,232 | -29,232 | -29,232 |

**Tabl 7.23 - Newid mewn alldro Opsiwn 2, Senario C**

| | 2023/24 | 2024/25 | 2025/26 | 2026/27 | 2027/28 | 2028/29 | 2029/30 | 2030/31 | 2031/32 | 2032/33 | 2033/34 | 2034/35 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | (£ 000) | (£ 000) | (£ 000) | (£ 000) | (£ 000) | (£ 000) | (£ 000) | (£ 000) | (£ 000) | (£ 000) | (£ 000) | (£ 000) |
| Amrywiant alldro | 0 | 0 | 21,731 | 11,386 | 1,041 | -9,305 | -19,650 | -29,995 | -29,995 | -29,995 | -29,995 | -29,995 |

**Tabl 7.24 - Cymhariaeth rhwng Opsiwn 1 ac Opsiwn 2, Senario C, gan gynnwys costau trosiannol *(£ miloedd)***

7.117 Mae'r tabl hwn yn disgrifio'r amrywiant rhwng cyfanswm costau Opsiwn 1 a chost ddisgwyliedig Opsiwn 2, senario C, gan gynnwys costau trosiannol. Dyma gost a mantais ariannol ddisgwyliedig y polisi dileu elw yn y senario hon dros ddeng mlynedd.

| | 2023/ 24 | 2024/ 25 | 2025/ 26 | 2026/ 27 | 2027/ 28 | 2028/ 29 | 2029 /30 | 2030/ 31 | 2031/ 32 | 2032/ 33 | 2033/ 34 | 2034/ 35 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Costau Opsiwn 1** | 350,609 | 350,609 | 350,609 | 350,609 | 350,609 | 350,609 | 350,609 | 350,609 | 350,609 | 350,609 | 350,609 | 350,609 |
| **Costau Opsiwn 2** | | | | | | | | | | | | |
| *Trosiannol* | 0 | 22 | 38,593 | 38,915 | 39,077 | 39,033 | 39,028 | 39,008 | 763 | 763 | 763 | 763 |
| *Gweithredu* | 350,609 | 350,609 | 372,340 | 361,995 | 351,650 | 341,304 | 330,959 | 320,614 | 320,614 | 320,614 | 320,614 | 320,614 |
| | | | | | | | | | | | | |
| **Gwahaniaeth** | 0 | 22 | 60,324 | 50,301 | 40,118 | 29,729 | 19,378 | 9,013 | -29,232 | -29,232 | -29,232 | -29,232 |

7.118 Mae'r tablau'n dangos bod amcan gostau cychwynnol mewn perthynas ag opsiwn 2 yn disgyn mewn ystod eang rhwng oddeutu £116m ac oddeutu £209m dros gyfnod o chwe blynedd (2025-26 i 2030-31). Ar ôl hyn, mae ein

rhagamcanion yn awgrymu y bydd y newidiadau mewn perthynas â dileu elw yn dechrau sicrhau arbedion cost o rhwng £13m a £29m y flwyddyn.

7.119 Mae’n bwysig nodi, er mwyn gwneud y cyfrifiadau hyn, ei bod wedi bod yn angenrheidiol tybio y bydd y lleoliadau yn rhai tebyg am debyg ond, mewn termau polisi, ni fyddem yn disgwyl i hyn ddigwydd gan fod y polisi dileu elw yn bodoli mewn cyd-destun ehangach o annog y sector i leihau nifer y plant sy’n dod yn rhan o’r system ofal ac i symud oddi wrth ddibyniaeth ar leoliadau preswyl a thuag at fathau eraill o ffyrdd o ddiwallu anghenion plant. Mae hyn yn golygu y gallai’r gofynion ar gyfer lleoliadau gofal preswyl i blant yn y dyfodol fod yn llai na’r hyn a ragwelwyd ac o ganlyniad y bydd costau sefydlu’r ddarpariaeth yn llai nag yn y senarios uchod, er nad yw’n bosibl meintioli hyn ar hyn o bryd. Yn yr un modd, efallai y bydd y darpariaethau trosiannol (a ddylai fod â’r effaith o gadw, er gyda chyfyngiadau, allu darparwyr er elw presennol i dderbyn lleoliadau tra bydd y cyfnod trosiannol yn mynd rhagddo) yn arafu’r gyfradd y mae problemau digonolrwydd yn codi ac yn golygu bod y costau amnewid yn cael eu hysgwyddo dros gyfnod hirach na’r hyn a ragwelir ar hyn o bryd.

**Manteision/Anfanteision Opsiwn 2**

**Manteision**

7.120 Trafodir uchod effeithiau ariannol uniongyrchol y newidiadau arfaethedig. Mae angen ystyried y rhain yng nghyd-destun y manteision ehangach a ddylai ddeillio o ddatblygu marchnad sy'n gweithio lle gall awdurdodau lleol gynllunio a sicrhau lleoliadau gofal priodol ar gyfer plant a phobl ifanc.

7.121 Casgliad y CMA yw bod anallu awdurdodau lleol i oruchwylio ac ymgysylltu'n gyson ac yn effeithiol â'r farchnad yn wyneb cyflenwad annigonol o leoliadau priodol yn un o'r prif achosion pam nad yw'r farchnad yn gweithredu'n effeithlon. Mae'r casgliad hwn yn arwydd cryf bod angen ysgogiad o'r tu allan gan ddeddfwriaeth er mwyn sicrhau newid llwyddiannus yn y cyswllt hwn. Bydd hyn yn rhoi'r gofynion a'r rheolaethau i'r sector ddarparu system ofal gynaliadwy sy'n rhoi mwy o bwyslais ar yr hyn sydd ei angen yn hytrach na'r hyn sy'n broffidiol.

7.122 Bydd deddfwriaeth yn sicrhau nad yw arian cyhoeddus sy'n cael ei fuddsoddi mewn gwasanaethau cartrefi gofal i blant a gwasanaethau maethu yn gwneud elw i unigolion nac endidau corfforaethol, ond ei fod yn hytrach yn cael ei wario ar wasanaethau plant, i ddarparu profiadau a chanlyniadau gwell i blant a phobl ifanc; helpu i ddatblygu a gwella gwasanaethau; a hyrwyddo datblygiad proffesiynol pellach i'r rheini sy'n darparu gofal.

7.123 Bydd yn galluogi awdurdodau lleol i gynllunio a sicrhau lleoliadau gofal priodol yn fwy effeithiol, a bydd plant a phobl ifanc yn fwy tebygol o gael eu lleoli mewn amgylcheddau sy'n cyd-fynd yn agosach â'u hanghenion. Bydd hyn yn cefnogi llesiant a datblygiad cyffredinol plant sy'n derbyn gofal, gan arwain at ganlyniadau cymdeithasol ac addysgol gwell a chanlyniadau gwell o ran iechyd.

7.124 Bydd marchnad a reolir yn fwy effeithlon yn lleihau'r angen i leoli plant ymhell o'u cymunedau. Drwy wella prosesau cynllunio lleoliadau a rheoli capasiti, gall awdurdodau lleol sicrhau bod mwy o leoliadau ar gael yn nes at gymunedau gwreiddiol y plant gan felly sicrhau cysondeb a mwy o sefydlogrwydd o ran lleoliadau.

7.125 Bydd dod â gwasanaethau'n fewnol yn cefnogi dealltwriaeth sy'n cael ei harwain gan weithwyr cymdeithasol o batrymau mewn lleoliadau, a fydd yn galluogi rheoli capasiti'n rhagweithiol, a lleihau'r ras am leoliadau munud olaf a all arwain at baru is na'r safon a chostau uwch.

7.126 Bydd mwy o gyfle i ailfuddsoddi cyllid mewn darpariaeth gofal gan y sector cyhoeddus a darpariaeth gofal nid-er-elw, gan gynnwys cefnogi gwell cyflogau ac amodau, cyfleoedd ar gyfer datblygiad proffesiynol a llwybrau gyrfa gwell i staff a fydd, yn ei dro, yn arwain at well gofal i blant a phobl ifanc.

7.127 Dylai'r newidiadau helpu i ddatblygu ymhellach ddulliau integredig o gomisiynu a darparu gwasanaethau gofal a chymorth ar gyfer plant sy'n derbyn gofal. Rydym yn gobeithio gweld dulliau mwy arloesol, a rennir, fel y rhai sydd eisoes ar waith ar gyfer datblygu llety preswyl rhanbarthol ar gyfer plant sy’n derbyn gofal sydd ag anghenion cymhleth. Mae’r mathau hyn o ddarpariaeth yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol a’u partneriaid sicrhau bod gofal a chymorth mwy cyfannol yn cael eu darparu, er mwyn diwallu’r ystod o anghenion sydd gan blant o ran iehyd, gofal cymdeithasol a llesiant. (Bydd hyn yn cyfrannu at y nod llesiant cenedlaethol o Gymru iachach).

**Anfanteision**

7.128 Bydd symud i drefniadau newydd yn sicr o achosi sawl her. Ac eto, dylid gosod llawer yng nghyd-destun heriau ehangach sy’n bodoli’n barod y mae’r sector yn eu hwynebu, yn enwedig y prinder lleoliadau, nifer uchel o unigolion mewn gofal, argyfwng costau byw a phwysau sylweddol ar y gweithlu.

7.129 Gallai ymadawiad rhai darparwyr er elw, sydd wedi datblygu modelau gofal unigryw o ansawdd uchel, fod yn her i’r system ofal. Mae’r cwmnïau hyn yn aml yn darparu gwasanaethau arbenigol sy’n deillio o flynyddoedd o fuddsoddi. Gallai eu hymadawiad posibl adael bwlch yn y sector gofal na fydd efallai’n hawdd ei lenwi gan sefydliadau nid-er-elw newydd neu rai sy’n bodoli’n barod. Gall hyn arwain at wanhau amrywiaeth ac ansawdd y gofal sydd ar gael.

7.130 Er y gall awdurdodau lleol a sefydliadau nid-er-elw geisio cyllid a defnyddio eu cronfeydd wrth gefn neu warged gweithredu, yn aml mae gan endidau er elw fwy o hyblygrwydd masnachol i fuddsoddi neu gyllido ymchwil, datblygu ac arferion arloesol. Gallai cyfyngu ar y gallu hwn atal ymdrechion ar y cyd a lleihau gallu’r sector i esblygu a diwallu anghenion newidiol y rhai y mae’n eu gwasanaethu.

**Risgiau**

7.131 Mae llawer o’r risgiau sy’n gysylltiedig â dileu darpariaeth er elw’n ymwneud â heriau yn y tymor byr neu ganolig yn sgil y trosi i drefniadau o’r fath.

7.132 Gallai’r newid tuag at fodel nid-er-elw waethygu’r pwysau presennol ar y gweithlu gofal cymdeithasol. Er y telerau ac amodau buddiol y mae darparwyr nid-er-elw’n eu cynnig i’w gweithlu ar y cyfan, mae’n bosibl y bydd rhai o’r gweithwyr proffesiynol hynny sy’n gweithio i sefydliadau er elw yn amharod i drosi i ddarpariaeth awdurdod lleol neu ddarpariaeth nid-er-elw. Mae’n bosibl y bydd rhai’n manteisio ar y cyfle am seibiant gyrfa, neu newid gyrfa, ac efallai fod rhai’n mwynhau’r hyblygrwydd ychwanegol y mae eu contractrau presennol yn ei gynnig.

7.133 Bydd angen i awdurdodau lleol ystyried recriwtio, datblygu a hyfforddi’r gweithlu gofal cymdeithasol er mwyn cau unrhyw fylchau yn eu gweithlu a allai effeithio ar ansawdd y gofal a’r model gofal. Bydd angen iddyn nhw arloesi i ddelio ag unrhyw anghenion a nodwyd, i gadw staff ac i sicrhau eu bod yn cael hyfforddiant addas. Gallai arloesi o’r fath gynnwys defnyddio gofalwyr maeth i ddarparu modelau gofal (er enghraifft, dulliau sy’n ystyriol o drawma i weithio gyda phlant mewn gofal neu unrhyw rwystrau iaith sy’n ymwneud â lleoli, er enghraifft, plant sy’n ceisio lloches a phlant o gefndiroedd ethnig leiafrifol). Mae’r materion hyn yn cael eu hystyried yn y trefniadau llywodraethiant sy’n sail i weithredu’r polisi dileu elw.

7.134 Wrth gyflawni’r ymrwymiad hwn, mae’n bosibl y bydd ansefydlogrwydd yn y farchnad, un sy’n gwyro’n drwm at y sector preifat, yn cael ei greu. Heb os, byddwn yn gweld rhai darparwyr yn tynnu’n ôl o’r farchnad neu’n canolbwyntio ar ddarparu lleoliadau i blant a leolir gan awdurdodau lleol Lloegr yn unig. Byddai’r ddau beth yn amlwg yn effeithio ar y digonolrwydd ar gyfer plant a phobl ifanc o dan ofal awdurdodau lleol Cymru ac efallai y byddent yn cael effaith benodol ar blant sydd angen darpariaeth arbenigol.

7.135 Efallai y bydd darparwyr nid-er-elw’n dewis peidio â datblygu gwasanaethau preswyl i blant oherwydd risgiau i’w henw da a risgiau ariannol. Os digwydd hyn, bydd rhaid i awdurdodau lleol dderbyn cyfrifoldebau ychwanegol am ddatblygu cartrefi plant ac am eu darparu’n uniongyrchol, oherwydd penderfyniadau polisi darparwyr nid-er-elw, y bydd rhai ohonynt efallai wedi’u lleoli y tu allan i Gymru.

7.136 Bydd y risgiau hyn yn cael eu rheoli a’u lliniaru gymaint ag y bo modd drwy’r trefniadau trosiannol y darperir ar eu cyfer yn y Bil ac sy’n ceisio, yn benodol, leihau unrhyw darfu ar leoliadau presennol plant a phobl ifanc. Yn ogystal, byddant yn destun gwaith craffu drwy’r trefniadau llywodraethiant ehangach sydd wedi cael eu llunio, fel y nodir ym Mhennod 10. Bydd dull gweithredu fesul cam hefyd yn cael ei fabwysiadu dros gyfnod diwygiedig o chwe blynedd. Mae’r £68m rydym wedi’i fuddsoddi yn 2022-25 i i reoli’r trosi i ofal nid-er-elw yn cael ei anelu at ddatblygu darpariaeth gofal preswyl a gofal maeth mewnol a thrydydd sector. Bydd yn canolbwyntio ar symud plant o ofal preswyl i leoliad teulu, ar ddarparu gwasanaethau lleol sydd wedi’u teilwra, gan gynnwys darpariaeth arbenigol i blant ag anghenion mwy cymhleth, ac ar wella canlyniadau i blant.

**<u>Gofal Iechyd Parhaus (GIP) a Thaliadau Uniongyrchol</u>**

7.137 Yr opsiynau yw:

- **Opsiwn un:** busnes fel arfer
- **Opsiwn dau:** diwygio Deddf y GIG (Cymru) 2006 ("Deddf 2006") i ganiatáu i Weinidogion Cymru wneud taliadau uniongyrchol i unigolion y mae ganddynt hawl i gael Gofal Iechyd Parhaus (GIP).

## Opsiwn un: busnes fel arfer

7.138 O dan yr opsiwn hwn, ni fydd taliadau uniongyrchol ar gyfer GIP yn bosibl, gan nad yw Deddf 2006 fel y mae wedi'i drafftio ar hyn o bryd yn caniatáu i Weinidogion Cymru (na byrddau iechyd yn gweithredu ar eu rhan) wneud taliadau uniongyrchol. Ar hyn o bryd, dim ond awdurdodau lleol sy'n gallu gwneud taliadau uniongyrchol i unigolion neu eu cynrychiolwyr i'w galluogi i ddiwallu eu hanghenion am ofal cymdeithasol a chymorth o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ("Deddf 2014").

7.139 Pan fo anghenion unigolion am ofal cymdeithasol a chymorth yn cael eu diwallu gan ddyletswyddau awdurdodau lleol o dan Ddeddf 2014, gallant ddewis cael mynediad at daliadau uniongyrchol, gan eu galluogi i arfer llais a rheolaeth; hynny yw, penderfynu sut, pryd a chan bwy y mae eu hanghenion gofal a chymorth cymwys yn cael eu diwallu. Wrth drosglwyddo o ofal cymdeithasol a ddarperir gan awdurdod lleol i GIP, ni all unigolion sy'n derbyn gofal yn eu cartrefi eu hunain gael mynediad at daliadau uniongyrchol ac felly maent yn colli'r annibyniaeth i arfer llais a rheolaeth dros eu hanghenion gofal a chymorth cymwys.

7.140 Mae tystiolaeth bod rhai pobl sydd â chyflyrau iechyd cymhleth yn gwrthod asesiadau GIP. Gall hyn fod am nifer o resymau, ond dyma rai o'r rhesymau sy'n codi'n aml:

- nid yw pobl eisiau colli'r llais a'r rheolaeth sydd ganddynt drwy daliadau uniongyrchol a chael y teimlad pellach o golli annibyniaeth;
- pryder y gallai'r cymhwysedd ar gyfer cael GIP amrywio, a allai darfu ar eu pecyn gofal sefydlog;
- pryder y gallai fod rhaid iddynt roi'r gorau i gael gwasanaeth gan un neu ragor o Gynorthwywyr Personol dibynadwy a chyfarwydd oherwydd bod GIP sydd wedi'i gomisiynu yn draddodiadol yn cynnig llai o hyblygrwydd a dewis o ran y darparwr gofal.

7.141 Bydd rhai pobl felly yn parhau i gyfrannu at eu costau gofal cymdeithasol, a bydd yr awdurdod lleol hefyd yn cyfrannu, yn dibynnu ar yr asesiad ariannol, lle y byddai hyn fel arall yn cael ei ariannu'n llawn gan y GIG o dan GIP.

7.142 Yn Lloegr, mae taliadau uniongyrchol ar gyfer GIP drwy Gyllidebau Iechyd Personol wedi cael eu caniatáu ers 2014 (yn sgil diwygiadau i Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 2006, a ddaeth i rym yn 2013).

7.143 Dros nifer o flynyddoedd, mae rhanddeiliaid wedi codi materion sy'n ymwneud â'r rhyngwyneb rhwng GIP a thaliadau uniongyrchol yng Nghymru, a gwanhau llais a rheolaeth pobl wrth drosglwyddo o ofal a ddarperir gan awdurdod lleol, gyda thaliadau uniongyrchol, i GIP, lle y collir yr opsiwn hwnnw.

7.144 Trafodwyd hyn â'r Pwyllgor Deisebau ym mis Mai 2022 drwy'r Ddeiseb P-05-1106 - Cyflwyno Cyllidebau Iechyd Personol a Gofal Personol yng Nghymru[62] ac mae argymhelliad 8 yn adroddiad Archwilio Cymru 'Taliadau Uniongyrchol ar gyfer Gofal Cymdeithasol i Oedolion' yn dweud y dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod gan bobl sy'n cael gofal iechyd parhaus y GIG a Thaliadau Uniongyrchol fwy o lais, dewis a rheolaeth pan wneir penderfyniadau.[63]

7.145 Yn gam cyntaf tuag at fynd i'r afael â'r sefyllfa hon, mae'r *'Fframwaith Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Gofal Iechyd Parhaus y GIG yng Nghymru*', a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2021 ac sy'n weithredol ers mis Ebrill 2022, yn cynnwys mwy o bwyslais ar wella llais a rheolaeth i unigolion sy'n derbyn pecyn gofal a ddarperir drwy GIP.[64] Mae Gweinidogion Cymru wedi ymrwymo i adolygu'r Fframwaith o fewn pum mlynedd i'w weithredu (h.y. erbyn mis Ebrill 2027).

7.146 O dan y fframwaith diwygiedig, nodwyd ffyrdd posibl o wella llais a rheolaeth, gan gynnwys sefydlu Ymddiriedolaeth Defnyddwyr Annibynnol. O dan drefniant o'r fath, gall grŵp o ymddiriedolwyr dderbyn a gweinyddu arian GIP ar ran unigolyn. Nid yw'n cynnig yr un llais a rheolaeth â thaliadau uniongyrchol, ond mae'n gam tuag at hynny.

7.147 Mae gwaith wedi bod yn mynd rhagddo ar yr opsiwn hwn, gan gynnwys cydgynhyrchu canllawiau a gwaith i sefydlu prosiect peilot Ymddiriedolaeth Defnyddwyr Annibynnol ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Mae'r cymhlethdodau sy'n gysylltiedig â'r opsiwn hwn yn golygu na fyddai'n llwybr addas i lawer iawn o dderbynyddion GIP.

## Opsiwn dau: diwygio Deddf 2006 i ganiatáu i Weinidogion Cymru wneud taliadau uniongyrchol i unigolion y mae ganddynt hawl i gael Gofal Iechyd Parhaus (GIP).

7.148 O dan Opsiwn dau, cyflwynir Bil i ddiwygio Deddf 2006 i gynnwys pwerau i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau ynghylch taliadau uniongyrchol, er mwyn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud taliadau uniongyrchol i bobl ar gyfer GIP. Bydd y rheoliadau'n nodi manylion ac amodau ynghylch pryd y gallai'r taliadau uniongyrchol fod ar gael. Y bwriad yw y byddai Gweinidogion Cymru yn defnyddio'r pwerau presennol yn adran 12 o Ddeddf 2006 i gyfarwyddo byrddau iechyd lleol i arfer y swyddogaeth sy'n ymwneud â gwneud taliadau uniongyrchol ar eu rhan.

7.149 Bydd yr opsiwn hwn yn gwella'r rhyngwyneb rhwng GIP a thaliadau uniongyrchol i fynd i'r afael â'r materion a godwyd a galluogi unigolion i gadw annibyniaeth a llais a rheolaeth wrth drosglwyddo o ofal a ddarperir

[62] P-05-1106 Cyflwyno cyllidebau iechyd personol a gofal personol yng Nghymru (senedd.cymru)
[63] Taliadau Uniongyrchol ar gyfer Gofal Cymdeithasol i Oedolion (archwilio.cymru), tudalen 12
[64] Fframwaith cenedlaethol ar gyfer Gofal Iechyd Parhaus y GIG | LLYW.CYMRU

gan awdurdod lleol i GIP. Byddai'n cefnogi tegwch a chydraddoldeb gwell i bobl anabl a difrifol wael, boed yn derbyn gofal gan yr awdurdod lleol neu'r bwrdd iechyd, ac yn cefnogi egwyddorion gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

### Costau a manteision

7.150 Mae rhywfaint o ansicrwydd ynghylch costau'r elfen hon o'r Bil. Yn benodol, nid yw'n hysbys faint o bobl fydd yn dewis symud o dderbyn taliadau gofal cymdeithasol i daliad uniongyrchol GIP. Cafwyd amcangyfrif gorau o'r nifer hwn gan ADSS Cymru. Bydd natur a chost y pecyn gofal a dderbynnir yn dibynnu ar amgylchiadau penodol pob unigolyn. Oni nodir yn wahanol, mae cost gyfartalog pecyn gofal cymdeithasol a phecyn GIP wedi'i defnyddio yn y cyfrifiadau.

7.151 Yn olaf, mae faint o amser y mae unigolion yn parhau i dderbyn pecyn GIP yn amrywio o'r naill achos i'r llall, wrth i bobl roi'r gorau i dderbyn taliadau am amrywiaeth o resymau. Nid oes unrhyw ddata ar gael ynghylch am faint o amser, ar gyfartaledd, y mae pobl yn derbyn pecynnau GIP. Yn absenoldeb yr wybodaeth hon ac er mwyn galluogi amcangyfrif costau ar gyfer yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, gwnaed rhagdybiaeth i symleiddio'r dadansoddiad, sef y bydd unigolyn, unwaith y bydd yn derbyn taliad uniongyrchol GIP, yn parhau i dderbyn y taliad hwnnw am gyfnod o bum mlynedd.

## Opsiwn un – busnes fel arfer

## **Costau**

7.152 Dyma'r opsiwn sylfaenol ac, o'r herwydd, mae'r canlynol yn grynodeb o'r costau sylfaenol, ac fe'i cyflwynir i alluogi cymhariaeth â'r costau o dan Opsiwn dau. Oni nodir yn wahanol, mae ffigurau costau wedi'u talgrynnu i'r £1,000 agosaf.

#### **Proffil costau – cyfredol**

7.153 Yng Nghymru, mae ffigurau a gafwyd gan y byrddau iechyd yn dangos bod ychydig dros 10,000 o bobl wedi derbyn GIP ym mlwyddyn ariannol 2022-23. Cyfanswm costau GIP ar gyfer y flwyddyn ariannol honno oedd £448m, sy'n gyfwerth â chost gyfartalog o tua £45,000 fesul person sy'n derbyn GIP. Fodd bynnag, mae cafeatau i'r data, gan fod rhai achosion a gyfrifwyd yn ymwneud â phobl sy'n derbyn cyfarpar, rhai'n ymwneud â hawliadau ôl-weithredol a rhai'n ymwneud â chostau a ariennir ar y cyd ag awdurdodau lleol.

7.154 I gymharu â Lloegr, rydym wedi sicrhau ystod o gostau cyfartalog ar gyfer cyllidebau iechyd personol a dalwyd drwy daliadau uniongyrchol ar draws gwahanol Fyrddau Gofal Integredig. Mae'r rhain yn amrywio rhwng

£46,000 a £120,000, gan roi enghraifft ganolrifol o £80,000. Wrth gwrs, bydd amrywiant ar draws pecynnau yng Nghymru hefyd, ond gan nad yw'n bosibl dweud beth fydd yr amrywiant hwnnw, rydym wedi defnyddio cost enghreifftiol o £50,000 ym mhen isaf yr amrediad a gafwyd o Loegr, gan fod y ffigur sy'n cyd-fynd â'r data a'r farn broffesiynol a gawsom.

7.155 I gyrraedd cost enghreifftiol o £50,000 ar gyfer Pecyn GIP, rhannwyd cyfanswm y gost ar gyfer GIP yn 2022-23 â nifer y bobl a oedd yn derbyn GIP y flwyddyn honno fel y'u cafwyd gan y Byrddau Iechyd Lleol (£449,000,000 wedi'i rannu â 10,106). Cynhyrchodd hyn ffigur o £44,429. Oherwydd pryderon ynghylch cysondeb y data rhwng Byrddau Iechyd, gofynnwyd i Uned Genedlaethol Comisiynu Gofal Cymru hefyd am eu barn ar gost pecyn enghreifftiol i'w ddefnyddio at ddibenion cynllunio.

7.156 Awgrymodd yr Uned y gellid defnyddio cyfradd cyflog cyfartalog yr awr gweithiwr gofal band un ar gyfer 2023-24 i greu cost pecyn. Rhoddwyd hyn fel £18.15 ac roedd yn seiliedig ar gyfartaledd costau staff y gweithwyr gofal ar gyfer 400 o gartrefi gofal. Gan dybio pecyn arferol o 345 diwrnod o ofal am 8 awr o ofal y dydd (2,760 awr y flwyddyn) ar gyfradd o £18.15, mae cyfanswm y gost yn £50,094 y flwyddyn. Ar ôl talgrynnu i'r mil agosaf, defnyddiwyd cost y pecyn o £50,000 felly fel ffigur enghreifftiol yn y cyfrifiadau.

7.157 Nid yw'r ffigur hwn yn cynnwys costau ychwanegol fel gorbenion gweinyddol, systemau TG ac ati, y cyfrifir amdanynt mewn mannau eraill yn y cyfrifiadau hyn o dan is-benawdau costau gweinyddu canolog.

7.158 Dros y deng mlynedd diwethaf, bu cynnydd mewn gwariant ar GIP, gan arwain at ganolbwyntio cynyddol ar geisio gwerth am arian ac ar ddod o hyd i opsiynau comisiynu a monitro arloesol i sicrhau cynaliadwyedd. Mae'r cynnydd yng nghostau GIP yn debygol o fod oherwydd nifer o ffactorau, gan gynnwys poblogaeth sy'n heneiddio, cynnydd mewn clefydau cronig, newidiadau mewn ffordd o fyw, a chynnydd mewn costau gofal iechyd.

***Tabl 7.25 Gwariant ar GIP – pob Bwrdd Iechyd Lleol dros y 10 mlynedd diwethaf***

| | BIP Aneurin Bevan | BIP Betsi Cadwaladr | BIP Caerdydd a'r Fro | BIP Cwm Taf Morgannwg | BIP Hywel Dda | BIA Powys | BIP Bae Abertawe | CYFANSWM |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| 2013-14 | 56,339 | 68,286 | 40,030 | 22,886 | 45,158 | 10,193 | 35,580 | **278,472** |
| 2014-15 | 66,973 | 72,253 | 42,089 | 27,606 | 43,809 | 12,076 | 41,443 | **306,249** |
| 2015-16 | 66,541 | 74,827 | 43,559 | 29,756 | 44,484 | 11,733 | 48,518 | **319,418** |
| 2016-17 | 68,123 | 76,848 | 47,414 | 30,465 | 45,499 | 12,964 | 50,553 | **331,866** |
| 2017-18 | 70,408 | 91,605 | 55,920 | 34,526 | 47,599 | 12,495 | 49,537 | **362,090** |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 2018-19 | 71,481 | 99,032 | 57,757 | 33,298 | 47,012 | 11,508 | 52,076 | **372,164** |
| 2019-20 | 71,005 | 91,324 | 59,128 | 46,653 | 45,118 | 12,461 | 45,601 | **371,290** |
| 2020-21 | 81,347 | 106,173 | 62,120 | 46,093 | 49,440 | 15,055 | 55,606 | **415,834** |
| 2021-22 | 83,675 | 101,897 | 65,841 | 49,163 | 48,638 | 20,837 | 61,501 | **431,552** |
| 2022-23 | 86,006 | 99,614 | 73,113 | 55,798 | 49,203 | 23,667 | 60,703 | **448,104** |
| | **721,898** | **881,859** | **546,971** | **376,244** | **465,960** | **142,989** | **501,118** | **3,637,039** |

*Ffynhonnell – Cyfrifon archwiliedig Byrddau Iechyd Lleol*

## Proffil costau – rhagamcan

7.159 Gwnaed gwaith priodoli yn gynnar yn 2023 i ragamcanu beth allai'r costau ar gyfer GIP fod ymhen 10 a 25 mlynedd, heb gyflwyno modelau cyflenwi amgen, y mae taliadau uniongyrchol yn un ohonynt. Mae'r amcangyfrifon o'r gwaith modelu hwn, yn seiliedig ar gost GIP o £50,000 y pen y flwyddyn ar gyfartaledd, i'w gweld yn y tabl isod:

***Tabl 7.26 Rhagamcanu GIP ymhen 10 a 25 mlynedd:***

| | | **Ymhen 10 mlynedd (blwyddyn ariannol 32-33)** | | | **Ymhen 25 mlynedd (blwyddyn ariannol 47-48)** | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **2022-23** | **Isel** | **Uchel** | **Ar £50k (prisiau 22-23)** | **Isel** | **Uchel** | **Ar £50k (prisiau 22-23)** |
| **Aneurin Bevan** | 1,783 | 2,094 | 2,399 | £105m - £120m | 2,197 | 2,716 | £110m - £136m |
| **CTM** | 1,129 | 1,415 | 1,568 | £71m - £78m | 1,475 | 1,784 | £74m - £89m |
| **Betsi** | 1,562 | 819 | 2,012 | £41m - £101m | 402 | 2,190 | £20m - £110m |
| **Hywel Dda** | 2,334 | 2,432 | 3,027 | £122m - £151m | 2,227 | 3,311 | £111m - £167m |
| **Powys** | 536 | 378 | 699 | £19m - £35m | 286 | 776 | £14m - £39m |
| **Abertawe** | 1,630 | 1,821 | 2,269 | £91m - £113m | 1,762 | 2,666 | £88m - £133m |
| **Caerdydd a'r Fro** | 1,564 | 1,514 | 2,129 | £78m - £106m | 1,372 | 2,249 | £67m - £112m |
| | | | **Cyfanswm £527m - £704m** | | | **Cyfanswm £484m - £786m** | |

7.160 Nid yw'r gwaith rhagamcanu'n ystyried chwyddiant. Bydd chwyddiant yn ychwanegu'n sylweddol at y costau dros amser. Dylid nodi y gall chwyddiant gofal iechyd fod yn uwch na chwyddiant cyffredinol, a gall hefyd amrywio rhwng disgyblaethau. Y prif bwynt yw bod y costau a ragwelir ar gyfer Opsiwn Un – sef cadw GIP a ddarperir yn draddodiadol

yn unig a pheidio â chyflwyno taliadau uniongyrchol – yn cynyddu flwyddyn ar ôl blwyddyn.

## Manteision/anfanteision

7.161 O dan yr opsiwn hwn, ni fydd taliadau uniongyrchol yn bosibl i unigolion sy'n gymwys am GIP a byddant yn parhau i fod yn bosibl dim ond i unigolion sy'n derbyn gofal cymdeithasol a ddarperir gan yr awdurdod lleol. Ni fydd yr opsiwn hwn yn mynd i'r afael â'r anawsterau o ran y rhyngwyneb rhwng GIP a thaliadau uniongyrchol. Ni fydd unigolion sy'n trosglwyddo o ofal a ddarperir gan awdurdod lleol i GIP yn gallu cadw'r annibyniaeth a'r llais a'r rheolaeth y maent yn elwa ohonynt o ganlyniad i daliadau uniongyrchol.

7.162 Os asesir bod unigolyn yn gymwys i gael GIP ond ei fod yn gwrthod trosglwyddo o ofal cymdeithasol a ddarperir gan awdurdod lle, ni fydd yn golygu yn awtomatig y gellir cynnal y status quo ac y bydd yr awdurdod lleol yn parhau i ddiwallu anghenion yr unigolyn am ofal a chymorth, gan nad yw awdurdod lleol o dan ddyletswydd i ddiwallu anghenion y gellir eu darparu drwy ddulliau eraill.

7.163 Os dylai unigolion fod yn derbyn GIP, a'u bod yn dewis peidio â gwneud hynny gan nad ydynt am golli taliadau uniongyrchol, nid yw eu gofynion iechyd felly'n cael eu diwallu. Cydnabyddir hyn yn adroddiad Archwilio Cymru sy'n dweud: 'Fe wnaeth rheolwyr Taliadau Uniongyrchol nodi achosion hefyd lle mae unigolion ag anghenion iechyd sy'n gwaethygu'n gwrthod cael mynediad at ofal iechyd parhaus y GIG am eu bod yn ofni y byddant yn colli hyblygrwydd Taliadau Uniongyrchol a'r gwelliannau o ran llesiant y maent yn eu dwyn' (tudalen 37). Mae'n amlwg bod gwrthod gofal iechyd priodol fel hyn yn debygol o effeithio'n negyddol ar iechyd corfforol a meddyliol yr unigolyn yn y tymor hir.

### Opsiwn dau – diwygio Deddf 2006 i ganiatáu i Weinidogion Cymru (byrddau iechyd) wneud taliadau uniongyrchol i unigolion o dan Ofal Iechyd Parhaus (GIP)

## Costau ac arbedion

#### Unigolion

7.164 Fel y nodwyd yn Opsiwn un, bu cynnydd yn y galw am becynnau GIP dros y degawd diwethaf oherwydd nifer o ffactorau. Fodd bynnag, mae tystiolaeth bod rhai pobl â chyflyrau iechyd cymhleth yn gwrthod asesiadau GIP a'i bod yn well ganddynt gadw eu pecynnau gofal cymdeithasol sefydledig. Yn wahanol i GIP, daw taliadau uniongyrchol gofal cymdeithasol o dan bolisi codi tâl neu ad-dalu, felly mae rhai pobl yn parhau i gyfrannu tuag at eu costau gofal, ynghyd â'r awdurdod lleol sy'n

cyfrannu hefyd. Nid yw awdurdod lleol o dan ddyletswydd i ddiwallu anghenion am ofal a chymorth y gellir eu darparu drwy ddulliau eraill.

7.165 Heb gyflwyno'r Bil o dan Opsiwn 2, mae'n debygol y bydd unigolion sy'n gymwys i dderbyn GIP, ond nad ydynt am golli taliadau uniongyrchol, yn parhau i gyfrannu at eu costau gofal cymdeithasol, y tu hwnt i'r hyn y gall yr awdurdod lleol ddarparu ar ei gyfer.

7.166 Ar ôl trafod â rhai o gysylltiadau ADSS Cymru sy'n arwain gwaith mewn perthynas â GIP, amcangyfrifir bod tua phum unigolyn fesul awdurdod lleol yn gohirio neu'n gwrthod trosglwyddo i GIP am y rhesymau a amlinellir uchod. Gallai'r rhain drosglwyddo o dderbyn taliadau uniongyrchol gofal cymdeithasol i dderbyn GIP yn ystod y tair blynedd gyntaf ar ôl i daliadau uniongyrchol ar gyfer GIP gael eu gwneud yn bosibl. Mae hyn yn uchafswm o 110 o unigolion ledled Cymru, ond mae'n bosibl, mewn rhai awdurdodau lleol, y bydd llai na phum unigolyn yn trosglwyddo o ofal cymdeithasol i GIP. Trosglwyddiad untro o grŵp o unigolion sydd yn y set hon o amgylchiadau fyddai hyn. Disgwylir i'r taliadau uniongyrchol GIP cyntaf gael eu talu yn 2025-26, gan ragdybio y bydd y 110 o unigolion wedi symud i daliadau GIP erbyn 2027-28. Ar ôl y cyfnod cychwynnol hwn, byddai taliadau uniongyrchol yn opsiwn a gynigir i bobl y mae eu hasesiad yn nodi eu bod yn gymwys am GIP ac sy'n bodloni unrhyw feini prawf ar gyfer taliadau uniongyrchol. Felly, byddent yn trosglwyddo'n fwy graddol.

### Arbedion

7.167 O dan Opsiwn dau, bydd arbedion o ran costau i unigolion sy'n gymwys am GIP ond sy'n gwrthod cael eu hasesu ar hyn o bryd, neu sy'n cael eu hasesu ac yn gwrthod pecynnau GIP, gan nad ydynt am golli'r taliadau uniongyrchol y maent yn eu derbyn ar hyn o bryd ar gyfer gofal a ddarperir gan awdurdod lleol. Rhagdybir y bydd deg o bobl yn newid o daliadau gofal cymdeithasol i daliadau uniongyrchol GIP yn 2025-26, 50 yn 2026-27 a 50 yn 2027-28. Y cyfraniad mwyaf y gall unigolion ei wneud at eu gofal cymdeithasol yw £100 yr wythnos, gan ddibynnu ar brawf modd. Felly, £5,200 fyddai'r arbedion mwyaf fesul unigolyn y flwyddyn, os gallent drosglwyddo i GIP. Dylid nodi na fydd llawer o unigolion yn cyfrannu at eu costau gofal cymdeithasol, neu y byddant yn cyfrannu llai na £100 yr wythnos. Nid yw'n bosibl gwybod swm y cyfraniadau a wneir ar hyn o bryd gan yr unigolion a fydd yn newid o ofal cymdeithasol i daliadau uniongyrchol GIP ac felly, at ddibenion yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn, defnyddiwyd ystod o £0 i £5,200 y flwyddyn. Mae'r ystod hon o arbedion o ran costau wedi'i chymhwyso i nifer y bobl y disgwylir iddynt fod yn derbyn taliad uniongyrchol GIP bob blwyddyn, ar ôl newid o becyn gofal cymdeithasol. Mae'r tabl isod yn dangos yr arbediad mwyaf i unigolion ar gyfer y cyfnod rhwng 2025-26 a 2031-32. Ar ben isaf yr ystod, bydd yr arbediad yn £sero ym mhob blwyddyn. Fel yr eglurwyd uchod, rhagdybir y bydd pob unigolyn yn derbyn taliad uniongyrchol GIP am gyfnod o bum mlynedd. Rydym yn rhagdybio ymhellach y byddent, yn

absenoldeb y Bil hwn, wedi parhau i dderbyn pecyn gofal cymdeithasol am yr un cyfnod. Felly, rhagdybir mai £sero yw'r arbedion o ran costau o 2032-33 ymlaen i'r 110 o unigolion sy'n newid o ofal cymdeithasol i daliad uniongyrchol GIP.

***Tabl 7.27 – Yr arbedion mwyaf o ran costau i unigolion o beidio â gorfod cyfrannu mwyach at gost eu pecyn gofal cymdeithasol.***

| £ | 2025-26 | 2026-27 | 2027-28 | 2028-29 | 2029-30 | 2030-31 | 2031-32 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Derbynyddion | 10 | 60 | 110 | 110 | 110 | 100 | 50 |
| Yr arbedion mwyaf o ran costau | 52,000 | 312,000 | 572,000 | 572,000 | 572,000 | 520,000 | 260,000 |

**Awdurdodau lleol**

**Arbedion**

7.168 O dan Opsiwn dau, mae'n debygol y byddai awdurdodau lleol yn arbed rhywfaint o gostau pan fydd unigolion sy'n gymwys am GIP ac sy'n dymuno derbyn taliadau uniongyrchol yn dewis trosglwyddo o ofal a ddarperir gan awdurdod lleol i GIP a ddarperir gan y bwrdd iechyd lleol.

7.169 Yn ôl adroddiad Archwilio Cymru, *Taliadau Uniongyrchol ar gyfer Gofal Cymdeithasol i Oedolion*[65], roedd y Taliad Uniongyrchol cyfartalog ar gyfer gofal cymdeithasol i oedolion yn 2018-19 yn £12,344, gan amrywio o £6,033 yng Ngheredigion i £21,836 yn Wrecsam.[66] Mae'r ffigurau hyn wedi'u huwchraddio i brisiau 2022-23 gan ddefnyddio'r gyfres datchwyddwyr cynnyrch domestig gros, gan roi amrediad rhwng tua £6,900 a £25,000 a chyfartaledd o £14,100. Gan ddefnyddio'r ffigurau hyn, amcangyfrifir bod cost pecynnau gofal cymdeithasol i awdurdodau lleol yn amrywio o £130 i £480 yr wythnos, sef tua £270 yr wythnos ar gyfartaledd. Ystyrir bod yr unigolion hynny sydd angen pecyn GIP yn fwy tebygol o fod ag anghenion gofal cymhleth ac o fod ar ben uchaf yr ystod gostau ar gyfer pecyn gofal cymdeithasol. At ddibenion yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol felly, rydym yn rhagdybio mai £480 yr wythnos yw cost gyfartalog pecyn gofal cymdeithasol ar gyfer yr unigolion perthnasol.

7.170 Dylid cydnabod bod yr amcangyfrif hwn o arbedion yn seiliedig ar y nifer mwyaf o dderbynyddion y rhagwelir y byddant yn trosglwyddo oddi wrth ofal cymdeithasol, a hynny â phecynnau â'r gost gyfartalog uchaf. Mae adroddiad Archwilio Cymru yn nodi bod cryn dipyn o amrywiaeth

---

[65] Taliadau Uniongyrchol ar gyfer Gofal Cymdeithasol i Oedolion (archwilio.cymru) Ebrill 2022

[66] Mae'r adroddiad yn nodi, adeg llunio'r adroddiad, nad oedd unrhyw ddata ar wasanaethau heblaw am wariant wedi'u hadrodd yn genedlaethol ers 2018-19, yn dilyn penderfyniad Llywodraeth Cymru i atal trefniadau casglu data mewn ymateb i'r pandemig yn 2020. Nid yw'r ffigurau'n cynnwys Caerffili oherwydd problemau technegol yn eu systemau TGCh pan oedd y data'n cael eu casglu.

rhwng awdurdodau lleol yng Nghymru, felly yn ymarferol byddai'r amrywiaeth hon yn berthnasol i drosglwyddo costau gofal hefyd. Gallai arbedion o ran costau i awdurdodau lleol gael eu lleihau ymhellach yn dibynnu ar faint y mae'r unigolion yn ei gyfrannu at eu gofal eu hunain (fel y nodwyd eisoes, yr uchafswm ar hyn o bryd yw £100 yr unigolyn yr wythnos). Os rhagdybiwn fod pob unigolyn yn cyfrannu'r uchafswm o £100, bydd hyn yn gadael cost o £380 yr wythnos i awdurdodau lleol.

7.171 Mae'r tabl isod yn dangos amcangyfrif o'r arbedion lleiaf a mwyaf o ran costau i awdurdodau lleol, gan ragdybio y byddent fel arall wedi bod yn talu £380 a £480 yr wythnos fesul preswylydd yn y drefn honno. Fel yn achos yr arbedion o ran costau i unigolion a gyfrifwyd uchod, rhagdybir mai £sero fydd yr arbedion o ran costau o 2032-33 ymlaen i awdurdodau lleol.

***Tabl 7.28 – Amcangyfrif o arbedion o ran costau i awdurdodau lleol o beidio â gorfod darparu pecyn gofal cymdeithasol mwyach i'r unigolion hynny sy'n trosglwyddo i daliadau uniongyrchol GIP***

| £ | 2025-26 | 2026-27 | 2027-28 | 2028-29 | 2029-30 | 2030-31 | 2031-32 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Derbynyddion | 10 | 60 | 110 | 110 | 110 | 100 | 50 |
| Yr arbedion lleiaf o ran costau | 198,000 | 1,186,000 | 2,174,000 | 2,174,000 | 2,174,000 | 1,976,000 | 988,000 |
| Yr arbedion mwyaf o ran costau | 250,000 | 1,498,000 | 2,746,000 | 2,746,000 | 2,746,000 | 2,496,000 | 1,248,000 |

7.172 Heb daliadau uniongyrchol fel y cynigir o dan Opsiwn dau, bydd yr awdurdod lleol yn parhau i ysgwyddo'r costau hyn drwy ddarparu gofal cymdeithasol i unigolion nad ydynt am golli taliadau uniongyrchol.

**<u>Byrddau Iechyd Lleol</u>**

7.173 Bydd costau ychwanegol i fyrddau iechyd lleol er mwyn sefydlu'r drefn newydd ar gyfer taliadau uniongyrchol GIP, yn yr un modd â phan gawsant eu cyflwyno ar gyfer gofal cymdeithasol. Fel y dywed adroddiad Archwilio Cymru ar daliadau uniongyrchol ar gyfer gofal cymdeithasol i oedolion: 'Bydd costau cychwynnol yn gysylltiedig â sefydlu neu gomisiynu Gwasanaeth Cymorth Taliadau Uniongyrchol effeithiol a hyfforddi staff mewn prosesau Taliadau Uniongyrchol. Ond unwaith y bydd hyn yn llwyr weithredol, dylai Taliadau Uniongyrchol o leiaf fod yn

niwtral o ran cost a dylent wireddu arbedion, er enghraifft, o ganlyniad i lai o weinyddu, adolygu a rheoli darparwyr.'[67]

7.174 Bydd gofynion o ran hyfforddiant a gwasanaethau cymorth yn cael sylw drwy ganllawiau priodol, yn debyg i'r rhai a ddatblygwyd ar gyfer taliadau uniongyrchol awdurdodau lleol. Disgwylir i'r costau trosiannol hyn gael eu talu gan Lywodraeth Cymru ac fe'u hystyrir ymhellach yn yr adran nesaf.

7.175 Pe na bai'r opsiwn hwn yn cael ei roi ar waith, ni fyddai byrddau iechyd lleol yn wynebu costau ychwanegol ar gyfer sefydlu taliadau uniongyrchol GIP nac ar gyfer eu rheoli'n barhaus. Fodd bynnag, mae tystiolaeth o Loegr yn dangos y gall taliadau uniongyrchol leihau costau cyffredinol GIP dros amser. Mae tîm polisi taliadau uniongyrchol Llywodraeth Cymru wedi cael copi o ddadansoddiad gan NHS England dan y teitl "2018-19 analysis of the impact of personal health budgets on spending on people eligible for NHS Continuing Healthcare" a gynhyrchwyd gan y Personalised Care Group, ar gyfer NHS England ac NHS Improvement, (Gorffennaf 2019). Mae'n edrych ar y gwahaniaeth rhwng costau'r gyllideb iechyd personol (PHB) a chostau pecynnau gofal cartref confensiynol ar gyfer CHC, ac yn dangos y canfyddiadau allweddol canlynol:

- Ar gyfer achosion lle nad oedd newid o ran yr anghenion a aseswyd, 18% oedd y gostyngiad cyfanredol mewn costau ar gyfer pecynnau gofal cyllidebau iechyd personol.

- O fewn y grŵp hwn, 22% oedd y gostyngiad cyfanredol mewn costau ar gyfer cyllidebau iechyd personol a ddarparwyd fel taliadau uniongyrchol. (Taliadau uniongyrchol oedd y rhan fwyaf o'r achosion o gyllidebau iechyd personol a ddadansoddwyd - 71%.)[68]

- Roedd gostyngiadau mewn costau yn amlwg ar draws pob grŵp oedran.

- Gwnaeth costau 76% o'r holl achosion a ddadansoddwyd aros yr un peth neu ostwng ar ôl trosglwyddo i gyllidebau iechyd personol.

---

[67] Taliadau Uniongyrchol ar gyfer Gofal Cymdeithasol i Oedolion (archwilio.cymru) Ebrill 2022, t27

[68] Gall cyllidebau iechyd personol yn Lloegr fod yn un o 3 math – taliadau uniongyrchol, cyllideb trydydd parti neu gyllideb dybiannol (mae'r olaf yn debyg iawn i GIP traddodiadol gan fod y bwrdd iechyd yn comisiynu'r gofal ond mae swm y gyllideb yn hysbys i'r unigolyn; ar gyfer cyllidebau trydydd parti, mae sefydliad annibynnol yn rheoli'r pecyn gofal ond nid ydynt yn cael eu defnyddio'n eang hyd yma). Gofynnwyd i NHS England a gaem rannu'r adroddiad, ond, gan nad ydynt wedi'i gyhoeddi gofynnwyd i'r tîm polisi Taliadau Uniongyrchol ei gadw er gwybodaeth yn unig. Mae ar gael i'w weld ar blatfform o'r enw Future NHS gan NHS England, sy'n gofyn am fewngofnodi. Rydym wedi defnyddio canfyddiadau'r adroddiad gan eu bod yn ffynhonnell dda o wybodaeth ac yn helpu i greu darlun dangosol o'r arbedion cost a welir yn Lloegr, er na ellir eu hystyried yn ddiffiniol.

- Cyfanswm y gostyngiad cyfanredol mewn costau ar gyfer pob pecyn gofal cyllideb iechyd personol oedd 11%, gan gynyddu i 16% ar gyfer taliadau uniongyrchol.[69]

7.176 Mae galw cynyddol am GIP yn debygol o wrthbwyso'n rhannol arbedion o ran costau o weithredu taliadau uniongyrchol, yn enwedig i ddechrau. Y rheswm dros hyn yw y bydd nifer o unigolion yn cytuno i asesiadau ar gyfer GIP, ar ôl iddynt fod wedi'u gwrthod yn flaenorol. Fel yr amcangyfrifwyd, gallai hyn fod yn uchafswm o bum unigolyn fesul awdurdod lleol, neu 110 o unigolion ledled Cymru. Fodd bynnag, mae hynny'n ganran fach iawn, sef 1.1% o'r holl unigolion sy'n derbyn GIP a nodwyd ym mharagraff 7.153. Efallai y bydd hefyd fwy o alw am GIP wrth i amser fynd yn ei flaen, oherwydd na fydd pobl yn gwrthod asesiadau a hwythau bellach yn gallu cadw eu Cynorthwywyr Personol tra maent yn derbyn GIP.

7.177 Disgwylir i'r costau ar gyfer rhai elfennau o Opsiwn dau godi bob blwyddyn am gyfnod cychwynnol ac wedyn mae'r galw'n debygol o sefydlogi. Felly, disgwylir y bydd nifer yr unigolion sy'n dewis derbyn taliadau uniongyrchol ar gyfer GIP yn gymharol isel am y flwyddyn gyntaf, ac yn cynyddu am rai blynyddoedd wedi hynny. Dangosodd tystiolaeth anecdotaidd gan fwrdd gofal integredig yn Lloegr fod nifer y cyllidebau iechyd personol a ddarparwyd fel taliadau uniongyrchol yn ei ardal wedi dechrau'n gymharol isel ac wedi cynyddu dros amser.

7.178 Rydym wedi amcangyfrif twf yn y galw am daliadau uniongyrchol ar gyfer GIP – gweler tabl 7.29 isod.

***Tabl 7.29 – twf rhagamcanol yn y galw am becynnau taliadau uniongyrchol GIP***

| | | **Trosglwyddo o Ofal Cymdeithasol i TU GIP** | **Trosglwyddo o GIP traddodiadol i TU GIP** | **Pecynnau GIP newydd a ddarperir drwy TU** |
|---|---|---|---|---|
| **2025-26** | **Blwyddyn 1** | 10 | 5 | 0 |
| **2026-27** | **Blwyddyn 2** | 50 | 30 | 0 |
| **2027-28** | **Blwyddyn 3** | 50 | 30 | 55 |
| **2028-29** | **Blwyddyn 4** | 0 | 10 | 55 |
| **2029-30** | **Blwyddyn 5** | 0 | 10 | 70 |
| **2030-31** | **Blwyddyn 6** | 0 | 10 | 70 |
| **2031-32** | **Blwyddyn 7** | 0 | 10 | 70 |
| **2032-33** | **Blwyddyn 8** | 0 | 10 | 140 |
| **2033-34** | **Blwyddyn 9** | 0 | 10 | 140 |

[69] Cafeat a nodwyd yn yr adroddiad yw bod y casgliadau'n seiliedig ar ddata o nifer bach o safleoedd sydd ymhlith y rhai sydd bellaf ymlaen yn y broses o roi cyllidebau iechyd personol ar waith.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **2034-35** | **Blwyddyn 10** | 0 | 10 | 140 |

7.179 Bydd costau i'r byrddau iechyd lleol am werth derbynyddion GIP newydd sydd wedi gwrthod asesiad GIP o'r blaen ond sydd bellach wedi trosglwyddo o ofal a ddarperir gan awdurdod lleol, yn ogystal â chostau rheoli a gweinyddu taliadau uniongyrchol. Amcangyfrifir y bydd uchafswm o bum unigolyn fesul awdurdod lleol, felly uchafswm o 110 o unigolion ledled Cymru, yn trosglwyddo o ofal a ddarperir gan awdurdod lleol i GIP. Amcangyfrifir mai £50,000 y pen y flwyddyn yw cost gyfartalog pecynnau GIP yng Nghymru ar hyn o bryd. Felly, amcangyfrifir mai £5,500,000 y flwyddyn fydd y gost ychwanegol fwyaf i Fyrddau Iechyd Lleol ledled Cymru os bydd 110 o unigolion yn trosglwyddo i GIP (a ddarperir yn draddodiadol).[70]

7.180 Mae'n debygol y bydd symud ar draws o ofal cymdeithasol i daliadau uniongyrchol GIP yn cymryd peth amser. Y disgwyl yw mai nifer bach yn unig fydd yn trosglwyddo yn y flwyddyn gyntaf gan y bydd llawer o waith paratoi a sefydlu i'w wneud yn y flwyddyn honno. Mae disgwyl i'r gweddill symud drosodd yn yr ail a'r drydedd flwyddyn. Felly, yn seiliedig ar gost pecynnau GIP wedi'u caffael yn draddodiadol, rhagwelir y bydd y gost ychwanegol yn sgil pobl yn newid o ofal cymdeithasol i daliadau uniongyrchol GIP yn £500,000 yn 2025-26, £3,000,000 yn 2026-27 a £5,500,000 o 2027-28 ymlaen. Yna disgwylir i'r gost hon ostwng yn 2030-31 a 2031-32 cyn cyrraedd sero yn 2032-33. Mae'n bwysig cydnabod mai'r nifer hwn o unigolion, ac felly'r gost gyffredinol hon, yw'r amcangyfrif uchaf, a bod awdurdodau lleol yn awgrymu y gallai fod llawer llai o unigolion yn trosglwyddo o ofal cymdeithasol i GIP.

7.181 Mae'r ffigurau a gyflwynir uchod yn seiliedig ar gost pecynnau GIP wedi'u comisiynu'n draddodiadol. Fodd bynnag, fel y nodwyd uchod, mae tystiolaeth o Loegr yn awgrymu y gall cost pecynnau GIP a ddarperir drwy daliadau uniongyrchol fod yn is na phecynnau GIP wedi'u comisiynu'n draddodiadol.

7.182 Fel y nodwyd yn adroddiad GIG Lloegr ar effaith cyllidebau iechyd personol ar wariant ar bobl sy'n gymwys am GIP drwy'r GIG, y gostyngiad cyfanredol mewn costau ar gyfer pob pecyn gofal cyllideb iechyd personol oedd 11% a'r arbediad cyfartalog ar gyfer pecynnau gofal uniongyrchol cyllideb iechyd personol oedd 16%. Gan ragdybio'r un gostyngiad yng Nghymru, byddai'r gost gyfartalog fesul pecyn taliadau uniongyrchol GIP rhwng £42,000 a £44,500 (gostyngiad o rhwng £5,500 ac £8,000 y pecyn). Yn seiliedig ar y swm hwn, gellir ailgyfrifo'r gost i'r Byrddau Iechyd Lleol ar gyfer darparu Pecyn GIP i bobl sy'n newid o ofal cymdeithasol fel £420,000 - £445,000 yn 2025-26, £2,520,000 - £2,670,000 yn 2026-27 a

[70] Mae'r ffigur hwn yn fwy na'r arbedion cyfatebol ar gyfer Awdurdodau Lleol, sef hyd at £2.75m, gan adlewyrchu'r ffaith y bydd unigolion yn symud o becynnau gofal cymdeithasol nad ydynt yn diwallu eu hanghenion iechyd cymhleth i GIP sydd wedi'i deilwra i ddiwallu'r anghenion cymhleth hynny ac felly'n ddrytach. Fodd bynnag, gweler isod fanylion am arbedion o ran costau a fydd yn gwrthbwyso rhai o'r costau trosglwyddo hyn.

£4,620,000 - £4,895,000 yn 2027-28. Fel y dangosir yn Nhabl 7.30,disgwylir wedyn i'r gost hon ostwng yn 2030-31 a 2031-32 cyn cyrraedd sero yn 2032-33.

7.183 Disgwylir i'r costau ychwanegol hyn gael eu gwrthbwyso'n rhannol o leiaf gan ostyngiad yng nghost darparu gofal i'r unigolion hynny sy'n derbyn GIP traddodiadol ar hyn o bryd ond a fydd yn hytrach yn dewis derbyn taliad uniongyrchol yn y dyfodol. Fel y nodir yn Nhabl 7.30, bydd rhai derbynyddion GIP yn y dyfodol, o ganlyniad i'r Bil, yn gallu dewis taliadau uniongyrchol (â chost gyfartalog is) pan fyddent fel arall wedi derbyn pecyn GIP wedi'i gomisiynu'n draddodiadol.

7.184 Mae tabl 7.30 isod yn dangos yr ystod o gostau ac arbedion i Fyrddau Iechyd Lleol ar gyfer taliadau uniongyrchol GIP. Mae'r tabl yn seiliedig ar nifer y bobl a fydd yn manteisio ar daliad uniongyrchol GIP fel y dangosir yn Nhabl 7.29 ac mae'n rhagdybio bod cost pecyn GIP a ddarperir drwy daliadau uniongyrchol 11-16% yn is na phecyn GIP wedi'i gomisiynu'n draddodiadol. Eto, mae'r cyfrifiadau'n rhagdybio y bydd unigolyn, unwaith y mae'n derbyn pecyn GIP, yn parhau i dderbyn y pecyn hwnnw am gyfnod o bum mlynedd.

**Tabl 7.30 – costau ac arbedion costau i Fyrddau Iechyd Lleol yn sgil pecynnau taliadau uniongyrchol GIP**

| | | 2025-26 | 2026-27 | 2027-28 | 2028-29 | 2029-30 | 2030-31 | 2031-32 | 2032-33 | 2033-34 | 2034-35 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Costau ychwanegol yn sgil pobl yn newid o ofal cymdeithasol i daliadau uniongyrchol GIP (cost gyfartalog o £50,000 fesul pecyn GIP)** | **Nifer y bobl a fydd yn newid bob blwyddyn** | 10 | 50 | 50 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| | **Cyfanswm cronnol costau ychwanegol yn sgil newid pecyn ar gyfradd arbedion o 11% (£44,500)** | 445,200 | 2,670,000 | 4,895,000 | 4,895,000 | 4,895,000 | 4,450,000 | 2,225,000 | - | - | - |
| | **Cyfanswm cronnol costau ychwanegol yn sgil newid pecyn ar gyfradd arbedion o 16% (£42,000)** | 420,000 | 2,520,000 | 4,620,000 | 4,620,000 | 4,620,000 | 4,200,000 | 2,100,000 | - | - | - |
| **Arbedion costau yn sgil derbynyddion presennol GIP yn newid i daliadau uniongyrchol** | **Nifer y bobl a fydd yn newid bob blwyddyn** | 5 | 30 | 30 | 10 | 10 | 10 | 10 | 10 | 10 | 10 |
| | **Arbedion cronnol (ar 11%) yn sgil newid** | 27,500 | 192,500 | 357,500 | 412,500 | 467,500 | 495,500 | 385,500 | 275,000 | 275,000 | 275,000 |
| | **Arbedion cronnol (ar 16%) yn sgil newid** | 40,000 | 280,000 | 520,000 | 600,000 | 680,000 | 720,000 | 560,000 | 400,000 | 400,000 | 400,000 |

Noder: at ddiben helpu pobl i ddeall Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru) yn unig y mae’r ddogfen hon wedi’i llunio. Ni ddylid dibynnu arni at unrhyw ddiben arall.

| | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Arbedion costau yn sgil derbynyddion GIP newydd yn dewis taliadau uniongyrchol** | **Nifer y bobl a fydd yn newid bob blwyddyn** | 0 | 0 | 55 | 55 | 70 | 70 | 70 | 140 | 140 | 140 |
| | **Cyfanswm cronnol y bobl a fydd wedi newid** | 0 | 0 | 55 | 110 | 180 | 250 | 320 | 460 | 600 | 740 |
| | **Arbedion cronnol (ar 11%) yn sgil newid** | - | - | 302,500 | 605,000 | 990,000 | 1,375,000 | 1,760,000 | 2,227,500 | 2,695,000 | 3,080,000 |
| | **Arbedion cronnol (ar 16%) yn sgil newid** | - | - | 440,000 | 880,000 | 1,440,000 | 2,000,000 | 2,560,000 | 3,240,000 | 3,920,0000 | 4,480,000 |
| **Costau ychwanegol net (mae ffigur negyddol yn dangos arbediad cost)** | **Ffigur arbedion ar 11%** | 417,500 | 2,477,500 | 4,235,000 | 3,877,500 | 3,437,500 | 2,580,000 | 80,000 | -2,502,500 | -2,970,000 | -3,355,000 |
| | **Ffigur arbedion ar 16%** | 380,000 | 2,240,000 | 3,660,000 | 3,140,000 | 2,500,000 | 1,480,000 | -1,020,000 | -3,640,000 | -4,320,000 | -4,880,000 |

Noder: at ddiben helpu pobl i ddeall Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru) yn unig y mae’r ddogfen hon wedi’i llunio. Ni ddylid dibynnu arni at unrhyw ddiben arall.

## Llywodraeth Cymru

7.185 Bydd nifer o gostau gweinyddol yn cael eu hysgwyddo er mwyn gweithredu a gweinyddu taliadau uniongyrchol GIP. Rhagwelir cyfnod trosiannol o dair blynedd (rhwng 2025-26 a 2027-28) a bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi cymorth ariannol i dalu'r costau yn ystod y cyfnod hwn. Bydd y costau gweinyddol hyn yn cynnwys sefydlu ac ariannu staff, hyfforddiant ar gyfer staff a chynorthwywyr personol, cymorth i gyflogwyr ar gyfer y rhai sy'n cael taliadau uniongyrchol, yn ogystal â sefydlu ochr dechnegol y cynllun (offer TG i gynnal y gwaith o brisio cyllidebau unigol, dyrannu taliadau ac offer archwilio ar gyfer rheoli'r gwariant, systemau cyflogres ac ati). Wedi'r cyfnod trosiannol tair blynedd, dylai'r costau gael eu hysgwyddo'n llawn gan fyrddau iechyd lleol, ar adeg pan ddylid dechrau gweld rhai arbedion yn cael eu gwireddu a fydd yn cael eu gwrthbwyso yn erbyn y costau a ysgwyddwyd gan fyrddau iechyd lleol.

7.186 Ceir nifer o fodelau posibl i'w rhoi ar waith, fodd bynnag, cynigir sefydlu hwb canolog ar gyfer cynnal rhai swyddogaethau gweinyddol allweddol, a hynny er mwyn creu cronfa o staff arbenigol sy'n gallu ymdrin yn effeithlon â rheoli'r elfennau sy'n ymwneud â thaliadau uniongyrchol. Bydd hefyd yn sicrhau chwarae teg ledled Cymru, cyn belled ag y bo modd, i'r rhai sy'n cael GIP drwy daliadau uniongyrchol. Mae'r model hwn yn seiliedig ar brosiect blaenorol gan Lywodraeth Cymru / GIG Cymru a oedd yn rheoli nifer fawr o hawliadau GIP yn ôl-weithredol ledled Cymru drwy un tîm. Mae hefyd yn cyd-fynd â dulliau canolog a safonol eraill sy'n cael eu hystyried ar gyfer casglu data a rheoli GIP yn ariannol.

7.187 Yn seiliedig ar fodelau tebyg eraill, rhagwelir y bydd angen staff parhaol yn yr hwb canolog ar sail 5.5 FTE, ac amcangyfrifir y bydd costau staff yn £357,000 y flwyddyn. Amcangyfrifir y bydd costau eraill yr hwb (gan gynnwys costau teithio, costau hyfforddiant a chostau swyddfeydd) yn £50,000 yn 2025-26 ac yn £47,000 yn y blynyddoedd dilynol. Disgwylir i gostau pellach o £221,000 y flwyddyn gael eu hysgwyddo yn 2025-26 a 2026-27 ar gyfer gwaith rheoli prosiect gan Lywodraeth Cymru.

***Tabl 7.31 – Costau staffio'r hwb canolog, y flwyddyn (ariennir blynyddoedd 1, 2 a 3 gan Lywodraeth Cymru)***

| | **Cost** | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Eitem** | **2025-26** | **2026-27** | **2027-28** | **Cyfanswm** |
| Hwb ganolog i gydgysylltu’r gwaith cyflawni – staff ar sail 5.5 FTE | £357,000 | £357,000 | £357,000 | **£1,071,000** |
| Teithio | £10,000 | £10,000 | £10,000 | **£30,000** |
| Hyfforddiant / Cynefino | £10,000 | £7,000 | £7,000 | **£24,000** |
| Swyddfa a gorbenion, cyflenwadau | £30,000 | £30,000 | £30,000 | **£90,000** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Gwaith rheoli prosiect ychwanegol gan dîm craidd LlC | £221,000 | £221,000 | £0 | **£442,000** |
| **Cyfanswm** | **£628,000** | **£625,000** | **£404,000** | **£1,657,000** |

**Mae strwythur staffio'r Hwb Canolog arfaethedig yn cynnwys pennaeth tîm, uwch-reolwr, tri rheolwr cyflawni prosiectau a rhywfaint o gymorth gweinyddol.*

*Mae cost rheoli prosiectau ychwanegol gan Lywodraeth Cymru yn cynnwys pennaeth tîm, uwch-reolwr a rheolwr prosiect.*
*Mae'r costau teithio, hyfforddiant/sefydlu a swyddfa, gorbenion a chyflenwadau yn seiliedig ar wybodaeth a ddarparwyd gan awdurdod lleol ar gostau ei Dîm Taliadau Uniongyrchol.*

*Rydym wedi amcangyfrif bod y costau swyddfa a’r costau cyffredinol oddeutu 10% o gostau staffio'r Hwb Canolog. Gan fod yr opsiynau ar gyfer Hwb yn dal i gael eu datblygu, mae hyn wedi'i gynnwys fel ffigur gweithio ar hyn o bryd.*

7.188 Bydd costau TG yn gysylltiedig â sefydlu a chynnal platfform talu ar gyfer taliadau uniongyrchol. Bydd y system TG yn effeithlon o ran amser, yn safoni'r gwasanaeth ledled Cymru a bydd yn caniatáu prosesau cywir o ran archwilio llif arian a gwariant. Mae lwfans o £250,000 y flwyddyn wedi'i glustnodi ar gyfer costau TG. Yn unol â'r opsiwn i gynnal y dewis gorau posibl i unigolion sy'n cael taliadau uniongyrchol, bydd yr opsiwn iddynt reoli eu taliadau eu hunain, y gyflogres ac ati yn cael ei gynnal hefyd, ond mewn achosion o'r fath, bydd angen darparu dogfennaeth archwilio lawn ar gais.

***Tabl 7.32 – Costau offer TG y flwyddyn – a allai gyllidebu ar gyfer pecyn taliadau uniongyrchol, platfform talu a swyddogaeth y gyflogres (ariennir blynyddoedd 1, 2 a 3 gan Lywodraeth Cymru)***

| | **Cost** | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Eitem** | **2025-26** | **2026-27** | **2027-28** | **Cyfanswm** |
| Yn cynnwys trwydded(au), gosod, hyfforddiant a chymorth (cychwynnol a pharhaus)<br><br>Yn debygol o gynnwys gwaith cyllidebu / llunio cynlluniau gofal, platfform talu diogel ac offer sy'n gysylltiedig â'r gyflogres | £250,000 | £250,000 | £250,000 | £750,000 |

**Gallai’r offer TG gynnwys rhai sydd ar gael i'w prynu y mae angen trwyddedau ar eu cyfer, neu gellir eu datblygu'n fewnol yn yr hwb os yw’r opsiwn yn caniatáu hynny. Mae cost ddangosol wedi'i chynnwys ar hyn o bryd gan y rhagwelir y bydd rhai ffioedd trwydded yn berthnasol, ac i*

*gwmpasu costau datblygu mewnol lle bo hynny'n briodol. Nid oes modd dweud yn bendant ar hyn o bryd pa offer a phlatfformau TG a allai gael eu defnyddio neu eu datblygu.*

7.189 Yn ogystal, bydd costau uniongyrchol i Lywodraeth Cymru ar gyfer comisiynu gwaith i fonitro a gwerthuso'r polisi, sef £90,000 dros dair blynedd (wedi'i rhannu rhwng 2025-26 a 2027-28). Amlinellir y costau hyn yn nhabl 7.33.

***Tabl 7.33 – costau eraill/amrywiol (ysgwyddir gan Lywodraeth Cymru)***

| | **Cost** | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Eitem** | **2025-26** | **2026-27** | **2027-28** | **Cyfanswm** |
| Creu canllawiau a dogfennau eraill a diweddaru'r canllawiau dirprwyo | £100,000 | £25,000 | £25,000 | £150,000 |
| Contract gwerthuso | £30,000 | £30,000 | £30,000 | £90,000 |
| **Cyfanswm** | £130,000 | £55,000 | £55,000 | £240,000 |

**Rhagwelir y bydd y costau ar gyfer creu canllawiau a dogfennau eraill yn cynnwys amser staff, gan gynnwys amser contractwyr arbenigol, creu a chyhoeddi fformatau hygyrch yn ogystal â hyrwyddo a chyfathrebu, a allai gynnwys digwyddiadau i gefnogi cydgynhyrchu.*

*Mae'r gost werthuso yn seiliedig ar werthusiadau blaenorol Llywodraeth Cymru o natur debyg a chafwyd yr wybodaeth trwy drafodaethau â thimau gwerthuso arbenigol.*

7.190 Nid ellir canoli pob elfen o'r gwaith gweithredu a bydd llawer ohono yn parhau ar lefel ranbarthol neu leol. Byddai asesu ac adolygu anghenion GIP yn parhau i ddigwydd yn lleol drwy dimau GIP y byrddau iechyd lleol. Mae gan y timau hyn y sgiliau clinigol i gyflawni'r elfen honno yn unol â'r Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer GIP fel y maent yn gwneud ar gyfer GIP traddodiadol. Gan fod y gwaith hwn eisoes yn digwydd ar lefel ranbarthol neu leol, ni ddisgwylir i hyn greu costau ychwanegol i fyrddau iechyd lleol.

7.191 Yn ddelfrydol, byddai gwasanaethau cymorth i'r rhai sy'n cael taliadau uniongyrchol GIP ar gyfer elfennau fel cymorth ar faterion cyflogaeth, recriwtio ac ati hefyd yn cael eu darparu'n lleol, gan gynnig cyfleoedd i fanteisio ar wasanaethau presennol sy'n helpu'r rhai sy'n cael taliadau uniongyrchol gofal cymdeithasol. Byddai angen datblygu'r strwythurau gweithredu hyn ymhellach drwy Gynllun Gweithredu, ond caiff y rolau a'r costau amlinellol eu nodi isod.

7.192 Mae profiadau yn Lloegr a'r Alban wedi pwysleisio pa mor hanfodol yw darparu cymorth i dderbynyddion taliadau uniongyrchol i lwyddiant y cynllun. Mae costau cymorth wedi'u hamcangyfrif ar sail bod y gost yn

£500 y derbynnydd fesul blwyddyn, gyda chost untro o £125 ar gyfer derbynyddion newydd.

***Tabl 7.34 – Gwasanaethau cymorth Taliadau Uniongyrchol (ariennir blynyddoedd 1, 2 a 3 gan Lywodraeth Cymru)***

| | **Cost** | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Eitem** | **2025-26** | **2026-27** | **2027-28** | **Cyfanswm** |
| Cymorth i dderbynyddion taliadau uniongyrchol<br>(wedi'i leoli'n rhanbarthol ac yn deillio o restr gymeradwy; yn debygol o fod yn ddarparwyr cymorth presennol ar gyfer taliadau uniongyrchol gofal cymdeithasol) | £9,000 | £58,000 | £132,000 | £199,000 |

** Ceir gwahanol fodelau a strwythurau prisio ar gyfer cymorth taliadau uniongyrchol. Byddai angen ystyried y rhain i gyd yn fanwl a chanfod yr opsiwn gorau ar gyfer y model gweithredu a ddewisir. Mae'r gost a ddefnyddir yma yn opsiwn pris canolrifol yn seiliedig ar gostau a ddarparwyd gan ddarparwr trydydd parti sy’n darparu cymorth ar gyfer taliadau uniongyrchol.*

7.193 Mae Cynorthwywyr Personol yn elfen allweddol o gynlluniau taliadau uniongyrchol. Mae nifer o gostau ychwanegol yn gysylltiedig â'r cynnydd yn nifer y Cynorthwywyr Personol y bydd eu hangen i helpu'r unigolion ychwanegol a fydd yn cael taliadau uniongyrchol yng Nghymru. Disgwylir i'r costau hyn gynnwys hyfforddiant i Gynorthwywyr Personol, gweithdai cenedlaethol i roi cymorth iddynt a chyfleoedd i rannu arferion gorau â nhw, eu cyflogwyr a byrddau iechyd lleol. Bydd costau hefyd yn gysylltiedig ag yswiriant a gwiriadau manylach gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Amlinellir y costau hyn yn nhablau 7.35 a 7.36 isod.

***Tabl 7.35 - Costau hyfforddiant a chymorth fesul blwyddyn (ariennir blynyddoedd 1, 2 a 3 gan Lywodraeth Cymru)***

| | **Costau** | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Eitem** | **2025-26** | **2026-27** | **2027-28** | **Cyfanswm** |
| Hyfforddiant ar gyfer Cynorthwywyr Personol, gan gynnwys cyfres o fodiwlau hyfforddiant craidd a hyfforddiant ynghylch tasgau gofal iechyd wedi'u dirprwyo fel sy'n ofynnol gan becynnau gofal | £14,000 | £74,000 | £125,000 | £213,000 |
| Gweithdai cenedlaethol a digwyddiadau i rannu gwybodaeth (rhai wyneb yn wyneb ac ar-lein) – er mwyn hyrwyddo dull gofal wedi'i bersonoli, yn ogystal â rhannu canllawiau, cynnydd ac arferion da | £15,000 | £15,000 | £15,000 | £45,000 |
| **Cyfanswm** | **£29,000** | **£89,000** | **£140,000** | **£258,000** |

*** Mae’r costau ar gyfer hyfforddi Cynorthwywyr Personol yn seiliedig ar ddau fodel hyfforddiant a ddarperir ar gyfer Cynorthwywyr sy'n cyflawni tasgau gofal iechyd dirprwyedig, a gynigir gan ddarparwyr hyfforddiant yn Lloegr. Mae un yn cynnwys darparu modiwlau hyfforddi ar-lein am ffi flynyddol ac mae'r llall yn darparu hyfforddiant personol am ffi fesul awr. Tybir y gellir defnyddio cyfuniad, er gyda phwyslais ar ddull wyneb yn wyneb ar gyfer y rhan fwyaf o dasgau.***

*Mae ffigurau ar gyfer gweithdai a digwyddiadau cyfathrebu cenedlaethol yn seiliedig ar wybodaeth gan ddarparwr gwasanaethau tebyg i Lywodraeth Cymru, ac maent yn cynnwys llogi lleoliadau, ffioedd siaradwyr, arlwyo ac ati. Mae'r ffigur a ddyfynnir yn caniatáu ar gyfer un neu ddau o weithdai rhanbarthol bob blwyddyn; ynghyd â fforymau lleol neu ar-lein.*

***Tabl 7.36 – Eitemau o ran costau ychwanegol***

| | Cost | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **2025-26** | **2026-27** | **2027-28** | **Cyfanswm** |
| Yswiriant Cynorthwywyr Personol | £3,000 | £16,000 | £39,000 | £58,000 |
| Gwiriadau manylach gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer Cynorthwywyr Personol | £1,000 | £6,000 | £10,000 | £18,000 |
| **CYFANSWM** | **£4,000** | **£22,000** | **£49,000** | **£76,000** |

* *Mae costau yswiriant Cynorthwywyr Personol yn seiliedig ar ddyfynbrisiau gan ddarparwr yswiriant taliadau uniongyrchol arbenigol, ar gyfradd y pecyn lefel uwch sy'n addas ar gyfer gwaith gofal iechyd gan Gynorthwywyr Personol, sef ar hyn o bryd tua £150pp + £20 am bob Cynorthwyydd ychwanegol ar y polisi.*

*Mae gwiriadau DBS uwch wedi'u costio ar sail y prisiau a hysbysebir ar hyn o bryd (ar hyn o bryd £38 am bob gwiriad ond disgwylir iddynt godi.)*

7.194 Gan grynhoi'r holl elfennau hyn, disgwylir i'r gost i Lywodraeth Cymru fod ychydig dros £1m y flwyddyn rhwng 2025-26 a 2027-28.

***Tabl 7.37 – Cyfanswm Cost i Lywodraeth Cymru rhwng 2025-26 a 2027-28***

| | **2025-26** | **2026-27** | **2027-28** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|
| **Costau** | £1,049,000 | £1,099,000 | £1,030,000 | £3,178,000 |

7.195 O 2028-29 ymlaen, disgwylir y bydd y gost i weinyddu taliadau uniongyrchol yn cael ei throsglwyddo i'r byrddau iechyd lleol. Ac eithrio yswiriant Cynorthwywyr Personol a gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, mae'r costau gweinyddol hyn wedi'u cyfrifo ar yr un sail â'r uchod. Rhagwelir y bydd y byrddau iechyd yn cynnwys costau sy'n gysylltiedig ag yswiriant Cynorthwywyr Personol a gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yng nghostau'r pecynnau gofal, ac felly, nid ydynt wedi'u nodi ar wahân yn y tabl isod.

7.196 Rhagwelir y bydd y cyfansymiau a nodir isod yn cael eu rhannu rhwng y byrddau iechyd lleol; nid ydynt yn gyfansymiau y bydd angen i fyrddau iechyd lleol ddod o hyd iddynt yn unigol.

***Tabl 7.38 – Costau gweinyddol i Fyrddau Iechyd Lleol rhwng 2028-29 a 2034-35***

| £ | **2028-29** | **2029-30** | **2030-31** | **2031-32** | **2032-33** | **2033-34** | **2034-35** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Hwb Canolog | 404,000 | 404,000 | 404,000 | 404,000 | 404,000 | 404,000 | 404,000 |
| TG | 250,000 | 250,000 | 250,000 | 250,000 | 250,000 | 250,000 | 250,000 |
| Gwasanaethau cymorth taliadau uniongyrchol | 131,000 | 198,000 | 235,000 | 260,000 | 296,000 | 314,000 | 324,000 |
| Hyfforddiant a chymorth i Gynorthwywyr Personol | 75,000 | 89,000 | 89,000 | 89,000 | 154,000 | 154,000 | 154,000 |
| **Cyfanswm** | **860,000** | **941,000** | **978,000** | **1,003,000** | **1,104,000** | **1,122,000** | **1,132,000** |

***Tabl 7.39 – Crynodeb o'r arbedion costau***

| **£** | | **2025-26** | **2026-27** | **2027-28** | **2028-29** | **2029-30** | **2030-31** | **2031-32** | **2032-33** | **2033-34** | **2034-35** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Arbedion costau unigol** | Uchafswm | 52,000 | 312,000 | 572,000 | 572,000 | 572,000 | 520,000 | 260,000 | | | |
| | Isafswm | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | | | |
| **Arbedion costau Awdurdodau Lleol** | **Isafswm** | 198,000 | 1,186,000 | 2,174,000 | 2,174,000 | 2,174,000 | 1,976,000 | 988,000 | | | |
| | **Uchafswm** | 250,000 | 1,498,000 | 2,746,000 | 2,746,000 | 2,746,000 | 2,496,000 | 1,248,000 | | | |

Noder, nid oes modd adio uchafswm yr arbedion costau unigol ac uchafswm arbedion costau Awdurdodau Lleol. Er mwyn i arbedion costau Awdurdodau Lleol fod ar y lefel uchaf, rhaid i arbedion costau unigol fod ar ben isaf yr ystod (hynny yw sero), ac i'r gwrthwyneb.

***Tabl 7.40 – Crynodeb o'r costau***

| £ | | 2025-26 | 2026-27 | 2027-28 | 2028-29 | 2029-30 | 2030-31 | 2031-32 | 2032-33 | 2033-34 | 2034-35 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Llywodraeth Cymru | | | | | | | | | | | |
| Costau gweinyddol | | 1,049,000 | 1,099,000 | 1,030,000 | | | | | | | |
| Bwrdd Iechyd Lleol | | | | | | | | | | | |
| Costau gweinyddol | | | | | 860,000 | 940,000 | 978,000 | 1,003,000 | 1,104,000 | 1,121,000 | 1,131,000 |
| Costau pecynnau | Gostyngiad o 11% | 418,000 | 2,478,000 | 4,235,000 | 3,878,000 | 3,438,000 | 2,580,000 | 80,000 | -2,503,000 | -2,970,000 | -3,355,000 |
| | Gostyngiad o 16% | 380,000 | 2,240,000 | 3,660,000 | 3,140,000 | 2,500,000 | 1,480,000 | -1,020,000 | -3,640,000 | -4,320,000 | -4,880,000 |
| Cyfanswm Costau | Isafswm | 1,429,000 | 3,339,000 | 4,690,000 | 4,000,000 | 3,440,000 | 2,458,000 | -17,000 | -2,536,000 | -3,199,000 | -3,749,000 |
| | Uchafswm | 1,467,000 | 3,576,000 | 5,265,000 | 4,737,000 | 4,378,000 | 3,558,000 | 1,083,000 | -1,399,000 | -1,849,000 | -2,224,000 |

7.197 Mae'r tablau crynodeb hyn yn dangos mai dim ond o flwyddyn 7 neu 8 y cyfnod gwerthuso y disgwylir i arbedion net gael eu gwireddu. Bydd yr amseriad yn dibynnu ar lefel yr arbediad sy'n deillio o daliadau uniongyrchol o gymharu â phecynnau GIP a gomisiynir yn draddodiadol. Yn seiliedig ar y ffigurau hyn, mae gan yr opsiwn hwn Werth Presennol Net o rhwng £-5.2m ac £1.7m dros y cyfnod gwerthuso deng mlynedd. Fodd bynnag, fel y nodir yn yr adran nesaf, ceir nifer o fanteision na ellir eu meintioli y dylid eu hystyried hefyd.

7.198 Mae'r dystiolaeth yn awgrymu y bydd taliadau uniongyrchol ar gyfer GIP, yn y tymor hwy, yn llai costus na phecynnau confensiynol a bydd hyn yn arwain at arbedion i'r GIG, y gellir eu gwrthbwyso yn erbyn y costau a fydd yn cael eu hysgwyddo. Wedi cyfnod trosiannol, mae tystiolaeth yn awgrymu y bydd arbedion i fyrddau iechyd lleol yn sgil darparu GIP drwy becynnau taliadau uniongyrchol.

7.199 Mae Bwrdd Gofal Integredig yn Lloegr wedi dweud wrthym fod unigolion sy'n rheoli eu pecynnau GIP eu hunain drwy daliadau uniongyrchol fel arfer yn frwdfrydig iawn i sicrhau gwell gwerth am eu harian taliadau uniongyrchol na allai fod yn bosibl o dan ofal iechyd parhaus traddodiadol. Yn sgil y ffaith eu bod yn agosach o lawer at y gofal sy'n cael ei brynu o gymharu â gwasanaeth comisiynu mewnol bwrdd iechyd lleol, mae unigolion hefyd yn gallu monitro'n llawn y gwasanaeth a ddarperir, yn ogystal â chodi unrhyw faterion o ran cyflawni.

7.200 Dywedodd y Bwrdd Gofal Integredig wrthym fod rhai gwasanaethau yn cael eu comisiynu am gost is na'r hyn y gall y Bwrdd eu comisiynu. Un enghraifft a roddwyd oedd ffisiotherapi. Mewn rhai achosion, mae'n debygol bod unigolion yn gallu cael gwasanaethau am gost is na'r GIG yn sgil cyfyngiadau caffael sy'n wynebu'r GIG. I'r gwrthwyneb serch hynny, yw'r ffaith y bydd gan fyrddau gofal integredig neu fyrddau iechyd lleol alluoedd comisiynu bloc ar gyfer rhai gwasanaethau a allai fod yn rhatach, ond efallai na fyddant wedi'u teilwra cymaint o ran anghenion neu ddewisiadau personol yr unigolyn sy'n cael gofal. Dangosodd werthusiad o raglen beilot ar gyllidebau iechyd personol yn 2012 fod deiliaid y cyllidebau hyn yn gallu cael gafael ar wasanaethau y tu hwnt i ddarparwyr confensiynol y GIG.[71]

7.201 Yn ogystal, nododd GIG Lloegr lai o heriau o lawer (megis pecynnau gofal yn methu neu achosion o argyfwng) wrth ddarparu cyllidebau iechyd personol drwy becynnau taliadau uniongyrchol. Ar wahân i ystyriaethau ariannol, mae gwerthusiadau o Loegr yn nodi bod taliadau uniongyrchol ar gyfer GIP yn cael eu gwerthfawrogi'n fawr gan y rhai sy'n eu cael, ac mae llawer o astudiaethau achos ar gael sy'n dangos canlyniadau cadarnhaol i dderbynyddion GIP a'u teuluoedd.[72]

## Manteision / Anfanteision

7.202 O dan yr opsiwn hwn, bydd Gweinidogion Cymru yn cael pwerau i wneud rheoliadau ynglŷn â thaliadau uniongyrchol, er mwyn iddynt alluogi byrddau iechyd lleol i wneud taliadau uniongyrchol i bobl gael gofal iechyd parhaus. Bydd Gweinidogion Cymru yn gallu amlinellu manylion ac amodau ynghylch pa bryd y gallai'r taliadau uniongyrchol fod ar gael o dan y rheoliadau.

[71] Crynodeb gweithredol (phbe) – paragraff 18
[72] GIG Lloegr » Tystiolaeth ac astudiaethau achos

7.203 Mae'r opsiwn hwn yn rhoi'r cyfle i wella'r rhyngwyneb rhwng GIP a thaliadau uniongyrchol, er mwyn ymdrin â materion a godwyd o ran unigolion yn colli annibyniaeth, llais a rheolaeth wrth drosglwyddo o ofal a ddarperir gan awdurdodau lleol i ofal iechyd parhaus. Byddai'r opsiwn hwn yn hyrwyddo mwy o degwch a chydraddoldeb i bobl anabl a phobl sy'n ddifrifol wael, p'un a ydynt yn cael gofal gan yr awdurdod lleol neu'r bwrdd iechyd, yn ogystal ag ategu egwyddorion gofal sy'n canolbwyntio ar unigolion.

7.204 Byddai'r opsiwn hwn o fudd i unigolion a fyddai'n cael eu hasesu yn gymwys i gael GIP ond sydd wedi parhau i gael gofal a ariennir gan yr awdurdod lleol oherwydd bod ganddynt ofn colli annibyniaeth, llais a rheolaeth pe na fyddent yn gallu cael taliadau uniongyrchol. Mae'n debygol y bydd anghenion yr unigolion hyn yn cael eu diwallu'n well drwy gael GIP a allai wella eu hiechyd a'u llesiant yn y tymor byr, yn y tymor canolig neu yn y tymor hir. Maent yn debygol o allu ymwneud â'u cymunedau lleol yn well yn sgil y ffaith bod gwelliant oherwydd bod eu hanghenion yn cael eu diwallu.

7.205 Y tu hwnt i gostau cychwynnol y GIP sy'n cael ei gynnig drwy daliadau uniongyrchol, mae goblygiadau o ran manteision cost yn y tymor hir i'w hystyried hefyd. Os na chaiff anghenion iechyd unigolion yng Nghymru eu diwallu oherwydd bod pecynnau GIP yn cael eu gwrthod, mae hyn yn debygol o arwain at fwy o gostau i fyrddau iechyd lleol a'r GIG yn y tymor hir, er enghraifft, yn sgil mwy o dderbyniadau i'r ysbyty a chynnydd yn hyd yr arosiadau mewn ysbytai.

7.206 Yn ogystal, gall yr hyblygrwydd a gynigir gan daliadau uniongyrchol hefyd fod yn ffactor o ran arbed costau yn ddiweddarach. Yn adroddiad gwerthuso Cyllidebau Iechyd Personol yn Lloegr, mae staff comisiynu clinigol yn gadarnhaol eu hagwedd o ran yr hyblygrwydd a'r ystod o wasanaethau iechyd a gofal y gall unigolyn eu cael drwy daliadau uniongyrchol. Yn benodol, yn ôl eu profiadau, maent yn dweud bod hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar leihau'r defnydd o wasanaethau ysbytai sy'n ddrutach. Dywedodd un rheolwr comisiynu, "Rydyn ni wedi cael rhai achosion lle rydyn ni wedi rhoi therapi amgen, fel Reiki, er enghraifft. Gwnaeth cyllideb iechyd personol dalu £800 am sesiynau Reiki, ac oherwydd y sesiynau hyn, nid yw'r unigolyn wedi defnyddio Gwasanaethau Iechyd Meddwl. Nid yw'r tîm argyfwng wedi mynd i weld yr unigolyn unwaith ers iddo gael y sesiynau Reiki a phe byddech chi'n edrych ar y contract yn fanwl, byddech yn gweld bod y £800 hwnnw, sy'n rhan o'r gyllideb iechyd personol, wedi talu ar ei ganfed."[73]

7.207 At hynny, mae gwerthusiadau o Loegr yn nodi bod y cyfleoedd a gynigir gan daliadau uniongyrchol i ddarparu gofal sy'n cael ei arwain gan yr unigolyn, sy'n fwy teilwredig ac sy'n fwy priodol yn rheswm dros ganlyniadau iechyd a llesiant gwell. Dangosodd y gwerthusiad annibynnol gwreiddiol ar gyllidebau iechyd personol yn 2012, o dan arweiniad yr

[73] https://www.pssru.ac.uk/pub/5331.pdf 2017, t11

Uned Ymchwil Gwasanaethau Cymdeithasol Personol ym Mhrifysgol Caint, ansawdd bywyd gwell a llai o ddibyniaeth ar ofal heb ei gynllunio, er enghraifft, derbyniadau i adrannau damweiniau ac achosion brys, yn ogystal ag arbedion cyffredinol o £3,100 y pen fesul blwyddyn ar gyfer deiliaid cyllidebau iechyd personol GIP. Roedd hyn yn cynnwys newidiadau i gostau uniongyrchol a chostau anuniongyrchol ac roedd y rhan fwyaf o bobl yn byw yn eu cartrefi eu hunain.[74]

7.208 Dangosodd gwerthusiad o raglen beilot ar gyllidebau iechyd personol yn Lloegr fod cael gafael ar daliadau uniongyrchol ar gyfer GIP yn gysylltiedig ag ansawdd bywyd a llesiant seicolegol gwell sy'n ymwneud â gofal.[75]

7.209 Nododd rhai o'r ymatebwyr i'r ymgynghoriad ar y cynnig i gyflwyno taliadau uniongyrchol ar gyfer GIP yng Nghymru fanteision tebygol yr opsiwn hwn ochr yn ochr â mwy o lais a rheolaeth, gan gynnwys:

- Ansawdd gofal gwell yn sgil y ffaith bod pecynnau GIP yn fwy priodol ar gyfer derbynyddion newydd o gymharu â gofal a ddarperir gan yr awdurdod lleol;
- Gwell parhad gofal a chwarae teg rhwng gofal cymdeithasol a gofal iechyd, a rhwng derbynyddion GIP yng Nghymru a Lloegr;
- Gweithio mewn partneriaeth gwell rhwng awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol;
- Gwell mynediad at ofal yn yr iaith o'u dewis, er enghraifft, y Gymraeg ac ieithoedd eraill.

7.210 Nododd rhai o'r ymatebwyr i'r ymgynghoriad ar gynigion y Bil rai anfanteision posibl, gan gynnwys:

- Posibilrwydd o waethygu ansawdd gofal derbynyddion GIP pan fyddant yn comisiynu eu gofal eu hunain gan ddefnyddio taliadau uniongyrchol, a hynny heb brosesau rheoleiddio o ddydd i ddydd gan y GIG, ac y gallant wynebu canlyniadau niweidiol o ganlyniad;[76]
- heriau o ran capasiti'r system gofal cymdeithasol gan arwain at unigolion yn methu â dod o hyd i wasanaethau addas;
- posibilrwydd o waethygu amodau gwaith Cynorthwywyr Personol a gyflogir drwy daliadau uniongyrchol, heb sicrwydd o gael eu cyflogi'n uniongyrchol gan gyflogwr mawr fel y GIG.

7.211 Ers yr ymgynghoriad, mae manteision posibl eraill wedi'u nodi, gan gynnwys:

- Gwell gwerth cymdeithasol – hynny yw, bod y bunt leol yn cael ei chadw o fewn economïau lleol ac nad yw'n cael ei defnyddio i ariannu darparwyr gofal mawr nad ydynt wedi'u lleoli'n lleol.

---

[74] GIG Lloegr » Tystiolaeth ac astudiaethau achos
[75] Crynodeb gweithredol (phbe) – paragraff 12
[76] Mae hwn yn bryder dilys iawn ond nid yw'r dystiolaeth o Loegr wedi cadarnhau'r pryder, yn bennaf oherwydd y strwythurau, yr hyfforddiant a'r gweithdrefnau o ran yswiriant sydd ar waith.

- Modelau gofal eraill yn lleihau'r straen o ran materion presennol sy'n ymwneud â recriwtio'r gweithlu gofal.
- Cleifion yn aros gartref lle y byddai'n well ganddynt fod, ac am gost is na chost lleoliadau mewn cartrefi gofal.

**<u>Diwygiadau i Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016</u>**

7.212 Fel y nodir ym Mhennod 3, bydd y Bil yn gwneud nifer o ddiwygiadau i'r drefn reoleiddio ar gyfer gwasanaethau rheoleiddiedig a'r gweithlu gofal cymdeithasol, er mwyn helpu'r fframwaith rheoleiddio i weithredu'n fwy effeithiol.

<u>Dyletswydd i gyflwyno a chyhoeddi datganiadau blynyddol</u>

**Opsiynau, costau a manteision**

7.213 Ystyriwyd dau opsiwn yn yr asesiad hwn, sef:

**Opsiwn 1: Peidio â diwygio Deddf 2016**

7.214 Dyma'r opsiwn 'dim newid' neu'r opsiwn sylfaenol, a fyddai'n parhau i osod y gofyniad i gyhoeddi datganiadau blynyddol ar Weinidogion Cymru (AGC).

**Costau**

7.215 Nid oes unrhyw gostau ychwanegol o dan yr opsiwn sylfaenol hwn.

7.216 Bydd cadw'r gofyniad ar Weinidogion Cymru (AGC) i gyhoeddi datganiadau blynyddol yn golygu cost o ran amser i staff AGC wirio'r datganiadau ar gyfer achosion posibl o dor diogelwch data neu ar gyfer gwybodaeth arall na fyddai, o bosibl, yn briodol ei chyhoeddi. Bydd hyn yn parhau i roi baich ar arolygwyr, gan eu tynnu i ffwrdd oddi wrth eu rôl graidd o reoleiddio gwasanaethau.

7.217 Ar gyfer 2023-24, cafodd AGC 945 o ddatganiadau blynyddol. Defnyddiodd ddeallusrwydd artiffisial i nodi'r rhai yr oedd angen eu harchwilio ymhellach. Nododd y system fod angen gwirio 455 o ddatganiadau blynyddol. Yna cafodd y datganiadau hyn eu trosglwyddo yn ôl i'r darparwr i'w cywiro cyn eu hailgyflwyno. Roedd angen gwirio rhai datganiadau blynyddol sawl gwaith os nad oedd darparwyr yn mynd i'r afael yn ddigonol â'r materion a godwyd. Arweiniodd hyn at wneud cyfanswm o 766 o wiriadau, a gymerodd tua 400 awr.

7.218 Pe bai AGC, yn anfwriadol, yn cyhoeddi datganiadau blynyddol sy'n cynnwys gwybodaeth bersonol, megis enwau pobl sy'n byw mewn gwasanaeth rheoleiddiedig, mae'n bosibl y byddent yn mynd yn groes i

Reoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data (GDPR y DU). Gallai'r gost i Lywodraeth Cymru o dor diogelwch data fod yn sylweddol iawn, gan fod gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) y pŵer i roi dirwyon i sefydliadau sy'n torri cyfreithiau diogelu data. Byddai unrhyw ddirwy yn seiliedig ar drosiant Llywodraeth Cymru a gallai'r ddirwy uchaf fod yn £0.5bn. Fodd bynnag, oherwydd y ffactorau lliniaru y mae AGC wedi'u rhoi ar waith, gan gynnwys gofyn i ddarparwyr beidio â chynnwys gwybodaeth bersonol yn eu datganiadau, a gwirio'r holl ddatganiadau blynyddol, mae dirwy o'r maint hwn yn annhebygol iawn.

**Manteision**

7.219 Roedd chwarter y bobl a ymatebodd i'r rhan hon o'r ymgynghoriad (16 o’r 65 o ymatebwyr) yn anghytuno neu'n tueddu i anghytuno â'r cynnig i'w gwneud yn ofynnol i ddarparwyr gwasanaethau, yn hytrach nag AGC, gyhoeddi datganiadau blynyddol. Roedd yr adborth gan sawl ymatebydd yn mynegi pryderon am ddarparwyr nad oes ganddynt wefan, o bosibl, ac a fyddai'n gorfod creu un er mwyn bodloni’r gofyniad hwn. Gwnaeth un ymatebydd sylw ar y cyfrifoldeb gweinyddol ychwanegol y byddai'r cynnig yn ei greu. Mae hyn yn awgrymu y byddai'n well gan rai darparwyr i AGC gadw'r cyfrifoldeb am gyhoeddi datganiadau blynyddol.

7.220 Mae AGC wedi cyhoeddi datganiadau blynyddol darparwyr gwasanaethau yn eu cyfeiriadur, ochr yn ochr â gwybodaeth allweddol am wasanaethau, megis manylion cyswllt y gwasanaeth ac adroddiadau arolygu. Byddai cael yr wybodaeth hon mewn un lle o fudd i'r cyhoedd, i'w helpu i gymharu gwasanaethau. Bydd gosod y gofyniad ar ddarparwyr gwasanaethau i gyhoeddi datganiadau blynyddol ar eu gwefan yn golygu na fydd y rhain yn cael eu cyhoeddi yng nghyfeiriadur cyhoeddus AGC ac y bydd rhaid i bobl chwilio amdanynt ar wahân.

**Anfanteision**

7.221 Fel y nodir yn yr adran ar gostau, bydd opsiwn un yn cadw baich sylweddol ar AGC o ran gwirio'r datganiadau blynyddol ar gyfer tor diogelwch data a difenwi posibl.

**Risgiau**

7.222 Mae cadw'r gofyniad i AGC gyhoeddi datganiadau blynyddol yn creu atebolrwydd i Weinidogion Cymru o safbwynt diogelu data a difenwi mewn cysylltiad ag unrhyw beth a gynhwysir yn y datganiadau.

7.223 Byddai cyhoeddi gwybodaeth bersonol mewn datganiad blynyddol – megis enwau unigolion yn y gwasanaeth – yn torri cyfreithiau diogelu data. Gallai hyn fod yn niweidiol i enw da Llywodraeth Cymru a gallai arwain at ddirwy gan yr ICO. Fan leiaf, mae delio â chanlyniadau tor diogelwch data yn debygol o gymryd llawer o amser i AGC. Gallai cyhoeddi gwybodaeth bersonol hefyd achosi gofid i'r rhai y mae eu

gwybodaeth wedi'i rhannu heb eu caniatâd. Gallai fod goblygiadau iddo hefyd o ran diogelu.

7.224 Mae gwirio'r datganiadau rhag ofn eu bod yn cynnwys gwybodaeth amhriodol yn peri risg o ran amser AGC. Fel y nodir yn yr adran ar gostau, cymerodd gyfanswm o 400 awr i staff AGC wirio'r datganiadau blynyddol. Mae hyn yn lleihau'r amser y gall staff ei dreulio ar faterion eraill sy'n gysylltiedig â sicrhau ansawdd a diogelwch gwasanaethau.

**Opsiwn 2:**

**Diwygio Deddf 2016 er mwyn:**

- I. **ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr gwasanaethau gyhoeddi datganiadau blynyddol ar eu gwefan,**
- II. **cynnwys pŵer i wneud rheoliadau i ragnodi'r terfyn amser ar gyfer cyhoeddi'r datganiad blynyddol,**
- III. **creu trosedd am fethu â chyhoeddi datganiad blynyddol, a**
- IV. **galluogi'r drosedd honno i gael ei thrin drwy hysbysiad cosb gyda chosb sy'n cyfateb i'r un o fethu â chyflwyno datganiad blynyddol.**

**Costau**

7.225 Un o'r materion y tynnwyd sylw atynt yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad oedd y gost i ddarparwyr gwasanaethau o ran datblygu a chynnal gwefan. Rydym yn ymwybodol bod gan o leiaf 66% o ddarparwyr wefan eisoes, gan eu bod wedi cynnwys eu cyfeiriadau gwefan yn eu datganiadau blynyddol ar gyfer 2023-24. Fodd bynnag, gan mai data gwirfoddol yw hwn, gallai'r ganran wirioneddol o ddarparwyr sydd â gwefan fod yn uwch gan y gallent fod wedi dewis peidio â chynnwys yr wybodaeth hon yn eu datganiad blynyddol.

7.226 Mae cost datblygu a chynnal gwefan yn amrywio'n fawr oherwydd nifer o ffactorau, gan gynnwys cymhlethdod y safle, ei nodweddion, ei arddull a'i ymarferoldeb. Gellir sefydlu gwefan sylfaenol am ddim heb unrhyw sgiliau datblygu gwe drwy ddefnyddio adeiladwr gwefan sy'n darparu templed i ddefnyddwyr ychwanegu manylion am eu gwasanaethau. Bydd rhai systemau adeiladu gwefannau yn darparu opsiwn tanysgrifio am gost fach am nodweddion ychwanegol a dileu eu baner hysbysebu. Mae gwefan fwy soffistigedig sydd wedi'i dylunio gan ddylunydd gwe, ac iddi nodweddion pwrpasol, gwell ymarferoldeb a pheiriant chwilio mwy effeithiol, yn debygol o gostio miloedd o bunnoedd.

7.227 Rydym o'r farn y byddai gwefan sylfaenol yn ddigonol at ddiben cyhoeddi datganiad blynyddol ac y gallai darparwyr hefyd gael rhywfaint o fudd o gael gwefan i sicrhau bod manylion eu gwasanaeth(au) ar gael yn gyhoeddus.

7.228 Rydym yn amcangyfrif y byddai'n cymryd tuag 20 awr i fusnes bach sefydlu gwefan sylfaenol. Mae'r Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion

(ASHE) yn darparu ffigurau ar enillion yr awr ar gyfer gwahanol alwedigaethau ar draws y gwahanol ranbarthau. Mae'r tabl isod yn nodi'r ffigurau ar gyfer y tair galwedigaeth fwyaf perthnasol yn nata'r arolwg. Felly, mae'r gost o sefydlu gwefan yn debygol o fod rhwng £410 a £700. Yn seiliedig ar y ffaith fod 1,060 o ddarparwyr yng Nghymru a rhagdybiaeth nad oes gan draean o'r rheini wefan ar hyn o bryd, amcangyfrifir bod y gost gyfanredol ar gyfer sefydlu gwefannau rhwng £144,730 a £247,100. Disgwylir mai cost untro yn 2025-26 fydd hon. Ni fydd llwytho'r adroddiad blynyddol i'r wefan bob blwyddyn yn cymryd llawer o amser ac ni ddisgwylir i hynny greu baich ariannol ychwanegol.

**Tabl 7.41**

| Galwedigaeth | Cyflog gros yr awr (canolrif, Cymru, 2022) | Cyflog gros yr awr, gan gynnwys argostau (30%) | Cost creu gwefan (gan ragdybio y byddai'n cymryd 20 awr, wedi'i thalgrynnu i'r £10 agosaf) |
|---|---|---|---|
| Rheolwyr a Chyfarwyddwyr ym maes Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | 27.15 | 35.30 | 700 |
| Rheolwyr a Pherchnogion ym maes Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | 20.07 | 26.09 | 520 |
| Galwedigaethau gweinyddol – Rheolwyr a goruchwylwyr swyddfa | 15.88 | 20.64 | 410 |

Ffynhonnell: Enillion ac oriau a weithiwyd, rhanbarth yn ôl galwedigaeth a SOC pedwar digid: ASHE Tabl 15 - y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ons.gov.uk)

*Troseddau*

7.229 Mae'n drosedd o dan adran 48 o Ddeddf 2016 i ddarparwr gwasanaeth fethu â chyflwyno datganiad blynyddol i Weinidogion Cymru (AGC).

7.230 O dan adran 52 o Ddeddf 2016, caiff Gweinidogion Cymru osod hysbysiad cosb os ydynt wedi’u bodloni bod y darparwr gwasanaeth wedi cyflawni trosedd ragnodedig. Mae hyn yn cynnwys methu â chyflwyno datganiad blynyddol. Mae Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Hysbysiadau Cosb) (Cymru) 2019 yn nodi mai'r gosb sydd i'w thalu yw

swm sy'n cyfateb i lefel 4 ar y raddfa safonol (mae hyn yn cyfateb i £2,500).

7.231 Felly, mae Gweinidogion Cymru o'r farn mai doeth fyddai creu trosedd o fethu â chyhoeddi datganiad blynyddol, sy'n gyfwerth â'r un o dan adran 48 o fethu â chyflwyno datganiad blynyddol. Byddai'r gosb am y drosedd newydd yr un fath â'r gosb am y drosedd gyfredol.

7.232 Rydym yn rhag-weld y byddai unrhyw achosion o dorri'r drosedd newydd hon – methiant i gyhoeddi datganiad blynyddol – yr un fath â thorri'r drosedd bresennol o dan adran 48 – methu â chyflwyno datganiad blynyddol. 2022-23 oedd blwyddyn gyntaf y gofyniad i gyflwyno datganiadau blynyddol, oherwydd yr oedi cyn gweithredu'r ddarpariaeth hon yn y Ddeddf. Rydym yn ymwybodol bod 150 o ddarparwyr wedi methu â chyflwyno eu datganiad blynyddol erbyn y dyddiad gofynnol, gan felly fynd yn groes i’r gofyniad yn y Rheoliadau. Er y gellid ymdrin â hyn drwy hysbysiad cosb, nid yw'r cynllun wedi'i weithredu gan AGC eto. Mae AGC yn defnyddio’i bwerau gorfodi sifil i fynd i'r afael ag achosion o fynd yn groes i’r gofyniad hwn, er enghraifft drwy adlewyrchu'r diffyg cydymffurfio hwn mewn adroddiadau arolygu.

7.233 Gan mai 2022-23 oedd blwyddyn gyntaf y gofyniad i gyflwyno datganiadau blynyddol, mae'n bosibl y bydd cydymffurfedd uwch yn 2023-24 wrth i ddarparwyr gwasanaethau ddod yn fwy cyfarwydd â'r gofyniad.

**Manteision**

7.234 Mae opsiwn dau yn cynnal y bwriad polisi gwreiddiol o ddarparu gwybodaeth wrthrychol a chymaradwy i ddinasyddion am wasanaethau rheoleiddiedig. Bydd gosod y gofyniad i gyhoeddi datganiadau blynyddol ar ddarparwyr gwasanaethau yn arbed amser i'r arolygiaeth gan na fydd angen iddi ddefnyddio staff i wirio'r datganiadau am achosion posibl o dor diogelwch data neu am wybodaeth arall nad yw'n briodol ei chyhoeddi. Bydd hyn yn lleihau'r baich ar staff AGC yn fawr, gan eu galluogi i ganolbwyntio ar eu rôl graidd o reoleiddio gwasanaethau. Byddai'r staff a fyddai’n cynnal y gwiriadau hyn ar lefel Cymorth Tîm, sy'n golygu costau staff o £33,900 y flwyddyn (gan gynnwys argostau). Mae hyn yn gyfystyr â £20.84 yr awr. Byddai arbediad o 400 awr, felly, yn cyfateb i oddeutu £8,300 y flwyddyn. Arbediad costau cyfle yw hyn yn hytrach na mantais sy'n rhyddhau arian parod. Mae disgwyl i'r arbedion blynyddol hyn gronni o 2025-26.

**Anfanteision**

7.235 Byddai ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr gwasanaethau gael gwefan i gyhoeddi datganiadau blynyddol yn gofyn am fuddsoddiad bach o ran amser, a gallai achosi costau os nad oes ganddynt wefan eisoes.

**Risgiau**

7.236 Nid yw Deddf 2016 na Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Datganiadau Blynyddol) (Cymru) 2017, fel y'u diwygiwyd, yn cynnwys amserlen ar gyfer cyhoeddi datganiadau blynyddol gan Weinidogion Cymru. Rhagwelir y bydd gosod y gofyniad ar ddarparwyr gwasanaethau heb bennu amserlen yn arwain at anghysondebau o ran amseroedd cyhoeddi ar draws gwasanaethau. Er mwyn lliniaru'r risg hon, y bwriad yw cynnwys pŵer i wneud rheoliadau sy'n galluogi Gweinidogion Cymru i osod amserlen ar gyfer eu cyhoeddi. Mae'n fwy priodol gwneud hyn mewn rheoliadau nag ar wyneb y Ddeddf.

Amrywio a chanslo cofrestriad darparwr gwasanaeth heb gais: y gweithdrefnau hysbysu

**Opsiynau, costau a manteision**

7.237 Ystyriwyd dau opsiwn yn yr asesiad hwn, sef:

**Opsiwn 1: Peidio â diwygio Deddf 2016**

7.238 Dyma'r opsiwn ‘dim newid’ neu'r opsiwn sylfaenol a fyddai'n cynnal y prosesau presennol.

**Costau**

7.239 O dan opsiwn un, byddai'n parhau'n ofynnol i AGC ddilyn y gweithdrefnau hysbysiadau gwella (yn adrannau 16 a 17 o Ddeddf 2016) wrth ganslo cofrestriad darparwyr gwasanaeth heb gais, o dan adran 15 o'r Ddeddf hyd yn oed pan na fyddai cam gweithredu o'r fath yn effeithlon nac yn berthnasol yn ymarferol, gan mai'r sail dros ganslo fyddai nad oes modd gwneud unrhyw welliant. Yn yr un modd, byddai’n parhau’n ofynnol i AGC ddilyn y gweithdrefnau hysbysiadau gwella wrth amrywio cofrestriad darparwr gwasanaeth i ddileu lle, waeth beth fo'r amgylchiadau. Mae opsiwn un yn cynnal camau diangen ym mhrosesau gorfodi AGC, gan arafu'r system ac arwain at oblygiadau costau o ran amser AGC.

**Manteision**

7.240 Rydym o’r farn nad oes unrhyw fudd o gadw camau o fewn prosesau gorfodi AGC nad oes iddynt unrhyw fanteision amlwg.

**Anfanteision**

7.241 Mae opsiwn un yn cynnal camau diangen ym mhrosesau gorfodi AGC, gan arafu'r system a lleihau'r amser i arolygwyr AGC ganolbwyntio ar faterion eraill pwysicach.

**Risgiau**

7.242 O dan opsiwn un, mae risg y bydd cynnal prosesau gorfodi diangen yn lleihau'r amser y gallai arolygwyr ei dreulio ar waith mwy gwerthfawr.

**Opsiwn 2: Diwygio Deddf 2016 i newid prosesau diangen a rhoi mwy o hyblygrwydd i AGC wrth amrywio neu ganslo cofrestriad darparwr heb gais o dan amgylchiadau penodol**

**Costau**

7.243 Bydd Opsiwn 2 yn darparu bod rhaid dilyn y weithdrefn hysbysiad o gynnig (gweler adran 18 ac adran 19 o Ddeddf 2016), yn hytrach na'r weithdrefn hysbysiad gwella (gweler adran 16 ac adran 17 o'r Ddeddf), lle caiff cofrestriad darparwr gwasanaeth ei ganslo o dan adran 15 o Ddeddf 2016 (heb gais) ar un o'r seiliau canlynol:

i. Mae'r darparwr gwasanaeth wedi ei gollfarnu o drosedd berthnasol, neu wedi cael rhybuddiad mewn cysylltiad â throsedd berthnasol.
ii. Nid yw Gweinidogion Cymru wedi’u bodloni bellach fod y darparwr gwasanaeth yn berson addas a phriodol i fod yn ddarparwr gwasanaeth.
iii. Nid yw'r darparwr gwasanaeth bellach yn darparu unrhyw wasanaethau rheoleiddiedig.

7.244 Bydd Opsiwn 2 yn newid y weithdrefn sydd i'w dilyn wrth amrywio cofrestriad darparwr gwasanaeth, yn dibynnu ar y sail dros amrywio. Bydd yn darparu bod rhaid dilyn y weithdrefn hysbysiad o gynnig (gweler adran 18 ac adran 19 o Ddeddf 2016), yn hytrach na'r weithdrefn hysbysiad gwella, pan fo’r canslo’n digwydd ar unrhyw un o'r seiliau canlynol lle nad oes unrhyw welliant yn bosibl:

i. Nid yw'r darparwr gwasanaeth bellach yn darparu'r gwasanaeth hwnnw.
ii. Nid yw'r darparwr gwasanaeth bellach yn darparu gwasanaeth rheoledig yn y lle hwnnw neu mewn perthynas ag ef.

7.245 Bydd Opsiwn 2 yn galluogi AGC i amrywio cofrestriad darparwr gwasanaeth drwy gael gwared ar le os yw'n fodlon bod yr unigolyn cyfrifol a ddynodwyd mewn perthynas â'r lle hwnnw, neu unrhyw berson arall, wedi'i gollfarnu am drosedd berthnasol neu wedi cael rhybudd mewn cysylltiad â gwasanaeth rheoleiddiedig a ddarperir gan y darparwr gwasanaeth yn y lle hwnnw, o’r lle hwnnw nac mewn perthynas â'r lle hwnnw. Bydd y weithdrefn hysbysiad gwella yn gymwys pan fo amrywiad ar y sail hon.

7.246 Bydd hyn yn sicrhau mai’r weithdrefn hysbysu a ddefnyddir yw'r un sydd fwyaf priodol i'r amgylchiad. O'r herwydd, nid ydym yn ystyried y bydd unrhyw gostau ychwanegol yn gysylltiedig â'r opsiwn hwn.

**Manteision**

7.247 Mae'r newidiadau hyn yn mynd i'r afael â materion na ddaeth i'r amlwg nes i'r Ddeddf gael ei sefydlu. Bydd y newidiadau hyn yn galluogi AGC i

ddefnyddio dull mwy priodol mewn amgylchiadau penodol, gan arbed amser iddyn nhw ac i ddarparwyr.

**Anfanteision**

7.248 Nid ydym o'r farn bod unrhyw anfanteision yn gysylltiedig â'r opsiwn hwn.

**Risgiau**

7.249 Bydd yn ofynnol i AGC anfon hysbysiad o gynnig i ddarparwr yn hytrach na hysbysiad gwella os yw unrhyw un o'r tair sail a ddiffinnir yn adran 15 (1), fel y'i diwygiwyd, yn gymwys. Y rhesymau hyn yw:

i. Mae'r darparwr gwasanaeth wedi'i gollfarnu o drosedd berthnasol, neu wedi cael rhybuddiad mewn cysylltiad â throsedd berthnasol.
ii. Nid yw Gweinidogion Cymru wedi'u bodloni bellach fod y darparwr gwasanaeth yn berson addas a phriodol i fod yn ddarparwr gwasanaeth.
iii. Nid yw'r darparwr gwasanaeth bellach yn darparu unrhyw wasanaethau rheoleiddiedig.

7.250 Bydd yn ofynnol i AGC anfon hysbysiad o gynnig yn hytrach na hysbysiad gwella os yw unrhyw un o'r ddau sail a ddiffinnir yn adran 13(3)(a) a 13(4)(a) yn gymwys. Y rhesymau hyn yw:

i. Nid yw'r darparwr gwasanaeth bellach yn darparu'r gwasanaeth.
ii. Nid yw'r darparwr gwasanaeth bellach yn darparu gwasanaeth rheoleiddiedig yn y lle hwnnw, o'r lle hwnnw nac mewn perthynas âr lle hwnnw.

7.251 Hysbysiad o gynnig yw hysbysiad sy'n hysbysu'r darparwr am y penderfyniad y mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu ei wneud ac yn rhoi'r cyfle i'r darparwr gwasanaeth gyflwyno sylwadau ysgrifenedig o fewn cyfnod penodol o amser, y mae'n rhaid iddo fod o leiaf 28 diwrnod. Gallai hysbysiad o'r fath hefyd roi cyfle i'r darparwr gywiro'r sefyllfa drwy ddarparu terfyn amser ar gyfer gwneud pethau penodol i osgoi bod y camau yn cael eu cymryd. Bydd hyn yn lliniaru unrhyw risg bod y rheoleiddiwr yn camgymryd yn ei dystiolaeth.

7.252 Bydd yn ofynnol i AGC anfon hysbysiad gwella os yw'n ceisio amrywio cofrestriad darparwr gwasanaeth drwy dynnu lle os yw wedi'i fodloni fod yr unigolyn cyfrifol a ddynodwyd mewn perthynas â'r lle hwnnw, neu unrhyw berson arall, wedi'i gollfarnu o drosedd berthnasol, neu wedi cael rhybuddiad ynglŷn â throsedd berthnasol, mewn cysylltiad â gwasanaeth rheoleiddiedig a ddarperir gan y darparwr gwasanaeth yn y lle hwnnw.

7.253 Hysbysiad o fwriad i ganslo yw hysbysiad gwella ac mae'n rhoi cyfle i'r darparwr gywiro'r sefyllfa. Rhaid i hysbysiad gwella bennu terfyn amser erbyn pryd y mae'n rhaid cymryd y camau gweithredu y mae Gweinidogion Cymru yn eu hystyried yn angenrheidiol i osgoi canslo. Bydd hyn yn lliniaru unrhyw risg bod y rheoleiddiwr yn camgymryd o ran ei dystiolaeth.

Cais i ganslo cofrestriad darparwr gwasanaeth: yr wybodaeth sydd i’w darparu

**Opsiynau, costau a manteision**

7.254 Ystyriwyd dau opsiwn yn yr asesiad hwn, sef:

**Opsiwn 1: Peidio â diwygio Deddf 2016**

7.255 Dyma'r opsiwn ‘dim newid’ neu'r opsiwn sylfaenol a fyddai'n cynnal y prosesau presennol.

**Costau**

7.256 O dan opsiwn un, nid yw'n ofynnol i ddarparwyr gwasanaethau sy'n gwneud cais i ganslo eu cofrestriad ddarparu gwybodaeth i AGC sy'n nodi sut y maent yn bwriadu parhau i gydymffurfio â *Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017* hyd nes y bydd eu gwasanaeth yn peidio â chael ei ddarparu. Mae hyn yn creu gwahaniaeth rhwng y darparwyr hyn a darparwyr sy'n gwneud cais i amrywio eu cofrestriad i ddileu gwasanaeth o dan adran 11 o Ddeddf 2016 (y *mae'n* ofynnol iddynt gyflwyno gwybodaeth o'r fath yn rhinwedd y pŵer gwneud rheoliadau sydd wedi'i gynnwys yn yr adran honno).

7.257 Nid ydym o’r farn bod unrhyw gostau uniongyrchol yn gysylltiedig ag opsiwn un.

**Manteision**

7.258 O dan opsiwn un, ni fydd rhaid i ddarparwyr sy'n gwneud cais i ganslo eu cofrestriad roi gwybod i AGC sut y maent yn bwriadu parhau i gydymffurfio â *Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017* hyd nes y bydd eu gwasanaeth yn peidio â chael ei ddarparu. Mae hyn yn debygol o gymryd llawer o amser i ddarparwyr ei wneud, ac mae'n bosibl y byddai'n well ganddynt beidio â gorfod cyflwyno'r wybodaeth hon.

**Anfanteision**

7.259 Os nad oes angen i ddarparwyr sy'n dymuno canslo cofrestriad gyflwyno gwybodaeth i AGC sy'n nodi sut y byddant yn cynnal safonau ansawdd nes bod y gwasanaeth yn dod i ben, mae hyn yn anghyson â'r gofyniad am wybodaeth o'r fath pan fydd darparwyr yn gwneud cais i amrywio eu cofrestriad i ddileu gwasanaeth. Mae'r bwlch hwn mewn gwybodaeth yn llesteirio gallu AGC i fod yn sicr o ddiogelwch a llesiant parhaus unigolion sy'n defnyddio'r gwasanaeth nes iddo gau.

**Risgiau**

7.260 Os nad oes angen i ddarparwyr sy'n dymuno canslo eu cofrestriad ddarparu gwybodaeth i AGC sy'n nodi sut y byddant yn cynnal safonau

ansawdd nes bod y gwasanaeth yn dod i ben, mae hyn yn anghyson â'r gofyniad am wybodaeth o'r fath pan fydd darparwyr yn gwneud cais i amrywio eu cofrestriad i ddileu gwasanaeth. Mae'r bwlch hwn mewn gwybodaeth yn llesteirio gallu AGC i fod yn sicr o ddiogelwch a llesiant parhaus unigolion sy'n defnyddio'r gwasanaeth nes iddo gau.

**Opsiwn 2: Diwygio Deddf 2016**
**- rhoi pŵer i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau i'w gwneud yn ofynnol i wybodaeth gael ei darparu gan ddarparwyr sy'n gwneud cais i ganslo eu cofrestriad.**

**Costau**

7.261 Bydd yr opsiwn hwn yn creu pŵer i wneud rheoliadau o dan adran 14 i ganiatáu i Weinidogion Cymru (AGC) ei gwneud yn ofynnol i gais i ganslo cofrestriad fel darparwr gwasanaeth gynnwys gwybodaeth benodedig a chael ei gwneud ar ffurf ragnodedig. Bydd hyn yn galluogi Gweinidogion Cymru i'w gwneud yn ofynnol i ddarparwyr gwasanaethau ddarparu gwybodaeth ynghylch sut y maent yn bwriadu cydymffurfio â Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017, hyd nes y bydd y gwasanaeth yn cau, ac i nodi ar ba ffurf y dylid cyflwyno'r wybodaeth. Bydd hyn yn creu cost o ran amser i Lywodraeth Cymru wrth ddrafftio Rheoliadau i roi effaith i hyn. Amcangyfrifir y byddai'r gofyniad i ddarparwyr gyflwyno datganiad ynghylch sut y byddant yn cydymffurfio â safonau ansawdd yn cymryd tua 4 awr i'w wneud.

7.262 Mae'r Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion (ASHE) yn darparu ffigurau ar enillion yr awr ar gyfer gwahanol alwedigaethau ar draws y gwahanol ranbarthau. Mae'r tabl isod yn nodi'r ffigurau ar gyfer rheolwyr a chyfarwyddwyr iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, y byddai'n ofynnol iddynt gwblhau'r datganiad hwn. Yn seiliedig ar yr amcangyfrif y byddai datganiad yn cymryd 4 awr i'w wneud, mae'r gost yn debygol o fod oddeutu £140 y datganiad. Ar hyn o bryd, nid oes modd barnu faint o ddarparwyr gwasanaethau fydd yn gadael y farchnad yng Nghymru yn y dyfodol, ac felly nid oes modd cydgrynhoi'r gost hon. Felly, nid yw'r gost gyfanredol yn hysbys.

**Tabl 7.42**

| Galwedigaeth | Cyflog gros yr awr (canolrif, Cymru, 2022) | Cyflog gros yr awr, gan gynnwys argostau (30%) | Cost cwblhau datganiad (gan ragdybio y byddai'n cymryd 4 awr, wedi'i thalgrynnu i'r £10 agosaf) |
|---|---|---|---|
| Rheolwyr a Chyfarwyddwyr ym maes Iechyd a | 27.15 | 35.30 | 140 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Gwasanaethau Cymdeithasol | | | |

**Manteision**

7.263 Bydd y diwygiad arfaethedig yn sicrhau bod gan AGC y pwerau cyfreithiol angenrheidiol i'w gwneud yn ofynnol bod gwybodaeth yn cael ei darparu gan ddarparwr gwasanaeth sy'n gadael y farchnad ac yn canslo ei gofrestriad. Bydd yr wybodaeth yn rhoi sicrwydd i AGC y gall y gwasanaeth barhau i gefnogi diogelwch a llesiant unigolion yn y gwasanaeth. Bydd yn creu eglurder i ddarparwyr gwasanaethau am yr wybodaeth sydd i'w disgwyl o dan yr amgylchiadau hyn. Bydd hefyd yn cysoni'r dull gweithredu ar gyfer darparwyr gwasanaethau sy'n gadael y farchnad â’r dull gweithredu ar gyfer y rhai sy'n amrywio eu cofrestriad.

**Anfanteision**

7.264 Nid ydym o’r farn bod unrhyw anfanteision yn gysylltiedig â'r opsiwn hwn.

**Risgiau**

7.265 Nid ydym o’r farn bod unrhyw risgiau o dan yr opsiwn hwn.

**Gwybodaeth, arolygiadau ac ymchwiliadau**

**Opsiynau, costau a manteision**

7.266 Ystyriwyd dau opsiwn yn yr asesiad hwn, sef:

**Opsiwn 1: Peidio â diwygio Deddf 2016**

7.267 Dyma'r opsiwn sylfaenol, ac felly nid oes unrhyw gostau ychwanegol yn gysylltiedig â'r opsiwn hwn.

**Costau**

7.268 Nid oes unrhyw gostau ychwanegol o dan yr opsiwn sylfaenol hwn.

7.269 Mae ymchwilio i wasanaethau sy'n gweithredu heb gofrestru yn rôl allweddol i AGC, ac yn un y mae’r sector yn ei deall yn dda, o gofio bod y pwerau hyn yn glir o dan y Ddeddf Safonau Gofal. Mae'r amcanion cyffredinol yn adran 4 o Ddeddf 2016 i ddiogelu, hyrwyddo a chynnal diogelwch a llesiant pawb sy'n defnyddio gwasanaethau rheoleiddiedig, yn nodi nad oedd y Cynulliad Cenedlaethol yn bwriadu lleihau'r pwerau sydd ar gael i arolygydd o'u cymharu â'r Ddeddf Safonau Gofal. Ar lefel weithredol, mae AGC yn parhau i ofyn am wybodaeth gan wasanaethau y credir eu bod yn gweithredu heb gofrestru yn ogystal â mynd i mewn i fangre (gyda chaniatâd) at ddibenion ymchwilio, lle bo angen. Mae data gan AGC yn dangos, rhwng Ionawr a Mehefin 2023, bod 161 o ymchwiliadau wedi’u cynnal i wasanaethau a oedd yn gweithredu heb gofrestru. Cynhaliodd AGC 13 ymweliad safle mewn cysylltiad â'r

gwasanaethau hyn, sy'n awgrymu bod tua 8% o'r gwasanaethau yr honnir eu bod yn gweithredu heb gofrestru yn gofyn am ymweliadau safle.

**Manteision**

7.270 Nid ydym o'r farn bod unrhyw fanteision yn gysylltiedig â'r opsiwn hwn.

**Anfanteision**

7.271 O dan y ddarpariaeth bresennol, nid oes gan AGC unrhyw bŵer i'w gwneud yn ofynnol i'r wybodaeth gael ei darparu os na wneir hynny'n wirfoddol ac nid oes ganddi'r pŵer i fynd i mewn i fangre heb ganiatâd.

**Risgiau**

7.272 Mae cadw'r geiriad presennol yn peri risg na fydd AGC yn gallu arfer ei swyddogaethau ymchwilio ac arolygu yn effeithiol, yn enwedig y rhai o dan adran 5 o'r Ddeddf, lle mae'n drosedd gweithredu gwasanaeth rheoleiddiedig heb fod wedi cofrestru.

**Opsiwn 2:**

**Diwygio Deddf 2016 i roi pŵer i Weinidogion Cymru ei gwneud yn ofynnol i berson sy'n darparu, neu sydd wedi bod yn darparu, gwasanaeth rheoleiddiedig nad yw wedi cofrestru mewn cysylltiad ag ef yn unol ag adran 7 o Ddeddf 2016 ddarparu gwybodaeth, a phŵer i fynd i mewn i fangre.**

**Costau**

7.273 Nid ydym o'r farn bod unrhyw gostau uniongyrchol ychwanegol yn gysylltiedig â'r cynnig hwn, gan fod yr arolygiaeth eisoes yn cyflawni'r swyddogaeth hon yn ymarferol, drwy ofyn am wybodaeth gan bersonau sydd (neu sydd wedi bod) yn darparu gwasanaeth rheoleiddiedig heb gofrestru a mynd i mewn i fangre (gyda chytundeb) at ddibenion ymchwiliad, lle bo angen.

**Manteision**

7.274 Bydd y diwygiadau hyn yn adfer y sefyllfa flaenorol o dan Ddeddf Safonau Gofal 2000 drwy roi'r pwerau cyfreithiol i Weinidogion Cymru (AGC yn ymarferol) i'w gwneud yn ofynnol i unigolion sy'n gweithredu gwasanaeth rheoleiddiedig heb gofrestru ddarparu gwybodaeth.

7.275 Bydd hyn yn helpu i ddiogelu pobl agored i niwed a allai wynebu risg drwy ddefnyddio gwasanaeth nad oes ganddo'r oruchwyliaeth neu'r mesurau angenrheidiol ar waith i sicrhau eu diogelwch a'u llesiant.

**Anfanteision**

7.276 Nid ydym o'r farn bod unrhyw anfanteision o dan yr opsiwn hwn.

**Risgiau**

7.277 Nid ydym o'r farn bod unrhyw risgiau o dan yr opsiwn hwn.

Llunio a chyhoeddi adroddiadau arolygu

Llunio adroddiadau arolygu

**Opsiynau, costau a manteision**

7.278 Ystyriwyd dau opsiwn yn yr asesiad hwn. Mae'r rhain fel a ganlyn:

**Opsiwn 1: Peidio â diwygio Deddf 2016**

7.279 Dyma'r opsiwn 'dim newid' neu'r opsiwn sylfaenol, a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol i AGC lunio adroddiad arolygu yn dilyn pob ymweliad â gwasanaeth i arolygu safon y gofal a'r cymorth a ddarperir.

**Costau**

7.280 Yr unig amgylchiadau pan fyddai AGC yn debygol o ymweld â gwasanaeth rheoleiddiedig cofrestredig heb gynnal arolygiad fyddai er mwyn casglu neu gael gafael ar dystiolaeth neu wybodaeth at ddibenion ymchwiliad troseddol. O dan opsiwn un, ceir risg fach y gallai ymweliad â gwasanaeth cofrestredig at y diben hwn gael ei ystyried yn arolygiad a fyddai'n gwneud llunio adroddiad arolygu yn ofynnol. Yn ymarferol, fodd bynnag, nid yw AGC yn llunio adroddiadau arolygu yn dilyn ymweliadau o'r fath. Gwneir diwygiad i Ddeddf 2016 i roi'r disgresiwn i Weinidogion Cymru fynd i'r afael â'r gofynion ynghylch cynnwys adroddiad arolygu i'r graddau a ystyrir yn gymesur. Nod hyn yw cydnabod amgylchiadau lle y caiff arolygydd fynd i mewn i fangre heb ei gwneud yn ofynnol iddo lunio adroddiad arolygu llawn. Bydd y diwygiad yn rhoi sicrwydd cyfreithiol ac yn cryfhau arferion presennol. Nid ydym felly o'r farn bod unrhyw gostau yn gysylltiedig â'r opsiwn hwn.

**Manteision**

7.281 Nid ydym o'r farn bod unrhyw fanteision yn gysylltiedig ag opsiwn un a allai ei gwneud yn ofynnol i AGC lunio adroddiad arolygu llawn pan nad oes angen.

**Anfanteision**

7.282 Pe bai'n ofynnol i AGC lunio adroddiad arolygu llawn yn dilyn ymweliad â gwasanaeth er mwyn casglu neu gael gafael ar dystiolaeth neu wybodaeth at ddibenion ymchwiliad troseddol, byddai'n cymryd llawer o amser ac ni fyddai o unrhyw fudd i'r cyhoedd.

**Risgiau**

7.283 O dan opsiwn un, mae risg y gallai ymweliad â gwasanaeth cofrestredig at y diben hwn gael ei ystyried yn arolygiad a fyddai'n gwneud llunio adroddiad arolygu yn ofynnol. Byddai hyn yn cymryd llawer o amser AGC ac ni fyddai o unrhyw fudd i'r cyhoedd.

**Opsiwn 2: Diwygio adran 36 o Ddeddf 2016 i ddarparu hyblygrwydd ychwanegol i Weinidogion Cymru (AGC) gydnabod amgylchiadau pan na fyddai llunio adroddiad arolygu llawn o bosibl yn gymesur.**

7.284 O dan yr opsiwn hwn, byddai Deddf 2016 yn ei gwneud yn glir bod AGC yn gallu arfer disgresiwn ynghylch cynnwys adroddiad arolygu i'r graddau a ystyrir yn gymesur yn dilyn ymweliad â'r gwasanaeth i gasglu neu gael gafael ar dystiolaeth neu wybodaeth at ddibenion ymchwiliad troseddol.

**Costau**

7.285 Nid oes unrhyw gostau nad arbedion costau ychwanegol yn gysylltiedig â'r opsiwn hwn.  Fel y nodwyd uchod, nid yw AGC ar hyn o bryd yn llunio adroddiad arolygu llawn ar ôl ymweld â gwasanaeth i gasglu neu gael gafael ar dystiolaeth neu wybodaeth at ddibenion ymchwiliad troseddol.

**Manteision**

7.286 O dan Opsiwn dau, byddai Deddf 2016 yn ei gwneud yn glir y caiff AGC arfer disgresiwn o ran cynnwys adroddiad arolygu yn dilyn ymweliad â'r gwasanaeth i gasglu neu gael gafael ar dystiolaeth neu wybodaeth at ddibenion ymchwiliad troseddol. Bydd hyn yn arbed amser ac ymdrech i arolygwyr AGC.

**Anfanteision**

7.287 Nid ydym o’r farn bod unrhyw anfanteision yn gysylltiedig â'r opsiwn hwn.

**Risgiau**

7.288 Nid ydym o’r farn bod unrhyw risgiau yn gysylltiedig â'r opsiwn hwn.

Cyhoeddi adroddiadau arolygu

7.289 Mae adran 36(3) o Ddeddf 2016 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi pob adroddiad arolygu. Mae hyn yn awgrymu y byddai cyhoeddi adroddiad arolygu yn gymwys i unrhyw weithgaredd arolygu a gynhelir gan AGC.

7.290 Mae AGC wedi nodi y gallai cyhoeddi adroddiadau arolygu sy'n ymwneud â chartrefi gofal i blant, neu gartrefi gofal bach lleol i oedolion agored i niwed, arwain at adnabod unigolion agored i niwed. Arfer presennol AGC yw ysgrifennu a chofnodi adroddiad arolygu ond peidio â'i gyhoeddi. Mae adroddiadau o'r fath ar gael ar gais gan AGC a'r darparwr, lle bo hynny'n briodol.

**Opsiynau, costau a manteision**

7.291 Ystyriwyd dau opsiwn yn yr asesiad hwn. Mae’r rhain fel a ganlyn:

**Opsiwn 1: Peidio â diwygio Deddf 2016**

7.292 Dyma'r opsiwn ‘dim newid’ neu'r opsiwn sylfaenol, a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol i AGC lunio adroddiad arolygu yn dilyn pob ymweliad â gwasanaeth i arolygu safon y gofal a'r cymorth a ddarperir.

**Costau**

7.293 Nid oes unrhyw gostau ychwanegol yn gysylltiedig â’r opsiwn hwn.

**Manteision**

7.294 Nid ydym o’r farn bod unrhyw fanteision yn gysylltiedig ag opsiwn un.

**Anfanteision**

7.295 Nid yw'r geiriad presennol yn Neddf 2016 yn rhoi digon o hyblygrwydd i AGC benderfynu ar yr amgylchiadau pan na fyddai'n briodol cyhoeddi adroddiad arolygu.

**Risgiau**

7.296 Nid yw'r geiriad presennol yn Neddf 2016 yn rhoi digon o hyblygrwydd i AGC benderfynu ar yr amgylchiadau pan na fyddai'n briodol cyhoeddi adroddiad arolygu.

**Opsiwn 2: Diwygio adran 36 o Ddeddf 2016 i ddileu'r gofyniad ynghylch cyhoeddi adroddiadau arolygu mewn amgylchiadau pan fyddai hynny'n**

**amhriodol gan ystyried lles pennaf unigolion y mae eu gofal a'u cymorth yn cael eu hasesu yn yr adroddiad. Nod hyn yw diogelu preifatrwydd pobl sy'n defnyddio gwasanaethau rheoleiddiedig.**

**Costau**

7.297 Yn ymarferol, nid yw AGC yn cyhoeddi adroddiadau arolygu sy'n ymwneud â chartrefi gofal i blant neu gartrefi gofal bach lleol i oedolion agored i niwed, a hynny yn y ddau achos oherwydd rhesymau diogelu. Fodd bynnag, bydd diwygiad i Ddeddf 2016 yn rhoi sicrwydd cyfreithiol ynghylch yr amgylchiadau pan fyddai'n amhriodol cyhoeddi adroddiad arolygu, gan gryfhau arferion presennol. Nid ydym felly o’r farn bod unrhyw gostau ychwanegol neu arbedion costau yn gysylltiedig â'r opsiwn hwn.

**Manteision**

7.298 Bydd y diwygiad yn diogelu preifatrwydd pobl sy'n defnyddio gwasanaethau rheoleiddiedig a bydd yn helpu i ddiogelu plant ac oedolion pan allai cyhoeddi'r adroddiad, yn anfwriadol, nodi'r unigolion sy'n byw yno. Fel y nodwyd uchod, er nad arfer presennol AGC yw cyhoeddi adroddiadau arolygu sy'n ymwneud â chartrefi gofal i blant, bydd y diwygiad hwn yn ategu'r sefyllfa hon.

**Anfanteision**

7.299 Nid ydym o’r farn bod unrhyw anfanteision yn gysylltiedig â'r opsiwn hwn.

**Risgiau**

7.300 Nid ydym o’r farn bod unrhyw risgiau yn gysylltiedig â'r opsiwn hwn.

<u>Diffinio 'gwasanaeth cartref gofal'</u>

**Opsiynau, costau a manteision**

7.301 Ystyriwyd dau opsiwn yn yr asesiad hwn. Mae’r rhain fel a ganlyn:

**Opsiwn 1: Peidio â diwygio Deddf 2016**

7.302 Dyma'r opsiwn 'dim newid' neu'r opsiwn sylfaenol a fyddai'n cynnal y geiriad presennol yn Neddf 2016.

**Costau**

7.303 Nid oes unrhyw gostau ychwanegol yn gysylltiedig â’r opsiwn hwn.

**Manteision**

7.304 Nid ydym o'r farn bod unrhyw fanteision yn gysylltiedig ag opsiwn un.

**Anfanteision a risgiau**

7.305 Mae opsiwn un yn parhau â'r amwysedd cyfreithiol o ran cofrestru darpariaeth cartrefi gofal awdurdodau lleol i blant.

7.306 Mae awdurdodau lleol sydd â chyfrifoldeb rhiant dros blentyn yn dod o dan y diffiniad o riant, ac o ganlyniad, ceir posibilrwydd y gallent ddadlau eu bod wedi'u heithrio rhag gorfod cofrestru yn wasanaeth cartref gofal i blant sy'n derbyn gofal gan eu hawdurdod eu hunain. Gyda'i gilydd, nid dyma yw effaith fwriadedig y darpariaethau, ac nid yw ychwaith yn unol â bwriad polisi Deddf 2016. Nid yw'n adlewyrchu arferion presennol.

**Opsiwn 2: Diwygio Deddf 2016 i roi eglurder ynghylch y diffiniad o wasanaeth cartref gofal**

**Costau**

7.307 Mae'r opsiwn hwn yn golygu newid technegol i eiriad Deddf 2016 ac ni ddisgwylir iddo arwain at unrhyw gostau ychwanegol. Er gwaethaf amwysedd posibl geiriad Deddf 2016, nid oes yr un awdurdod lleol hyd yma wedi ceisio dibynnu ar yr amwysedd hwn i osgoi cofrestru cartref gofal i blant.

**Manteision**

7.308 Bydd diwygio Deddf 2016 yn rhoi eglurder cyfreithiol ynghylch y diffiniad o wasanaeth cartref gofal a'r gofyniad i gofrestru gwasanaethau cartrefi gofal awdurdodau lleol i blant.

**Anfanteision**

7.309 Nid ydym o'r farn bod unrhyw anfanteision yn gysylltiedig â'r opsiwn hwn.

**Risgiau**

7.310 Nid ydym o'r farn bod unrhyw risgiau yn gysylltiedig â'r opsiwn hwn.

**<u>Diwygiadau i Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 mewn perthynas â darparwyr gwasanaethau - Crynodeb o'r costau a'r arbedion costau</u>**

7.311 Mae tablau 7.43 a 7.44 isod yn crynhoi'r costau ychwanegol a'r arbedion costau sy'n gysylltiedig â'r diwygiadau arfaethedig i Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016.

**Tabl 7.43: Costau ychwanegol**

| *£* | *2025-26* | *2026-27* | *2027-28* | *2028-29* | *2029-30* | *2030-31* | *2031-32* | *2032-33* | *2033-34* | *2034-35* |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Darpar-wyr | *144,700 – 247,100* | | | | | | | | | |

**Tabl 7.44: Arbedion costau ychwanegol**

| | 2025-26 | 2026-27 | 2027-28 | 2028-29 | 2029-30 | 2030-31 | 2031-32 | 2032-33 | 2033-34 | 2034-35 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| AGC | 8,300 | 8,300 | 8,300 | 8,300 | 8,300 | 8,300 | 8,300 | 8,300 | 8,300 | 8,300 |

7.312 Yn seiliedig ar y ffigurau hyn, mae gan yr opsiwn hwn Werth Presennol Net o rhwng £-71,000 a £-170,000 dros y cyfnod gwerthuso deng mlynedd. Fodd bynnag, ystyrir bod y manteision na ellir eu meintioli a nodwyd uchod yn cyfiawnhau'r gost hon.

***<u>Rheoleiddio'r gweithlu gofal cymdeithasol: Estyn gorchmynion interim yn ystod ymchwiliadau Addasrwydd i Ymarfer</u>***

**Opsiynau, costau a manteision**

**Opsiwn 1 - Gwneud dim – cynnal y status quo**

**Gofal Cymdeithasol Cymru (GCC)**

7.313 Ar hyn o bryd, gall paneli (paneli gorchmynion interim neu baneli addasrwydd i ymarfer y cyflwynir trafodion y gorchymyn interim ger eu bron) wneud gorchymyn interim mewn perthynas â pherson cofrestredig am hyd at 18 mis ar y mwyaf.

7.314 Nid oes gan baneli y pŵer ar hyn o bryd i estyn gorchymyn interim. Pe bai angen estyn gorchymyn interim, byddai'n ofynnol i GCC wneud cais i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf (y tribiwnlys) i ofyn am estyniad.

7.315 Yn 2022, gwnaeth GCC 56 o geisiadau i'r tribiwnlys i estyn gorchmynion interim, gan gostio £2,000 i GCC mewn costau gweinyddol a chyfreithiol am bob cais, sef cyfanswm o £112,000. Telir am y costau hyn o ddyraniad cymorth grant y rheoleiddiwr gan Lywodraeth Cymru fel rhan o'i gyfrifoldebau rheoleiddiol.

7.316 Yn 2024, o ganlyniad i'r cynnydd yn nifer y gweithwyr y bu'n rhaid iddynt gofrestru â GCC, mae'r rheoleiddiwr yn amcangyfrif y bydd nifer y ceisiadau i'r tribiwnlys am estyniad i orchymyn interim yn cynyddu i 90, gan gynyddu costau GCC i £180,000.

**Llywodraeth Cymru**

7.317 Nid oes unrhyw gostau ychwanegol uniongyrchol i Lywodraeth Cymru, gan fod y costau hyn yn cael eu talu yn rhan o'n pecyn cymorth grant blynyddol i'r rheoleiddiwr.

**Y gweithlu gofal cymdeithasol/Cyflogwyr**

7.318 Ni all unigolion sy'n destun gorchymyn atal dros dro interim weithio yn y sector gofal cymdeithasol yng Nghymru tra mae'r gorchymyn atal dros dro interim yn parhau i fod mewn grym. Caiff hyn effaith sylweddol ar yr unigolyn a'i gyflogwr.

7.319 Os na wneir y diwygiad, mae cymhelliant i GCC wneud gorchmynion interim am y cyfnod mwyaf, sef 18 mis, fel mater o drefn er mwyn osgoi baich gweinyddol ceisiadau mynych i'r tribiwnlys. Gallai hyn gynyddu straen a phryder ar gyfer gweithwyr cofrestredig a'u cyflogwyr, gan y byddai'n atal y gweithiwr hwnnw am dros flwyddyn. Gallai hyn gael ei waethygu gan unrhyw angen i estyn yr ymchwiliad, gan gynnwys cais i'r tribiwnlys gan banel addasrwydd i ymarfer am estyniad y tu hwnt i 18 mis. Byddai hyn yn ychwanegu oedi pellach cyn cwblhau'r ymchwiliad tra mae'r unigolyn yn aros i'r tribiwnlys wrando ar y ddadl dros yr estyniad a gwneud penderfyniad.

7.320 O ran gorchmynion cofrestru amodol, gallai unrhyw gais gan banel am estyniad gael effaith sylweddol ar yr unigolyn, gan y gallai unrhyw gyfyngiadau a osodir ar y gwaith y caiff ei wneud effeithio ar ei gyflog.

7.321 Serch hynny, mae'n anodd meintioli'r effaith, gan y bydd yn amrywio o achos i achos, er enghraifft, gan ddibynnu ar a yw contract cyflogaeth yr unigolyn yn caniatáu iddo gael ei dalu tra mae'n destun y gorchymyn atal dros dro.

7.322 Mae hefyd yn anodd meintioli costau'r diwygiad i gyflogwyr, gan fod costau anuniongyrchol i gyflogwyr wrth iddynt orfod buddsoddi mewn gwasanaeth dros dro (e.e. gweithwyr asiantaeth) pan fo gweithiwr/cyflogai yn destun gorchymyn atal dros dro interim.

7.323 Mae'n anodd meintioli costau asiantaethau gan fod y rhain yn amrywio ar draws yr ystod o rolau'r gweithlu – e.e. gweithwyr gofal cartref, gweithwyr cartrefi gofal i oedolion, rheolwyr, etc. – neu gallant amrywio o un ardal i'r llall yn dibynnu ar y galw. Mae chwiliad wedi canfod y gall ffioedd yn ôl yr awr gan asiantaethau am weithwyr gofal cartref amrywio rhwng £20 a £30 yr awr.[77] At ddibenion eglurhaol, pe bai angen i gyflogwr gael gwasanaeth yn lle aelod o staff sy'n gweithio wythnos 42 awr ac sydd

[77] https://www.homecare.co.uk/advice/paying-for-care-at-home - amcangyfrifon Home Care UK

wedi'i atal am 6 mis, pe bai'n cyflogi gweithiwr asiantaeth ar gost o £25 yr awr, byddai hyn yn golygu cost o £27,300[78] i dalu am yr ataliad hwn.

**Opsiwn 2: Gwneud y diwygiadau**

**Costau, arbedion, manteision ac anfanteision**

**Gofal Cymdeithasol Cymru**

7.324 Bydd y diwygiad yn rhoi'r pŵer i baneli i estyn gorchymyn interim am hyd at 18 mis ar y mwyaf, heb fod angen cais i'r tribiwnlys.

7.325 Yn 2022, gwnaeth GCC 56 o geisiadau i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf. O ganlyniad i'r cynnydd o 20,000 o weithwyr pellach sydd wedi'u cofrestru'n weithwyr cartrefi gofal i oedolion o 1 Ebrill 2022 ymlaen, mae GCC yn amcangyfrif ei bod yn debygol y bydd angen gwneud 34 o geisiadau pellach i'r tribiwnlys erbyn 1 Ebrill 2024.

7.326 Mae GCC wedi egluro bod pob cais i'r tribiwnlys i estyn gorchymyn interim yn costio oddeutu £2,000 mewn costau gweinyddol a chyfreithiol. Amcangyfrifir, felly, y bydd y gost i GCC o wneud ceisiadau o'r fath yn codi o £112,000 yn 2022 i £180,000 yn 2024.

7.327 Mae rhai o'r costau uwch hyn yn cael eu gwrthbwyso gan gasglu ffioedd cofrestru, sydd eisoes wedi'u casglu oddi wrth oddeutu 42,000 o gofrestreion ac a ddarparodd incwm o bron i £2 filiwn i reoleiddiwr y gweithlu ym mis Rhagfyr 2022. Bydd yr incwm hwn yn codi i dros £2.2 miliwn yn 2023 pan oedd yr 8,000 sy'n weddill o weithwyr cartrefi gofal oedolion i fod i gael eu cofrestru. Fodd bynnag, hyd yn oed gyda'r llif refeniw cynyddol hwn, ni fydd y cyllid hwn yn talu cost lawn rheoleiddio'r gweithlu o hyd.

7.328 Er bod y costau cyffredinol yn debygol o barhau i gynyddu o ganlyniad i'r cynnydd yn nifer y bobl y mae'n ofynnol iddynt gofrestru â GCC, bydd y diwygiad arfaethedig yn lleihau nifer y ceisiadau y mae angen eu gwneud i'r tribiwnlys, gan na fydd angen mwyach i GCC wneud cais i'r tribiwnlys i estyn gorchymyn interim ac eithrio pan fo angen estyniad y tu hwnt i'r cyfnod mwyaf, sef 18 mis. Bydd hyn yn arwain at arbedion ariannol a gweinyddol i GCC.

7.329 Er enghraifft, pe na bai wedi bod angen cais i'r tribiwnlys ar gyfer 30% (17) o'r 56 o achosion a gyflwynwyd gan GCC yn 2022, byddai hyn wedi arbed £34,000 mewn costau.

7.330 Bydd y diwygiad arfaethedig yn caniatáu i baneli weithredu'n gymesur, gan estyn gorchymyn interim hyd at 18 mis ar y mwyaf pan fo angen. Bydd yr arbedion o ran costau ac amser o fudd i GCC a'r sector.

---

[78] £25 yr awr x 42 awr yr wythnos dros 26 wythnos

## Llywodraeth Cymru

7.331 Nid oes unrhyw gostau ychwanegol uniongyrchol i Lywodraeth Cymru, gan y bydd costau'r cynigion yn cael eu hysgwyddo o fewn y cyllidebau presennol.

7.332 Bydd unrhyw arbedion a fydd yn cael eu creu gan y cynigion yn cael eu hailfuddsoddi i reoleiddio a chefnogi'r sector gofal cymdeithasol, felly nid ydym yn disgwyl y bydd angen cyllid ychwanegol.

## Llywodraeth y DU (Y Weinyddiaeth Gyfiawnder/Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EF)

7.333 Mae'r diwygiad arfaethedig yn debygol o gael effaith gadarnhaol ar system gyfiawnder y DU, gan greu arbedion adnoddau posibl i Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EF (GLlTEF) a rheoleiddiwr y gweithlu, GCC.

7.334 Ar hyn o bryd, rhaid i GCC wneud cais i'r tribiwnlys i estyn gorchymyn interim.

7.335 Bydd gan y tribiwnlys gostau gweinyddol o ran rheoli a goruchwylio achosion, gan gynnwys costau'n ymwneud â chasglu tystiolaeth, hysbysu pawb perthnasol am ddyddiad ac amser y trafodion, trefnu panel o farnwyr i wrando ar yr achos a darparu staff i reoli a chofnodi'r trafodion. Er nad oes gennym amcangyfrif o'r costau hyn, bydd y diwygiad yn lleihau nifer y ceisiadau y bydd angen eu gwneud i'r tribiwnlys am estyniad ac felly mae'n debygol o leihau bach gweinyddol ac ariannol y tribiwnlys.

## Y gweithlu gofal cymdeithasol/Cyflogwyr

7.336 Mae gwneud gorchymyn interim yn cael effaith sylweddol ar y person cofrestredig a/neu'r cyflogwr, fel y nodir ym mharagraffau 7.318 – 7.323 uchod. Er y bydd nifer o'r effeithiau hyn yn parhau, ni waeth a wneir y diwygiad ai peidio, bydd y diwygiad yn galluogi'r panel i ymateb yn fwy cymesur ac yn galluogi GCC i osgoi'r angen i wneud cais i'r tribiwnlys pan fo estyniad i orchymyn interim o fewn y cyfnod o 18 mis.

7.337 Bydd hyn yn sicrhau bod gorchmynion interim yn parhau mewn grym am y cyfnod lleiaf sydd ei angen a bydd yn osgoi unrhyw straen a/neu faich gweinyddol/ariannol i'r person cofrestredig a allai ddigwydd o ganlyniad i gyflwyno cais i'r tribiwnlys.

7.338 Mae'n bosibl y bydd y newidiadau arfaethedig mewn perthynas â gorchmynion interim o fudd i'r unigolyn sy'n destun y gorchymyn a'i gyflogwr, gan fod posibilrwydd y gallai ymchwiliadau a phenderfyniadau ymchwiliadau rhai achosion gael eu cwblhau yn gyflymach. Os oes gan banel gorchymyn interim y pŵer i osod gorchymyn cychwynnol byrrach – e.e. 6 mis – a'i fod yn teimlo nad yw angen ond estyniad byr pellach – e.e. 3 mis – i gwblhau ei ymchwiliadau yn hytrach na gosod y cyfnod llawn o

18 mis, y canlyniad fyddai cyfnod atal dros dro neu gofrestru amodol byrrach.

7.339 Bydd y system symlach hon yn cael gwared â pheth o’r pwysau a ddaw yn sgil ymchwiliadau o’r fath. Gall hefyd ddarparu datrysiad cyflymach a allai olygu y gall unigolion ddychwelyd i’w gwaith yn gynharach a chyflogwyr ysgwyddo llai o gostau o ran cyflogi gweithwyr (e.e. gweithwyr asiantaeth) i lenwi bylchau pan fydd staff yn absennol.

7.340 Mae'n anodd meintioli costau ein newidiadau arfaethedig i'r cynigion o ran gorchmynion interim i gyflogwyr, gan fod costau anuniongyrchol i gyflogwyr wrth iddynt naill ai orfod buddsoddi mewn gwasanaeth staff asiantaeth dros dro tra mae’r gweithiwr wedi’i atal neu, os yw'r mater yn ddigon difrifol, recriwtio aelod newydd o staff pe bai’r ymchwiliad yn penderfynu y dylid tynnu’r unigolyn oddi ar y gofrestr.

7.341 Fel y soniwyd uchod, mae'n anodd meintioli costau llawn staff asiantaeth yn gywir gan fod y rhain yn amrywio ar draws yr ystod o rolau’r gweithlu – e.e. gweithwyr gofal cartref, gweithwyr cartrefi gofal oedolion, rheolwyr, etc. – neu gallant amrywio o un ardal i'r llall yn dibynnu ar y galw. Mae amcangyfrif bras wedi dangos ffioedd sy'n amrywio o £20 i £30 yr awr, a allai olygu bod cyflogwr yn gorfod talu tua £26,300 am wasanaeth yn lle gweithiwr sydd wedi’i atal am 6 mis.

7.342 Gall costau recriwtio hefyd fod yn anodd eu meintioli, gan fod cwmnïau mwy yn gallu fforddio gwario mwy ar recriwtio na rhai llai; sy'n ei gwneud yn anodd darparu darlun at ddibenion yr asesiad hwn.

**Tabl 7.45: Crynodeb ar gyfer opsiynau un a dau ar gyfer estyn gorchmynion interim yn ystod ymchwiliadau Addasrwydd i Ymarfer**

| | 2025-26 | 2026-27 | 2027-28 | 2028-29 | 2029-30 | 2030-31 | 2031-32 | 2032-33 | 2033-34 | 2034-35 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | £ | £ | £ | £ | £ | £ | £ | £ | £ | £ |
| **Costau dim newid** | | | | | | | | | | |
| **Llywodraeth Cymru** | | | | | | | | | | |
| Cymorth Grant[79] | 32,846,000 | 34,846,000 | 36,846,000 | 38,846,000 | 40,846,000 | 42,846,000 | 44,846,000 | 46,846,000 | 48,846,000 | 50,846,000 |
| | | | | | | | | | | |
| **Cyflogwyr Gofal Cymdeithasol** | | | | | | | | | | |
| Costau staff asiantaeth pan fydd staff yn absennol – estyn gorchmynion interim[80] | 1,064,700 | 1,171,170 | 1,288,287 | 1,417,116 | 1,558,827 | 1,714,710 | 1,886,181 | 2,074,799 | 2,282,279 | 2,510,507 |
| | | | | | | | | | | |
| **Opsiwn 1 - dim newid** | | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | |

[79] Ar gyfartaledd, mae pecyn cymorth grant GCC wedi cynyddu £2m y flwyddyn ac mae'n cynnwys cyllid ar gyfer gofynion ychwanegol a roddir ar y rheoleiddiwr. At ddibenion eglurhaol, rydym wedi parhau â'r duedd hon.

[80] At ddibenion eglurhaol, rydym wedi dangos bod 70% (39) o achosion yn cael eu hestyn, ac ar gyfer yr achosion hyn bydd rhaid i gyflogwyr gyflogi gweithwyr asiantaeth dros gyfnod yr absenoldeb. E.e. ar gyfer chwe mis o wasanaeth £25 yr awr x 42 awr yr wythnos dros 26 wythnos x 39 achos. Rydym wedi rhagdybio y gallai'r costau hyn gynyddu 10% y flwyddyn.

| | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **GCC** | | | | | | | | | | |
| Costau gwrandawiadau Addasrwydd i Ymarfer[81] | 1,808,000 | 2,350,400 | 3,055,520 | 3,972,176 | 5,163,829 | 6,712,977 | 8,726,871 | 11,344,932 | 14,748,411 | 19,172,935 |
| Achosion Addasrwydd i Ymarfer wedi'u cynnal fel achosion papur[82] | 125,000 | 156,250 | 195,313 | 244,141 | 305,176 | 381,470 | 476,837 | 596,046 | 745,058 | 931,323 |
| **Ychwanegu costau ceisiadau ychwanegol** i Lysoedd EF[83] | 281,250 | 351,563 | 439,453 | 549,316 | 686,646 | 858,307 | 1,072,884 | 1,341,105 | 1,676,381 | 2,095,476 |
| ***Costau net*** | ***2,214,250*** | ***2,858,213*** | ***3,690,286*** | ***4,765,633*** | ***6,155,650*** | ***7,952,754*** | ***10,276,591*** | ***13,282,083*** | ***17,169,850*** | ***22,199,733*** |
| | | | | | | | | | | |
| | **20205-26** | **2026-27** | **2027-28** | **2028-29** | **2029-30** | **2030-31** | **2031-32** | **2032-33** | **2033-34** | **2034-35** |
| | **£** | **£** | **£** | **£** | **£** | **£** | **£** | **£** | **£** | **£** |

[81] Gweler paragraffau 7.315 a 7.316 a throednodyn 80 uchod (30% (113) o 377 o achosion yn cyrraedd gwrandawiadau llawn). At ddibenion eglurhaol, rydym wedi cadw cynnydd o 30% ar gyfer y blynyddoedd dilynol.
[82] At ddibenion eglurhaol, rydym wedi ychwanegu cynnydd o 25% flwyddyn ar ôl blwyddyn.
[83] At ddibenion eglurhaol, rydym wedi ychwanegu cynnydd o 25% flwyddyn ar ôl blwyddyn.

| | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | | | | |
| **Opsiwn 2 – gwneud y diwygiadau** | | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | |
| **GCC** | | | | | | | | | | |
| **Arbedion posibl** – peidio mynd ag achosion gerbron GLlTEF[84] | 68,000 | 85,000 | 106,250 | 132,813 | 166,016 | 207,520 | 259,399 | 324,249 | 405,312 | 506,639 |
| | | | | | | | | | | |

7.343 Nid yw'r costau hyn yn cynnwys costau GLlTEF i ystyried a chynnull Tribiwnlysoedd, gweinyddu a gwneud dyfarniad. Fodd bynnag, gallwn ragdybio y byddai nifer yr achosion y gallai GCC eu diwygio heb wneud cais i GLlTEF yn cael eu tynnu o'r broses hon, a fyddai'n golygu arbediad i'r gwasanaeth.

7.344 Gwerth presennol yr arbedion costau (mantais) i GCC yw £1.8 miliwn, dros y cyfnod o 2025-26 i 2034-35.

[84] At ddibenion eglurhaol, rydym wedi defnyddio'r ffigur o 34 o achosion newydd sydd i fynd at GLlTEF i gael estyniad ym mharagraff 7.329 ac ychwanegu cynnydd o 25% flwyddyn ar ôl blwyddyn i ddangos arbediad i GCC o allu estyn y gorchmynion interim heb fod angen gwneud cais i GLlTEF.

**Diwygio Deddf 2016: Estyn y diffiniad o 'weithiwr gofal cymdeithasol' i gynnwys gweithwyr gofal plant a chwarae**

**Opsiynau, costau a manteision**

7.345 Y ddau opsiwn yw:

**Opsiwn 1:**

**Gwneud dim: cynnal y status quo**

7.346 O dan yr opsiwn hwn, gallai GCC barhau i gefnogi'r rhai sy'n gweithio yn y sector gofal plant; ni fyddai sail statudol i hyn. Byddai Llywodraeth Cymru yn parhau i gytuno ar gylch gwaith gyda GCC yn flynyddol ac yn ariannu'r gwaith hwn yn unol â hynny.

7.347 Er nad oes gwahaniaeth cyfreithiol rhwng personau sy'n gweithio/sy'n cael eu cyflogi mewn lleoliadau gofal dydd a chwarae (cynhwysir lleoliadau chwarae o fewn ystyr gofal dydd yn adran 19 o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010), yn ymarferol nid yw'r cymorth a ddarperir gan GCC wedi bod yn cwmpasu pobl sy'n gweithio mewn lleoliadau chwarae (gweithwyr chwarae). Heb i reoliadau gael eu gwneud yn unol â'r diwygiad, ni fyddai'r cymorth y mae GCC yn ei ddarparu i'r sector cyfan (gan gynnwys gweithwyr chwarae) yn cael ei ffurfioli.

7.348 Dyma rai o'r **risgiau** a ragwelir yn yr opsiwn hwn:

- Gallai hyn greu'r risg o her gyfreithiol o ystyried nad yw'r dehongliad ymarferol o'r Ddeddf (bod GCC yn rhoi cymorth i ddarparwyr a gweithwyr) wedi'i amlinellu'n derfynol ar wyneb y Ddeddf a'i Rheoliadau.
- Pe bai GCC yn mynd ati i gefnogi gwarchodwyr plant a darparwyr gofal plant yn unig, gallai hyn greu anghysondeb ar draws y gweithlu, gan greu'r posibilrwydd o eithrio rhannau helaeth o'r gweithlu o weithgarwch cymorth a gwella. Gallai hyn olygu bod gweithlu dwy haen yn y sector, a allai greu ansefydlogrwydd pe bai canfyddiad bod cymorth ar gael i rai ond nid i bawb.
- Yn yr un modd, os na fydd GCC yn gallu rhoi cymorth i weithwyr chwarae, bydd y materion a amlinellwyd yn yr Adolygiad Gweinidogol o Chwarae ynghylch diffyg cefnogaeth sgiliau sector i weithwyr chwarae yn parhau.
- Gallai hyn hefyd niweidio enw da Llywodraeth Cymru yn sylweddol o ystyried yr ymrwymiadau cyhoeddus a wnaed eisoes i'r cynnig hwn a'r ymatebion i'r ymgynghoriad a oedd yn croesawu'r cynnig.
- Gallai fod galwadau parhaus ar GCC i ddarparu cymorth i'r rhai sydd y tu allan i'r diffiniad presennol.

**Opsiwn 2:**

**Diwygio Deddf 2016: Estyn y diffiniad o 'weithiwr gofal cymdeithasol' i gynnwys gweithwyr gofal plant.**

7.349 Mae adran 79(3)(d) o Ddeddf 2016 yn darparu ar hyn o bryd y caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, ddarparu y caniateir trin person 'sydd wedi ei gofrestru o dan Ran 2 o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 (mccc 1) fel – (i) gwarchodwr plant, neu (ii) darparwr gofal dydd i blant' fel gweithiwr gofal cymdeithasol.

7.350 Mae Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Estyn Ystyr "Gweithiwr Gofal Cymdeithasol") 2016/1251, a wnaed yn unol ag adran 79 (3)(d) (ii) yn estyn ystyr 'gweithiwr gofal cymdeithasol' i gynnwys personau sydd wedi'u cofrestru o dan ran 2 o'r Mesur fel darparwr gofal dydd.

7.351 Fodd bynnag, nid oes darpariaeth o fewn y Ddeddf ar hyn o bryd sy'n caniatáu i reoliadau gael eu gwneud sy'n pennu bod personau sy'n cael eu cyflogi gan (neu sy'n gweithio i) ddarparwr gofal dydd sydd wedi'i gofrestru o dan Ran 2 o'r Mesur, i gael eu trin fel gweithwyr gofal cymdeithasol.

7.352 Yn hanesyddol, mae rôl GCC fel partner strategol Llywodraeth Cymru yn golygu eu bod wedi bod yn darparu cymorth i bob gweithiwr yn y sector gofal plant.

7.353 Er nad oes gwahaniaeth cyfreithiol rhwng personau sy'n gweithio/sy'n cael eu cyflogi mewn lleoliadau gofal dydd a chwarae (cynhwysir lleoliadau chwarae o fewn ystyr gofal dydd yn adran 19 o'r Mesur), yn ymarferol nid yw'r cymorth a ddarperir gan GCC wedi bod yn cwmpasu pobl sy'n gweithio mewn lleoliadau chwarae (gweithwyr chwarae). Cynigir y bydd unrhyw reoliadau a wneir yn unol â'r diwygiad yn ffurfioli'r cymorth a ddarperir ar hyn o bryd gan GCC i'r sector ac yn sicrhau bod hwn yn cael ei ddarparu i'r sector cyfan (gan gynnwys gweithwyr chwarae).

7.354 Diben y diwygiad arfaethedig yw caniatáu i reoliadau gael eu gwneud sy'n pennu bod gweithwyr gofal plant i gael eu trin fel gweithwyr gofal cymdeithasol a darparu sail ffurfiol ar gyfer unrhyw gymorth y mae GCC yn ei ddarparu i'r gweithlu gofal plant. Ar ben hynny, mae angen y diwygiad er mwyn ei gwneud yn glir bod gweithwyr gwaith chwarae hefyd yn cael eu cwmpasu gan gylch gwaith GCC, yn rhan o'r gweithlu gofal plant.

7.355 Bydd y diwygiad hefyd yn sicrhau bod GCC yn gallu rhoi cymorth i'r gweithlu gofal plant yn ei gyfanrwydd. At ddibenion y diwygiad hwn, mae gweithwyr gofal plant yn unigolion sy'n cael eu cyflogi gan, neu sy'n gweithio (gan gynnwys gweithwyr asiantaeth) i, berson sydd wedi'i gofrestru o dan Ran 2 o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 (y Mesur) fel darparwr gofal dydd, i ddarparu gofal a goruchwyliaeth i blant.

7.356 Wrth ddewis yr opsiwn hwn, mae'r **risgiau** yn cynnwys y canlynol:

- Dros y blynyddoedd diwethaf, gan nad oes corff penodedig i oruchwylio'r fframwaith cymwysterau gwaith chwarae a datblygu'r gweithlu gwaith chwarae, mae PETC Cymru[85] wedi bod yn cyflawni swyddogaethau sy'n cyfateb i rai corff megis GCC. O ganlyniad, mae'n bosibl y byddant yn teimlo y dylen nhw gadw rhai o'r swyddogaethau a ddylai fod yn gyfrifoldeb i GCC os yw gweithwyr chwarae yn cael eu cydnabod yn weithwyr gofal cymdeithasol.
- Byddai'r diwygiad yn golygu y gallai GCC roi cymorth llawn i weithwyr chwarae. Byddai hyn yn ei gwneud yn ofynnol i GCC ddatblygu eu gallu a'u harbenigedd mewn gwaith chwarae, a fyddai'n cymryd amser ac adnoddau i'w datblygu. Mae risg na fydd GCC, o bosibl, yn gallu cynnig yr un lefel o gymorth i weithwyr chwarae ag i weithwyr gofal plant ar y cychwyn.

7.357 Wrth beidio â dewis yr opsiwn hwn, mae'r **risgiau** a ragwelir yn cynnwys y canlynol:

- Mae'r Cynllun 10 mlynedd ar gyfer y Gweithlu Gofal Plant, Chwarae a'r Blynyddoedd Cynnar yn nodi'n glir iawn mai GCC yw partner cyflawni strategol allweddol Llywodraeth Cymru o ystyried y rôl y mae GCC wedi bod yn ei chwarae o ran darparu cymorth allweddol i'r gweithlu ac arwain datblygiadau mewn cymwysterau a phrosesau sicrwydd ar draws y sector. Bydd fersiwn newydd o'r cynllun yn cael ei chyhoeddi yn 2024 a bydd yn ailddatgan y rôl strategol hon y gallai'r amwysedd cyfreithiol hwn ei gwanhau.
- Cyn y diwygiad arfaethedig hwn, roedd GCC yn deall bod eu rôl yn *cynnwys pawb sy'n* gweithio yn y sector ac nad oedd yn gyfyngedig i'r unigolyn a'r gwarchodwr plant cyfrifol yn unig. Heb y diwygiad, er bod hynny'n annhebygol, gallent geisio cynnig cymorth i'r rhai sy'n dod o dan y diffiniad cyfreithiol presennol yn unig, a fyddai'n cael effaith sylweddol ar y cymorth a ddarperir i'r gweithlu gofal plant.

### Y costau sy'n gysylltiedig â phob opsiwn

### Opsiwn 1

### Y Gweithlu/Darparwyr Gwasanaethau (Cyflogwyr)

7.358 Ni fyddai unrhyw gostau ychwanegol i'r gweithlu nac i gyflogwyr gan fod cymorth GCC ar gael am ddim yn y pwynt mynediad.

### Llywodraeth Cymru

[85] Mae Cyngor Addysg a Hyfforddiant Gwaith Chwarae Cymru (PETC Cymru) yn grŵp sy'n trafod materion o bwysigrwydd strategol i bob agwedd ar addysg, hyfforddiant a chymwysterau gwaith chwarae yng Nghymru. Mae swyddogaethau PETC Cymru yn cynnwys cymeradwyo cymwysterau gwaith chwarae a fydd yn cael eu cynnwys yn y Rhestr o Gymwysterau Gofynnol i weithio yn y Sector Gwaith Chwarae yng Nghymru a darparu cyngor ac arweiniad i Lywodraeth Cymru, Cymwysterau Cymru, Gofal Cymdeithasol Cymru ac Arolygiaeth Gofal Cymru ar faterion sy'n ymwneud ag addysg, hyfforddiant a chymwysterau.

7.359 Mae'r broses o ddarparu a chyllido'r cynllun gwaith yn cael ei hadolygu'n flynyddol. Yn gyffredinol, mae costau'n cynyddu o un flwyddyn i’r llall oherwydd costau staff a/neu gynnal prosiectau penodol. Ni fyddai dewis opsiwn 1 yn arwain at unrhyw gostau y tu hwnt i hynny i Lywodraeth Cymru, gan na fyddai GCC yn ymgymryd ag unrhyw waith ychwanegol i roi cymorth i weithwyr chwarae.

**Gofal Cymdeithasol Cymru**

7.360 Ni ddisgwylir unrhyw gostau ychwanegol gan na fyddai eu cylch gwaith yn cael ei ehangu i gynnwys gweithwyr chwarae.

**Opsiwn 2**

**Y Gweithlu/Darparwyr Gwasanaethau (Cyflogwyr)**

7.361 Ni fyddai unrhyw gostau ychwanegol i'r gweithlu nac i gyflogwyr gan fod cymorth GCC ar gael am ddim yn y pwynt mynediad.

**Llywodraeth Cymru**

7.362 Byddai'r diwygiad arfaethedig, ac unrhyw reoliadau a wneir yn y dyfodol yn nodi bod gweithwyr gofal plant a gweithwyr chwarae yn cael eu trin fel gweithwyr gofal cymdeithasol, yn galluogi gweithwyr chwarae i gael mynediad at fwy o'r cymorth a'r cyngor a ddarperir gan GCC.

7.363 Er y byddai trefniadau presennol GCC i roi cymorth i weithwyr gofal plant yn parhau, gallai cwmpas eu gwaith gynyddu i roi cymorth i weithwyr gwaith chwarae. Llywodraeth Cymru sy'n penderfynu ar ffurf a maint y cymorth hwnnw ar y cyd â phartneriaid perthnasol yn y sector ac o fewn y cyllid sydd ar gael.

7.364 Bydd swyddogion yn edrych ar yr holl opsiynau posibl gyda'r bwriad o ddatblygu dull cynaliadwy a chosteffeithiol o roi cymorth i'r gweithlu gofal plant a gwaith chwarae, gan ddefnyddio'r wybodaeth a'r profiad sy'n bodoli'n barod yn y sector gwaith chwarae.

**Manteision Opsiwn 1**

7.365 Nid ydym o’r farn bod unrhyw fanteision yn gysylltiedig â'r opsiwn hwn.

**Manteision Opsiwn 2**

7.366 Bydd yr opsiwn hwn yn caniatáu i reoliadau gael eu gwneud a fydd yn rhoi sail gyfreithiol ar gyfer y swyddogaethau y mae GCC yn eu cyflawni ar hyn o bryd i roi cymorth i'r gweithlu gofal plant. O ganlyniad, rhagwelir y bydd y cymorth a ddarperir gan GCC yn cael ei estyn i'r gweithlu gofal plant yn ei gyfanrwydd, gan gynnwys gweithwyr chwarae. Bydd hyn yn golygu bod gweithwyr chwarae yn teimlo eu bod yn cael eu cynrychioli a'u

gwerthfawrogi yn well a bydd yn rhoi argymhellion perthnasol yr Adolygiad Gweinidogol o Chwarae ar waith.

7.367 Yn aml mae gan staff gwaith chwarae rôl ddeuol, sef darparu cyfleoedd gofal plant a chyfleoedd chwarae, ac o'r herwydd gwelir bod y diwygiad hwn yn cynnig cysondeb o ran cymorth i'r gweithwyr hynny.

**<u>Diwygiadau i Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014</u>**

**Opsiynau, costau a manteision**

**Opsiwn 1 - Gwneud dim – cynnal y status quo**

7.368 Bwriad y diwygiadau yw sicrhau bod yr arferion presennol yn cyd-fynd â darpariaethau Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ("Deddf 2014"). Yn benodol:

- Diwygio adran 47 o Ddeddf 2014 er mwyn sicrhau bod ffiniau iechyd a gofal cymdeithasol yn cael eu cynnal;
- Ailgyflunio'r darpariaethau yn Rhan 4 o Ddeddf 2014 sy'n galluogi awdurdodau lleol i wneud taliadau uniongyrchol er mwyn galluogi taliad uniongyrchol i gael ei wneud i drydydd parti a enwebwyd gan unigolyn sydd â hawl i gael taliad o'r fath mewn achosion lle mae gan y person unigol alluedd meddyliol i wneud y penderfyniad hwnnw;
- Diwygio adrannau 76 ac 81 i egluro cyfeiriadau at "orchmynion trefniadau plentyn";
- Diwygio testun Cymraeg adran 124(9) i ychwanegu cyfeiriad at amgylchiadau pan fo awdurdod lleol yn lleoli plentyn mewn llety diogel yn yr Alban yn unol ag adran 25 o Ddeddf Plant 1989 at yr achosion pan ddatgymhwysir y ddarpariaeth yn adran 124. Bydd hyn yn adfer cyfwerthedd testunau Cymraeg a Saesneg y ddarpariaeth honno.

7.369 Ni ddisgwylir unrhyw gostau na manteision sy'n gysylltiedig â chynnal y status quo, os na wneir y diwygiadau hyn. Yn ogystal, mae'r diwygiadau i adrannau 76, 81 a 124(9) yn angenrheidiol er mwyn cywiro gwallau yn y fframwaith statudol a grëwyd gan ddeddfiadau blaenorol, ac felly nid yw cynnal y status quo yn opsiwn realistig.

7.370 Os na wneir y diwygiadau i adran 47 ac i Ran 4 o'r Ddeddf, bydd risg o hyd y gallai rhai agweddau ar arferion cyfredol newid yn y dyfodol mewn ffordd nad yw'n gydnaws â bwriadau polisi'r Ddeddf fel y'u cytunwyd gan y Senedd. Yn benodol, mae'n bosibl:

- y gallai fod newid yn y dyfodol o ran y canfyddiad o gyfyngiadau pwerau awdurdod lleol i ddiwallu anghenion gofal iechyd ac felly mewn perthynas â'r ffiniau rhwng iechyd a gofal cymdeithasol;
- y gallai rhai awdurdodau lleol benderfynu dod â rhai taliadau uniongyrchol i drydydd partïon enwebedig i ben os na chymerir y cyfle i sicrhau bod yr arfer hwn yn gydnaws â geiriad (yn ogystal â bwriad) Deddf 2014.

**Opsiwn 2 – Gwneud diwygiadau i Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ("Deddf 2014") fel bod y ddeddfwriaeth hon yn cyd-fynd ag arferion cyfredol**

7.371 Fel yr esboniwyd uchod, bwriad y diwygiadau hyn yw sicrhau bod yr arferion presennol yn cyd-fynd â'r ddeddfwriaeth gystal â phosibl mewn nifer o feysydd.

7.372 Ni ddisgwylir unrhyw gostau na manteision ychwanegol cysylltiedig, os gwneir y diwygiadau hyn.

7.373 Fodd bynnag, wrth wneud y diwygiadau hyn, y bwriad yw cael gwared ar y risg y gallai rhai agweddau ar arferion presennol newid yn y dyfodol.

# 8. Asesiad o’r Gystadleuaeth

8.1 Mae'r Asesiad o’r Gystadleuaeth yn canolbwyntio ar yr elfen o’r Bil sy'n ceisio dileu elw o ofal plant sy'n derbyn gofal. Nid oes gan elfennau eraill o'r Bil effeithiau y gellir eu nodi ar gystadleuaeth.

**Asesiad Cystadleuaeth o ran Dileu Elw o ofal plant sy'n derbyn gofal:**

**Prawf hidlo cystadleuaeth**

| **Cwestiwn** | **Ateb** |
|---|---|
| **C1**: Yn y farchnad/marchnadoedd yr effeithir arni/arnynt gan y rheoliad newydd, a oes gan unrhyw gwmni fwy na 10% o gyfran y farchnad? | Oes |
| **C2**: Yn y farchnad/marchnadoedd yr effeithir arni/arnynt gan y rheoliad newydd, a oes gan unrhyw gwmni fwy nag 20% o gyfran y farchnad? | Nac oes |
| **C3**: Yn y farchnad/marchnadoedd yr effeithir arni/arnynt gan y rheoliad newydd, a oes gan y tri chwmni mwyaf gyda’i gilydd o leiaf 50% o gyfran y farchnad? | Nac oes |
| **C4**: A fyddai costau’r rheoliad yn effeithio ar rai cwmnïau yn fwy o lawer nag eraill? | Byddent |
| **C5**: A yw’r rheoliad yn debygol o effeithio ar strwythur y farchnad, gan newid nifer neu faint y cwmnïau? | Ydyw |
| **C6**: A fyddai’r rheoliad yn arwain at gostau sefydlu busnes uwch i gyflenwyr newydd neu ddarpar gyflenwyr, sy’n gostau nad oes yn rhaid i gyflenwyr presennol eu talu? | Na fyddai |
| **C7**: A fyddai’r rheoliad yn arwain at gostau rheolaidd uwch i gyflenwyr newydd neu ddarpar gyflenwyr, sy’n gostau nad oes yn rhaid i gyflenwyr presennol eu talu? | Na fyddai |
| **C8**: A yw newid technolegol sydyn yn un o nodweddion y sector? | Nac ydyw |
| **C9**: A fyddai’r rheoliad yn cyfyngu ar allu cyflenwyr i ddewis pris, ansawdd, amrywiaeth neu leoliad eu cynhyrchion? | Byddai |

8.2 Mae'r Bil hwn yn cynnig mai dim ond darparwyr nid-er-elw a fydd yn gallu cofrestru ag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) fel gwasanaeth cartref gofal i blant neu fel gwasanaeth maethu. Byddai hyn yn golygu mai dim ond darparwyr nid-er-elw a fyddai'n cael gweithredu yng Nghymru. Mae'n amlwg y bydd hyn yn effeithio ar y farchnad gofal cymdeithasol plant yn sylweddol.

8.3 Fodd bynnag, nid yw'r sector gofal preswyl plant a maethu plant yn cynnwys cwmnïau er elw unffurf. Mae'r sector yn cynnwys ystod eang o fusnesau sy'n wahanol o ran maint, cwmpas ac amcanion, gyda modelau masnachol gwahanol iawn. Bydd yr effaith ar y rhain yn wahanol.

8.4 Yn y sector, ceir llawer o Fusnesau Bach a Chanolig (BBaCh). Yn nodweddiadol, unigolion sydd â phrofiad o ofal cymdeithasol plant sy'n

berchen ar y rhain ac yn eu gweithredu, ac maent yn dueddol o ganolbwyntio ar ardal gyfyngedig. Yn aml, mae'r entrepreneuriaid hyn yn cael eu hysgogi i'r farchnad yn y lle cyntaf gan resymau y tu hwnt i elw ariannol; cânt eu hannog gan frwdfrydedd i wneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau pobl ifanc ac maent wedi ceisio defnyddio eu harbenigedd i lenwi bylchau arbenigol o fewn marchnad gofal cymdeithasol plant. Yn yr un modd â nifer o gwmnïau llai, mae'r busnesau gofal cymdeithasol hyn yn arbennig o agored i effaith newidiadau yn ymddygiad cwsmeriaid. Yn yr achos hwn, bydd eu llwyddiant yn dibynnu ar gysylltiadau comisiynu da ac arwyddion cryf yn y farchnad. Mae'r rhai sy'n berchen ar y cwmnïau hyn bron bob amser wedi'u lleoli yng Nghymru ac maent yn rhan o'r economi sylfaenol. Bydd gallu'r cwmnïau hyn i aros yn y sector drwy newid i fodel masnachol nid-er-elw yn dibynnu ar nifer o ffactorau, gan gynnwys lefel dyled.

8.5 Yn aml, mae cwmnïau mwy yn y sector yn ehangu eu ffocws y tu hwnt i ofal cymdeithasol plant, gan fentro i feysydd cysylltiedig megis addysg neu iechyd. Mae'r cwmnïau hyn yn ceisio creu synergeddau masnachol a gweithredol rhwng gwasanaethau plant a gwasanaethau oedolion. Maent yn gweithio'n rhanbarthol ac, yn aml, mae ganddynt wasanaethau ar y ddwy ochr i'r ffin rhwng Cymru a Lloegr. Mae ganddynt y modd i ddatblygu a rhedeg gwasanaethau arbenigol. Mae'r cwmnïau hyn yn llai agored i effaith newidiadau yn ymddygiad cwsmeriaid, o ran awdurdodau lleol Cymru, ac mae ganddynt yr wybodaeth gorfforaethol a’r profiad rheoleiddiol i symud yn gyflym oddi wrth ofal preswyl plant i ofal preswyl oedolion neu wasanaethau byw â chymorth. Byddai hyn yn eu galluogi i gadw asedau proffidiol y maent wedi buddsoddi ynddynt. Gallent hefyd barhau i fodoli fel cwmnïau sy’n gwneud elw drwy roi’r gorau i’w gweithredoedd yng Nghymru, cau gwasanaethau’n llwyr neu drosglwyddo gweithredoedd i Loegr, pan fo’r gwasanaethau hyn yn bodoli’n agos at y ffin.

8.6 Mae darparwyr gofal cymdeithasol preswyl canolig wedi buddsoddi mewn gwasanaethau presennol neu mewn twf newydd o gronfeydd cyfranddalwyr, ac mae eraill wedi ariannu'r broses o ehangu drwy ddyled. Maent hefyd yn aml yn gweithredu ar gylchoedd buddsoddi hir iawn. Mae hefyd yn llai tebygol y bydd cwmnïau sydd â dyled allanol neu fuddsoddiad sylweddol gan gyfranddalwyr yn newid i fod yn drefniant nid-er-elw oni bai bod cymhelliant i hyn. Mae'n bosibl y byddai cwmnïau sy'n darparu gofal maeth yn newid i drefniadau nid-er-elw gan fod y cylch buddsoddi yn fyrrach o lawer a bod angen llai o fuddsoddiad cyfalaf.

8.7 Ar begwn arall y sbectrwm, ceir endidau sy'n rhedeg nifer o wasanaethau o dan berchnogaeth cwmnïau cyfyngedig cyhoeddus neu a berchnogir drwy ecwiti preifat. Mae'r sefydliadau hyn yn darparu cyfran sylweddol o farchnad maes gofal cymdeithasol plant yng Nghymru ond maent yn gweithredu ar draws ystod ddaearyddol a sectorau diwydiannol eang. Mae'r rhesymau pam y mae'r cwmnïau hyn yn buddsoddi mewn gofal cymdeithasol plant yn cynnwys:

- Bod galw cyson ac anghylchol am wasanaethau gofal cymdeithasol plant, gan ei wneud yn sector deniadol i fuddsoddi

ynddo. Nid yw'r angen am y gwasanaethau hyn yn lleihau'n sylweddol yn ystod dirywiad economaidd, gan felly sicrhau llif refeniw sefydlog.

- Mae gofal cymdeithasol plant yn cael ei ariannu'n gyhoeddus, gan gynnig ffynhonnell incwm hirdymor ddiogel a denu buddsoddwyr preifat sy'n ystyried bod llai o risg yn eu buddsoddiad.

- Yn aml, mae cwmnïau ecwiti preifat am fuddsoddi mewn sectorau sydd â chyfleoedd ar gyfer cydgrynhoi, gwelliannau gweithredol, ac ehangu. Mae'r farchnad gofal cymdeithasol plant yn dameidiog, gan gynnig cyfleoedd i fuddsoddwyr brynu darparwyr llai, symleiddio gweithrediadau, a datblygu sefydliadau mwy, sy'n fwy effeithlon gyda ffiniau elw uwch.

8.8 Mae llwybr nodweddiadol yn cynnwys caffael BBaChau gan gwmnïau mwy, a all yn eu tro, gael eu prynu gan gwmnïau ecwiti preifat. Mae'r broses hon yn aml yn digwydd dros nifer o flynyddoedd wrth i gwmnïau canolig eu maint geisio, yn raddol, ehangu eu gwasanaethau a'u cyrhaeddiad yn y farchnad. Wedi hynny, mae'r endidau mwy hyn yn dod yn dargedau deniadol i gwmnïau ecwiti preifat, sy'n arbenigo mewn manteisio ar strategaethau ariannol i sicrhau'r enillion mwyaf posibl. Mae ecwiti preifat yn benthyca arian i gyllido eu caffaeliadau. Mae'r strategaeth hon yn caniatáu iddynt fuddsoddi mewn cwmnïau sydd â'r potensial ar gyfer enillion uchel wrth leihau'r cyfalaf cychwynnol sydd ei angen.

8.9 Ar sail y potensial am elw parhaus drwy drefniadau ailgodi tâl, bydd buddsoddwyr ecwiti preifat yn ystyried a ydynt am barhau â'u presenoldeb yn y farchnad gofal cymdeithasol yng Nghymru. Mae gan lawer ohonynt hanes o fuddsoddi mewn marchnadoedd a gaiff eu rheoleiddio'n sylweddol ac, felly, mae ganddynt y maint a'r cwmpas i greu strwythurau cwmnïau cymhleth sy'n gallu llwyddo i ddarparu gofal nid-er-elw o fewn grŵp er elw cyffredinol. Mae darpariaethau yn y Bil ynghylch trefniadau ariannol afresymol neu anghymesur yn ceisio lliniaru yn erbyn tynnu elw allan drwy strwythurau cymhleth o'r fath.

# 9. Asesiadau Effaith

**<u>Dileu Elw Preifat o Ofal Plant sy'n Derbyn Gofal</u>**

9.1 Mae cyfres o asesiadau effaith neu brosesau sgrinio wedi'u cwblhau ar y Bil fel rhan o'n Hasesiad Effaith Integredig, ochr yn ochr â'r Memorandwm Esboniadol a'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Roedd yr asesiadau effaith yn cynnwys:

- Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb
- Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant
- Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg
- Asesiad o'r Effaith ar Fioamrywiaeth
- Y Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol
- Offeryn Sgrinio Cyfiawnder
- Offeryn Sgrinio'r Effaith ar Iechyd
- Offeryn Sgrinio Diogelu Data

9.2 Mae nifer o'r asesiadau hyn wedi tynnu sylw at faterion penodol i'w hystyried. Bydd y rhain yn cael eu hadolygu'n barhaus wrth i'r ddeddfwriaeth fynd drwy'r Senedd. Pan fo'r asesiadau wedi amlygu effeithiau negyddol, ystyriwyd sut y gellir eu lliniaru. Mae trafodaethau hefyd yn cael eu cynnal â rhanddeiliaid allweddol ar effeithiau'r Bil ac ar y camau lliniaru perthnasol.

**Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb**

9.3 Bydd y cynnig yn cael effaith gadarnhaol ar gydraddoldeb drwy alluogi cyfleoedd a phrofiadau gofal cyson i blant, pobl ifanc a'r teuluoedd sy'n gofalu amdanynt.. Mae argaeledd ac ansawdd y gwasanaethau gofal presennol yn amrywio'n sylweddol ac efallai y bydd gan ddarparwyr o'r gwahanol sectorau wahanol setiau o reolau a threfniadau ar hyn o bryd e.e. ffioedd neu lwfansau. Gall hyn arwain at deimladau o annhegwch.

**Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant**

9.4 Wrth arfer eu swyddogaethau, mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru roi sylw dyladwy i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn[86]. Gosodir y ddyletswydd hon gan adran 1 o Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011[87] ac mewn perthynas â'r rhai sy'n cyflawni swyddogaethau o dan Ddeddf 2014, mae adran 7(2)[88] hefyd yn gymwys.

9.5 Bwriedir i'r argymhellion sy'n deillio o'r cynnig i ddileu elw gael effaith gadarnhaol ar fywydau plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal. Cafodd yr ymrwymiad i ddileu elw preifat ei wneud yn rhannol oherwydd yr hyn y mae plant a phobl ifanc wedi'i ddweud wrth Weinidogion, Comisiynydd Plant Cymru a Voices from Care. Mae'r asesiad effaith yn nodi bod Erthygl 3 (lles

[86] https://www.unicef.org.uk/what-we-do/un-convention-child-rights/
[87] https://www.legislation.gov.uk/cy/mwa/2011/2/section/1/welsh
[88] https://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2014/4/section/7/welsh

pennaf y plentyn), Erthygl 12 (parch at farn plant) ac Erthygl 20 (rhaid i blant na all eu teulu eu hunain ofalu amdanynt dderbyn gofal priodol, gan bobl sy'n parchu eu crefydd, eu diwylliant a'u hiaith) yn arbennig o berthnasol i'r cynnig.

9.6 Dylai'r cynnig gael effeithiau cadarnhaol ar yr Erthyglau hyn drwy ddatblygu ystod o leoliadau sefydlog o ansawdd da sy'n diwallu holl anghenion plentyn ac sy'n darparu amgylchedd cefnogol lle mae plant yn cael eu cadw'n ddiogel ac yn derbyn y gofal a'r cymorth y mae arnynt eu hangen arnynt er mwyn ffynnu. Bydd y lleoliadau hyn yn galluogi plentyn i gael ei leoli'n agos at ei gartref a chynnal cysylltiadau â theulu, ffrindiau, addysg a gwasanaethau cymorth eraill sy'n bwysig i'w lesiant.

9.7 Cydnabyddir, er hynny, fod risg i ddigonolrwydd a sefydlogrwydd lleoliadau wrth inni feithrin gwytnwch ac mae potensial i hyn gael effaith negyddol ar hawliau plant a'u canlyniadau yn y tymor byr.

**Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg**

9.8 Gall y cynnig gael effeithiau cadarnhaol ar y ddarpariaeth Gymraeg yn y sector gofal cymdeithasol, megis ysgogi twf gwasanaethau lleol a nid-er-elw dwyieithog neu Gymraeg. Er hynny, mae effeithiau negyddol posibl hefyd, megis y risg o golli staff a gofalwyr Cymraeg eu hiaith o'r sector preifat.

**Bioamrywiaeth**

9.9 Effaith niwtral fydd gan y Rhaglen, a'i hargymhellion, ar fioamrywiaeth. Fodd bynnag, gall fod yn ystyriaeth pan fydd asiantaethau cyhoeddus/nid-er-elw yn penderfynu ble i leoli unrhyw gartrefi gofal newydd sy'n cael eu hadeiladu. Yn ymarferol, er hynny, mae'r mwyafrif o gartrefi gofal mewn adeiladau presennol sydd wedyn yn cael eu haddasu i weddu i'w diben. Os bydd angen, byddwn yn ceisio annog datblygwyr unrhyw gartrefi gofal newydd sy'n cael eu hadeiladu i sicrhau bod bioamrywiaeth yn cael ei hystyried yn eu cynlluniau.

**Y Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol**

9.10 Nod y rhaglen yw gwella llesiant plant sy'n derbyn gofal, sydd yn aml yn wynebu anfanteision niferus, drwy greu sector gofal a chymorth sy'n diwallu eu hanghenion ac sy'n cael ei arwain gan ddarparwyr cyhoeddus a nid-er-elw. Gallai hyn fod o fudd hefyd i weithwyr gofal cymdeithasol, a fyddai'n cael tâl, amodau a rhagolygon gyrfa gwell. Bydd y rhaglen yn helpu awdurdodau lleol i gynllunio eu lleoliadau, yn cynorthwyo darparwyr nid-er-elw presennol a newydd, ac yn sicrhau trosi esmwyth i staff a gofalwyr o'r sector preifat. (Bydd hyn yn cyfrannu at y nod llesiant cenedlaethol ar gyfer Cymru sy'n fwy cyfartal.)

**Asesiad o’r Effaith ar Gyfiawnder**

9.11 Gallai'r cynigion arwain at gynnydd bach yn nifer yr apeliadau i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf. Y rheswm dros hyn yw ei bod yn debygol y bydd cynnydd mewn penderfyniadau i ganslo cofrestriad darparwr neu i amrywio cofrestriad i ddileu gwasanaeth cartref plant neu wasanaeth gofal maeth, gan y bydd seiliau newydd dros ganslo, ar y sail nad yw'r darparwr yn gymwys i ddarparu'r gwasanaeth gan nad yw'n bodloni'r meini prawf nid-er-elw. Yn

ogystal, bydd penderfyniadau ynghylch a yw darparwr yn berson addas a phriodol bellach, lle bo'n briodol, yn ystyried a yw'r darparwr wedi ymrwymo i drefniant ariannol er budd cyflogai, gweithiwr, swydd neu berson cysylltiedig sy'n afresymol neu'n anghymesur ym mhob un o'r amgylchiadau ac a allai, o ganlyniad, danseilio ymdrechion y darparwr gwasanaeth i gyflawni ei amcanion neu ei ddibenion (adran 9A newydd o Ddeddf 2016). Mae hyn yn golygu y gall fod yn ofynnol i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf, mewn rhai achosion, benderfynu a yw trefniant ariannol penodol yn dod o fewn adran 9A. Yn ogystal, mae'n bosibl y gallai fod adegau lle gall ymgeisydd ar gyfer cofrestru fel darparwr gwasanaeth cartref plant neu wasanaeth maethu wneud cais am adolygiad barnwrol o benderfyniad nad yw'n bodloni'r meini prawf nid-er-elw.

9.12 Rydym yn gwybod bod y llysoedd teulu yn delio â nifer cynyddol o achosion sy'n gysylltiedig â phrinder lleoliadau therapiwtig i blant ag anghenion cymhleth. Mae camau'n cael eu cymryd yn y maes hwn drwy'r ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu i '*Ariannu gwasanaethau preswyl rhanbarthol i blant ag anghenion cymhleth, gan sicrhau bod eu hanghenion yn cael eu diwallu mor agos at eu cartrefi â phosibl ac yng Nghymru lle bynnag y bo hynny'n ymarferol.'* Mae £4.8m wedi cael ei fuddsoddi yn ardaloedd y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol i ysgogi datblygu llety preswyl rhanbarthol ar gyfer plant ag anghenion cymhleth sydd â phrofiad o fod mewn gofal. O ganlyniad, mae 20 yn rhagor o welyau preswyl wedi dod ar gael, neu fe fyddant yn dod ar gael.

**Ystyriaethau iechyd**

9.13 Dylai'r rhaglen hefyd helpu i ddatblygu ymhellach ddulliau integredig ac arloesol a chyfannol o gomisiynu a darparu gwasanaethau gofal a chymorth i blant sy'n derbyn gofal er mwyn diwallu'r ystod o anghenion sydd gan blant o ran iechyd, gofal cymdeithasol a llesiant. (Bydd hyn yn cyfrannu at y nod llesiant cenedlaethol ar gyfer Cymru Iachach.) Dylai'r rhaglen gael effaith gadarnhaol ar fywydau'r grwpiau canlynol o blant a phobl ifanc:

- plant sy'n derbyn gofal sydd angen gofal a chymorth;
- plant sydd ar gyrion gofal neu sy'n wynebu risg o fod yn blant sy'n derbyn gofal; a
- phlant a phobl ifanc anabl sydd angen gofal a chymorth.

9.14 Mae tystiolaeth[89] yn awgrymu bod plant sy'n derbyn gofal yn debygol o gael cyfleoedd bywyd gwaeth, profi anghydraddoldebau iechyd ac adrodd canlyniadau gwaeth ar draws ystod eang o feysydd iechyd.

9.15 Mae pob plentyn sy'n derbyn gofal yn cael asesiad iechyd fel rhan o'i gynllun gofal a chymorth Rhan 6, sy'n nodi anghenion a chanlyniadau iechyd a llesiant y plentyn a sut y caiff y rhain eu diwallu. Nodir hyn yn Rheoliadau Cynllunio Gofal, Lleoli ac Adolygu Achosion (Cymru) 2015[90] a'r Cod Ymarfer Rhan 6.

[89] P.A. Fisher, L.D. Leve, B. Delker, L.E. Roos, B. Cooper. A developmental psychopathology perspective on foster care research. D. Cicchetti (Ed.), Developmental psychopathology, maladaptation and psychopathology, Vol. 3, Wiley, Hoboken, NJ (2016), tt. 513-554.

[90] https://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2015/1818/contents/made/welsh

**Diogelu Data**

9.16 Mae'r cynnig yn cynnwys deddfwriaeth newydd a fydd yn ei gwneud yn ofynnol i ddata personol gael eu prosesu gan awdurdodau lleol, gwasanaethau maethu a darparwyr cartrefi plant nad ydynt yn bodloni'r gofynion “nid-er-elw” ar gyfer cofrestru a gaiff eu cyflwyno yn y Bil.

9.17 Bydd y Bil yn caniatáu ar gyfer trefniadau trosiannol. O dan y trefniadau hyn bydd yn ofynnol i awdurdodau lleol wneud cais i Weinidogion Cymru am gymeradwyaeth i leoli plant gyda darparwyr na fyddant bellach yn gymwys i gael eu cofrestru ag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) gan nad ydynt yn bodloni'r profion (modelau busnes ac amcanion / dibenion a ganiateir) ond byddant yn parhau i fod wedi'u cofrestru felly ar sail drosiannol ac yn gallu darparu lleoliadau sydd wedi'u cymeradwyo gan Weinidogion Cymru.

9.18 Bydd y broses gymeradwyo yn cynnwys ceisiadau gan awdurdodau lleol a gaiff eu hanfon at dîm yn Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am ystyried y ceisiadau a gwneud penderfyniadau yn eu cylch. Ni fydd y ceisiadau'n cynnwys enwau plant unigol, ond mae'n bosibl y gellid adnabod plentyn o'r wybodaeth a ddarperir mewn rhai achosion.

9.19 Caiff darpariaeth ei gwneud hefyd a fydd yn ei gwneud yn ofynnol i'r darparwyr anghymwys hyn dderbyn lleoliadau gan awdurdodau lleol y tu allan i Gymru o dan rai amgylchiadau rhagnodedig yn unig. Bydd hyn yn ei gwneud yn ofynnol i brosesu data am y plant sy'n destun y lleoliadau hyn.

9.20 Bydd y camau hyn yn cynnwys prosesu data personol y plant sy'n destun cymeradwyaethau a throsglwyddo'r data hwn rhwng yr awdurdodau lleol, Llywodraeth Cymru a'r rheoleiddiwr, Arolygiaeth Gofal Cymru.

9.21 Mae asesiad o'r effaith ar ddiogelu data wedi’i gwblhau.

**Cyflwyno Taliadau Uniongyrchol ar gyfer Gofal Iechyd Parhaus**

9.22 Bydd y Bil yn cyflawni ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu i wella'r rhyngwyneb rhwng Gofal Iechyd Parhaus (GIP) a thaliadau uniongyrchol. Bwriad y cynnig i gyflwyno taliadau uniongyrchol ar gyfer GIP yw adfer llais a rheolaeth y rhai y mae ganddynt anghenion wedi'u hasesu o dan GIP.

9.23 Mae rhanddeiliaid yng Nghymru wedi tynnu sylw at y ffaith bod llais a rheolaeth pobl yn cael eu colli wrth drosglwyddo o ofal cymdeithasol a ddarperir gan awdurdod lleol (gyda'r gallu i wneud taliadau uniongyrchol yn lle darparu gwasanaethau) i GIP a ariennir gan y GIG (lle collir yr opsiwn o daliadau uniongyrchol).

9.24 I lawer, yn ychwanegol at golli llais a rheolaeth, mae peidio â gallu cyflogi cynorthwywyr personol y maent wedi dod yn gyfarwydd â nhw bellach ac y maent yn eu dewis i ddarparu eu gofal, yn cyfrannu at yr angen am Daliadau Uniongyrchol.

9.25 Mae'r cynnig yn cyd-fynd yn gryf â nodau Cymru Iachach a Chymru Fwy Cyfartal Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Yn ogystal â manteision iechyd, byddai defnyddio taliadau uniongyrchol i ddarparu GIP hefyd yn hyrwyddo cydraddoldeb i bobl anabl a'r rhai ag anghenion gofal iechyd cymhleth drwy gyflwyno modelau gofal iechyd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac sy'n caniatáu i'r unigolyn gael llais a rheolaeth dros ei fywyd.

9.26 Gellir cysylltu'r cynnig ag agendâu iechyd cyhoeddus allweddol eraill, er enghraifft y newid tuag at Ofal Iechyd sy'n Seiliedig ar Werth – lle mae cleifion a chlinigwyr yn gwneud penderfyniadau gwybodus ar y cyd.

9.27 Bydd hefyd yn cyfrannu at agendâu polisi cyhoeddus ehangach megis cymorth i'r economi sylfaenol, gan sicrhau bod arian yn cael ei wario ar ofal iechyd mewn ffordd a fydd o fudd i'n pobl a'n heconomi. Bydd recriwtio a chyflogi Cynorthwywyr Personol lleol i ddarparu GIP yn hybu mwy o wariant o gyllidebau Byrddau Iechyd Lleol mewn cymunedau lleol.
Cwblhawyd yr asesiadau effaith penodol llawn canlynol:

- Cydraddoldeb
- Prawfesur Gwledig
- Y Gymraeg
- Yr Economi / Asesiad Effaith Rheoleiddiol

9.28 Os bydd angen, bydd yr asesiadau effaith perthnasol yn cael eu datblygu ochr yn ochr â’r is-ddeddfwriaeth sy’n deillio o’r Bil.

**Cydweithio a chynnwys**
9.29 Cafodd y cynnig a'r opsiynau i'w gweithredu eu datblygu gyda chynrychiolwyr grwpiau rhanddeiliaid allweddol gan gynnwys byrddau iechyd, awdurdodau lleol, sefydliadau pobl anabl, pobl anabl a phobl â phrofiad bywyd a grwpiau'r trydydd sector.

9.30 Mae cydraddoldeb, hawliau dynol a'r Model Cymdeithasol o Anabledd wedi bod yn egwyddorion arweiniol pwysig iawn yn y gwaith polisi hwn a byddant yn dal yn bwysig mewn unrhyw gynllun gweithredu.

**Effeithiau a dadleuon o blaid ac yn erbyn y cynnig**

9.31 Gellir crynhoi'r prif effeithiau fel a ganlyn:

| **Cryfderau** | **Gwendidau** |
|---|---|
| • Tegwch o ran y mecanweithiau sydd ar gael i sicrhau llais a rheolaeth, ni waeth a ddarperir gofal gan awdurdod lleol neu gan fwrdd iechyd<br>• Mwy o unigolion o bosibl yn cytuno i asesiadau GIP, heb ofni colli taliadau uniongyrchol, ac | Mae nifer o faterion posibl i'w datrys wedi cael eu hamlygu gan randdeiliaid, yn enwedig Arweinwyr GIP y GIG, gan gynnwys:<br>• Adnoddau, amser a hyfforddiant i gyflwyno system newydd<br>• Addasu a gwella prosesau llywodraethiant a rheoli risg gan |

| | |
|---|---|
| felly mae eu hanghenion iechyd cymhleth yn cael eu rheoli'n well<br>• Atal awdurdodau lleol rhag parhau i orfod diwallu anghenion cymhleth pobl, os ydynt wedi gwrthod asesiad GIP oherwydd ofni colli taliadau uniongyrchol<br>• Gofal mwy ymatebol a phersonol, sy'n sensitif i ddewisiadau person (e.e. diwylliannol ac ieithyddol) ac sy'n cael ei ddarparu yng nghartref yr unigolyn ei hun gyda'r buddion llesiant sy'n deillio o hynny<br>• Tystiolaeth o werth gwell am arian na GIP a ddarperir yn gonfensiynol, ac yn cael ei werthfawrogi'n well gan y rhai sy'n cael y gofal<br>• Y cyfle i ddysgu o ganllawiau, astudiaethau achos a gwerthusiadau o'r hyn sydd wedi gweithio'n dda yn Lloegr – ers mis Hydref 2014 mae pobl sy'n gymwys i gael GIP wedi cael yr hawl gyfreithiol i gyllideb iechyd personol ac i gael mynediad at daliadau uniongyrchol. | gynnwys canllawiau cymhwysedd cadarn<br>• Sicrhau ansawdd a diogelwch gofal sydd wedi'i ddirprwyo i Gynorthwywyr Personol<br>• TG, seilwaith ariannol, prosesau caffael a chymorth i'r rhai sy'n cael taliadau uniongyrchol<br>• Gall y dewisiadau o ran sut y mae anghenion gofal iechyd yn cael eu diwallu fod yn gyfyngedig iawn. Mae cydbwysedd rhwng cynnig dewis a'r hyn sy'n angenrheidiol, yn ôl asesiad clinigol, i ddiwallu angen iechyd, felly bydd angen rheoli disgwyliadau<br>• Y potensial am lai o reolaeth dros delerau ac amodau staff a gyflogir drwy daliadau uniongyrchol o'u cymharu â'r rhai yn y system gofal iechyd, ac felly dirywiad yn y telerau ac amodau hynny.<br><br>Nodyn - Mae cryn dipyn o amser wedi'i dreulio ar nodi unrhyw broblemau posibl a chynllunio sut y gellir eu datrys a'u lliniaru. Dysgu o fesurau perthnasol yn Lloegr yn ogystal â manteisio ar fframweithiau presennol yng Nghymru e.e. Fframwaith Dirprwyo'r GIG, Cod Ymarfer Taliadau Uniongyrchol Gofal Cymdeithasol etc. |
| **Cyfleoedd**<br>• Teilwra dull newydd sy'n addas i Gymru, dysgu gan Fyrddau Iechyd Lleol a chyflwyno mesurau tymor byr yng Nghymru a chydgynhyrchu â rhanddeiliaid<br>• Cyfle i ofalwyr di-dâl ac aelodau o'r teulu ddod yn weithwyr cyflogedig fel cynorthwywyr personol – gan greu swyddi a gwobrwyo gofalwyr di-dâl<br>• Agor ffyrdd newydd o ddarparu gofal, gan leihau'r straen ar wasanaethau gofal cartref<br>• Symud tuag at ofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a llais | **Bygythiadau**<br>• Nifer uwch o unigolion o bosibl yn trosglwyddo i GIP, yn enwedig i ddechrau, gan gynyddu'r costau i fyrddau iechyd<br>• Risgiau posibl ynghylch cael Cynorthwywyr Personol (yn hytrach na staff cofrestredig) i ymgymryd â thasgau gofal*<br>• Risg ganfyddedig bod hyn yn fath o breifateiddio gofal iechyd yn fwy. Er hynny, mae Byrddau Iechyd Lleol eisoes yn comisiynu gwasanaethau o'r sector preifat o dan GIP. |

| | |
|---|---|
| a rheolaeth i unigolion sy'n cael gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol<br>• Byddai diwygio Deddf 2006 mewn ffordd eang i ganiatáu i Fyrddau Iechyd Lleol ddarparu taliadau uniongyrchol, yn caniatáu'r opsiwn i ehangu taliadau uniongyrchol i feysydd eraill y tu hwnt i GIP, drwy Reoliadau, yn y dyfodol, os dyna fyddai'r dymuniad | Hefyd gall Rheoliadau a Chanllawiau nodi'n benodol yr hyn y gellir ac na ellir ei gynnwys o dan daliadau uniongyrchol.<br><br>*Bydd angen gweithdrefnau dirprwyo clir (sydd eisoes ar waith). Bydd tasgau yn rhai arferol, gyda modd i'w huwchgyfeirio ar gyfer unrhyw anghenion gofal nad ydynt yn arferol |

**Grwpiau allweddol yr effeithir arnynt:**
9.32 Y grwpiau allweddol yr effeithir arnynt yw:
- Defnyddwyr GIP
- Pobl anabl
- Pobl hŷn
- Byrddau Iechyd Lleol
- Y gymuned ehangach
- Awdurdodau lleol
- Pobl mewn ardaloedd gwledig
- Grwpiau lleiafrifol

9.33 Dangosir yr effaith allweddol ar y grwpiau hynny isod:

Defnyddwyr GIP:

- Llesiant: gallai effaith gadarnhaol sylweddol ar lesiant (mwy o reolaeth dros eu bywydau bob dydd a'r cymorth a gânt), arwain at integreiddio defnyddwyr GIP yn fwy yn eu cymuned drwy glybiau etc (gan fynd i'r afael ag ynysigrwydd cymdeithasol); mae hyn yn cynyddu'r posibilrwydd o ailymgysylltu ag addysg a byd gwaith.
- Iechyd:
    - Mae gwella llesiant/teimlad o reoli eich gofal iechyd eich hun yn cynyddu ymgysylltiad â thriniaethau gofal iechyd ac yn lleihau derbyniadau heb eu cynllunio yn y tymor hir.
    - Mae annibyniaeth yn arwain at welliant mewn llesiant meddyliol.
    - Budd iechyd i'r rhai sy'n gwrthod GIP ar hyn o bryd gan y byddent yn cael gofal cymhleth priodol.

Pobl anabl:

- Llesiant/Iechyd:
    - Bydd unigolion anabl yn teimlo bod rhywun yn gwrando arnynt, gan eu bod wedi ymgyrchu dros y newid hwn ers blynyddoedd lawer gyda'r bwriad o alluogi pobl anabl i gael y rheolaeth a'r dewis mwyaf posibl yn eu bywydau eu hunain.
    - Bydd y newid yn cyd-fynd â nod y model cymdeithasol o anabledd o ddileu rhwystrau cymdeithasol sy'n atal pobl anabl rhag gwneud penderfyniadau drostynt eu hunain.

- Bydd pobl anabl yn teimlo eu bod yn gallu mynd am asesiad GIP ac, os ydynt yn gymwys, gael y gofal y mae arnynt ei angen, yn hytrach nag aros gyda gofal cymdeithasol ac o bosibl gyfaddawdu o ran yr ymyriadau iechyd y mae arnynt eu hangen.

Pobl hŷn:
Llesiant/Iechyd:

- Byddai'r opsiwn o daliadau uniongyrchol yn golygu y gallai pobl hŷn sy'n derbyn GIP gael gofal gartref mewn amgylchedd cyfarwydd a chan bobl a ddewiswyd ganddyn nhw eu hunain neu eu teuluoedd.
- Byddai cyfundrefnau gofal personol ac amserol yn arwain at lai o angen am dderbyniadau brys i gartref nyrsio neu i'r ysbyty, gan osgoi tarfu trawmatig

Byrddau Iechyd Lleol:

- Er bod Byrddau Iechyd Lleol yn cytuno â'r egwyddor o gynyddu llais a rheolaeth i'r rhai sy'n derbyn gofal iechyd, maent wedi rhannu nifer o bryderon ynghylch y gwaith ymarferol o ddarparu taliadau uniongyrchol. Gellir crynhoi'r rhain yn dri phrif gategori fel a ganlyn:
    - **Pryder am gostau** – Potensial am gostau uwch (yn enwedig i ddechrau) ar adeg o gyfyngiadau cyllidebol i'r GIG yn ei grynswth.

      Camau lliniaru arfaethedig:
        1. Cynnig y dylai'r costau sefydlu a chyflawni craidd gael eu hamsugno gan Lywodraeth Cymru am gyfnod trosiannol o dair blynedd.
        2. Ar ôl y blynyddoedd cychwynnol, bydd costau sefydlu'r dull newydd yn dechrau cael eu gwrthbwyso gan arbedion o ganlyniad i gyflwyno Taliadau Uniongyrchol. Mae dadansoddiad yn Lloegr wedi dangos arbediad o 16% ar gyfer pecynnau GIP a ddarperir drwy Daliadau Uniongyrchol. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi modelu ystod arbedion o 11% - 16%.

    - **Pryder am setiau sgiliau** – Angen setiau sgiliau newydd i ddarparu taliadau uniongyrchol.

      Camau lliniaru arfaethedig:
        1. Cynnig i sefydlu dull 'model hyb' o ganoli swyddogaethau taliadau uniongyrchol gweinyddol craidd a defnyddio arbenigedd/sgiliau lleol.

    - **Pryderon am ddirprwyo** – Angen mwy o drefniadau llywodraethiant i sicrhau bod gofal yn cael ei ddirprwyo'n ddiogel i Gynorthwywyr Personol.

      Camau lliniaru arfaethedig:
        1. Mae Cronfa Risg Cymru wedi cytuno i helpu i lunio canllawiau a chynnal sesiynau hyfforddi ar yr elfennau llywodraethiant / risg ar gyfer Byrddau Iechyd Lleol.

2. Bydd yswiriant ar waith ar gyfer pob pecyn Taliadau Uniongyrchol a fydd yn lleihau'r risg i'r Byrddau Iechyd Lleol eu hunain yn sylweddol.
3. Cynlluniau i adnewyddu canllawiau dirprwyo Trydydd Sector GIG Cymru yn ystod y flwyddyn gyntaf y mae ar waith i gymryd taliadau uniongyrchol i ystyriaeth.

- Y gymuned ehangach: bydd unigolion o'r gymuned leol yn cael eu cyflogi drwy Daliadau Uniongyrchol a bydd arian yn aros yn y gymuned, yn hytrach na bod contractau caffael yn mynd i gwmnïau mawr nad ydynt yn rhai lleol neu a allai fod â phencadlys y tu allan i Gymru.
- Awdurdodau lleol: bydd cyflwyno Taliadau Uniongyrchol mewn GIP yn lleddfu rhywfaint o'r pwysau ar yr awdurdodau lleol o ran parhau i reoli unigolion ag anghenion cymhleth, gan y bydd yr unigolion hynny bellach yn fodlon cael eu hasesu ar gyfer GIP. Dylai'r costau cysylltiedig gael eu trosglwyddo hefyd.
- Pobl mewn ardaloedd gwledig: Gallai taliadau uniongyrchol gynnig un llwybr i fynd i'r afael â heriau o fewn y sector gofal sy'n cael eu gwaethygu gan faterion gwledig – efallai y bydd pobl yn fwy tebygol o ddod o hyd i ofalwyr eu hunain nag y byddai asiantaethau mwy, a allai ei chael hi'n anodd recriwtio a threfnu gofal mewn ardaloedd gwasgaredig. Bydd Taliadau Uniongyrchol yn cefnogi unigolyn i ddewis gofalwyr sy'n gallu gweithio yn Gymraeg mewn ardaloedd Cymraeg gwledig.
- Grwpiau lleiafrifol gan gynnwys pobl â nodweddion gwarchodedig: Mae Taliadau Uniongyrchol yn caniatáu i aelodau o grwpiau lleiafrifol ddewis gofalwyr sydd â'r un cefndir diwylliannol, ieithyddol neu grefyddol a fydd yn gwella'u hyder/cysur. Bydd yn caniatáu i unigolion LHDTC+ gyflogi unigolion y maent yn teimlo'n gyfforddus â nhw. Bydd rhyddid dewis yn arbennig o fuddiol i grwpiau lleiafrifol sydd â nodweddion gwarchodedig croestoriadol gan y bydd gan unigolion reolaeth dros y staff y maent yn eu cyflogi i sicrhau bod eu holl anghenion yn cael eu diwallu.

**Trefn reoleiddio ar gyfer gwasanaethau rheoleiddiedig, darparwyr gwasanaethau ac unigolion cyfrifol dynodedig**

9.34 Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ar y Bil yn 2022, ac ymgysylltwyd yn uniongyrchol â sefydliadau sy'n cynrychioli grwpiau y mae'r cynnig fwyaf tebygol o effeithio arnynt, gan gynnwys:

- Darparwyr gwasanaethau a gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio ym maes gofal cymdeithasol, iechyd, yr heddlu a'r gwasanaeth prawf, addysg a gofal plant, a'u cynrychiolwyr.
- Defnyddwyr gwasanaethau gofal cymdeithasol, eu teuluoedd a'u cynrychiolwyr.
- Oedolion sy'n cael Gofal Iechyd Parhaus y GIG, eu teuluoedd a'u cynrychiolwyr.
- Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) a Gofal Cymdeithasol Cymru (GCC), a'r rhai sy'n cael eu rheoleiddio ganddynt neu sy'n ymgysylltu â nhw.

9.35 Mae'r effeithiau cadarnhaol mwyaf sylweddol yn cael eu hamlinellu fel a ganlyn:

- mae’r diwygiadau sy’n ymwneud a’r pwerau i ofyn am wybodaeth a’r pwerau i fynd i mewn i fangreoedd er mwyn canfod gwasanaethau sy’n gweithredu heb gofrestru yn cefnogi'r nod o ddiogelu unigolion agored i niwed a allai wynebu risg wrth ddefnyddio gwasanaeth nad oes ganddo'r oruchwyliaeth na'r mesurau angenrheidiol ar waith i sicrhau eu diogelwch a'u llesiant.
- bydd y diwygiadau i osod y gofyniad i gyhoeddi datganiadau blynyddol ar ddarparwyr gwasanaethau yn lleihau'r baich ar AGC yn sylweddol. Ni fydd angen i AGC wirio'r datganiadau ar gyfer achosion posibl o dor diogelwch data neu wybodaeth arall nad yw'n briodol ei chyhoeddi. Bydd hyn yn galluogi AGC i ganolbwyntio ar eu rôl graidd o reoleiddio gwasanaethau.
- mae'r diwygiadau i'r weithdrefn sydd i’w dilyn wrth amrywio neu ganslo cofrestriad darparwr gwasanaeth heb gais yn creu mwy o gysondeb yn ymarferol ac yn dileu camau diangen o fewn prosesau, a fydd yn galluogi AGC i ymateb mewn ffordd fwy ystwyth a chynnil, gan arbed amser i'r rheoleiddiwr ac i ddarparwyr.
- bydd y diwygiadau i alluogi rheoliadau i gael eu gwneud sy'n rhagnodi y dylai cais i ganslo cofrestriad darparwr gwasanaeth gynnwys gwybodaeth ragnodedig, ac y dylai gael ei wneud ar ffurf ragnodedig, yn galluogi rheoliadau i gael eu gwneud a fydd yn caniatáu i AGC ei gwneud yn ofynnol bod gwybodaeth yn cael ei darparu gan ddarparwyr sy'n dymuno canslo eu cofrestriad, ynghylch sut y maent yn bwriadu cydymffurfio â rheoliadau o dan adran 27 o Ddeddf 2016 hyd nes y bydd y gwasanaeth yn peidio â gweithredu. Mae hyn yn gyson â'r broses sydd eisoes ar waith ar gyfer ceisiadau i amrywio cofrestriad

darparwr. Bydd yr wybodaeth yn rhoi sicrwydd i AGC y gall y gwasanaeth barhau i gefnogi diogelwch a llesiant unigolion yn y gwasanaeth a bydd yn rhoi eglurder i ddarparwyr gwasanaethau am yr wybodaeth a ddisgwylir o dan yr amgylchiadau hyn.

- Mae'r diwygiad i'r diffiniad o 'wasanaeth cartref gofal' yn ei gwneud yn glir bod darparu llety a gofal i blentyn gan awdurdod lleol yn gyfystyr â gwasanaeth cartref gofal, hyd yn oed pan fo gan yr awdurdod lleol gyfrifoldeb rhiant dros y plant yn y cartref, ac felly bod angen iddo gofrestru â’r rheoleiddiwr gwasanaeth.

9.36 Gellid ystyried y canlynol yn effeithiau negyddol:

- gallai'r diwygiadau i osod y gofyniad ar ddarparwyr gwasanaethau i gyhoeddi datganiadau blynyddol ar-lein arwain at oblygiadau amser neu gost wrth sefydlu a chynnal gwefannau ar gyfer unrhyw ddarparwyr gwasanaeth nad oes ganddynt eu gwefannau eu hunain eisoes. Serch hynny, er ein bod yn cydnabod nad oes gan leiafrif o ddarparwyr gwasanaeth wefan, mae modd sefydlu gwefannau sylfaenol yn gyflym ar lawer o blatfformau, a hynny am ddim neu am gost fach. Rydym o'r farn bod digon o amser cyn i'r gofyniad ddod i rym i ddarparwyr sefydlu gwefan.

9.37 Bydd y cynigion sy'n ymwneud â'r diwygiadau hyn yn cyflawni bwriad polisi gwreiddiol Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016, yn datrys anghysondebau o fewn systemau sydd wedi dod i'r amlwg yn ymarferol, a/neu yn cynorthwyo Arolygiaeth Gofal Cymru a Gofal Cymdeithasol Cymru yn eu prosesau a'u gweithgareddau rheoleiddio.

**Rheoleiddio'r Gweithlu Gofal Cymdeithasol**

9.38 Er na fyddai peidio â rhoi'r cynigion ar waith yn cael effaith sylweddol ar y rheoleiddiwr, na'r sector, byddai rhoi'r cynigion ar waith yn helpu i symleiddio'r broses gofrestru a'r broses addasrwydd i ymarfer. Bydd y manteision cyffredinol yn rhai tymor hir ac yn helpu i atgyfnerthu'r syniad o drefn reoleiddio deg a chynhwysol yng Nghymru.

9.39 Canlyniadau anfwriadol yw'r rhai a amlinellwyd gan Gofal Cymdeithasol Cymru a bydd y camau cywiro syml hyn yn rhoi pwerau i'r rheoleiddiwr i ddarparu mwy o gymorth i'r gweithlu ac yn sicrhau bod ein harferion rheoleiddio yn gyflym ac yn gymesur.

**Mân ddiwygiadau a diwygiadau technegol eraill**

9.40 Ni ddisgwylir i'r mân ddiwygiadau na’r diwygiadau technegol eraill a amlinellir ym Mhennod 3 o'r Bil effeithio ar yr arferion presennol. O ganlyniad, nid yw'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn trafod costau, manteision nac effeithiau eraill y diwygiadau hyn. Drwy sicrhau mwy o sicrwydd cyfreithiol, er hynny, disgwylir i'r diwygiadau hyn leihau'r risg na fydd y bwriadau polisi y tu ôl i ddarpariaethau perthnasol Deddfau 2014 a 2016 yn cael eu gwireddu'n llawn.

Noder: at ddiben helpu pobl i ddeall Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru) yn unig y mae'r ddogfen hon wedi'i llunio. Ni ddylid dibynnu arni at unrhyw ddiben arall.

**Y diffiniad o weithiwr gofal cymdeithasol i gynnwys gweithwyr gofal plant a chwarae**

**Y gweithlu gofal plant a gwaith chwarae**

9.41 Nod y cynnig yn y pen draw yw sicrhau bod pawb sy'n rhan o'r gweithlu gofal plant (gan gynnwys gwaith chwarae) yn gallu cael cynnig cymorth parhaus gan gorff arbenigol. Bydd hyn yn digwydd mewn sawl maes – denu staff, mynediad, recriwtio, hyfforddiant cynefino, a dilyniant gyrfa. Nod GCC bob amser yw datblygu gweithlu cymwys medrus iawn a sicrhau bod dull sy'n canolbwyntio ar y plentyn wrth wraidd popeth y maent yn ei wneud.

9.42 Er bod y rôl hon wedi'i derbyn yn hanesyddol gan GCC ar gyfer y gweithlu gofal plant a hwythau'n cael eu hariannu i wneud hynny, caiff hyn ei roi yn awr ar sail fwy ffurfiol a'i ehangu i gynnwys y gweithlu gwaith chwarae.

9.43 Bydd y diwygiad hefyd yn sicrhau bod GCC yn gallu cefnogi'r gweithlu gofal plant yn ei gyfanrwydd. Er nad oes gwahaniaeth cyfreithiol rhwng personau sy'n gweithio/sy'n cael eu cyflogi mewn lleoliadau gofal dydd a chwarae (cynhwysir lleoliadau chwarae o fewn ystyr 'gofal dydd' yn adran 19 o'r Mesur) yn ymarferol nid yw'r cymorth a ddarperir gan GCC wedi bod yn cwmpasu pobl sy'n gweithio mewn lleoliadau chwarae (gweithwyr chwarae). Cynigir y bydd unrhyw reoliadau a wneir yn unol â'r diwygiad yn ffurfioli'r cymorth a ddarperir ar hyn o bryd gan GCC i'r sector ac yn sicrhau bod hyn yn cael ei ddarparu i'r sector cyfan (gan gynnwys gweithwyr chwarae).

9.44 Mae gan GCC berthynas gadarnhaol gref eisoes â chyrff allweddol y sector megis Chwarae Cymru. Bydd cydweithio yn allweddol wrth sicrhau bod yr arbenigedd sydd ganddynt yn cael ei ddefnyddio a bod egwyddorion a gwerthoedd gwaith chwarae allweddol yn cael eu hadlewyrchu yng nghymorth GCC i'r gweithlu cyfan.

9.45 Bydd y cynnig yn helpu i sicrhau bod y gweithlu gwaith chwarae'n teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cefnogi wrth iddynt gael eu dwyn o dan ymbarél corff arbenigol.

**Plant**

9.46 Wrth gefnogi a datblygu'r gweithlu, mae GCC yn ceisio sicrhau y bydd pob plentyn yn cael y dechrau gorau mewn bywyd gyda chymorth staff cadarnhaol o ansawdd uchel sy'n gweithio ar draws ystod o wahanol leoliadau.

**Rhieni/Gofalwyr**

9.47 Drwy eu fframwaith Gofalwn Cymru, bydd y gweithlu gofal plant a chwarae yn cael ei wella gan roi sicrwydd i rieni/gofalwyr ynghylch y gwaith a wneir gan y sector. Bydd yr egwyddorion a'r gwerthoedd allweddol sy'n ymwneud â gofal plant a gwaith chwarae yn cael eu gosod ar sail fwy ffurfiol a bydd modd taflu goleuni'n rheolaidd ar y rôl ac ar werth ychwanegol y gweithlu hwn i ddatblygiad plant.

9.48 Disgwylir i effeithiau'r cynnig fod yn gadarnhaol i raddau helaeth i'r gweithlu yn awr ac yn y dyfodol. Mae'r nod hirdymor o sicrhau sector gofal plant a gwaith chwarae cynaliadwy, o ansawdd uchel a gwerthfawr yn dal yn gymwys wrth geisio'r diwygiad hwn.

9.49 Mae cynaliadwyedd y sector gofal plant a gwaith chwarae yn effaith gadarnhaol i'r newid arfaethedig drwy gymorth parhaus GCC; fel rhan allweddol o'r economi sylfaenol, mae'n galluogi rhieni i ddychwelyd i'r gwaith ac i gynyddu eu horiau, ac mae'n cefnogi'r rhai sy'n gweithio oriau afreolaidd.

9.50 Mae'r cynigion yn dod â'r sector gwaith chwarae'n ffurfiol i'r cynnig cymorth a ddarperir gan GCC, gan arwain at sector gofal plant a gwaith chwarae cyfan sy'n teimlo ei fod yn cael ei gynnwys a'i gefnogi. Gall darpariaeth gofal plant a gwaith chwarae o ansawdd uchel gael dylanwad cadarnhaol ar ddatblygiad plentyn a'i helpu i ddatblygu i'w botensial llawn. Mae tystiolaeth yn awgrymu bod plant o gefndiroedd difreintiedig yn cael mwy o fudd o gael gofal plant o ansawdd uchel ac y gall gofal felly helpu i unioni anfanteision datblygiadol a'r bwlch cyrhaeddiad.

# 10. Adolygu ar ôl gweithredu

## <u>Dileu Elw Preifat o Ofal Plant sy'n Derbyn Gofal</u>

**Gweithredu a Chydymffurfio**

10.1 Bydd y darpariaethau deddfwriaethol sy'n ymwneud â dileu elw yn dod i rym ar ddiwrnod a bennir gan Weinidogion Cymru. Dyma'r amserlen gyffredinol y mae'r Gweinidogion wedi nodi eu bod yn bwriadu ei dilyn:

- Bydd rhaid i ddarparwyr newydd sy'n cofrestru ag AGC fod yn endid nid-er-elw (fel y nodir yn y Bil) o 1 Ebrill 2026 ymlaen
- Bydd angen i unrhyw ddarparwyr 'er elw' presennol drosi i fod yn endid nid-er-elw a chofrestru ag AGC fel endid nid-er-elw (fel y nodir yn y Bil) erbyn 1 Ebrill 2030 fan bellaf, oni bai eu bod yn elwa o'r darpariaethau trosiannol a nodir yn y Bil (diwygiwyd hyn o 1 Ebrill 2027 fan bellaf ar ôl ystyried adborth gan Bwyllgorau a rhanddeiliaid wrth graffu).

10.2 Cyhoeddir canllawiau i awdurdodau lleol i gefnogi gweithredu a chydymffurfio â'r Bil ac i sicrhau bod y rhai yr effeithir arnynt yn deall ei ddarpariaethau'n glir.

**Gwerthusiad ac adolygiad ffurfiol**

10.3 Bydd rhaglen o fonitro a gwerthuso parhaus yn sail i weithredu'r elfen ar y Bil sy'n ymwneud â dileu elw. Bydd hyn yn cael ei gyflawni'n rhannol drwy Fwrdd y Rhaglen Dileu Elw a sefydlwyd yn 2021 i gefnogi'r gwaith o gyflawni ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddileu elw. O dan gadeiryddiaeth Prif Swyddog Gofal Cymdeithasol Cymru, mae'n dwyn ynghyd gynrychiolwyr o bob rhan o'r sector i helpu i lywio a monitro darpariaeth a gweithredu, i asesu a lliniaru risgiau, i lywio ac adolygu'r dull gweithredu ac i sicrhau sefydlogrwydd y farchnad. Bydd y Bwrdd Rhaglen hwn yn parhau i gyfarfod yn rheolaidd er mwyn monitro a gwerthuso'r gweithredu.

10.4 Byddai angen i werthusiad mwy ffurfiol ganolbwyntio ar i ba raddau y mae'r ddeddfwriaeth wedi cyfrannu at gyflawni'r newid ar draws yr ystod o ganlyniadau allweddol lle'r ydym yn disgwyl iddi wneud gwahaniaeth. Fel yr amlygwyd uchod, mae hyn yn cynnwys gwella cynllunio lleoliadau a rheoli capasiti, gwella sefydlogrwydd lleoliadau a sicrhau y gellir lleoli plant yn lleol mewn lleoliad sy'n diwallu eu hanghenion orau. Byddai'r gwerthusiad yn canolbwyntio hefyd ar y ffordd y caiff y ddeddfwriaeth ei gweithredu yng Nghymru, a rôl partneriaid allweddol yn cyflawni ei hamcanion, yn ogystal ag unrhyw ganlyniadau eraill. Rhoddir ystyriaeth bellach i gynnwys y gwerthusiad a'r adolygiad dros y misoedd nesaf.

**Data**

10.5 Bydd y data gweinyddol mwyaf perthnasol a gesglir fel mater o drefn gan Lywodraeth Cymru a'i phartneriaid yn cael ei ddefnyddio wrth fonitro a gwerthuso'r ddeddfwriaeth. Mae'n bwysig nodi y bydd hyn yn cynnwys ystod o wybodaeth a gesglir gan yr awdurdodau lleol, Arolygiaeth Gofal Cymru a Chonsortiwm Comisiynu Cymru ar gyfer Plant (4C) ar gyfansoddiad y farchnad gofal cymdeithasol i blant, sefydlogrwydd y farchnad, canlyniadau arolygu a gorfodi, a digonolrwydd o fewn y farchnad.

**Cyflwyno taliadau uniongyrchol ar gyfer Gofal Iechyd Parhaus**

10.6 Er mwyn asesu effeithiolrwydd y cynnig hwn, byddwn yn comisiynu gwerthusiad annibynnol. Bydd y gwerthusiad hwn yn ymdrin â gweithredu'r cynnig a'i effaith. Bydd y gweithredu'n cael ei asesu drwy werthusiad o'r broses, a allai gynnwys datblygu Damcaniaeth Newid, sy'n mapio'r mewnbynnau a'r gweithgareddau a wneir drwy'r cynnig yn allbynnau ar unwaith, ac wedyn yn ganlyniadau ac effeithiau tymor hwy.

10.7 Bydd y gwerthusiad o'r broses hefyd yn cynnwys cyfweliadau â'r rhai sy'n ymwneud â gweithredu'r cynnig i archwilio unrhyw rwystrau neu faterion a allai gael effaith ar effeithiolrwydd y gweithredu terfynol. Mae hyn yn helpu i lywio'r broses o gyflawni'r cynnig yn y dyfodol ac yn sicrhau bod y cynnig yn cael ei gyflawni yn unol â'r bwriad.

10.8 Bydd y gwerthusiad o'r effaith yn mynd rhagddo wedyn i brofi'r canlyniadau a'r effeithiau hynny â derbynwyr arfaethedig y cynnig. Bydd y gwerthusiad hwn yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau, megis defnyddio setiau data cyhoeddedig, arolwg a/neu gyfweliadau manwl i edrych ar effaith y cynnig. Bydd hyn wedyn yn helpu i lywio'r gwaith o ddatblygu polisïau yn y dyfodol ac o asesu effeithiolrwydd terfynol y cynnig.

10.9 Gofynnir hefyd am setiau data'r Byrddau Iechyd Lleol eu hunain i roi darlun o'r nifer sy'n manteisio ar daliadau uniongyrchol ar gyfer GIP ledled Cymru, a bydd hyn yn cael ei fonitro dros amser i weld a yw'r opsiwn yn dal yn hygyrch ac a fydd y galw am yr opsiwn yn cynyddu, fel y gwelwyd yn Lloegr.

**Rheoleiddio'r gweithlu Gofal Cymdeithasol**

10.10 Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Gofal Cymdeithasol Cymru i ddatblygu adolygiad ôl-weithredu o'r rhaglen gofrestru erbyn 2024.

**Y diffiniad o weithiwr gofal cymdeithasol i gynnwys gweithwyr gofal plant a chwarae**

10.11 Os caiff yr amwysedd cyfreithiol ei gywiro, ac os bydd rhoi cymorth i ofal plant a gwaith chwarae yn dod yn rhan o rôl ddiffiniedig GCC, gallai polisi Llywodraeth Cymru arwain at yr angen am gyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru i GCC er mwyn cynyddu eu gallu a'u harbenigedd mewn gwaith chwarae. Bydd swyddogion yn gweithio'n agos gyda PETC Cymru a Gofal Cymdeithasol Cymru i bennu'r dull mwyaf costeffeithiol a chynaliadwy yn ogystal â'r amserlenni ar gyfer twf.

10.12 Ar hyn o bryd, cynhelir cyfarfodydd monitro rheolaidd gyda GCC i fonitro gweithrediad gweithgarwch sydd wedi'i gynnwys yn eu cynllun gwaith blynyddol, nodi risgiau ac unrhyw fesurau lliniaru angenrheidiol. Byddai unrhyw gynnydd yn swyddogaethau GCC mewn perthynas â gwaith chwarae, yn cael ei adlewyrchu yn y cynllun gwaith a'r trefniadau monitro. Cynhelir adolygiad i edrych ar y gwersi a ddysgwyd ac i ganolbwyntio ar edrych ymlaen at gynllun gwaith y flwyddyn nesaf gan gynnwys asesiad o gostau. Byddai'r

broses hon yn parhau a byddai'n cynnig cyfle i edrych ar y costau parhaus angenrheidiol wrth i GCC ddod yn fwy cyfarwydd â'r rôl, gan sicrhau bod ei swyddogaethau hefyd yn cynnwys cymorth i weithwyr chwarae.

# 11. Asesiad Fforddiadwyedd

### Dull gweithredu

11.1 Er bod yr asesiad effaith rheoleiddiol yn asesu gwerth cymdeithasol ac yn cynnwys effeithiau diwylliannol, cymdeithasol ac amgylcheddol ochr yn ochr â chostau a manteision economaidd, asesiad ariannol yn unig yw'r asesiad fforddiadwyedd hwn. O’r herwydd, dim ond costau arian parod a manteision sy’n rhyddhau arian parod sy’n cael eu cynnwys. Mae unrhyw gostau a manteision amgylcheddol, cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd ehangach a nodwyd yn asesiad effaith rheoleiddiol y Bil wedi cael eu dileu o’r asesiad fforddiadwyedd hwn.

11.2 Mae'r asesiad fforddiadwyedd yn canolbwyntio ar gyrff cyhoeddus yng Nghymru ac yn ystyried yr un cyfnod amser â'r asesiad effaith rheoleiddiol, 2025-26 i 2034-35.

11.3 Nododd yr asesiad effaith rheoleiddiol nifer o gostau cyfle sy’n gysylltiedig â’r amser sy'n cael ei dreulio gan aelodau presennol o staff ar weithgareddau sy’n ymwneud â gweithredu’r Bil. Gan nad yw’r costau cyfle hyn yn golygu gwariant ariannol ychwanegol i’r sefydliadau o dan sylw, nid ydynt wedi'u cynnwys yn yr asesiad fforddiadwyedd hwn.

11.4 Mae’r costau arian parod a’r manteision sy’n rhyddhau arian parod yn yr asesiad hwn wedi cael eu haddasu i adlewyrchu chwyddiant disgwyliedig yn ystod y cyfnod gwerthuso. Mae’r addasiad hwn wedi cael ei wneud ar sail amcanestyniadau'r datchwyddydd GDP sydd wedi’u cynnwys yn Rhagolygon Economaidd a Chyllidol y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol (OBR)[91] a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2024. Nid oedd amcanestyniadau OBR yn ymestyn ond i 2029-30 ac felly mae amcanestyniad OBR ar gyfer blwyddyn olaf ei rhagolwg wedi cael ei ddefnyddio ar gyfer gweddill y cyfnod gwerthuso. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i fonitro effaith chwyddiant ar gostau ariannol y Bil.

11.5 Oni nodir yn wahanol, mae’r holl gostau wedi cael eu talgrynnu i’r £1,000 agosaf. Efallai na fydd rhai o’r cyfansymiau mewn tablau yn cyfateb oherwydd y talgrynnu hwn.

[91] https://obr.uk/download/economic-and-fiscal-outlook-october-2024/?tmstv=1734968885

Noder: at ddiben helpu pobl i ddeall Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru) yn unig y mae'r ddogfen hon wedi'i llunio. Ni ddylid dibynnu arni at unrhyw ddiben arall.

11.6 Mae manteision ariannol y Bil hefyd wedi'u hasesu ac mae'r gost net, ar ôl i fanteision gael eu hystyried, yn cael ei chynnwys i roi darlun llawn o ofynion terfynol posibl y gyllideb.

**Cyrff**

*Awdurdodau Lleol*

11.7 Mae'r costau ariannol a briodolir i awdurdodau lleol yn cael eu crynhoi yn y tabl canlynol. Mae'r costau'n seiliedig ar Senarios B ac C yn adran 'Dileu elw preifat o ofal plant sy'n derbyn gofal' o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol.

**Tabl 11.1 – Amcangyfrif o gostau Awdurdodau Lleol (£000)**

| Costau Awdurdodau Lleol | 2025-26 | 2026-27 | 2027-28 | 2028-29 | 2029-30 | 2030-31 | 2031-32 | 2032-33 | 2033-34 | 2034-35 | Total |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Costau cyfalaf** | | | | | | | | | | | |
| Senario B | 17,850 | 17,850 | 17,850 | 17,850 | 17,850 | 17,850 | | | | | **107,100** |
| Senario C | 23,800 | 23,800 | 23,800 | 23,800 | 23,800 | 23,800 | | | | | **142,800** |
| **Costau refeniw/ arbedion** | | | | | | | | | | | |
| Senario B | 27,684 | 18,677 | 9,670 | 1,912 | -5,848 | -13,358 | -22,943 | -21,695 | -21,695 | -21,695 | **-49,292** |
| Senario C | 36,374 | 24,645 | 13,312 | 2,966 | -7,379 | -17,526 | -30,983 | -29,995 | -29,995 | -29,995 | **-68,576** |
| **Cyfanswm y costau** | | | | | | | | | | | |
| Senario B | 45,534 | 36,257 | 27,520 | 19,762 | 12,003 | 4,493 | -22,943 | -21,695 | -21,695 | -21,695 | **57,808** |

| | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Senario C | 60,174 | 48,445 | 37,112 | 26,766 | 16,421 | 6,274 | -30,983 | -29,995 | -29,995 | -29,995 | **74,224** |
| **Cyfanswm wedi’i addasu ar gyfer chwyddiant** | | | | | | | | | | | |
| Senario B | 50,706 | 41,489 | 31,883 | 23,353 | 14,468 | 5,523 | - 28,772 | - 27,751 | - 28,306 | - 28,873 | **53,719** |
| Senario C | 67,009 | 55,027 | 42,997 | 31,631 | 19,794 | 7,714 | - 38,855 | - 38,368 | - 39,136 | - 39,919 | **67,893** |

11.8 Mae'r costau a nodwyd yn yr asesiad effaith rheoleiddiol fel rhai sy'n cael eu hysgwyddo gan yr awdurdodau lleol yn ymwneud â dileu elw o ofal plant sy'n derbyn gofal. Mae costau cyfalaf ymlaen llaw wrth i'r capasiti a gollir pan fydd darparwyr elw yn gadael y farchnad, gael ei ddisodli. Caiff costau refeniw eu hysgwyddo hefyd er mwyn sefydlu'r gwasanaethau newydd. Ar ôl y costau cychwynnol, disgwylir i'r awdurdodau lleol gronni arbedion costau refeniw. Disgwylir hefyd y bydd arbedion costau pellach i'r awdurdodau lleol gan y bydd rhai pobl yn symud o daliadau gofal cymdeithasol i daliadau uniongyrchol GIP.

11.9 Mae'r costau ariannol amcangyfrifedig i'r awdurdodau lleol yn ystod y chwe blynedd gyntaf yn sylweddol, er bod yr arbedion refeniw amcangyfrifedig ar draws gweddill y cyfnod asesu deng mlynedd yn sylweddol hefyd. Mae Llywodraeth Cymru yn rhag-weld darparu cymorth i awdurdodau lleol yn ystod y cyfnod gweithredu cychwynnol.

*Byrddau Iechyd Lleol*

11.10 Mae'r costau a briodolir i Fyrddau Iechyd Lleol yn yr asesiad effaith rheoleiddiol yn ymwneud â chyflwyno Taliadau Uniongyrchol GIP. Fel y mae Tabl 11.2 yn dangos, bydd cynnydd cychwynnol mewn costau wrth i bobl newid o daliadau gofal cymdeithasol i daliadau uniongyrchol GIP ond disgwylir i arbedion costau gael eu gwireddu tua diwedd y cyfnod gan fod disgwyl i gost taliadau uniongyrchol fod yn is na GIP sydd wedi'i gomisiynu yn draddodiadol. Bydd Byrddau Iechyd Lleol hefyd yn ysgwyddo'r costau gweinyddol sy'n gysylltiedig â Thaliadau Uniongyrchol GIP o 2027-28 ymlaen.

**Tabl 11.2 – Amcangyfrif o gostau Byrddau Iechyd Lleol (£000)**

| Costau Byrddau Iechyd Lleol | 2025-26 | 2026-27 | 2027-28 | 2028-29 | 2029-30 | 2030-31 | 2031-32 | 2032-33 | 2033-34 | 2034-35 | Total |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm y costau** | | | | | | | | | | | |
| Lleiafswm | 380 | 2,240 | 3,660 | 4,000 | 3,440 | 2,458 | -17 | -2,536 | -3,199 | -3,749 | **6,677** |
| Uchafswm | 418 | 2,478 | 4,235 | 4,738 | 4,378 | 3,558 | 1,083 | -1,399 | -1,849 | -2,224 | **15,416** |
| **Cyfanswm wedi’i addasu ar gyfer chwyddiant** | | | | | | | | | | | |
| Lleiafswm | 423 | 2,544 | 4,240 | 4,727 | 4,147 | 3,022 | -21 | -3,244 | -4,173 | -4,989 | **6,676** |
| Uchafswm | 465 | 2,815 | 4,907 | 5,599 | 5,278 | 4,374 | 1,358 | -1,790 | -2,412 | -2,959 | **17,635** |

11.11 Yng nghyd-destun gwariant cyffredinol y byrddau iechyd lleol ar GIP (£448m ym mlwyddyn ariannol 2022-23), mae'r costau a ragwelir yn gyfran gymharol fach. Ymhen amser, dylai arbedion cost ddilyn y costau untro a geir wrth amsugno carfan o dderbynwyr gofal yr awdurdodau lleol. Er mwyn cefnogi fforddiadwyedd y trosi, mae Llywodraeth Cymru yn rhag-weld talu am y costau trosiannol a ragwelir sy'n ymwneud â gweinyddu taliadau uniongyrchol GIP rhwng 2025-26 a 2027-28.

*Arolygiaeth Gofal Cymru*

11.12 Bydd costau ychwanegol i Arolygiaeth Gofal Cymru fel y rheoleiddiwr, sy'n gysylltiedig â chofrestru darparwyr newydd a phresennol yn dilyn dileu elw o ofal plant sy'n derbyn gofal, gan gynnwys y gost i AGC ar gyfer monitro a gorfodi'r darpariaethau hyn.

**Tabl 11.3 – Amcangyfrif o gostau Arolygiaeth Gofal Cymru (£000)**

| Costau AGC | 2025-26 | 2026-27 | 2027-28 | 2028-29 | 2029-30 | 2030-31 | 2031-32 | 2032-33 | 2033-34 | 2034-35 | Total |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm y costau | 251 | 627 | 627 | 627 | 627 | 627 | 627 | 627 | 627 | 627 | **5,889** |
| **Cyfanswm wedi'i addasu ar gyfer chwyddiant** | 279 | 712 | 726 | 740 | 755 | 770 | 786 | 801 | 817 | 834 | **7,221** |

11.13 Mae'r costau amcangyfrifedig yn gymharol fach yng nghyd-destun dyraniad cyllideb Arolygiaeth Gofal Cymru a rhagwelir y bydd darpariaeth ychwanegol yn cael ei gwneud i dalu'r costau hyn os byddant yn codi.

*Llywodraeth Cymru*

11.14 Mae'r costau sy'n disgyn yn uniongyrchol i Lywodraeth Cymru ac a grynhoir yn Nhabl 11.5 yn ymwneud â'r costau trosiannol a ysgwyddir gan Lywodraeth Cymru o ganlyniad i ddileu elw o ofal plant sy'n derbyn gofal a chostau trosiannol sy'n ymwneud â gweinyddu taliadau uniongyrchol GIP rhwng 2025-26 a 2027-28.

**Tabl 11.4 Amcangyfrif o gostau Llywodraeth Cymru (£000)**

| Llywodraeth Cymru | 2025-26 | 2026-27 | 2027-28 | 2028-29 | 2029-30 | 2030-31 | 2031-32 | 2032-33 | 2033-34 | 2034-35 | Total |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm y costau | 1,071 | 1,117 | 1,210 | 161 | 136 | 136 | 136 | 136 | 136 | 136 | **4,378** |
| **Cyfanswm wedi'i addasu** | 1,193 | 1,269 | 1,402 | 191 | 165 | 168 | 171 | 175 | 178 | 182 | **5,092** |

| | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **ar gyfer chwyddiant** | | | | | | | | | | | |

11.15 Rhagwelir y gellir amsugno costau Llywodraeth Cymru o fewn cyllidebau sylfaenol disgwyliedig.

**Crynodeb**

11.16 Yn achos y cynigion sydd â chost ymlaen llaw fwy, yn benodol y rhai sy'n gysylltiedig â dileu elw a thaliadau uniongyrchol ar gyfer GIP, rhagwelir y caiff cymorth ariannol trosiannol ei ddarparu gan Lywodraeth Cymru i'r rhai yr effeithir arnynt, awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol yn y drefn honno. Dros gyfnod o ddeng mlynedd, rhagwelir y bydd y ddau gynnig yn cynhyrchu arbedion refeniw a fydd yn cynorthwyo eu fforddiadwyedd tymor hwy.

# Atodiad 1

## Nodiadau Esboniadol

# BIL IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL (CYMRU)

## NODIADAU ESBONIADOL

### CYFLWYNIAD

1. Mae'r Nodiadau Esboniadol hyn yn ymwneud â Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru) fel y'i gosodwyd gerbron Senedd Cymru ar 20 Mai 2024 ac fel y'i diwygiwyd yn sgil trafodion Cyfnod 2 ar 28 Tachwedd 2024.

2. Fe'u lluniwyd gan y Grŵp Iechyd, Gofal Cymdeithasol a'r Blynyddoedd Cynnar yn Llywodraeth Cymru er mwyn cynorthwyo'r sawl sy'n darllen y Bil ac i helpu'r drafodaeth arno. Nid ydynt yn rhan o'r Bil ac nid ydynt wedi eu cymeradwyo gan Senedd Cymru.

3. Dylid darllen y Nodiadau Esboniadol ar y cyd â'r Bil. Ni fwriedir iddynt fod yn ddisgrifiad cynhwysfawr o'r Bil. Pan fo'n ymddangos nad oes angen unrhyw esboniad na sylw ar adran unigol o'r Bil, nis rhoddir.

### CEFNDIR POLISI

4. Yn dilyn Papur Gwyn 2011 ar Wasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy, mae cyfraith gofal cymdeithasol yng Nghymru wedi cael ei diwygio a'i chydgrynhoi drwy Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ("Deddf 2014") a Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 ("Deddf 2016").

5. Sefydlodd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 fframwaith newydd ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol yng Nghymru.

6. Mae Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 yn darparu fframwaith statudol ar gyfer rheoleiddio ac arolygu gwasanaethau gofal cymdeithasol, a fframwaith ar gyfer rheoleiddio'r gweithlu gofal cymdeithasol yng Nghymru.

7. Mae'r Bil hwn yn ceisio gwneud gwelliannau pellach i ofal cymdeithasol yng Nghymru, drwy ddiwygio Deddfau 2014 a 2016 i gyfyngu ar y gallu i dynnu allan elw a wneir yn sgil darparu gofal i blant sy'n derbyn gofal; a thrwy

wneud nifer o ddiwygiadau i'r Deddfau hynny er mwyn sicrhau eu bod yn gweithredu'n llawn ac yn effeithiol.

8. Yn ogystal, mae'r Bil yn galluogi i daliadau uniongyrchol gael eu cyflwyno o fewn Gofal Iechyd Parhaus y GIG (GIP), gyda'r bwriad o gysoni â'r taliadau uniongyrchol y gellir eu gwneud ym maes gofal cymdeithasol.

9. Datblygwyd y Bil hwn yn dilyn ymgynghoriad ar newidiadau arfaethedig i ddeddfwriaeth sylfaenol ar ofal cymdeithasol a gofal iechyd parhaus a gynhaliwyd rhwng mis Awst a mis Tachwedd 2022. Mae'r dogfennau ymgynghori, yr ymatebion, a chrynodeb o'r ymatebion, wedi eu cyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru: Newidiadau arfaethedig i'r ddeddfwriaeth ar ofal cymdeithasol a gofal iechyd parhaus y GIG | LLYW.CYMRU.

## TROSOLWG CYFFREDINOL O'R BIL

10. Mae'r Bil yn cynnwys 30 o adrannau (mewn tair Rhan) a dwy Atodlen.

- Mae Rhan 1 o'r Bil yn ymwneud â gofal cymdeithasol ac mae'n cynnwys dwy Bennod:

    - Mae Pennod 1 yn gwneud diwygiadau i Ddeddfau 2014 a 2016 gyda'r bwriad o gyfyngu ar allu darparwyr gwasanaethau cartrefi gofal i blant, gwasanaethau llety diogel a gwasanaethau maethu i dynnu elw allan;
    - Mae Pennod 2 yn gwneud nifer o ddiwygiadau amrywiol mewn perthynas â gwasanaethau gofal cymdeithasol, gweithwyr gofal cymdeithasol a gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol, gyda'r bwriad o sicrhau y gall Deddfau 2014 a 2016 weithredu'n llawn ac yn effeithiol.

  Mae'r Rhan hon o'r Bil hefyd yn cyflwyno Atodlen 1 sy'n gwneud mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol mewn perthynas â'r Rhan hon.

- Mae Rhan 2 o'r Bil yn ymwneud â gofal iechyd ac mae'n gwneud diwygiadau i Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 er mwyn galluogi i daliadau uniongyrchol gael eu cyflwyno o fewn Gofal Iechyd Parhaus y GIG (GIP). Mae'r Rhan hon o'r Bil hefyd yn cyflwyno Atodlen 2, sy'n gwneud mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol mewn perthynas â'r newid hwn.

- Mae Rhan 3 o'r Bil yn cynnwys nifer o ddarpariaethau cyffredinol, gan gynnwys darpariaethau mewn perthynas â rheoliadau a wneir o dan y Bil, dehongli, pwerau i wneud darpariaethau canlyniadol a darpariaethau trosiannol, a threfniadau dod i rym.

# SYLWEBAETH AR YR ADRANNAU

## RHAN 1

## GOFAL CYMDEITHASOL

## PENNOD 1
## DARPARU GWASANAETHAU GOFAL CYMDEITHASOL I BLANT: CYFYNGIADAU AR ELW

### Adran 1 – Trosolwg o Bennod 1

11. Mae adran 1 yn rhoi trosolwg o brif ddarpariaethau Rhan 1, Pennod 1 o'r Bil. Mae'n crynhoi'r pynciau yr ymdrinnir â hwy ym mhob adran ddilynol yn y Bennod.

### Adran 2 – Gwasanaethau plant o dan gyfyngiad

12. Mae adran 2 yn mewnosod darpariaeth newydd yn Rhan 1 o Ddeddf 2016 sy'n diffinio gwasanaeth plant o dan gyfyngiad at ddibenion y Rhan honno. Mae'r ddarpariaeth newydd yn cael ei mewnosod yn adran newydd 2A ac mewn diwygiadau i Atodlen 1 i Ddeddf 2016. Mae adran 2 hefyd yn diwygio adran 1 o'r Ddeddf (trosolwg o Ran 1) o ganlyniad i'r newidiadau hyn.

13. Mae adran newydd 2A(1) (a fewnosodir gan adran 2(b) o'r Bil) yn diffinio pob un o'r gwasanaethau rheoleiddiedig y mae'r darpariaethau newydd a fewnosodir gan y Bil yn Rhan 1 o Ddeddf 2016 yn gymwys iddynt fel "gwasanaeth plant o dan gyfyngiad" at ddibenion y Rhan honno. Y rhain yw gwasanaeth cartref gofal a ddarperir mewn man y mae'r gwasanaeth yn cael ei ddarparu'n gyfan gwbl neu'n bennaf i blant ynddo, gwasanaeth maethu, a gwasanaeth llety diogel.

14. Mae adran 2(c) yn mewnosod is-baragraff newydd (3A) ym mharagraff 1 o Atodlen 1 i Ddeddf 2016. Mae is-baragraff (3A) yn darparu nad yw ysgol sy'n gyfystyr â gwasanaeth cartref gofal yn rhinwedd is-baragraff (3) yn gyfystyr â gwasanaeth plant o dan gyfyngiad oni bai ei bod wedi darparu mwy o ddiwrnodau o lety i blant sy'n derbyn gofal nag i rai nad ydynt yn blant sy'n derbyn gofal am unrhyw gyfnod o 12 mis sy'n dod o fewn y 24 mis blaenorol, neu ei bod yn bwriadu darparu mwy o ddiwrnodau o lety i blant sy'n derbyn gofal nag i rai nad ydynt yn blant sy'n derbyn gofal am unrhyw gyfnod o 12 mis sy'n dod o fewn y 24 mis dilynol.

### Adran 3 – Ceisiadau i gofrestru mewn cysylltiad â gwasanaethau plant o dan gyfyngiad

15. Mae adran 3(3) yn mewnosod adrannau newydd 6A (cofrestru mewn cysylltiad â gwasanaeth plant o dan gyfyngiad) a 6B (cofrestru mewn cysylltiad â gwasanaeth plant o dan gyfyngiad: diffiniadau) yn Neddf 2016.

16. O dan adran newydd 6A(1), er mwyn cael ei gofrestru mewn cysylltiad â gwasanaeth plant o dan gyfyngiad, rhaid i berson nad yw'n awdurdod lleol fod yn endid nid-er-elw.

17. Mae adran 6A(2), (3) a (4) yn darparu bod "endid nid-er-elw" yn berson sy'n bodloni'r ddau brawf hyn:

- bod amcanion neu ddibenion y person yn ymwneud yn anad dim â lles plant, neu ag unrhyw fudd cyhoeddus arall a ragnodir gan Weinidogion Cymru (ni chaniateir gwneud rheoliadau sy'n rhagnodi budd cyhoeddus o'r fath oni bai bod drafft o'r offeryn wedi ei osod gerbron Senedd Cymru ac wedi ei gymeradwyo ganddi drwy benderfyniad);

- bod y person yn un o'r pedwar math o ymgymeriad a ganlyn (a ddiffinnir yn adran 6B, ac y mae'r gyfraith yn cyfyngu ar y gallu i dynnu elw allan mewn perthynas â hwy): cwmni elusennol cyfyngedig drwy warant heb gyfalaf cyfrannau; sefydliad elusennol corfforedig; cymdeithas gofrestredig elusennol; cwmni buddiant cymunedol cyfyngedig drwy warant heb gyfalaf cyfrannau.

18. O ganlyniad i fewnosod adrannau 6A a 6B yn Neddf 2016, mae adran 3(2) yn mewnosod is-adran newydd (1A) yn adran 6 o Ddeddf 2016. Mae'r is-adran newydd hon yn ei gwneud yn ofynnol i berson sy'n gwneud cais i gael ei gofrestru mewn cysylltiad â gwasanaeth plant o dan gyfyngiad ddarparu gwybodaeth ragnodedig i Weinidogion Cymru sy'n dangos bod y person yn endid nid-er-elw. Mae'r pŵer i ragnodi'r wybodaeth i'w arfer drwy reoliadau a wneir mewn offeryn statudol o dan adran 187 o Ddeddf 2016.

**Adran 4 – Cofrestru mewn cysylltiad â gwasanaeth plant o dan gyfyngiad: trefniadau trosiannol**

19. Mae adran 4 yn mewnosod Atodlen newydd 1A yn Neddf 2016 er mwyn gwneud darpariaeth ynghylch trefniadau trosiannol mewn cysylltiad â darparwyr gwasanaethau plant o dan gyfyngiad sydd eisoes wedi eu cofrestru cyn i adran newydd 6A ddod i rym (ac o ran hynny, gweler adran 3).

20. Ar ôl cychwyn adran 6A, bydd y gofyniad mewn cysylltiad â gwasanaeth plant o dan gyfyngiad a osodir o dan yr adran honno (i fod yn endid nid-er-elw) yn gymwys i bob newydd-ddyfodiad i'r gofrestr a gynhelir gan Weinidogion Cymru o dan Ddeddf 2016 a phob darparwr gwasanaeth presennol cyhyd â'u bod yn parhau'n gofrestredig. Fodd bynnag, mae paragraffau 1 a 2 o Atodlen 1A yn gwneud darpariaeth ar gyfer cyfnod trosiannol pan nad yw darparwyr gwasanaethau plant o dan gyfyngiad a oedd wedi eu cofrestru mewn cysylltiad â'r gwasanaeth cyn iddo ddod yn wasanaeth plant o dan gyfyngiad (yn rhinwedd dyfodiad adran 6A i rym) yn ddarostyngedig i'r gofynion yn adran 6A(1), ac eithrio at ddibenion unrhyw geisiadau y mae'r darparwr gwasanaeth yn eu gwneud o dan adran 6 i gofrestru mewn cysylltiad â gwasanaeth plant o dan gyfyngiad, neu o dan adran 11 i amrywio cofrestriad i ychwanegu gwasanaeth plant o dan gyfyngiad neu i ddarparu gwasanaeth plant o dan gyfyngiad mewn man newydd neu mewn perthynas â man newydd.

21. Mae'r cyfnod trosiannol yn dechrau pan ddaw adran 6A i rym mewn cysylltiad â'r gwasanaeth ac yn gorffen ar ddiwrnod a bennir gan Weinidogion Cymru mewn rheoliadau.

22. Fel y darperir ar ei gyfer gan baragraff 3 o'r Atodlen, caiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n gosod amodau ar ddarparwyr gwasanaethau presennol yn ystod y cyfnod trosiannol, gan gynnwys cyfyngiadau ar y math o wasanaeth y cânt ei ddarparu a'r disgrifiad o blant sy'n derbyn gofal y cânt eu lletya. Er enghraifft, byddai hyn yn galluogi Gweinidogion Cymru i gyfyngu ar yr amgylchiadau pan gaiff darparwyr sy'n ddarostyngedig i'r darpariaethau trosiannol dderbyn lleoliadau gan awdurdodau lleol yn Lloegr. Gellid defnyddio'r pŵer hefyd i atal darparwyr sy'n ddarostyngedig i'r darpariaethau trosiannol rhag darparu lle ar gyfer unrhyw blentyn newydd ar ôl dyddiad penodol, neu i'w gwneud yn ofynnol mai dim ond gwasanaethau arbenigol o ddisgrifiad penodol y caniateir eu darparu.

23. Os bydd darparwr gwasanaeth yn methu â chydymffurfio â'r amodau hyn, caiff Gweinidogion Cymru amrywio neu ganslo ei gofrestriad yn unol ag adrannau 18 i 20 o Ddeddf 2016.

24. Yn achos darparwr gwasanaeth maethu y mae paragraff 2 yn gymwys iddo, bydd methiant gan y darparwr hwnnw i gydymffurfio â gofynion a osodir yn ystod y cyfnod trosiannol drwy reoliadau a wneir o dan adran 87 o Ddeddf 2014 hefyd yn sbarduno pŵer Gweinidogion Cymru i amrywio neu ganslo cofrestriad y darparwr. Cyfeirir at adran 87 o Ddeddf 2014 oherwydd dyma'r pŵer sy'n galluogi gwneud rheoliadau sy'n cyfyngu ar allu darparwyr gwasanaethau maethu sy'n ddarostyngedig i baragraff 2 o Atodlen 1A i gymeradwyo rhieni maeth newydd.

25. O dan baragraff 4 o'r Atodlen, caiff darparwyr gwasanaethau presennol wneud cais i amrywio eu cofrestriad fel eu bod wedi eu cofrestru'n ddarparwyr gwasanaethau sy'n bodloni'r gofynion hynny ac felly nad ydynt bellach yn ddarostyngedig i unrhyw amodau y gellid eu gosod arnynt fel arall o dan baragraff 3. Mae ceisiadau o dan y paragraff hwn yn ddarostyngedig i'r gweithdrefnau hysbysu a nodir yn adrannau 18 i 20 o Ddeddf 2016 a'r hawliau apelio cysylltiedig o dan adran 26 o Ddeddf 2016.

26. Mae adran 4(4) yn diwygio adran 45 o Ddeddf 2016 fel y caiff Gweinidogion Cymru hefyd ragnodi drwy reoliadau ei bod yn drosedd i ddarparwr fethu â chydymffurfio ag amodau a osodir mewn rheoliadau a wneir o dan baragraff 3 o Atodlen 1A. Gan fod y pŵer i greu trosedd yn y rheoliadau wedi ei roi gan adran 45 o Ddeddf 2016, bydd y cosbau a nodir yn adran 51 o Ddeddf 2016 yn gymwys pan fo'r pŵer hwn yn cael ei arfer, fel y bydd y pŵer i ddyroddi hysbysiadau cosb o dan adran 52 o Ddeddf 2016.

## Adran 5 – Caniatáu neu wrthod cofrestriad mewn cysylltiad â gwasanaeth plant o dan gyfyngiad

27. Mae adran 5 yn diwygio adran 7 (caniatáu neu wrthod cofrestriad fel darparwr gwasanaeth) o Ddeddf 2016 o ganlyniad i gyflwyno'r gofynion mewn cysylltiad â gwasanaethau plant o dan gyfyngiad a nodir yn adran newydd 6A o Ddeddf 2016 (fel y'i mewnosodir gan adran 3).

28. Mae is-adran (2) yn mewnosod paragraff newydd (aa) yn is-adran (1) i'w gwneud yn ofynnol nad yw Gweinidogion Cymru ond yn caniatáu cais i gofrestru mewn cysylltiad â gwasanaeth plant o dan gyfyngiad os yw'r ymgeisydd yn bodloni'r gofyniad yn adran 6A(1).

29. Mae is-adran (3) yn mewnosod paragraff newydd (aa) yn is-adran (3) er mwyn darparu, o ran caniatáu cais mewn cysylltiad â gwasanaeth plant o dan gyfyngiad, fod rhaid iddo fod yn ddarostyngedig i amod bod y darparwr gwasanaeth yn hysbysu Gweinidogion Cymru am unrhyw amgylchiadau nad yw'r darparwr bellach yn bodloni'r gofyniad yn adran 6A(1) odanynt.

## Adran 6 – Person addas a phriodol: ystyriaethau perthnasol

30. Fel yr eglurir ymhellach ym mharagraffau 31 i 33, mae adran 6 yn diwygio Deddf 2016 i ddarparu bod trefniadau ariannol afresymol neu anghymesur yr ymrwymir iddynt gan ddarparwr gwasanaeth sydd wedi ei gofrestru mewn cysylltiad â gwasanaeth plant o dan gyfyngiad yn dystiolaeth y mae rhaid i Weinidogion Cymru roi sylw iddi wrth benderfynu a yw'r darparwr yn berson addas a phriodol. (Os nad yw Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni bellach fod person yn addas a phriodol, cânt ganslo cofrestriad y person – gweler adran 15(1)(b) o Ddeddf 2016).

31. Mae adran 9 o Ddeddf 2016 yn darparu bod rhaid i Weinidogion Cymru, wrth benderfynu a yw darparwr gwasanaeth yn berson addas a phriodol, roi sylw i'r holl faterion sy'n briodol yn eu barn hwy ond bod rhaid iddynt roi sylw yn benodol i dystiolaeth o wahanol bethau, gan gynnwys a yw'r darparwr gwasanaeth wedi bod yn gyfrifol am gamymddwyn neu gamreoli, neu wedi cyfrannu ato neu ei hwyluso, wrth ddarparu gwasanaeth rheoleiddiedig (gweler adran 9(6)).

32. Mae adran 6(2) yn diwygio adran 9(7) o Ddeddf 2016 fel ei bod yn nodi bod rhaid i Weinidogion Cymru, pan fyddant yn rhoi sylw i dystiolaeth ynghylch a yw darparwr gwasanaeth (sydd wedi ei gofrestru mewn cysylltiad â gwasanaeth plant o dan gyfyngiad) yn anaddas ar sail camymddwyn neu gamreoli, ystyried a yw'r darparwr wedi ymrwymo i drefniant ariannol sy'n dod o fewn adran newydd 9A.

33. Mae adran 6(3) yn mewnosod adrannau newydd 9A a 9B yn Neddf 2016. Mae adran newydd 9A(1) yn darparu bod trefniant ariannol yn dod o fewn adran 9A os yw'n drefniant gyda neu er lles "person perthnasol" (a ddiffinnir yn adran 9B, ac sy'n cynnwys personau megis swyddogion a chyflogeion y darparwr) sy'n afresymol neu'n anghymesur o dan yr holl amgylchiadau ac a all, o ganlyniad, danseilio gallu'r darparwr gwasanaeth i ddilyn ei amcanion neu ei ddibenion (y mae rhaid iddynt, o dan adran 6A(3), ymwneud yn anad dim â lles plant neu fudd cyhoeddus arall a ragnodir). Mae adran newydd 9A(2) yn nodi materion y mae rhaid rhoi sylw iddynt wrth benderfynu a ymrwymwyd i drefniant ariannol o'r math hwn.

## Adran 7 – Darparwyr gwasanaethau plant o dan gyfyngiad: yr wybodaeth a gynhwysir mewn datganiad blynyddol

34. Mae adran 7 yn diwygio adran 10 (datganiad blynyddol) o Ddeddf 2016 i osod gofynion newydd ynghylch yr hyn y mae rhaid ei gynnwys yn natganiad blynyddol darparwr gwasanaeth.

35. Mae paragraff (a) yn mewnosod paragraff newydd (viiia) yn adran 10(2)(a) o Ddeddf 2016, sy'n ei gwneud yn ofynnol bod y datganiad blynyddol yn cynnwys gwybodaeth (a ragnodir gan Weinidogion Cymru) ynghylch tystiolaeth sy'n berthnasol i'r prawf person addas a phriodol yn adran 9 o Ddeddf 2016.

36. Mae paragraff (b) yn mewnosod is-adrannau newydd (2A) a (2B) yn adran 10 o Ddeddf 2016. Mae is-adran newydd (2A) yn ei gwneud yn ofynnol, yn achos darparwr gwasanaeth, ac eithrio awdurdod lleol, sydd wedi ei gofrestru mewn cysylltiad â gwasanaeth plant o dan gyfyngiad, bod rhaid i'r datganiad blynyddol gynnwys gwybodaeth (a ragnodir gan Weinidogion Cymru) sy'n dangos bod y darparwr yn bodloni'r gofyniad yn adran 6A(1) (fel y'i mewnosodir gan adran 3 o'r Bil - gweler paragraffau 16 a 17 o'r Nodiadau Esboniadol hyn am esboniad o adran newydd 6A). Mae is-adran (2B) yn darparu nad yw hyn yn gymwys i ddarparwyr nad yw adran 6A yn gymwys iddynt yn rhinwedd paragraff 2(3) o Atodlen 1A (fel y'i mewnosodir gan adran 4 o'r Bil, ac sy'n pennu trefniadau trosiannol ar gyfer darparwyr gwasanaethau sy'n darparu'r gwasanaethau hyn).

37. Mae paragraff (c) yn diwygio is-adran (6) o adran 10 o Ddeddf 2016, gyda'r effaith y bydd y set gyntaf o reoliadau a wneir o dan is-adran (2)(a)(viiia) (rhagnodi gwybodaeth am dystiolaeth sy'n berthnasol i'r prawf person addas a phriodol) a'r set gyntaf o reoliadau a wneir o dan is-adran (2A) (rhagnodi gwybodaeth er mwyn bodloni Gweinidogion Cymru bod y darparwr yn bodloni'r gofyniad yn adran 6A(1)) yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol ddrafft yn y Senedd.

## Adran 8 – Amrywio neu ganslo cofrestriad fel darparwr gwasanaeth plant o dan gyfyngiad

38. Mae adran 8 yn diwygio Deddf 2016 i gynnwys darpariaethau newydd mewn perthynas ag amrywio neu ganslo cofrestriad fel darparwr gwasanaeth plant o dan gyfyngiad.

39. Mae is-adran (2) yn diwygio adran 11 (cais i amrywio cofrestriad fel darparwr gwasanaeth) drwy fewnosod is-adran newydd (4) sy'n ei gwneud yn ofynnol bod rhaid i gais i amrywio cofrestriad i ddarparu gwasanaeth plant o dan gyfyngiad gynnwys gwybodaeth er mwyn bodloni Gweinidogion Cymru bod y darparwr gwasanaeth yn bodloni'r gofyniad yn adran 6A(1).

40. Mae is-adran (3) yn diwygio adran 12 (caniatáu neu wrthod cais am amrywiad) i ddarparu na chaiff Gweinidogion Cymru ond caniatáu cais os ydynt wedi eu bodloni bod y darparwr gwasanaeth yn bodloni'r gofynion hyn.

41. Mae is-adran (4) yn diwygio adran 13 (amrywio heb gais) i ddarparu y caiff Gweinidogion Cymru amrywio cofrestriad darparwr gwasanaeth i ddileu gwasanaeth plant o dan gyfyngiad os nad yw'r darparwr gwasanaeth yn bodloni'r gofyniad yn adran 6A(1). Mae is-adran (5) yn mewnosod is-adran newydd (3A) sy'n cyfeirio at baragraff 3(4)(a) o Atodlen 1A. Gwneir darpariaeth o dan yr Atodlen honno ynghylch cymhwyso adran 13 mewn perthynas â darparwyr y mae paragraff 2 o'r Atodlen honno yn gymwys iddynt.

42. Mae is-adran (6)(a) yn diwygio adran 15 (canslo heb gais) i ddarparu y caiff Gweinidogion Cymru ganslo cofrestriad darparwr gwasanaeth os yw pob un o'r gwasanaethau y mae'r darparwr gwasanaeth wedi ei gofrestru mewn cysylltiad â hwy yn wasanaeth plant o dan gyfyngiad ac nad yw'r darparwr gwasanaeth yn bodloni'r gofyniad yn adran 6A(1). Mae is-adran (6)(b) yn mewnosod is-adran newydd (1A) sy'n cyfeirio at baragraff 3(4)(b) o Atodlen 1A. Gwneir darpariaeth o dan yr Atodlen honno ynghylch cymhwyso adran 15 mewn perthynas â darparwyr y mae paragraff 2 o'r Atodlen honno yn gymwys iddynt.

**Adran 9 – Gwasanaethau plant o dan gyfyngiad: yr wybodaeth a gynhwysir yn y gofrestr o ddarparwyr gwasanaethau**

43. Mae adran 9 yn diwygio adran 38 (cofrestr o ddarparwyr gwasanaethau) o Ddeddf 2016 drwy fewnosod is-adran newydd (2A) sy'n cyflwyno gofyniad newydd mewn cysylltiad â chofnodion yn y gofrestr o ddarparwyr gwasanaethau. Y gofyniad newydd yw bod rhaid i'r cofnod yn y gofrestr ar gyfer darparwr gwasanaethau o dan gyfyngiad (ac eithrio awdurdod lleol) ddangos bod y darparwr yn bodloni'r gofyniad yn adran 6A(1).

**Adran 10 – Dyletswydd awdurdod lleol i sicrhau digon o lety**

44. Mae adran 10 yn diwygio adran 75 (dyletswydd gyffredinol awdurdod lleol i sicrhau digon o lety i blant sy'n derbyn gofal) o Ddeddf 2014.

45. Mae geiriad is-adran (1) wedi ei ddiwygio i bennu bod rhaid i'r awdurdod lleol gymryd pob cam rhesymol i sicrhau llety i blant a grybwyllir yn is-adran (2). Mae'r gofyniad yn is-adran (1)(a) bod y llety y mae dyletswydd yr awdurdod lleol yn ymwneud ag ef o fewn ardal yr awdurdod lleol wedi ei ddiwygio i gynnwys llety sy'n agos i ardal yr awdurdod lleol. Mae hyn yn galluogi awdurdodau lleol i wneud trefniadau gydag awdurdodau lleol eraill i ddatblygu cartrefi plant newydd a lleoliadau gofal maeth newydd. Mae'n cydnabod y gall amgylchiadau godi pan all plentyn sydd wedi ei leoli y tu allan i ardal yr awdurdod lleol fod yn agosach at ei gymuned gartref na phe bai'n cael ei leoli mewn rhan wahanol o ardal yr awdurdod lleol.

46. Mae paragraffau newydd (aa) ac (ab) wedi eu hychwanegu at is-adran (1), sy'n pennu, pan fo'r llety gyda rhiant maeth awdurdod lleol neu mewn cartref plant, y dylai fodloni'r gofyniad perthnasol a ddisgrifir yn adran newydd 81A(4)(a) neu 81A(4)(b), yn y drefn honno (ac mae'r adran newydd i'w mewnosod gan adran 13 o'r Bil).

47. Mae is-adran (5) yn diwygio is-adran (3) i'w gwneud yn ofynnol bod rhaid i awdurdod lleol, wrth gyflawni ei ddyletswydd o dan is-adran (1), roi sylw i'r fantais bod ystod o lety sydd o fewn ei ardal neu'n agos iddi, ac sy'n gallu diwallu gwahanol anghenion y plant a grybwyllir yn is-adran (2). Mae'r newid hwn o "nifer o ddarparwr llety" i "ystod o lety" yn symud y ffocws o nifer y darparwyr i'r ystod o lety, ac a oes mathau gwahanol o leoliadau yn y mannau cywir sy'n gallu diwallu anghenion plant. Felly, gallai'r ddyletswydd gael ei chyflawni o bosibl drwy lety yn bodoli a ddarperir gan un darparwr, megis yr awdurdod lleol ei hun.

48. Mae is-adrannau (6) a (7) yn diwygio is-adran (4) ac adran 197(1) i ddiwygio'r diffiniad o "cartref plant" at ddibenion adran 75, fel nad yw'r ddyletswydd yn gymwys ond mewn perthynas â llety mewn cartrefi plant a chyda rhieni maeth awdurdod lleol.

## Adran 11 – Dyletswydd i lunio a chyhoeddi cynllun digonolrwydd blynyddol

49. Mae adran 11 yn diwygio Deddf 2014 i fewnosod adrannau newydd 75A, 75B a 75C.

50. Mae adran 75A yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol lunio a chyhoeddi cynllun digonolrwydd blynyddol cyn dechrau pob blwyddyn ariannol. Rhaid i'r cynllun fanylu ar y camau y bydd yr awdurdod lleol yn eu cymryd yn y flwyddyn honno i gyflawni ei ddyletswydd o dan adran 75(1). Rhaid i'r cynllun fod ar ffurf a ragnodir drwy reoliadau, a rhaid iddo gael ei gymeradwyo gan Weinidogion Cymru cyn ei gyhoeddi (mae'r broses ar gyfer hyn wedi ei nodi yn adrannau 75B a 75C). Rhaid iddo gynnwys, ar gyfer y flwyddyn ariannol y mae'n ymwneud â hi: amcangyfrif o nifer y plant y bydd yr awdurdod lleol yn gofalu amdanynt ac na fydd yn gallu eu lleoli o dan adran 81(2); asesiad ynghylch i ba raddau y mae'r llety sydd ar gael yn bodloni'r gofynion perthnasol yn adran 81A(3) yn ogystal ag i ba raddau y mae'r llety hwnnw o fewn ardal yr awdurdod lleol, neu'n agos iddi. Rhaid i'r cynllun hefyd gynnwys gwybodaeth ragnodedig ynghylch darparwyr er elw a darparwyr preifat[92] sy'n debygol o gael eu henwi mewn ceisiadau i gymeradwyo lleoliadau atodol, amcangyfrif o nifer y ceisiadau o'r fath a ddisgwylir a'r rhesymau pam y mae'r nifer hwnnw o geisiadau yn debygol o gael ei wneud.

---

[92] Yn y cyd-destun hwn, mae 'darparwr preifat' yn ddarparwr gwasanaethau plant o dan gyfyngiad yn Lloegr nad yw'n awdurdod lleol. Mae'r Bil yn gwahaniaethu rhwng darparwyr o'r fath a 'darparwyr er elw' gan na fydd darparwyr yn Lloegr yn ddarostyngedig i'r gyfundrefn sy'n gymwys yng Nghymru, ac felly ni fydd modd eu hadnabod o'r gofrestr yn ddarparwyr 'er elw' neu'n ddarparwyr nid-er-elw, fel y bydd modd ei wneud o ran darparwyr Cymreig. Felly, bydd rhaid i awdurdodau lleol sy'n ceisio lleoli plentyn gyda darparwr yn Lloegr ganfod, yn syml, a yw'r darparwr yn awdurdod lleol ac, os nad yw, bydd cais i gymeradwyo lleoliad atodol yn ofynnol.

51. Mae adran 75B o Ddeddf 2014 yn nodi'r weithdrefn ar gyfer cymeradwyo'r cynllun digonolrwydd blynyddol. Cyn cyhoeddi'r cynllun, rhaid i awdurdod lleol lunio drafft a'i gyflwyno i Weinidogion Cymru i'w gymeradwyo. Rhaid cyflwyno'r drafft cyntaf heb fod yn hwyrach na 4 mis cyn dechrau'r flwyddyn ariannol y mae'n ymwneud â hi, tra bo rhaid cyflwyno drafftiau dilynol heb fod yn hwyrach na 2 fis cyn dechrau'r flwyddyn ariannol. Rhaid i Weinidogion Cymru hysbysu'r awdurdod lleol am benderfyniad i gymeradwyo'r cynllun drafft.

52. Mae adran 75C o Ddeddf 2014 yn nodi'r weithdrefn sydd i'w dilyn os bydd Gweinidogion Cymru yn penderfynu peidio â chymeradwyo drafft o gynllun digonolrwydd blynyddol a gyflwynir gan awdurdod lleol o dan adran 75B. Yn yr achos hwn, rhaid i Weinidogion Cymru hysbysu'r awdurdod lleol am eu penderfyniad a darparu'r rhesymau dros y penderfyniad hwnnw. Rhaid iddynt hefyd bennu cyfnod y mae rhaid i'r awdurdod lleol gyflwyno drafft pellach o'r cynllun ynddo. Rhaid i'r awdurdod lleol wedyn gyflwyno drafft pellach o'r cynllun, ynghyd ag adroddiad sy'n egluro sut y mae'r awdurdod wedi ystyried y rhesymau a ddarparwyd gan Weinidogion Cymru. Os bydd Gweinidogion Cymru yn penderfynu peidio â chymeradwyo'r drafft pellach, mae'r un weithdrefn yn gymwys. Os bydd Gweinidogion Cymru yn cymeradwyo drafft pellach, rhaid iddynt hysbysu'r awdurdod lleol am y penderfyniad hwnnw.

## Adran 12 – Dyletswydd i sicrhau llety: adrodd

53. Mae adran 12 yn mewnosod adran newydd 75D yn Neddf 2014. Mae adran 75D yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol adrodd ar eu dyletswydd o dan adran 75 i sicrhau llety. Rhaid i'r adroddiad blynyddol a lunnir gan awdurdod lleol o dan adran 144A gynnwys gwybodaeth am sut y mae'r camau a gymerwyd gan yr awdurdod lleol wedi cynyddu, neu sut y disgwylir iddynt gynyddu, faint o lety sydd ar gael sy'n bodloni gofynion adran 75(1). Rhaid i'r adroddiad hefyd gynnwys nifer y ceisiadau a wnaed gan yr awdurdod lleol am gymeradwyaeth i leoli plant mewn lleoliadau atodol, yn ogystal â'r rhesymau dros unrhyw wahaniaeth rhwng nifer amcangyfrifedig y ceisiadau a nifer gwirioneddol y ceisiadau.

## Adran 13 – Y ffyrdd y mae plant sy'n derbyn gofal i'w lletya

54. Mae adran 13 yn diwygio adran 81 o Ddeddf 2014 ac yn mewnosod adrannau newydd 81A, 81B, 81C ac 81D (ar ôl adran 81) yn Neddf 2014.

55. Mae adran 81 yn gosod dyletswydd ar awdurdod lleol i drefnu i blentyn sy'n derbyn gofal fyw gyda rhiant, person sydd â chyfrifoldeb rhiant neu berson y mae gorchymyn trefniadau plentyn wedi ei wneud o'i blaid. Fodd bynnag, pan na fo hyn yn gyson â llesiant y plentyn sy'n derbyn gofal, neu pan na fo'n rhesymol ymarferol, o dan adran 81A, rhaid i'r awdurdod lleol letya'r plentyn yn y "lleoliad mwyaf priodol sydd ar gael". (Fodd bynnag, mae hyn yn ddarostyngedig, yn y ddau achos, i unrhyw benderfyniad a wneir gan yr awdurdod y byddai'n briodol i'r plentyn gael ei leoli gyda darpar fabwysiadydd (ac o ran hynny, gweler adran 81C)).

56. Yng nghyd-destun adran 81A, ystyr "lleoliad" yw lleoli plentyn:
- gydag unigolyn sy'n berthynas, yn ffrind neu'n berson arall sy'n gysylltiedig â'r plentyn ac sydd hefyd yn rhiant maeth awdurdod lleol (y cyfeirir ato'n gyffredin fel "lleoliad gyda pherthynas"),
- gyda rhiant maeth awdurdod lleol (arall),
- mewn cartref plant, neu
- (yn ddarostyngedig i adran 82 o Ddeddf 2014) yn unol â threfniadau eraill sy'n cydymffurfio ag unrhyw reoliadau a wneir at ddibenion adran 81A. Mae amrywiaeth o amgylchiadau pan all awdurdod lleol benderfynu lleoli plentyn mewn lleoliad heblaw gofal maeth neu wasanaeth cartref gofal i blant. Er enghraifft, gall awdurdod lleol leoli plentyn hŷn sy'n 16 neu'n 17 oed mewn llety â chymorth fel paratoad ar gyfer byw'n annibynnol.

57. Fel yn achos yr adran 81 bresennol, mae penderfyniadau ynghylch ble i leoli plentyn sy'n derbyn gofal o dan adran 81A i'w gwneud yn ddarostyngedig i'r angen i ystyried yr hyn y cyfeirir ato fel "prif" ddyletswydd awdurdodau lleol yn Rhan 6 o Ddeddf 2014. Nodir hyn yn adran 78 ac mae'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdod ddiogelu a hyrwyddo llesiant plant y mae'n gofalu amdanynt.

58. Mae'r newidiadau a wneir gan adran 13 yn adlewyrchu newidiadau a wneir i Ddeddf 2016 sy'n cyfyngu ar wneud elw wrth ddarparu gwasanaethau maethu a gwasanaethau cartrefi gofal i blant fel "gwasanaethau plant o dan gyfyngiad".

59. Mae'r prif newid a wneir gan yr adran hon (a geir yn adran 81A(2) a (4)) yn ymwneud â'r penderfyniad a wneir gan awdurdod lleol ynghylch y lleoliad mwyaf priodol sydd ar gael ar gyfer plentyn sy'n derbyn gofal. Mae'r adran 81(7) bresennol yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol ystyried nifer o faterion wrth wneud y penderfyniad hwn. Mynegir y rhain fel gofynion o dan yr adran 81 bresennol, yn is-adrannau (8) a (9).

60. Rhaid ystyried y materion hyn o hyd o dan adran 81A(5), ond, o ganlyniad i adran 81A(4), os yw'r awdurdod lleol yn ystyried mai lleoliad gyda rhiant maeth neu mewn cartref plant yw'r lleoliad mwyaf priodol (yn unol ag adran newydd 81A(2)) (gan roi blaenoriaeth – yn ddarostyngedig i'r brif ddyletswydd o dan adran 78 – i leoliad gyda pherthynas), yna (er bod hyn hefyd yn ddarostyngedig i'r brif ddyletswydd) bydd angen bellach i'r awdurdod leoli'r plentyn mewn ffordd sy'n gyson â'r gofyniad sy'n cyfyngu ar elw yn adran 6A(1) o Ddeddf 2016. Cyflawnir hyn drwy'r gofyniad yn adran 81A(4) i'r awdurdod lleol ddefnyddio'r mathau canlynol yn unig o rieni maeth a chartrefi plant (ar yr amod nad yw gwneud hynny yn peri bod yr awdurdod yn torri'r brif ddyletswydd):

- rhieni maeth awdurdod lleol sydd wedi eu hawdurdodi felly gan yr awdurdod lleol, gan awdurdod lleol gwahanol, neu gan asiantaeth faethu annibynnol y cofrestrwyd ei bod yn bodloni gofynion adran 6A(1) o Ddeddf 2016;

- cartrefi plant y mae un o'r personau a ganlyn wedi ei gofrestru mewn cysylltiad â hwy fel y darparwr: yr awdurdod lleol, awdurdod lleol gwahanol, neu ddarparwr gwasanaeth y cofrestrwyd ei fod yn bodloni gofynion adran 6A(1) o Ddeddf 2016.

61. Os oes mwy nag un lleoliad ar gael gyda rhiant maeth o'r fath neu mewn cartref plant o'r fath (fel y bo'n briodol), mae'r ddeddfwriaeth ddiwygiedig yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod lleol ystyried unwaith eto beth yw'r lleoliad mwyaf priodol sydd ar gael yn unol ag adran 81A(2) – y tro hwn i ystyried *pa* leoliad o'r math hwn y dylid ei ddewis. Wrth wneud hynny, rhaid iddo roi sylw i nifer o ffactorau sy'n benodol i anghenion y plentyn o dan sylw. Nodir y ffactorau hyn yn adran newydd 81A(5)(a), sy'n atgynhyrchu darpariaethau a oedd yn adran 81(7) ac (8) yn flaenorol.

62. Gan fod y ffactorau sydd i'w hystyried yn adlewyrchu buddiannau plentyn sy'n derbyn gofal a all wrthdaro neu orgyffwrdd, a chan eu bod i gyd yn ddarostyngedig i'r brif ddyletswydd yn adran 78, mae geiriad y ddyletswydd a osodir ar awdurdod lleol (a oedd o dan a81(7) yn flaenorol) wedi ei newid i'w gwneud yn ofynnol i'r awdurdod lleol roi sylw i'r ffactorau hyn (wrth orfod diogelu a hyrwyddo llesiant y plentyn). Mae'r gwahanol agweddau ar lesiant plentyn wedi eu nodi yn y diffiniad o "llesiant" yn adran 2 o Ddeddf 2014.

63. Os nad oes lleoliad ar gael gyda rhiant maeth na darparwr cartref plant o'r fath, neu os na fyddai lleoli plentyn mewn lleoliad o'r fath pan fo lleoliad ar gael yn gyson â phrif ddyletswydd yr awdurdod lleol o dan adran 78, rhaid i'r awdurdod lleol ystyried unwaith eto beth yw'r lleoliad mwyaf priodol sydd ar gael yn unol ag adran 81A(2).

64. Ar y pwynt hwn, rhaid i'r awdurdod lleol o angenrheidrwydd ystyried lleoliadau a all fod ar gael gyda darparwyr eraill, unwaith eto gan roi sylw i'r ffactorau y cyfeirir atynt yn adran 81A(5)(a), a rhaid iddo hefyd roi blaenoriaeth i leoliad gyda pherthynas (eto, yn ddarostyngedig i'r brif ddyletswydd o dan adran 78).

65. Pan fo awdurdod lleol yn lleoli plentyn sy'n derbyn gofal mewn lleoliad nad yw'n bodloni gofynion adran newydd 81A(4), rhaid i'r awdurdod wneud cais i Weinidogion Cymru am gymeradwyaeth (gweler adran 81B ynghylch "lleoliadau atodol").

66. O ganlyniad i adran newydd 81A(7), bydd rhaid i god ymarfer perthnasol a ddyroddir gan Weinidogion Cymru yn unol ag adran 145 o Ddeddf 2014 gynnwys darpariaeth ynghylch sut y mae awdurdod lleol yn arfer ei swyddogaethau o dan adran 81.

67. Mae adran 81B(3) yn nodi pa wybodaeth y mae rhaid ei darparu wrth wneud cais i gymeradwyo lleoliad atodol, sy'n cynnwys (ymhlith materion eraill) esboniad pam y mae'r awdurdod lleol o'r farn y byddai'n gweithredu yn anghyson â'i ddyletswydd o dan adran 78 o Ddeddf 2014 pe na bai'n lleoli'r

plentyn sy'n derbyn gofal gyda'r darparwr er elw neu'r darparwr preifat (fel y bo'n gymwys).

68. Os bydd Gweinidogion Cymru yn gwrthod y cais, rhaid iddynt gyfarwyddo'r awdurdod lleol i wneud y canlynol:

- ystyried rhesymau Gweinidogion Cymru dros wrthod y cais, ac
- ailystyried lleoli'r plentyn mewn ffordd nad yw'n groes i'r gofynion yn adran 81A(4).

69. Ar ôl gwneud hynny, caiff yr awdurdod lleol ailgyflwyno'r cais os yw'n parhau i fod o'r farn ei bod yn angenrheidiol lleoli'r plentyn gyda darparwr er elw neu breifat gan gadw mewn cof y brif ddyletswydd o dan adran 78, ond rhaid i'r awdurdod esbonio:

- sut y mae wedi ystyried rhesymau Gweinidogion Cymru dros wrthod y cais cychwynnol, a
- pam y mae'n parhau i ystyried y dylid lleoli'r plentyn mewn lleoliad atodol.

70. Mae adran newydd 81C yn atgynhyrchu'r hyn a geir ar hyn o bryd yn is-adrannau (10) i (12) o adran 81, gan nodi'r dyletswyddau lleoli sy'n gymwys mewn cysylltiad â phlentyn y mae'r awdurdod lleol wedi ei fodloni y dylid ei leoli ar gyfer ei fabwysiadu.

71. Mae adran newydd 81D yn atgynhyrchu'r hyn a geir ar hyn o bryd yn is-adran (13) o adran 81, sy'n darparu y caiff awdurdod lleol ddyfarnu telerau unrhyw drefniadau neu leoliadau y mae'n eu gwneud mewn cysylltiad â phlentyn sy'n derbyn gofal o dan adran 81, 81A, 81B neu 81C.

## PENNOD 2
## DIWYGIADAU AMRYWIOL MEWN PERTHYNAS Â GWASANAETHAU GOFAL CYMDEITHASOL, GWEITHWYR GOFAL CYMDEITHASOL A SWYDDOGAETHAU GOFAL CYMDEITHASOL AWDURDODAU LLEOL

### Adran 14 – Dyletswydd i gyflwyno a chyhoeddi datganiad blynyddol

72. Mae adran 14 yn diwygio adran 10 o Ddeddf 2016 sy'n ei gwneud yn ofynnol i ddarparwr gwasanaeth gyflwyno datganiad blynyddol i Weinidogion Cymru, ac mae rhaid iddynt hwythau gyhoeddi'r datganiad hwnnw wedyn. Mae adran 14 yn diwygio adran 10 fel ei bod yn ofynnol i'r darparwr (ac nid i Weinidogion Cymru) gyhoeddi ei ddatganiad blynyddol ei hun ar ei wefan, ac iddo roi copi o'r datganiad hwnnw ar gael ar gais. Mae'r diwygiadau hefyd yn darparu bod rhaid i ddarparwr gwasanaeth gyhoeddi ei ddatganiad o fewn terfyn amser a ragnodir gan Weinidogion Cymru a bod methu â gwneud hynny yn drosedd ddiannod y gellir ei chosbi drwy ddirwy (gweler adran 14(3) sy'n diwygio adran 48 o Ddeddf 2016).

**Adran 15 – Cais i ganslo cofrestriad darparwr gwasanaeth: yr wybodaeth sydd i'w darparu**

73. Mae adran 15 yn diwygio adran 14 o Ddeddf 2016 i ddarparu'r pŵer i Weinidogion Cymru i'w gwneud yn ofynnol bod rhaid i gais i ganslo cofrestriad darparwr gwasanaeth gynnwys gwybodaeth ragnodedig a chael ei wneud ar y ffurf ragnodedig.

**Adran 16 – Canslo ac amrywio cofrestriad darparwr gwasanaeth heb gais: y gweithdrefnau hysbysu**

74. Mae adran 16 yn diwygio adrannau 13 a 15 o Ddeddf 2016, sy'n nodi pwerau Gweinidogion Cymru i amrywio cofrestriad darparwr gwasanaeth (adran 13) ac i ganslo cofrestriad darparwr gwasanaeth (adran 15), yn ddarostyngedig i'r weithdrefn hysbysiad gwella (a nodir yn adrannau 16 a 17 o Ddeddf 2016). Mae adran 16 yn diwygio'r adrannau hyn fel bod yr weithdrefn hysbysu sy'n gymwys yn dibynnu ar y seiliau y mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu amrywio neu ganslo cofrestriad y darparwr arnynt. O ganlyniad i'r diwygiadau hyn, pan fo cofrestriad yn cael ei amrywio neu ei ganslo ar seiliau penodol nad oes unrhyw gamau gwella y gallai fod yn ofynnol i ddarparwr gwasanaeth eu cymryd mewn cysylltiad â hwy, bydd y weithdrefn hysbysiad o gynnig yn adran 18 o Ddeddf 2016 yn gymwys yn lle'r weithdrefn hysbysiad gwella. Byddai hyn yn gymwys, er enghraifft, pan na fo'r darparwr gwasanaeth bellach yn darparu gwasanaeth rheoleiddiedig penodol neu pan na fo'r darparwr gwasanaeth bellach yn darparu'r gwasanaeth rheoleiddiedig hwnnw mewn man penodol, ohono, neu mewn perthynas ag ef.

**Adran 17 – Gwybodaeth, arolygiadau ac ymchwiliadau**

75. Mae adran 17 yn diwygio Pennod 3 o Ddeddf 2016 fel ei bod yn gwneud darpariaeth bellach mewn perthynas â phwerau Gweinidogion Cymru i gynnal arolygiadau ac i'w gwneud yn ofynnol i wybodaeth gael ei darparu mewn perthynas â swyddogaethau amrywiol sydd ganddynt o dan Ddeddf 2016, gan gynnwys mewn cysylltiad ag ymchwilio i droseddau.

**Adran 18 – Ystyr gweithiwr gofal cymdeithasol: gweithwyr gofal plant**

76. Mae adran 18 yn diwygio adran 79 o Ddeddf 2016 i roi'r pŵer i Weinidogion Cymru drwy reoliadau i estyn y diffiniad o weithwyr gofal cymdeithasol at ddiben Deddf 2016 i gynnwys gweithwyr gofal plant (gan gynnwys gweithwyr chwarae).

77. Mae gweithwyr gofal plant yn unigolion sy'n cael eu cyflogi gan berson, neu'n gweithio (gan gynnwys fel gweithwyr asiantaeth) i berson, sydd wedi ei gofrestru o dan Ran 2 o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 fel darparwr gofal dydd, i ddarparu gofal a goruchwyliaeth i blant.

**Adran 19 – Achosion addasrwydd i ymarfer: pwerau i estyn gorchmynion interim**

78. Mae adran 19 yn diwygio Pennod 4 o Ran 6 o Ddeddf 2016 sy'n gwneud darpariaeth mewn cysylltiad â gorchmynion interim ac adolygiadau o orchmynion interim mewn achosion addasrwydd i ymarfer. Mae gorchmynion interim a osodir gan y rheoleiddiwr yn fodd i alluogi i gyfyngiadau dros dro gael eu cymhwyso i berson cofrestredig tra bo ymchwiliadau yn cael eu gwneud i honiadau ynghylch addasrwydd i ymarfer a wneir yn erbyn y person. Mae'r diwygiad yn rhoi'r pŵer i banel (panel gorchmynion interim neu banel addasrwydd i ymarfer y dygir yr achos gorchymyn interim ger ei fron) i estyn gorchymyn interim am gyfnod o gyfanswm o hyd at 18 mis, gan ddileu'r angen i geisiadau gael eu gwneud i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf am estyniadau nad ydynt yn estyn hyd cyfan y gorchymyn y tu hwnt i'r terfyn hwnnw. Bydd cais i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf yn parhau i fod yn ofynnol pan fo gorchymyn interim i gael ei estyn y tu hwnt i 18 mis (gweler adran 148 o Ddeddf 2016).

## Adran 20 — Taliadau uniongyrchol ym maes gofal cymdeithasol

79. Mae adran 20 yn diwygio Rhan 4 o Ddeddf 2014 er mwyn caniatáu i awdurdod lleol wneud taliadau uniongyrchol i berson (unigolyn neu gorff) sydd wedi ei enwebu gan oedolyn sydd â hawlogaeth i gael taliad uniongyrchol o dan adran 50 o Ddeddf 2014 ni waeth a yw'r oedolyn hwnnw yn oedolyn heb alluedd (o fewn ystyr Deddf Galluedd Meddyliol 2005) i gael a rheoli'r taliadau uniongyrchol ei hunan.

80. Bwriad y diwygiadau a wneir gan adran 20 yw sicrhau bod gan bob person sydd â hawlogaeth i gael taliad uniongyrchol o dan Ran 4 o Ddeddf 2014 (gan gynnwys taliadau a wneir mewn cysylltiad â gwasanaethau ôl-ofal o dan adran 117 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983) yr un hawlogaeth i enwebu person i gael a rheoli'r taliadau uniongyrchol ar ei ran, pa un a oes ganddynt alluedd meddyliol ai peidio (neu yn achos plentyn o dan 16 oed, fod yr awdurdod lleol wedi ei fodloni bod gan y plentyn ddealltwriaeth ddigonol i wneud penderfyniad deallus ynghylch cydsynio i gael taliad uniongyrchol).

81. Mae'r diwygiadau hynny yn mewnosod adrannau newydd 49A a 53A yn Neddf 2014 ac yn amnewid adrannau 50, 51 a 52.

82. Mae adran newydd 49A yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau a gaiff ei gwneud yn ofynnol neu ganiatáu i awdurdod lleol wneud taliadau uniongyrchol ond dim ond pan fo'r amodau perthnasol a bennir yn adrannau 50 (taliadau uniongyrchol: yr amodau ar gyfer taliad i ddiwallu anghenion oedolyn), 51 (taliadau uniongyrchol: yr amodau ar gyfer taliad i ddiwallu anghenion plentyn) neu 52 (taliadau uniongyrchol: yr amodau ar gyfer taliad i ddiwallu anghenion gofalwr) wedi eu bodloni gan y person sydd â hawlogaeth i gael gofal a chymorth o dan Ran 4 o Ddeddf 2014.

83. Mae adran 20 hefyd yn mewnosod adran newydd 53A yn Rhan 4 o Ddeddf 2014. Mae hyn yn disodli darpariaeth bresennol a wneir gan adran 53(11) sydd ar hyn o bryd yn darparu y caiff rheoliadau a wneir o dan adrannau 50 a 52 alluogi awdurdod lleol i gyflawni ei ddyletswydd i ddarparu gwasanaethau ôl-ofal o dan adran 117 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 ("Deddf 1983") drwy

wneud taliadau uniongyrchol, ac mae'n cyflwyno Atodlen A1 (sy'n cynnwys addasiadau i'r ddarpariaeth bresennol a wneir gan adrannau 50, 51 a 53).

84. Mae adran 20 yn amnewid Atodlen A1. Mae'r Atodlen A1 newydd yn nodi'n llawn yr amodau y mae rhaid eu bodloni cyn y caiff awdurdod lleol wneud taliadau uniongyrchol wrth gyflawni ei ddyletswydd i ddarparu neu sicrhau gwasanaethau i berson sydd â hawlogaeth i ôl-ofal o dan adran 117 o Ddeddf 1983 (yn hytrach na thrwy wneud addasiadau i'r ddarpariaeth berthnasol yn Rhan 4 o Ddeddf 2014). Mae'r Atodlen A1 sydd wedi ei hamnewid yn cynnwys darpariaeth sy'n galluogi person sydd â hawlogaeth i gael taliad uniongyrchol yn lle cael ôl-ofal i enwebu person i gael y taliadau uniongyrchol ar ei ran.

## Adran 21 – Lletya plant

85. Mae adran 21 yn diwygio adrannau 76 ac 81 o Ddeddf 2014 i egluro cwmpas cyfeiriadau yn yr adrannau hynny at "gorchmynion trefniadau plentyn". Mewnosodwyd y cyfeiriadau hyn fel diwygiadau canlyniadol pan ddisodlwyd gorchmynion preswylio (sef yr hyn yr oedd y darpariaethau hyn yn cyfeirio atynt yn flaenorol) gan orchmynion trefniadau plentyn (gweler adran 12 o Ddeddf Plant a Theuluoedd 2014 (p. 6) ac Atodlen 2 iddi). Fodd bynnag, mae gorchmynion trefniadau plentyn yn ymdrin ag ystod ehangach o faterion na gorchmynion preswyl, ac maent yn cynnwys trefniadau cyswllt ar gyfer plant. Mae'r Bil felly yn diwygio'r cyfeiriadau at "gorchmynion trefniadau plentyn" yn adrannau 76 ac 81 o Ddeddf 2014 i egluro nad yw cyfeiriad at orchmynion trefniadau plentyn ond yn ymwneud â'r gorchmynion hynny sy'n pennu'r person y dylai plentyn fyw gydag ef.

## Adran 22 – Gofal cymdeithasol: mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol

86. Mae adran 22 yn cyflwyno Atodlen 1 sy'n gwneud mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol mewn perthynas â'r darpariaethau yn Rhan 1 o'r Bil, mewn cysylltiad â gofal cymdeithasol.

87. Mae paragraff 2(6) o Atodlen 1 yn diwygio paragraff 1(4) o Atodlen 1 i Ddeddf 2016 i'w gwneud yn glir fod y ddarpariaeth o lety a gofal i blentyn gan awdurdod lleol yn gyfystyr â gwasanaeth cartref gofal.

# RHAN 2
# GOFAL IECHYD

88. Mae'r Rhan hon yn cynnwys darpariaethau sy'n diwygio Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 ["Deddf 2006"] sef y brif ddeddfwriaeth sy'n llywodraethu gweithrediad y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) yng Nghymru. Mae'r diwygiadau yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud taliadau uniongyrchol i unigolion yn lle darparu gwasanaethau gan neu ar ran y GIG i ddiwallu eu hanghenion (neu gyfarwyddo Byrddau Iechyd Lleol i wneud taliadau o'r fath ar eu rhan gan ddefnyddio pwerau presennol o dan Ddeddf 2006).

89. Mae taliadau uniongyrchol yng nghyd-destun gofal cymdeithasol yn symiau ariannol a delir gan awdurdodau lleol yn unol â dyletswyddau o dan Ddeddf 2014 i unigolion (neu eu cynrychiolwyr) i'w galluogi i sicrhau gwasanaethau i ddiwallu eu hanghenion cymwys am ofal a chymorth (neu anghenion gofalwr). Gwneir y taliadau hyn yn lle bod yr awdurdod lleol yn darparu neu'n trefnu gwasanaethau i ddiwallu'r anghenion hynny ac fe'u gwneir o dan ddarpariaethau yn Rhan 4 o Ddeddf 2014 ac yn rhinwedd y Rhan honno[93].

90. Bwriedir i'r pwerau newydd gael eu defnyddio i alluogi Gweinidogion Cymru i wneud taliadau uniongyrchol (mewn achosion priodol) yn lle darparu gwasanaethau pan fo unigolyn yn gymwys i gael Gofal Iechyd Parhaus y GIG ("GIP"). Pecyn o ofal parhaus yw GIP, a drefnir ac a ariennir yn gyfan gwbl gan y GIG pan ganfyddir bod gan yr unigolyn "angen iechyd sylfaenol" (yn hytrach nag angen am ofal a chymorth gan awdurdodau lleol). Darperir gofal o'r fath i unigolyn 18 oed neu hŷn, i ddiwallu anghenion sydd wedi codi o ganlyniad i anabledd, damwain neu salwch. Mewn achosion o'r fath, mae'r GIG yn gyfrifol am ddarparu ar gyfer holl anghenion iechyd a gofal cymdeithasol asesedig yr unigolyn hwnnw - gan gynnwys llety, os yw hynny'n rhan o'r angen cyffredinol. Gellir darparu gwasanaethau i bobl sydd â hawlogaeth i GIP mewn unrhyw leoliad y tu allan i'r ysbyty, megis yng nghartref y person ei hun, mewn cartref gofal neu mewn hosbis. Ar hyn o bryd, nid yw Deddf 2006 yn caniatáu i daliadau uniongyrchol gael eu gwneud yn lle darparu gwasanaethau, i'r rhai sy'n gymwys i gael GIP neu fel arall.

91. Roedd *Rhaglen Lywodraethu* 2021 Llywodraeth Cymru yn nodi ymrwymiad i "wella'r rhyngwyneb rhwng gofal iechyd parhaus a thaliadau uniongyrchol". Yn unol â hynny, yn 2022, ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar yr egwyddor o gyflwyno taliadau uniongyrchol fel opsiwn o fewn GIP. Roedd yr ymatebion i'r ymgynghoriad ar y cynnig yn dangos bod llawer o gefnogaeth i'r egwyddor o gyflwyno taliadau uniongyrchol ar gyfer GIP.

## Adran 23 – Trosolwg o Ran 2

92. Mae'r adran hon yn rhoi trosolwg o brif ddarpariaethau Rhan 2 o'r Bil. Mae'n crynhoi'r pynciau yr ymdrinnir â hwy ym mhob adran ddilynol yn y Rhan.

## Adran 24 – Taliadau uniongyrchol am ofal iechyd

93. Mae'r adran hon yn mewnosod darpariaeth newydd yn Rhan 1 o Ddeddf 2006 er mwyn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud taliadau uniongyrchol i unigolion yn lle darparu gwasanaethau i ddiwallu eu hanghenion asesedig o dan Ddeddf 2006.

94. Mae Gweinidogion Cymru wedi arfer pŵer o dan adran 12 o Ddeddf 2006 i wneud rheoliadau sy'n cyfarwyddo Byrddau Iechyd Lleol (BILlau) i arfer swyddogaethau penodedig Gweinidogion Cymru o dan Ddeddf 2006 ar eu rhan. Caniateir arfer y pwerau hyn ymhellach i gyfarwyddo'r BILlau i arfer

93 Gweler adrannau 50 i 53 o Ddeddf 2014 ac O.S. 2015/1815 (Cy. 260).

pŵer Gweinidogion Cymru i wneud taliadau uniongyrchol yn lle darparu gwasanaethau.

95. Mae adran 10B(5) yn cynnwys pŵer i wneud rheoliadau a fyddai, pe bai'n cael ei arfer gan Weinidogion Cymru, yn galluogi BILlau i wneud taliadau uniongyrchol wrth gyflawni dyletswydd y BILlau i ddarparu gwasanaethau ôl-ofal o dan adran 117 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983.

96. Mae'r diwygiadau hefyd yn mewnosod adran 10C yn Neddf 2006, sy'n darparu y caiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n pennu pryd a sut y caniateir gwneud taliadau uniongyrchol. Caiff rheoliadau a wneir o dan y ddarpariaeth hon ddarparu bod taliadau uniongyrchol i'w cynnig o dan amgylchiadau penodedig yn unig, neu cânt atal taliadau o'r fath rhag cael eu gwneud i bersonau penodedig.

97. Mae'r diwygiadau hefyd yn mewnosod adran 10D yn Neddf 2006, sy'n darparu y caiff Gweinidogion Cymru a BILlau wneud trefniadau gyda sefydliadau eraill i ddarparu cymorth gyda thaliadau uniongyrchol.

98. Gwneir diwygiadau hefyd i adran 203 o Ddeddf 2006, ac effaith hynny yw y bydd y set gyntaf o reoliadau a wneir o dan adran 10B(5) o Ddeddf 2006 yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol ddrafft yn y Senedd.

## Adran 25 – Taliadau uniongyrchol am ofal iechyd: mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol

99. Mae'r adran hon yn cyflwyno Atodlen 2, sy'n gwneud nifer o fân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol i Ddeddfau eraill o ganlyniad i'r ddarpariaeth newydd yn Rhan 1 o Ddeddf 2006 mewn perthynas â thaliadau uniongyrchol. Mae'r Atodlen yn cynnwys diwygiadau i Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 (p. 20), Deddf Personau Anabl (Gwasanaethau, Ymgynghori a Chynrychioli) 1986 (p. 33), Deddf 2006, Deddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006 (p. 47), a Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019 (dccc 3).

## Adran 26 – Darparu gwasanaethau iechyd gan awdurdodau lleol

100. Mae'r adran hon yn diwygio adran 47 o Ddeddf 2014. Mae'r diwygiadau hyn yn mynd i'r afael â chanlyniad anfwriadol sy'n deillio o ddrafftio Deddf 2014, er mwyn ymgorffori'r prawf statudol llawn y bwriedir iddo bennu'r cyfyngiadau ar bwerau awdurdod lleol i ddarparu gwasanaethau gofal iechyd.

101. Mae adran 47 o Ddeddf 2014 yn sefydlu'r cyfyngiadau o ran gwasanaethau iechyd y gellid disgwyl yn gyfreithlon i awdurdod lleol eu darparu i ddiwallu anghenion gofal iechyd. Mae is-adrannau (1) a (2) yn cynnwys yr eithriadau ar gyfer darparu gwasanaethau iechyd gan awdurdodau lleol.

102. Mae'r prawf "maint ac ansawdd", a ddatblygwyd gan y Llys Apêl o ganlyniad i achos *Coughlan* (*R. v. North and East Devon Health Authority, ex parte Coughlan* [1999 EWCA civ 1871], ac y cyfeirir ato weithiau fel y *"prawf Coughlan"*, yn pennu'r cyfyngiadau ar bwerau awdurdod lleol i ddarparu gwasanaethau

gofal iechyd. Y bwriad oedd y byddai'r ddarpariaeth a wneir gan adran 47 o Ddeddf 2014 yn dilyn argymhellion Comisiwn y Gyfraith yn ei adroddiad ar Ofal Cymdeithasol i Oedolion (Comisiwn y Gyfraith (Comisiwn y Gyfraith Rhif 326) Gofal Cymdeithasol i Oedolion), gan gynnwys yr argymhelliad y dylid codeiddio'r prawf *Coughlan* mewn statud. Fodd bynnag, nid oedd Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) fel y'i cyflwynwyd ond yn cynnwys cainc gyntaf y prawf *Coughlan*, sydd bellach wedi ei nodi yn adran 47 o Ddeddf 2014.

103. Felly, mae'r diwygiadau a wneir gan adran 26 yn mewnosod ail gainc y prawf *Coughlan* yn adran 47(1) a (2) o Ddeddf 2014, er mwyn rhoi effaith i'r bwriad polisi gwreiddiol.

# Atodiad 2

## Mynegai o ofynion y Rheolau Sefydlog

Tabl A2.1

| Rheol sefydlog | | Adran | tudalennau/ paragraffau |
|---|---|---|---|
| 26.6(i) | Datgan y byddai darpariaethau'r Bil o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd | Datganiad yr Aelod | 1 |
| 26.6(ii) | Nodi amcanion polisi y Bil | Pennod 3 - Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael | 5-30 |
| 26.6(iii) | Nodi a gafodd ffyrdd eraill o wireddu'r amcanion polisi eu hystyried ac, os felly, pam y cafodd yr ymagwedd a gymerir yn y Bil ei mabwysiadu | Rhan 2 – Asesiad Effaith Rheoleiddiol | 66-160<br><br>Paragraffau 7.42-7.373 |
| 26.6(iv) | Nodi'r ymgynghori a gafwyd, os cafwyd unrhyw ymgynghori o gwbl, ar y canlynol:<br>(a) amcanion polisi y Bil a'r ffyrdd o'u gwireddu;<br><br>(b) manylion y Bil, a<br><br>(c) Bil drafft, naill ai yn llawn neu'n rhannol (ac os yn rhannol, pa rannau) | Pennod 4 – Ymgynghori | 31-33 |
| 26.6(v) | Nodi crynodeb o ddeilliant yr ymgynghori hwnnw, gan gynnwys sut a pham y mae unrhyw Fil drafft wedi cael ei ddiwygio | Pennod 4 – Ymgynghori | 31-33 |
| 26.6(vi) | Os na chyhoeddwyd y Bil, neu ran o'r Bil, yn flaenorol fel drafft, datgan y | Pennod 4 – Ymgynghori | 32<br><br>Paragraff 4.10 |

| Rheol sefydlog | | Adran | tudalennau/ paragraffau |
|---|---|---|---|
| | rhesymau dros y penderfyniad hwnnw | | |
| 26.6(vii) | Crynhoi yn wrthrychol yr hyn y bwriedir i bob un o ddarpariaethau'r Bil ei wneud (i'r graddau y mae angen esbonio hynny neu y mae angen cyflwyno sylwadau ar hynny) a rhoi'r wybodaeth arall sy'n angenrheidiol i esbonio effaith y Bil | Atodiad 1 – Nodiadau Esboniadol | 188-206 |
| 26.6(viii) | Nodi'r amcangyfrifon gorau o'r canlynol:<br><br>(a) y costau gweinyddol gros, y costau cydymffurfio gros a'r costau gros eraill y byddai darpariaethau'r Bil yn arwain atynt;<br><br>(b) yr arbedion gweinyddol y byddai'r Bil yn arwain atynt;<br><br>(c) costau gweinyddol net darpariaethau'r Bil;<br><br>(d) dros ba gyfnodau amser y disgwylid i'r holl gostau ac arbedion hynny godi; ac<br><br>(e) ar bwy y byddai'r costau'n syrthio | Rhan 2 – Asesiad Effaith Rheoleiddiol | 49-55 ar gyfer y crynodeb<br><br>56-160 ar gyfer yr amcangyfrifon manwl |
| 26.6(ix) | Unrhyw fanteision ac anfanteision amgylcheddol a chymdeithasol sy'n deillio o'r Bil na ellir eu meintioli'n ariannol | Rhan 2 – Asesiad Effaith Rheoleiddiol | 79-82, 89-100, 104-105, 120-127, 128-148, 165-178 |

| Rheol sefydlog | | Adran | tudalennau/ paragraffau |
|---|---|---|---|
| | | | Paragraffau 7.78-7.87, 7.120-7.136, 7.161-7.163, 7.202-7.211, 7.219-7.373, 9.1-9.50 |
| 26.6(x) | Os yw’r Bil yn cynnwys unrhyw ddarpariaeth sy’n rhoi pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth, nodi mewn perthynas â phob darpariaeth o’r fath:<br><br>(a) (a) y person neu’r corff y rhoddir y pwer iddo ac ym mha fodd y mae’r pŵer i gael ei arfer;<br><br>(b) pam y bernir ei bod yn briodol dirprwyo’r pŵer; ac<br><br>(c) gweithdrefn y Senedd (os oes un) y mae’r is-ddeddfwriaeth a wnaed neu sydd i’w gwneud wrth arfer y pŵer i ddod oddi tani, a pham y barnwyd ei bod yn briodol ei gosod o dan y weithdrefn honno (ac nid ei gosod o dan unrhyw weithdrefn arall); | Pennod 5 - Y pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth | 34-48 |
| 26.6(xi) | Os yw’r Bil yn cynnwys unrhyw ddarpariaeth sy’n codi gwariant ar Gronfa Gyfunol Cymru, ymgorffori adroddiad gan yr Archwilydd Cyffredinol sy’n | Nid yw'r gofyniad yn Rheol Sefydlog 26.6(xi) yn gymwys i'r Bil hwn | Amh. |

| Rheol sefydlog | | Adran | tudalennau/ paragraffau |
|---|---|---|---|
| | nodi ei farn ef ar a yw'r tâl yn briodol neu beidio | | |
| 26.6(xii) | Nodi'r effaith bosibl (os o gwbl) ar y system gyfiawnder yng Nghymru a Lloegr yn sgil darpariaethau'r Bil ("asesiad effaith ar gyfiawnder"), yn unol ag adran 110A o'r Ddeddf. | Rhan 2 – Asesiad Effaith Rheoleiddiol | 142-143, 165-166<br><br>Paragraffau 7.333-7.335 a 9.11-9.12 |
| 26.6B | Pan fo darpariaethau'r Bil yn deillio o ddeddfwriaeth sylfaenol bresennol, boed at ddibenion diwygio neu gydgrynhoi, rhaid darparu tabl tarddiadau i gyd-fynd â'r Memorandwm Esboniadol er mwyn esbonio'n glir beth yw'r berthynas rhwng y Bil a'r fframwaith cyfreithiol presennol. | Nid yw'r gofyniad yn Rheol Sefydlog 26.6B ynghylch Tabl Tarddiadau yn gymwys i'r Bil hwn oherwydd mai darn o ddeddfwriaeth annibynnol yw'r Bil ac nad yw'n tarddu o ddeddfwriaeth sylfaenol bresennol at ddibenion diwygio neu gydgrynhoi. | Amh. |
| 26.6C | Pan fo'r Bil yn cynnig diwygio deddfwriaeth sylfaenol bresennol yn sylweddol, rhaid darparu atodlen i gyd-fynd â'r Memorandwm Esboniadol, yn nodi geiriad deddfwriaeth bresennol sy'n cael ei diwygio gan y Bil, ac yn nodi'n eglur sut y caiff y geiriad hwnnw ei ddiwygio gan y Bil. | Atodiad 3 – Atodlen o Ddiwygiadau | 211-328 |

# Atodiad 3

## Atodlen o ddiwygiadau
**Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006**

Y DIWYGIADAU SYDD I GAEL EU GWNEUD GAN
FIL IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL (CYMRU)

Bwriedir i’r ddogfen hon ddangos sut y byddai’r darpariaethau yn Neddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006, fel yr oeddent yn gymwys o ran Cymru ar 9 Mawrth 2024, yn edrych fel y’u diwygid gan Fil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru) (pe bai’n cael ei ddeddfu fel y’i cyflwynwyd ar 20 Mai 2024).

Ceir llinell drwy’r testun sydd i gael ei ddileu gan Fil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru), e.e. ~~mae testun sydd wedi ei hepgor yn edrych fel hyn~~. Mae testun sydd i gael ei ychwanegu gan Fil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru) wedi ei danlinellu, e.e. mae testun sydd wedi ei ychwanegu yn edrych fel hyn. Rhoddir y cyfeiriadau at y darpariaethau diwygio perthnasol yn y Bil yn y golofn dde ar bob tudalen.

Cynhwysir nifer o ddarpariaethau cysylltiedig yn y Ddeddf, er nad ydynt yn cael eu diwygio, er mwyn helpu i ddeall y diwygiadau arfaethedig.

**Rhybudd**

Mae’r testun hwn wedi ei lunio gan swyddogion Grŵp Iechyd, Gofal Cymdeithasol a’r Blynyddoedd Cynnar Llywodraeth Cymru. Er bod ymdrech wedi ei gwneud i sicrhau ei fod yn gywir, ni ddylid dibynnu arno fel testun diffiniol o’r Ddeddf na’r Bil.

At ddiben helpu pobl i ddeall effaith Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru) yn unig y mae’r testun wedi ei lunio. Ni fwriedir iddo gael ei ddefnyddio mewn unrhyw gyd-destun arall.

| **Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006** | *Yr adran ddiwygio ym Mil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru)* |
|---|---|
| *Provision of services otherwise than by the Welsh Ministers*<br><br>**10  Welsh Ministers’ arrangements with other bodies**<br><br>(1) The Welsh Ministers may arrange with any person or body to provide, or assist in providing, any service under this Act.<br><br>(2) Arrangements may be made under subsection (1) with voluntary organisations. | |

| | |
|---|---|
| (3) The Welsh Ministers may make available any facilities provided by them for any service under this Act—<br>(a) to any person or body carrying out any arrangements under subsection (1), or<br>(b) to any voluntary organisation eligible for assistance under section 64 or section 65 of the Health Services and Public Health Act 1968 (c. 46).<br>(4) Where facilities are made available under subsection (3) the Welsh Ministers may make available the services of any person employed in connection with the facilities by—<br>(a) the Welsh Ministers,<br>(b). . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .<br>(c) a Special Health Authority, or<br>(d) a Local Health Board.<br>(5) Powers under this section may be exercised on such terms as may be agreed, including terms as to the making of payments by or to the Welsh Ministers.<br>(6) Goods or materials may be made available either temporarily or permanently.<br>(7) Any power to supply goods or materials under this section includes—<br>(a) a power to purchase and store them, and<br>(b) a power to arrange with third parties for the supply of goods or materials by those third parties. | |
| *Procurement*<br>**10A Procurement of services etc. as part of the NHS in Wales**<br>(1) The Welsh Ministers may, by regulations, make provision in relation to the processes to be followed and objectives to be pursued by relevant authorities in the procurement of—<br>(a) services provided as part of the health service in Wales (“health services”), and<br>(b) goods or other services that are connected to those health services.<br>(2) Regulations under subsection (1) must include provision specifying steps to be taken when following a competitive tendering process. | |

| | |
|---|---|
| (3) Regulations under subsection (1) must, in relation to the procurement of the services or goods to which they apply, make provision for the purposes of—<br>(a) ensuring transparency;<br>(b) ensuring fairness;<br>(c) ensuring that compliance can be verified;<br>(d) managing conflicts of interest.<br>(4) Before making regulations under subsection (1), the Welsh Ministers must carry out such consultation as they consider appropriate and publish a summary of the responses they receive.<br>(5) Explanatory material accompanying regulations made under subsection (1) must set out how the regulations make provision for the purposes of subsection (3).<br>(6) The Welsh Ministers must publish such guidance as they consider appropriate about compliance with the regulations.<br>(7) A relevant authority must have regard to guidance published under this section.<br>(8) The Welsh Ministers must—<br>(a) review the operation of the regulations, and<br>(b) publish the conclusions of the review before the end of the period of 5 years beginning with the day on which the regulations come into force.<br>(9) In this section "relevant authority" means—<br>(a) a county council or county borough council in Wales;<br>(b) a local health board established under section 11;<br>(c) a National Health Service trust established under section 18;<br>(d) a special health authority established under section 22. | |
| *Direct payments for health care*<br><br>**10B Direct payments for health care**<br><br>(1) The Welsh Ministers may, for the purpose of securing the provision to a patient of anything to which subsection (3) applies, make payments to the patient or to a person nominated by the patient.<br>(2) Subsection (1) is subject to any provision made by regulations under section 10C.<br>(3) This subsection applies to—<br>(a) anything that the Welsh Ministers may or must provide under section 2(1) or 3(1);<br>(b) anything for which the Welsh Ministers must arrange under paragraph 8 of Schedule 1;<br>(c) any vehicles that the Welsh Ministers may provide under paragraph 9 of Schedule 1;<br>(d) anything the Welsh Ministers may provide under paragraph 10 of Schedule 1 (including anything for which a grant may be made under paragraph 10(3) of Schedule 1).<br>(4) Payments may not be made under subsection (1) unless the patient consents to the making of the payments, subject to any | 24(2) |

| | |
|---|---|
| provision made by regulations under section 10C in respect of a patient who lacks capacity or is a child.<br>(5) Regulations may provide that a Local Health Board may, for the purpose of securing the provision to a patient of after-care services that a Local Health Board must provide under section 117 of the Mental Health Act 1983 (c. 20), make payments to the patient or to a person nominated by the patient.<br>(6) Regulations under subsection (5) must provide that payments under the regulations cannot be made unless the patient consents to the making of the payments, subject to any provision made by regulations under section 10C in respect of a patient who lacks capacity or is a child.<br>(7) In section 10C and section 10D, “direct payments” means payments made under subsection (1) or under regulations made under subsection (5).<br>(8) In this section and section 10C—<br>(a) “child” means a person who has not attained the age of 16;<br>(b) references to a person lacking capacity are references to a person lacking capacity within the meaning of the Mental Capacity Act 2005 (c. 9). | |
| **10C Regulations about direct payments**<br><br>(1) Regulations may make provision about direct payments.<br>(2) The regulations may, in particular, make provision about—<br>(a) the circumstances in which, and descriptions of persons and services in respect of which, direct payments may, must or must not be made;<br>(b) the circumstances in which direct payments may, must or must not be made to a person nominated by the patient;<br>(c) the making of direct payments (and, in particular, as to persons to whom payments may or must be made) if the patient lacks capacity to consent to the making of the payments or is a child;<br>(d) matters to which the Welsh Ministers or a Local Health Board may or must have regard when making a decision about direct payments;<br>(e) conditions that the Welsh Ministers or a Local Health Board may, must or must not attach in relation to direct payments;<br>(f) the steps that the Welsh Ministers or a Local Health Board may or must take before, or after, making a decision about direct payments;<br>(g) the conditions that the patient or (if different) the payee may or must be required to comply with before, after, or at the time when a direct payment is made;<br>(h) the amount of any direct payment or how it is to be calculated;<br>(i) the circumstances in which the Welsh Ministers or a Local Health Board may or must stop making direct payments;<br>(j) the circumstances in which the Welsh Ministers or a Local Health Board may or must require all or part of a direct payment to be repaid, by the patient or (if different) the payee or otherwise; | 24(2) |

| | |
|---|---|
| (k) the monitoring of the making of direct payments, of their use by the patient or (if different) the payee, or of services which they are used to secure;<br>(l) the review of decisions as to whether a direct payment should be made;<br>(m) the arrangements to be made by the Welsh Ministers or Local Health Board for providing patients, payees or their representatives with information, advice or other support in connection with direct payments;<br>(n) the extent to which such support is to be treated as a service in respect of which direct payments may be made.<br>(3) If the regulations make provision about persons who lack capacity to consent to the making of direct payments, the regulations may also make provision about the cases or circumstances where a person who has lacked that capacity but no longer does so (whether because of fluctuating capacity or regaining or gaining capacity).<br>(4) The regulations may provide for a sum that must be repaid to the Welsh Ministers or Local Health Board (as the case may be) by virtue of a condition or other requirement imposed by or under the regulations to be recoverable as a debt due to the Welsh Ministers or Local Health Board (as the case may be).<br>(5) The regulations may make provision—<br>(a) for a service in respect of which a direct payment has been made under section 10B(1) to be regarded as provided or arranged for by the Welsh Ministers under an enactment mentioned in section 10B(3), only to such extent and subject to such conditions as the regulations may specify;<br>(b) displacing functions or obligations of a Local Health Board with respect to the provision of after-care services under section 117 of the Mental Health Act 1983 (c. 20), only to such extent and subject to such conditions as the regulations may prescribe.<br>(6) In this section, "service" includes anything in respect of which direct payments may be made. | |
| **10D Arrangements with other bodies relating to direct payments**<br><br>(1) The Welsh Ministers or a Local Health Board may arrange with any person or body to provide assistance in connection with direct payments.<br>(2) Arrangements may be made under subsection (1) with voluntary organisations.<br>(3) Powers under this section may be exercised on such terms as may be agreed, including terms as to the making of payments by or to the Welsh Ministers or the Local Health Board. | 24(2) |
| | |
| **184 Functions of overview and scrutiny committees** | Atodlen 2, paragraff 3(2) |

| | |
|---|---|
| (1) This section applies to any local authority, except that it applies to the council of a district only where the district is comprised in an area for which there is no county council.<br>(2) Regulations may, in relation to an overview and scrutiny committee of an authority to which this section applies, make provision—<br>(a) as to matters relating to the health service in the authority's area which the committee may review and scrutinise,<br>(b) as to matters relating to the health service in the authority's area on which the committee may make reports and recommendations to local NHS bodies, direct payment service providers or the Welsh Ministers,<br>(c) as to matters on which local NHS bodies or direct payment service providers must consult the committee in accordance with the regulations (including provision as to circumstances in which the Welsh Ministers or the Independent Regulator of NHS Foundation Trusts may require consultation on those matters in accordance with the regulations),<br>(d) as to information which local NHS bodies or direct payment service providers must provide to the committee,<br>(e) as to information which may not be disclosed by a local NHS body or a direct payment service provider to the committee,<br>(f) requiring any officer of a local NHS body or a direct payment service provider to attend before the committee to answer questions.<br>(3) For the purposes of subsection (2), “local NHS body”, in relation to an overview and scrutiny committee, means an NHS body other than a Special Health Authority which is prescribed for those purposes in relation to the committee.<br>(3A) For the purposes of subsection (2) and section 186, “direct payment service provider” in relation to an overview and scrutiny committee of a local authority means a person who provides services to any person residing in the authority’s area in respect of which direct payments have been made under section 10B(1), or under regulations made under section 10B(5).<br>(4) “The health service” includes services provided in pursuance of arrangements under regulations under section 33 in relation to the exercise of health-related functions of a local authority. | |
| | |
| **186 Overview and scrutiny committees: exempt information**<br><br>(1) This section applies in relation to any item of business at a meeting of an overview and scrutiny committee which is an item relating to functions of the committee under section 21(2)(f) of the Local Government Act 2000 (c. 22).<br>(2) In relation to any such item, information is exempt information for the purposes of section 100A(4) of the Local Government Act 1972 (c. 70) (exclusion of public from meetings to prevent disclosure of exempt information) if it falls within any of the | Atodlen 2, paragraff 3(3) |

| | |
|---|---|
| descriptions of information specified in Schedule 11, or in Schedule 17 to the National Health Service Act 2006.<br>(3)The Welsh Ministers may by order vary Schedule 11—<br>(a) by adding any description or other provision in connection with a relevant body or services provided by, or under arrangements made by, a relevant body, ~~or~~<br><u>(ab) by adding any description or other provision in connection with a direct payment service provider or services provided by, or under arrangements made by, a direct payment service provider, or</u><br>(b) by deleting or varying any description or other provision specified or contained in that Schedule.<br>(4) The Welsh Ministers may exercise the power conferred by subsection (3) by amending any Part of Schedule 11, with or without amendment of any other Part.<br>(5) In this section and Schedule 11 “relevant body” means a body in respect of which overview and scrutiny committees exercise functions under regulations under section 184. | |
| | |
| **187 Independent advocacy services**<br>(1) The Welsh Ministers must arrange, to such extent as they consider necessary to meet all reasonable requirements, for the provision of independent advocacy services.<br>(2) “Independent advocacy services” are services providing assistance (by way of representation or otherwise) to individuals making or intending to make—<br>(a) a complaint under a procedure operated by<u> </u>a direct payment service provider<u>, </u>direct payment service provider, health service body,<br>(b) a complaint under section 113(1) or (2) of the Health and Social Care (Community Health and Standards) Act 2003 (c. 43),<br>(c) a complaint to the Health Service Commissioner for England,<br>(ca) a complaint to the Public Services Ombudsman for Wales which relates to a<u> direct payment service provider, </u>health service body, family health service provider in Wales, independent provider or independent palliative care provider,<br>(d) a complaint of a prescribed description which relates to the provision of services as part of the health service and—<br>(i) is made under a procedure of a prescribed description, or<br>(ii) gives rise, or may give rise, to proceedings of a prescribed description.<br>(3) In subsection (2)—<br><u>“direct payment service provider” means a person who provides services to any person in respect of which direct payments have been made under section 10B(1), or under regulations made under section 10B(5),</u> | Atodlen 2, paragraff 3(4) |

| | |
|---|---|
| " family health service provider in Wales " has the same meaning as it has in the Public Services Ombudsman (Wales) Act 2019 (see, in particular, section 78 of that Act),<br>"health service body" means—<br>(a) in relation to England, a body which, under section 2(1) of the Health Service Commissioners Act 1993 (c. 46), is subject to investigation by the Health Service Commissioner for England,<br>(b) in relation to Wales, a Welsh health service body (within the meaning of the Public Services Ombudsman (Wales) Act 2019),<br>"independent palliative care provider" means a person who is an independent palliative care provider (within the meaning given by section 64 of the Public Services Ombudsman (Wales) Act 2019),<br>"independent provider" means—<br>(a) in relation to England, a person who, under section 2B(1) of the Health Service Commissioners Act 1993, is subject to investigation by the Health Service Commissioner for England,<br>(b) in relation to Wales, a person who is an independent provider in Wales (within the meaning of the Public Services Ombudsman (Wales) Act 2019.<br>(4) The Welsh Ministers may make such other arrangements as they consider appropriate for the provision of assistance to individuals in connection with complaints relating to the provision of services as part of the health service.<br>(5) In making arrangements under this section the Welsh Ministers must have regard to the principle that the provision of services under the arrangements should, so far as practicable, be independent of any person who is—<br>(a) the subject of a relevant complaint, or<br>(b) involved in investigating or adjudicating on such a complaint.<br>(6)The Welsh Ministers may make payments to any person in pursuance of arrangements under this section. | |
| | |
| **203 Orders, regulations and directions**<br><br>(1) This section does not apply to Part 10 (as to which, see section 157).<br>(2) Subject to subsection (3), any power under this Act to make an order or regulations is exercisable by statutory instrument.<br>(3) Subsection (2) does not apply to an order under—<br>(a) section 26(2),<br>(b) section 159(4),<br>(c) paragraph 20, 21, 22 or 24 of Schedule 2,<br>(d) paragraph 9, 27 or 29 of Schedule 3, or<br>(e) paragraph 2 of Schedule 12. | 24(3) |

| | |
|---|---|
| (4) Subject to subsections (5) to (7), a statutory instrument made by virtue of this Act is subject to annulment in pursuance of a resolution of the National Assembly for Wales.<br>(5) Subsection (4) does not apply to a statutory instrument containing an order under—<br>(a) section 18,<br>(b) Schedule 3, or<br>(c) paragraph 1(1) of Schedule 4.<br>(6) A statutory instrument containing an order under section 141(4) may not be made unless a draft of the instrument has been laid before, and approved by resolution of, the National Assembly for Wales.<br>(6A)A statutory instrument containing regulations under section 10A(1), section 10C(1) (direct payments), section 25B(3)(c) or 201A(9) or the first regulations under section 82A (pharmaceutical needs assessments) or the first regulations under section 10B(5) (direct payments by Local Health Boards) may not be made unless a draft of the instrument has been laid before, and approved by resolution of, the National Assembly for Wales.<br>(7) If a statutory instrument made by virtue of this Act, which is subject to annulment in pursuance of a resolution of the National Assembly for Wales—<br>(a) contains subordinate legislation made by a Minister of the Crown or government department (whether or not jointly with the Welsh Ministers, the First Minister or the Counsel General),<br>(b) contains subordinate legislation relating to an English border area, or<br>(c) contains subordinate legislation relating to a cross-border body (and not relating only to the exercise of functions, or the carrying on of activities, by the body in or with respect to Wales or a part of Wales),<br>the statutory instrument is subject also to annulment in pursuance of a resolution of either House of Parliament.<br>(8) In subsection (7), "English border area" and "cross-border body" have the meaning given by the Government of Wales Act 2006 (c. 32).<br>(9) Any power under this Act to make orders, regulations or schemes, and any power to give directions—<br>(a) may be exercised either in relation to all cases to which the power extends, or in relation to those cases subject to specified exceptions, or in relation to any specified cases or classes of case,<br>(b) may be exercised so as to make, as respects the cases in relation to which it is exercised—<br>(i) the full provision to which the power extends or any less provision (whether by way of exception or otherwise),<br>(ii) the same provision for all cases in relation to which the power is exercised, or different provision for different cases or different classes of case, or different provision as respects the same case or class of case for different purposes of this Act, | |

| | |
|---|---|
| (iii) any such provision either unconditionally or subject to any specified condition, and<br>(c) may, in particular, make different provision for different areas.<br>(10) Any such power includes power—<br>(a) to make such incidental, supplementary, consequential, saving or transitional provision (including, in the case of a power to make an order or regulations, provision amending, repealing or revoking enactments) as the person or body exercising the power considers to be expedient, and<br>(b) to provide for a person to exercise a discretion in dealing with any matter. | |
| | |
| **207 Index of defined expressions**<br>In this Act the following expressions are defined or otherwise explained by the provisions indicated— | Atodlen 2, paragraff 3(4) |

| | |
|---|---|
| body established under this Act | section 206(2) |
| commissioner, in relation to an NHS contract | section 7(1) |
| contractor, in relation to a general dental services contract | section 57(4) |
| contractor, in relation to a general medical services contract | section 42(5) |
| direct payment service provider | Section 184(3A) |
| fraud case | section 107(3) |
| general dental services contract | section 57(2) |
| general medical services contract | section 42(2) |
| general ophthalmic services | section 71(10) |
| NHS body | section 22(6) |
| LPS scheme | paragraph 1(2) of Schedule 7 |
| NHS contract | section 7(1) |
| NHS trust order | section 18(2) |
| nurse staffing level | section 25B(1)(a) |
| ophthalmic list | section 72(7) |
| optical appliances | section 128(5) |
| pharmaceutical list | section 83(11) |

| | |
|---|---|
| pharmaceutical services | section 80(8) |
| pilot scheme | section 92(2) |
| practitioner | section 107(9) |
| primary dental services | section 56 |
| primary medical services | section 41 |
| purposes of a hospital | section 206(3) |
| provider, in relation to an NHS contract | section 7(1) |
| relevant dental service | section 125(4) |
| section 50 arrangements | section 50(7) |
| section 64 arrangements | section 64(7) |
| special trustees | section 160(1) |
| supplementary list | section 105(2) |
| terms of service | section 104(7) |
| unsuitability case | section 107(4) |

Noder: at ddiben helpu pobl i ddeall Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru) yn unig y mae'r ddogfen hon wedi'i llunio. Ni ddylid dibynnu arni at unrhyw ddiben arall.

# Atodlen o ddiwygiadau

## Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Y DIWYGIADAU SYDD I GAEL EU GWNEUD GAN
FIL IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL (CYMRU)

Bwriedir i'r ddogfen hon ddangos sut y byddai'r darpariaethau yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, fel yr oeddent yn gymwys o ran Cymru ar 9 Mawrth 2024, yn edrych fel y'u diwygid gan Fil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru) (pe bai'n cael ei ddeddfu fel y'i cyflwynwyd ar 20 Mai 2024).

Ceir llinell drwy'r testun sydd i gael ei ddileu gan Fil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru), e.e. ~~mae testun sydd wedi ei hepgor yn edrych fel hyn~~. Mae testun sydd i gael ei ychwanegu gan Fil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru) wedi ei danlinellu, e.e. mae testun sydd wedi ei ychwanegu yn edrych fel hyn. Rhoddir y cyfeiriadau at y darpariaethau diwygio perthnasol yn y Bil yn y golofn dde ar bob tudalen.

Cynhwysir nifer o ddarpariaethau cysylltiedig yn y Ddeddf, er nad ydynt yn cael eu diwygio, er mwyn helpu i ddeall y diwygiadau arfaethedig.

### Rhybudd

Mae'r testun hwn wedi ei lunio gan swyddogion Grŵp Iechyd, Gofal Cymdeithasol a'r Blynyddoedd Cynnar Llywodraeth Cymru. Er bod ymdrech wedi ei gwneud i sicrhau ei fod yn gywir, ni ddylid dibynnu arno fel testun diffiniol o'r Ddeddf na'r Bil.

At ddiben helpu pobl i ddeall effaith Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru) yn unig y mae'r testun wedi ei lunio. Ni fwriedir iddo gael ei ddefnyddio mewn unrhyw gyd-destun arall.

Noder: at ddiben helpu pobl i ddeall Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru) yn unig y mae'r ddogfen hon wedi'i llunio. Ni ddylid dibynnu arni at unrhyw ddiben arall.

| **Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014** | *Yr adran ddiwygio ym Mil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru)* |
|---|---|
| | |
| **47 Eithriad ar gyfer darparu gwasanaethau gofal iechyd**<br><br>(1) Ni chaiff awdurdod lleol ddiwallu anghenion person am ofal a chymorth (gan gynnwys anghenion gofalwr am gymorth) o dan adrannau 35 i 45 drwy ddarparu neu drwy drefnu i ddarparu gwasanaeth neu gyfleuster y mae'n ofynnol ei ddarparu o dan ddeddfiad iechyd, oni bai<br>(a) y byddai gwneud hynny yn gysylltiedig â gwneud rhywbeth arall i ddiwallu anghenion o dan yr adrannau hynny, neu'n ategol at wneud hynny~~.~~, a<br>(b) y byddai'r gwasanaeth neu'r cyfleuster o dan sylw o natur y gellid disgwyl i'r awdurdod lleol ei ddarparu.<br>(2) Ni chaiff awdurdod lleol sicrhau gwasanaethau neu gyfleusterau i berson o dan adran 15 (gwasanaethau ataliol) y mae'n ofynnol eu darparu o dan ddeddfiad iechyd, oni bai<br>(a) y byddai gwneud hynny'n gysylltiedig â sicrhau, neu'n ategol at sicrhau, gwasanaeth neu gyfleuster arall i'r person hwnnw o dan yr adran honno~~.~~, a<br>(b) y byddai'r gwasanaeth neu'r cyfleuster o dan sylw o natur y gellid disgwyl i'r awdurdod lleol ei ddarparu.<br>(3) Caiff rheoliadau bennu—<br>(a) mathau o wasanaethau neu gyfleusterau y caniateir, er gwaethaf is-adrannau (1) a (2), eu darparu neu eu trefnu gan awdurdod lleol, neu amgylchiadau y caniateir i wasanaethau neu gyfleusterau o'r fath gael eu darparu neu eu trefnu ynddynt;<br>(b) mathau o wasanaethau neu gyfleusterau na chaniateir iddynt gael eu darparu neu eu trefnu gan awdurdod lleol, neu amgylchiadau na chaniateir i wasanaethau neu gyfleusterau o'r fath gael eu darparu neu eu trefnu ynddynt;<br>(c) gwasanaethau neu gyfleusterau, neu ddull ar gyfer dyfarnu gwasanaethau neu gyfleusterau, y mae eu darparu i'w | 26(2) a (3) |

| | |
|---|---|
| drin, neu i’w beidio â’i drin, fel pe bai’n gysylltiedig neu’n ategol at ddibenion is-adran (1) neu (2).<br>(4) Ni chaiff awdurdod lleol ddiwallu anghenion person am ofal a chymorth (gan gynnwys anghenion gofalwr am gymorth) o dan adrannau 35 i 45 drwy ddarparu neu drwy drefnu i ddarparu gofal nyrsio gan nyrs gofrestredig.<br>(5) Ni chaiff awdurdod lleol sicrhau’r ddarpariaeth o ofal nyrsio gan nyrs gofrestredig wrth gyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 15.<br>(6) Ond caiff awdurdod lleol, er gwaethaf is-adrannau (1), (2), (4) a (5), drefnu i lety ynghyd â gofal nyrsio gan nyrs gofrestredig gael eu darparu—<br>(a) os yw’r awdurdod wedi cael cydsyniad i drefnu’r ddarpariaeth o ofal nyrsio gan—<br>(i) pa Fwrdd Iechyd Lleol bynnag sy’n ofynnol o dan reoliadau, yn achos llety yng Nghymru, yr Alban neu Ogledd Iwerddon, neu<br>(ii) pa gorff iechyd Seisnig bynnag sy’n ofynnol o dan reoliadau, yn achos llety yn Lloegr, neu<br>(b) mewn achos brys a lle bo’r trefniadau’n rhai dros dro.<br>(7) Mewn achos y mae is-adran (6)(b) yn gymwys iddo, rhaid i’r awdurdod lleol geisio cael y cydsyniad a grybwyllwyd yn is-adran (6)(a) cyn gynted ag y bo’n ddichonadwy ar ôl i’r trefniadau dros dro gael eu gwneud.<br>(8) Caiff rheoliadau ei gwneud yn ofynnol bod awdurdod lleol—<br>(a) yn gwneud trefniadau mewn cysylltiad â datrys anghydfodau rhwng yr awdurdod a chorff iechyd ynghylch p’un a yw’n ofynnol darparu gwasanaeth neu gyfleuster ai peidio o dan ddeddfiad iechyd;<br>(b) yn cymryd rhan yn y modd a bennir mewn prosesau ar gyfer asesu anghenion person am ofal iechyd a phenderfynu sut y dylid diwallu’r anghenion hynny.<br>(9) Nid oes dim yn yr adran hon yn effeithio ar yr hyn y caiff awdurdod lleol ei wneud o dan Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006, gan gynnwys ymrwymo i drefniadau o dan reoliadau a wneir o dan adran 33 o’r Ddeddf honno (trefniadau â chyrff GIG).<br>(10) Yn yr adran hon—<br>ystyr “corff iechyd” (“health body”) yw—<br>(a) Bwrdd Iechyd Lleol<br>(b) bwrdd gofal integredig;<br>(c) GIG Lloegr; | |

| | |
|---|---|
| (d) Bwrdd Iechyd a gyfansoddwyd o dan adran 2 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Yr Alban) 1978;<br>(e) Bwrdd Iechyd Arbennig a gyfansoddwyd o dan yr adran honno;<br>(f) ymddiriedolaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol;<br><br>ystyr "corff iechyd Seisnig" ("English health body") yw—<br>(a) bwrdd gofal integredig;<br>(b) GIG Lloegr;<br><br>ystyr "deddfiad iechyd" ("health enactment") yw—<br>(a) Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006;<br>(b) Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 2006;<br>(c) Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Yr Alban) 1978;<br>(d) Gorchymyn Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Personol (Gogledd Iwerddon) 1972 (O.S. 1972/1265 (N.I. 14));<br>(e) Deddf (Diwygio) Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Gogledd Iwerddon) 2009;<br><br>ystyr "gofal nyrsio" ("nursing care") yw gwasanaeth sy'n cynnwys naill ai darparu gofal neu gynllunio, goruchwylio neu ddirprwyo'r gwaith o ddarparu gofal, ond nid yw'n cynnwys gwasanaeth nad oes angen iddo, o ran ei natur a'r amgylchiadau y mae i'w ddarparu ynddynt, gael ei ddarparu gan nyrs gofrestredig. | |
| | |
| **49 Cyfyngiadau ar ddarparu taliadau**<br>(1) Ni chaiff awdurdod lleol ddarparu taliadau i ddiwallu anghenion person am ofal a chymorth neu anghenion gofalwr am gymorth o dan adrannau 35 i 45 oni bai—<br>(a) bod y taliadau'n rhai uniongyrchol (gweler adrannau 49A i 53A ~~50 i 53~~),<br>(b) bod yr awdurdod o'r farn—<br>(i) bod anghenion y person yn rhai brys, a<br>(ii) na fyddai'n rhesymol ymarferol i ddiwallu'r anghenion hynny mewn unrhyw ffordd arall,<br>(c) bod y taliadau'n cael eu darparu o dan gontract neu yn rhinwedd contract, neu<br>(d) bod y taliadau'n cael eu darparu mewn amgylchiadau a bennir mewn rheoliadau.<br>(2) Ni chaiff awdurdod lleol ddarparu taliadau wrth gyflawni ei ddyletswydd o dan adran 15(1) oni bai— | Atodlen 1, paragraff 4(2) |

| | |
|---|---|
| (a) bod yr awdurdod o’r farn—<br>(i) y byddai’r taliadau’n sicrhau un neu fwy o’r dibenion a grybwyllwyd yn adran 15(2), a<br>(ii) na fyddai’n rhesymol ymarferol sicrhau’r diben hwnnw neu’r dibenion hynny mewn unrhyw ffordd arall,<br>(b) bod y taliadau’n cael eu darparu o dan gontract, neu yn rhinwedd contract, sy’n ymwneud â darparu gwasanaethau ar gyfer ardal yr awdurdod, neu<br>(c) bod y taliadau’n cael eu darparu mewn amgylchiadau a bennir mewn rheoliadau. | |
| | |
| *Taliadau uniongyrchol*<br><br>**49A Taliadau uniongyrchol**<br>(1) Caiff rheoliadau ei gwneud yn ofynnol neu ganiatáu i awdurdod lleol wneud taliadau i berson tuag at y gost o ddiwallu anghenion—<br>(a) oedolyn (“A”), o dan adran 35 neu 36;<br>(b) plentyn (“C”), o dan adran 37, 38 neu 39;<br>(c) gofalwr (“R”), o dan adran 40, 42 neu 45.<br>(2) Ond ni chaiff rheoliadau o dan is-adran (1) ei gwneud yn ofynnol bod taliadau o’r fath yn cael eu gwneud na chaniatáu hynny oni bai—<br>(a) pan fo’r taliadau i’w gwneud i ddiwallu anghenion oedolyn o dan adran 35 neu 36, y bodlonir amod 1, 2 neu 3 yn adran 50;<br>(b) pan fo’r taliadau i’w gwneud i ddiwallu anghenion plentyn o dan adran 37, 38 neu 39, y bodlonir amod 1 neu 2 yn adran 51;<br>(c) pan fo’r taliadau i’w gwneud i ddiwallu anghenion gofalwr o dan adran 40, 42 neu 45, y bodlonir amod 1 neu 2 yn adran 52.<br>(3) Cyfeirir at daliad o dan yr adran hon yn y Ddeddf hon fel “taliad uniongyrchol”. | 20(2)(a) |
| | |
| ~~**50 Taliadau uniongyrchol i ddiwallu anghenion oedolyn**~~<br>~~(1) Caiff rheoliadau ei gwneud yn ofynnol neu ganiatáu i awdurdod lleol wneud taliadau i berson tuag at y gost o ddiwallu anghenion oedolyn am ofal a chymorth o dan adran 35 neu 36.~~ | 20(2)(b) |

| | |
|---|---|
| ~~(2) Ond ni chaiff rheoliadau o dan is-adran (1) ei gwneud yn ofynnol bod taliadau o'r fath yn cael eu gwneud na chaniatáu hynny oni chaiff amod 1 neu 2 ei fodloni.~~<br>~~(3) Amod 1 yw—~~<br>~~(a) bod y taliadau i'w gwneud i'r oedolyn y mae arno anghenion am ofal a chymorth ("A"),~~<br>~~(b) bod gan A, neu y mae'r awdurdod lleol yn credu bod gan A, alluedd i gydsynio bod y taliadau'n cael eu gwneud,~~<br>~~(c) bod yr awdurdod lleol wedi ei fodloni—~~<br>~~(i) bod gwneud y taliadau yn ffordd briodol o ddiwallu anghenion A, a~~<br>~~(ii) bod gan A allu i reoli'r taliadau (naill ai ar ei ben ei hun neu gyda'r cymorth sydd ar gael i A), a~~<br>~~(d) bod A wedi cydsynio i'r taliadau gael eu gwneud.~~<br>~~(4) Amod 2 yw—~~<br>~~(a) nad oes gan yr oedolyn y mae arno anghenion am ofal a chymorth ("A"), neu y mae'r awdurdod lleol yn credu nad oes ganddo, y galluedd i gydsynio bod y taliadau'n cael eu gwneud,~~<br>~~(b) bod y taliadau i'w gwneud i berson ("P") ar wahân i A,~~<br>~~(c) bod P yn berson addas,~~<br>~~(d) bod yr awdurdod lleol wedi ei fodloni—~~<br>~~(i) bod gwneud y taliadau'n ffordd briodol o ddiwallu anghenion A,~~<br>~~(ii) bod gan P allu i reoli'r taliadau (naill ai ar ei ben ei hun neu gyda'r cymorth sydd ar gael i P), a~~<br>~~(iii) y bydd P yn gweithredu er lles pennaf A wrth reoli'r taliadau, ac~~<br>~~(e) bod y cydsyniad angenrheidiol wedi ei gael i wneud y taliadau i P.~~<br>~~(5) At ddibenion is-adran (4)(c), mae P yn "berson addas"—~~<br>~~(a) os yw P wedi ei awdurdodi o dan Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005 (p'un ai yn nhermau cyffredinol neu benodol) i wneud penderfyniadau ynghylch anghenion A am ofal a chymorth,~~<br>~~(b) lle nad yw P wedi ei awdurdodi fel a grybwyllwyd ym mharagraff (a), os yw person sydd wedi ei awdurdodi felly yn~~ | |

| | |
|---|---|
| ~~cytuno gyda'r awdurdod lleol fod P yn addas i gael taliadau tuag at y gost o ddiwallu anghenion A am ofal a chymorth, neu~~<br><br>~~(c) lle nad yw P wedi ei awdurdodi fel a grybwyllwyd ym mharagraff (a) ac nad oes unrhyw berson sydd wedi ei awdurdodi felly, os yw'r awdurdod lleol o'r farn bod P yn addas i gael taliadau o'r math hwnnw.~~<br><br>~~(6) At ddibenion is-adran (4)(e), ystyr "cydsyniad angenrheidiol" yw—~~<br><br>~~(a) cydsyniad P, a~~<br><br>~~(b) pan fo P yn berson addas yn rhinwedd is-adran (5)(b), cydsyniad person sydd wedi ei awdurdodi o dan Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005 (p'un ai yn nhermau cyffredinol neu benodol) i wneud penderfyniadau ynghylch anghenion A am ofal a chymorth.~~<br><br>~~(7) Cyfeirir at daliad o dan yr adran hon yn y Ddeddf hon fel "taliad uniongyrchol".~~<br><br>~~**51 Taliadau uniongyrchol i ddiwallu anghenion plentyn**~~<br><br>~~(1) Caiff rheoliadau ei gwneud yn ofynnol neu ganiatáu i awdurdod lleol wneud taliadau i berson tuag at y gost o ddiwallu anghenion plentyn am ofal a chymorth o dan adran 37, 38 neu 39.~~<br><br>~~(2) Ond ni chaiff rheoliadau o dan is-adran (1) ei gwneud yn ofynnol bod taliadau o'r fath yn cael eu gwneud na chaniatáu hynny oni chaiff amodau 1 i 4 eu bodloni.~~<br><br>~~(3) Amod 1 yw bod y taliadau i'w gwneud i berson ("P") sydd—~~<br><br>~~(a) yn berson â chyfrifoldeb rhiant dros blentyn y mae arno anghenion am ofal a chymorth, neu~~<br><br>~~(b) yn blentyn y mae arno anghenion am ofal a chymorth.~~<br><br>~~(4) Amod 2 yw—~~<br><br>~~(a) pan fo P yn oedolyn neu'n blentyn 16 neu 17 oed, bod gan P, neu fod yr awdurdod lleol yn credu bod gan P, alluedd i gydsynio bod y taliadau yn cael eu gwneud;~~<br><br>~~(b) pan fo P yn blentyn o dan 16 oed, bod yr awdurdod lleol wedi ei fodloni bod gan P ddealltwriaeth ddigonol i wneud penderfyniad deallus ynghylch cael taliadau uniongyrchol.~~<br><br>~~(5) Amod 3 yw bod yr awdurdod lleol wedi ei fodloni—~~ | |

| | |
|---|---|
| ~~(a) bod gwneud y taliadau yn ffordd briodol o ddiwallu anghenion y plentyn,~~<br>~~(b) y caiff llesiant y plentyn ei ddiogelu a'i hyrwyddo drwy i'r taliadau gael eu gwneud, acand~~<br>~~(c) bod gan P allu i reoli'r taliadau (naill ai ar ei ben ei hun neu gyda'r cymorth sydd ar gael i P).~~<br>~~(6) Amod 4 yw bod P wedi cydsynio bod y taliadau'n cael eu gwneud.~~<br>~~(7) Cyfeirir at daliad o dan yr adran hon yn y Ddeddf hon fel "taliad uniongyrchol".~~<br>~~**52 Taliadau uniongyrchol i ddiwallu anghenion gofalwr**~~<br>~~(1) Caiff rheoliadau ei gwneud yn ofynnol neu ganiatáu i awdurdod lleol wneud taliadau i berson tuag at y gost o ddiwallu anghenion gofalwr am gymorth o dan adran 40, 42 neu 45.~~<br>~~(2) Ond ni chaiff rheoliadau o dan is-adran (1) ei gwneud yn ofynnol i daliadau o'r fath gael eu gwneud neu ganiatáu iddynt gael eu gwneud oni chaiff amodau 1 i 4 eu cyflawni.~~<br>~~(3) Amod 1 yw bod y taliadau i'w gwneud i'r gofalwr y mae arno anghenion am gymorth ("C").~~<br>~~(4) Amod 2 yw—~~<br>~~(a) pan fo C yn oedolyn neu'n blentyn 16 neu 17 oed, bod gan C, neu fod yr awdurdod lleol yn credu bod gan C, alluedd i gydsynio bod y taliadau yn cael eu gwneud;~~<br>~~(b) pan fo C yn blentyn o dan 16 oed, bod yr awdurdod lleol wedi ei fodloni bod gan C ddealltwriaeth ddigonol i wneud penderfyniad deallus ynghylch cael taliadau uniongyrchol.~~<br>~~(5) Amod 3 yw bod yr awdurdod lleol wedi ei fodloni—~~<br>~~(a) bod gwneud y taliadau yn ffordd briodol o ddiwallu anghenion C, a~~<br>~~(b) bod gan C allu i reoli'r taliadau (naill ai ar ei ben ei hun neu gyda'r cymorth sydd ar gael i C).~~<br>~~(6) Amod 4 yw bod C wedi cydsynio bod y taliadau'n cael eu gwneud.~~<br>~~(7) Cyfeirir at daliad o dan yr adran hon yn y Ddeddf hon fel "taliad uniongyrchol".~~ | |

| | |
|---|---|
| **50 Taliadau uniongyrchol: yr amodau ar gyfer taliad i ddiwallu anghenion oedolyn**<br>(1) Mae’r amodau y cyfeirir atynt yn adran 49A(2)(a) mewn perthynas â gwneud taliadau uniongyrchol tuag at y gost o ddiwallu anghenion oedolyn (“A”) o dan adran 35 neu 36 fel a ganlyn.<br>(2) Amod 1 yw—<br>(a) bod y taliadau i’w gwneud i A,<br>(b) bod yr awdurdod lleol yn credu bod gan A alluedd i gydsynio bod y taliadau’n cael eu gwneud,<br>(c) bod yr awdurdod lleol wedi ei fodloni—<br>(i) bod gwneud y taliadau yn ffordd briodol o ddiwallu anghenion A, a<br>(ii) bod gan A allu i reoli’r taliadau (naill ai ar ei ben ei hun neu gyda’r cymorth sydd ar gael iddo), a<br>(d) bod A wedi cydsynio bod y taliadau’n cael eu gwneud.<br>(3) Amod 2 yw—<br>(a) bod y taliadau i’w gwneud i berson ar wahân i A (“B”),<br>(b) bod yr awdurdod lleol yn credu nad oes gan A alluedd i gydsynio bod y taliadau’n cael eu gwneud,<br>(c) bod B yn berson addas,<br>(d) bod yr awdurdod lleol wedi ei fodloni—<br>(i) bod gwneud y taliadau yn ffordd briodol o ddiwallu anghenion A,<br>(ii) bod gan B allu i reoli’r taliadau (naill ai ar ei ben ei hun neu gyda’r cymorth sydd ar gael iddo), a<br>(iii) y bydd B yn gweithredu er lles pennaf A wrth reoli’r taliadau, ac<br>(e) bod y cydsyniad angenrheidiol wedi ei gael i wneud y taliadau i B.<br>(4) Amod 3 yw—<br>(a) bod y taliadau i’w gwneud i berson a enwebir gan A (“N”),<br>(b) bod yr awdurdod lleol yn credu bod gan A alluedd i gydsynio bod y taliadau’n cael eu gwneud,<br>(c) bod yr awdurdod lleol wedi ei fodloni—<br>(i) bod gwneud y taliadau yn ffordd briodol o ddiwallu anghenion A, a<br>(ii) bod gan N allu i reoli’r taliadau (naill ai ar ei ben ei hun neu gyda’r cymorth sydd ar gael iddo),<br>(d) bod A wedi cydsynio bod y taliadau’n cael eu gwneud, ac<br>(e) bod N wedi cydsynio i gael y taliadau.<br>(5) At ddibenion is-adran (3)(c), mae B yn “berson addas”— | |

| | |
|---|---|
| (a) os yw B wedi ei awdurdodi o dan Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005 (p'un ai yn nhermau cyffredinol neu benodol) i wneud penderfyniadau ynghylch anghenion A am ofal a chymorth,<br>(b) pan na fo B wedi ei awdurdodi fel y crybwyllwyd ym mharagraff (a), os yw person sydd wedi ei awdurdodi felly yn cytuno â'r awdurdod lleol fod B yn addas i gael taliadau tuag at y gost o ddiwallu anghenion A am ofal a chymorth, neu<br>(c) pan na fo B wedi ei awdurdodi fel y crybwyllwyd ym mharagraff (a) ac nad oes unrhyw berson sydd wedi ei awdurdodi felly, os yw'r awdurdod lleol o'r farn bod B yn addas i gael taliadau o'r math hwnnw.<br>(6) At ddibenion is-adran (3)(e), ystyr "cydsyniad angenrheidiol" yw—<br>(a) cydsyniad B, a<br>(b) pan fo B yn berson addas yn rhinwedd is-adran (5)(b), cydsyniad person sydd wedi ei awdurdodi o dan Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005 (p'un ai yn nhermau cyffredinol neu benodol) i wneud penderfyniadau ynghylch anghenion A am ofal a chymorth.<br><br>**51 Taliadau uniongyrchol: yr amodau ar gyfer taliad i ddiwallu anghenion plentyn**<br><br>(1) Mae'r amodau y cyfeirir atynt yn adran 49A(2)(b) mewn perthynas â gwneud taliadau uniongyrchol tuag at y gost o ddiwallu anghenion plentyn ("C") o dan adran 37, 38 neu 39 fel a ganlyn.<br>(2) Amod 1 yw—<br>(a) bod y taliadau i'w gwneud i berson ("P") sef—<br>(i) C, neu<br>(ii) person sydd â chyfrifoldeb rhiant dros C,<br>(b) pan fo P—<br>(i) yn oedolyn neu'n blentyn 16 neu 17 oed, bod yr awdurdod lleol yn credu bod gan P alluedd i gydsynio bod y taliadau'n cael eu gwneud;<br>(ii) yn blentyn o dan 16 oed, bod yr awdurdod lleol wedi ei fodloni bod gan P ddealltwriaeth ddigonol i wneud penderfyniad deallus ynghylch cydsynio i gael y taliadau,<br>(c) bod yr awdurdod lleol wedi ei fodloni— | |

| | |
|---|---|
| (i) bod gwneud y taliadau yn ffordd briodol o ddiwallu anghenion C,<br>(ii) y caiff llesiant C ei ddiogelu a'i hyrwyddo drwy i'r taliadau gael eu gwneud, a<br>(iii) bod gan P allu i reoli'r taliadau (naill ai ar ei ben ei hun neu gyda'r cymorth sydd ar gael iddo), a<br>(d) bod P wedi cydsynio bod y taliadau'n cael eu gwneud.<br>(3) Amod 2 yw—<br>(a) bod y taliadau i'w gwneud i berson a enwebir gan P ("N"),<br>(b) pan fo P—<br>(i) yn oedolyn neu'n blentyn 16 neu 17 oed, bod yr awdurdod lleol yn credu bod gan P alluedd i gydsynio bod y taliadau'n cael eu gwneud;<br>(ii) yn blentyn o dan 16 oed, bod yr awdurdod lleol wedi ei fodloni bod gan P ddealltwriaeth ddigonol i wneud penderfyniad deallus ynghylch cydsynio bod y taliadau'n cael eu gwneud,<br>(c) bod yr awdurdod lleol wedi ei fodloni—<br>(i) bod gwneud y taliadau yn ffordd briodol o ddiwallu anghenion C,<br>(ii) y caiff llesiant C ei ddiogelu a'i hyrwyddo drwy i'r taliadau gael eu gwneud,<br>(iii) y bydd N yn gweithredu er lles pennaf C wrth reoli'r taliadau, a<br>(iv) bod gan N allu i reoli'r taliadau (naill ai ar ei ben ei hun neu gyda'r cymorth sydd ar gael iddo),<br>(d) bod P wedi cydsynio bod y taliadau'n cael eu gwneud, ac<br>(e) bod N wedi cydsynio i gael y taliadau.<br><br>**52 Taliadau uniongyrchol: yr amodau ar gyfer taliad i ddiwallu anghenion gofalwr**<br><br>(1) Mae'r amodau y cyfeirir atynt yn adran 49A(2)(c) mewn perthynas â gwneud taliadau uniongyrchol tuag at y gost o ddiwallu anghenion gofalwr ("R") o dan adran 40, 42 neu 45 fel a ganlyn.<br>(2) Amod 1 yw—<br>(a) bod y taliadau i'w gwneud i R,<br>(b) pan fo R—<br>(i) yn oedolyn neu'n blentyn 16 neu 17 oed, bod yr awdurdod lleol yn credu bod gan R alluedd i gydsynio bod y taliadau'n cael eu gwneud; | |

| | |
|---|---|
| (ii) yn blentyn o dan 16 oed, bod yr awdurdod lleol wedi ei fodloni bod gan R ddealltwriaeth ddigonol i wneud penderfyniad deallus ynghylch cydsynio i gael y taliadau,<br>(c) bod yr awdurdod lleol wedi ei fodloni—<br>(i) bod gwneud y taliadau yn ffordd briodol o ddiwallu anghenion R, a<br>(ii) bod gan R allu i reoli’r taliadau (naill ai ar ei ben ei hun neu gyda’r cymorth sydd ar gael iddo), a<br>(d) bod R wedi cydsynio bod y taliadau’n cael eu gwneud.<br>(3) Amod 2 yw—<br>(a) bod y taliadau i’w gwneud i berson a enwebir gan R (“N”),<br>(b) pan fo R—<br>(i) yn oedolyn neu’n blentyn 16 neu 17 oed, bod yr awdurdod lleol yn credu bod gan R alluedd i gydsynio bod y taliadau’n cael eu gwneud;<br>(ii) yn blentyn o dan 16 oed, bod yr awdurdod lleol wedi ei fodloni bod gan R ddealltwriaeth ddigonol i wneud penderfyniad deallus ynghylch cydsynio bod y taliadau’n cael eu gwneud,<br>(c) bod yr awdurdod lleol wedi ei fodloni—<br>(i) bod gwneud y taliadau yn ffordd briodol o ddiwallu anghenion R,<br>(ii) pan fo R yn blentyn o dan 16 oed, y bydd N yn gweithredu er lles pennaf R wrth reoli’r taliadau, a<br>(iii) bod gan N allu i reoli’r taliadau (naill ai ar ei ben ei hun neu gyda’r cymorth sydd ar gael iddo),<br>(d) bod R wedi cydsynio bod y taliadau’n cael eu gwneud, ac<br>(e) bod N wedi cydsynio i gael y taliadau. | |
| | |
| **53 Taliadau uniongyrchol: darpariaeth bellach**<br>(1) Caiff rheoliadau o dan adran ~~50, 51 neu 52~~ 49A hefyd wneud darpariaeth ynghylch y materion canlynol (ymhlith pethau eraill)—<br>(a) y dull y mae symiau’r taliadau uniongyrchol i’w dyfarnu;<br>(b) gwneud taliadau uniongyrchol fel taliadau gros neu fel arall fel taliadau net;<br>(c) dyfarnu—<br>(i) adnoddau ariannol personau penodedig, a<br>(ii) y swm (os oes un) a fyddai’n rhesymol ymarferol i’r personau hynny ei dalu ar ffurf ad-daliad (yn achos taliadau gros) neu gyfraniad (yn achos taliadau net); | Atodlen 1, paragraff 4(2) |

Noder: at ddiben helpu pobl i ddeall Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru) yn unig y mae’r ddogfen hon wedi’i llunio. Ni ddylid dibynnu arni at unrhyw ddiben arall.

(d) materion y caiff awdurdod lleol, neu y mae’n rhaid iddo, roi sylw iddynt wrth wneud penderfyniad o fath penodedig ynghylch taliadau uniongyrchol;

(e) amodau y caiff awdurdod lleol, neu y mae’n rhaid iddo, eu gosod a’r amodau na chaniateir iddo eu gosod, mewn perthynas â thaliadau uniongyrchol;

(f) camau y caiff awdurdod lleol, neu y mae’n rhaid iddo, eu cymryd cyn, neu ar ôl, gwneud dyfarniad o fath penodedig ynghylch taliadau uniongyrchol;

(g) cymorth y mae’n rhaid i awdurdod lleol ei ddarparu neu ei drefnu ar gyfer personau y mae’n gwneud taliadau uniongyrchol iddynt;

(h) achosion neu amgylchiadau lle y caiff awdurdod lleol weithredu fel asiant ar ran person y mae taliadau uniongyrchol yn cael eu gwneud iddo;

(i) amodau y disodlir odanynt ddyletswydd neu bŵer awdurdod lleol i ddiwallu anghenion person am ofal a chymorth, neu anghenion gofalwr am gymorth, drwy wneud taliadau uniongyrchol, ac i ba raddau y disodlir y ddyletswydd honno neu’r pŵer hwnnw;

(j) achosion neu amgylchiadau lle na chaiff awdurdod lleol wneud, neu lle y caniateir iddo beidio â gwneud, taliadau i berson neu mewn perthynas â pherson;

(k) achosion neu amgylchiadau lle y mae’n rhaid i berson, neu lle y caiff person, nad yw bellach heb alluedd, neu y mae’r awdurdod lleol yn credu nad yw’r oedolyn hwnnw bellach heb alluedd, i gydsynio bod taliadau uniongyrchol yn cael eu gwneud, gael ei drin, serch hynny, at ddibenion adrannau ~~50~~49A i 52 fel pe na bai ganddo’r galluedd i wneud hynny;

(l) achosion neu amgylchiadau lle y caiff, neu y mae’n rhaid i, awdurdod lleol sy’n gwneud taliadau uniongyrchol adolygu’r arfer o wneud y taliadau hynny;

(m) achosion neu amgylchiadau lle y caiff, neu y mae’n rhaid i, awdurdod lleol sy’n gwneud taliadau uniongyrchol—

(i) terfynu’r arfer o wneud y taliadau hynny;

(ii) ei gwneud yn ofynnol i’r cyfan neu ran o daliad uniongyrchol gael ei ad-dalu;

(n) adennill unrhyw swm sy’n ddyledus i awdurdod lleol mewn cysylltiad â gwneud taliadau uniongyrchol.

(2) Yn is-adran (1)(b) ac (c)—

ystyr “taliadau gros” yw taliadau uniongyrchol—

Noder: at ddiben helpu pobl i ddeall Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru) yn unig y mae'r ddogfen hon wedi'i llunio. Ni ddylid dibynnu arni at unrhyw ddiben arall.

(a) a wneir ar raddfa y mae'r awdurdod lleol yn amcangyfrif ei bod yn gyfatebol i'r gost resymol o sicrhau bod y gofal a'r cymorth (neu, yn achos gofalwyr, y cymorth), y mae'r taliadau'n cael eu gwneud mewn perthynas â hwy, yn cael eu darparu, ond

(b) y caniateir eu gwneud yn ddarostyngedig i'r amod bod person a bennir mewn rheoliadau yn talu i'r awdurdod, ar ffurf ad-daliad, swm neu symiau a ddyfernir o dan y rheoliadau;

ystyr "taliadau net" yw taliadau uniongyrchol—

(a) a wneir ar y sail y bydd person a bennir mewn rheoliadau yn talu swm neu symiau a bennir o dan y rheoliadau drwy gyfraniad tuag at y gost o sicrhau'r ddarpariaeth o ofal a chymorth (neu, yn achos gofalwyr, y cymorth) y gwneir y taliadau mewn perthynas â hwy, a

(b) a wneir yn unol â hynny ar raddfa islaw'r raddfa y mae'r awdurdod lleol yn amcangyfrif ei bod yn gyfatebol i'r gost resymol o sicrhau'r ddarpariaeth o'r gofal a'r cymorth hwnnw (neu, yn achos gofalwyr, y cymorth hwnnw) i adlewyrchu'r cyfraniad a wneir gan y person hwnnw.

(3) Caiff rheoliadau o dan adran ~~50, 51 neu 52~~ 49A wneud darpariaeth mewn perthynas â thaliadau uniongyrchol sy'n cyfateb i'r ddarpariaeth a wneir gan, neu y caniateir ei gwneud o dan, adrannau 59 i 67 neu adran 73.

(4) At ddibenion is-adran (3), mae'r ddarpariaeth yn cyfateb i'r ddarpariaeth honno a wneir gan neu o dan adrannau 59 i 67 neu adran 73 os yw, mewn perthynas ag ad-daliadau neu gyfraniadau, yn gwneud darpariaeth sydd, ym marn Gweinidogion Cymru, yn cael effaith gyfatebol i'r ddarpariaeth a wneir gan neu o dan yr adrannau hynny mewn perthynas â ffioedd ar gyfer darparu neu drefnu ar gyfer darparu gofal a chymorth (neu gymorth, yn achos gofalwyr) i ddiwallu anghenion person.

(5) Rhaid i reoliadau o dan adran ~~50, 51 neu 52~~ 49A ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol gymryd camau penodedig i alluogi personau perthnasol i wneud dewisiadau deallus ynghylch y defnydd o daliadau uniongyrchol.

| | |
|---|---|
| (6) Yn is-adran (5) ystyr "personau perthnasol" yw personau y mae rhaid cael eu cydsyniad i wneud taliadau uniongyrchol o dan reoliadau a wneir o dan adran 50, 51 neu 52.<br>(7) Rhaid i reoliadau o dan adran ~~51~~ 49A(1)(b) bennu, pan fo taliadau uniongyrchol yn cael eu gwneud i berson sy'n cael budd-dal sy'n dod o fewn categori penodedig—<br>(a) bod rhaid i'r taliadau gael eu gwneud ar raddfa y mae'r awdurdod lleol yn amcangyfrif ei bod yn gyfatebol i'r gost resymol o sicrhau bod y gofal a'r cymorth, y mae'r taliadau yn cael eu gwneud mewn cysylltiad â hwy, yn cael eu darparu, a<br>(b) na chaniateir iddynt gael eu gwneud yn ddarostyngedig i unrhyw amod sy'n ei gwneud yn ofynnol i berson dalu unrhyw swm i'r awdurdod ar ffurf ad-daliad.<br>(8) Yn is-adran (7) mae "budd-dal" yn cynnwys unrhyw lwfans, taliad, credyd neu fenthyciad.<br>(9) Caiff person y mae awdurdod lleol yn gwneud taliad uniongyrchol iddo, yn ddarostyngedig i reoliadau a wneir o dan adran ~~50, 51 neu 52~~ 49A, ddefnyddio'r taliad i brynu gofal a chymorth (neu, yn achos gofalwr, gymorth) gan unrhyw berson (gan gynnwys, ymhlith eraill, yr awdurdod a wnaeth y taliad).<br>(10) Caiff awdurdod lleol osod ffi resymol am y ddarpariaeth o ofal a chymorth (neu, yn achos gofalwr, gymorth) i ddiwallu anghenion y mae taliad uniongyrchol wedi ei wneud mewn cysylltiad â hwy.<br>~~(11) Mae'r ffyrdd y caiff awdurdod lleol gyflawni ei ddyletswydd o dan adran 117 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 yn cynnwys drwy wneud taliadau uniongyrchol; ac at y diben hwnnw mae Atodlen A1 (sy'n cynnwys addasiadau i adrannau 50 a 51 a'r adran hon) yn cael effaith.~~ | |
| | |
| **53A Taliadau uniongyrchol: ôl-ofal o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983**<br>Mae'r ffyrdd y caiff awdurdod lleol gyflawni ei ddyletswydd o dan adran 117 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 yn cynnwys drwy wneud taliadau uniongyrchol, ac at y diben hwnnw mae Atodlen A1 yn cael effaith. | 20(2)(c) |
| | |

| | |
|---|---|
| **75 Dyletswydd gyffredinol awdurdod lleol i sicrhau digon o lety i blant sy'n derbyn gofal**<br><br>(1) Rhaid i awdurdod lleol gymryd ~~camau sy'n sicrhau, i'r graddau y mae'n rhesymol ymarferol,~~ pob cam rhesymol i sicrhau ei fod yn gallu darparu i'r plant a grybwyllir yn is-adran (2) lety sydd—<br><br>(a) o fewn ardal yr awdurdod neu'n agos iddi, ~~a~~<br><br>(aa) yn achos llety gyda rhiant maeth awdurdod lleol, yn llety gyda rhiant maeth sydd wedi ei awdurdodi felly gan berson a ddisgrifir yn adran 81A(4)(a),<br><br>(ab)yn achos llety mewn cartref plant, yn llety mewn cartref plant y mae person a ddisgrifir yn adran 81A(4)(b) wedi ei gofrestru mewn cysylltiad ag ef, a<br><br>(b) yn diwallu anghenion y plant hynny.<br><br>(2) Y plant y cyfeirir atynt yn is-adran (1) yw'r rhai—<br><br>(a) y mae'r awdurdod lleol yn gofalu amdanynt,<br><br>(b) nad yw'r awdurdod yn gallu gwneud trefniadau mewn cysylltiad â hwy o dan adran 81(2), ac<br><br>(c) y mae natur eu hamgylchiadau yn golygu y byddai'n gyson â llesiant y plant i lety sydd ~~yn ardal yr awdurdod~~ o fewn ardal yr awdurdod, neu'n agos iddi, gael ei ddarparu iddynt.<br><br>(3) Wrth gyflawni ei ddyletswydd o dan is-adran (1), rhaid i'r awdurdod lleol roi sylw ~~i fantais cael—~~<br><br>~~(a) nifer o ddarparwyr llety yn ei ardal sydd, ym marn yr awdurdod, yn ddigon iddo gyflawni ei ddyletswydd, a~~<br><br>~~(b)ystod o lety yn ei ardal a allai ddiwallu anghenion gwahanol ac sydd, ym marn yr awdurdod, yn ddigon iddo gyflawni ei ddyletswydd.~~ i'r fantais bod ystod o lety—<br><br>(a) sydd o fewn ardal yr awdurdod, neu'n agos iddi, a | 10(3-6) |

| | |
|---|---|
| (b) sy'n gallu diwallu gwahanol anghenion y plant a grybwyllir yn is-adran (2).<br><br>(4)Yn yr adran hon ~~ystyr "darparwyr llety" yw—~~<br><br>~~(a)rhieni maeth awdurdod lleol, a~~<br><br>~~(b)cartrefi plant.~~ ac yn adran 75A ystyr "cartref plant" yw man yng Nghymru y mae person wedi ei gofrestru o dan Ran 1 o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 mewn cysylltiad ag ef i ddarparu gwasanaeth cartref gofal (o fewn ystyr paragraff 1 o Atodlen 1 i'r Ddeddf honno) yn gyfan gwbl neu'n bennaf i blant. | |
| | |
| **75A Dyletswydd i sicrhau llety: llunio a chyhoeddi cynllun digonolrwydd blynyddol**<br><br>(1) Cyn dechrau pob blwyddyn ariannol rhaid i awdurdod lleol lunio a chyhoeddi cynllun ("cynllun digonolrwydd blynyddol") sy'n nodi'r camau y bydd yn eu cymryd yn y flwyddyn honno yn unol â'i ddyletswydd o dan adran 75(1).<br>(2) Rhaid i gynllun digonolrwydd blynyddol—<br>(a) bod ar ffurf a ragnodir drwy reoliadau, a<br>(b) cael ei gymeradwyo gan Weinidogion Cymru cyn ei gyhoeddi (gweler adrannau 75B a 75C).<br>(3)Rhaid i gynllun digonolrwydd blynyddol gynnwys, mewn perthynas â'r flwyddyn ariannol y mae'n ymwneud â hi—<br>(a) nifer y plant y mae'r awdurdod yn amcangyfrif—<br>(i) y bydd yn gofalu amdanynt, a<br>(ii) y bydd yn annhebygol o allu gwneud trefniadau mewn cysylltiad â hwy o dan adran 81(2);<br>(b) asesiad ynghylch faint o lety a ddarperir gan rieni maeth awdurdod lleol a chartrefi plant fydd ar gael i'r awdurdod lleol at ddiben lleoli plant a ddisgrifir ym mharagraff (a) yn unol ag adran 81A(2);<br>(c) asesiad ynghylch i ba raddau y mae'r llety hwnnw yn bodloni'r gofynion ym mharagraffau (a) i (b) o adran 75(1);<br>(d) mewn perthynas â cheisiadau y mae'r awdurdod lleol yn rhagweld y bydd yn eu gwneud i gymeradwyo lleoliadau atodol yn unol ag adran 81B—<br>(i) amcangyfrif o nifer y ceisiadau a ddisgwylir,<br>(ii) y rhesymau pam y mae'r nifer hwnnw o geisiadau yn debygol o gael ei wneud, | 11 |

| | |
|---|---|
| (iii) gwybodaeth i'w rhagnodi mewn rheoliadau ynghylch darparwyr er elw sy'n darparu llety yng Nghymru ac sy'n debygol o gael eu henwi yn y ceisiadau hynny, a<br>(iv) gwybodaeth i'w rhagnodi mewn rheoliadau ynghylch darparwyr preifat sy'n darparu llety yn Lloegr ac sy'n debygol o gael eu henwi yn y ceisiadau hynny.<br>(e) gwybodaeth ynghylch sut y bwriedir i gamau sydd i'w cymryd gan yr awdurdod lleol sicrhau bod gan yr awdurdod ddigon o lety sy'n bodloni gofynion paragraffau (a) i (b) o adran 75(1);<br>(f) unrhyw wybodaeth arall a ragnodir drwy reoliadau.<br>(4) At ddibenion is-adran (3)(d)(iii) ac adran 81B, ystyr "darparwr er elw" yw—<br>(a) mewn perthynas â llety a ddarperir gan rieni maeth awdurdod lleol, darparwr gwasanaeth nad yw'n dod o fewn y disgrifiadau a roddir yn adran 81A(4)(a);<br>(b) mewn perthynas â llety a ddarperir gan gartref plant, darparwr gwasanaeth nad yw'n dod o fewn y disgrifiadau a roddir yn adran 81A(4)(b).<br>(5) At ddibenion is-adran (2)(d)(iv) ac adran 81B ystyr "darparwyr preifat" yw—<br>(a) mewn perthynas â llety a ddarperir gan rieni maeth awdurdod lleol, person yn Lloegr sydd wedi ei gofrestru mewn cysylltiad ag asiantaeth faethu o dan Ran 2 o Ddeddf Safonau Gofal 2000;<br>(b) mewn perthynas â llety a ddarperir gan gartref plant, person, ac eithrio awdurdod lleol, sydd wedi ei gofrestru mewn cysylltiad â'r cartref plant o dan Ran 2 o Ddeddf Safonau Gofal 2000.<br>(6) Yn yr adran hon ac yn adran 81A, mae i "darparwr gwasanaeth" yr ystyr a roddir gan adran 3(1)(c) o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016.<br><br>**75B Dyletswydd i sicrhau llety: y weithdrefn ar gyfer cymeradwyo cynllun digonolrwydd**<br>(1) Cyn cyhoeddi ei gynllun digonolrwydd blynyddol, rhaid i awdurdod lleol—<br>(a) llunio drafft o'r cynllun, a<br>(b) cyflwyno'r drafft i Weinidogion Cymru i'w gymeradwyo ganddynt.<br>(2) cyflwyno'r drafft i Weinidogion Cymru i'w gymeradwyo ganddynt. | |

| | |
|---|---|
| (3) Rhaid cyflwyno cynlluniau drafft dilynol i Weinidogion Cymru heb fod yn hwyrach na 2 fis cyn dechrau'r flwyddyn ariannol y mae'n ymwneud â hi.<br>(4) Pan fo Gweinidogion Cymru yn cymeradwyo drafft o gynllun digonolrwydd blynyddol, rhaid iddynt hysbysu'r awdurdod lleol am eu penderfyniad.<br><br>**75C Dyletswydd i sicrhau llety: y weithdrefn os nad yw'r cynllun drafft yn cael ei gymeradwyo gan Weinidogion Cymru**<br>(1) Mae'r adran hon yn gymwys os yw Gweinidogion Cymru yn penderfynu peidio â chymeradwyo drafft o gynllun digonolrwydd blynyddol a gyflwynir iddynt gan awdurdod lleol o dan adran 75B.<br>(2) Rhaid i Weinidogion Cymru hysbysu'r awdurdod lleol gan nodi—<br>(a) y rhesymau dros y penderfyniad;<br>(b) y cyfnod y mae rhaid i'r awdurdod lleol, cyn diwedd y cyfnod hwnnw, gyflwyno drafft pellach o'r cynllun i Weinidogion Cymru.<br>(3) Rhaid i'r awdurdod lleol gyflwyno drafft pellach o'r cynllun ynghyd ag adroddiad sy'n esbonio sut, wrth lunio'r drafft, y mae'r awdurdod lleol wedi ystyried y rhesymau a nodir yn yr hysbysiad a roddir o dan is-adran (2).<br>(4) Mae adran 75B(4) yn gymwys pan fo Gweinidogion Cymru yn cymeradwyo drafft pellach a gyflwynir iddynt o dan yr adran hon fel y mae'n gymwys pan fo Gweinidogion Cymru yn cymeradwyo drafft a gyflwynir iddynt o dan adran 75B.<br>(5) Mae is-adrannau (2) a (3) yn gymwys pan fo Gweinidogion Cymru yn penderfynu peidio â chymeradwyo drafft pellach a gyflwynir iddynt o dan yr adran hon fel y maent yn gymwys pan fo Gweinidogion Cymru yn penderfynu peidio â chymeradwyo drafft a gyflwynir iddynt o dan adran 75B. | |
| | |
| **75D Dyletswydd i sicrhau llety: adrodd**<br>Mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol y mae cynllun digonolrwydd blynyddol wedi ei wneud ar ei chyfer o dan adran 75A, rhaid i adroddiad blynyddol a lunnir gan awdurdod lleol o dan adran 114A nodi—<br>(a) sut y mae camau a gymerwyd gan yr awdurdod lleol yn y flwyddyn ariannol honno wedi cynyddu (neu sut y disgwylir iddynt gynyddu) faint o lety sydd ar gael i'r awdurdod sy'n bodloni gofynion paragraffau (a) i (b) o adran 75(1); | 12 |

| | |
|---|---|
| (b) nifer y ceisiadau a wnaeth yr awdurdod lleol yn y flwyddyn ariannol honno am gymeradwyaeth i leoli plant mewn lleoliad atodol yn unol ag adran 81B;<br>(c) y rhesymau dros unrhyw wahaniaeth rhwng nifer y ceisiadau a ddarperir o dan baragraff (b) a nifer y ceisiadau yr oedd yr awdurdod lleol wedi amcangyfrif o dan adran 75A(2)(d)(i) y byddai'n eu gwneud yn ystod y flwyddyn. | |
| | |
| **76 Llety i blant sydd heb rieni, neu blant sydd ar goll neu sydd wedi eu gadael etc**<br>(1)Rhaid i awdurdod lleol ddarparu llety i unrhyw blentyn yn ei ardal yr ymddengys i'r awdurdod bod angen llety arno oherwydd—<br>(a)nad oes unrhyw berson sydd â chyfrifoldeb rhiant dros y plentyn,<br>(b)bod y plentyn ar goll neu wedi cael ei adael, neu<br>(c)bod y person sydd wedi bod yn gofalu am y plentyn yn cael ei atal (p'un ai yn barhaol ai peidio, ac am ba reswm bynnag) rhag darparu llety neu ofal addas i'r plentyn.<br>(2)Pan fo awdurdod lleol yn darparu llety o dan is-adran (1) i blentyn sy'n preswylio fel arfer mewn ardal awdurdod lleol arall, caiff yr awdurdod lleol arall hwnnw gymryd drosodd y gwaith o ddarparu llety i'r plentyn o fewn—<br>(a)tri mis o gael ei hysbysu'n ysgrifenedig bod llety'n cael ei ddarparu i'r plentyn, neu<br>(b)unrhyw gyfnod hirach arall a bennir.<br>(2A) Pan fo awdurdod lleol yn Lloegr yn darparu llety o dan adran 20(1) o Ddeddf Plant 1989 (darparu llety i blant: cyffredinol) i blentyn sy'n preswylio fel arfer mewn ardal awdurdod lleol yng Nghymru, caiff yr awdurdod lleol hwnnw yng Nghymru gymryd drosodd y gwaith o ddarparu llety i'r plentyn o fewn—<br>(a)tri mis o gael ei hysbysu'n ysgrifenedig fod llety'n cael ei ddarparu i'r plentyn, neu<br>(b)unrhyw gyfnod hirach arall a bennir.<br>(3) Rhaid i awdurdod lleol ddarparu llety i unrhyw blentyn yn ei ardal sydd wedi cyrraedd 16 oed ac y byddai llesiant y plentyn | 21(2) |

| | |
|---|---|
| hwnnw, ym marn yr awdurdod, yn debygol o gael ei andwyo'n ddifrifol os na fyddai'r awdurdod yn darparu llety iddo.<br>(4) Ni chaniateir i awdurdod lleol ddarparu llety o dan yr adran hon i unrhyw blentyn os bydd unrhyw berson yn gwrthwynebu a hwnnw—<br>(a) yn berson sydd â chyfrifoldeb rhiant dros y plentyn, a<br>(b) yn fodlon ac yn gallu—<br>(i) darparu llety i'r plentyn, neu<br>(ii) trefnu bod llety yn cael ei ddarparu i'r plentyn.<br>(5) Caiff unrhyw berson sydd â chyfrifoldeb rhiant dros blentyn symud y plentyn ar unrhyw adeg o lety a ddarperir gan neu ar ran awdurdod lleol o dan yr adran hon.<br>(6) Nid yw is-adrannau (4) a (5) yn gymwys tra bo unrhyw berson—<br>~~(a) y mae [F2gorchymyn trefniadau plentyn] o'i blaid ef mewn grym mewn cysylltiad â'r plentyn,~~ (a) sydd wedi ei enwi mewn gorchymyn trefniadau plentyn (sydd mewn grym) fel person y mae'r plentyn i fyw gydag ef,<br>(b) sy'n warcheidwad arbennig i'r plentyn, neu<br>(c) sydd â gofal am y plentyn yn rhinwedd gorchymyn a wnaed wrth arfer awdurdodaeth gynhenid yr Uchel Lys mewn cysylltiad â phlant,<br>yn cytuno bod y plentyn yn derbyn gofal mewn llety a ddarperir gan, neu ar ran, yr awdurdod lleol.<br>(7) Pan fo mwy nag un person o'r math a grybwyllwyd yn is-adran (6), rhaid i bob un ohonynt fod yn gytûn.<br>(8) Nid yw is-adrannau (4) a (5) yn gymwys pan fo plentyn sydd wedi cyrraedd 16 oed yn cytuno bod llety'n cael ei ddarparu iddo o dan yr adran hon. | |
| | |
| **81 Y ffyrdd y mae plant sy'n derbyn gofal i'w lletya a'u cynnal**<br>(1) Mae'r adran hon yn gymwys pan fo awdurdod lleol yn gofalu am blentyn ("C").<br>(2) Rhaid i awdurdod lleol wneud trefniadau i C fyw gyda pherson sy'n dod o fewn is-adran (3), ond mae hyn yn ddarostyngedig i ~~is-adrannau (4)~~ is-adran (4) ac adran 81C(1) a (2). | 13(2) a 21(3) |

| | |
|---|---|
| (3) Mae person (“P”) yn dod o fewn yr is-adran hon—<br>(a) os P yw rhiant C,<br>(b) os nad P yw rhiant C ond y mae ganddo gyfrifoldeb rhiant dros C, neu<br>(c) mewn achos pan fo C yng ngofal yr awdurdod lleol ac yr oedd gorchymyn trefniadau plentyn mewn grym mewn cysylltiad ag C yn union cyn y gwnaed y gorchymyn gofal, os oedd P ~~yn berson y gwnaed y [F1gorchymyn trefniadau plentyn] o’i blaid~~wedi ei enwi yn y gorchymyn trefniadau plentyn fel person yr oedd y plentyn i fyw gydag ef,<br>(4) Nid yw is-adran (2) yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol wneud trefniadau o’r math a grybwyllwyd yn yr is-adran honno os byddai gwneud hynny—<br>(a) yn anghyson â llesiant C, neu<br>(b) yn gam na fyddai’n rhesymol ymarferol.<br>(5) Os nad yw awdurdod lleol yn gallu gwneud trefniadau o dan is-adran (2), rhaid iddo ~~leoli C yn y lleoliad mwyaf priodol sydd ar gael, yn ei farn ef (ond mae hyn yn ddarostyngedig i is-adran (11))~~wneud trefniadau ar gyfer C yn unol ag adran 81A(2) - ond mae hyn yn ddarostyngedig i adran 81C(1) a (2).<br>~~(6) Yn is-adran (5) ystyr “lleoliad” yw—~~<br>~~(a) lleoliad gydag unigolyn sy’n berthynas, yn ffrind neu’n berson arall sy’n gysylltiedig ag C ac sydd hefyd yn rhiant maeth awdurdod lleol,~~<br>~~(b) lleoliad gyda rhiant maeth awdurdod lleol nad yw’n dod o fewn paragraff (a),~~<br>~~(c) lleoliad mewn cartref plant, neu~~<br>~~(d) yn ddarostyngedig i adran 82, lleoliad yn unol â threfniadau eraill sy’n cydymffurfio ag unrhyw reoliadau a wneir at ddibenion yr adran hon.~~<br>~~(7) Wrth benderfynu ar y lleoliad mwyaf priodol ar gyfer C o dan is-adran (5), rhaid i awdurdod lleol, yn ddarostyngedig i ddarpariaethau eraill y Rhan hon (yn enwedig, i’w ddyletswyddau o dan adran 78)—~~<br>~~(a) rhoi blaenoriaeth uwch i leoliad sy’n dod o fewn paragraff (a) o is-adran (6) na’r hyn a roddir i leoliadau sy’n dod o fewn paragraffau eraill yr is-adran honno,~~<br>~~(b) cydymffurfio â gofynion is-adran (8), i’r graddau y mae hynny’n rhesymol ymarferol o dan holl amgylchiadau achos C, ac~~ | |

| | |
|---|---|
| ~~(c) cydymffurfio ag is-adran (9) oni bai nad yw hynny'n rhesymol ymarferol.~~<br>~~(8) Rhaid i awdurdod lleol sicrhau—~~<br>~~(a) bod y lleoliad yn caniatáu i C fyw gerllaw cartref C;~~<br>~~(b) nad yw'r lleoliad yn amharu ar addysg na hyfforddiant C;~~<br>~~(c) os oes gan C frawd neu chwaer sydd hefyd yn derbyn llety gan yr awdurdod lleol, bod y lleoliad yn galluogi i C fyw gyda'r brawd neu'r chwaer;~~<br>~~(d) os yw C yn anabl, bod y llety a ddarperir yn addas i anghenion penodol C.~~<br>~~(9) Rhaid i'r lleoliad, o ran ei natur, olygu bod llety'n cael ei ddarparu i C o fewn ardal yr awdurdod lleol.~~<br>~~(10) Mae is-adran (11) yn gymwys pan—~~<br>~~(a) bo'r awdurdod lleol wedi ei fodloni y dylai C gael ei leoli ar gyfer ei fabwysiadu ac yn bwriadu lleoli C i'w fabwysiadu gyda darpar fabwysiadydd penodol ("A"),~~<br>~~(b) bo asiantaeth fabwysiadu wedi dyfarnu bod A yn addas i fabwysiadu plentyn, ac~~<br>~~(c) na fo'r awdurdod lleol wedi ei awdurdodi i leoli C ar gyfer ei fabwysiadu.~~<br>~~(11) Rhaid i'r awdurdod lleol leoli C gydag A oni bai y byddai'n fwy priodol yn ei farn—~~<br>~~(a) i wneud trefniadau er mwyn i C fyw gyda pherson sy'n dod o fewn is-adran (3), neu~~<br>~~(b) i leoli C mewn lleoliad o ddisgrifiad a grybwyllwyd yn is-adran (6).~~<br>~~(12) At ddibenion is-adran (10)—~~<br>~~(a) mae i "asiantaeth fabwysiadu" yr ystyr a roddir i "adoption agency" gan adran 2 o Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2002;~~<br>~~(b) nid yw awdurdod lleol wedi ei awdurdodi i leoli C ar gyfer ei fabwysiadu ond os yw wedi ei awdurdodi i wneud hynny o dan—~~<br>~~(i) adran 19 o'r Ddeddf honno (lleoli plant gyda chydsyniad rhiant), neu~~<br>~~(ii) gorchymyn lleoli a wneir o dan adran 21 o'r Ddeddf honno.~~<br>~~(13) Caiff yr awdurdod lleol ddyfarnu—~~<br>~~(a) telerau unrhyw drefniadau y mae'n eu gwneud o dan is-adran (2) mewn perthynas ag C (gan gynnwys telerau o ran talu), a~~<br>~~(b) y telerau ar gyfer gosod C gyda rhiant maeth awdurdod lleol o dan is-adran (5) neu gyda darpar fabwysiadydd o dan is-adran (11) (gan gynnwys telerau o ran talu ond~~ | |

Noder: at ddiben helpu pobl i ddeall Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru) yn unig y mae’r ddogfen hon wedi’i llunio. Ni ddylid dibynnu arni at unrhyw ddiben arall.

| | |
|---|---|
| ~~yn ddarostyngedig i unrhyw orchymyn a wneir o dan adran 49 o Ddeddf Plant 2004).~~ | |
| | |
| **81A Y ffyrdd y mae plant sy’n derbyn gofal i’w lletya a’u cynnal: lleoliadau**<br><br>(1) Mae’r adran hon yn gymwys pan fo’n ofynnol i awdurdod lleol, yn rhinwedd adran 81(5), leoli plentyn y mae’n gofalu amdano (“C”) mewn llety.<br>(2) Pan fo’r adran hon yn gymwys, yn ddarostyngedig i is-adran (4) rhaid i’r awdurdod lleol leoli C yn y lleoliad mwyaf priodol sydd ar gael, yn ei farn ef.<br>(3) Yn is-adran (2) ystyr “lleoliad” yw—<br>(a) lleoliad gydag unigolyn sy’n berthynas, yn ffrind neu’n berson arall sy’n gysylltiedig ag C ac sydd hefyd yn rhiant maeth awdurdod lleol,<br>(b) lleoliad gyda rhiant maeth awdurdod lleol nad yw’n dod o fewn paragraff (a),<br>(c) lleoliad mewn cartref plant, neu<br>(d) yn ddarostyngedig i adran 82, lleoliad yn unol â threfniadau eraill sy’n cydymffurfio ag unrhyw reoliadau a wneir at ddibenion yr adran hon.<br>(4) Oni bai na fyddai’n gyson â dyletswyddau’r awdurdod lleol o dan adran 78, gan roi sylw i’r materion y cyfeirir atynt yn is-adran (5)(a), rhaid i’r awdurdod sicrhau—<br>(a) os yw’n lleoli C mewn lleoliad sy’n dod o fewn paragraff (b) o is-adran (3), fod y lleoliad gyda rhiant maeth awdurdod lleol sydd wedi ei awdurdodi felly gan—<br>(i) yr awdurdod lleol,<br>(ii) awdurdod lleol gwahanol, neu<br>(iii) darparwr gwasanaeth y cofrestrwyd ei fod yn bodloni’r gofyniad yn adran 6A(1)(b) o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016;<br>(b) os yw’n lleoli C mewn lleoliad sy’n dod o fewn paragraff (c) o is-adran (3), fod y lleoliad mewn cartref plant y mae un o’r personau a ganlyn wedi ei gofrestru mewn cysylltiad ag ef—<br>(i) yr awdurdod lleol,<br>(ii) awdurdod lleol gwahanol, neu<br>(iii) darparwr gwasanaeth y cofrestrwyd ei fod yn bodloni’r gofyniad yn adran 6A(1)(a) o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016. | 13(3) |

| | |
|---|---|
| (5) Wrth benderfynu ar y lleoliad mwyaf priodol ar gyfer C o dan is-adran (2), rhaid i'r awdurdod lleol, yn ddarostyngedig i ddarpariaethau eraill y Rhan hon, yn enwedig i'w ddyletswyddau o dan adran 78—<br>(a) rhoi sylw i'r canlynol—<br>(i) a fyddai llety'n cael ei ddarparu i C o fewn ardal yr awdurdod neu a fyddai C fel arall yn cael byw gerllaw cartref C;<br>(ii) a fyddai'n amharu ar addysg neu hyfforddiant C;<br>(iii) os oes gan C frawd neu chwaer sydd hefyd yn derbyn llety gan yr awdurdod lleol, a fyddai C yn gallu byw gyda'r brawd neu'r chwaer;<br>(iv) os yw C yn anabl, a yw'r llety a ddarperir yn addas i anghenion penodol C;<br>(v) os yw C eisoes yn cael ei letya mewn lleoliad yn unol ag is-adran (2), a fyddai symud C i leoliad arall yn amharu arno;<br>(b) rhoi blaenoriaeth uwch i leoliad sy'n dod o fewn paragraff (a) o is-adran (3) na'r hyn a roddir i leoliadau sy'n dod o fewn paragraffau eraill yr is-adran honno.<br>(6) Yn is-adran (4)(a) a (b) mae'r cyfeiriad at awdurdod lleol gwahanol yn cynnwys awdurdod lleol yn Lloegr.<br>(7) Rhaid i god a ddyroddir gan Weinidogion Cymru yn unol ag adran 145 gynnwys darpariaeth ynghylch arfer swyddogaethau awdurdod lleol o dan yr adran hon.<br><br>**81B Y ffyrdd y mae plant sy'n derbyn gofal i'w lletya a'u cynnal: cais i gymeradwyo lleoliad atodol**<br>(1) Mae'r adran hon yn gymwys—<br>(a) pan fo'n ofynnol i awdurdod lleol leoli plentyn y mae'n gofalu amdano ("C") yn y lleoliad mwyaf priodol sydd ar gael yn unol ag adran 81A(2),<br>(b) pan mai'r lleoliad mwyaf priodol sydd ar gael, ym marn yr awdurdod lleol, yw lleoliad sy'n dod o fewn paragraff (b) neu (c) o adran 81A(3), ac<br>(c) pan na all yr awdurdod lleol gydymffurfio â'r gofyniad perthnasol yn adran 81A(4) mewn cysylltiad â'r lleoliad hwnnw.<br>(2) Rhaid i'r awdurdod lleol wneud cais i Weinidogion Cymru i gymeradwyo'r lleoliad.<br>(3) Rhaid i gais o dan is-adran (2) gynnwys—<br>(a) enw'r darparwr er elw neu'r darparwr preifat (fel y bo'n gymwys)<br>(b) telerau'r lleoliad (gan gynnwys telerau o ran talu), | |

| | |
|---|---|
| (c) datganiad sy'n nodi'r rhesymau pam y mae'r awdurdod o'r farn y byddai'n gweithredu yn anghyson â'i ddyletswydd o dan adran 78 pe na bai'n lleoli C gyda'r darparwr er elw neu'r darparwr preifat,<br>(d) gwybodaeth ynghylch sut y cydymffurfiwyd ag unrhyw ofynion sy'n ymwneud ag arfer swyddogaethau'r awdurdod lleol o dan adran 81A yn y cod a ddyroddwyd gan Weinidogion Cymru yn unol ag adran 145, ac<br>(e) unrhyw wybodaeth arall a ragnodir gan Weinidogion Cymru mewn rheoliadau.<br>(4) Rhaid i Weinidogion Cymru gymeradwyo'r lleoliad os ydynt wedi eu bodloni—<br>(a) bod y cais a wneir o dan is-adran (2) yn bodloni gofynion is-adran (3),<br>(b) yn achos lleoliad sy'n dod o fewn paragraff (b) o adran 81A(3), nad oes lleoliad amgen—<br>(i) sydd yr un mor briodol, a<br>(ii) sy'n bodloni'r amod yn adran 81A(4)(a),<br>(c) yn achos lleoliad sy'n dod o fewn paragraff (c) o adran 81A(3), nad oes lleoliad amgen—<br>(i) sydd yr un mor briodol, a<br>(ii) sy'n bodloni'r amod yn adran 81A(4)(b), a<br>(d) bod y lleoliad yn rhesymol o dan yr holl amgylchiadau.<br>(5) Ond os ydynt yn penderfynu nad ydynt wedi eu bodloni yn unol ag is-adran (4), rhaid i Weinidogion Cymru—<br>(a) hysbysu'r awdurdod lleol,<br>(b) rhoi rhesymau ysgrifenedig dros y penderfyniad hwnnw i'r awdurdod, ac<br>(c) cyfarwyddo'r awdurdod lleol i ailystyried, gan roi ystyriaeth i'r rhesymau hynny ac i unrhyw wybodaeth arall a bennir yn y cyfarwyddyd wrth wneud hynny.<br>(6) Os yw'r awdurdod lleol yn parhau i fod o'r farn, ar ôl ailystyried yn unol â'r cyfarwyddyd, mai'r lleoliad yw'r lleoliad mwyaf priodol ar gyfer C, rhaid iddo wneud cais pellach i Weinidogion Cymru i gymeradwyo'r lleoliad.<br>(7) Mae is-adrannau (3) i (6) yn gymwys i gais pellach am gymeradwyaeth fel y maent yn gymwys i gais cyntaf am gymeradwyaeth, ac eithrio bod rhaid i gais pellach am gymeradwyaeth gynnwys datganiad gan yr awdurdod lleol sy'n nodi— | |

| | |
|---|---|
| (a) sut y rhoddodd yr awdurdod ystyriaeth i resymau Gweinidogion Cymru dros beidio â bod wedi eu bodloni yn unol ag is-adran (4) wrth ailystyried y lleoliad mwyaf priodol ar gyfer C, a<br>(b) y rhesymau pam y mae'r awdurdod yn parhau i fod o'r farn mai'r lleoliad yw'r lleoliad mwyaf priodol ar gyfer C.<br>(8) Cyfeirir at leoliad sydd wedi ei gymeradwyo gan Weinidogion Cymru o dan yr adran hon fel "lleoliad atodol".<br><br>**81C Y ffyrdd y mae plant sy'n derbyn gofal i'w lletya a'u cynnal: darpar fabwysiadwyr**<br>(1) Mae is-adran (2) yn gymwys pan—<br>(a) bo awdurdod lleol yn gofalu am blentyn ("C"),<br>(b) bo'r awdurdod lleol wedi ei fodloni y dylai C gael ei leoli ar gyfer ei fabwysiadu ac yn bwriadu lleoli C i'w fabwysiadu gyda darpar fabwysiadydd penodol ("A"),<br>(c) bo asiantaeth fabwysiadu wedi dyfarnu bod A yn addas i fabwysiadu plentyn, a<br>(d) na fo'r awdurdod lleol wedi ei awdurdodi i leoli C ar gyfer ei fabwysiadu.<br>(2) Rhaid i'r awdurdod lleol leoli C gydag A oni bai y byddai'n fwy priodol yn ei farn—<br>(a) i wneud trefniadau er mwyn i C fyw gyda pherson sy'n dod o fewn adran 81(3), neu<br>(b) i leoli C mewn lleoliad o ddisgrifiad a grybwyllwyd yn adran 81A(3).<br>(3) At ddibenion is-adran (1)—<br>(a) mae i "asiantaeth fabwysiadu" yr ystyr a roddir i "adoption agency" gan adran 2 o Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2002;<br>(b) nid yw awdurdod lleol wedi ei awdurdodi i leoli C ar gyfer ei fabwysiadu ond os yw wedi ei awdurdodi i wneud hynny o dan—<br>(i) adran 19 o'r Ddeddf honno (lleoli plant gyda chydsyniad rhiant), neu<br>(ii) gorchymyn lleoli a wneir o dan adran 21 o'r Ddeddf honno.<br><br>**81D Y ffyrdd y mae plant sy'n derbyn gofal i'w lletya a'u cynnal: pŵer i ddyfarnu telerau trefniadau lletya**<br>(1) Mae is-adran (2) yn gymwys pan fo awdurdod lleol yn gofalu am blentyn ("C").<br>(2) Caiff yr awdurdod lleol ddyfarnu— | |

| | |
|---|---|
| (a) telerau unrhyw drefniadau y mae’n eu gwneud o dan adran 81(2) mewn perthynas â phlentyn (gan gynnwys telerau o ran talu), a<br>(b) y telerau ar gyfer gosod C gyda rhiant maeth awdurdod lleol o dan adran 81A(2) neu gyda darpar fabwysiadydd o dan adran 81C(2) (gan gynnwys telerau o ran talu ond yn ddarostyngedig i unrhyw orchymyn a wneir o dan adran 49 o Ddeddf Plant 2004). | |
| | |
| **82 Adolygu achos plentyn cyn gwneud trefniadau amgen o ran llety**<br>(1) Pan fo awdurdod lleol yn darparu llety i blentyn (“C”) ac eithrio yn unol â threfniadau sy’n dod o fewn adran ~~81(6)(d)~~81A(3)(d), ni chaniateir iddo wneud trefniadau o’r fath ar gyfer C oni bai ei fod wedi penderfynu gwneud hynny o ganlyniad i adolygiad o achos C a gwblhawyd yn unol â rheoliadau a wneir o dan adran 102 (adolygu achosion ac ymchwiliadau i sylwadau).<br>(2) Ond nid yw is-adran (1) yn rhwystro awdurdod lleol rhag gwneud trefniadau ar gyfer C o dan adran ~~81(6)(d)~~81A(3)(d) os yw wedi ei fodloni bod angen, er mwyn diogelu llesiant C—<br>(a) gwneud trefniadau o’r fath, a<br>(b) gwneud hynny ar frys. | Atodlen 1 paragraff 1(2) |
| | |
| **89 Rheoliadau ynghylch lleoliadau o’r math a grybwyllir yn adran ~~81(6)(d)~~81A(3)(d)**<br>(1) Caiff rheoliadau o dan adran 87, er enghraifft, wneud darpariaeth ynghylch lleoliadau o’r math a grybwyllwyd yn adran ~~81(6)(d)~~81A(3)(d).<br>(2) Caiff rheoliadau o dan is-adran (1), er enghraifft, wneud darpariaeth ynghylch—<br>(a) y personau sydd i’w hysbysu am unrhyw drefniadau arfaethedig;<br>(b) y cyfleoedd y mae personau o’r fath i’w cael er mwyn cyflwyno sylwadau mewn perthynas â’r trefniadau arfaethedig;<br>(c) y personau sydd i’w hysbysu am unrhyw newidiadau arfaethedig yn y trefniadau;<br>(d) y cofnodion sydd i’w cadw gan awdurdodau lleol;<br>(e) goruchwyliaeth gan awdurdodau lleol ar unrhyw drefniadau a wneir. | Atodlen 1 paragraff 1(3) |
| | |

Noder: at ddiben helpu pobl i ddeall Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru) yn unig y mae'r ddogfen hon wedi'i llunio. Ni ddylid dibynnu arni at unrhyw ddiben arall.

| | |
|---|---|
| **92 Rheoliadau ynghylch lleoli plant gyda rhieni maeth awdurdod lleol a darpar fabwysiadwyr**<br>(1) Caiff rheoliadau o dan adran 87, er enghraifft, wneud darpariaeth—<br>(a) ynglŷn â llesiant plant a leolir gyda rhieni maeth awdurdod lleol neu ddarpar fabwysiadwyr;<br>(b) ynghylch y trefniadau sydd i'w gwneud gan awdurdodau lleol mewn cysylltiad ag iechyd ac addysg plant o'r fath;<br>(c) ynghylch y cofnodion sydd i'w cadw gan awdurdodau lleol;<br>(d) i sicrhau, lle bynnag y bo hynny'n bosibl, bod y rhiant maeth awdurdod lleol neu'r darpar fabwysiadydd y lleolir y plentyn gydag ef—<br>(i) o'r un argyhoeddiad crefyddol â'r plentyn, neu<br>(ii) yn ymgymryd â magu'r plentyn yn unol â'r argyhoeddiad crefyddol hwnnw;<br>(e) i sicrhau y bydd y plant sydd wedi eu lleoli gyda rhieni maeth awdurdod lleol neu ddarpar fabwysiadwyr, a'r mangreoedd lle y maent wedi eu lletya, yn cael eu goruchwylio a'u harolygu gan awdurdod lleol ac y bydd y plant yn cael eu symud o'r mangreoedd hynny os yw'n ymddangos bod hynny'n angenrheidiol i'w llesiant.<br>(2) Yn yr adran hon ystyr "darpar fabwysiadydd" yw person y lleolir y plentyn gydag ef o dan adran ~~81(11)~~81C(2). | Atodlen 1 paragraff 1(4) |
| | |
| **94A Rheoleiddio'r arferiad o swyddogaethau awdurdodau lleol sy'n ymwneud â phlant sy'n derbyn gofal a phlant sy'n cael eu lletya**<br>(1) Caiff rheoliadau wneud darpariaeth ynghylch yr arferiad gan awdurdodau lleol o swyddogaethau a roddir iddynt gan—<br>(a) adrannau 81 i 81D (y ffyrdd y mae plant sy'n derbyn gofal i'w lletya a'u cynnal), neu<br>(b) rheoliadau a wneir o dan adran 87 (rheoliadau ynghylch plant sy'n derbyn gofal) sy'n gwneud darpariaeth megis yr hyn a grybwyllir yn adran 92(1), 93 neu 94.<br>(2) Caiff rheoliadau o dan is-adran (1), er enghraifft, gynnwys darpariaeth— | Atodlen 1 paragraff 1(5) |

| | |
|---|---|
| (a) o ran y personau sy'n addas i weithio i awdurdodau lleol mewn cysylltiad ag arfer y swyddogaethau hynny,<br><br>(b) o ran addasrwydd y mangreoedd sydd i'w defnyddio gan awdurdodau lleol wrth arfer y swyddogaethau hynny,<br><br>(c) o ran rheoli'r arferiad o'r swyddogaethau hynny a'r rheolaeth ar arfer y swyddogaethau hynny,<br><br>(d) o ran nifer y personau, neu bersonau o fath penodol, sy'n gweithio i awdurdodau lleol mewn cysylltiad ag arfer y swyddogaethau hynny,<br><br>(e) o ran rheoli a hyfforddi'r personau hynny, ac<br><br>(f) o ran y ffioedd neu'r treuliau y caniateir iddynt gael eu talu i bersonau sy'n helpu awdurdodau lleol i wneud penderfyniadau wrth arfer y swyddogaethau hynny.<br><br>(3) Caiff rheoliadau o dan is-adran (2)(a), yn benodol, wneud darpariaeth sy'n pennu nad yw person yn addas i weithio i awdurdod lleol mewn unrhyw swydd a bennir os nad yw'r person wedi ei gofrestru yn y gofrestr a gedwir o dan adran 80 o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 (cofrestru gweithwyr gofal cymdeithasol), neu mewn rhan benodol o'r gofrestr honno. | |
| | |
| **124 Trefniadau i helpu plant i fyw y tu allan i Loegr a Chymru**<br><br>(1)Ni chaiff awdurdod lleol drefnu, neu helpu i drefnu, i blentyn yn ei ofal fyw y tu allan i Loegr a Chymru heb gymeradwyaeth y llys.<br><br>(2)Caiff awdurdod lleol, gyda chymeradwyaeth pob person sydd â chyfrifoldeb rhiant dros y plentyn drefnu, neu helpu i drefnu, i unrhyw blentyn arall sy'n derbyn gofal ganddo i fyw y tu allan i Loegr a Chymru.<br><br>(3)Ni chaiff y llys roi ei gymeradwyaeth i hyn o dan is-adran (1) oni chaiff ei fodloni—<br><br>(a)y byddai byw y tu allan i Loegr a Chymru er lles pennaf y plentyn,<br><br>(b)y gwnaed, neu y gwneir, trefniadau addas i dderbyn y plentyn a threfniadau addas er ei lesiant yn y wlad lle bydd yn byw,<br><br>(c)bod y plentyn wedi cydsynio i fyw yn y wlad honno, a | 24 |

| | |
|---|---|
| (d)bod pob person sydd â chyfrifoldeb rhiant dros y plentyn wedi cydsynio bod y plentyn yn byw yn y wlad honno.<br>(4)Pan fo'r llys wedi ei fodloni nad oes gan y plentyn ddealltwriaeth ddigonol i gydsynio neu wrthod cydsynio, caiff anwybyddu is-adran (3)(c) a chymeradwyo os bydd y plentyn yn mynd i fyw yn y wlad sydd o dan sylw gyda rhiant, gwarcheidwad, gwarcheidwad arbennig, neu berson addas arall.<br>(5)Pan fo person y mae angen ei gydsyniad gan is-adran (3)(d) yn methu â chydsynio, caiff y llys hepgor cydsyniad y person hwnnw os yw wedi ei fodloni—<br>(a)nad oes modd dod o hyd i'r person neu nad oes gan y person alluedd i gydsynio, neu<br>(b)bod llesiant y plentyn yn ei gwneud yn ofynnol i'r cydsyniad gael ei hepgor.<br>(6)Nid yw adran 85 o Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2002 (sy'n gosod cyfyngiadau ar fynd â phlant allan o'r Deyrnas Unedig) yn gymwys yn achos plentyn a fydd yn byw y tu allan i Loegr a Chymru gyda chymeradwyaeth y llys a roddir o dan yr adran hon.<br>(7)Pan fydd llys yn penderfynu rhoi ei gydsyniad o dan yr adran hon, caiff orchymyn nad yw ei benderfyniad i gael effaith yn ystod y cyfnod apelio.<br>(8)Yn is-adran (7) ystyr "y cyfnod apelio" yw—<br>(a)lle y gwneir apêl yn erbyn y penderfyniad, y cyfnod rhwng gwneud y penderfyniad a dyfarnu ar yr apêl, a<br>(b)fel arall, y cyfnod pryd y caniateir apelio yn erbyn y penderfyniad.<br>(9)Nid yw'r adran hon yn gymwys<br>(a) i awdurdod lleol sy'n lleoli plentyn mewn llety diogel yn yr Alban o dan adran 25 o Ddeddf Plant 1989, na<br>(b) i awdurdod lleol sy'n lleoli plentyn i'w fabwysiadu gyda darpar fabwysiadwyr. | |
| | |
| **174 Sylwadau sy'n ymwneud â phlant penodol etc**<br>(1) Rhaid i awdurdod lleol sefydlu gweithdrefn ar gyfer ystyried y canlynol— | Atodlen 1 paragraff 1(6) |

(a) sylwadau (gan gynnwys cwynion) a wneir i'r awdurdod gan berson y mae is-adran (3) yn gymwys iddo ynghylch y modd y mae'n cyflawni swyddogaeth gymhwysol mewn perthynas â phlentyn sy'n derbyn gofal ganddo, neu blentyn nad yw'n derbyn gofal ganddo ond y gall fod arno anghenion am ofal a chymorth;

(b) sylwadau (gan gynnwys cwynion) a wneir i'r awdurdod gan berson y mae is-adran (4) yn gymwys iddo ynghylch y modd y mae'n cyflawni swyddogaethau o dan adran 14F o Ddeddf Plant 1989 (gwasanaethau cynnal gwarcheidiaeth arbennig) sydd wedi eu pennu mewn rheoliadau;

(c) sylwadau (gan gynnwys cwynion) a wneir i'r awdurdod gan berson y mae is-adran (5) yn gymwys iddo ynghylch y modd mae'n cyflawni swyddogaethau o dan Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2002 sydd wedi eu pennu mewn rheoliadau.

(2) Mae'r canlynol yn swyddogaethau cymhwysol at ddibenion is-adran (1)(a)—

(a) swyddogaethau sy'n arferadwy mewn perthynas â phlentyn o dan Rannau 3 i 6 (ac eithrio swyddogaethau sy'n arferadwy mewn perthynas â phlentyn fel gofalwr);

(b) swyddogaethau sy'n arferadwy mewn perthynas â phlentyn o dan Ran 7;

(c) swyddogaethau o dan Ran 4 neu Ran 5 o Ddeddf Plant 1989 sydd wedi eu pennu mewn rheoliadau.

(3) Mae'r is-adran hon (sy'n ymwneud â sylwadau ynghylch cyflawni swyddogaethau cymhwysol) yn gymwys i'r canlynol—

(a) y plentyn sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol, neu'r plentyn nad yw'n derbyn gofal ganddo ond y gall fod arno anghenion am ofal a chymorth;

(b) rhiant y plentyn;

(c) person nad yw'n rhiant i'r plentyn ond sydd â chyfrifoldeb rhiant dros y plentyn;

(d) rhiant maeth awdurdod lleol y lleolir y plentyn gydag ef o dan adran 81(5);

(e) darpar fabwysiadydd y lleolir y plentyn gydag ef o dan adran ~~81(11)~~81C(2);

(f) unrhyw berson arall y mae'r awdurdod lleol yn ystyried bod ganddo ddiddordeb digonol yn lles y plentyn i gyfiawnhau bod ei sylwadau yn cael eu hystyried gan yr awdurdod.

(4) Mae'r is-adran hon (sy'n ymwneud â sylwadau am gyflawni swyddogaethau penodedig o dan adran 14F o Ddeddf Plant 1989) yn gymwys i'r canlynol—

| | |
|---|---|
| (a) plentyn y mae gorchymyn gwarcheidiaeth arbennig mewn grym mewn perthynas ag ef;<br>(b) gwarcheidwad arbennig neu riant y plentyn;<br>(c) person sydd wedi gwneud cais am asesiad o dan adran 14F(3) neu (4) o Ddeddf Plant 1989;<br>(d) unrhyw berson arall y mae'r awdurdod lleol yn ystyried bod ganddo ddiddordeb digonol yn lles y plentyn i gyfiawnhau bod ei sylwadau yn cael eu hystyried gan yr awdurdod.<br>(5) Mae'r is-adran hon (sy'n ymwneud â sylwadau am y modd y mae swyddogaethau penodedig yn cael eu cyflawni o dan Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2002) yn gymwys i'r canlynol—<br>(a) person a grybwyllwyd yn adran 3(1) o Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2002 (y personau hynny y gwneir darpariaeth ar gyfer eu hanghenion gan y Gwasanaeth Mabwysiadu) ac unrhyw berson arall y mae trefniadau ar gyfer darparu gwasanaethau mabwysiadu (o fewn ystyr "adoption services" yn y Ddeddf honno) yn ei rychwantu;<br>(b) unrhyw berson arall y mae'r awdurdod yn barnu bod ganddo ddiddordeb digonol mewn plentyn sydd wedi ei fabwysiadu neu a allai gael ei fabwysiadu i gyfiawnhau bod ei sylwadau yn cael eu hystyried gan yr awdurdod.<br>(6) Rhaid i awdurdod lleol sicrhau (yn ddarostyngedig i is-adran (8)) fod y weithdrefn y mae'n ei sefydlu at ddibenion yr adran hon yn sicrhau bod o leiaf un person nad yw'n aelod o'r awdurdod lleol nac yn swyddog iddo yn cymryd rhan yn y camau a ganlyn—<br>(a) ystyried unrhyw sylw y mae'r adran hon yn gymwys iddo, a<br>(b) unrhyw drafodaethau sy'n cael eu cynnal gan yr awdurdod am y camau sydd i'w cymryd, o ganlyniad i'r ystyried hwnnw, mewn perthynas â'r person y mae'r sylw yn ymwneud ag ef.<br>(7) Caiff rheoliadau wneud darpariaeth bellach am y weithdrefn y mae'n rhaid ei sefydlu at ddibenion yr adran hon.<br>(8) Caiff y rheoliadau ddarparu (ymhlith pethau eraill) nad yw is-adran (6) yn gymwys mewn perthynas ag ystyried neu drafod sy'n digwydd er mwyn datrys yn anffurfiol y materion a godwyd mewn sylw.<br>(9) Rhaid i awdurdod lleol roi cyhoeddusrwydd i'r weithdrefn y mae'n ei sefydlu at ddibenion yr adran hon. | |
| | |
| **186 Plant mewn llety cadw ieuenctid, carchar neu lety mechnïaeth etc**<br>(1) Yn is-adran (2), ystyr "plentyn perthnasol" yw plentyn sydd, ar ôl cael ei gollfarnu o drosedd— | Atodlen 1 paragraff 1(7) |

| | |
|---|---|
| (a) yn cael ei gadw'n gaeth mewn llety cadw ieuenctid neu garchar,<br>(b) yn preswylio mewn mangre a gymeradwywyd, neu<br>(c) yn preswylio mewn unrhyw fangre arall am fod gofyniad i wneud hynny wedi ei osod ar y plentyn fel amod o roi mechnïaeth mewn achos troseddol.<br>(2) Pan fo plentyn perthnasol, yn union cyn iddo gael ei gollfarnu o drosedd—<br>(a) ag anghenion am ofal a chymorth sy'n cael eu diwallu gan awdurdod lleol o dan Ran 4,<br>(b) yn derbyn gofal gan awdurdod lleol yn rhinwedd cael llety wedi ei ddarparu iddo gan yr awdurdod, neu<br>(c) yn preswylio fel arfer yn ardal awdurdod lleol, ond na fo'n dod o fewn paragraff (a) neu (b),mae'r plentyn i'w drin at ddibenion y Ddeddf hon fel pe bai o fewn ardal yr awdurdod lleol hwnnw tra bo'n blentyn perthnasol (ac nid yw i'w drin fel pe bai'n preswylio fel arfer yn ardal unrhyw awdurdod lleol arall neu fel pe bai o fewn yr ardal honno).<br>(3) Nid yw'r darpariaethau a nodir yn is-adran (4) yn gymwys mewn perthynas â phlentyn sydd, ar ôl cael ei gollfarnu o drosedd—<br>(a) yn cael ei gadw'n gaeth mewn llety cadw ieuenctid neu garchar, neu<br>(b) yn preswylio mewn mangre a gymeradwywyd.<br>(4) Y darpariaethau yw—<br>(a) adran 79 (darparu llety i blant mewn gofal);<br>(b) adran 80 (cynnal plant sy'n derbyn gofal);<br>(c) adrannau 81 i 81D (y ffyrdd y mae plant sy'n derbyn gofal i'w lletya a'u cynnal);<br>(d) adran 82 (adolygu achos plentyn cyn gwneud trefniadau amgen o ran llety);<br>(e) adran 109 (cymorth ar gyfer pobl ifanc categori 2);<br>(f) adran 114 (cymorth ar gyfer pobl ifanc categori 5 a phobl ifanc a fu gynt yn bobl ifanc categori 5);<br>(g) adran 115 (cymorth ar gyfer pobl ifanc categori 6 a phobl ifanc a fu gynt yn bobl ifanc categori 6);<br>(h) paragraff 1 o Atodlen 1 (atebolrwydd am gyfrannu tuag at gynhaliaeth plant sy'n derbyn gofal).<br>(5) Nid yw adran 119 (defnyddio llety i gyfyngu ar ryddid) yn gymwys—<br>(a) mewn perthynas â phlentyn sydd, ar ôl cael ei gollfarnu o drosedd— | |

| | |
|---|---|
| (i) yn cael ei gadw’n gaeth mewn llety cadw ieuenctid neu garchar, neu<br>(ii) yn preswylio mewn mangre a gymeradwywyd, na<br>(b) mewn perthynas â phlentyn sydd wedi ei remandio i lety cadw ieuenctid o dan adran 91 o Ddeddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyr 2012.<br>(6) Nid yw’r darpariaethau a nodir yn is-adran (7) yn gymwys mewn perthynas â phlentyn—<br>(a) sydd, ar ôl cael ei gollfarnu o drosedd—<br>(i) yn cael ei gadw’n gaeth mewn llety cadw ieuenctid neu garchar, neu<br>(ii) yn preswylio mewn mangre a gymeradwywyd, a<br>(b) yr oedd llety’n cael ei ddarparu iddo gan awdurdod lleol yn Lloegr o dan adran 20 o Ddeddf Plant 1989 yn union cyn iddo gael ei gollfarnu.<br>(7) Y darpariaethau yw—<br>(a) adran 21 (dyletswydd i asesu anghenion plentyn am ofal a chymorth);<br>(b) adran 37 (dyletswydd i ddiwallu anghenion gofal a chymorth plentyn);<br>(c) adran 38 (pŵer i ddiwallu anghenion gofal a chymorth plentyn).<br>(8) Gweler hefyd adran 187 am addasiadau pellach i ddarpariaethau’r Ddeddf hon mewn perthynas â’r canlynol—<br>(a) plant a gedwir yn gaeth mewn llety cadw ieuenctid neu garchar, a<br>(b) plant sy’n preswylio mewn mangre a gymeradwywyd. | |
| | |
| **187 Personau mewn carchar, llety cadw ieuenctid neu lety mechnïaeth etc**<br>(1) Nid yw person yn ofalwr at ddibenion y Ddeddf hon os yw’r person—<br>(a) yn cael ei gadw’n gaeth mewn carchar neu lety cadw ieuenctid, neu<br>(b) ar ôl cael ei gollfarnu o drosedd, yn preswylio mewn mangre a gymeradwywyd.<br>(2) Ni chaiff rheoliadau o dan adran 49A nac Atodlen A1~~50 neu 51~~ (taliadau uniongyrchol) ei gwneud yn ofynnol na chaniatáu i daliadau gael eu gwneud tuag at y gost o ddiwallu anghenion person am ofal a chymorth os yw’r person hwnnw, ar ôl cael ei gollfarnu o drosedd—<br>(a) yn cael ei gadw’n gaeth mewn carchar neu lety cadw ieuenctid, neu | Atodlen 1 paragraff 4(5) |

| | |
|---|---|
| (b) yn preswylio mewn mangre a gymeradwywyd.<br>(3) Ni chaniateir i'r pŵer o dan adran 57 (achosion pan fo person yn mynegi ei fod yn ffafrio llety penodol) gael ei arfer yn achos person sydd—<br>(a) yn cael ei gadw'n gaeth mewn carchar neu lety cadw ieuenctid, neu<br>(b) yn preswylio mewn mangre a gymeradwywyd,<br>ac eithrio at y diben o wneud darpariaeth mewn cysylltiad â llety i'r person wrth iddo gael ei ryddhau o'r carchar neu o'r llety cadw ieuenctid (gan gynnwys ei ryddhau dros dro), neu wrth i'r person beidio â phreswylio mwyach yn y fangre a gymeradwywyd.<br>(4) Nid yw adran 58 (gwarchod eiddo personau y gofelir amdanynt i ffwrdd o'u cartrefi) yn gymwys yn achos person—<br>(a) sy'n cael ei gadw'n gaeth mewn carchar neu lety cadw ieuenctid, neu<br>(b) sy'n preswylio mewn mangre a gymeradwywyd. | |
| | |
| **189 Methiant darparwr: dyletswydd dros dro ar awdurdod lleol** (1) Mae'r adran hon yn gymwys pan fo darparwr gwasanaeth yn methu â darparu gwasanaeth rheoleiddiedig oherwydd methiant busnes.<br>(2) Rhaid i awdurdod lleol am ba hyd bynnag ag y mae'n ei ystyried yn angenrheidiol (ac i'r graddau nad yw eisoes yn ofynnol iddo wneud hynny) ddiwallu—<br>(a) yr anghenion hynny sydd gan oedolyn am ofal a chymorth, a<br>(b) yr anghenion hynny sydd gan ofalwr perthnasol am gymorth,<br>a oedd, yn union cyn i'r darparwr gwasanaeth fethu â darparu'r gwasanaeth rheoleiddiedig, yn cael eu diwallu yn ardal yr awdurdod gan y darparwr gwasanaeth (ond mae hyn yn ddarostyngedig i adran 190).<br>(3) Mae'n ofynnol i awdurdod lleol ddiwallu anghenion o dan is-adran (2) ni waeth—<br>(a) p'un a yw'r person perthnasol yn preswylio fel arfer yn ei ardal ai peidio;<br>(b) p'un a yw'r awdurdod wedi cynnal asesiad o anghenion neu asesiad ariannol ai peidio;<br>(c) p'un a fyddai dyletswydd fel arall ar yr awdurdod i ddiwallu'r anghenion hynny o dan y Ddeddf hon ai peidio.<br>(4) Caniateir i awdurdod lleol osod ffi am ddiwallu anghenion o dan is-adran (2) (ac eithrio i'r graddau y mae'r anghenion | Atodlen 1 paragraff 4(6) |

hynny yn cael eu diwallu drwy ddarparu gwybodaeth neu gyngor).

(5) Caniateir i ffi o dan is-adran (4)—

(a) cael ei gosod dim ond mewn cysylltiad ag anghenion nad oeddent, yn union cyn i'r darparwr gwasanaeth fethu â darparu'r gwasanaeth rheoleiddiedig], yn cael eu diwallu—

(i) o dan drefniadau a wnaed gan awdurdod lleol wrth gyflawni ei ddyletswydd o dan adran 35 neu 40, neu wrth arfer ei bŵer o dan adran 36 neu 45, neu

(ii) drwy ddarparu llety neu wasanaethau y talwyd ei gost neu eu cost yn llwyr neu'n rhannol drwy daliadau uniongyrchol a wnaed yn rhinwedd adran 49A(1)(a) neu (c)~~50 neu 52~~;

(b) cynnwys dim ond y gost y mae'r awdurdod lleol yn ei thynnu wrth ddiwallu'r anghenion hynny.

(6) Mae adrannau 60 i 67, 70, 71 a 73 yn gymwys i osod ffi o dan is-adran (4) yn yr un modd ag y maent yn gymwys i osod ffi o dan adran 59, ac yn unol â hynny mae pŵer awdurdod lleol i osod ffi o dan yr is-adran honno yn ddarostyngedig—

(a) i'r ddarpariaeth a wneir mewn rheoliadau o dan adran 61 neu 62 (os oes darpariaeth), a

(b) i ddyletswyddau'r awdurdod o dan adrannau 63, 66 ac 67 (os ydynt yn gymwys).

(7) Os nad yw'r person perthnasol yn preswylio fel arfer yn ardal yr awdurdod lleol y mae'n ofynnol iddo ddiwallu anghenion o dan is-adran (2)—

(a) rhaid i'r awdurdod, wrth ddiwallu anghenion o dan yr is-adran honno a oedd yn cael eu diwallu o dan drefniadau a wnaed gan awdurdod lleol arall wrth gyflawni ei ddyletswydd o dan adran 35 neu 40 neu wrth arfer ei bŵer o dan adran 36 neu 45, gydweithredu â'r awdurdod hwnnw;

(b) rhaid i'r awdurdod, wrth ddiwallu anghenion o dan yr is-adran honno a oedd yn cael eu diwallu o dan drefniadau y talwyd eu cost yn llwyr neu'n rhannol gan awdurdod lleol arall drwy daliadau uniongyrchol a wnaed yn rhinwedd adran 49A(1)(a) neu (c)~~50 neu 52~~, gydweithredu â'r awdurdod hwnnw;

(c) caniateir i'r awdurdod adennill oddi wrth yr awdurdod lleol arall a grybwyllir ym mharagraff (a) neu (b) y gost y mae'n ei thynnu wrth ddiwallu'r anghenion hynny sydd gan yr oedolyn neu'r anghenion hynny sydd gan y gofalwr perthnasol y cyfeirir atynt yn y paragraff o dan sylw.

(8) Mae unrhyw anghydfod rhwng awdurdodau lleol ynghylch cymhwyso'r adran hon i'w ddyfarnu o dan adran 195 fel pe

| | |
|---|---|
| bai'n anghydfod o'r math a grybwyllir yn is-adran (1) o'r adran honno.<br>(9) Yn yr adran hon a (lle y bo'n berthnasol) yn adran 190 a 191—<br>"mae i "darparwr gwasanaeth" ("service provider") yr un ystyr ag yn Rhan 1 o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016;"<br>ystyr "gofalwr perthnasol" ("relevant carer") yw gofalwr—<br>(a) sy'n oedolyn, a<br>(b) sy'n darparu neu sy'n bwriadu darparu gofal i oedolyn arall;<br>"mae i "gwasanaeth rheoleiddiedig" ("regulated service") yr un ystyr ag yn Rhan 1 o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016;"<br>ystyr "person perthnasol" ("relevant person") yw—<br>(a) mewn achos sy'n ymwneud ag anghenion oedolyn am ofal a chymorth, yr oedolyn hwnnw;<br>(b) mewn achos sy'n ymwneud ag anghenion gofalwr perthnasol am gymorth, yr oedolyn y mae angen gofal arno. | |
| | |
| **197 Dehongli cyffredinol a mynegai o ymadroddion a ddiffiniwyd**<br><br>(1) Yn y Ddeddf hon—<br>mae i "anabl" ("disabled") yr ystyr a roddir gan adran 3;<br>mae "ardal Bwrdd Diogelu" ("Safeguarding Board area") wedi ei ddiffinio at ddibenion Rhan 7 gan adran 142;<br>mae i "asesiad ariannol" ("financial assessment") yr ystyr a roddir gan adran 63;<br>ystyr "asesiad o anghenion" ("needs assessment") yw asesiad o dan Ran 3;<br>ystyr "Awdurdod Iechyd Arbennig" ("Special Health Authority") yw Awdurdod Iechyd Arbennig a sefydlwyd o dan adran 22 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 neu adran 28 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 2006;<br>ystyr "awdurdod lleol" ("local authority") yw cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol yng Nghymru;<br>ystyr "awdurdod lleol yn Lloegr" ("local authority in England") yw—<br>(a) cyngor sir yn Lloegr,<br>(b) cyngor dosbarth ar gyfer ardal yn Lloegr lle nad oes cyngor sir,<br>(c) cyngor bwrdeistref yn Llundain, neu | 10(7) |

| | |
|---|---|
| (d) Cyngor Cyffredin Dinas Llundain;<br>ystyr "awdurdod lleol yn yr Alban" ("local authority in Scotland") yw cyngor a gyfansoddwyd o dan adran 2 o Ddeddf Llywodraeth Leol etc. (Yr Alban) 1994;<br>mae "Bwrdd Cenedlaethol" ("National Board") wedi ei ddiffinio at ddibenion Rhan 7 gan adran 142;<br>ystyr "Bwrdd Comisiynu'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol" ("National Health Service Commissioning Board") yw'r corff a sefydlwyd o dan adran 1H o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 2006;<br>mae "Bwrdd Diogelu" ("Safeguarding Board") wedi ei ddiffinio at ddibenion Rhan 7 gan adran 142;<br>"ystyr "bwrdd gofal integredig" ("integrated care board") yw corff a sefydlir o dan adran 14Z25 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 2006;<br>ystyr "Bwrdd Iechyd Lleol" ("Local Health Board") yw Bwrdd Iechyd Lleol a sefydlwyd o dan adran 11 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006;<br>ystyr "camdriniaeth" a "cam-drin" ("abuse") yw camdriniaeth gorfforol, rhywiol, seicolegol, emosiynol neu ariannol (ac mae'n cynnwys camdriniaeth sy'n digwydd mewn unrhyw leoliad, p'un ai mewn annedd breifat, mewn sefydliad neu mewn unrhyw fan arall), ac mae "camdriniaeth ariannol" ("financial abuse") yn cynnwys y canlynol—<br>(a) bod arian neu eiddo arall person yn cael ei ddwyn;<br>(b) bod person yn cael ei dwyllo;<br>(c) bod person yn cael ei roi o dan bwysau mewn perthynas ag arian neu eiddo arall;<br>(d) bod arian neu eiddo arall person yn cael ei gamddefnyddio;<br>mae "carchar" ("prison") wedi ei ddiffinio—<br>(a) at ddibenion adrannau 185 i 187 gan adran 188(1),<br>(b) at ddibenion adran 134, gan adran 134(11), ac<br>(c) at ddibenion adran 162, gan adran 162(11);<br>mae i "cartref cymunedol" ("community home") a "cartref cymunedol a reolir" ("controlled community home") yr ystyron a roddir i "community home" a "controlled community home" gan adran 53 o Ddeddf Plant 1989;<br>o ran "cartref gofal" ("care home")—<br>(a) mae iddo yr un ystyr â "care home" yn Neddf Safonau Gofal 2000 mewn cysylltiad â chartref gofal yn Lloegr; a<br>(b) ei ystyr yw man yng Nghymru lle y mae gwasanaeth cartref gofal o fewn ystyr Rhan 1 o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu | |

| | |
|---|---|
| Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 yn cael ei ddarparu'n gyfan gwbl neu'n bennaf i oedolion;<br>ystyr "cartref plant" ("children's home") yw—<br>(a) cartref plant yn Lloegr o fewn ystyr Deddf Safonau Gofal 2000 y mae person wedi ei gofrestru o dan Ran 2 o'r Ddeddf honno mewn cysylltiad ag ef; a<br>(b) <u>ac eithrio yn adrannau 75 a 75A</u>man yng Nghymru y mae person wedi ei gofrestru o dan Ran 1 o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 mewn cysylltiad ag ef i ddarparu—<br>(i) gwasanaeth cartref gofal (o fewn ystyr paragraff 1 o Atodlen 1 i'r Ddeddf honno) yn gyfan gwbl neu'n bennaf i blant, neu<br>(ii) gwasanaeth llety diogel (o fewn ystyr paragraff 2 o Atodlen 1 i'r Ddeddf honno);]]<br>ystyr "cartref plant preifat" ("private children's home") yw cartref plant nad yw'n—<br>(a) cartref cymunedol, na<br>(b) cartref gwirfoddol (o fewn yr ystyr a roddir i "voluntary home" gan adran 60 o Ddeddf Plant 1989);<br>mae i "cyfrifoldeb rhiant" ("parental responsibility") yr ystyr a roddir i "parental responsibility" gan adran 3 o Ddeddf Plant 1989;<br>ystyr "deddfiad" ("enactment") yw—<br>(a) ac eithrio yn adrannau 140(2)(b), 172(7) a 198(2)(b), darpariaeth sydd wedi ei chynnwys mewn unrhyw un neu rai o'r canlynol (pa bryd bynnag y byddant wedi eu deddfu neu eu gwneud)—<br>(i) Deddf Seneddol;<br>(ii) Deddf neu Fesur gan ~~Gynulliad Cenedlaethol Cymru~~<u>Senedd Cymru</u>;<br>(iii) Deddf Senedd yr Alban;<br>(iv) deddfwriaeth Gogledd Iwerddon (o fewn ystyr "Northern Ireland legislation" yn Neddf Dehongli 1978);<br>(v) is-ddeddfwriaeth a wneir o dan ddeddfiad sy'n dod o fewn is-baragraffau (i) i (iv);<br>(b) yn adrannau 140(2)(b), 172(7) a 198(2)(b), darpariaeth sydd wedi ei chynnwys mewn unrhyw un neu rai o'r canlynol (pa bryd bynnag y byddant wedi eu deddfu neu eu gwneud)—<br>(i) Deddf Seneddol;<br>(ii) Deddf neu Fesur gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru;<br>(iii) is-ddeddfwriaeth a wneir o dan ddeddfiad sy'n dod o fewn is-baragraff (i) neu (ii); | |

| | |
|---|---|
| ystyr "esgeulustod" ("neglect") yw methiant i ddiwallu anghenion corfforol, emosiynol, cymdeithasol neu seicolegol sylfaenol person, sy'n debygol o arwain at amharu ar lesiant y person (er enghraifft, amharu ar iechyd y person neu, yn achos plentyn, amharu ar ddatblygiad y plentyn);<br>mae "ffi safonol" ("standard charge") wedi ei ddiffinio at ddibenion Rhan 5 gan adran 63(3);<br>mae i "gofal a chymorth" ("care and support") yr ystyr a roddir gan adran 4;<br>mae i "gofalwr" ("carer") yr ystyr a roddir gan adran 3;<br>"ystyr "GIG Lloegr" ("NHS England") yw'r corff a sefydlir o dan adran 1H o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 2006;<br>mae i "gwarcheidwad arbennig" ("special guardian") a "gorchymyn gwarcheidiaeth arbennig" ("special guardianship order") yr ystyr a roddir i "special guardian" a "special guardianship order" gan adran 14A o Ddeddf Plant 1989;<br>mae "gwasanaethau" ("services") yn cynnwys cyfleusterau;<br>mae i "llesiant" ("well-being") yr ystyr a roddir gan adran 2;<br>mae "llety cadw ieuenctid" ("youth detention accommodation") wedi ei ddiffinio at ddibenion adrannau 185 i 187 gan adran 188(1);<br>mae "magwraeth" ("upbringing"), mewn perthynas â phlentyn, yn cynnwys gofal dros y plentyn ond nid cynhaliaeth y plentyn;<br>mae "mangre a gymeradwywyd" ("approved premises") wedi ei ddiffinio at ddibenion adrannau 185 i 187 gan adran 188(1);<br>mae "mechnïaeth mewn achos troseddol" ("bail in criminal proceedings") wedi ei ddiffinio at ddibenion adrannau 185 i 187 gan adran 188(1);<br>ystyr "meini prawf cymhwystra" ("eligibility criteria") yw meini prawf a osodir o dan adran 32;<br>ystyr "niwed" ("harm"), mewn perthynas â phlentyn, yw camdriniaeth neu nam ar—<br>(a) iechyd corfforol neu iechyd meddwl, neu<br>(b) datblygiad corfforol, deallusol, emosiynol, cymdeithasol neu ymddygiadol,<br>a phan fo'r cwestiwn a yw'r niwed yn sylweddol yn troi ar iechyd neu ddatblygiad y plentyn, mae iechyd neu ddatblygiad y plentyn i'w gymharu â'r hyn y gellid ei ddisgwyl yn rhesymol gan blentyn tebyg;<br>mae i "oedolyn" ("adult") yr ystyr a roddir gan adran 3;<br>mae "partner Bwrdd Diogelu" ("Safeguarding Board partner") wedi ei ddiffinio at ddibenion Rhan 7 gan adran 142; | |

| | |
|---|---|
| ystyr "penodedig", "a bennir" ac "a bennwyd" ("specified") ac ymadroddion cytras, oni bai bod y cyd-destun yn mynnu fel arall, yw penodedig mewn rheoliadau;<br>ystyr "perthynas" ("relative"), mewn perthynas â phlentyn, yw llys-riant, tad-cu/taid, mam-gu/nain, brawd, chwaer, ewythr neu fodryb (gan gynnwys unrhyw berson sydd yn y berthynas honno yn rhinwedd priodas neu bartneriaeth sifil neu berthynas deuluol barhaus);<br>mae i "plentyn" ("child"), ac eithrio yn adran 83(2C), yr ystyr a roddir gan adran 3;<br>ystyr "rheoliadau" ("regulations"), ac eithrio mewn perthynas ag adran 101, yw rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru;<br>ystyr "rhiant maeth awdurdod lleol" ("local authority foster parent") yw person sydd wedi ei awdurdodi felly yn unol â rheoliadau a wneir yn rhinwedd—<br>(a) adrannau 87 a 93;<br>(b) paragraff 12F o Atodlen 2 i Ddeddf Plant 1989 (rheoliadau sy'n darparu ar gyfer cymeradwyo rhieni maeth awdurdod lleol);<br>ystyr "sefydliad gwirfoddol" ("voluntary organisation") yw corff (ac eithrio corff cyhoeddus neu awdurdod lleol) nad yw ei weithgareddau'n cael eu cynnal er mwyn gwneud elw;<br>mae i "swyddog achosion teuluol Cymru" ("Welsh family proceedings officer") yr ystyr a roddir i "Welsh family proceedings officer" gan adran 35 o Ddeddf Plant 2004;<br>ystyr "swyddogaeth" ("function") yw pŵer neu ddyletswydd;<br>mae i "swyddogaethau addysg" ("education functions") yr ystyr a roddir i "education functions" gan adran 579(1) o Ddeddf Addysg 1996;<br>mae i "terfyn ariannol" ("financial limit") yr ystyr a roddir gan adran 66(5);<br>mae "teulu" ("family"), mewn perthynas â phlentyn, yn cynnwys (ond nid yw'n gyfyngedig i) unrhyw berson sydd â chyfrifoldeb rhiant dros y plentyn ac unrhyw berson arall y mae'r plentyn wedi bod yn byw gydag ef;<br>ystyr "tîm troseddwyr ifanc" ("youth offending team") yw tîm a sefydlir o dan adran 39 o Ddeddf Trosedd ac Anrhefn 1998;<br>ystyr "Ymddiriedolaeth GIG" ("NHS Trust") yw Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol a sefydlwyd o dan adran 18 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006;<br>ystyr "ymddiriedolaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol" ("Health and Social Care trust") yw ymddiriedolaeth Iechyd a Gofal | |

| | |
|---|---|
| Cymdeithasol a sefydlwyd o dan Orchymyn Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Personol (Gogledd Iwerddon) 1991 (O.S. 1991/194 (N.I. 1));<br>mae i "Ymddiriedolaeth Sefydledig GIG" ("NHS Foundation Trust") yr ystyr a roddir i "NHS Foundation Trust" gan adran 30 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 2006;<br>mae i "ysbyty" ("hospital") yr ystyr a roddir i "hospital" gan adran 206 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006;<br>mae i "ysbyty annibynnol" ("independent hospital")—<br>(a) o ran Cymru, yr ystyr a roddir i "independent hospital" gan adran 2 o Ddeddf Safonau Gofal 2000, a<br>(b) o ran Lloegr, yr ystyr a roddir i "hospital" fel y'i diffinnir gan adran 275 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 2006 nad yw'n ysbyty gwasanaeth iechyd fel y diffinnir "health service hospital" gan yr adran honno.<br><br>(2) Yn y Ddeddf hon—<br>(a) mae i gyfeiriad at blentyn sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol yr ystyr a roddir gan adran 74;<br>(b) mae i gyfeiriad at blentyn sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol yn Lloegr yr ystyr a roddir i gyfeiriad yn adran 22 o Ddeddf Plant 1989 at blentyn sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol yn Lloegr;<br>(c) mae i gyfeiriad at blentyn sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol yn yr Alban yr un ystyr â chyfeiriad ym Mhennod 1 o Ran 2 o Ddeddf Plant (Yr Alban) 1995 at blentyn sy'n derbyn gofal ("looked after") gan awdurdod lleol (gweler adran 17(6) o'r Ddeddf honno);<br>(d) mae i gyfeiriad at blentyn sy'n derbyn gofal gan ymddiriedolaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol yr un ystyr â chyfeiriad yng Ngorchymyn Plant (Gogledd Iwerddon) 1995 (O.S. 1995/755 (N.I. 2)) at blentyn sy'n derbyn gofal gan awdurdod (gweler erthygl 25 o'r Gorchymyn hwnnw).<br>(3) Mae cyfeiriad yn y Ddeddf hon at blentyn sydd yng ngofal awdurdod lleol yn gyfeiriad at blentyn sydd o dan ei ofal yn rhinwedd gorchymyn gofal (o fewn yr ystyr a roddir i "care order" gan Neddf Plant 1989).<br>(4) Mae cyfeiriad yn y Ddeddf hon at lety a ddarperir gan neu ar ran awdurdod lleol yn gyfeiriad at lety a ddarperir felly wrth arfer swyddogaethau'r awdurdod hwnnw neu unrhyw awdurdod lleol arall sy'n swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol. | |

| | |
|---|---|
| (5) Mae cyfeiriad yn y Ddeddf hon at y ffaith bod gan, neu nad oes gan, berson alluedd mewn perthynas â mater i'w ddehongli fel cyfeiriad at y ffaith bod gan, neu nad oes gan, berson alluedd o fewn ystyr "capacity" yn Neddf Galluedd Meddyliol 2005 mewn perthynas â'r mater hwnnw.<br>(6) Mae cyfeiriad yn y Ddeddf hon at gael awdurdodiad o dan Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005 yn gyfeiriad at gael awdurdodiad fel—<br>(a) rhoddai atwrneiaeth arhosol a grëwyd o dan y Ddeddf honno, neu<br>(b) dirprwy a benodwyd gan y Llys Gwarchod o dan adran 16(2)(b) o'r Ddeddf honno.<br>(7) Caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau ddarparu bod Cyngor Ynysoedd Scilly i'w drin fel awdurdod lleol yn Lloegr at ddibenion y Ddeddf hon, neu at ddibenion darpariaethau penodol y Ddeddf hon, gydag unrhyw addasiadau a bennir. | |
| | |
| ~~**ATODLEN A1 Taliadau Uniongyrchol: Ôl-ofal o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983**~~<br><br>~~*Cyffredinol*~~<br>~~1. Mae adran 50 (taliadau uniongyrchol i ddiwallu anghenion oedolyn), 51 (taliadau uniongyrchol i ddiwallu anghenion plentyn) a 53 (taliadau uniongyrchol: darpariaeth bellach) yn gymwys mewn perthynas ag adran 117 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 ond fel pe bai'r addasiadau a ganlyn wedi eu gwneud i'r adrannau hynny.~~<br><br>~~*Addasiadau i adran 50*~~<br>~~2.Yn lle is-adran (1) o adran 50 rhodder—~~<br>~~"(1)Caiff rheoliadau ei gwneud yn ofynnol neu ganiatáu i awdurdod lleol wneud taliadau i oedolyn y mae adran 177 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 (ôl-ofal) yn gymwys iddo sy'n gyfatebol i'r gost o ddarparu neu drefnu i ddarparu gwasanaethau ôl-ofal i'r oedolyn o dan yr adran honno."~~<br><br>~~3.Yn is-adran (3) o'r adran honno—~~<br>~~(a)ym mharagraff (a), yn lle "y mae arno anghenion am ofal a chymorth ("A")" rhodder "mewn cysylltiad â darparu i'r oedolyn ("A") wasanaethau ôl-ofal o dan adran 117 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983", a~~ | 20(2)(d) |

| | |
|---|---|
| ~~(b)ym mharagraff (c)(i), yn lle "o ddiwallu anghenion A" rhodder "o gyflawni ei ddyletswydd tuag at A o dan adran 117 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983".~~<br><br>~~4.Yn is-adran (4) o'r adran honno—~~<br>~~(a)ym mharagraff (a), yn lle "y mae arno anghenion am ofal a chymorth ("A")" rhodder "y mae adran 117 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 yn gymwys iddo ("A")", a~~<br>~~(b)ym mharagraff (d)(i) yn lle "o ddiwallu anghenion A" rhodder "o gyflawni ei ddyletswydd tuag at A o dan adran 117 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983".~~<br><br>~~5.Yn is-adran (5) o'r adran honno—~~<br>~~(a)ym mharagraff (a), yn lle "anghenion A am ofal a chymorth" rhodder "darparu i A wasanaethau ôl-ofal o dan adran 117 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983", a~~<br>~~(b)ym mharagraff (b), yn lle "tuag at y gost o ddiwallu anghenion A am ofal a chymorth" rhodder "sy'n gyfatebol i'r gost o ddarparu neu drefnu i ddarparu i A wasanaethau ôl-ofal o dan adran 117 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983".~~<br><br>~~6.Yn is-adran (6)(b) o'r adran honno, yn lle "anghenion A am ofal a chymorth" rhodder "darparu i A wasanaethau ôl-ofal o dan adran 117 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983".~~<br><br>~~*Addasiadau i adran 51*~~<br>~~7.Yn lle is-adran (1) o adran 51 rhodder—~~<br>~~"(1) Caiff rheoliadau ei gwneud yn ofynnol neu ganiatáu i awdurdod lleol wneud taliadau i berson mewn cysylltiad â phlentyn y mae adran 117 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 (ôl-ofal) yn gymwys iddo sy'n gyfatebol i'r gost o ddarparu neu drefnu i ddarparu gwasanaethau ôl-ofal i'r plentyn o dan yr adran honno."~~<br><br>~~8.Yn is-adran (3)(a) a (b) o'r adran honno, yn lle "y mae arno anghenion am ofal a chymorth" (ym mhob lle y mae'n digwydd) rhodder "y mae adran 117 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 yn gymwys iddo".~~<br><br>~~9.Yn is-adran (5)(a) o'r adran honno, yn lle "ddiwallu anghenion y plentyn" rhodder "gyflawni ei ddyletswydd tuag at y plentyn o dan adran 177 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983".~~ | |

| | |
|---|---|
| ~~*Addasiadau i adran 53*~~<br>~~10.Yn is-adran (1) o adran 53—~~<br>~~(a)yn y geiriau agoriadol, yn lle "50, 51 neu 52" rhodder "50 neu 51",~~<br>~~(b)hepgorer paragraffau (a), (b) ac (c),~~<br>~~(c)ym mharagraff (i), yn lle "y disodlir odanynt ddyletswydd neu bŵer awdurdod lleol i ddiwallu anghenion person am ofal a chymorth, neu anghenion gofalwr am gymorth, drwy wneud taliadau uniongyrchol, ac i ba raddau y disodlir y ddyletswydd honno neu'r pŵer hwnnw" rhodder "y cyflawnir odanynt ddyletswydd awdurdod lleol o dan adran 117 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 (ôl-ofal), drwy wneud taliadau uniongyrchol, ac i ba raddau y cyflawnir y ddyletswydd honno", a~~<br>~~(d)ym mharagraff (k), yn lle "50 i 52" rhodder "50 neu 51".~~<br><br>~~11.Hepgorer is-adrannau (2) i (8) o'r adran honno.~~<br><br>~~12.Ar ôl is-adran (8) o'r adran honno mewnosoder—~~<br>~~"(8A)Rhaid i reoliadau a wneir o dan adrannau 50 a 51 bennu bod rhaid i daliadau uniongyrchol i dalu'r gost o ddarparu neu drefnu i ddarparu gwasanaethau ôl-ofal o dan adran 177 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 (ôl-ofal) gael eu gwneud ar raddfa y mae'r awdurdod lleol yn amcangyfrif ei bod yn gyfatebol i'r gost resymol o sicrhau'r ddarpariaeth o'r gwasanaethau hynny i ddiwallu'r anghenion hynny."~~<br><br>~~13.Yn is-adran (9) o'r adran honno—~~<br>~~(a)yn lle ", 51 neu 52" rhodder "neu 51", a~~<br>~~(b)yn lle "gofal a chymorth (neu, yn achos gofalwr, gymorth)" rhodder "gwasanaethau ôl-ofal".~~<br>~~14.Yn lle is-adran (10) o'r adran honno, yn lle "ofal a chymorth (neu, yn achos gofalwr, gymorth) i ddiwallu anghenion" rhodder "wasanaethau ôl-ofal".]~~<br><br>**ATODLEN A1**<br>**(fel y'i cyflwynir gan adran 53A)**<br>**TALIADAU UNIONGYRCHOL: ÔL-OFAL O DAN DDEDDF IECHYD MEDDWL 1983**<br><br>*Cyffredinol*<br>1 Caiff rheoliadau ei gwneud yn ofynnol neu ganiatáu i awdurdod lleol wneud taliadau mewn cysylltiad â pherson y mae adran 117 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 (ôl-ofal) yn | |

| | |
|---|---|
| gymwys iddo sy’n gyfatebol i’r gost o ddarparu neu drefnu i ddarparu gwasanaethau ôl-ofal ar gyfer y person o dan yr adran honno.<br>2 Ond ni chaiff rheoliadau o dan baragraff 1 ei gwneud yn ofynnol bod taliadau o’r fath yn cael eu gwneud na chaniatáu hynny oni bai—<br>(a) pan fo’r taliad yn cael ei wneud mewn cysylltiad ag oedolyn, y bodlonir amod 1, 2 neu 3 ym mharagraff 3;<br>(b) pan fo’r taliad yn cael ei wneud mewn cysylltiad â phlentyn, y bodlonir amod 1 neu 2 ym mharagraff 4.<br>3 Cyfeirir at daliad o dan yr Atodlen hon yn y Ddeddf hon fel “taliad uniongyrchol”.<br><br>*Taliadau uniongyrchol: gwasanaethau ôl-ofal ar gyfer oedolyn*<br>4 (1) Mae’r amodau y cyfeirir atynt ym mharagraff 2(a) mewn perthynas â gwneud taliadau uniongyrchol mewn cysylltiad ag oedolyn (“A”) y mae adran 117 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 (ôl-ofal) yn gymwys iddo sy’n gyfatebol i’r gost o ddarparu neu drefnu i ddarparu gwasanaethau ôl-ofal ar gyfer A o dan yr adran honno fel a ganlyn.<br>(2) Amod 1 yw—<br>(a) bod y taliadau i’w gwneud i A,<br>(b) bod yr awdurdod lleol yn credu bod gan A alluedd i gydsynio bod y taliadau’n cael eu gwneud,<br>(c) bod yr awdurdod lleol wedi ei fodloni—<br>(i) bod gwneud y taliadau yn ffordd briodol o gyflawni ei ddyletswydd tuag at A o dan adran 117 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983, a<br>(ii) bod gan A allu i reoli’r taliadau (naill ai ar ei ben ei hun neu gyda’r cymorth sydd ar gael iddo), a<br>(d) bod A wedi cydsynio bod y taliadau’n cael eu gwneud.<br>(3) Amod 2 yw—<br>(a) bod y taliadau i’w gwneud i berson ar wahân i A (“B”),<br>(b) bod yr awdurdod lleol yn credu nad oes gan A alluedd i gydsynio bod y taliadau’n cael eu gwneud,<br>(c) bod B yn berson addas,<br>(d) bod yr awdurdod lleol wedi ei fodloni—<br>(i) bod gwneud y taliadau yn ffordd briodol o gyflawni ei ddyletswydd tuag at A o dan adran 117 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983,<br>(ii) bod gan B allu i reoli’r taliadau (naill ai ar ei ben ei hun neu gyda’r cymorth sydd ar gael iddo), a | |

| | |
|---|---|
| (iii) y bydd B yn gweithredu er lles pennaf A wrth reoli'r taliadau, ac<br>(e) bod y cydsyniad angenrheidiol wedi ei gael i wneud y taliadau i B.<br>(4) Amod 3 yw—<br>(a) bod y taliadau i'w gwneud i berson a enwebir gan A ("N"),<br>(b) bod yr awdurdod lleol yn credu bod gan A alluedd i gydsynio bod y taliadau'n cael eu gwneud,<br>(c) bod yr awdurdod lleol wedi ei fodloni—<br>(i) bod gwneud y taliadau yn ffordd briodol o gyflawni ei ddyletswydd tuag at A o dan adran 117 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983, a<br>(ii) bod gan N allu i reoli'r taliadau (naill ai ar ei ben ei hun neu gyda'r cymorth sydd ar gael iddo),<br>(d) bod A wedi cydsynio bod y taliadau'n cael eu gwneud, ac<br>(e) bod N wedi cydsynio i gael y taliadau.<br>(5) At ddibenion is-baragraff (3)(c), mae B yn "berson addas"—<br>(a) os yw B wedi ei awdurdodi o dan Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005 (p'un ai yn nhermau cyffredinol neu benodol) i wneud penderfyniadau ynghylch darparu i A wasanaethau ôl-ofal o dan adran 117 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983,<br>(b) pan na fo B wedi ei awdurdodi fel y crybwyllwyd ym mharagraff (a), os yw person sydd wedi ei awdurdodi felly yn cytuno â'r awdurdod lleol fod B yn addas i gael y taliadau tuag at y gost o ddiwallu anghenion A am ofal a chymorth, neu<br>(c) pan na fo B wedi ei awdurdodi fel y crybwyllwyd ym mharagraff (a) ac nad oes unrhyw berson sydd wedi ei awdurdodi felly, os yw'r awdurdod lleol o'r farn bod B yn addas i gael taliadau o'r math hwnnw.<br>(6) At ddibenion is-adran (3)(e), ystyr "cydsyniad angenrheidiol" yw—<br>(a) cydsyniad B, a<br>(b) pan fo B yn berson addas yn rhinwedd is-baragraff (5)(b), cydsyniad person sydd wedi ei awdurdodi o dan Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005 (p'un ai yn nhermau cyffredinol neu benodol) i wneud penderfyniadau ynghylch darparu i A wasanaethau ôl-ofal o dan adran 117 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983.<br><br>*Taliadau uniongyrchol: gwasanaethau ôl-ofal ar gyfer plentyn*<br>5 (1) Mae'r amodau y cyfeirir atynt ym mharagraff 2(b) mewn perthynas â gwneud taliadau uniongyrchol mewn cysylltiad â | |

| | |
|---|---|
| phlentyn ("C") y mae adran 117 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 (ôl-ofal) yn gymwys iddo sy'n gyfatebol i'r gost o ddarparu neu drefnu i ddarparu gwasanaethau ôl-ofal ar gyfer C o dan yr adran honno fel a ganlyn.<br>(2) Amod 1 yw—<br>(a) bod y taliadau i'w gwneud i berson ("P") sef—<br>(i) C, neu<br>(ii) person sydd â chyfrifoldeb rhiant dros C,<br>(b) pan fo P—<br>(i) yn oedolyn neu'n blentyn 16 neu 17 oed, bod yr awdurdod lleol yn credu bod gan P alluedd i gydsynio bod y taliadau'n cael eu gwneud;<br>(ii) yn blentyn o dan 16 oed, bod yr awdurdod lleol wedi ei fodloni bod gan P ddealltwriaeth ddigonol i wneud penderfyniad deallus ynghylch cydsynio i gael y taliadau,<br>(c) bod yr awdurdod lleol wedi ei fodloni—<br>(i) bod gwneud y taliadau yn ffordd briodol o gyflawni ei ddyletswydd tuag at C o dan adran 117 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983,<br>(ii) y caiff llesiant C ei ddiogelu a'i hyrwyddo drwy i'r taliadau gael eu gwneud, a<br>(iii) bod gan P allu i reoli'r taliadau (naill ai ar ei ben ei hun neu gyda'r cymorth sydd ar gael iddo), a<br>(d) bod P wedi cydsynio bod y taliadau'n cael eu gwneud.<br>(3) Amod 2 yw—<br>(a) bod y taliadau i'w gwneud i berson a enwebir gan P ("N"),<br>(b) pan fo P—<br>(i) yn oedolyn neu'n blentyn 16 neu 17 oed, bod yr awdurdod lleol yn credu bod gan P alluedd i gydsynio bod taliadau'n cael eu gwneud;<br>(ii) yn blentyn o dan 16 oed, bod yr awdurdod lleol wedi ei fodloni bod gan P ddealltwriaeth ddigonol i wneud penderfyniad deallus ynghylch cydsynio bod taliadau'n cael eu gwneud,<br>(c) bod yr awdurdod lleol wedi ei fodloni—<br>(i) bod gwneud y taliadau yn ffordd briodol o gyflawni ei ddyletswydd tuag at C o dan adran 117 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983,<br>(ii) y caiff llesiant C ei ddiogelu a'i hyrwyddo drwy i'r taliadau gael eu gwneud,<br>(iii) y bydd N yn gweithredu er lles pennaf C wrth reoli'r taliadau, a | |

| | |
|---|---|
| (iv) bod gan N allu i reoli'r taliadau (naill ai ar ei ben ei hun neu gyda'r cymorth sydd ar gael iddo),<br>(d) bod P wedi cydsynio bod y taliadau'n cael eu gwneud, ac<br>(e) bod N wedi cydsynio i gael y taliadau.<br><br>*Darpariaeth bellach ar gyfer taliadau uniongyrchol: ôl-ofal*<br>6 Caiff rheoliadau o dan yr Atodlen hon hefyd wneud darpariaeth, yn benodol, ynghylch y canlynol—<br>(a) materion y caiff awdurdod lleol, neu y mae'n rhaid iddo, roi sylw iddynt wrth wneud penderfyniad o fath penodedig ynghylch taliadau uniongyrchol;<br>(b) amodau y caiff awdurdod lleol, neu y mae'n rhaid iddo, eu gosod a'r amodau na chaniateir iddo eu gosod, mewn perthynas â thaliadau uniongyrchol;<br>(c) camau y caiff awdurdod lleol, neu y mae'n rhaid iddo, eu cymryd cyn, neu ar ôl, gwneud penderfyniad o fath penodedig ynghylch taliadau uniongyrchol;<br>(d) cymorth y mae'n rhaid i awdurdod lleol ei ddarparu neu ei drefnu ar gyfer personau y mae'n gwneud taliadau uniongyrchol iddynt;<br>(e) achosion neu amgylchiadau lle y caiff awdurdod lleol weithredu fel asiant ar ran person y mae taliadau uniongyrchol yn cael eu gwneud iddo;<br>(f) amodau y cyflawnir odanynt ddyletswydd awdurdod lleol o dan adran 117 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 (ôl-ofal) drwy wneud taliadau uniongyrchol, ac i ba raddau y cyflawnir y ddyletswydd honno drwy wneud taliadau uniongyrchol;<br>(g) achosion neu amgylchiadau lle na chaiff awdurdod lleol wneud, neu lle y caniateir iddo beidio â gwneud, taliadau i berson neu mewn perthynas â pherson;<br>(h) achosion neu amgylchiadau lle y mae'n rhaid i berson, neu lle y caiff person, nad yw bellach heb alluedd, neu y mae'r awdurdod lleol yn credu nad yw'r person hwnnw bellach heb alluedd, i gydsynio bod taliadau uniongyrchol yn cael eu gwneud, gael ei drin, serch hynny, at ddibenion paragraffau 4 a 5 fel pe na bai ganddo'r galluedd i wneud hynny;<br>(i) achosion neu amgylchiadau lle y caiff, neu y mae'n rhaid i, awdurdod lleol sy'n gwneud taliadau uniongyrchol adolygu'r arfer o wneud y taliadau hynny;<br>(j) achosion neu amgylchiadau lle y caiff, neu y mae'n rhaid i, awdurdod lleol sy'n gwneud taliadau uniongyrchol—<br>(i) terfynu'r arfer o wneud y taliadau hynny; | |

| | |
|---|---|
| (ii) ei gwneud yn ofynnol i'r cyfan neu ran o daliad uniongyrchol gael ei ad-dalu;<br>(k) adennill unrhyw swm sy'n ddyledus i awdurdod lleol mewn cysylltiad â gwneud taliadau uniongyrchol.<br>7 Rhaid i reoliadau o dan yr Atodlen hon bennu bod rhaid i daliadau uniongyrchol i dalu'r gost o ddarparu neu drefnu i ddarparu gwasanaethau ôl-ofal o dan adran 117 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 (ôl-ofal) gael eu gwneud ar raddfa y mae'r awdurdod lleol yn amcangyfrif ei bod yn gyfatebol i'r gost resymol o sicrhau bod y gwasanaethau hynny yn cael eu darparu i ddiwallu'r anghenion hynny.<br>8 Caiff person y mae awdurdod lleol yn gwneud taliad uniongyrchol iddo, yn ddarostyngedig i reoliadau a wneir o dan yr Atodlen hon, ddefnyddio'r taliad i brynu gwasanaethau ôl-ofal gan unrhyw berson (gan gynnwys, ymhlith eraill, yr awdurdod a wnaeth y taliad). | |

# Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016

Y DIWYGIADAU SYDD I GAEL EU GWNEUD GAN
FIL IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL (CYMRU)

Bwriedir i'r ddogfen hon ddangos sut y byddai'r darpariaethau yn Neddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016, fel yr oeddent yn gymwys o ran Cymru ar 9 Mawrth 2024, yn edrych fel y'u diwygid gan Fil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru) (pe bai'n cael ei ddeddfu fel y'i cyflwynwyd ar 20 Mai 2024).

Ceir llinell drwy'r testun sydd i gael ei ddileu gan Fil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru), e.e. ~~mae testun sydd wedi ei hepgor yn edrych fel hyn~~. Mae testun sydd i gael ei ychwanegu gan Fil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru) wedi ei danlinellu, e.e. <u>mae testun sydd wedi ei ychwanegu yn edrych fel hyn</u>. Rhoddir y cyfeiriadau at y darpariaethau diwygio perthnasol yn y Bil yn y golofn dde ar bob tudalen.

Cynhwysir nifer o ddarpariaethau cysylltiedig yn y Ddeddf, er nad ydynt yn cael eu diwygio, er mwyn helpu i ddeall y diwygiadau arfaethedig.

**Rhybudd**

Mae'r testun hwn wedi ei lunio gan swyddogion Grŵp Iechyd, Gofal Cymdeithasol a'r Blynyddoedd Cynnar Llywodraeth Cymru. Er bod ymdrech wedi ei gwneud i sicrhau ei fod yn gywir, ni ddylid dibynnu arno fel testun diffiniol o'r Ddeddf na'r Bil.

At ddiben helpu pobl i ddeall effaith Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru) yn unig y mae'r testun wedi ei lunio. Ni fwriedir iddo gael ei ddefnyddio mewn unrhyw gyd-destun arall.

Noder: at ddiben helpu pobl i ddeall Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru) yn unig y mae'r ddogfen hon wedi'i llunio. Ni ddylid dibynnu arni at unrhyw ddiben arall.

| **Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016** | *Yr adran ddiwygio ym Mil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru)* |
|---|---|
| | |
| **1 Trosolwg o Ran 1**<br>Yn y Rhan hon—<br>(a) mae'r Bennod hon yn diffinio rhai termau allweddol gan gynnwys yr hyn a olygir wrth "gwasanaeth rheoleiddiedig" yn y Ddeddf hon ac yn nodi amcanion cyffredinol Gweinidogion Cymru mewn perthynas â rheoleiddio gwasanaethau o'r fath;<br>(b) mae Pennod 2 yn nodi swyddogaethau Gweinidogion Cymru mewn perthynas â chofrestru personau sy'n darparu gwasanaethau rheoleiddiedig, gan gynnwys darpariaeth ynghylch amrywio a chanslo cofrestriadau a darpariaeth ynghylch hysbysiadau ac apelau;<br>(ba) mae Pennod 2 hefyd yn gwneud darpariaeth sy'n cyfyngu ar yr endidau a gaiff ddarparu gwasanaethau cartrefi gofal mewn man y mae'r gwasanaeth yn cael ei ddarparu'n gyfan gwbl neu'n bennaf i blant ynddo, gwasanaethau llety diogel a gwasanaethau maethu;<br>(c) mae Pennod 3 yn nodi pwerau Gweinidogion Cymru i'w gwneud yn ofynnol i wybodaeth gael ei darparu a'u pwerau i gynnal arolygiadau ac ymchwiliadau;<br>(d) mae Pennod 4 yn rhoi rhai swyddogaethau cyffredinol i Weinidogion Cymru mewn perthynas â gwasanaethau rheoleiddiedig;<br>(e) mae Pennod 5 yn gwneud darpariaeth ar gyfer troseddau a chosbau;<br>(f) mae Pennod 6 yn diwygio Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (dccc 4) i wneud darpariaeth mewn cysylltiad â swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol (gweler Atodlen 2 i Ddeddf 2014 am hyn) gan gynnwys, yn benodol, ddarpariaeth ynghylch—<br>(i) adroddiadau blynyddol gan awdurdodau lleol;<br>(ii) pwerau i Weinidogion Cymru i gynnal adolygiadau o'r ffordd y caiff y swyddogaethau hynny eu harfer; | 2(a) |

| | |
|---|---|
| (iii) pwerau sy'n caniatáu ar gyfer arolygu mangreoedd a ddefnyddir mewn cysylltiad ag arfer y swyddogaethau hynny;<br>(iv) pwerau i Weinidogion Cymru i'w gwneud yn ofynnol i wybodaeth sy'n ymwneud ag arfer y swyddogaethau hynny gael ei darparu;<br>(v) troseddau mewn cysylltiad ag arolygiadau neu ofynion i ddarparu gwybodaeth;<br>(vi) pwerau i Weinidogion Cymru i reoleiddio'r arferiad o'r swyddogaethau awdurdod lleol hynny sy'n ymwneud â phlant sy'n derbyn gofal a phlant sy'n cael eu lletya;<br>(g) mae Pennod 7 yn gwneud darpariaeth i Weinidogion Cymru fonitro cynaliadwyedd ariannol darparwyr gwasanaethau penodol a llunio a chyhoeddi adroddiadau ynghylch sefydlogrwydd y farchnad ar gyfer gwasanaethau gofal cymdeithasol yng Nghymru. | |
| | |
| **<u>2A Ystyr "gwasanaeth plant o dan gyfyngiad"</u>**<br><u>(1) At ddibenion y Rhan hon, mae'r gwasanaethau rheoleiddiedig a ganlyn yn "gwasanaeth plant o dan gyfyngiad"—</u><br><u>(a) gwasanaeth cartref gofal a ddarperir mewn man y mae'r gwasanaeth yn cael ei ddarparu'n gyfan gwbl neu'n bennaf i blant ynddo;</u><br><u>(b) gwasanaeth maethu;</u><br><u>(c) gwasanaeth llety diogel.</u><br><u>(3) Mae Atodlen 1 yn gwneud darpariaeth bellach ynghylch ystyr gwasanaeth plant o dan gyfyngiad.</u> | 2(b) |
| | |
| **6 Cais i gofrestru fel darparwr gwasanaeth**<br>(1) Rhaid i berson sy'n dymuno darparu gwasanaeth rheoleiddiedig wneud cais ar gyfer cofrestru i Weinidogion Cymru—<br>(a) sy'n pennu'r gwasanaeth rheoleiddiedig y mae'r person yn dymuno ei ddarparu,<br>(b) sy'n pennu'r mannau y mae'r gwasanaeth i'w ddarparu ynddynt, ohonynt neu mewn perthynas â hwy,<br>(c) sy'n dynodi unigolyn fel yr unigolyn cyfrifol mewn cysylltiad â phob un o'r mannau hynny ac sy'n datgan enw a chyfeiriad | 3(2) |

| | |
|---|---|
| pob unigolyn o'r fath (mae adran 21 yn nodi pwy y caniateir iddo gael ei ddynodi'n unigolyn cyfrifol), a<br><br>(d) sy'n cynnwys unrhyw wybodaeth arall a ragnodir<br><br>(1A) Yn achos person, ac eithrio awdurdod lleol, sy'n dymuno darparu gwasanaeth plant o dan gyfyngiad, rhaid i'r cais hefyd gynnwys unrhyw wybodaeth a ragnodir er mwyn bodloni Gweinidogion Cymru bod y person yn bodloni gofynion adran 6A(1).<br><br>(2) Rhaid i gais fod ar y ffurf ragnodedig.<br><br>(3)Caiff person sy'n dymuno cael ei gofrestru fel darparwr gwasanaeth mewn cysylltiad â dau neu ragor o wasanaethau rheoleiddiedig wneud un cais mewn cysylltiad â hwy. | |
| **6A Cofrestru mewn cysylltiad â gwasanaeth plant o dan gyfyngiad**<br><br>(1) Er mwyn cael ei gofrestru mewn cysylltiad â gwasanaeth plant o dan gyfyngiad, rhaid i berson nad yw'n awdurdod lleol fod yn endid nid-er-elw.<br>(2) At ddibenion y Rhan hon, mae "endid nid-er-elw" yn berson sy'n bodloni amodau 1 a 2 yn is-adrannau (3) a (4).<br>(3) Amod 1 yw bod amcanion neu ddibenion y person yn ymwneud yn anad dim â'r canlynol—<br>(a) lles plant, neu<br>(b) unrhyw les cyhoeddus arall a ragnodir gan Weinidogion Cymru.<br>(4) Amod 2 yw bod y person yn un o'r mathau o ymgymeriad a ganlyn (fel y'u diffinnir yn adran 6B)—<br>(a) cwmni elusennol cyfyngedig drwy warant heb gyfalaf cyfrannau,<br>(b) sefydliad elusennol corfforedig,<br>(c) cymdeithas gofrestredig elusennol, neu<br>(d) cwmni buddiant cymunedol cyfyngedig drwy warant heb gyfalaf cyfrannau.<br><br>**6B Cofrestru mewn cysylltiad â gwasanaeth plant o dan gyfyngiad: diffiniadau**<br><br>(1) Mae'r diffiniadau a ganlyn yn gymwys at ddibenion adran 6A(4).<br>(2) Mae "cwmni elusennol cyfyngedig drwy warant heb gyfalaf cyfrannau" yn gwmni— | 3(3) |

| | |
|---|---|
| (a) sydd wedi ei gofrestru o dan Ddeddf Cwmnïau 2006 (p. 46) yng Nghymru, Lloegr, yr Alban neu Ogledd Iwerddon,<br>(b) y mae ei atebolrwydd yn gyfyngedig drwy warant ac nad oes ganddo gyfalaf cyfrannau, ac<br>(c) sy'n elusen a gofrestrwyd o dan un neu ragor o'r canlynol—<br>(i) Deddf Elusennau 2011 (p. 25);<br>(ii) Deddf Elusennau a Buddsoddi gan Ymddiriedolwyr (Yr Alban) 2005 (dsa 10);<br>(iii) Deddf Elusennau (Gogledd Iwerddon) 2008 (p. 12).<br>(3) Mae "sefydliad elusennol corfforedig" yn sefydliad a gofrestrwyd o dan—<br>(a) adran 209, 232 neu 238 o Ddeddf Elusennau 2011 neu reoliadau a wneir o dan adran 234 o'r Ddeddf honno,<br>(b) adran 55, 58 neu 60 o Ddeddf Elusennau a Buddsoddi gan Ymddiriedolwyr (Yr Alban) 2005, neu<br>(c) adran 111, 114 neu 117 o Ddeddf Elusennau (Gogledd Iwerddon) 2008 neu reoliadau a wneir o dan adran 115 o'r Ddeddf honno.<br>(4) Mae "cymdeithas gofrestredig elusennol" yn—<br>(a) cymdeithas—<br>(i) sy'n "cymdeithas gofrestredig" o fewn yr ystyr a roddir i "registered society" gan adran 1(1) o Ddeddf Cymdeithasau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014 (p. 14), a<br>(ii) sy'n elusen o fewn ystyr adran 1(1) o Ddeddf Elusennau 2011,<br>(b) cymdeithas—<br>(i) sy'n "cymdeithas gofrestredig" o fewn yr ystyr a roddir i "registered society" gan adran 1(1) o Ddeddf Cymdeithasau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014, a<br>(ii) sy'n elusen a gofrestrwyd o dan Ddeddf Elusennau a Buddsoddi gan Ymddiriedolwyr (Yr Alban) 2005, neu<br>(c) cymdeithas—<br>(i) sy'n "cymdeithas gofrestredig" o fewn yr ystyr a roddir i "registered society" gan adran 1A(1) o Ddeddf Cymdeithasau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol (Gogledd Iwerddon) 1969 (p. 24), a<br>(ii) sy'n elusen a gofrestrwyd o dan Ddeddf Elusennau (Gogledd Iwerddon) 2008.<br>(5) Mae "cwmni buddiant cymunedol cyfyngedig drwy warant heb gyfalaf cyfrannau" yn gwmni—<br>(a) sydd wedi ei gofrestru o dan Ddeddf Cwmnïau 2006 yng Nghymru, Lloegr, yr Alban neu Ogledd Iwerddon, | |

| | |
|---|---|
| (b) y mae ei atebolrwydd yn gyfyngedig drwy warant ac nad oes ganddo gyfalaf cyfrannau, ac<br>(c) sy'n gwmni buddiant cymunedol o dan Ran 2 o Ddeddf Cwmnïau (Archwilio, Ymchwiliadau a Menter Gymunedol) 2004 (p. 27).<br>(6) Yn is-adrannau (2) a (5)—<br>(a) mae i gyfeiriadau at fod atebolrwydd cwmni yn "cyfyngedig drwy warant" yr ystyr a roddir i "limited by guarantee" gan adran 3(3) o Ddeddf Cwmnïau 2006, a<br>(b) nid oes gan gwmni gyfalaf cyfrannau os nad oes ganddo bŵer o dan ei gyfansoddiad i ddyroddi cyfrannau. | |
| | |
| **6C Cofrestru mewn cysylltiad â gwasanaeth plant o dan gyfyngiad: trefniadau trosiannol**<br><br>Mae Atodlen 1A yn gwneud darpariaeth ar gyfer trefniadau trosiannol mewn cysylltiad â darparwyr gwasanaethau a gofrestrwyd cyn i adran 6A(1) ddod i rym. | 4(2) |
| | |
| **7 Caniatáu neu wrthod cofrestriad fel darparwr gwasanaeth**<br>(1) Rhaid i Weinidogion Cymru ganiatáu cais o dan adran 6 os ydynt wedi eu bodloni—<br>(a) bod y cais—<br>(i) yn cynnwys popeth sy'n ofynnol gan neu o dan is-adran (1) o'r adran honno,<br>(ii) yn achos cais sy'n ymwneud â gwasanaeth cymorth cartref, yn cynnwys yr ymgymeriad yn adran 8, a<br>(iii) yn bodloni'r gofynion a ragnodir o dan adran 6(2);<br>(aa) yn achos cais mewn cysylltiad â gwasanaeth plant o dan gyfyngiad, fod yr ymgeisydd yn bodloni'r gofyniad adran 6A(1);<br>(b) bod yr ymgeisydd yn berson addas a phriodol i fod yn ddarparwr gwasanaeth (gweler adran 9);<br>(c) o ran pob unigolyn sydd i'w ddynodi'n unigolyn cyfrifol—<br>(i) ei fod yn gymwys i fod yn unigolyn cyfrifol yn unol ag adran 21(2),<br>(ii) ei fod yn berson addas a phriodol i fod yn unigolyn cyfrifol (gweler adran 9), a<br>(iii) y bydd yn cydymffurfio ag unrhyw ofynion mewn rheoliadau o dan adran 28 (i'r graddau y bônt yn gymwys);<br>(d) y bydd cydymffurfedd â gofynion— | 5 |

| | |
|---|---|
| (i) unrhyw reoliadau o dan adran 27 (gan gynnwys unrhyw ofynion o ran safon y gofal a'r cymorth y mae rhaid eu darparu), a<br>(ii) unrhyw ddeddfiad arall yr ymddengys i Weinidogion Cymru ei fod yn berthnasol,(i'r graddau y bônt yn gymwys) mewn perthynas â darparu'r gwasanaeth rheoleiddiedig.<br>(2) Mewn unrhyw achos arall rhaid i Weinidogion Cymru wrthod cais.<br>(3) O ran caniatáu cais—<br>(a) rhaid iddo fod yn ddarostyngedig i amod sy'n pennu—<br>(i) y mannau y mae'r darparwr gwasanaeth i ddarparu gwasanaeth rheoleiddiedig ynddynt, ohonynt neu mewn perthynas â hwy, a<br>(ii) yr unigolyn sydd wedi ei ddynodi fel yr unigolyn cyfrifol ar gyfer pob un o'r mannau hynny, ~~a~~<br>(aa) rhaid iddo, yn achos cais mewn cysylltiad â gwasanaeth plant o dan gyfyngiad, fod yn ddarostyngedig i amod bod y darparwr gwasanaeth yn hysbysu Gweinidogion Cymru am unrhyw amgylchiadau nad yw'r darparwr bellach yn bodloni'r gofyniad adran 6A(1) odanynt, a<br>(b)caiff fod yn ddarostyngedig i unrhyw amodau pellach sy'n briodol ym marn Gweinidogion Cymru.<br>(4)Pan fo person wedi gwneud un cais mewn cysylltiad â dau neu ragor o wasanaethau rheoleiddiedig caiff Gweinidogion Cymru ganiatáu neu wrthod y cais ar wahân mewn cysylltiad â phob gwasanaeth.<br>(5)Ond dim ond os yw gofynion adrannau 18 i 20 wedi eu bodloni (i'r graddau y bônt yn gymwys) y mae caniatâd i gais yn cymryd effaith. | |
| **9 Person addas a phriodol: ystyriaethau perthnasol**<br>(1) Mae'r adran hon yn gymwys i unrhyw benderfyniad gan Weinidogion Cymru o ran a yw—<br>(a) darparwr gwasanaeth,<br>(b) person sy'n gwneud cais i fod yn ddarparwr gwasanaeth,<br>(c) unigolyn cyfrifol, neu<br>(d) person sydd i'w ddynodi'n unigolyn cyfrifol,yn berson addas a phriodol i fod yn ddarparwr gwasanaeth neu, yn ôl y digwydd, unigolyn cyfrifol.<br>(2) Wrth wneud penderfyniad o'r fath rhaid i Weinidogion Cymru roi sylw i'r holl faterion sy'n briodol yn eu barn hwy.<br>(3) Yn benodol, rhaid i Weinidogion Cymru roi sylw i unrhyw dystiolaeth sy'n dod o fewn is-adrannau (4) i (8). | 6(2) |

| | |
|---|---|
| (4) Mae tystiolaeth yn dod o fewn yr is-adran hon os yw'n dangos bod y person wedi—<br>(a) cyflawni—<br>(i) unrhyw drosedd sy'n ymwneud â thwyll neu anonestrwydd arall, trais, arfau tanio neu gyffuriau neu unrhyw drosedd sydd wedi ei rhestru yn Atodlen 3 i Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003 (p.42) (troseddau sydd â gofynion hysbysu),<br>(ii) trosedd o dan y Ddeddf hon neu reoliadau a wneir odani,<br>(iii) trosedd o dan Ran 2 o Ddeddf Safonau Gofal 2000 (p.14) neu reoliadau a wneir odani, neu<br>(iv) unrhyw drosedd arall sy'n berthnasol ym marn Gweinidogion Cymru, neu<br>(b) aflonyddu ar rywun, neu wahaniaethu'n anghyfreithlon, ar sail unrhyw nodwedd sy'n nodwedd warchodedig o dan adran 4 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (p.15), neu wedi erlid person arall yn groes i'r Ddeddf honno, wrth gynnal unrhyw fusnes neu mewn cysylltiad â hynny.<br>(5) Mae tystiolaeth o fewn yr is-adran hon—<br>(a) os yw'n dangos bod unrhyw berson arall sy'n gysylltiedig â'r person neu a oedd yn gysylltiedig â'r person gynt (pa un ai ar sail bersonol, ar sail gwaith neu ar sail arall) wedi gwneud unrhyw un neu ragor o'r pethau a nodir yn is-adran (4) neu (6), a<br>(b) os ymddengys i Weinidogion Cymru fod y dystiolaeth yn berthnasol wrth ystyried a yw'r person yn berson addas a phriodol i fod yn ddarparwr gwasanaeth neu, yn ôl y digwydd, yn unigolyn cyfrifol.<br>(6) Mae tystiolaeth o fewn yr is-adran hon os yw'n dangos bod y person wedi bod yn gyfrifol am gamymddwyn neu gamreoli, neu wedi cyfrannu ato neu wedi ei hwyluso, wrth ddarparu—<br>(a) gwasanaeth rheoleiddiedig neu wasanaeth a ddarperir y tu allan i Gymru a fyddai'n wasanaeth rheoleiddiedig pe bai'n cael ei ddarparu yng Nghymru;<br>(b) gwasanaeth a fyddai wedi dod o fewn paragraff (a) pe bai'r system reoleiddiol sydd wedi ei sefydlu gan y Rhan hon wedi bod yn weithredol ar yr adeg pan oedd y gwasanaeth yn cael ei ddarparu.<br>(7) Wrth roi sylw i dystiolaeth o fewn is-adran (6), rhaid i Weinidogion Cymru, ymhlith pethau eraill, ystyried—<br>(a) pa mor ddifrifol yw'r camymddwyn neu'r camreoli ac am ba hyd y bu'n digwydd; | |

| | |
|---|---|
| (b) niwed a achoswyd i unrhyw berson, neu unrhyw dystiolaeth o fwriad i achosi niwed;<br>(c) unrhyw fantais ariannol a enillwyd gan y person;<br>(d) unrhyw gamau a gymerwyd gan y person i unioni'r camymddwyn neu'r camreoli.<br>(e) pan fo'r person yn ddarparwr gwasanaeth—<br>(i) sydd wedi ei gofrestru mewn cysylltiad â gwasanaeth plant o dan gyfyngiad, a<br>(ii) sy'n ddarostyngedig i'r gofyniad yn adran 6A(1),<br>a yw'n ymddangos i Weinidogion Cymru fod y darparwr wedi ymrwymo i drefniant ariannol sy'n dod o fewn adran 9A.<br>(8) Mae tystiolaeth o fewn yr is-adran hon os yw'n dangos bod y person wedi methu'n flaenorol â chydymffurfio—<br>(a) ag ymgymeriad a roddir o dan adran 7(1)(a)(ii) neu 11(3)(a)(ii),<br>(b) ag amod a osodir o dan y Rhan hon, neu<br>(c) â gofyniad a osodir gan reoliadau o dan adran 27(1) neu 28(1).<br>(9) Caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau ddiwygio'r adran hon i amrywio'r dystiolaeth y mae rhaid iddynt roi sylw iddi. | |
| | |
| **9A Prawf person addas a phriodol: trefniadau ariannol sy'n ymwneud â gwasanaethau plant o dan gyfyngiad**<br><br>(1) At ddibenion y prawf person addas a phriodol yn adran 9, mae trefniant ariannol yn dod o fewn yr adran hon os yw'n drefniant gyda neu er lles person perthnasol—<br>(a) sy'n afresymol neu'n anghymesur o dan yr holl amgylchiadau, a<br>(b) a all (o ganlyniad) danseilio gallu'r darparwr gwasanaeth i ddilyn ei amcanion neu ei ddibenion (ac o ran hynny, gweler adran 6A(3)).<br>(2) Wrth benderfynu a ymrwymwyd i drefniant ariannol o'r fath, rhaid rhoi sylw i'r canlynol—<br>(a) maint neu werth y trefniant a'i ddiben (gan gynnwys i ba raddau y mae'n ymwneud â darparu'r gwasanaeth plant o dan gyfyngiad);<br>(b) maint neu werth y trefniant o gymharu â faint o incwm y mae'r darparwr gwasanaeth yn ei gael o ddarparu'r gwasanaeth plant o dan gyfyngiad;<br>(c) y gyfran o gyfanswm incwm y darparwr gwasanaeth sy'n dod o ddarparu'r gwasanaeth plant o dan gyfyngiad; | 6(3) |

| | |
|---|---|
| (d) llesiant plant sy'n cael gofal a chymorth (yn narpariaeth y gwasanaeth plant o dan gyfyngiad).<br>(3) At ddibenion adran 9(7)(e) a'r adran hon—<br>(a) mae "ymrwymo i drefniant ariannol" yn cynnwys gwneud taliad neu ddyfarnu unrhyw fudd (uniongyrchol neu anuniongyrchol) sydd â gwerth ariannol, ond nid yw wedi ei gyfyngu i hynny (ac mae cyfeiriadau at drefniant ariannol i'w darllen fel petaent yn cynnwys cyfres o drefniadau);<br>(b) ystyr "person perthnasol" yw unrhyw un o'r canlynol—<br>(i) cyflogai, gweithiwr neu swyddog i'r darparwr gwasanaeth;<br>(ii) person cysylltiedig â chyflogai, gweithiwr neu swyddog i'r darparwr gwasanaeth;<br>(iii) pan fo'r darparwr gwasanaeth yn rhan o grŵp o bersonau sydd o dan berchnogaeth ar y cyd neu reolaeth ar y cyd, unrhyw berson o fewn y grŵp hwnnw.<br><br>**9B Trefniadau ariannol sy'n ymwneud â gwasanaethau plant o dan gyfyngiad: darpariaeth atodol**<br>Yn adran 9A(3)(b)—<br>(a) mae i "cyflogai" a "gweithiwr" yr ystyron a roddir i "employee" a "worker" gan adran 230 o Ddeddf Hawliau Cyflogaeth 1996 (p. 18);<br>(b) ystyr "swyddog" yw—<br>(i) unrhyw gyfarwyddwr, unrhyw reolwr, unrhyw ysgrifennydd neu unrhyw swyddog tebyg arall yn y darparwr gwasanaeth (ac, mewn perthynas â darparwr gwasanaeth y mae ei faterion yn cael eu rheoli gan ei aelodau, ystyr "cyfarwyddwr" yw aelod o'r darparwr gwasanaeth);<br>(ii) unrhyw berson arall sydd â rheolaeth gyffredinol dros y darparwr gwasanaeth, ac sy'n rheoli'r darparwr hwnnw,<br>a, phan fo'r darparwr gwasanaeth yn elusen, mae hyn yn cynnwys unrhyw ymddiriedolwr elusen o fewn ystyr y Deddf Elusennau.<br>(2) At ddibenion adran 9A(3)(b), mae'r canlynol yn gysylltiedig â chyflogai, gweithiwr neu swyddog i'r darparwr gwasanaeth—<br>(a) ei blentyn, ei riant, ei ŵyr neu ei wyres, ei dad-cu/daid neu ei fam-gu/nain, ei frawd neu ei chwaer;<br>(b) ei briod neu ei bartner sifil;<br>(c) person sy'n cynnal busnes mewn partneriaeth ag ef neu ag unrhyw berson sy'n dod o fewn paragraff (a) neu (b);<br>(d) sefydliad sy'n cael ei reoli— | |

| | |
|---|---|
| (i) ganddo ef neu gan unrhyw berson sy'n dod o fewn paragraff (a), (b) neu (c), neu<br>(ii) gan ddau neu ragor o bersonau sy'n dod o fewn is-baragraff (i), o'u cymryd gyda'i gilydd;<br>(e) corff corfforaethol—<br>(i) y mae gan y person, neu unrhyw berson cysylltiedig sy'n dod o fewn unrhyw un neu ragor o baragraffau (a) i (c), fuddiant sylweddol ynddo, neu<br>(ii) y mae gan ddau neu ragor o bersonau sy'n dod o fewn is-baragraff (i), o'u cymryd gyda'i gilydd, fuddiant sylweddol ynddo.<br>(3) Yn is-adran (2)—<br>(a) mae "plentyn" yn cynnwys llysblentyn;<br>(b) pan na fo dau berson yn briod â'i gilydd, nac yn bartneriaid sifil i'w gilydd, ond yn byw gyda'i gilydd fel pe baent yn gwpl priod neu'n bartneriaid sifil, mae pob un ohonynt i'w drin fel pe bai'n briod neu'n bartner sifil i'r llall;<br>(c) mae i "sefydliad" yr ystyr a roddir i "institution" gan adran 9(3) o Ddeddf Elusennau 2011 ac mae person yn rheoli sefydliad os yw'r person yn gallu, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, sicrhau bod materion y sefydliad yn cael eu cynnal yn unol â dymuniadau'r person;<br>(d) mae i gyfeiriadau at berson a chanddo "buddiant sylweddol mewn corff corfforaethol" yr ystyr a roddir i berson a chanddo "substantial interest in a body corporate" gan adran 352 o Ddeddf Elusennau 2011.<br>(4) At ddibenion adran 9A(3)(b)(iii), mae grŵp o bersonau i'w drin fel pe bai o dan reolaeth ar y cyd os yw'r grŵp—<br>(a) yn grŵp o gyrff corfforaethol sydd wedi eu cydgysylltu,<br>(b) yn cynnwys cyrff corfforaethol sydd oll o dan reolaeth un person neu un grŵp o bersonau, neu<br>(c) yn cynnwys un neu ragor o gyrff corfforaethol a pherson, neu grŵp o bersonau, sydd â rheolaeth dros y corff corfforaethol hwnnw neu'r cyrff corfforaethol hynny.<br>(5) Yn is-adran (4), ystyr "grŵp o gyrff corfforaethol sydd wedi eu cydgysylltu" yw grŵp sy'n cynnwys dau neu ragor o gyrff corfforaethol y mae pob un ohonynt wedi eu cydgysylltu â'i gilydd.<br>(6) At ddibenion is-adran (5), mae unrhyw ddau gorff corfforaethol yn rhai sydd wedi eu cydgysylltu—<br>(a) os yw un ohonynt yn gorff corfforaethol y mae'r llall yn is-gorff iddo, neu (b) os yw'r ddau ohonynt yn is-gyrff i un corff | |

| | |
|---|---|
| corfforaethol ac mae "cyrff corfforaethol sydd wedi eu cydgysylltu" i'w ddehongli yn unol â hynny).<br>(7) At ddibenion is-adran (4)(b) ac (c), mae person neu grŵp o bersonau yn rheoli corff corfforaethol os yw'r person neu'r grŵp o bersonau yn gallu, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, sicrhau bod materion y corff corfforaethol yn cael eu cynnal yn unol â dymuniadau'r person neu'r grŵp o bersonau.<br>(8) Yn yr adran hon—<br>ystyr "y Deddfau Elusennau" ("the Charities Acts") yw Deddf Elusennau 2011 (p. 25), Deddf Elusennau a Buddsoddi gan Ymddiriedolwyr (Yr Alban) 2005 (dsa 10) a Deddf Elusennau (Gogledd Iwerddon) 2008 (p. 12);<br>mae i "is-gorff" yr ystyr a roddir i "subsidiary" gan adran 1159 o Ddeddf Cwmnïau 2006 (p. 46);<br>mae "person" ("person") yn cynnwys corff corfforaethol, partneriaeth a chymdeithas anghorfforedig. | |
| | |
| **10 Datganiad blynyddol**<br>(1) Rhaid i ddarparwr gwasanaeth ~~gyflwyno datganiad blynyddol i Weinidogion Cymru ar ôl diwedd pob blwyddyn ariannol y mae'r darparwr wedi ei gofrestru ynddi.~~, ar ôl diwedd pob blwyddyn ariannol y mae'r darparwr wedi ei gofrestru ynddi—<br>(a) cyflwyno datganiad blynyddol i Weinidogion Cymru;<br>(b) cyhoeddi'r datganiad hwnnw ar ei wefan.<br>(1A) Rhaid i ddarparwr gwasanaeth roi ar gael, ar gais, gopi o ddatganiad blynyddol sydd wedi ei gyhoeddi ar ei wefan.<br>(2) Rhaid i ddatganiad blynyddol gynnwys—<br>(a) yr wybodaeth a ganlyn—<br>(i) y gwasanaethau rheoleiddiedig y mae'r darparwr gwasanaeth wedi ei gofrestru i'w darparu;<br>(ii) y mannau y mae'r darparwr wedi ei gofrestru i ddarparu'r gwasanaethau hynny ynddynt, ohonynt neu mewn perthynas â hwy;<br>(iii) enw'r unigolyn cyfrifol sydd wedi ei gofrestru mewn cysylltiad â phob man o'r fath; | 7, 14(2) ac Atodlen 1, paragraff 5 |

Noder: at ddiben helpu pobl i ddeall Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru) yn unig y mae'r ddogfen hon wedi'i llunio. Ni ddylid dibynnu arni at unrhyw ddiben arall.

(iv) y dyddiad y cymerodd cofrestriad y darparwr effaith mewn cysylltiad â phob gwasanaeth rheoleiddiedig a phob man o'r fath;

(v) manylion unrhyw amodau eraill a osodir ar gofrestriad y darparwr gwasanaeth;

(vi) manylion am nifer y personau y darparodd y darparwr ofal a chymorth iddynt yn ystod y flwyddyn wrth ddarparu pob gwasanaeth o'r fath;

(vii) unrhyw wybodaeth a ragnodir am hyfforddiant a gynigir neu a gyflawnir mewn perthynas â phob gwasanaeth o'r fath;

(viii) unrhyw wybodaeth am gynllunio'r gweithlu a ragnodir;
(viiia) unrhyw wybodaeth a ragnodir am dystiolaeth sy'n berthnasol i'r prawf person addas a phriodol;

(ix) unrhyw wybodaeth arall a ragnodir, a

(b) datganiad sy'n nodi sut y mae'r darparwr gwasanaeth wedi cydymffurfio ag unrhyw reoliadau a wneir o dan adran 27(1) sy'n pennu safon y gofal a'r cymorth y mae rhaid i ddarparwr gwasanaeth ei darparu (gweler adran 27(2)).

(2A) Yn achos darparwr gwasanaeth, ac eithrio awdurdod lleol, sy'n darparu gwasanaeth plant o dan gyfyngiad, rhaid i ddatganiad hefyd gynnwys unrhyw wybodaeth a ragnodir er mwyn bodloni Gweinidogion Cymru bod y darparwr yn bodloni'r gofyniad yn adran 6A(1).

(2B) Ond nid yw is-adran (2A) yn gymwys mewn cysylltiad â darparwr nad yw adran 6A yn gymwys iddo yn rhinwedd paragraff 2(3) o Atodlen 1A.

(3) Rhaid i ddatganiad blynyddol fod ar y ffurf ragnodedig.

(4) Rhaid cyflwyno datganiad blynyddol i Weinidogion Cymru o fewn y terfyn amser rhagnodedig.

(4A) Rhaid cyhoeddi datganiad blynyddol o fewn y terfyn amser rhagnodedig.

(4B) Ond os yw datgelu gwybodaeth a gynhwysir yn y datganiad blynyddol wedi ei wahardd drwy unrhyw ddeddfiad neu reol gyfreithiol arall, rhaid cuddio'r wybodaeth honno yn y datganiad blynyddol cyn ei gyhoeddi.

~~(5) Rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi pob datganiad blynyddol a gyflwynir o dan is-adran (1).~~

Noder: at ddiben helpu pobl i ddeall Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru) yn unig y mae'r ddogfen hon wedi'i llunio. Ni ddylid dibynnu arni at unrhyw ddiben arall.

| | |
|---|---|
| (6) Er gwaethaf adran 187(3), ni chaniateir gwneud offeryn statudol sy'n cynnwys—<br>(a) y rheoliadau cyntaf a wneir o dan is-adran (2)(a)(vii),<br>(b) y rheoliadau cyntaf a wneir o dan is-adran (2)(a)(viii),<br>(ba) y rheoliadau cyntaf a wneir o dan is-adran (2)(a)(viiia),<br>(c) y rheoliadau cyntaf a wneir o dan is-adran (2)(a)(ix) neu,<br>(d) y rheoliadau cyntaf a wneir o dan is-adran (2A),<br>oni bai bod drafft o'r offeryn wedi ei osod gerbron ~~Cynulliad Cenedlaethol Cymru~~ Senedd Cymru a'i gymeradwyo ganddo drwy benderfyniad. | |
| | |
| **11 Cais i amrywio cofrestriad fel darparwr gwasanaeth**<br>(1) Rhaid i ddarparwr gwasanaeth wneud cais i Weinidogion Cymru ar gyfer amrywio cofrestriad y darparwr—<br>(a) os yw'r darparwr yn dymuno—<br>(i) darparu gwasanaeth rheoleiddiedig nad yw'r darparwr eisoes wedi ei gofrestru i'w ddarparu,<br>(ii) darparu gwasanaeth rheoleiddiedig mewn man, o fan neu mewn perthynas â man nad yw eisoes wedi ei bennu yng nghofrestriad y darparwr mewn perthynas â'r gwasanaeth hwnnw,<br>(iii) peidio â darparu gwasanaeth rheoleiddiedig, neu<br>(iv) peidio â darparu gwasanaeth rheoleiddiedig mewn man, o fan neu mewn perthynas â man;<br>(b) os yw'r darparwr yn dymuno i amod a osodir o dan adran 7(3)(b), 12(2) neu 13(1) gael ei amrywio neu ei ddileu;<br>(c) os yw'r darparwr yn dymuno dynodi unigolyn cyfrifol gwahanol mewn cysylltiad â man neu y mae'n ofynnol iddo ddynodi unigolyn cyfrifol oherwydd nad oes unigolyn o'r fath wedi ei ddynodi mewn cysylltiad â man y mae'r darparwr yn darparu gwasanaeth rheoleiddiedig ynddo, ohono neu mewn perthynas ag ef.<br>(2) Rhaid i Weinidogion Cymru drwy reoliadau ragnodi terfyn amser y mae rhaid cyflwyno cais i amrywio cofrestriad darparwr ynddo o dan amgylchiadau pan na fo unigolyn cyfrifol wedi ei ddynodi mewn cysylltiad â man y mae'r darparwr yn | 8(2) |

| | |
|---|---|
| darparu gwasanaeth rheoleiddiedig ynddo, ohono neu mewn perthynas ag ef.<br>(3) Rhaid i gais o dan is-adran (1)—<br>(a) cynnwys—<br>(i) manylion yr amrywiad y mae’r darparwr yn gofyn amdano,<br>(ii) yn achos cais o dan is-adran (1)(a)(i) i ddarparu gwasanaeth cymorth cartref, yr ymgymeriad yn adran 8, a<br>(iii) unrhyw wybodaeth arall a ragnodir;<br>(b) bod ar y ffurf ragnodedig.<br>(4) Yn achos cais o dan is-adran (1)(a)(i) i ddarparu gwasanaeth plant o dan gyfyngiad, rhaid i’r cais hefyd gynnwys unrhyw wybodaeth a ragnodir er mwyn bodloni Gweinidogion Cymru bod y darparwr gwasanaeth yn bodloni’r gofyniad yn adran 6A(1). | |
| | |
| **12 Caniatáu neu wrthod cais am amrywiad**<br>(1) Caiff Gweinidogion Cymru ganiatáu neu wrthod cais o dan adran 11 (ond gweler ~~is-adran (2)~~is-adrannau (1A) a (2)).<br>(1A) Yn achos cais o dan adran 11(1)(a)(i) i ddarparu gwasanaeth plant o dan gyfyngiad, ni chaiff Gweinidogion Cymru ond caniatáu cais os ydynt wedi eu bodloni bod y darparwr gwasanaeth yn bodloni’r gofyniad yn adran 6A(1).<br>(2) Yn achos cais o dan adran 11(1)(b), caiff Gweinidogion Cymru (yn lle caniatáu neu wrthod y cais)—<br>(a)amrywio amod ar delerau gwahanol i’r rhai a bennir yn y cais, neu<br>(b)gosod amod arall ar gofrestriad y darparwr (pa un ai yn lle’r amod y gwnaeth y darparwr gais i’w amrywio neu ei ddileu neu’n ychwanegol at yr amod hwnnw).<br>(3)Ond dim ond os yw gofynion adrannau 18 i 20 wedi eu bodloni (i’r graddau y bônt yn gymwys) y mae amrywiad o dan yr adran hon yn cymryd effaith. | 8(3) |
| | |
| **13 Amrywio heb gais**<br>(1) Caiff Gweinidogion Cymru— | 8(4) |

| | |
|---|---|
| (a) amrywio unrhyw amod a osodir o dan adran 7(3)(b), 12(2) neu baragraff (b) o'r is-adran hon, neu | |
| (b) gosod amod pellach ar gofrestriad darparwr gwasanaeth. | |
| ~~(2) Ni chaniateir amrywio cofrestriad darparwr o dan is-adran (1) oni bai bod gofynion adrannau 18 a 19 wedi eu bodloni (ond nid yw hyn yn effeithio ar bŵer Gweinidogion Cymru i amrywio cofrestriad ar frys o dan adran 25).~~ | |
| (3) Os yw darparwr gwasanaeth yn darparu mwy nag un gwasanaeth rheoleiddiedig, caiff Gweinidogion Cymru amrywio cofrestriad y darparwr drwy ddileu gwasanaeth rheoleiddiedig— | |
| (a) os ydynt wedi eu bodloni nad yw'r darparwr gwasanaeth bellach yn darparu'r gwasanaeth hwnnw, ~~neu~~ | |
| (b) os ydynt wedi eu bodloni nad yw'r gwasanaeth yn cael ei ddarparu yn unol â'r gofynion a grybwyllir yn adran 7(1)(d) i'r graddau y bônt yn gymwys i'r gwasanaeth hwnnw., neu | |
| (c) os ydynt wedi eu bodloni, pan fo'r gwasanaeth yn wasanaeth plant o dan gyfyngiad, nad yw'r darparwr gwasanaeth yn bodloni'r gofyniad yn adran 6A(1). | |
| (3A) Gweler hefyd baragraff 3(4)(a) o Atodlen 1A, mewn cysylltiad ag amrywio cofrestriad darparwr gwasanaeth i ddileu gwasanaeth plant o dan gyfyngiad yn ystod y cyfnod trosiannol a ddiffinnir yn yr Atodlen honno. | |
| (4) Os yw darparwr gwasanaeth yn darparu gwasanaeth rheoleiddiedig mewn mwy nag un man, o fwy nag un man neu mewn perthynas â mwy nag un man, caiff Gweinidogion Cymru amrywio cofrestriad y darparwr drwy ddileu man os ydynt wedi eu bodloni— | |
| (a) nad yw'r darparwr gwasanaeth bellach yn darparu gwasanaeth rheoleiddiedig yn y man hwnnw, ohono neu mewn perthynas ag ef, | |
| (b) nad yw'r gwasanaeth a ddarperir yn y man hwnnw, ohono neu mewn perthynas ag ef yn cael ei ddarparu yn unol â'r gofynion a grybwyllir yn adran 7(1)(d) i'r graddau y bônt yn gymwys i'r gwasanaeth hwnnw, neu | |
| (ba) bod yr unigolyn cyfrifol sydd wedi ei ddynodi mewn cysylltiad â'r man hwnnw, neu unrhyw berson arall, wedi ei gollfarnu o drosedd berthnasol, neu wedi cael rhybuddiad mewn cysylltiad â throsedd berthnasol, mewn cysylltiad â | |

| | |
|---|---|
| gwasanaeth rheoleiddiedig a ddarperir gan y darparwr gwasanaeth yn y man hwnnw, ohono neu mewn perthynas ag ef,<br><br>(c) nad oes unrhyw unigolyn cyfrifol wedi ei ddynodi mewn cysylltiad â'r man hwnnw (a bod y terfyn amser a ragnodir o dan adran 11(2) wedi dod i ben).<br><br>(4A) At ddibenion is-adran (4)(ba) mae trosedd berthnasol yn drosedd a restrir yn adran 15(2).<br><br>(5) Ni chaniateir i amrywiad gael ei wneud o dan yr adran<br><br>hon—<br><br>(a) yn achos amrywiad—<br><br>(i) o dan is-adran (1), (3)(a) neu (4)(a), neu<br><br>(ii) yn unol â phaagraff 3(4)(a) o Atodlen 1A,<br><br>oni bai bod gofynion adrannau 18 a 19 wedi eu bodloni;<br><br>(b) yn achos amrywiad o dan is-adran (3)(b), (4)(b), (ba) neu (c), oni bai bod gofynion adrannau 16 a 17 wedi eu bodloni.<br><br>(6) Ond nid oes dim byd yn is-adran (5) sy'n effeithio ar bŵer<br><br>Gweinidogion Cymru i amrywio cofrestriad ar frys o dan adran 23. | |
| | |
| **14 Cais i ganslo cofrestriad fel darparwr gwasanaeth**<br><br>(1) Os yw darparwr gwasanaeth yn gwneud cais i Weinidogion Cymru i ganslo ei gofrestriad, rhaid i Weinidogion Cymru ganiatáu'r cais oni bai eu bod wedi cymryd camau gyda golwg ar ganslo'r cofrestriad o dan adran 15 neu 23.<br><br>(1A) Rhaid i gais o dan is-adran (1)—<br>(a) cynnwys unrhyw wybodaeth a ragnodir gan Weinidogion Cymru;<br>(b) bod ar y ffurf ragnodedig.<br><br>(2) Rhaid i Weinidogion Cymru roi hysbysiad ynghylch caniatáu cais i ganslo o dan yr adran hon i'r darparwr gwasanaeth.<br><br>(3) Mae canslo o dan yr adran hon yn cymryd effaith—<br><br>(a) ar y diwrnod sydd 3 mis ar ôl y diwrnod y mae'r darparwr gwasanaeth yn cael yr hysbysiad, neu | 15(2) |

| | |
|---|---|
| (b) ar unrhyw ddiwrnod cynharach a bennir gan Weinidogion Cymru yn yr hysbysiad. | |
| | |
| **15 Canslo heb gais**<br><br>(1) Caiff Gweinidogion Cymru ganslo cofrestriad darparwr gwasanaeth ar unrhyw un neu ragor o'r seiliau a ganlyn—<br><br>(a) nid yw'r darparwr gwasanaeth bellach yn darparu unrhyw wasanaethau rheoleiddiedig;<br><br>(b) nid yw Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni bellach fod y darparwr gwasanaeth yn berson addas a phriodol i fod yn ddarparwr gwasanaeth (gweler adran 9);<br><br>(ba) mae'r darparwr gwasanaeth wedi ei gollfarnu o drosedd berthnasol, neu wedi cael rhybuddiad mewn cysylltiad â throsedd berthnasol, mewn cysylltiad â gwasanaeth rheoleiddiedig y mae'n ei ddarparu;<br><br>(c) nid oes unigolyn cyfrifol wedi ei ddynodi mewn cysylltiad â phob man y mae'r darparwr yn darparu gwasanaeth rheoleiddiedig ynddo, ohono neu mewn perthynas ag ef (ac mae'r terfyn amser ar gyfer gwneud cais i amrywio'r cofrestriad a ragnodir mewn rheoliadau a wneir o dan adran 11(2) wedi dod i ben);<br><br>(d) ~~mae'r darparwr gwasanaeth neu unigolyn cyfrifol~~ mae unigolyn cyfrifol ac eithrio'r darparwr gwasanaeth (gweler adran 21(2)(a)), sydd wedi ei ddynodi mewn cysylltiad â man y mae'r darparwr yn darparu gwasanaeth rheoleiddiedig ynddo, ohono neu mewn perthynas ag ef wedi ei gollfarnu o drosedd berthnasol, neu wedi cael rhybuddiad mewn cysylltiad â throsedd berthnasol, mewn cysylltiad â gwasanaeth rheoleiddiedig a ddarperir gan y darparwr gwasanaeth;<br><br>(e) mae unrhyw berson arall wedi ei gollfarnu o drosedd berthnasol, neu wedi cael rhybuddiad mewn cysylltiad â throsedd berthnasol, mewn cysylltiad â gwasanaeth rheoleiddiedig a ddarperir gan y darparwr gwasanaeth;<br><br>(f) nid yw gwasanaeth rheoleiddiedig a ddarperir gan y darparwr gwasanaeth yn cael ei ddarparu yn unol â'r gofynion a grybwyllir yn adran 7(1)(d) i'r graddau y bônt yn gymwys i'r gwasanaeth hwnnw.<br><br>(g) mae pob un o'r gwasanaethau y mae'r darparwr gwasanaeth wedi ei gofrestru mewn cysylltiad â hwy yn | 8(5) ac 16 |

| | |
|---|---|
| wasanaeth plant o dan gyfyngiad ac nid yw'r darparwr gwasanaeth yn bodloni'r gofyniad yn adran 6A(1).<br>(1A) Gweler hefyd baragraff 3(4)(b) o Atodlen 1A, mewn cysylltiad â chanslo cofrestriad darparwr gwasanaeth mewn cysylltiad â gwasanaeth plant o dan gyfyngiad yn ystod y cyfnod trosiannol a ddiffinnir yn yr Atodlen honno.<br>(2) At ddibenion ~~is-adran (1)(d)~~ is-adran (1)(ba), (d) ac (e), mae'r canlynol yn droseddau perthnasol—<br>(a) trosedd o dan y Ddeddf hon neu reoliadau a wneir odani;<br>(b) trosedd o dan Ran 2 o Ddeddf Safonau Gofal 2000 (p.14) neu reoliadau a wneir odani;<br>(c) unrhyw drosedd sydd, ym marn Gweinidogion Cymru, yn ei gwneud yn briodol i'r cofrestriad gael ei ganslo (gan gynnwys tramgwydd a gyflawnwyd y tu allan i Gymru a Lloegr a fyddai'n drosedd pe bai wedi ei gyflawni yng Nghymru a Lloegr).<br>(3) Ni chaniateir i gofrestriad gael ei ganslo o dan yr adran hon ~~oni bai bod gofynion adrannau 16 a 17 wedi eu bodloni (ond nid yw hyn yn effeithio ar bŵer Gweinidogion Cymru i ganslo cofrestriad ar frys o dan adran 23).~~ —<br>(a) yn achos—<br>(i)canslo ar y seiliau a nodir yn is-adran (1)(a), (b) ~~neu~~ (ba) neu (g), neu<br>(ii) canslo yn unol â pharagraff 3(4)(b) o Atodlen 1A,<br>oni bai bod gofynion adrannau 18 a 19 wedi eu bodloni;<br>(b) yn achos canslo ar y seiliau a nodir yn is-adran (1)(c), (d), (e) neu (f), oni bai bod gofynion adrannau 16 a 17 wedi eu bodloni.<br>(4) Ond nid oes dim byd yn is-adran (3) sy'n effeithio ar bŵer Gweinidogion Cymru i ganslo cofrestriad ar frys o dan adran 23. | |
| | |
| **16 Hysbysiadau gwella**<br>(1) Mae'r adran hon yn gymwys pan fo Gweinidogion Cymru yn bwriadu—<br>(a) canslo cofrestriad darparwr gwasanaeth o dan adran 15(1)(c), (d), (e) neu (f)~~adran 15~~, neu | Atodlen 1, paragraff 5 |

| | |
|---|---|
| (b) amrywio cofrestriad darparwr o dan adran 13(3)(b) neu (4)(b), (ba) neu (c).<br>(2) Cyn canslo neu amrywio'r cofrestriad rhaid i Weinidogion Cymru roi hysbysiad gwella i'r darparwr gwasanaeth.<br>(3) Rhaid i hysbysiad gwella a roddir o dan is-adran (2) bennu—<br>(a) ar ba sail y mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu canslo neu amrywio'r cofrestriad ac, yn achos amrywiad, y modd y gwneir yr amrywiad,<br>(b) y camau y mae Gweinidogion Cymru yn meddwl y mae rhaid i'r darparwr eu cymryd, neu'r wybodaeth y mae rhaid i'r darparwr ei darparu, er mwyn eu bodloni nad yw canslo neu amrywio ar y sail honno yn briodol, ac<br>(c) terfyn amser—<br>(i) ar gyfer cymryd y camau neu ddarparu'r wybodaeth, a<br>(ii) i'r darparwr gwasanaeth gyflwyno sylwadau.<br>(4) Caiff y darparwr gwasanaeth gyflwyno sylwadau i Weinidogion Cymru cyn i'r terfyn amser a bennir yn yr hysbysiad gwella ddod i ben a rhaid i Weinidogion Cymru roi sylw i'r sylwadau hynny wrth benderfynu beth i'w wneud o dan adran 17. | |
| | |
| **18 Hysbysiad o gynnig**<br>(1) Mae'r adran hon yn gymwys pan fo Gweinidogion Cymru yn bwriadu—<br>(a) caniatáu cais i gofrestru fel darparwr gwasanaeth yn ddarostyngedig i amod na chytunwyd arno'n ysgrifenedig â'r ymgeisydd,<br>(b) gwrthod cais i gofrestru neu i amrywio cofrestriad fel darparwr gwasanaeth, ~~neu~~<br>(c) amrywio cofrestriad darparwr gwasanaeth ac eithrio, neu—<br>(i) yn unol â chais am amrywiad a wneir o dan adran 11, neu<br>(ii) o dan adran 13(3)(b) neu (4)(b), (ba) neu (c), 23(1)(b) neu 25(2)(a), neu<br>(d) canslo cofrestriad darparwr gwasanaeth o dan adran 15(1)(c), (d), (e) ac (f). | Atodlen 1, paragraff 5 |

| | |
|---|---|
| (2) Rhaid i Weinidogion Cymru roi hysbysiad o'r cynnig i'r darparwr gwasanaeth—<br>(a) sy'n pennu'r camau y mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu eu cymryd,<br>(b) sy'n rhoi rhesymau dros y cynnig, ac<br>(c) sy'n pennu terfyn amser o ddim llai nag 28 o ddiwrnodau o'r dyddiad y rhoddir yr hysbysiad y caiff y darparwr gwasanaeth gyflwyno sylwadau i Weinidogion Cymru ynddo.<br>(d) cancel the registration of a service provider other than under section 15(1)(c), (d), (e) and (f).<br>(3) Caiff hysbysiad o gynnig bennu'r camau a fyddai'n arwain, pe baent yn cael eu cymryd gan ddarparwr o fewn y terfyn amser a bennir yn yr hysbysiad, at Weinidogion Cymru yn peidio â chymryd y camau y maent yn eu cynnig yn yr hysbysiad.<br>(4) Yn achos gwrthod cais i gofrestru fel darparwr gwasanaeth mae cyfeiriadau yn yr adran hon ac adran 19 at "darparwr gwasanaeth" i'w trin fel cyfeiriadau at y person a wnaeth gais i gael ei gofrestru fel darparwr gwasanaeth. | |
| | |
| **27 Rheoliadau ynghylch gwasanaethau rheoleiddiedig**<br><br>(1) Caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau osod gofynion ar ddarparwr gwasanaeth mewn perthynas â gwasanaeth rheoleiddiedig.<br><br>(2) Rhaid i ofynion a osodir gan reoliadau o dan is-adran (1) gynnwys gofynion o ran safon y gofal a'r cymorth sydd i'w darparu gan ddarparwr gwasanaeth.<br><br>(3) Rhaid i Weinidogion Cymru, wrth wneud rheoliadau sy'n gosod gofynion o'r math a grybwyllir yn is-adran (2), roi sylw—<br><br>(a) i bwysigrwydd llesiant unrhyw unigolion y bydd gofal a chymorth yn cael eu darparu iddynt, a<br><br>(b) i'r safonau ansawdd sydd wedi eu cynnwys mewn unrhyw god a ddyroddir o dan adran 9 o Ddeddf 2014 (codau ar gyfer | Atodlen 1, paragraff 5 |

| | |
|---|---|
| helpu i sicrhau canlyniadau a bennir mewn datganiadau llesiant).<br><br>(4) Cyn gwneud rheoliadau o dan yr adran hon rhaid i Weinidogion Cymru—<br><br>(a) ymgynghori ag unrhyw bersonau sy’n briodol yn eu barn hwy, a<br><br>(b) cyhoeddi datganiad ynghylch yr ymgynghoriad.<br><br>(5) Rhaid i Weinidogion Cymru osod copi o ddatganiad a gyhoeddir o dan is-adran (4)(b) gerbron ~~Cynulliad Cenedlaethol Cymru~~ Senedd Cymru.<br><br>(6) Ond nid yw’r gofyniad i ymgynghori a chyhoeddi datganiad yn gymwys i reoliadau—<br><br>(a) sy’n diwygio rheoliadau eraill a wneir o dan yr adran hon, a<br><br>(b) nad ydynt, ym marn Gweinidogion Cymru, yn rhoi effaith i unrhyw newid sylweddol yn y ddarpariaeth a wneir gan y rheoliadau sydd i’w diwygio. | |
| | |
| PENNOD 3 GWYBODAETH, ~~AC~~ AROLYGIADAU AC YMCHWILIADAU | |
| | |
| **32 Pŵer i’w gwneud yn ofynnol i wybodaeth gael ei darparu**<br><br>(1) Mae is-adrannau (1A) ac (1B) yn gymwys pan fo Gweinidogion Cymru yn ystyried y gall fod gan berson perthnasol wybodaethsy’n ymwneud â gwasanaeth rheoleiddiedig y mae Gweinidogion Cymru yn meddwl ei bod yn angenrheidiol neu’n hwylus ei chael at ddibenion arfer eu swyddogaethau o dan Bennod 2 a’r Bennod hon o’r Rhan hon neu o dan adrannau 38 i 40.<br><br>(1A) Pan fo’r is-adran hon yn gymwys, caiff Gweinidogion Cymru roi hysbysiad i berson perthnasol sy’n ei gwneud yn ofynnol i’r person hwnnw— | 17(2) |

| | |
|---|---|
| (a) cyflwyno unrhyw ddogfennau—<br><br>(i) a bennir neu a ddisgrifir yn yr hysbysiad, neu sy'n dod o fewn categori o ddogfen a bennir neu a ddisgrifir yn yr<br><br>hysbysiad, a<br><br>(ii) sydd ym meddiant y person neu o dan reolaeth y person,<br><br>a<br><br>(b) cyflwyno'r dogfennau mewn modd a bennir yn yr hysbysiad. | |
| (1B) Pan fo'r is-adran hon yn gymwys, caiff Gweinidogion Cymru roi hysbysiad i berson perthnasol sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r person hwnnw—<br><br>(a) ateb unrhyw gwestiwn—<br><br>(i) sydd wedi ei ofyn yn yr hysbysiad, a<br><br>(ii) y mae'r ateb iddo yn hysbys i'r person, a<br><br>(b) ateb mewn modd a bennir yn yr hysbysiad.<br><br>(2) Ond ni chaiff Gweinidogion Cymru ei gwneud yn ofynnol i berson ddarparu gwybodaeth —<br><br>(a) os yw datgelu'r wybodaeth honno wedi ei wahardd drwy unrhyw ddeddfiad neu reol gyfreithiol arall;<br><br>(b) pe bai gan y person hawlogaeth i wrthod datgelu'r wybodaeth mewn achos yn yr Uchel Lys ar sail braint broffesiynol gyfreithiol.<br><br>(3) At ddibenion is-adran (1), ystyr "person perthnasol" yw—<br><br>(a) darparwr gwasanaeth,<br><br>(b) unigolyn cyfrifol,<br><br>(c) person a gyflogir gan ddarparwr gwasanaeth neu sydd fel arall yn gweithio i ddarparwr gwasanaeth, a | |

| | |
|---|---|
| (d) unrhyw berson sydd wedi dal unrhyw un neu ragor o’r swyddi hynny.<br><br>(4) Mae’r pŵer i’w gwneud yn ofynnol i wybodaeth gael ei darparu o dan is-adran (1) yn cynnwys—<br><br>(a) pŵer i’w gwneud yn ofynnol i gopïau gael eu darparu o unrhyw ddogfennau neu gofnodion (gan gynnwys cofnodion meddygol a chofnodion personol eraill), a<br><br>(b) pŵer i’w gwneud yn ofynnol i’r wybodaeth gael ei darparu ar ffurf ddarllenadwy.<br>(5) Pan fo Gweinidogion Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i berson ddarparu gwybodaeth gan eu bod yn amau bod trosedd yn cael ei chyflawni neu fod trosedd wedi ei chyflawni—<br>(a) ni chânt ei gwneud yn ofynnol i’r wybodaeth gael ei darparu ond os oes ganddynt sail resymol dros amau hynny;<br>(b) rhaid iddynt hysbysu’r person, yn ysgrifenedig, at ba ddiben y maent yn ei gwneud yn ofynnol i’r wybodaeth gael ei darparu.<br>(6) Yn yr adran hon mae cyfeiriadau at “darparwr gwasanaeth” yn cynnwys person y mae Gweinidogion Cymru yn amau’n rhesymol—<br>(a) ei fod yn darparu gwasanaeth rheoleiddiedig mewn man nad yw’r person hwnnw wedi ei gofrestru mewn cysylltiad ag ef o dan adran 7, neu<br>(b) ei fod wedi darparu gwasanaeth rheoleiddiedig mewn man nad oedd y person hwnnw wedi ei gofrestru mewn cysylltiad ag ef o dan adran 7.<br><br>(5) Yn yr adran hon, mae cyfeiriadau at “darparwr gwasanaeth” yn cynnwys person sy’n darparu gwasanaeth rheoleiddiedig nad yw’r person wedi ei gofrestru mewn cysylltiad ag ef o dan adran 7. | |
| | |
| **32A Braint yn erbyn hunanargyhuddo**<br>(1) Ni chaniateir i wybodaeth a roddir gan berson (“P”) mewn ymateb i hysbysiad a roddir o dan adran 32(1B) gael ei defnyddio mewn achos troseddol yn erbyn P.<br>(2) Ond nid yw is-adran (1) yn gymwys—<br>(a) os yw’r achos am drosedd o dan adran 5 o Ddeddf Anudon 1911 (p. 6) (datganiadau anwir a wneir ac eithrio ar lw); | 17 |

| | |
|---|---|
| (b) yn ystod yr achos—<br>(i) os dygir tystiolaeth sy'n ymwneud â'r wybodaeth gan P, neu ar ei ran, neu<br>(ii) os gofynnir cwestiwn sy'n ymwneud â'r wybodaeth gan P, neu ar ei ran. | |
| | |
| **33 Arolygiadau, ymchwiliadau ac arolygwyr**<br><br>(1) Yn y Rhan hon mae cyfeiriad at "arolygiad" yn gyfeiriad at arolygiad—<br><br>(a) o safon unrhyw ofal a chymorth a ddarperir gan ddarparwr gwasanaeth wrth ddarparu gwasanaeth rheoleiddiedig, wedi ei mesur mewn perthynas ag unrhyw ofynion a osodir gan reoliadau o dan adran 27(1) o ran safon y gofal a'r cymorth sydd i'w darparu;<br><br>(b) o'r ffordd y mae gwasanaethau rheoleiddiedig a ddarperir gan ddarparwr gwasanaeth yn cael eu trefnu, eu rheoli neu eu cydgysylltu~~o drefniadaeth a chydgysylltiad gwasanaethau rheoleiddiedig a ddarperir gan ddarparwr gwasanaeth~~.<br><br>(1A) Yn y Rhan hon mae cyfeiriad at "ymchwiliad" yn gyfeiriad at ymchwiliad ynghylch a yw person—<br><br>(a) yn darparu gwasanaeth rheoleiddiedig mewn man nad yw'r person hwnnw wedi ei gofrestru mewn cysylltiad ag ef o dan adran 7, neu<br><br>(b) wedi darparu gwasanaeth rheoleiddiedig mewn man nad oedd y person hwnnw wedi ei gofrestru mewn cysylltiad ag ef o dan adran 7.<br><br>(2) Dim ond unigolyn sydd wedi ei awdurdodi gan Weinidogion Cymru (y cyfeirir ato yn y Rhan hon fel "arolygydd") a gaiff gynnal arolygiad neu ymchwiliad.<br><br>(3) Caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau wneud darpariaeth ynghylch y cymwysterau a'r amodau eraill sydd i'w bodloni gan unigolyn y caniateir iddo fod yn arolygydd.<br><br>(4) Rhaid i Weinidogion Cymru lunio a chyhoeddi cod ymarfer ynghylch y modd y mae arolygiadau i'w cynnal (gan gynnwys amlder arolygiadau). | 17 |

| | |
|---|---|
| (5) Caiff Gweinidogion Cymru ddiwygio'r cod a rhaid iddynt gyhoeddi cod diwygiedig.<br><br>(6) Rhaid i arolygydd roi sylw i'r cod wrth gynnal arolygiad. | |
| | |
| **34 Pwerau arolygydd i fynd i mewn ac arolygu mangreoedd**<br><br>(1) At ddibenion cynnal arolygiad neu ymchwiliad, caiff arolygydd fynd i mewn ac arolygu unrhyw fangre y mae gan yr arolygydd seiliau rhesymol dros gredu ei bod yn cael ei defnyddio (neu wedi ei defnyddio)—<br><br>(a) fel man y darperir (neu y darparwyd) gwasanaeth rheoleiddiedig ynddo neu ohono, neu<br><br>(b) mewn cysylltiad â darparu gwasanaeth rheoleiddiedig.<br><br>(2) Ond ni chaiff arolygydd fynd i mewn ac arolygu mangre a ddefnyddir yn gyfan gwbl neu'n bennaf fel annedd breifat oni bai bod y meddiannydd yn cydsynio.<br><br>(3) Pan fo arolygydd yn mynd i mewn i fangre at ddibenion cynnal arolygiad ymchwiliad, rhaid i'r arolygydd, os gofynnir iddo wneud hynny gan unrhyw berson yn y fangre, gyflwyno dogfen sy'n dangos awdurdodiad yr arolygydd o dan adran 33.<br><br>(4) Wrth gynnal arolygiad neu ymchwiliad, caiff yr arolygydd—<br><br>(a) edrych ar gyflwr y fangre a sut y caiff ei rheoli ac asesu llesiant unrhyw bersonau sy'n cael eu lletya yno neu sy'n cael gofal a chymorth yno;<br><br>(b) ei gwneud yn ofynnol—<br><br>(i) i'r rheolwr neu unrhyw berson arall yr ymddengys i'r arolygydd ei fod yn gyfrifol am reoli o ddydd i ddydd y gwasanaeth yn y fangre neu ohoni, neu<br><br>(ii) pan na fo'r gwasanaeth bellach yn cael ei ddarparu, i berson yr ymddengys i'r arolygydd fod ganddo gyfrifoldeb am reoli'r fangre o ddydd i ddydd, | 17 |

| | |
|---|---|
| gyflwyno unrhyw ddogfennau neu gofnodion (gan gynnwys cofnodion meddygol a chofnodion personol eraill) y mae'r arolygydd yn meddwl y gallant fod yn berthnasol i'r ddarpariaeth o'r gwasanaeth rheoleiddiedig;<br><br>(c) arolygu unrhyw ddogfennau neu gofnodion (gan gynnwys cofnodion meddygol a chofnodion personol eraill) y mae'r arolygydd yn meddwl y gallant fod yn berthnasol i'r ddarpariaeth o'r gwasanaeth rheoleiddiedig a mynd â chopïau ohonynt;<br><br>(d) ymafael yn unrhyw ddogfen neu unrhyw beth arall y deuir o hyd iddo yn y fangre ac y mae gan yr arolygydd seiliau rhesymol dros gredu y gall fod yn dystiolaeth o fethiant i gydymffurfio ag unrhyw amod neu ofyniad arall a osodir yn rhinwedd y Rhan hon, a symud y ddogfen neu'r peth arall o dan sylw oddi yno;<br><br>(e) ei gwneud yn ofynnol—<br><br>(i) i'r rheolwr neu unrhyw berson arall yr ymddengys i'r arolygydd ei fod yn gyfrifol am reoli o ddydd i ddydd y gwasanaeth yn y fangre neu ohoni, neu<br><br>(ii) pan na fo'r gwasanaeth bellach yn cael ei ddarparu, i berson yr ymddengys i'r arolygydd fod ganddo gyfrifoldeb am reoli'r fangre o ddydd i ddydd,<br><br>roi i'r arolygydd unrhyw gyfleusterau a chymorth y mae eu hangen er mwyn ei alluogi i gynnal yr arolygiad;<br><br>(f) cymryd unrhyw fesuriadau, tynnu unrhyw ffotograffau a gwneud unrhyw recordiadau y mae'r arolygydd yn meddwl eu bod yn angenrheidiol at ddiben cynnal yr arolygiad.<br><br>(5) Mae'r pwerau yn is-adran (4)(b) i (d) yn cynnwys y pŵer—<br><br>(a) i gael mynediad i unrhyw gyfrifiadur a chyfarpar cysylltiedig y mae gan yr arolygydd seiliau rhesymol dros gredu eu bod yn cael eu defnyddio (neu wedi cael eu defnyddio) mewn cysylltiad â'r dogfennau neu'r cofnodion a gwirio gweithrediad unrhyw gyfrifiadur a chyfarpar cysylltiedig o'r fath, a | |

| | |
|---|---|
| (b) i'w gwneud yn ofynnol i ddogfennau neu gofnodion gael eu cyflwyno ar ffurf sy'n ddarllenadwy ac yn gludadwy.<br><br>(6) Mae "mangre" yn cynnwys cerbyd. | |
| | |
| **35 Pwerau arolygydd i gyf-weld â phersonau a chynnal archwiliad ohonynt**<br><br>(1) Os yw arolygydd yn meddwl ei bod yn angenrheidiol neu'n hwylus at ddibenion cynnal arolygiad, caiff yr arolygydd neu ymchwiliad ei gwneud yn ofynnol i unrhyw berson gael ei gyf-weld ~~yn breifat~~ gan yr arolygydd.<br><br>(1A) Caniateir i arolygydd ei gwneud yn ofynnol i gyfweliad o dan is-adran (1) gael ei gynnal yn breifat.<br><br>(2) Ond o ran arolygydd—<br><br>(a) ni chaiff gyf-weld â pherson sy'n dod o fewn is-adran (3) heb gydsyniad y person, a<br><br>(b) ni chaiff gyf-weld â pherson ("P") at ddibenion holi a yw P wedi cyflawni trosedd oni bai—<br><br>(i) bod P wedi cael ei hysbysu am ddiben y cyfweliad;<br><br>(ii) y rhoddir y cyfle i P i gael cynrychiolaeth gyfreithiol.<br><br>~~ni chaiff arolygydd gyf-weld yn breifat â pherson sy'n dod o fewn is-adran (3) heb gydsyniad y person~~.<br><br>(3) Mae'r personau a ganlyn yn dod o fewn yr is-adran hon—<br><br>(a) person y mae'r darparwr gwasanaeth yn darparu (neu wedi darparu) gofal a chymorth iddo;<br><br>(b) unigolyn a chanddo gyfrifoldeb rhiant dros y person;<br><br>(c) perthynas i'r person;<br><br>(d) gofalwr y person;<br><br>(e) rhoddai atwrneiaeth arhosol dros y person. | 17 |

| | |
|---|---|
| (4) Caiff arolygydd, at ddibenion cynnal arolygiad, gynnal archwiliad preifat o berson y mae'r darparwr gwasanaeth yn darparu (neu wedi darparu) gofal a chymorth iddo—<br><br>(a) os yw'r arolygydd yn ymarferydd meddygol cofrestredig neu'n nyrs gofrestredig,<br><br>(b) os yw'r arolygydd yn meddwl bod yr archwiliad yn angenrheidiol neu'n hwylus at ddibenion asesu effaith unrhyw ofal a chymorth o'r fath ar lesiant y person, ac<br><br>(c) os yw'r person yn cydsynio i'r archwiliad.<br><br>(5) At ddibenion is-adrannau (1) a (4), mae cyfweliad neu archwiliad i'w drin fel pe bai wedi ei gynnal yn breifat er gwaethaf presenoldeb trydydd parti—<br><br>(a) os yw'r person y cyfwelir ag ef neu y cynhelir archwiliad ohono yn dymuno i'r trydydd parti fod yn bresennol ac nad yw'r arolygydd yn gwrthwynebu, neu<br><br>(b) os yw'r arolygydd yn dymuno i'r trydydd parti fod yn bresennol a bod y person y cyfwelir ag ef neu y cynhelir archwiliad ohono yn cydsynio.<br><br>(6) Pan fo arolygydd yn cynnal cyfweliad neu archwiliad o dan yr adran hon, rhaid i'r arolygydd, os gofynnir iddo wneud hynny gan—<br><br>(a) y person y cyfwelir ag ef neu y cynhelir archwiliad ohono, neu<br><br>(b) unigolyn sy'n dod gyda'r person hwnnw,<br><br>gyflwyno dogfen sy'n dangos awdurdodiad yr arolygydd o dan adran 33 ac, yn achos archwiliad, ddogfen sy'n dangos bod yr arolygydd yn ymarferydd meddygol cofrestredig neu'n nyrs gofrestredig.<br><br>(7) Yn yr adran hon—<br><br>mae i "cyfrifoldeb rhiant" yr ystyr a roddir i "parental responsibility" gan adran 3 o Ddeddf Plant 1989 (p.41); | |

| | |
|---|---|
| mae i "gofalwr" ("carer") yr ystyr a roddir gan adran 3 o Ddeddf 2014;<br><br>ystyr "perthynas" ("relative"), mewn perthynas â pherson, yw rhiant, tad-cu/taid, mam-gu/nain, plentyn, ŵyr, wyres, brawd, hanner brawd, chwaer, hanner chwaer, ewythr, modryb, nai neu nith y person hwnnw (gan gynnwys unrhyw berson sydd yn y berthynas honno neu sydd wedi bod yn y berthynas honno yn rhinwedd priodas neu bartneriaeth sifil neu berthynas deuluol barhaus);<br><br>ystyr "plentyn" ("child") yw person sydd o dan 18 oed;<br><br>mae i "rhoddai atwrneiaeth arhosol" yr un ystyr â "donee of a lasting power of attorney" yn Rhan 1 o Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005 (p.9). | |
| | |
| **36 Adroddiadau arolygu**<br><br>(1) Cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl i arolygiad gael ei gynnal, rhaid i Weinidogion Cymru lunio adroddiad ar yr arolygiad ac anfon copi ohono at y darparwr gwasanaeth.<br><br>(2) Rhaid i adroddiad, i'r graddau a ystyrir yn gymesur gan Weinidogion Cymru, gynnwys—<br><br>(a) asesiad o safon unrhyw ofal a chymorth a ddarperir (neu a oedd wedi eu darparu) gan y darparwr gwasanaeth, wedi ei mesur mewn perthynas ag unrhyw ofynion a osodir gan reoliadau o dan adran 27(1) o ran safon y gofal a'r cymorth sydd i'w darparu,<br><br>(b) asesiad o effaith unrhyw ofal a chymorth o'r fath ar lesiant personau y darperir (neu y darparwyd) y gofal a'r cymorth iddynt,<br><br>(c) asesiad o drefniadaeth a chydgysylltiad gwasanaethau rheoleiddiedig a ddarperir (neu a oedd wedi eu darparu) gan y darparwr gwasanaeth, a<br><br>(d) os gwneir rheoliadau o dan adran 37, y radd sydd wedi ei rhoi i'r darparwr gwasanaeth. | 17 |

| | |
|---|---|
| (3) Rhaid i Weinidogion Cymru—<br><br>(a) cyhoeddi pob adroddiad a lunnir o dan is-adran (1);<br><br>(b) sicrhau bod copïau yn cael eu rhoi ar gael i'w harolygu yn y mannau ac yn y modd sy'n briodol ym marn Gweinidogion Cymru;<br><br>(c) anfon copi o adroddiad a lunnir o dan is-adran (1) at unrhyw berson sy'n gofyn am gopi.<br><br><u>(3A) Ond nid yw gofyniad yn is-adran (3) yn gymwys pan fo Gweinidogion Cymru yn ystyried y byddai cyflawni'r gofyniad yn amhriodol gan roi sylw i fudd pennaf person y mae ei ofal a'i gymorth wedi eu hasesu yn yr adroddiad.</u> | |
| | |
| **38 Cofrestr o ddarparwyr gwasanaethau**<br><br>(1) Rhaid i Weinidogion Cymru gynnal cofrestr o ddarparwyr gwasanaethau.<br><br>(2) Rhaid i gofnod yn y gofrestr mewn cysylltiad â darparwr gwasanaeth ddangos yr wybodaeth a ganlyn—<br><br>(a) y gwasanaethau rheoleiddiedig y mae'r darparwr gwasanaeth wedi ei gofrestru i'w darparu;<br><br>(b) y mannau y mae'r darparwr wedi ei gofrestru i ddarparu'r gwasanaethau hynny ynddynt, ohonynt neu mewn perthynas â hwy;<br><br>(c) enw'r unigolyn cyfrifol sydd wedi ei gofrestru mewn cysylltiad â phob man o'r fath;<br><br>(d) y dyddiad y cymerodd cofrestriad y darparwr effaith mewn cysylltiad â phob gwasanaeth rheoleiddiedig o'r fath a phob man o'r fath;<br><br>(e) manylion unrhyw amodau eraill a osodir ar gofrestriad y darparwr gwasanaeth;<br><br>(f) crynodeb o unrhyw adroddiad arolygu sy'n ymwneud â'r darparwr gwasanaeth sydd wedi ei gyhoeddi o dan adran 36(3)(a); | 9 |

| | |
|---|---|
| (g) unrhyw wybodaeth arall a ragnodir.<br><br>(2A) Yn achos cofnod yn y gofrestr mewn cysylltiad â darparwr—<br><br>(a) sydd wedi ei gofrestru mewn cysylltiad â gwasanaeth plant o dan gyfyngiad, a<br>(b) sy'n ddarostyngedig i'r gofyniad yn adran 6A(1),<br><br>rhaid i'r cofnod hefyd ddangos bod y darparwr yn bodloni'r gofyniad hwnnw.<br><br>(2B) Gweler hefyd Atodlen 1A, mewn cysylltiad â chofrestriad darparwr gwasanaeth plant o dan gyfyngiad nad yw'n ddarostyngedig i'r gofyniad yn adran 6A(1) yn ystod y cyfnod trosiannol a ddiffinnir yn yr Atodlen honno.<br><br>(3) Rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi'r gofrestr a'i rhoi ar gael i'r cyhoedd edrych arni yn rhad ac am ddim, yn y modd, ac ar yr adegau, sy'n briodol yn eu barn hwy (ond gweler is-adran (5)(a)).<br><br>(4) Rhaid i Weinidogion Cymru gydymffurfio ag unrhyw gais rhesymol a wneir gan berson i gael copi o'r gofrestr neu ddarn ohoni (ond gweler is-adran (5)(b)).<br><br>(5) Caiff Gweinidogion Cymru—<br><br>(a) hepgor gwybodaeth ragnodedig o'r gofrestr a gyhoeddwyd mewn amgylchiadau rhagnodedig;<br><br>(b) gwrthod cydymffurfio â chais a wneir o dan is-adran (4) mewn amgylchiadau rhagnodedig. | |
| | |
| **41 Ymgysylltu â'r cyhoedd**<br><br>(1) Rhaid i Weinidogion Cymru—<br><br>(a) rhoi gwybodaeth am arfer eu swyddogaethau rheoleiddiol ar gael ar gyfer y cyhoedd, a | Atodlen 1, paragraff 5 |

| | |
|---|---|
| (b) llunio a chyhoeddi datganiad am eu polisi mewn cysylltiad â chynnwys y cyhoedd wrth arfer y swyddogaethau hynny (pa un ai drwy ymgynghoriad neu drwy ddulliau eraill).<br><br>(2) O ran Gweinidogion Cymru—<br><br>(a) cânt ddiwygio datganiad polisi a rhaid iddynt gyhoeddi’r datganiad diwygiedig, neu<br><br>(b) cânt gyhoeddi datganiad polisi newydd.<br><br>(3) Rhaid i ddatganiad polisi (neu ddatganiad diwygiedig), yn benodol, ymdrin—<br><br>(a) â chynnwys y cyhoedd mewn arolygiadau a gynhelir o dan Bennod 3, a<br><br>(b) â chynnwys gofalwyr (o fewn ystyr adran 3 o Ddeddf 2014) yn yr arferiad o swyddogaethau rheoleiddiol Gweinidogion Cymru.<br><br>(4) Rhaid i Weinidogion Cymru osod copi o ddatganiad polisi a gyhoeddwyd (neu ddatganiad diwygiedig) gerbron ~~Cynulliad Cenedlaethol Cymru~~ Senedd Cymru.<br><br>(5) Rhaid i Weinidogion Cymru roi sylw i’r datganiad polisi diweddaraf a gyhoeddwyd o dan yr adran hon wrth arfer eu swyddogaethau rheoleiddiol. | |
| | |
| **42 Adroddiad blynyddol ar swyddogaethau rheoleiddiol**<br><br>(1) Cyn gynted ag y bo’n rhesymol ymarferol ar ôl diwedd blwyddyn ariannol, rhaid i Weinidogion Cymru lunio a chyhoeddi adroddiad blynyddol ynghylch arfer eu swyddogaethau rheoleiddiol mewn cysylltiad â’r flwyddyn ariannol honno.<br><br>(2) Rhaid i’r adroddiad blynyddol gynnwys manylion am y canlynol— | Atodlen 1, paragraff 5 |

| | |
|---|---|
| (a) sut y mae Gweinidogion Cymru wedi arfer y swyddogaethau hynny yn ystod y flwyddyn,<br><br>(b) y graddau y maent, wrth arfer y swyddogaethau hynny—<br><br>(i) wedi cyflawni'r amcanion y cyfeirir atynt yn adran 4, a<br><br>(ii) wedi rhoi sylw i'r datganiad polisi diweddaraf a gyhoeddwyd o dan adran 41, ac<br><br>(c) sut yr effeithiodd y dyletswyddau a grybwyllir yn is-adran (4) ar arfer y swyddogaethau hynny yn ystod y flwyddyn.<br><br>(3) Caiff yr adroddiad blynyddol gynnwys unrhyw wybodaeth arall sy'n briodol ym marn Gweinidogion Cymru.<br><br>(4) Y dyletswyddau y cyfeirir atynt yn is-adran (2)(c) yw dyletswyddau Gweinidogion Cymru o dan—<br><br>(a) adran 149 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (p.15) (dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus),<br><br>(b) adran 1(1) o Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 (mccc 2) (dyletswydd i roi sylw dyledus i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn),<br><br>(c) adran 7(1) o Ddeddf 2014 (dyletswydd i roi sylw dyladwy i Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn wrth arfer swyddogaethau sy'n ymwneud â gwasanaethau cymdeithasol i oedolion), a<br><br>(d) Rhan 4 o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 (mccc 1) (safonau).<br><br>(5) Rhaid i Weinidogion Cymru osod copi o adroddiad blynyddol a gyhoeddwyd gerbron ~~Cynulliad Cenedlaethol Cymru~~ <u>Senedd Cymru</u>. | |
| | |
| **<u>45 Methiant gan ddarparwr gwasanaeth i gydymffurfio â gofynion mewn rheoliadau</u>** | 4(4) |

| | |
|---|---|
| Caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau ddarparu ei bod yn drosedd i ddarparwr gwasanaeth fethu â chydymffurfio â darpariaeth benodedig mewn rheoliadau a wneir o dan adran 27 neu 37(2)(a) neu o dan baragraff 3(1) o Atodlen 1A. | |
| | |
| **48 Methiant i gyflwyno neu gyhoeddi datganiad blynyddol**<br><br>Mae'n drosedd i ddarparwr gwasanaeth ~~fethu â chyflwyno datganiad blynyddol i Weinidogion Cymru o fewn y terfyn amser a ragnodir o dan adran 10(4)~~ —<br><br>(a) methu â chyflwyno datganiad blynyddol i Weinidogion Cymru o fewn y terfyn amser a ragnodir o dan adran 10(4), neu<br><br>(b) methu â chyhoeddi datganiad blynyddol ar ei wefan o fewn y terfyn amser a ragnodir o dan adran 10(4A). | 14(3) |
| **50 Troseddau sy'n gysylltiedig ag arolygiadau ac ymchwiliadau**<br>(1) Mae'n drosedd i berson—<br>(a) mynd ati'n fwriadol i rwystro arolygydd rhag arfer unrhyw swyddogaeth a roddir i arolygydd gan Bennod 3, neu<br>(b) methu â chydymffurfio ag unrhyw ofyniad a osodir ar y person gan arolygydd sy'n arfer swyddogaeth o'r fath.<br>(2) Mae'n amddiffyniad i berson sydd wedi ei gyhuddo o drosedd o dan is-adran (1)(b) ddangos bod ganddo esgus rhesymol dros fethu â chydymffurfio â'r gofyniad. | Atodlen 1, paragraff 6(7) |
| **52 Hysbysiadau cosb**<br>(1)Caiff Gweinidogion Cymru roi hysbysiad cosb i berson os ydynt wedi eu bodloni bod y person wedi cyflawni trosedd ragnodedig.<br>(2)Dim ond troseddau o dan adrannau 47, 48 neu 49 neu o dan reoliadau a wneir o dan adran 45 neu 46 y caniateir iddynt gael eu rhagnodi felly.<br>(3)Mae hysbysiad cosb yn hysbysiad sy'n cynnig y cyfle i'r person i ryddhau unrhyw atebolrwydd am gollfarn am y drosedd y mae'r hysbysiad yn ymwneud ag ef drwy dalu i Weinidogion Cymru swm a bennir yn yr hysbysiad yn unol â thelerau'r hysbysiad.<br>(4)Pan fo person yn cael hysbysiad cosb, ni chaniateir i achos am y drosedd y mae'r hysbysiad yn ymwneud â hi | |

| | |
|---|---|
| gael ei ddwyn cyn diwedd cyfnod a bennir yn yr hysbysiad.<br>(5)Os yw person sy'n cael hysbysiad cosb yn talu'r swm a bennir yn yr hysbysiad yn unol â thelerau'r hysbysiad, ni all y person gael ei gollfarnu o'r drosedd y mae'r hysbysiad yn ymwneud â hi.<br>(6)Caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau wneud darpariaeth—<br>(a)o ran ffurf a chynnwys hysbysiadau cosb;<br>(b)o ran y swm sy'n daladwy o dan hysbysiad cosb a'r amser y mae'r swm i gael ei dalu ynddo (gan gynnwys darpariaeth sy'n caniatáu i swm gwahanol fod yn daladwy mewn perthynas â throseddau gwahanol ac yn unol â'r amser erbyn pryd y caiff y swm ei dalu);<br>(c)sy'n penderfynu ar y ffyrdd y caniateir i swm gael ei dalu ynddynt;<br>(d)o ran y cofnodion sydd i'w cadw mewn perthynas â hysbysiadau cosb;<br>(e)ynghylch yr amgylchiadau pan ganiateir i hysbysiad cosb gael ei dynnu'n ôl, gan gynnwys darpariaeth ynghylch—<br>(i)ad-dalu unrhyw swm a delir cyn y tynnir hysbysiad yn ôl, a<br>(ii)yr amgylchiadau pan na chaniateir i achos am drosedd gael ei ddwyn er bod hysbysiad wedi ei dynnu'n ôl.<br>(7)Ni chaiff rheoliadau o dan is-adran (6)(b) wneud darpariaeth i swm fod yn daladwy o dan hysbysiad cosb sy'n fwy na dwywaith a hanner lefel 4 ar y raddfa safonol. | |
| | |
| **64 Dehongli'r Rhan hon**<br><br>(1) Yn y Rhan hon—<br>mae i "cymorth" ("support") yr ystyr a roddir gan adran 3(1)(d);<br>mae i "darparwr gwasanaeth" ("service provider") yr ystyr a roddir gan adran 3(1)(c);<br>mae i "gofal" ("care") yr ystyr a roddir gan adran 3(1)(a);<br>mae "gofal a chymorth" ("care and support") i'w ddehongli (ac eithrio yn adran 63(3)(a)(i)) yn unol ag adran 3(2);<br><u>mae i "gwasanaeth plant o dan gyfyngiad" ("restricted children's service") yr ystyr a roddir gan adran 2A;</u><br>mae i "gwasanaeth rheoleiddiedig" ("regulated service") yr ystyr a roddir gan adran 2(1); | Atodlen 1 paragraff 2(2) |

| | |
|---|---|
| mae i "swyddogaethau rheoleiddiol" ("regulatory functions"), mewn perthynas â Gweinidogion Cymru, yr ystyr a roddir gan adran 3(1)(b);<br>mae i "unigolyn cyfrifol" ("responsible individual") yr ystyr a roddir gan adran 21(1).<br><br>(2) Gweler adran 189 sy'n gwneud darpariaeth ar gyfer dehongli'r geiriau a'r ymadroddion sy'n gymwys i'r Ddeddf gyfan. | |
| | |
| **79 Ystyr "gweithiwr gofal cymdeithasol" etc.**<br>(1) Yn Rhannau 3 i 8 o'r Ddeddf hon ystyr "gweithiwr gofal cymdeithasol" yw person—<br>(a)sy'n ymgymryd â gwaith cymdeithasol perthnasol (y cyfeirir ato yn y Rhannau hynny fel "gweithiwr cymdeithasol");<br>(b)sy'n rheoli man y darperir gwasanaeth rheoleiddiedig ynddo neu ohono [F1(y cyfeirir ato yn y Rhannau hynny fel "rheolwr gofal cymdeithasol")] ;<br>(c)sydd, yn ystod ei gyflogaeth gyda darparwr gwasanaeth, yn darparu gofal a chymorth i unrhyw berson yng Nghymru mewn cysylltiad â gwasanaeth rheoleiddiedig a ddarperir gan y darparwr hwnnw;<br>(d)sydd, o dan gontract am wasanaethau, yn darparu gofal a chymorth i unrhyw berson yng Nghymru mewn cysylltiad â gwasanaeth rheoleiddiedig a ddarperir gan ddarparwr gwasanaeth.<br>(2)Caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau—<br>(a)eithrio personau o ddisgrifiad penodedig o'r diffiniad o weithiwr gofal cymdeithasol yn is-adran (1);<br>(b)darparu bod personau o unrhyw un neu ragor o'r disgrifiadau yn is-adran (3), neu gategorïau o berson sy'n dod o fewn unrhyw un neu ragor o'r disgrifiadau hynny, i'w trin fel gweithwyr gofal cymdeithasol.<br>(3)Y disgrifiadau o bersonau yw—<br>(a)person sydd wedi ei ddynodi o dan Bennod 2 o Ran 1 (cofrestru etc. darparwyr gwasanaethau) yn unigolyn cyfrifol mewn cysylltiad â man y mae gwasanaeth rheoleiddiedig yn cael ei ddarparu ynddo, ohono neu mewn perthynas ag ef; | 18(2) |

| | |
|---|---|
| (b)person sy'n ymgymryd â gwaith at ddibenion swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol awdurdod lleol (o fewn ystyr Deddf 2014), neu â'r ddarpariaeth o wasanaethau sy'n debyg i wasanaethau y caniateir iddynt gael, neu y mae rhaid iddynt gael, eu darparu gan awdurdodau lleol wrth arfer y swyddogaethau hynny; | |
| (c)person sy'n darparu gofal a chymorth a fyddai, oni bai am baragraff 8(2)(a) o Atodlen 1, yn gyfystyr â darparu gwasanaeth cymorth cartref; | |
| (d)person sydd wedi ei gofrestru o dan Ran 2 o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 (mccc 1) fel— | |
| (i)gwarchodwr plant, neu | |
| (ii)darparwr gofal dydd i blant; | |
| (e) person sy'n rheoli ymgymeriad, neu sydd wedi ei gyflogi mewn ymgymeriad, sy'n cynnal busnes cyflogi (o fewn ystyr "employment business" yn adran 13 o Ddeddf Asiantaethau Cyflogi 1973 (p.35)) sy'n cyflenwi personau i ddarparu ~~gofal a chymorth i unrhyw berson yng Nghymru~~ — | |
| (i) gofal a chymorth; | |
| (ii) gofal plant, | |
| i unrhyw berson yng Nghymru; | |
| (f) person sy'n rheoli ymgymeriad, neu sydd wedi ei gyflogi mewn ymgymeriad, sy'n cynnal asiantaeth gyflogi (o fewn ystyr "employment agency" yn yr adran a grybwyllir ym mharagraff (e)) sy'n darparu gwasanaethau at ddiben cyflenwi personau i ddarparu ~~gofal a chymorth i unrhyw berson yng Nghymru~~ — | |
| (i) gofal a chymorth; | |
| (ii) gofal plant, | |
| i unrhyw berson yng Nghymru; | |
| (g) person sy'n ymgymryd â chwrs a gymeradwyir gan GCC o dan adran 114 (cyrsiau ar gyfer personau sy'n weithwyr gofal cymdeithasol neu sy'n dymuno dod yn weithiwr gofal cymdeithasol); | |
| (h) arolygydd sy'n cynnal arolygiadau o wasanaethau rheoleiddiedig ar ran Gweinidogion Cymru o dan Bennod 3 o Ran 1 o'r Ddeddf hon (gwybodaeth ac arolygiadau); | |

| | |
|---|---|
| (i) arolygydd sy'n cynnal arolygiadau o dan adran 161 o Ddeddf 2014 (arolygiadau mewn cysylltiad â swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol);<br><br>(j) person a gyflogir mewn cysylltiad â chyflawni swyddogaethau Gweinidogion Cymru o dan adran 80 o Ddeddf Plant 1989 (p.41) (arolygu cartrefi plant etc.);<br><br>(k) staff Llywodraeth Cymru sy'n arolygu mangreoedd o dan—<br><br>(i) adran 87 o Ddeddf Plant 1989 (lles plant sydd wedi eu lletya mewn ysgolion annibynnol a cholegau), neu<br><br>(ii) adran 40 o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 (arolygu gwarchod plant a gofal dydd yng Nghymru);<br><br>(l) person sy'n rheoli staff a grybwyllir ym mharagraff (j) neu (k).;<br><br>(m) person a gyflogir i ddarparu gofal plant gan berson sydd wedi ei gofrestru o dan Ran 2 o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 (mccc 1) fel darparwr gofal dydd i blant<br><br>(3A) Yn is-adran (3), ystyr "gofal plant" yw gofal a goruchwyliaeth a ddarperir ar gyfer plant.<br><br>(4) At ddibenion Rhannau 3 i 8 o'r Ddeddf hon ystyr "gwaith cymdeithasol perthnasol" yw gwaith cymdeithasol sy'n ofynnol mewn cysylltiad ag unrhyw wasanaethau iechyd, gwasanaethau addysg neu wasanaethau cymdeithasol a ddarperir yng Nghymru.<br><br>(5) Gweler adran 2 am ystyr "gwasanaeth rheoleiddiedig" ac adran 3 am ystyr "darparwr gwasanaeth" a "gofal a chymorth". | |
| | |
| **144 Gorchmynion interim**<br><br>(1) Caiff panel mewn achos gorchymyn interim wneud gorchymyn interim mewn perthynas â pherson cofrestredig.<br><br>(2) Caiff panel gorchmynion interim wneud gorchymyn interim pa un a yw'r mater wedi ei atgyfeirio i banel addasrwydd i ymarfer ai peidio.<br><br>(3) Pan fo mater wedi ei atgyfeirio i banel addasrwydd i ymarfer, rhaid i unrhyw orchymyn interim gael ei wneud cyn i'r panel addasrwydd i ymarfer waredu'r mater yn unol ag unrhyw un neu ragor o adrannau 135 i 138. | Atodlen 1, paragraff 5 |

| | |
|---|---|
| (4) Y ddau fath o orchymyn interim yw—<br><br>(a) gorchymyn atal dros dro interim, sef gorchymyn sy'n atal cofrestriad y person cofrestredig dros dro;<br><br>(b) gorchymyn cofrestru amodol interim, sef gorchymyn sy'n gosod amodau ar gofrestriad y person cofrestredig.<br><br>(5) Ni chaiff panel wneud gorchymyn interim ond os yw wedi ei fodloni bod y gorchymyn—<br><br>(a) yn angenrheidiol ar gyfer amddiffyn y cyhoedd,<br><br>(b) fel arall er budd y cyhoedd, neu<br><br>(c) er budd y person cofrestredig.<br><br>(6) O ran gorchymyn interim—<br><br>(a) mae'n cymryd effaith ar unwaith, a<br><br>(b) ni chaniateir iddo gael effaith am gyfnod sy'n hwy na 18 mis (oni bai ei fod yn cael ei estyn~~; gweler adran 148 (estyn gorchymyn interim gan y tribiwnlys)~~ gan y tribiwnlys o dan adran 148).<br><br>(7) Pan fo gorchymyn interim yn cael ei wneud mewn cysylltiad â pherson cofrestredig, rhaid i GCC roi hysbysiad i'r person—<br><br>(a) o'r penderfyniad,<br><br>(b) o'r rhesymau dros y penderfyniad, ac<br><br>(c) o'r hawl i apelio o dan adran 145 yn erbyn y penderfyniad. | |
| | |
| **146 Adolygiadau o orchmynion interim: amseriad**<br><br>(1) Rhaid i banel adolygu'n gyntaf orchymyn interim a wneir o dan adran 144 o fewn chwe mis sy'n dechrau â'r dyddiad y gwnaed y gorchymyn.<br><br>(2) Pan fo gorchymyn interim a wneir o dan adran 144 wedi ei amrywio neu ei amnewid gan y tribiwnlys ar apêl o dan adran 145, mae'r cyfeiriad yn is-adran (1) at y dyddiad y gwnaed y | Atodlen 1, paragraff 5 |

| | |
|---|---|
| gorchymyn i’w ddarllen fel cyfeiriad at ddyddiad penderfyniad y tribiwnlys.<br><br>(3) Mae is-adran (4) yn nodi amseriad yr adolygiad cyntaf o orchymyn interim ar ôl i’r tribiwnlys ei estyn neu ei estyn ymhellach (gweler adran 148), ac ystyr “penderfyniad y tribiwnlys” yw’r penderfyniad i estyn y gorchymyn neu i estyn y gorchymyn ymhellach (yn ôl y digwydd).<br><br>(4) Rhaid i banel adolygu’r gorchymyn interim—<br><br>(a) os nad oedd unrhyw adolygiad o’r gorchymyn wedi digwydd cyn penderfyniad y tribiwnlys, o fewn chwe mis sy’n dechrau â dyddiad penderfyniad y tribiwnlys, neu<br><br>(b) os oedd adolygiad o’r gorchymyn wedi digwydd cyn penderfyniad y tribiwnlys, o fewn tri mis sy’n dechrau â’r dyddiad hwnnw.<br><br>(5) Mae is-adran (6) yn nodi amseriad yr adolygiad cyntaf o orchymyn cofrestru amodol interim amnewidiol neu orchymyn atal dros dro interim amnewidiol yn sgil adolygiad (“y gorchymyn amnewidiol”) (gweler adran 147(1)(c) a (d)).<br><br>(6) Rhaid i banel adolygu’r gorchymyn amnewidiol—<br><br>(a) os nad oedd unrhyw adolygiad o’r gorchymyn sydd wedi ei amnewid wedi digwydd cyn yr adolygiad a arweiniodd at wneud y gorchymyn amnewidiol, o fewn chwe mis sy’n dechrau â’r dyddiad y gwnaed y gorchymyn amnewidiol, neu<br><br>(b) os oedd adolygiad o’r gorchymyn sydd wedi ei amnewid wedi digwydd cyn yr adolygiad a arweiniodd at wneud y gorchymyn amnewidiol, o fewn tri mis sy’n dechrau â’r dyddiad y gwnaed y gorchymyn amnewidiol.<br><br>(7) Ar ôl yr adolygiad cyntaf o orchymyn interim o dan is-adran (1), (4) neu (6), rhaid i banel adolygu’r gorchymyn (am gyhyd ag y mae mewn grym)—<br><br>(a) o fewn chwe mis sy’n dechrau â dyddiad penderfyniad yr adolygiad diweddaraf, neu | |

| | |
|---|---|
| (b) os yw'r person cofrestredig yn gofyn am adolygiad cynharach ar ôl diwedd y cyfnod o dri mis sy'n dechrau â'r dyddiad hwnnw, cyn gynted ag y bo'n ymarferol.<br><br>(8) Caiff panel adolygu gorchymyn interim ar unrhyw adeg os daw tystiolaeth newydd ar gael sy'n berthnasol i'r achos.<br><br>(9) Mewn is-adrannau (7) ac (8), mae cyfeiriad at orchymyn interim yn cynnwys cyfeiriad at—<br><br>(a) gorchymyn interim fel y'i hestynnir neu fel y'i hestynnir ymhellach ~~gan y tribiwnlys~~,<br><br>(b) gorchymyn interim fel y'i hamrywir yn sgil adolygiad (gweler adran 147(1)(b)), ac<br><br>(c) gorchymyn cofrestru amodol interim amnewidiol neu orchymyn atal dros dro interim amnewidiol a wneir yn sgil adolygiad. | |
| | |
| **147 Adolygiadau o orchymyn interim: penderfyniadau posibl**<br><br>(1) Ar ôl i banel gwblhau adolygiad o orchymyn interim, caiff y panel—<br><br>(a) dirymu'r gorchymyn interim;<br><br>(b) yn achos gorchymyn cofrestru amodol interim, dirymu neu amrywio unrhyw amod;<br><br>(c) rhoi gorchymyn cofrestru amodol interim yn lle gorchymyn atal dros dro interim;<br><br>(d) rhoi gorchymyn atal dros dro interim yn lle gorchymyn cofrestru amodol interim;<br><br>(e) peidio â gwneud unrhyw newidiadau i'r gorchymyn interim.<u>;</u><br><br><u>(f) yn achos gorchymyn interim nad yw wedi cael ei estyn gan y tribiwnlys o dan adran 148, estyn y gorchymyn interim.</u> | 19(2) |

| | |
|---|---|
| (2) Ni chaiff panel wneud penderfyniad a bennir yn is-adran (1)(b), (c), (d) neu (e) ond os yw'r panel wedi ei fodloni bod y penderfyniad—<br><br>(a) yn angenrheidiol ar gyfer amddiffyn y cyhoedd,<br><br>(b) fel arall er budd y cyhoedd, neu<br><br>(c) er budd y person cofrestredig.<br><br>(2A) Ni chaiff panel wneud penderfyniad a bennir yn is-adran (1)(f) ond—<br><br>(a) os yw'r panel wedi ei fodloni bod y penderfyniad yn bodloni un neu ragor o'r amodau y cyfeirir atynt ym mharagraffau (a) i (c) o is-adran (2), a<br><br>(b) os nad yw'r estyniad yn arwain at y gorchymyn interim yn cael effaith am gyfnod o fwy na 18 mis.<br><br>(3) Mae gorchymyn amnewidiol a wneir o dan is-adran (1)(c) neu (d) yn cael effaith am weddill y cyfnod yr oedd y gorchymyn y mae'n cymryd ei le yn cael effaith ar ei gyfer (oni bai ei fod yn cael ei estyn gan banel o dan is-adran (1)(f) neu gan y tribiwnlys o dan adran 148).<br><br>(4) Yn yr adran hon—<br><br>(a) mae cyfeiriad at orchymyn interim yn cynnwys cyfeiriad at—<br><br>(i) gorchymyn interim fel y'i hestynnir neu fel y'i hestynnir ymhellach gan y tribiwnlys;<br><br>(ia) gorchymyn interim fel y'i hestynnir neu fel y'i hestynnir ymhellach gan banel;<br><br>(ii) gorchymyn interim fel y'i hamrywir o dan is-adran (1)(b);<br><br>(iii)gorchymyn cofrestru amodol interim amnewidiol neu orchymyn atal dros dro interim amnewidiol a wneir o dan is-adran (1)(c) neu (d); | |

| | |
|---|---|
| (b) mae cyfeiriad at orchymyn cofrestru amodol interim neu orchymyn atal dros dro interim yn cynnwys cyfeiriad at—<br><br>(i) gorchymyn interim o'r math hwnnw fel y'i hestynnir neu fel y'i hestynnir ymhellach gan y tribiwnlys;<br><br>(ii) yn achos gorchymyn cofrestru amodol interim, gorchymyn interim fel y'i hamrywir o dan is-adran (1)(b);<br><br>(iii) gorchymyn amnewidiol o'r math hwnnw a wneir o dan is-adran (1)(c) neu (d).<br><br>(5) Ond nid yw is-adran (4)(a)(i) a (b)(i) yn gymwys mewn perthynas â'r cyfeiriad at orchymyn interim yn is-adran (1)(f). | |
| | |
| **149 Dirymu gorchmynion interim**<br><br>(1) Mae'r adran hon yn gymwys pan—<br><br>(a) bo panel addasrwydd i ymarfer yn gwaredu mater mewn cysylltiad â pherson cofrestredig mewn unrhyw un neu ragor o'r ffyrdd a nodir yn adrannau 135 i 138, a<br><br>(b) ar yr adeg honno, fo'r person cofrestredig yn ddarostyngedig i orchymyn interim (gweler adran 144).<br><br>(2) Rhaid i'r panel addasrwydd i ymarfer, ar yr un pryd ag y mae'n gwaredu'r mater, ddirymu'r gorchymyn interim.<br><br>(3) Mae'r dirymiad o'r gorchymyn interim yn cymryd effaith ar y dyddiad y mae'r panel yn gwaredu'r mater fel y'i disgrifir yn is-adran (1)(a).<br><br>(4) Yn yr adran hon, mae cyfeiriad at orchymyn interim yn cynnwys cyfeiriad at y canlynol (gweler adrannau 147 a 148)—<br>(a) gorchymyn interim fel y'i hestynnir neu fel y'i hestynnir ymhellach ~~gan y tribiwnlys~~ (pa un ai gan banel neu gan y tribiwnlys);<br><br>(b) gorchymyn interim fel y'i hamrywir yn sgil adolygiad; | Atodlen 1, paragraff 5 |

| | |
|---|---|
| (c) gorchymyn cofrestru amodol interim amnewidiol neu orchymyn atal dros dro interim amnewidiol a wneir yn sgil adolygiad. | |
| | |
| **161 Cyhoeddi penderfyniadau addasrwydd i ymarfer**<br><br>(1) Rhaid i GCC gyhoeddi penderfyniad panel addasrwydd i ymarfer i wneud gwarediad cydsyniol o fater o dan adran 135 neu 136.<br><br>(2) Rhaid i GCC gyhoeddi penderfyniad panel addasrwydd i ymarfer i waredu achos o dan adran 137 (gwarediad yn dilyn canfyddiad o ddim amhariad ar addasrwydd i ymarfer).<br><br>(3) Rhaid i GCC gyhoeddi penderfyniad panel addasrwydd i ymarfer i waredu achos o dan adran 138 (gwarediad yn dilyn canfyddiad o amhariad ar addasrwydd i ymarfer).<br><br>(4) Rhaid i GCC gyhoeddi penderfyniad panel addasrwydd i ymarfer i waredu achosion adolygu mewn unrhyw un neu ragor o'r ffyrdd a grybwyllir yn adrannau 152 i 155.<br><br>(5) Rhaid i GCC gyhoeddi penderfyniad panel addasrwydd i ymarfer i wneud gorchymyn effaith ar unwaith o dan adran 140.<br><br>(6) Rhaid i GCC gyhoeddi'r penderfyniadau a ganlyn gan banel gorchmynion interim neu banel addasrwydd i ymarfer—<br><br>(a) penderfyniad i wneud gorchymyn interim o dan adran 144;<br>(b) penderfyniad i gadarnhau ~~neu amrywio~~ , amrywio neu estyn gorchymyn interim yn sgil adolygiad o dan adran 147.<br><br>(7) Rhaid i GCC gyhoeddi unrhyw benderfyniad y mae'n ei wneud—<br><br>(a) i ddyroddi rhybudd o dan adran 126(3)(c) (pwerau GCC pan na fo'r achos yn cael ei atgyfeirio i banel addasrwydd i ymarfer),<br><br>(b) i gytuno ar ymgymeriadau o dan adran 126(3)(d), neu | Atodlen 1, paragraff 5 |

| | |
|---|---|
| (c) i ganiatáu cais i ddileu cofnod o’r gofrestr drwy gytundeb o dan adran 126(3)(e).<br><br>(8) Mae is-adrannau (1) i (7) yn ddarostyngedig i is-adrannau (9) a (10).<br><br>(9) Nid yw’n ofynnol i GCC gyhoeddi unrhyw benderfyniad gan banel addasrwydd i ymarfer i beidio â chymryd unrhyw gamau pellach mewn cysylltiad â pherson cofrestredig o dan adran 137(2), 138(5), 152(8)(a), 153(9)(a), 154(8)(a) neu 155(10)(a); ond caiff wneud hynny.<br><br>(10) Rhaid i GCC beidio â chyhoeddi unrhyw wybodaeth am iechyd corfforol neu iechyd meddwl person. | |
| | |
| **163 Atal dros dro: atodol**<br><br>(1) Mae’r adran hon yn gymwys mewn cysylltiad â pherson sy’n ddarostyngedig—<br><br>(a) i orchymyn atal dros dro a wneir o dan adran 138(8) (gwarediadau gan banel addasrwydd i ymarfer: canfyddiad o amhariad);<br><br>(b) i orchymyn atal dros dro a wneir, a gadarnheir neu a amrywir yn sgil adolygiad o dan adran 152(8)(d), 153(9)(c) neu 154(6) neu (7);<br><br>(c) i orchymyn atal dros dro amhenodol a wneir neu a gadarnheir yn sgil adolygiad o dan adran 154(10) neu 155(9);<br><br>(d) i orchymyn atal dros dro interim a wneir, a gadarnheir ~~neu a amrywir~~ , a amrywir neu a estynnir o dan adran 144 neu 147.<br><br>(2) Mae’r person i’w drin at bob diben ac eithrio’r rhai a grybwyllir yn is-adran (3) fel pe na bai wedi ei gofrestru yn y gofrestr er gwaethaf y ffaith bod enw’r person yn parhau i ymddangos ynddi.<br><br>(3) Mae’r person i’w drin fel pe bai wedi ei gofrestru at ddiben— | Atodlen 1, paragraff 5 |

| | |
|---|---|
| (a) unrhyw achosion o dan y Rhan hon (gan gynnwys ystyriaeth ragarweiniol neu ymchwiliad o dan Bennod 2) sy'n ymwneud ag addasrwydd y person i ymarfer;<br><br>(b) cais a wneir o dan reolau o dan adran 92 i gofnod gael ei ddileu o ran o'r gofrestr drwy gytundeb;<br><br>(c) achosion o dan adran 94 (cofnodion sy'n seiliedig ar wybodaeth anwir neu gamarweiniol) sy'n ymwneud â chofnod mewn rhan o'r gofrestr. | |
| | |
| **186 Pŵer i wneud darpariaeth ganlyniadol etc.**<br><br>(1) Caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau wneud unrhyw ddarpariaeth ganlyniadol, gysylltiedig, drosiannol, ddarfodol neu arbed sy'n briodol yn eu barn hwy at ddibenion y Ddeddf hon neu mewn cysylltiad â hi.<br><br>(2) Caiff rheoliadau o dan yr adran hon ddiwygio, dirymu neu ddiddymu unrhyw ddeddfiad sydd wedi ei gynnwys mewn deddfwriaeth sylfaenol neu sydd wedi ei wneud odani.<br><br>(3) Mae'r pŵer i wneud rheoliadau o dan yr adran hon yn arferadwy drwy offeryn statudol.<br><br>(4) Ni chaniateir gwneud offeryn statudol sy'n cynnwys rheoliadau o dan yr adran hon sy'n diwygio neu'n diddymu deddfiad sydd wedi ei gynnwys mewn deddfwriaeth sylfaenol oni bai bod drafft o'r offeryn wedi ei osod gerbron ~~Cynulliad Cenedlaethol Cymru~~ Senedd Cymru a'i gymeradwyo ganddo drwy benderfyniad.<br><br>(5) Mae offeryn statudol sy'n cynnwys rheoliadau o dan yr adran hon nad yw is-adran (4) yn gymwys iddo yn ddarostyngedig i ddiddymiad yn unol â phenderfyniad gan ~~Gynulliad Cenedlaethol Cymru~~ Senedd Cymru.<br><br>(6) Yn yr adran hon, ystyr "deddfwriaeth sylfaenol" yw—<br><br>(a) Deddf Seneddol; | Atodlen 1, paragraff 5 |

| | |
|---|---|
| (b) Deddf neu Fesur gan ~~Gynulliad Cenedlaethol Cymru~~ Senedd Cymru (gan gynnwys y Ddeddf hon). | |
| | |
| **187 Rheoliadau o dan y Ddeddf hon**<br>(1) Mae pŵer i wneud rheoliadau o dan y Ddeddf hon—<br>(a) yn arferadwy drwy offeryn statudol;<br>(b) yn cynnwys pŵer i wneud darpariaeth wahanol at ddibenion gwahanol, ar gyfer achosion gwahanol ac ar gyfer ardaloedd gwahanol.<br>(2) Ni chaniateir gwneud offeryn statudol sy'n cynnwys rheoliadau a wneir o dan unrhyw un neu ragor o'r darpariaethau a ganlyn yn y Ddeddf hon oni bai bod drafft o'r offeryn sy'n cynnwys y rheoliadau wedi ei osod gerbron ~~Cynulliad Cenedlaethol Cymru~~ Senedd Cymru a'i gymeradwyo ganddo drwy benderfyniad—<br>(a) adran 2(1)(i) (rheoliadau sy'n pennu gwasanaethau gofal a chymorth eraill fel gwasanaethau rheoleiddiedig);<br>(b) adran 2(3) (rheoliadau sy'n rhagnodi pethau nad ydynt i'w trin fel gwasanaethau rheoleiddiedig);<br>(c) adran 3(3) (rheoliadau sy'n rhagnodi pethau nad ydynt i'w trin fel gofal a chymorth);<br>(ca) adran 6A(3)(b) (rheoliadau sy'n rhagnodi buddion cyhoeddus y mae rhaid i amcanion neu ddibenion person ymwneud yn anad dim â hwy);<br>(d) adran 9(9) (rheoliadau sy'n amrywio'r dystiolaeth sydd i'w hystyried wrth ddyfarnu a yw person yn berson addas a phriodol);<br>(e) adran 11(2) (rheoliadau sy'n rhagnodi terfyn amser y mae rhaid gwneud cais i ddynodi unigolyn cyfrifol amnewidiol ynddo);<br>(f) adran 27(1) (rheoliadau sy'n gosod gofynion ar ddarparwyr gwasanaethau);<br>(g) adran 28(1) (rheoliadau sy'n gosod gofynion ar unigolion cyfrifol);<br>(h) adran 37(1) (rheoliadau ynghylch graddau arolygu);<br>(i) adran 40(1) (rheoliadau ynghylch codi ffioedd); | Atodlen 1, paragraffau 2(3) a 5(8) |

| | |
|---|---|
| (j) adran 45 (rheoliadau sy'n creu troseddau am fethu â chydymffurfio â gofynion a osodir ar ddarparwyr gwasanaethau); | |
| (k) adran 46 (rheoliadau sy'n creu troseddau am fethu â chydymffurfio â gofynion a osodir ar unigolion cyfrifol); | |
| (l) adrannau 59(1) a (4) a 61(6) a (9) (rheoliadau ynghylch y gyfundrefn trosolwg o'r farchnad); | |
| (m) adran 79(2) (rheoliadau sy'n rhagnodi disgrifiadau o bersonau sydd i'w trin fel gweithwyr gofal cymdeithasol); | |
| (n) adran 80(1)(b) (rheoliadau sy'n rhagnodi disgrifiadau o weithiwr gofal cymdeithasol y mae rhaid i GCC gadw cofrestr mewn cysylltiad â hwy); | |
| (o) adran 111(2) (rheoliadau sy'n rhagnodi teitlau a ddiogelir ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol ac eithrio gweithwyr cymdeithasol); | |
| (p) adran 117 (diwygio ar ba seiliau y caniateir ystyried bod amhariad ar addasrwydd person cofrestredig i ymarfer); | |
| (q) adran 130 (trefniadau ar gyfer cyfryngu); | |
| (r) adran 136(2)(d) (personau y caniateir i ymgymeriadau gael eu datgelu iddynt gan GCC); | |
| (s) adran 142 (diwygio'r ffyrdd y caiff panel addasrwydd i ymarfer waredu materion); | |
| (t) adran 165 (dynodi gweithgareddau rheoleiddiedig etc. at ddibenion gorchmynion gwahardd o dan Ran 7); | |
| (u) adran 171(3) (creu troseddau mewn perthynas â chyflogi neu benodi personau sy'n ddarostyngedig i orchmynion gwahardd etc.); | |
| (v) adran 177(1)(h) (rheoliadau sy'n rhagnodi personau eraill yn awdurdodau perthnasol at ddibenion Rhan 9); | |
| (w) paragraff 7 o Atodlen 1 (rheoliadau sy'n pennu gwasanaethau penodol fel gwasanaethau eirioli rheoleiddiedig). | |
| (x) paragraffau 1(1)(b) a 3(1) o Atodlen 1A (rheoliadau mewn perthynas â'r cyfnod trosiannol ar gyfer gwasanaethau plant o dan gyfyngiad). | |
| (3) Mae unrhyw offeryn statudol arall sy'n cynnwys rheoliadau a wneir o dan y Ddeddf hon yn ddarostyngedig i ddiddymiad yn | |

| | |
|---|---|
| unol â phenderfyniad gan ~~Gynulliad Cenedlaethol Cymru~~ Senedd Cymru.<br>(4) Nid yw'r adran hon yn gymwys i reoliadau a wneir o dan adran 186. | |
| | |
| **ATODLEN 1 GWASANAETHAU RHEOLEIDDIEDIG: DIFFINIADAU**<br>*Gwasanaethau cartrefi gofal*<br>1(1) "Gwasanaeth cartref gofal" yw'r ddarpariaeth o lety, ynghyd â nyrsio neu ofal mewn man yng Nghymru, i bersonau oherwydd eu hyglwyfedd neu eu hangen.<br>(2) Ond nid yw llety ynghyd â nyrsio neu ofal a ddarperir yn y mannau a ganlyn yn gyfystyr â gwasanaeth cartref gofal—<br>(a) ysbyty;<br>(b) ysgol (ond gweler is-baragraff (3));<br>(c) canolfan breswyl i deuluoedd;<br>(d) man sy'n darparu gwasanaeth llety diogel;<br>(e) man sy'n darparu llety ar gyfer oedolyn a drefnir fel rhan o wasanaeth lleoli oedolion.<br>(3) Mae llety ynghyd â nyrsio neu ofal a ddarperir mewn ysgol yn gyfystyr â gwasanaeth cartref gofal os, ar yr adeg y darperir llety ar gyfer plant yn yr ysgol—<br>(a) yw llety wedi ei ddarparu yn yr ysgol neu o dan drefniadau a wneir gan berchennog yr ysgol ar gyfer o leiaf un plentyn am fwy na 295 o ddiwrnodau mewn unrhyw gyfnod o 12 mis sy'n dod o fewn y 24 mis blaenorol, neu<br>(b) bwriedir i lety o'r fath gael ei ddarparu ar gyfer o leiaf un plentyn am fwy na 295 o ddiwrnodau mewn unrhyw gyfnod o 12 mis sy'n dod o fewn y 24 mis dilynol.<br><u>(3A) Ond nid yw ysgol sy'n gyfystyr â gwasanaeth cartref gofal yn rhinwedd paragraff (3) yn gyfystyr â gwasanaeth plant o dan gyfyngiad oni bai—</u><br><u>(a) ei bod wedi darparu mwy o ddiwrnodau o lety i blant sy'n derbyn gofal nag i rai nad ydynt yn blant sy'n derbyn gofal am unrhyw gyfnod o 12 mis sy'n dod o fewn y 24 mis blaenorol, neu</u> | 2(c) |

| | |
|---|---|
| (b) ei bod yn bwriadu darparu mwy o ddiwrnodau o lety i blant sy'n derbyn gofal nag i rai nad ydynt yn blant sy'n derbyn gofal am unrhyw gyfnod o 12 mis sy'n dod o fewn y 24 mis dilynol.<br>(3B) Yn is-baragraff (3A), ystyr "plant sy'n derbyn gofal" yw plant sy'n derbyn gofal gan awdurdodau lleol fel y'u disgrifir yn adran 74(1) o Ddeddf 2014.<br>(4) Nid yw'r ddarpariaeth o lety a gofal i blentyn yn gyfystyr â gwasanaeth cartref gofal os yw'r llety a'r gofal yn cael eu darparu gan—<br>(a) person, ac eithrio awdurdod lleol, sydd â chyfrifoldeb rhiant dros y plentyn;<br>(b) perthynas i'r plentyn;<br>(c) rhiant maeth mewn perthynas â'r plentyn (ond gweler hefyd baragraff 5A(3) o Atodlen 7 i Ddeddf Plant 1989 (p. 41).<br>(5) Yn is-baragraff (2)(b), mae i "ysgol" yr ystyr a roddir i "school" gan adran 4 o Ddeddf Addysg 1996 (p.56).<br>(6) Yn is-baragraff (4), mae i "cyfrifoldeb rhiant" yr ystyr a roddir i "parental responsibility" gan adran 3 o Ddeddf Plant 1989 (p. 41).<br>(7) At ddibenion is-baragraff (4) mae person yn rhiant maeth mewn perthynas â phlentyn os yw'r person—<br>(a) yn rhiant maeth awdurdod lleol, neu<br>(b) yn maethu'r plentyn yn breifat. | |
| | |
| **ATODLEN 1A**<br>**(fel y'i cyflwynir gan adran 6C)**<br><br>**GWASANAETHAU PLANT O DAN GYFYNGIAD: TREFNIADAU COFRESTRU TROSIANNOL AR GYFER DARPARWYR GWASANAETHAU PRESENNOL**<br><br>*Y cyfnod trosiannol mewn cysylltiad â gwasanaethau plant o dan gyfyngiad*<br><br>1 (1) Yn yr Atodlen hon, mewn perthynas â gwasanaeth rheoleiddiedig, mae cyfeiriadau at y cyfnod trosiannol yn gyfeiriadau at y cyfnod— | 4(3) |

| | |
|---|---|
| (a) sy'n dechrau â'r diwrnod y daw'r gwasanaeth yn wasanaeth plant o dan gyfyngiad yn rhinwedd dyfodiad adran 6A(1) i rym mewn perthynas â'r gwasanaeth, a<br>(b) sy'n gorffen â'r diwrnod a bennir gan Weinidogion Cymru drwy reoliadau at ddibenion y paragraff hwn.<br>(2) Caiff rheoliadau a wneir o dan is-baragraff (1)(b) bennu diwrnodau gwahanol ar gyfer—<br>(a) mathau gwahanol o wasanaeth plant o dan gyfyngiad;<br>(b) disgrifiadau gwahanol o ddarparwr gwasanaeth (er enghraifft, darparwyr gwasanaethau sy'n arbenigo mewn darparu math penodol o wasanaeth plant o dan gyfyngiad).<br>(3) Ond nid yw is-baragraff (2) yn cyfyngu ar gymhwyso adran 187 mewn perthynas â rheoliadau a wneir o dan is-baragraff (1)(b).<br>(4) Cyn gwneud rheoliadau o dan is-baragraff (1)(b) rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori ag unrhyw bersonau sy'n briodol yn eu barn hwy.<br><br>*Darparwyr gwasanaethau presennol: esemptiad rhag adran 6A(1)*<br><br>2 (1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i ddarparwr gwasanaeth, ac eithrio awdurdod lleol, sydd wedi ei gofrestru—<br>(a) mewn cysylltiad â gwasanaeth cartref gofal a ddarperir mewn man y mae'r gwasanaeth yn cael ei ddarparu'n gyfan gwbl neu'n bennaf i blant ynddo, pan fo'r cyfnod trosiannol yn dechrau mewn cysylltiad â'r gwasanaeth hwnnw;<br>(b) mewn cysylltiad â gwasanaeth maethu, pan fo'r cyfnod trosiannol yn dechrau mewn cysylltiad â'r gwasanaeth hwnnw;<br>(c) mewn cysylltiad â gwasanaeth llety diogel, pan fo'r cyfnod trosiannol yn dechrau mewn cysylltiad â'r gwasanaeth hwnnw.<br>(2) Ac mae'r paragraff hwn yn gymwys i ddarparwr gwasanaeth o'r fath yn ystod y cyfnod trosiannol.<br>(3) I'r graddau y mae darparwr gwasanaeth y mae'r paragraff hwn yn gymwys iddo wedi ei gofrestru mewn cysylltiad â gwasanaeth a ddisgrifir yn is-baragraff (1)(a) i (1)(c) —<br>(a) nid yw cofrestriad y darparwr yn ddarostyngedig ''r gofyniad yn adran 6A(1) (ac mae unrhyw gyfeiriad at y gofyniad hwnnw i'w ddarllen yn unol â hynny), a | |

| | |
|---|---|
| (b) (o ganlyniad) rhaid i'r cofnod yn y gofrestr a gynhelir o dan adran 38 mewn cysylltiad â darparwr ddangos nad yw'r darparwr yn bodloni'r gofyniad yn adran 6A(1).<br>(4) Ond nid yw is-baragraff (3) yn gymwys at ddibenion cais a wneir gan y darparwr gwasanaeth o dan adran 6(1), adran 11(1)(a)(i) nad 11(1)(a)(ii).<br>*Rheoliadau ynghylch darparu gwasanaethau plant o dan gyfyngiad gan ddarparwyr gwasanaethau presennol*<br>3 (1) Caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau wneud darpariaeth sy'n gosod amodau ar ddarparwr gwasanaeth y mae paragraff 2 yn gymwys iddo.<br>(2) Caiff amodau a osodir gan reoliadau o dan is-baragraff (1) gynnwys—<br>(a) cyfyngiadau ar y math o wasanaeth plant o dan gyfyngiad y caiff y darparwr gwasanaeth ei ddarparu;<br>(b) cyfyngiadau ar y disgrifiad o blant sy'n derbyn gofal y caiff y darparwr ddarparu'r gwasanaeth plant o dan gyfyngiad mewn cysylltiad â hwy, er enghraifft drwy gyfeirio at eu hanghenion gofal a chymorth.<br>(3) Mae is-baragraff (4) yn gymwys—<br>(a) pan fo darparwr gwasanaeth yn methu â chydymffurfio ag amodau a osodir gan reoliadau o dan is-baragraff (1), neu<br>(b) yn achos darparwr gwasanaeth a ddisgrifir ym mharagraff 2(1)(b), pan fo'r darparwr yn methu â chydymffurfio â rheoliadau a wneir o dan adran 87 o Ddeddf 2014.<br>(4) Pan fo'r is-baragraff hwn yn gymwys, caiff Gweinidogion Cymru—<br>(a) arfer eu swyddogaethau o dan adran 13 i amrywio cofrestriad y darparwr drwy ddileu'r gwasanaeth neu ddileu man, neu<br>(b) arfer eu swyddogaethau o dan adran 15 i ganslo cofrestriad y darparwr.<br>(5) Cyn gwneud rheoliadau o dan is-baragraff (1) rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori ag unrhyw bersonau sy'n briodol yn eu barn hwy. (6) Yn is-baragraff (2), mae i "bplant sy'n derbyn gofal" yr ystyr a roddir gan adran 74 o Ddeddf 2014." | |

| | |
|---|---|
| (6) Yn is-baragraff (2), ystyr "plant sy'n derbyn gofal" yw plant sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol fel y'u disgrifir yn adran 74(1) o Ddeddf 2014.<br>*Darparwyr gwasanaethau presennol: cais i amrywio cofrestriad*<br>4 (1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys mewn cysylltiad â darparwr gwasanaeth y mae paragraff 2 yn gymwys iddo.<br>(2) Er gwaethaf paragraff 2(3), caiff darparwr gwasanaeth y mae'r paragraff hwn yn gymwys iddo  wneud cais i Weinidogion Cymru i gael ei gofrestru yn ddarostyngedig i'r gofyniad yn adran 6A(1).<br>(3) Rhaid i gais o dan is-baragraff (2) —<br>(a) cynnwys unrhyw wybodaeth a ragnodir er mwyn bodloni Gweinidogion Cymru bod y person yn bodloni'r gofyniad yn adran 6A(1), a<br>(b) bod ar y ffurf ragnodedig.<br>(4) Rhaid i Weinidogion Cymru ganiatáu cais o dan is-baragraff (2) os ydynt wedi eu bodloni—<br>(a) bod y cais—<br>(i) yn cynnwys popeth sy'n ofynnol o dan is-baragraff (3)(a), a<br>(ii) yn bodloni'r gofynion a ragnodir o dan is-baragraff (3)(b), a<br>(b) bod y darparwr yn bodloni'r gofyniad yn adran 6A(1).<br>(5) Mewn unrhyw achos arall rhaid iddynt i Weinidogion Cymru wrthod y cais.<br>(6) Pan fo Gweinidogion Cymru yn caniatáu cais o dan is-baragraff (4), rhaid i Weinidogion Cymru amrywio cofrestriad y darparwr —<br>(a) i ddangos bod y darparwr yn bodloni'r gofyniad yn adran 6A(1), a<br>(b) i osod yr amod yn adran 7(3)(aa) ar gofrestriad y darparwr.<br>(7) Pan fo amrywiad o dan y paragraff hwn yn cymryd effaith, nid yw paragraffau 2(3) a 3 yn gymwys i'r darparwr gwasanaeth.<br>(8) Nid yw amrywiad o dan y paragraff hwn yn cymryd effaith ond os yw gofynion adran 18 i 20 wedi eu bodloni (i'r graddau y maent yn gymwys). | |
| | |

| | |
|---|---|
| **ATODLEN 2 GOFAL CYMDEITHASOL CYMRU**<br><br>*Swyddog cyfrifyddu*<br><br>15 (1) Mae'r prif weithredwr i weithredu fel swyddog cyfrifyddu GCC.<br>(2) Mae gan y swyddog cyfrifyddu, mewn perthynas â chyfrifon a chyllid GCC, y cyfrifoldebau a bennir mewn cyfarwyddyd gan Weinidogion Cymru.<br>(3) Ymhlith y cyfrifoldebau y caniateir eu pennu mae—<br>(a) cyfrifoldebau mewn perthynas â llofnodi cyfrifon;<br>(b) cyfrifoldebau am briodoldeb a rheoleidd-dra cyllid GCC;<br>(c) cyfrifoldebau am ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran defnydd GCC o'i adnoddau;<br>(d) cyfrifoldebau sy'n ddyledus i Weinidogion Cymru, ~~Cynulliad Cenedlaethol Cymru~~ <u>Senedd Cymru</u> neu Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ~~y Cynulliad Cenedlaethol~~ <u>Senedd Cymru</u>;<br>(e) cyfrifoldebau sy'n ddyledus i Dŷ'r Cyffredin neu Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Tŷ hwnnw. | Atodlen 1, paragraff 5 |
| | |
| *Cyfrifon ac archwilio*<br><br>16 (1) Rhaid i GCC ar gyfer pob blwyddyn ariannol—<br><br>(a) cadw cyfrifon priodol a chofnodion priodol mewn perthynas â hwy, a<br><br>(b) llunio datganiad o gyfrifon.<br><br>(2) Rhaid i bob datganiad o gyfrifon gydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddydau a roddir gan Weinidogion Cymru o ran—<br><br>(a) yr wybodaeth sydd i'w chynnwys ynddo,<br><br>(b) ym mha fodd y mae'r wybodaeth i'w chyflwyno, ac<br><br>(c) y dulliau a'r egwyddorion y mae'r datganiad i gael ei lunio yn unol â hwy.<br><br>(3) Heb fod yn hwyrach na 31 Awst ar ôl diwedd pob blwyddyn ariannol, rhaid i GCC gyflwyno ei ddatganiad o gyfrifon i— | Atodlen 1, paragraff 5 |

| | |
|---|---|
| (a) Gweinidogion Cymru, a<br><br>(b) Archwilydd Cyffredinol Cymru.<br><br>(4) Rhaid i Archwilydd Cyffredinol Cymru—<br><br>(a) archwilio'r datganiad o gyfrifon, ei ardystio ac adrodd arno, a<br><br>(b) heb fod yn hwyrach na 4 mis ar ôl i'r datganiad gael ei gyflwyno, gosod gerbron ~~Cynulliad Cenedlaethol Cymru~~ <u>Senedd Cymru</u> gopi o'r datganiad ardystiedig a'r adroddiad. | |

Noder: at ddiben helpu pobl i ddeall Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru) yn unig y mae'r ddogfen hon wedi'i llunio. Ni ddylid dibynnu arni at unrhyw ddiben arall.

# Atodiad 4 – Dileu elw – costau Opsiwn 2 (Senarios A, B ac C) pan gant eu cymhwyso trwy'r cynnig gwreiddiol o gyfnod gweithredu 3 blynedd

Cafodd y tablau canlynol eu cynnwys yng nghyhoeddiad cychwynnol yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol fis Mai diwethaf. Roeddent yn cynrychioli'r costau dileu elw sy'n gysylltiedig â chyfnod gweithredu o dair blynedd (blynyddoedd ariannol 2025/26 i 2027/28). Yn dilyn adolygiad o'r dystiolaeth a ddaeth i law yn ystod proses graffu'r Senedd ar y Bil, mae'r cynigion hyn bellach wedi'u holynu gan y cyfnod gweithredu hyd at 6 mlynedd a gyhoeddwyd gan y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol, ym mis Tachwedd 2024. Maent wedi'u cynnwys yma i roi'r cyd-destun yn llawn ac ar gyfer cyflawnrwydd.

## Opsiwn 2 Senario A

**Tabl A4.1 – Costau Trosiannol Opsiwn 2, Senario A *(£ miloedd)***

7.69 Mae'r tabl yn amlinellu'r costau trosiannol sy'n gysylltiedig â Senario A, lle mae 50 y cant o'r darparwyr er-elw presennol yn gadael y farchnad a 50 y cant yn trosglwyddo i fod yn endid nid-er-elw. O ganlyniad, mae'n rhaid i wasanaethau newydd a grëir gan y sector nid-er-elw ac awdurdodau lleol gyflawni'r capasiti hwn.

Noder: at ddiben helpu pobl i ddeall Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru) yn unig y mae'r ddogfen hon wedi'i llunio. Ni ddylid dibynnu arni at unrhyw ddiben arall.

| | 2023/24 | 2024/25 | 2025/26 | 2026/27 | 2027/28 | 2028/29 | 2029/30 | 2030/31 | 2031/32 | 2032/33 | 2033/34 | 2034/35 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Llywodraeth Cymru** | | | | | | | | | | | | |
| (2.a) Cyllideb polisi | 0 | 22 | 97 | 43 | 205 | 161 | 156 | 136 | 136 | 136 | 136 | 136 |
| **Awdurdodau Lleol** | | | | | | | | | | | | |
| (2.b) Alldro preswyl | 0 | 0 | 9,623 | 1,604 | -6,415 | -6,415 | -6,415 | -6,415 | -6,415 | -6,415 | -6,415 | -6,415 |
| (2.c) Alldro maethu | 0 | 0 | -2,326 | -4,652 | -6,978 | -6,978 | -6,978 | -6,978 | -6,978 | -6,978 | -6,978 | -6,978 |
| *Preswyl newydd* | | | | | | | | | | | | |
| (2.d) Costau cychwyn | 0 | 0 | 11,315 | 11,315 | ,11,315 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| (2.e) Costau cyfalaf | 0 | 0 | 23,800 | 23,800 | 23,800 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| (2.f) Costau cyfreithiol | 0 | 0 | 680 | 680 | 680 | | | | | | | |
| (2.g) Comisiynu | 0 | 0 | 1,700 | 1,700 | 1,700 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| *Maethu newydd* | | | | | | | | | | | | |
| (2.h) Costau cychwyn | 0 | 0 | 750 | 750 | 750 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Rheoleiddwyr** | | | | | | | | | | | | |
| (2.i) AGC | 0 | 0 | 251 | 627 | 627 | 627 | 627 | 627 | 627 | 627 | 627 | 627 |
| **Cyfanswm** | 0 | 22 | 45,890 | 35,867 | 25,683 | -12,606 | -12,611 | -12,631 | -12,631 | -12,631 | -12,631 | -12,631 |

**Tabl A4.2 – Newid mewn alldro Opsiwn 2, Senario A *(£ miloedd)***

7.70 Mae'r tabl hwn yn disgrifio'r amrywiant rhwng Alldro Opsiwn 1 yr awdurdod lleol a'r Alldro Opsiwn 2 disgwyliedig yn ystod (ac yna'n dilyn) y cyfnod trosiannol. Mae'r amrywiant hwn yn ddeinamig i ddechrau gan fod cymarebau darparwyr gwasanaeth, a'r costau cysylltiedig, yn newid dros y cyfnod trosiannol.

| | 2023/24 | 2024/25 | 2025/26 | 2026/27 | 2027/28 | 2028/29 | 2029/30 | 2030/31 | 2031/32 | 2032/33 | 2033/34 | 2034/35 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Amrywiant alldro | 0 | 0 | 7,297 | -3,049 | -13,394 | -13,394 | -13,394 | -13,394 | -13,394 | -13,394 | -13,394 | -13,394 |

**Tabl A4.3 - Cymhariaeth rhwng Opsiwn 1 ac Opsiwn 2 (Senario A) *(£ miloedd)***

7.71 Mae'r tabl hwn yn disgrifio'r amrywiant rhwng cyfanswm costau Opsiwn 1 a chost ddisgwyliedig Opsiwn 2, gan gynnwys costau trosiannol. Dyma gost ddisgwyliedig a mantais ariannol y polisi dileu elw yn y senario hon dros ddeng mlynedd.

| | 2023/24 | 2024/25 | 2025/26 | 2026/27 | 2027/28 | 2028/29 | 2029/30 | 2030/31 | 2031/32 | 2032/33 | 2033/34 | 2034/35 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | (£ 000) | (£ 000) | (£ 000) | (£ 000) | (£ 000) | (£ 000) | (£ 000) | (£ 000) | (£ 000) | (£ 000) | (£ 000) | (£ 000) |
| **Opsiwn 1** | | | | | | | | | | | | |
| Cyfanswm y costau | 350,609 | 350,609 | 350,609 | 350,609 | 350,609 | 350,609 | 350,609 | 350,609 | 350,609 | 350,609 | 350,609 | 350,609 |
| **Costau opsiwn 2** | | | | | | | | | | | | |
| *Trosiannol* | 0 | 22 | 38,593 | 38,915 | 39,076 | 788 | 783 | 763 | 763 | 763 | 763 | 763 |
| *Gweithredol* | 350,609 | 350,609 | 357,906 | 347,560 | 337,215 | 337,215 | 337,215 | 337,215 | 337,215 | 337,215 | 337,215 | 337,215 |
| | | | | | | | | | | | | |
| Gwahaniaeth | 0 | 22 | 45,890 | 35,867 | 25,683 | -12,606 | -12,611 | -12,631 | -12,631 | -12,631 | -12,631 | -12,631 |

## Opsiwn 2 Senario B

**<u>Tabl A4.4 - Costau Trosiannol Opsiwn 2 Senario B *(£ miloedd)*</u>**

7.72 Mae'r tabl yn amlinellu'r costau trosiannol sy'n gysylltiedig â Senario B, lle mae 75 y cant o'r darparwyr er-elw presennol yn gadael y farchnad a 25 y cant yn trosglwyddo i fod yn endid nid-er-elw. O ganlyniad, mae'n rhaid i wasanaethau newydd a grëir gan y sector nid-er-elw ac awdurdodau lleol gyflawni'r capasiti hwn.

| | 2023/24 | 2024/25 | 2025/26 | 2026/27 | 2027/28 | 2028/29 | 2029/30 | 2030/31 | 2031/32 | 2032/33 | 2033/34 | 2034/35 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Llywodraeth Cymru** | | | | | | | | | | | | |
| *(2.a) Cyllideb Polisi* | 0 | 22 | 97 | 43 | 205 | 161 | 156 | 136 | 136 | 136 | 136 | 136 |
| **Awdurdodau lleol** | | | | | | | | | | | | |
| (2.b) Alldro preswyl | 0 | 0 | 12,830 | 802 | -11,227 | -11,227 | -11,227 | -11,227 | -11,227 | -11,227 | -11,227 | -11,227 |
| (2.c) Alldro maethu | 0 | 0 | -3,489 | -6,978 | -10,468 | -10,468 | -10,468 | -10,468 | -10,468 | -10,468 | -10,468 | -10,468 |
| *Preswyl newydd* | | | | | | | | | | | | |
| (2.d) Costau cychwyn | 0 | 0 | 16,973 | 16,973 | 16,973 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| (2.e) Costau cyfalaf | 0 | 0 | 35,700 | 35,700 | 35,700 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| (2.f) Costau cyfreithiol | 0 | 0 | 1,020 | 1,020 | 1,020 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| (2.g) Comisiynu | 0 | 0 | 2,550 | 2,550 | 2,550 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| *Maethu newydd* | | | | | | | | | | | | |
| (2.h) Costau cychwyn | 0 | 0 | 1,125 | 1,125 | 1,125 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Rheoleiddwyr** | | | | | | | | | | | | |
| (2.i) AGC | 0 | 0 | 251 | 627 | 627 | 627 | 627 | 627 | 627 | 627 | 627 | 627 |
| **CYFANSWM** | **0** | **22** | **67,057** | **51,861** | **36,506** | **-20,906** | **-20,911** | **-20,931** | **-20,931** | **-20,931** | **-20,931** | **-20,931** |

**Tabl 7.16 – Newid mewn alldro Opsiwn 2, Senario B *(£ miloedd)***

| | 2023/24 | 2024/25 | 2025/26 | 2026/27 | 2027/28 | 2028/29 | 2029/30 | 2030/31 | 2031/32 | 2032/33 | 2033/34 | 2034/35 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | (£ 000) | (£ 000) | (£ 000) | (£ 000) | (£ 000) | (£ 000) | (£ 000) | (£ 000) | (£ 000) | (£ 000) | (£ 000) | (£ 000) |
| Amrywiant alldro | 0 | 0 | 9,341 | -6,177 | -21,694 | -21,694 | -21,694 | -21,694 | -21,694 | -21,694 | -21,694 | -21,694 |

**Tabl A4.6 - Cymhariaeth rhwng Opsiwn 1 ac Opsiwn 2 (Senario B) *(£ miloedd)***

7.73 Mae'r tabl hwn yn disgrifio'r amrywiant rhwng cyfanswm costau Opsiwn 1 a chost ddisgwyliedig Opsiwn 2, senario B, gan gynnwys costau trosiannol. Dyma gost ddisgwyliedig a mantais ariannol y polisi dileu elw yn y senario hon dros ddeng mlynedd.

| | **2023/24** | **2024/25** | **2025/26** | **2026/27** | **2027/28** | **2028/29** | **2029/30** | **2030/31** | **2031/32** | **2032/33** | **2033/34** | **2034/35** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | (£ 000) | (£ 000) | (£ 000) | (£ 000) | (£ 000) | (£ 000) | (£ 000) | (£ 000) | (£ 000) | (£ 000) | (£ 000) | (£ 000) |
| **Opsiwn 1** | 350,609 | 350,609 | 350,609 | 350,609 | 350,609 | 350,609 | 350,609 | 350,609 | 350,609 | 350,609 | 350,609 | 350,609 |
| **Costau opsiwn 2** | | | | | | | | | | | | |
| *Trosiannol* | 0 | 22 | 57,716 | 58,038 | 58,200 | 788 | 783 | 763 | 763 | 763 | 763 | 763 |
| *Gweithredol* | 350,609 | 350,609 | 359,950 | 344,432 | 328,915 | 328,915 | 328,915 | 328,915 | 328,915 | 328,915 | 328,915 | 328,915 |
| | | | | | | | | | | | | |
| **Gwahaniaeth** | **0** | **22** | **67,057** | **51,861** | **36,506** | **-20,906** | **-20,911** | **-20,931** | **-20,931** | **-20,931** | **-20,931** | **-20,931** |

# Opsiwn 2 Senario C

**Tabl A4.7 - Costau Trosiannol Opsiwn 2 Senario C *(£ miloedd)***

7.74 Mae'r tabl yn amlinellu'r costau trosiannol sy'n gysylltiedig â Senario C, lle mae'r holl ddarparwyr er-elw presennol yn gadael y farchnad. O ganlyniad, mae'n rhaid i wasanaethau newydd a grëir gan y sector nid-er-elw ac awdurdodau lleol gyflawni'r capasiti hwn.

| | 2023/24 | 2024/25 | 2025/26 | 2026/27 | 2027/28 | 2028/29 | 2029/30 | 2030/31 | 2031/32 | 2032/33 | 2033/34 | 2034/35 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | (£ 000) | (£ 000) | (£ 000) | (£ 000) | (£ 000) | (£ 000) | (£ 000) | (£ 000) | (£ 000) | (£ 000) | (£ 000) | (£ 000) |
| **Gwariant** | | | | | | | | | | | | |
| **Llywodraeth Cymru** | | | | | | | | | | | | |
| *Cyllideb* | 0 | 22 | 97 | 43 | 205 | 161 | 156 | 136 | 136 | 136 | 136 | 136 |
| **Awdurdodau lleol** | | | | | | | | | | | | |
| Alldro preswyl | 0 | 0 | 16,038 | 0 | -16,038 | -16,038 | -16,038 | -16,038 | -16,038 | -16,038 | -16,038 | -16,038 |
| Alldro maethu | 0 | 0 | -4,652 | -9,305 | -13,957 | -13,957 | -13,957 | -13,957 | -13,957 | -13,957 | -13,957 | -13,957 |
| *Gwasanaethau preswyl newydd* | | | | | | | | | | | | |
| Costau cychwyn | 0 | 0 | 22,630 | 22,630 | 22,630 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Costau cyfalaf | 0 | 0 | 47,600 | 47,600 | 47,600 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Costau cyfreithiol | 0 | 0 | 1,360 | 1,360 | 1,360 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Comisiynu | 0 | 0 | 3,400 | 3,400 | 3,400 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| *Gwasanaethau maethu newydd* | | | | | | | | | | | | |
| Costau cychwyn | 0 | 0 | 1,500 | 1,500 | 1,500 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Rheoleiddwyr** | | | | | | | | | | | | |
| AGC | 0 | 0 | 251 | 627 | 627 | 627 | 627 | 627 | 627 | 627 | 627 | 627 |
| **Cyfanswm** | 0 | 0 | 88,224 | 67,856 | 47,327 | -29,207 | -29,212 | -29,232 | -29,232 | -29,232 | -29,232 | -29,232 |

Noder: at ddiben helpu pobl i ddeall Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru) yn unig y mae'r ddogfen hon wedi'i llunio. Ni ddylid dibynnu arni at unrhyw ddiben arall.

**Tabl A4.8 - Newid mewn alldro Opsiwn 2, Senario C**

| | 2023/24 | 2024/25 | 2025/26 | 2026/27 | 2027/28 | 2028/29 | 2029/30 | 2030/31 | 2031/32 | 2032/33 | 2033/34 | 2034/35 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | (£ 000) | (£ 000) | (£ 000) | (£ 000) | (£ 000) | (£ 000) | (£ 000) | (£ 000) | (£ 000) | (£ 000) | (£ 000) | (£ 000) |
| Amrywiant alldro | 0 | 0 | 11,386 | -9,305 | -29,995 | -29,995 | -29,995 | -29,995 | -29,995 | -29,995 | -29,995 | -29,995 |

**Tabl A4.9 - Cymhariaeth rhwng Opsiwn 1 ac Opsiwn 2, Senario C, gan gynnwys costau trosiannol *(£ miloedd)***

7.75 Mae'r tabl hwn yn disgrifio'r amrywiant rhwng cyfanswm costau Opsiwn 1 a chost ddisgwyliedig Opsiwn 2, senario C, gan gynnwys costau trosiannol. Dyma gost ddisgwyliedig a mantais ariannol y polisi dileu elw yn y senario hon dros ddeng mlynedd.

| | 2023/24 | 2024/25 | 2025/26 | 2026/27 | 2027/28 | 2028/29 | 2029/30 | 2030/31 | 2031/32 | 2032/33 | 2033/34 | 2034/35 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Costau opsiwn 1** | 350,609 | 350,609 | 350,609 | 350,609 | 350,609 | 350,609 | 350,609 | 350,609 | 350,609 | 350,609 | 350,609 | 350,609 |
| **Costau opsiwn 2** | | | | | | | | | | | | |
| *Trosiannol* | 0 | 22 | 76,838 | 77,160 | 77,322 | 788 | 783 | 763 | 763 | 763 | 763 | 763 |
| *Gweithredol* | 350,609 | 350,609 | 361,995 | 341,304 | 320,614 | 320,614 | 320,614 | 320,614 | 320,614 | 320,614 | 320,614 | 320,614 |
| | | | | | | | | | | | | |
| **Gwahaniaeth** | 0 | 22 | 88,224 | 67,856 | 47,327 | -29,207 | -29,212 | -29,232 | -29,232 | -29,232 | -29,232 | -29,232 |